



Cyfarfod

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Dyddiad ac Amser

10.00 y.b., DYDD IAU, 21AIN MAI, 2026

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

*** NODER ***

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679878

Lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 14 Mai 2026)

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

AELODAETH (18)

Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Geraint Wyn Parry
Arwyn Herald Roberts
Meryl Roberts

Ioan Thomas
Menna Baines
Huw Rowlands

Edgar Wyn Owen
Elfed Wyn ap Elwyn

Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

Wendy Cleaver
Richard Glyn Roberts

Angela Russell
Elwyn Jones

Aelodau Lleyg (6)

Elwyn Rhys Parry
Carys Edwards
Hywel Eifion Jones
Peter Barnes
Paul Millar Mills
Dewi Lewis

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

R H A G L E N

1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2026 / 2027

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2026 / 2027

3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

6. COFNODION

6 - 26

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 15fed o Ionawr 2026 a'r 3ydd o Chwefror 2026, fel rhai cywir

7. GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR

27 - 44

I ystyried yr adroddiad a chynnig sylwadau.

8. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2025/26

45 - 64

I ystyried a derbyn yr adroddiad

9. CYFRIFON TERFYNOL 2025/26 - ALLDRO REFENIW

65 - 93

Derbyn y wybodaeth, ystyried unrhyw risgiau sy'n deillio o'r gwir wariant ac incwm yn erbyn cyllideb 2025/26.

10. RHAGLEN GYFALAF 2025-26 - ADOLYGIAD DIWEDD BLWYDDYN (SEFYLLFA 31 MAWRTH 2026)

94 - 108

I dderbyn y wybodaeth, ac ystyried y risgiau yn ymwneud â'r rhaglen gyfalaf

11. CYFRIFON TERFYNOL HARBYRAU GWYNEDD AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2026

109 - 117

Cyflwyno:

- Adroddiad Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2025/26

- Ffurflen Swyddogol Flynyddol o'r Cyfrifon, wedi'i ardystio, ond cyn Archwiliad

I dderbyn a chymeradwyo'r cyfrifon

12. ADRODDIAD CHWARTEROL RHEOLAETH TRYSORLYS 118 - 124

I ystyried yr adroddiad fel gwybodaeth

13. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL 125 - 165

I ystyried a derbyn yr adroddiad hwn ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod hyd 31 Mawrth 2026, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

14. ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 166 - 179 2025 - 2026

I ystyried a derbyn yr adroddiad

15. TROTHWYON CAFFAEL AC ADDASIADAU I'R RHEOLIADAU 180 - 205 GWEITHDREFN CONTRACTAU

I ystyried a chymeradwyo'r adroddiad

16. ARCHWILIO CYMRU - CRYNODEB ARCHWILIO BLYNYDDOL 206 - 245 2025 A CHYNLLUN ARCHWILIO MANWL 2026 CYNGOR GWYNEDD

I ystyried yr adroddiad, cynnig sylwadau a derbyn y dogfennau

17. ARCHWILIO CYMRU - CYFRIFON GWE 246 - 262

I ystyried a derbyn yr adroddiad

18. ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU 263 - 385

I ystyried a derbyn adroddiadau sydd wedi eu cyhoeddi yn ddiweddar gan Archwilio Cymru

- Y Blociau Adeiladu? Cynllunio Cyfalaf mewn Cynghorau yng Nghymru
- Anghenion Dysgu Ychwanegol – Ydy cyrff cyhoeddus yn gwybod a yw'r system yn gweithio?

19. DIWEDDARIAD ADRODDIAD ARCHWILIAD ARBENNIG - GOFAL 386 - 388 CARTREF

I ystyried yr adroddiad a derbyn y diweddariad

20. BLAENRAGLEN Y PWYLLGOR 389 - 391

I ystyried y flaen raglen

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 3ydd o Chwefror 2026

Presenoldeb: Cadeirydd: Carys Edwards
Is-gadeirydd: Rhys Parry

Cynghorwyr: Menna Baines, Elwyn Jones, Edgar Wyn Owen, Geraint Parry, Arwyn Herald Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Rowlands, Ioan Thomas ac Elfed Wyn ap Elwyn

Aelodau Lleyg: Eifion Jones, Dewi Lewis, Peter Barnes a Paul Millar-Mills

Swyddogion: Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), Luned Fôn (Rheolwr Archwilio), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Caren Rees Jones (Cyfrifydd Grŵp - Cyfalaf a Rheolaeth), David Lloyd Williams (Cyfrifydd Grŵp), Heledd Thomas (Uwch Gyfrifydd - Adnoddau a Chorfforaethol), Nel Povey ac Alaw Jones (Cynllun Yfory - Hyfforddai Proffesiynol Cyllid a Chyfrifeg), a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

Eraill a wahoddwyd: Cyng. Huw Wyn Jones (Aelod Cabinet Cyllid)

Eitem 11: Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), a Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg),

Eitem 12: Arwel Evans (Rheolwr Caffael)

Eitem 13: Lora Gwawr (Archwilio Cymru), Dewi Wyn Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor) a Colleen Pritchard (Rheolwr Digartrefedd a Chefnogaeth)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Angela Russell a Meryl Roberts

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

3. MATERION BRYS

Pryder nad oes capasiti digonol gan yr Uned Archwilio Mewnol i gwrdd â disgwyliadau'r Cyngor

PENDERFYNIAD:

- Derbyn adroddiad gan y Pennaeth Cyllid yn amlygu'r sefyllfa a'r risgiau posib
- Angen sicrwydd bod y gwaith sydd angen ei gyflawni gan Archwilio Mewnol yn parhau i fod o safon uchel

4. GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR

Cyflwynwyd adroddiad oedd yn rhoi amlinelliad o sut mae adrannau'r Cyngor wedi ymateb i benderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel bod modd i'r Aelodau gael sicrwydd bod eu penderfyniadau yn cael sylw. Nodwyd bod yr adroddiad yn rhoi cyfle i'r Aelodau ystyried y penderfyniad a wnaed gyda bwriad o ddileu'r eitem / penderfyniad pan fydd y weithred wedi cwblhau.

Diolchwyd am yr adroddiad

PENDERFYNWYD

- **Derbyn cynnwys yr adroddiad**

5. CYLLIDEB 2026/27

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod Cabinet Cyllid yn nodi fod y Cyngor wedi derbyn cynnydd grant Llywodraeth o 4.1% ar gyfer 2026/27, sy'n cyfateb i gynnydd gwerth £10.4m mewn ariannu allanol. Adroddwyd y byddai nifer o ffactorau yn creu pwysau gwariant ychwanegol ar wasanaethau'r Cyngor yn 2026/27 gyda'r angen i gynyddu gwariant o £23.3m i gwrdd â phwysau ar gyllidebau'r gwasanaethau. Gyda phwysau mewn galw ar wasanaethau yn ogystal â chwyddiant uchel, nodwyd y bydd argymhelliad i gynnyddu Treth Cyngor o 5.32% i gyflawni'r amcan eleni gyda rhagolygon yn awgrymu bydd pwysau pellach wrth anelu i osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2027/28.

Amlygwyd mai rôl y Pwyllgor oedd sicrhau bod y Cabinet a'r Cyngor yn glir o'r ffeithiau oedd wedi eu cyflwyno iddynt fel bod y penderfyniad fydd yn cael ei gymryd ganddynt yn seiliedig ar wybodaeth gadarn.

Gwahoddwyd y Pennaeth Cyllid yn ei rôl fel swyddog cyllid statudol i gyflwyno'r wybodaeth, i fynegi ei farn a manylu ar gadernid yr amcangyfrifon oedd yn sail i'r gyllideb ynghyd a'r risgiau posib a'r camau lliniaru.

Amlygodd y bydd y Cabinet (cyfarfod 10/02/26) yn argymhell i'r Cyngor Llawn (05/03/26) i sefydlu cyllideb o £379,866,050 ar gyfer 2026/27 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £264,009,390 a £115,856,660 o incwm o'r Dreth Cyngor (sydd yn gynnydd o 5.32%) a sefydlu rhaglen gyfalaf o £40,179,430 yn 2026/27.

Eglurwyd bod Gofynion Gwario Ychwanegol wedi eu hystyried yn y gyllideb ac amlygwyd y meysydd hynny;

- Chwyddiant Cyflogau o £8.3m - amcan gynnydd cytundeb tâl 2026/27 4% ar gyfer athrawon a 3.4% ar gyfer gweddill y gweithlu
- Chwyddiant cyflenwyr £6,075,390
- Cynnydd mewn Ardollau i gyrff perthnasol - £528,810
- Pwysau ar Wasanaethau - argymhell cymeradwyo bidiau gwerth £9,910,580 am adnoddau referniw parhaol ychwanegol a gyflwynwyd gan adrannau'r Cyngor i gwrdd â phwysau anorfod ar eu gwasanaethau, a bidiau cyfalaf gwerth £840,010
- Gwrthdroi Grant Yswiriant Gwladol Cyflogwr 2025/26 - £3,632,950

Yng nghyd-destun y cynlluniau arbedion, cyfeiriwyd at gynlluniau arbedion gwerth £320,500 oedd yn deillio o raglenni arbedion blaenorol ac eisoes wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor i leihau'r bwlch ariannol.

Adroddwyd y byddai angen cyfarch gweddill y bwlch drwy'r Dreth Cyngor ac o ganlyniad bydd y Cabinet yn argymhell i'r Cyngor Llawn i godi'r dreth 5.32% er mwyn diwallu'r pwysau ar wasanaethau wrth osod cyllideb gytbwys.

Cyfeiriwyd at y gwaith gofynnol a wnaed i adrodd ar gadernid yr amcangyfrifon sydd yn sail i'r gyllideb, ac wedi ystyried yr holl risgiau a'r camau lliniaru roedd y Pennaeth Cyllid o'r farn fod Cyllideb y Cyngor ar gyfer 2026/27 yn gadarn, yn ddigonol a chyraeddadwy.

Diolchwyd am y cyflwyniad ac i'r staff am eu gwaith. Calongol oedd gweld bod y sefyllfa yn well na'r hyn oedd wedi ei amcangyfrif o ganlyniad i gynnydd grant Llywodraeth Cymru.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Bod gorwariant adrannau yn parhau yn bryder
- Bod angen cefnogi darpariaeth gofal y Sir - bod defnyddio darpariaeth allanol yn gostus. Angen i'r Cyngor roi cynlluniau darpariaeth fewnol mewn lle fyddai yn arwain at arbediad yn y dyfodol
- Rhestr bidiau cyfalaf - cynllun i ymestyn maes parcio Ysgol y Faenol. Cais gan yr Aelod Lleol am fanylion pellach ynglŷn â rhesymau dros lithrad amser (dyddiad gwreiddiol 2021) a'r costau ynghlwm â'r llithriad
- Datganiad y Swyddog Cyllid - 'anochel bod y gyllideb yn cynnwys elfen o risg o ragdybiaethau' ... a oes cynlluniau mewn lle petai ostyngiad yng nghasgliadau premiwm tai, ond cynnydd yn y galw am adeiladu tai?
- Awgrym i gyflwyno gwybodaeth am dreth y Cyngor mewn gwerth ariannol (£) yn hytrach na chanran (%) yn unig

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r gostyngiad pensiwn a pham bod penderfyniad wedi ei wneud i gymryd yr arbediad o £3 miliwn mewn un flwyddyn yn hytrach na £1 miliwn dros dair blynedd, nodwyd mai'r dewis oedd lleihad o 1% bob blwyddyn neu gymryd yr arbediad o £3 miliwn yn llawn. Ystyriwyd mai dyma oedd yr opsiwn orau gyda phosibilrwydd y bydd mwy na £3 miliwn oherwydd nad oedd y ffigyrau terfynol wedi eu rhyddhau.

Mewn ymateb i gwestiwn yn ymwneud a'r arian ychwanegol a dderbyniodd Cyngor Gwynedd gan Llywodraeth Cymru ac os oedd wedi gwella safle y Cyngor yn y tabl dyraniad fesul Awdurdod, a pha wahaniaeth fyddai'r arian yn ei wneud i Wynedd, nodwyd nad oedd y dull dyrannu wedi newid, ac felly Cyngor Gwynedd yn parhau yn safle 20 allan o 22. Ategwyd bod cyfanswm cyfradd cynnydd setliad ariannol Llywodraeth Cymru i Awdurdodau Cymru yn 4.5% tra bod Cyngor Gwynedd wedi derbyn llawr o 4.1%. Er hynny, yr arian ychwanegol yn gymorth i ardaloedd gwledig, i gyllidebau adrannau sydd dan bwysau ac i ryddhau pwysau o orfod gweithredu arbedion ar gyfer 2026/27.

Mewn ymateb i sylw bod Cyngor Gwynedd yn codi llai o dreth cyngor na Chynghorau cyfagos a Chynghorau cyfagos yn talu gwell cyflogau i staff ac os felly, a yw hyn yn gwneud Cyngor Gwynedd yn awdurdod drud i'w redeg, nodwyd bod gwraidd y mater yn un hanesyddol ac yn mynd yn ôl i 1996, pan ailstrwythurwyd Cyngor Gwynedd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994. Ar y pryd, gosodwyd gwaelodlin / fformiwla ddyrys ar gyfer gwariant gyda nifer o gydrannau yn plethu ffactorau unigol megis poblogaeth, natur poblogaeth, oed, a thirwedd i gynnwys rhai.

Yng nghyd-destun y nifer o Gynghorwyr sydd gan y Sir, ynghyd ar nifer Aelodau Lleyg, a pham nad oedd cyfanswm eu cyflogau yn ymddangos ar y gyllideb, nodwyd bod y swm wedi ei gynnwys yn y gyllideb, ond nid yn yr adroddiad blaen. Ategodd bod nifer Cynghorwyr fesul Awdurdod yn cael ei benderfynu gan gorff allanol.

Yng nghyd-destun dyraniad cyllid ar gyfer cefnogi a datblygu'r economi yng Ngwynedd a chynlluniau i ddenu gwaith i'r Sir, nodwyd bod cyllideb ar gyfer ariannu tîm craidd yr Adran Economi, ond bod cynlluniau cyfalaf a ffynonellau ariannol eraill ar gael ar gyfer gwariant. Ategwyd bod Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd hefyd yn arwain ar y Cynllun TWF.

Yng nghyd-destun risg a sut yr oedd risg yn cael ei gyfrifo wrth osod y gyllideb, nodwyd bod sefyllfa risg yn un hyblyg sydd yn cael ei fonitro yn rheolaidd, ond petai gostyngiad bach mewn cyfrifo risg byddai arbediad bychan posib ymhen blynnyddoedd.

Amlygwyd pryder bod cronfa arian wrth gefn yn lleihau a bod y ganran ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yma yn cynrychioli tua 1.3% o wariant refeniw gros y Cyngor. Pwysleiswyd nad yw'r swm yn y gronfa wedi gostwng, ond ei fod wedi lleihau fel canran o wariant y Cyngor dros y blynnyddoedd diwethaf gan nad oes arian wedi ei ychwanegu iddo chwaith. Ategwyd

bod y Cyngor yn adolygu'r Strategaeth Ariannol ac yn bwriadu gweithredu ymarferiad cynaeafu.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â bwriad i ddatblygu / gwella darpariaethau Cartrefi Preswyl yng Ngwynedd ac os oedd cynlluniau ar y gweill i sicrhau bod yr adeiladau yn addas i bwrpas, nodwyd bod y Cyngor wedi comisiynu Housing LIN Cymru i ymchwilio i sefyllfa anghenion poblogaeth y Sir ac y bydd adroddiad o'r canfyddiadau i'w ddisgwyl ymhén rhyw 6 wythnos.

PENDERFYNWYD:

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r cynnwys**
- **Derbyn priodoldeb ariannol y cynigion a'r risgiau perthnasol**
- **Cyflwyno sylwadau o'r drafodaeth i'r Cabinet eu hystyried wrth drafod a chymeradwyo Cyllideb 2026/27 yn eu cyfarfod 10/02/26**
- **Diolch i'r Adran Cyllid am y gwaith trylwyr o baratoi'r Gyllideb**
- **Sefyllfa gorwariant yn bryderus**
- **Pryder bod y gronfa wrth gefn yn lleihau – croesawu ymarferiad cynhaeafu**
- **Cynlluniau datblygu / gwella darpariaethau Cartrefi Preswyl yng Ngwynedd - cais i ganfyddiadau ymchwiliad Housing LIN Cymru gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor**

Nodyn:

- Rhestr bidiau cyfalaf - cynllun i ymestyn maes parcio Ysgol y Faenol. Cais gan yr Aelod Lleol am fanylion pellach ynglŷn â rhesymau dros lithrad amser (dyddiad gwreiddiol 2021) a'r costau ynghlwm â'r llithriad
- Awgrym i gyflwyno gwybodaeth am dreth y Cyngor mewn gwerth ariannol (£) yn hytrach na chanran (%) yn unig
- Datganiad y Swyddog Cyllid - 'anochel bod y gyllideb yn cynnwys elfen o risg o ragdybiaethau' ... a oes cynlluniau mewn lle petai ostyngiad yng nghasgliadau premiwm tai, ond cynnydd yn y galw am adeiladu tai?

6. STRATEGAETH GYFALAF 2026/27 (YN CYNNWYS STRATEGAETH BUDDSODDI A BENTHYG)

Cyflwynwyd y Strategaeth gan y Rheolwr Buddsoddi. Nodwyd bod y Strategaeth yn rhoi trosolwg ar weithgareddau Cyfalaf a Rheolaeth Trysorlys y Cyngor am y flwyddyn 2026/27, gan ategu bod yr Aelodau wedi cael gwahoddiad i gyflwyniad diweddar gan yr ymgynghorwyr ariannol, Arlingclose yn egluro'r manylder tu ôl i'r strategaeth mewn modd dealladwy a chynhwysfawr.

Cyfeiriwyd at drosolwg o'r weithgareddau cyfalaf a tynnwyd sylw bod y Cyngor yn bwriadu gwneud gwariant cyfalaf o £40.2miliwn yn 26/27 gyda'r prif gynlluniau wedi ei rhestru yn yr adroddiad ynghyd a'r ffynonellau ariannu. Nodwyd mai'r ffynonellau allanol yn bennaf yw Llywodraeth Cymru ac adnoddau Cyngor Gwynedd yw'r cronfeydd gyda gweddill o'r arian yn dod trwy fenthyciad fydd yn cael ei dalu nôl dros nifer o flynyddoedd, fel arfer o adnoddau refeniw neu o incwm gwerthiant asedau sydd yn gyson gyda gweithred y blynyddoedd blaenorol. Golygai hyn y bydd y dangosydd - Gofyn Cyllido Cyfalaf y Cyngor, yn £189.8 miliwn erbyn diwedd blwyddyn ariannol 26/27, sef y lefel y dylai benthyg tymor hir y Cyngor aros odditano.

Yng nghyd-destun y Strategaeth Fenthycia, amlygwyd yn ddiweddar nad oes gofyn benthyca tymor hir wedi bod, dim ond tymor byr ar gost isel dros ddiwedd y flwyddyn ariannol; bydd hyn am barhau gyda dim benthyca tymor hir yn cael ei ragweld ar gyfer gweithgareddau Cyngor Gwynedd, a bod dyled y Cyngor yn aros o dan y Gofyn Cyllido Cyfalaf.

Cyfeiriwyd at y Meincnod Ymrwymadau sydd bellach yn cael eu hadrodd yn chwarterol i'r Pwyllgor. Bydd y Cyngor yn disgwyl i'w fenthyciadau fod yn uwch na'i feincnod ymrwymiad hyd ar 2026 oherwydd bod gan y Cyngor lefel uchel o reserfau.

Yng nghyd-destun Strategaeth Buddsoddi, nodwyd mai polisi'r Cyngor yw blaenoriaethu diogelwch a hylifedd dros gynnyrch i sicrhau bod arian ar gael i dalu am wasanaethau'r Cyngor. Nodwyd bod symiau yn cael eu cadw drwy'r adeg i sicrhau hylifedd parhaus.

Cyfeiriwyd at rheolaeth risg a llywodraethu ynghyd â manylder ymrwymadau tymor hir y Cyngor e.e., unioni diffyg y Gronfa Bensiwn, ac effaith o'r costau ariannu i'r llif arian lle gwelir bod y ganran yn isel ac yn eithaf cyson gyda blynyddoedd blaenorol. Cadarnhawyd hefyd bod y wybodaeth a sgiliau perthnasol gan y swyddogion a chadarnhad mai Arlingclose sydd yn darparu gwasanaeth ymgynghorwyr ariannol i'r Cyngor.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad, nodi'r wybodaeth a'r risgiau a chefnogi bwriad yr Aelod Cabinet Cyllid i gyflwyno'r strategaeth i'r Cyngor llawn am gymeradwyaeth ar y 5ed o Fawrth 2026

Diolchwyd am yr adroddiad

PENDERFYNWYD:

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r wybodaeth a'r risgiau perthnasol**
- **Cefnogi bwriad yr Aelod Cabinet Cyllid i gyflwyno'r Strategaeth i'r Cyngor Llawn am gymeradwyaeth ar y 5ed o Fawrth 2026**
- **Bod cyflwyniad calonogol gan Arlingclose, Ymgynghorwr Rheolaeth Trysorlys y Cyngor (30-01-2026) wedi bod yn fuddiol iawn, ac wedi rhoi hyder a sicrwydd i'r Aelodau bod y Cyngor ar y trywydd cywir**

7. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad gan Reolwr Archwilio Mewnol yn diweddar i'r Pwyllgor ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 29 Medi 2025 hyd 25 Ionawr 2026. Amlygwyd bod 21 o Adroddiadau am Archwiliadau Cynllun Gweithredu 2025/26 wedi eu cwblhau gyda dau gynllun yn dangos lefel sicrwydd uchel, naw ohonynt yn dangos lefel sicrwydd digonol a deg yn dangos lefel sicrwydd cyfyngedig. Ategwyd bod 15 cynllun ar y gweill ar Ionawr 25ain 2026.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau:

- Yn derbyn bod diffyg adnoddau yn cael effaith ar wasanaethau, ond yn gyffredinol bod nifer o'r diffygion, yn enwedig ym maes Gofal Anableddau Dysgu a Chartrefi Preswyl a Dydd, yn gamgymeriadau mewn cyflawni prosesau yn gywir.
- Pwy sydd yn gyfrifol am yr atebolrwydd? Pwy yw'r person cyfrifol?
- Yn teimlo rhwystredigaeth nad oes gwelliant amlwg mewn rheoli a chynnal cartrefi gofal – disgwyliadau ddim yn cael eu cyfarch
- Yn derbyn yr argymhellion, er angen sicrwydd bod sylwadau Archwilio Mewnol yn cael eu hystyried. Y sefyllfa angen sylw pellach.
- Archwiliad Coed yn Syrthio; coed risg uchel – oes angen nodi 'amodi cyfyngiadau adnoddau' fel rheswm dros beidio ymateb? Dylai diogelwch y cyhoedd fod yn flaenoriaeth lle bynnag mae'r risg
- Bod angen parhau i gadw llygad ar y cynlluniau

Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd Rheolwr Archwilio Mewnol mai gwaith Archwilio Mewnol yw amlygu'r risgiau a thystiolaethu bod trefniadau mewn lle, ac mai perchnogaeth yr

Adrannau yw'r camau gweithredu. Ym maes Gofal, nodwyd bod y pwysau cynyddol yn cael eu cydnabod (diffyg adnoddau, cyflogau, gwariant taliadau i asiantaethau), a bod cwestiynau yn cael eu gofyn ynglŷn â be all ei wneud i liniaru'r risgiau hyn. Ategodd byddai galw Gweithgor Gwella Rheolaethol yn gyfle da i drafod y sefyllfa mewn manylder a chael gwell dealltwriaeth. Ategodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod rhai o'r agweddau yn cael eu gweithredu a bod canfyddiadau arolwg diweddar i ddarpariaeth gofal preswyl Tan y Marian gan Arolygaeth Gofal Cymru (05-09-26) wedi bod yn dda iawn, ac nad oedd argymhelliad wedi ei gynnwys yn yr arolwg hwnnw. Er hynny, derbyniwyd bod Archwilio Mewnol yn edrych ar bethau gwahanol (elfennau gweinyddol) a bod angen sicrywdd bod darlun llawn o'r sefyllfa yn cael ei adlewyrchu.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn a defnydd staff asiantaeth, nodwyd bod staff asiantaeth yn cael eu defnyddio, ac er bod ymgais yn cael ei wneud i osgoi defnyddio staff asiantaeth oherwydd y gost uchel, bod y Cyngor yn cael ei roi mewn sefyllfa o orfod gwneud ar adegau.

PENDERFYNWYD

- **Derbyn yr adroddiad a chefnogi'r gweithrediadau sydd eisoes wedi eu cytuno gyda'r gwasanaethau perthnasol**
- **O ganlyniad i ddiffyg gwelliant yn y maes gofal preswyl mewn trefniadau addas ar gyfer rheoli'r cartrefi yn briodol a diffyg cydymffurfiaeth gyda phrosesau rheolaethol, y Pwyllgor angen sicrywdd bod sylwadau Archwilio Mewnol yn cael eu hystyried. Y sefyllfa angen sylw pellach.**

8. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2025/26

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad gan y Rheolwr Archwilio yn diweddarau'r Pwyllgor ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau Cynllun Archwilio Mewnol 2025/26 Cyfeiriwyd at statws y gwaith ynghyd a'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad. Amlygwyd bod 54%, allan o'r 50 archwiliad unigol yng nghynllun diwygiedig 2025/26, bod 27 wedi ei ryddhau yn derfynol/cwblhau neu wedi cau.

Yn unol ag arfer gorau a Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang, nodwyd bod y Cynllun yn destun adolygiad parhaus i sicrhau ei fod yn parhau'n gyfredol ac yn adlewyrchu newidiadau yn y busnes. I'r perwyl hyn, mae'n ofynnol bod y Cynllun Archwilio yn hyblyg, yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n parhaus, ac y bydd cynnal archwiliadau yn ddibynnol ar asesiad amserol o risgiau / blaenoriaethau ac unrhyw ddatblygiadau neu risgiau newydd a ddaw i'r amlwg.

Diolchwyd am yr adroddiad

PENDERFYNWYD:

- **Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad**

9. SIARTER ARCHWILIO MEWNOL

Yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) rhaid llunio Siarter Archwilio Mewnol gyda chynnwys y Siarter yn cyfarch Nodyn Gweithredu Llywodraeth Leol a'r Cod Ymarfer ar gyfer Llywodraethu Archwilio Mewnol yn Llywodraeth Leol y DU (y Cod) a ddarparwyd gan CIPFA i gefnogi awdurdodau i sefydlu eu trefniadau archwilio mewnol a darparu goruchwyliaeth a chefnogaeth ar gyfer archwilio mewnol.

Eglurwyd bod y Cod yn nodi mai prif weithredwr / rheolwr archwilio mewnol sydd â chyfrifoldeb dros baratoi siarter sy'n cydymffurfio â GIAS yn sector cyhoeddus y DU ac y

dylai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cael ei fodloni ei fod yn cwmpasu trefniadau llywodraethu ar gyfer archwilio mewnol. Ategwyd bod rhaid i'r Siarter gynnwys elfennau sy'n sicrhau swyddogaeth wedi ei diffinio'n glir ac effeithiol - **mandad** sy'n nodi'n glir bwrpas a chenhadaeth y swyddogaeth archwilio mewnol; bod **diffiniadau** o'r termau 'bwrdd' ac 'uwch reolwyr', at ddibenion y swyddogaeth archwilio mewnol a bod y term **Sefyllfa Sefydliadol** yn diffinio sefyllfa archwilio mewnol o fewn y sefydliad, gan sicrhau bod ganddo awdurdod ac annibyniaeth ddigonol sy'n cynnwys mynediad anghyfyngedig i'r uwch reolwyr a'r bwrdd.

Yn ychwanegol i'r hyfforddiant a dderbyniodd aelodau'r Pwyllgor (28-01-26) oedd yn rhoi ddiweddariad am eu cyfrifoldebau fel aelod Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn sgil cyflwyno Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang a'r Nodyn Cymhwyso a ddaeth i rym yn y sector gyhoeddus ar 1 Ebrill, 2025, fe'u hgtgoffwyd bod Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn nodi cyfrifoldeb i fodloni bod y siarter yn cwmpasu trefniadau llywodraethu ar gyfer archwilio mewnol.

Diolchwyd am yr adroddiad

PENDERFYNWYD:

- **Derbyn a chymeradwyo cynnwys y Mandad a'r Siarter Archwilio Mewnol, i'w gymeradwyo, a chefnogi Archwilio Mewnol yn ei weithrediadau.**

10. STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL A'R CYNLLUN ARCHWILIO BLYNYDDOL 2026/27

Cyflwynwyd, yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS), Strategaeth Archwilio Mewnol sydd yn fodd o sicrhau bod prif weithredwr archwilio mewnol yn datblygu a gweithredu'r strategaeth ar gyfer swyddogaethau archwilio mewnol sy'n cefnogi amcanion strategol a llwyddiant y sefydliad. Eglurwyd bod y Strategaeth Archwilio Mewnol wedi'i datblygu i alinio'r blaenoriaethau, yr amcanion a'r risgiau strategol allweddol sy'n wynebu'r Cyngor i gyd-fynd â gwaith y swyddogaeth archwilio fewnol dros y tair blynedd nesaf. Ystyriwyd y byddai hyn yn darparu cyfeiriad strategol i'r swyddogaeth archwilio fewnol ac yn cefnogi'r Cyngor yn ei ymagwedd at gyflawni ei amcanion allweddol ac yn dyrannu adnoddau archwilio mewnol yn briodol.

Ynghyd â'r Strategaeth, ac eto yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS), cyflwynwyd Cynllun Archwilio Mewnol sydd eto yn fodd o sicrhau bod prif weithredwr archwilio yn creu cynllun archwilio mewnol sy'n cefnogi cyflawni amcanion y sefydliad. Eglurwyd bod y Cynllun yn seiliedig ar asesiad o strategaethau, amcanion a chofrestr risg corfforaethol y Cyngor ac y bydd angen cynhyrchu adroddiad blynyddol, gan gynnwys y casgliad blynyddol ar lywodraethu, rheoli risg a rheolaethau, a pherfformiad archwilio mewnol yn erbyn ei amcanion. (Y Cod)

Nodwyd, er mwyn i archwilio mewnol barhau i fod yn berthnasol, rhaid addasu i ddisgwyliadau gan sicrhau ei fod yn parhau i gyd-fynd ag amcanion y Cyngor. Ategwyd bod y Strategaeth Archwilio Mewnol yn chwarae rôl bwysig wrth sicrhau cydbwysedd rhwng cost a gwerth, gan wneud cyfraniadau ystyrlon at lywodraethu cyffredinol, rheoli risg, a rheolaethau mewnol y Cyngor.

Diolchwyd am yr adroddiad

PENDERFYNWYD:

- **Derbyn a chymeradwyo cynnwys y Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2026/2027, i'w cymeradwyo, a chefnogi Archwilio Mewnol yn ei weithrediadau.**

11. ADRODDIAD AROLYGIAETHAU ESTYN AC AROLYGAETH GOFAL

Yn dilyn cais gan y Cyngor i Estyn ac Arolygaeth Gofal Cymru gynnal arolwg ar y cyd i werthuso datblygiadau yn nhrefniadau diogelu Awdurdod Lleol Gwynedd, cyflwynwyd i'r Pwyllgor adroddiad yn amlygu canfyddiadau'r arolwg hwnnw. Eglurwyd, ers arestio cyn bennaeth Ysgol Friars, Neil Foden, yn 2023 ac yn ddiweddarach ei ganfod yn euog o droseddau rhyw yn Mai 2024, cyhoeddwyd adroddiad 'Cyfiawnder Trwy ein Dewrder' mewn ymateb i gyfleoedd a gollwyd i bryderon yn ymwneud â Foden a'i ryngweithio â phlant. Comisiynwyd yr adroddiad gan Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru ac adolygwyd ymarfer plant a phrosesau diogelu y Cyngor.

Cynhaliwyd arolwg arolygiaethau Estyn ac Arolygaeth Gofal Cymru yn Nhachwedd 2025 ac yn dilyn yr arolygiad, cyflwynwyd argymhellion i'r Cyngor. Nodwyd bod rhai o'r argymhellion eisoes yn cael sylw drwy'r cynllun ymateb i Adroddiad Cyfiawnder Trwy ein Dewrder (a gyflwynwyd i'r Pwyllgor 15-01-26), a bod dau oedd heb eu cynnwys yn y cynllun yn cael eu hymgorffori ac yn derbyn ystyriaeth pellach. Ystyriwyd bod cael un cynllun gweithredu yn benderfyniad ymarferol. Tynnwyd sylw at un argymhelliad (4d) oedd yn ymwneud a threfniadau comisiynu a monitro cytundebau gwasanaeth oedd yn ymddangos yn eithriad, yn elfen strategol ac yn sefyll ar wahân, ond bod ymateb yn cael ei baratoi i'r argymhelliad hwnnw.

Diolchwyd am yr adroddiad

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Er derbyn bod polisïau yn cael eu hadolygu / cael eu creu o'r newydd, bod prosesau yn cael eu tynhau, a gwybodaeth yn cael ei rannu yn well, bod y rhain wedi mewn lle beth bynnag ac a'i felly mai diffyg dealltwriaeth, dilyniant, methiannau staff ac atebolrwydd a arweiniodd at y methiannau? Angen rhoi sylw i hyn.
- Ymchwiliad craffu 'Trefniadau Diogelu Mewn Ysgolion' - pam nad yw canfyddiadau'r ymchwiliad ar gael? Angen diweddiariad
- Bod angen cynnal hyfforddiant i roi hyder i unigolion godi llais

Yng nghyd-destun gosod amserlen ar gyfer y gwaith, nodwyd pan fydd mesurau wedi eu diwallu neu wedi cyrraedd lefel o safon, yna'r gobaith yw erbyn Ebrill 2026 dylai nifer fod wedi eu cau i lawr. Er hynny, gyda rhai materion yn rhai diwylliannol a bod er enghraifft, creu polisïau newydd yn cymryd amser, yna anodd fyddai gosod amserlen gyda dyddiadau pendant.

Wrth holi am gryfhau hyfforddiant diogelu i holl staff a Llywodraethwyr gan sicrhau ei fod yn addas i bwrpas, nodwyd nad oedd yr hyfforddiant presennol yn ddigon arbenigol ac felly mewn ymateb comisiynwyd gwaith i sicrhau bod hyfforddiant diogelu ar draws gwasanaethau yn cael ei ddiweddarau a'i gwblhau gan staff. Adroddwyd bod 77% o'r gweithlu bellach wedi cwblhau'r hyfforddiant sydd yn gynydd sylweddol ar y perfformiad blaenorol. Rhestrwyd y modiwlau mandadol sydd i'w cwblhau gan y gweithlu ac ategwyd bod modiwlau hyfforddiant perthnasol a gyfeiriwyd atynt gan y Bwrdd Diogelu ar gyfer cofnodi sgysiau wedi cael eu mabwysiadu ynghyd a sesiynau rhannu gwybodaeth am Fodel Finkelhor.

Yng nghyd-destun hyfforddiant i Lywodraethwyr ac os oedd hyfforddiant i'w grymuso gan sicrhau cymhwyster neu sgiliau priodol i'r swydd, nodwyd bod hyn yn cael ei ystyried, a cytunwyd bod angen cryfhau trefniadau llywodraethiant. Ategwyd bod clerod llywodraethu gyda sgiliau cynghori ac yn derbyn arweiniad ar sut i ddilyn trefn, ond bod angen edrych ar y

ddarpariaeth. Nodwyd bod bwriad rhoi strwythur mewn i sicrahu cysondeb yn y ddarpariaeth ac yn cael ei arwain gan y Gwasanaeth Addysg. Amlygwyd bod gan y Cyngor un swyddog cefnogi Llywodraethwyr cyflogedig ar hyn o bryd, ond bod bwriad cyflogi un arall. Nodwyd nad oedd hawl gan y Gwasanaeth Addysg i blismona pwy sydd yn cael ei ethol yn Llywodraethwr a bod hyn yn dilyn trefn gyfansoddiadol.

Amlygwyd siom nad oedd cyfeiriad na chydabyddiaeth gan Estyn ar fethiannau eu harolwg ar drefniadau diogelwch y Cyngor, Mehefin 2023 yn yr adroddiad. Nodwyd bod angen tryloywder, gan fod Estyn yn rhan o'r 'hanes'. Nododd y Pennaeth Addysg y byddai yn ysgrifennu at Estyn am esboniad / datganiad yn dilyn cynnal cyfarfod tymhorol gyda hwy. Er yn derbyn y sylw, adroddwyd nad oedd gan y Cyngor unrhyw reolaeth dros gynnwys yr adroddiad ond bod gwersi wedi eu dysgu o'r adolygiad ymarfer gyda'r Cyngor yn torri tir newydd drwy wahodd Estyn ac Arolygaeth Gofal Cymru i arolygu ac ymateb ar y cyd - roedd hyn yn cynnig arbenigedd Addysg a Gofal. Ategwyd bod yr arolwg wedi bod yn gam ymlaen ac yn newid cyfeiriad i'r ffordd y mae Awdurdodau yn cael eu harolygu.

Mewn ymateb i gwestiwn pam nad oedd cyfeiriad at yr Heddlu yn yr adroddiad o ystyried yr angen am gydweithio ac ymyrraeth gynnar, nodwyd nad oedd eglurhad pam nad oedd cyfeiriad at yr Heddlu yn yr adroddiad, ond adroddwyd bod cydweithio da rhwng y Gwasanaeth Addysg a'r Heddlu. Ategwyd bod trafodaethau yn cael eu cynnal i ffurfioli'r hyn sydd yn cael ei weithredu gydag awgrym i ddefnyddio 'open access' fel bod gan y Cyngor fynediad agored, drwy Teams, at yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf, a'r Gwasanaeth Iechyd.

PENDERFYNWYD

- **Derbyn yr adroddiad**
- **Derbyn bod rhai o'r argymhellion (1,2,3,4,4b a 4c) yn cyfateb i gynlluniau gwaith sydd eisoes yng nghynllun ymateb adroddiad Cyfiawnder Trwy ein Dewrder**
- **Derbyn nad oedd dau o'r argymhellion (4a a 4d) yn y cynllun ymateb, ond eu bod bellach wedi eu cynnwys ac yn derbyn sylw priodol**
- **Er yn derbyn y bydd y mesurau sydd wedi eu diwallu neu wedi cyrraedd lefel o safon a bod y mater yn cael ei gau lawr, bod angen amserlen benodol, er derbyn mai anodd fyddai rhoi dyddiad pendant**
- **Gwerthfawrogi dilyniant / adroddiad cynnydd ar yr ymatebion i'r argymhellion**
- **Siomedig eto nad oedd cydnabyddiaeth gan Estyn ar fethiannau eu harolwg ar drefniadau diogelwch y Cyngor, Mehefin 2023**

Nodyn: Ymchwiliad Craffu Trefniadau Diogelu Mewn Ysgolion – angen diweddariad

12. TREFNIADAU AR GYFER COMISIYNU GWASANAETHAU - CYNGOR GWYNEDD

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Caffael yn amlygu canlyniadau Archwilio Cymru i archwiliad cenedlaethol i geisio darganfod, wrth gomisiynu gwasanaethau os yw Cyngor Gwynedd, yn sefydlu trefniadau priodol i sicrahu gwerth am arian o ran y modd y mae'n defnyddio ei adnoddau. Adroddwyd bod yr archwiliad wedi ei gynnal yng Ngynnydd rhwng Rhagfyr 2024 a Chwefror 2025 ac ymhob un o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru. Yn dilyn yr archwiliad, cyflwynwyd dau argymhelliad i'r Cyngor a tynnwyd sylw at ffurflen ymateb y sefydliad i'r camau gweithredu perthnasol ynghyd ag amserlen a swyddog cyfrifol i gwblhau'r gwaith.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â sefyllfa Gwynedd, a'i bod ychydig yn wahanol i Gynghorau eraill oherwydd yr angen i sicrhau gwasanaeth Cymraeg a pha ystyriaeth sydd yn cael ei roi i ddylanwadu ar hyn, o ystyried efallai bod llai o ddarparwyr ar gael, nodwyd bod y Gymraeg

wedi cael ei adnabod fel un o flaenoriaethau caffael y gwasanaeth, ond bod yr adroddiad yma yn ystyried trefniadau comisiynu'r Cyngor cyn mynd allan i dendr.

PENDERFYNWYD

Derbyn ymateb sefydliadol y Cyngor i'r argymhellion o fewn yr adroddiad

A1. Sefydlu trefniadau comisiynu cyson

A2. Ymgorffori trefniadau ar draws y Cyngor

13. ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU - LLETY DROS DRO, ARGYFWNG HIRDYMROR?

Cyflwynwyd adroddiad yn amlygu canlyniadau Archwilio Cymru i archwiliad cenedlaethol i geisio adnabod cyfleoedd i wella gwerth am arian a dulliau Cyngorau o ymateb i'r galw am lety dros dro. Adroddwyd bod yr archwiliad wedi ei gynnal yng Ngwynedd rhwng Medi 2024 ac Ebrill 2025 gyda dogfennau allweddol gan fod un o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru wedi eu hadolygu. Yn dilyn yr archwiliad, cyflwynwyd tri argymhelliad i'r Cyngor a tynnwyd sylw at ffurflen ymateb y sefydliad i'r camau gweithredu perthnasol ynghyd ag amserlen a swyddog cyfrifol i gwblhau'r gwaith.

Diolchwyd am yr adroddiad oedd yn ymateb i sefyllfa heriol iawn ar draws y wlad.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol

- Bod angen diffiniad clir o'r gair 'digartref' a beth yw'r maen prawf
- Croesawu bod Gwynedd yn ceisio prynu a sicrhau gofod eu hunain i sicrhau lleoliadau addas a cheisio osgoi dibyniaeth ar safleoedd anaddas
- Bod angen sicrhau cyfathrebu clir gyda'r cyhoedd - cynnal cyfarfodydd cyhoeddus a chyflwyno cynlluniau gyda gwahoddiad i'r Aelod Lleol
- Bod angen annog proses haws i'r drefn cynllunio i allu defnyddio siopau gwag ar gyfer creu darpariaeth
- Yn croesawu'r gwaith da mae GISDA yn ei wneud ym Mhwlheli a Caernarfon
- Yn croesawu'r ddarpariaeth sydd yn cael ei brawf fesur ar gyfer y dyfodol – hyn yn hanfodol i gynlluniau dros dro
- Bod cadw pobl mewn gwely a brecwast yn gostus iawn i'r Cyngor ac felly angen gwell ffordd o ymateb i'r sefyllfa
- Bod angen torri'r stigma

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â cheisio defnyddio tai gwag y Sir ar gyfer y digartref, nodwyd bod elfennau cyfreithiol ynglŷn â pherchnogaeth eiddo, ond bod gwaith yn mynd yn ei flaen i geisio sefydlu peilot fyddai'n dod a pum tŷ i berchnogaeth y Cyngor drwy osod gorchymyn codi tal ar y perchennog (charging order) fel y cam olaf yn dilyn rhybuddion o gamau gorfodaeth. Ategwyd bod y Cyngor wedi ymgysylltu gyda chwmni arbenigol i gael cymorth ar y broses ac os bydd y peilot yn llwyddiannus, bydd y Cyngor yn edrych i ryddhau pum eiddo gwag arall i ddefnydd. Mewn ymateb i gwestiwn ategol ynglŷn â defnydd polisi ar gyfer y broses, nodwyd bod Polisi Adennill wedi ei fabwysiadu yn Nhachwedd 2024 oedd hefyd yn amlygu camau yn y broses.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r drefn o leoli pobl ddigartref ac ystyriaeth ar sut mae pobl yn cael eu lleoli, nodwyd er nad oes modd rhannu gwybodaeth bersonol am y digartref, bod ystyriaeth ofalus yn cael ei wneud i sicrhau bod y lleoliad yn un addas. Ategwyd y byddai'r gwasanaeth yn cydweithio yn agos gydag asiantaethau, ac yn ystyried y gymuned, cyn gwneud penderfyniad.

PENDERFYNWYD

- **Derbyn Adroddiad Cenedlaethol Archwilio Cymru**

- **Derbyn ymateb sefydliadol y Cyngor i'r argymhellion;**
 - **A1 Gwerth am arian**
 - **A2 Cynllunio ar gyfer Atal**
 - **A3 Gweithio mewn Partneriaeth**
- **Croesawu'r gwaith da sydd yn cael ei wneud gan yr Uned Digartrefedd**
- **Cais am adroddiad yn rhoi diweddariad ar y gwaith peilot sydd yn cael ei wneud gan y Cyngor i ryddhau tai gwag yn ôl i ddefnydd**
- **Derbyn diweddariad ar gynnydd y cynllun ymateb sefydliadol**

14. BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynwyd blaen raglen o eitemau ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor hyd Mawrth 2027. Amlygwyd y byddai dyddiadau Pwyllgorau 2026/27 yn cael eu rhannu wedi i'r Calendr Pwyllgorau gael ei gymeradwyo yn y Cyngor Llawn ar y 5ed o Fawrth 2026.

PENDERFYNWYD:

- **Derbyn y rhaglen waith hyd Mawrth 2027**

Dechreuodd y cyfarfod am 14.00 a daeth i ben am 17:00

CADEIRYDD

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 15 Ionawr 2026

Presenoldeb: Cadeirydd: Carys Edwards
Is-gadeirydd: Rhys Parry

Cynghorwyr: Menna Baines, Elwyn Jones, Edgar Wyn Owen, Geraint Parry, Arwyn Herald Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Rowlands, Angela Russell, Meryl Roberts, Ioan Thomas ac Elfed Wyn ap Elwyn

Aelodau Lleyg: Eifion Jones, Dewi Lewis, Peter Barnes a Paul Millar-Mills

Swyddogion: Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), Luned Fôn (Rheolwr Archwilio), Caren Rees Jones (Cyfrifydd Grŵp - Cyfalaf a Rheolaeth), David Lloyd Williams (Cyfrifydd Grŵp), Nel Povey ac Alaw Jones (Cynllun Yfory - Hyfforddai Proffesiynol Cyllid a Chyfrifeg), Eleri Jones (Uwch Swyddog Gweithredol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

Eraill a wahoddwyd: Cyng. Huw Wyn Jones (Aelod Cabinet Cyllid) ac Yvonne Thomas (Archwilio Cymru)

Eitem 6: Cyng. Nia Jeffreys (Arweinydd y Cyngor), Cyng. Menna Trenholme (Dirprwy Arweinydd y Cyngor / Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd), Cyng. Dewi Jones (Aelod Cabinet Addysg), Dafydd Gibbard (Prif weithredwr), Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol a Swyddog Monitro), Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg), Alison Halliday (Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Ysgolion), Llion Williams (Arweinydd Ansawdd Diogelu a Llesiant), Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol), Catrin Love (Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol), Ffion Mai Jones (Uwch Reolwr Gweithredol) a Lois Owens (Uwch Swyddog Gweithredol)

Eitem 10: Siân Pugh (Pennaeth Cynorthwyol Cyllid - Cynaliadwyedd a Datblygiadau) a Bleddyn Jones (Rheolwr Trethi)

Eitem 11: Lora Gwawr (Archwilio Cymru) a Dewi Wyn Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor)

1. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

4. COFNODION

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 13 o Dachwedd 2025 fel rhai cywir.

5. GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR

Cyflwynwyd adroddiad oedd yn rhoi amlinelliad o sut mae adrannau'r Cyngor wedi ymateb i benderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel bod modd i'r Aelodau gael sicrwydd bod eu penderfyniadau yn cael sylw. Nodwyd bod yr adroddiad yn rhoi cyfle i'r Aelodau ystyried y penderfyniad a wnaed gyda bwriad o ddileu'r eitem / penderfyniad pan fydd y weithred wedi cwblhau.

Diolchwyd am yr adroddiad

PENDERFYNWYD

- **Derbyn cynnwys yr adroddiad**

Nodyn:

Derbyn diweddariad ar eitemau 5/9/24 (cynnal sesiwn gwybodaeth ar y maes digartrefedd) a 10/10/24 (diweddariad ar argymhellion Archwiliad Gofal Brys: Llif Allan o'r Ysbyty) erbyn y cyfarfod nesaf

6. CYNLLUN YMATEB I'R ADRODDIAD CYFIAWNDER TRWY EIN DEWRDER

Diolchodd Arweinydd y Cyngor, y Cyng. Nia Jeffreys am y gwahoddiad i gyflwyno cynllun ymateb y Cyngor i'r Adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder.

Fel Arweinydd, ymddiheurodd yn ddiffuant i'r dioddefwyr a phawb sydd wedi eu heffeithio gan droseddau erchyll cyn Bennaeth Ysgol Friars. Ni chafodd lleisiau'r plant eu clywed a nododd yn glir bod eu profiadau a'u lleisiau yn bwysig iddi. Ategodd mai geiriau gwag fyddai ymddiheuro heb weithrediad, a'r deyrnged fwyaf gellid ei roi i ddewrder y dioddefwyr yw sicrhad ac addewid o newid; nod y cynllun yw sicrhau na fydd methiannau o'r fath yn digwydd eto yng Ngwynedd a bod yr heriau sydd yn wynebu'r Cyngor i newid trefniadau a diwylliant yn hanfodol i fater mor ddifrifol. Nodwyd y byddai'n gwerthfawrogi sylwadau'r pwyllgor yng nghyd-destun monitro a rheoli risg y cynllun; bod tryloywder yn angenrheidiol ac yn adfer hyder ymysg y cyhoedd.

Eglurwyd bod y Cynllun Ymateb yn ddogfen fyw, gyhoeddus ac y bydd cofnodion cyfarfodydd Bwrdd Rhaglen y Cynllun Ymateb yn adrodd ar y cynnydd fydd yn digwydd.

Diolchodd am barodrwydd y Pwyllgor i drafod pwnc mor anodd, ond y byddai eu cyfraniad yn arwain at wella trefniadau diogelu'r Cyngor er mwyn sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto. Mynegodd bod diogelu a gwarchod plant rhag niwed yn gyfrifoldeb ar bawb. Diolchodd am y cydweithio arbennig sydd wedi digwydd hyd yma gyda Sally Holland (Cadeirydd Bwrdd Rhaglen y Cynllun Ymateb), pawb sy'n ymwneud â'r Cynllun, gyda gwaith gwych gan sawl Adran o'r Cyngor yn rhan o'r ymateb. Er na all un Gwasanaeth, un Adran, un grŵp gwleidyddol neu unigolyn gyflawni hyn ei hun, pwysleisiodd yr angen i gydweithio ar draws Pwyllgorau, ar draws Adrannau ac ar draws gwahaniaethau gwleidyddol, fel y gellid gwneud cynnydd gwirioneddol ac amserol mewn maes hanfodol. O ganlyniad, bydd y broses o graffu nid yn unig yn dal y Cyngor i gyfrif, ond yn cyfrannu at lunio dyfodol mwy diogel i blant a phobl ifanc y Sir.

Awgrymodd ddychwelyd i adrodd ar gynnydd y Cynllun ymhen 6 mis i flwyddyn, pe bai'r Pwyllgor yn dymuno hynny.

Cyflwynodd y Prif Weithredwr, fanylion ac ymarferoldeb y Cynllun Ymateb. Amlygodd bod y Cynllun Ymateb gwreiddiol wedi ei fabwysiadu gan y Cabinet (Ionawr 2025) a'i fod, fel unrhyw ddogfen fyw, wedi esblygu ers hynny. Ers cyhoeddi Adroddiad Cyfiawnder Trwy ein Dewrder (Tachwedd 2025) diwygiwyd y Cynllun i fynd i'r afael â'r themâu a'r argymhellion a nodwyd

yn yr adroddiad. Bydd sylwadau / ystyriaethau, gan ymgynghorai eraill, gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hwn, Pwyllgor Arbennig Craffu Addysg ac Economi, Pwyllgor Arbennig Craffu Gofal a chyfarfod Cyngor Arbennig, yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Ymateb terfynol fydd i'w gyflwyno i'r Cabinet yn ffurfiol Mawrth 2026.

Wrth fynd i'r afael a blaenoriaethau'r cynllun, amlygwyd mewn sefyllfaoedd lle rhaid aros i eraill weithredu bod trefniadau interim mewn lle. Adroddwyd bod saith prif thema o fewn y Cynllun Ymateb sydd yn cyd-fynd gyda'r themâu'r adroddiad a bod swyddog penodol yn arwain ar bob thema.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Nododd y Cadeirydd mai dyletswydd y Pwyllgor oedd ystyried bod y Cynllun Ymateb yn briodol a chyfiawn, bod y prif flaenoriaethau yn cael eu gweithredu, a rhoi cyngor ar ymdrin â dibyniaethau.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Bod yr adroddiad yn swmpus, ac efallai ar rai adegau yn rhy eiriog. Er hynny, canmoliaeth i'r rhai hynny oedd wedi cydlynu'r gwaith - gwaith sylweddol, proffesiynol
- Croesawu bod y Cynllun Ymateb yn cael ei drafod mewn sawl fforwm
- Bod angen crynodeb / blaen dudalen syml a phendant o'r prif bwyntiau gweithredu
- Er derbyn yr angen i ddiogelu plant mewn ysgolion, bod rhai diogelu plant ymhob sefyllfa
- Ffrwd gwaith 3: Cyfeiriad at hyfforddiant 'grooming' (3.4) - angen addasu pwyslais yr hyfforddiant / teitl yr hyfforddiant i gynnwys cydnabyddiaeth o atal meithrin perthynas amhriodol
- Cyfeiriad at adroddiad bar gyfreithwraig 'Ymchwiliad i Ddigwyddiadau 2019 sydd wedi bod yn destun sylw gan y wasg' - angen mwy o gyd-destun i'r ymchwiliad annibynnol a gwblhawyd a beth oedd y penderfyniad dros beidio rhannu'r adroddiad / casgliadau ymysg yr atodiadau? A oedd y bar gyfreithwraig yn rhan o'r cwmni oedd yn rhoi cyngor cyfreithiol i'r Cyngor? Naratif paragraff 2.5 yn aneglur.
- Croesawu manylder y Cynllun Ymateb i'r hyn sydd yn mynd i ddigwydd, ond angen adfyfrio ar yr hyn sydd wedi digwydd. Angen datgelu methiannau staff o'r bôn i'r brig a chynnal trafodaethau gyda'r rhai hynny oedd yn greiddiol i'r methiannau. Angen sicrhau bod proses wedi ei dilyn i ddeall cyd-destun yr hyn aeth o le.
- Yng nghyd-destun 'cyfleoedd a gollwyd' a 'dyletswydd broffesiynol', er derbyn nad oes modd trafod achosion penodol, bod angen sicrwedd bod trefniadau disgyblu mewn lle, amserlen ar gyfer y broses disgyblu a modd o adrodd ar y weithred; bod hyn yn deg i'r teuluoedd hynny sydd wedi cael eu heffeithio.
- Croesawu bod y cynllun yn rhoi pwyslais ar drefniadau canu'r gloch a diogleu (safeguarding) – angen bod ar ein gorau yn y meysydd hyn. Er yn croesawu adolygiadau i'r polisïau, angen diweddariad ar y gwaith, yr amserlen a'r modd maent yn cael eu mabwysiadu
- Bod rhaid i brosesau fod yn fyr, yn fanwl gywir ac effeithiol ac y dylid gwreiddio gweithdrefnau diwylliant ac nid ymateb i ymarfer ticio blwch
- Croesawu bod trefniadau gyda'r Heddlu a'r Bwrdd Iechyd yn cael eu tynhau
- Bod y Pwyllgor yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar y camau sydd wedi eu gweithredu neu sydd yn cael eu hystyried fel ymateb addas a phriodol â'r sefyllfa

Mewn ymateb i sylw bod yr ymdrech i edrych ar y gyfundrefn o'r newydd o bosib yn peri newid gormodol, yn hytrach na chanolbwyntio ar sicrhau bod staff yn dilyn polisïau a phrosesau, ac a'i methiant cyfundrefnol oedd yma ynteu fethiant unigolion, nodwyd bod yr adroddiad yn adnabod yr angen i newid a gwella nifer o drefniadau ac felly'r Cyngor yn cymryd y cyfle i edrych ar yr holl drefniadau. Ategwyd bod rhai systemau angen eu gwreiddio yn well o fewn trefniadau Cyngor, ond bod rhai o'r argymhellion yn gofyn am arweiniad cenedlaethol megis newid polisïau a gweithdrefnau, hyfforddiant, ymddygiadau a chyfrifoldeb

dros weithredu; Bod yr ymateb yn cynnig mwy na newid proses - yn gosod uchelgais o newid diwylliant.

Mewn ymateb i sylw bod cyfeiriadau helaeth at Estyn er bod yr arolwg, a gynhaliwyd Mehefin 2023 wedi bod yn ddiffygiol a chamarweiniol ynglŷn â threfniadau diogelu, ac nad oedd cydnabyddiaeth o'r diffygion hynny yn amlwg yn yr adroddiad, cytunwyd y byddai modd ychwanegu'r wybodaeth i'r adroddiad terfynol fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet. Ategodd y Pennaeth Addysg y byddai yn codi'r mater gydag Estyn, ac yn amlygu bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio angen derbyn cydnabyddiaeth gan Estyn bod eu harolwg wedi bod yn gamarweiniol. Byddai hyn yn adfer hyder y cyhoedd mewn adroddiadau Estyn i'r dyfodol.

Gwnaed sylw bod enghreifftiau digonol yn yr hyn a aeth o'i le ond dim rhesymeg 'pam?' (ffactorau megis Bwriadol? Anfwriadol? Diogi? Perthynas agos? Diwylliant? Diffygion?) ac mewn ymateb i sylw pellach bod rhai elfennau o'r methiannau efallai yn cael eu cuddio tu ôl i brosesau a systemau, ac nad oedd cyfeiriad digonol, ffeithiol yn y Cynllun Ymateb i hyn, nododd y Prif Weithredwr, bod gan y Cyngor ddyletswydd i edrych i mewn i hyn ac fel y daw mwy o dystiolaeth a chasgliadau i'r amlwg, bydd y darlun yn gliriach. Ategodd bod methiannau i systemau a threfniadau yn amlygu methiant, ond anodd yw cynnwys yr elfen ddynol.

Er nad oes pris ar ddiogelwch plentyn, nodwyd mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chostau'r broses, bod costau i ymchwiliadau a chostau ôl-lenwi a chefnogaeth i Ysgol Friars - byddai costau unrhyw newidiadau pellach yn rhan o broses gyllidebu'r Cyngor. Ategwyd bod costau'r broses wedi eu cynnwys ar gofrestr risg y Cyngor ac yng Nghynllun y Cyngor, ac er yn derbyn cyfraniad ariannol gan Llywodraeth Cymru, bod y costau yn tynnu amser staff ac adnoddau o lefydd eraill.

Yng nghyd-destun cyfrifoldebau Llywodraethwyr a'r angen i gysoni safonau, sicrhau hyfforddiant priodol i gyflawni dyletswyddau'r swydd yn effeithiol, sicrhau addasrwydd Cadeirydd Llywodraethwyr i'r swydd ac awgrym i gyfyngu tymor Llywodraethwyr, nododd yr Aelod Cabinet Addysg, bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad i bryderon trefn llywodraethwyr ysgolion, ac y byddai casgliadau'r adolygiad i'w rannu Gwanwyn 2026. Ategodd bod y drefn yng Nghymru wedi dyddio ac mai pwrpas yr adolygiad oedd edrych ar wahanol gyfrifoldebau Llywodraethwyr. Awgrymwyd hefyd bod angen i Lywodraethwyr Cymunedol cael rôl fwy arwyddocaol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chost achosion llys i'r dyfodol, nododd y Prif Weithredwr nad oedd yn ymwybodol o achosion llys ar hyn o bryd, ond pe bai achos neu hawliad yn codi o'r sefyllfa, yna bod gan y Cyngor yswiriant a chronfa wrth gefn digonol i ymdopi â'r sefyllfa. Ni fydd y costau yn amharu ar gyllidebau refeniw'r Cyngor. Ategodd bod gan y Cyngor haenau o yswiriant ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd ac y byddai modd ymdrin yn briodol a phob achos.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau ac i'r swyddogion am gyflwyno ymatebion.

PENDERFYNWYD:

- **Derbyn manylder y Cynllun Ymateb**
- **Yn diolch i'r Swyddogion am eu gwaith ac yn croesawu bod y Cynllun Ymateb yn cael ei drafod mewn sawl fforwm**
- **Bod angen crynodeb / blaen dudalen syml a phendant o'r prif bwyntiau gweithredu**
- **Bod y Pwyllgor yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar y camau sydd wedi eu gweithredu neu sydd yn cael eu hystyried fel ymateb addas a phriodol â'r sefyllfa**
- **Cais gan y Pwyllgor i Estyn gydnabod gwendidau eu hadroddiad ar drefniadau diogelwch y Cyngor, Mehefin 2023**
- **Bod Trefniadau Canu'r Gloch a Threfniadau Diogelu angen bod ymysg y gorau**

- croesawu adolygiadau i'r polisïau hyn
- angen diweddariad ar y gwaith, yr amserlen a'r modd maent yn cael eu mabwysiadu

Nodyn:

Adolygu paragraff olaf 2.5 o'r Cynllun Ymateb: 'Ymchwiliad i Ddigwyddiadau 2019 sydd wedi bod yn destun sylw gan y wasg' – angen mwy o gyd-destun am yr ymchwiliad annibynnol a gwblhawyd a beth oedd y penderfyniad dros beidio rhannu'r adroddiad / casgliadau.

Gosod cyd-destun i ganmoliaeth Estyn i drefniadau diogelu'r Cyngor (Mehefin 2023). Y geiriad fel y mae yn amhriodol o ystyried y methiannau a ddaethpwyd i'r amlwg yn ddiweddarach.

7. CYLLIDEB REFENIW 2025/26 – ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2025

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod Cabinet Cyllid yn gofyn i'r pwyllgor graffu'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau. Eglurwyd bod yr adroddiad yn manylu ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw'r Cyngor am 2025/26, a'r rhagolygon tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Gofynnwyd i'r Pwyllgor graffu'r wybodaeth a chynnig sylwadau cyn cyflwyno am gymeradwyaeth y Cabinet Ionawr 20fed 2026.

Yn dilyn adolygiad diwedd Tachwedd nodwyd bod y rhagolygon yn awgrymu gorwariant o £6.5 miliwn gan adrannau'r Cyngor, oedd yn gynnydd bychan o ragolygon Awst gyda 76% ohono yn y maes gofal oedolion a phlant. Eglurwyd, yn dilyn ymlaen o dueddiad mewn blynyddoedd blaenorol, bod gorwariant sylweddol hefyd yn y maes gwastraff, priffyrdd a bwrdeistrefol, ond tanwariant ar gyllidebau corfforaethol, sy'n golygu fod hynny yn lleihau'r rhagolygon gorwariant yn ei gyfanrwydd i £2.3 miliwn.

Tynnwyd sylw at y prif faterion:

- Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant – rhagolygon diweddaraf yn awgrymu os na fydd newid mewn gweithredu yn ystod y flwyddyn, bydd diffyg cyllidebol o £3miliwm erbyn diwedd y flwyddyn. Bu i werth £3 miliwn o arian parhaol ei ddarparu i'r maes ar gyfer 2025/26, ond bod gwerth miliwn o arbedion a thoriadau, heb eu cyflawni hyd yma.

Yng nghyd-destun gwasanaethau pobl hŷn, gwelwyd cynnydd yn y galw am ofal preswyl pobl hŷn a hefyd cynnydd annisgwyl ac anarferol am ofal preswyl oherwydd materion iechyd meddwl; y pwysau ar y ddarpariaeth gofal cartref hefyd yn parhau.

- Adran Plant a Theuluoedd - yn rhagweld diffyg cyllidebol o £1.8 miliwn, gyda meysydd megis lleoliadau all-sirol, a'r ddarpariaeth plant gydag anableddau yn y gwasanaeth Derwen a Hafan y Sêr yn wynebu pwysau.
- Byw'n Iach – dros y blynyddoedd diwethaf, Byw'n Iach wedi derbyn cefnogaeth ariannol flynyddol gan y Cyngor uwchlaw taliad cytundebol y cytundeb darparu, i'w galluogi i gynnal eu gwasanaethau. Adroddwyd bod y gefnogaeth ariannol yn parhau eleni a'r rhagolygon o'r swm gofynnol erbyn diwedd y flwyddyn wedi cynyddu i £295k.
- Adran Priffyrdd, Peirianeg ac YGC - rhagwelir diffyg cyllidebol o £492k, gydag arbedion nad ydynt yn cael eu gwireddu yn cyfrannu at y sefyllfa. Gwelwyd lleihad yn y gwaith sydd yn cael ei gomisiynu gan asiantaethau allanol sydd o ganlyniad yn cael effaith negyddol ar incwm gwasanaethau priffyrdd. Yn yr Uned Bwrdeistrefol, amlygwyd bod cyfuniad o ffactorau, oedd yn cynnwys pwysau ychwanegol ar gyllidebau staff glanhau strydoedd a glanhau toiledau cyhoeddus; colledion incwm yn faterion cynnal tiroedd a thoiledau cyhoeddus.

- Adran Amgylchedd – bod diffyg cyllidebol o £685k yn cael ei ragweld, gyda'r tueddiad blynyddol o orwariant yn y maes casglu gwastraff ac ailgylchu yn parhau ac yn gyfrifol am £617k o'r gorwariant.
- Tai ac Eiddo – tuedd o bwysau sylweddol ar y gwasanaeth llety argyfwng yn parhau, gyda rhagolygon gwariant o £6.6 miliwn yn y maes eleni, o gymharu â £6 miliwn y llynedd. Y sefyllfa ariannol yn cynnwys cyllideb ychwanegol o £3m sydd wedi ei ddyrannu o bremiwm treth cyngor a chyllideb un-tro ychwanegol a ddyrannwyd fel rhan o'r drefn bidiau i gynorthwyo gyda'r pwysau ychwanegol. Rhagwelir y bydd yr adran yn ei gyfanrwydd yn gorwario £248k.
- Corfforaethol – tanwariant o £4.2 miliwn ar nifer o benawdau corfforaethol oedd yn cynnwys costau cyfalaf, dychwelyd cyllidebau a bidiau a derbyniad grant; gwelwyd hefyd gynnyrch treth ychwanegol.

Ategwyd, yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol 2024/25, adolygwyd Incwm Treth Cyngor a'r Premiwm sydd yn deillio o'r dreth ar ail gartrefi ac eiddo gwag. Y canlyniad yw bod £2 filiwn sy'n berthnasol i Breimiwm Treth Cyngor 2024/25 i'w drosglwyddo o'r Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol i'r Gronfa Premiwm Treth Cyngor.

Diolchwyd am yr adroddiad:

Mewn ymateb i sylw bod £0.5 miliwn o ddiffyg yn y gyllideb, er bod argraff wedi ei roi bod y gyllideb yn well, nodwyd mai cyfeiriad tuag at y setliad oedd hyn a bod y setliad 'yn well' na'r hyn a ragwelwyd yn Adolygiad Diwedd Awst 2025. Ategwyd, wrth fynd ati i osod cyllideb ar gyfer 2026/27 bydd angen ystyried yr angen tu hwnt i chwyddiant mewn rhai meysydd oherwydd y gwariant.

PENDERFYNWYD:

- **Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd 2025 o'r Gyllideb Refeniw**
- **Nodi sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth.**

8. RHAGLEN GYFALAF 2025/26 – ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2025

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod Cabinet Cyllid yn amlygu rhaglen gyfalaf (sefyllfa diwedd Tachwedd 2025) ynghyd a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Gofynnwyd i'r Pwyllgor graffu'r wybodaeth a chynnig sylwadau cyn cyflwyno am gymeradwyaeth y Cabinet 20 Ionawr 2025.

Cyfeiriwyd at ddadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £152 miliwn am y 3 blynedd 2025/26 - 2027/28 ynghyd a'r ffynonellau sydd ar gael i ariannu'r cynnydd net sydd oddeutu £0.8 miliwn ers sefyllfa'r adolygiad diwethaf.

Ategwyd,

- Bod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi £93.7 miliwn yn 2025/26 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £48.2 miliwn (51%) ohono wedi'i ariannu trwy grantiau penodol.
- Bod £6 miliwn ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2025/26 i 2026/27 a 2027/28.
- Bod y prif gynlluniau sydd wedi llithro ers y gyllideb wreiddiol yn cynnwys £4.5 miliwn Cynlluniau Ysgolion (Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ac Eraill), £3.2 miliwn Cynlluniau Cronfa Ffyniant Bro, £2.8 miliwn Cynlluniau Adnewyddu Cerbydau, £1.5 miliwn Cynlluniau Ysgogi'r Economi ac Unedau Diwydiannol a £1.5 miliwn Cynlluniau Gwastraff ac Ailgylchu

Tynnwyd sylw at restr grantiau ychwanegol mae'r Cyngor wedi llwyddo eu denu ers yr adolygiad diwethaf a oedd yn cynnwys, £1miliwn – Grant gan Adran Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) y Deyrnas Unedig tuag at gynlluniau Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (EPR) am ddeunydd pecynnu; £0.6 miliwn – Grant Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol (TACP) gan Lywodraeth Cymru; £0.3 miliwn – Grant o Gronfa Y Pethau Pwysig gan Lywodraeth Cymru tuag at y cynllun Mwyniant Ein Arfordir a £0.3 miliwn – Grant gan Cyngor Chwaraeon tuag at gaeau synthetig.

Cyfeiriwyd at y wybodaeth am Ddangosyddion Darbodus Cyfalaf y Cyngor gan amlygu, yn unol â'r Côt Darbodus gan CIPFA, bod rhaid adrodd ar y wybodaeth - ategwyd bod y Cyngor wedi cydymffurfio yn llawn gyda pholisi ar fenthycha at ddibenion cyfalaf.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â chynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu, yn benodol '*Ail broffilio'r elfen Prynu i Osod o'r Strategaeth Tai i gyfnod tu hwnt i'r Rhaglen Gyfalaf tair blynedd hwn i gyfnod o amgylchiadau economaidd mwy ffafriol (Adran Tai ac Eiddo)*', a beth oedd cyd-destun 'amgylchiadau economaidd mwy ffafriol', nodwyd bod cynnydd mewn costau adnoddau adeiladu a graddau llog wedi golygu na ellid ariannu'r cynllun penodol yma, ond bod modd ail ymweld â'r sefyllfa os bydd gostyngiad mewn costau a llog i'r dyfodol.

Mewn ymateb i sylw bod ffigyrau 27/27 a 27/28 yn sylweddol is na ffigyrau 25/26, cadarnhawyd bod hyn oherwydd nad oedd cynlluniau newydd wedi dod ymlaen hyd yma.

Mewn ymateb i sylw bod Cymdeithas Peldroed Cymru wedi buddsoddi mewn Clybiau Peldroed yn y Sir (e.e, Talysarn, Porthmadog a Thywyn) ac oes oedd yr arian yn rhan o Grant Chwaraeon Cymru neu grant ar wahân, nodwyd bod yr holl grantiau a dderbyniwyd ar wahân wedi eu cynnwys, ond os oedd yr arian yn fuddsoddiad diweddar, yna bydd yn cael ei adrodd / gynnwys yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad a chytuno ar yr argymhellion i'r Cabinet eu hystyried (20-01-26)

9. TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid yn gofyn i'r pwyllgor nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt y Trosolwg Arbedion, ac ystyried gwybodaeth i'r Cabinet ei dderbyn (20-01-26) a sylwebu fel bo angen.

Yn adroddiad Cyllideb 2025/26 i'r Cyngor Llawn ar 6 Mawrth 2025, adroddwyd bod arbedion gwerth £3.5 miliwn wedi eu proffilio ar gyfer cyllideb 2025/26 sydd yn gyfuniad o werth £100k wedi eu cymeradwyo o'r newydd yn 2025 a £3.4 miliwn oedd wedi eu cymeradwyo mewn blynyddoedd blaenorol. Atgoffwyd yr Aelodau, fel sydd wedi ei adrodd yn gyson yn y Pwyllgor, bod trafferthion gwireddu arbedion mewn rhai meysydd.

Ategodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol,

- Nodwyd bod 98% o'r arbedion hanesyddol wedi eu gwireddu sef £33.8 miliwn o'r £34.3 miliwn o arbedion, bellach wedi eu gwireddu. Wrth fanylu ar y cynlluniau sydd yn parhau heb eu gwireddu (gwerth £590 o filoedd), bod y mwyafrif ohonynt yn yr Adran Oedolion, lechyd a Llesiant.

- O'r cynlluniau arbedion newydd gwerth £15.6 miliwn, adroddwyd bod 81% o'r arbedion eisoes wedi eu gwireddu a 3% pellach ar drac i gyflawni'n amserol; bod risgiau i wireddu'r arbedion yn amlwg mewn rhai meysydd gyda'r prif rai yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Amgylchedd.

Yn dilyn cyhoeddiad yn Rhagfyr 2025 bod llawr o 4.1% ar gyfer setliad ariannol i Lywodraeth Leol, fyddai'n golygu nad oedd brys i'r Cyngor weithredu arbedion ar gyfer 2026/27, byddai angen parhau i adnabod arbedion ar gyfer blynyddoedd dilynol sy'n debygol o fod yn heriol.

Wrth grynhoi'r darlun, adroddwyd bod £47 miliwn o arbedion wedi eu gwireddu sydd yn 93% o'r £50 miliwn gofynnol dros y cyfnod. Rhagwelwyd y bydd 1% pellach yn cael ei wireddu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, ond y byddai oediad a rhai risgiau i gyflawni'r cynlluniau sydd yn weddill.

Diolchwyd am yr adroddiad trylwyr

Derbyniwyd bod 98% o gynlluniau arbedion hanesyddol 2015/16 - 2025/26 (yn mynd yn ôl dros 10 mlynedd) wedi eu gwireddu, ond dim ond 81% o gynlluniau arbedion newydd 2023/24 i 2025/26 sydd wedi ei gwireddu gyda 23 o gynlluniau wedi llithro neu gyda risg i gyflawni'r arbediad. Er hynny, awgrymwyd i'r Gwasanaethau Canolog ystyried gynnig cymorth wedi ei dargedu ar gynlluniau nad yw'r Adrannau yn gallu eu gwireddu.

Bod risgiau i'r cyhoedd ac i'r Cyngor drwy geisio arbedion sydd ddim ar gael, yn enwedig os yw'r galw am wasanaethau yn cynyddu. Awgrymwyd bod asesiad risg trylwyr o'r peryglon o doriadau yn cael ei gynnal ar bob cynllun. Mewn ymateb, mynegodd Aelod Cabinet Cyllid bod y sefyllfa o ganfod toriadau yn mynd yn anoddach a'r effeithiau i wasanaethau trigolion y Sir yn fwy amlwg. Ategodd y Pennaeth Cyllid mai anodd yw darganfod arbedion ac felly bod trefniadau amgen mewn lle. Wrth i'r Adran Cyllid adolygu a thrafod cynlluniau gydag Adrannau a dod i gasgliad nad yw'r cynllun gwreiddiol yn hyfyw, bydd rhaid ystyried cynllun amgen.

Mewn ymateb i gwestiwn, a yw'r sefyllfa yn cael effaith ar wasanaethau statudol ac o ganlyniad yn agosáu at sefyllfa o orfod gwrthod gwasanaethau, nodwyd, er enghraifft bod gwaith megis Llechen Lân yn mynd i'r afael â phwysau tebygol ar y gwasanaethau, ac yn mabwysiadu cyfeiriad strategol a chynllun gweithredu fyddai'n lliniaru problemau i'r dyfodol. O ganlynaid i'r gwaith ymchwil, adroddwyd, bod mwyafrif helaeth o arian ychwanegol yn cael ei gyfeirio at y maes gofal i gydnabod y pwysau ychwanegol yma. Roedd y Pennaeth Cyllid yn hyderus na fydd cynlluniau arbedion newydd yn cael eu cyflwyno, ac nid oedd yn rhagweld y byddant y gorfod torri ar gynigion sydd yn cael eu cynnig i drigolion.

Wrth ymateb i gwestiwn ynglŷn ag Adrannau yn darparu rhagolwg gorwariant blynyddol a chadw cofrestr risg fel nad ydynt yn gorwario, nodwyd, er nad oedd cynllun busnes penodol yn cael ei gyflwyno i'r Adran Gyllid, bod yr Uned Cyfrifeg yn edrych ar sefyllfaoedd staffio Adrannau ac os byddai angen gweithredu unrhyw newid bydd rhaid i'r Adran berthnasol gwblhau ffurflen newid strwythur fel modd i'r Uned Gyfrifeg a'r Uned Adnoddau Dynol sicrhau bod arian ar gael cyn cymeradwyo. Ategwyd mai cyfrifoldeb deilydd y gyllideb yw bod gwariant o fewn eu cyllideb ac y bydd angen cyflwyno cais am fwy o arian os na fydd hyn yn bosib. Mewn ymateb i sylw ategol bod rhaid cynllunio ymlaen llaw a sicrhau bod modd ariannu cynlluniau, nodwyd bod ceisiadau grant yn cael ei gyflwyno drwy'r Adran Cyllid a bod cyfrifydd yn sicrhau bod rheolaeth dros yr adnoddau.

PENDERFYNWYD:

- **Derbyn yr adroddiad**
- **Nodi'r cynnydd, y sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt Trosolwg Arbedion**

Nodyn /Awgrym

Cynnig cefnogaeth wedi ei dargedu ar gynlluniau nad yw'r Adrannau yn gallu eu gwireddu

10. POLISI LLEIHAU TRETH CYNGOR O DAN ADRAN 13A(1)(C) O DDEDDF CYLLID LLYWODRAETH LEOL 1992

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod Cabinet Cyllid mewn ymateb i gais gan y Pwyllgor yn dilyn trafodaeth a gafwyd ym mhwyllgor 13 Tachwedd 2025 ar Gyfraddau Casglu Treth Cyngor. Amlygodd y Pennaeth Cyllid bod y Cabinet wedi cymeradwyo'r Polisi (11.11.25) ac yn unol â gweithdrefnau'r Cyngor, daeth yn weithredol ar 26.11.25. Datganwyd bod Adran 13A(1)(c) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn rhoi pwerau disgresiwn ychwanegol i'r Cyngor leihau swm y dreth Cyngor sy'n ddaliadwy ar gyfer unigolion neu ddosbarthiadau o drethdalwyr.

Amlygwyd bod y Cyngor yn defnyddio Adran 13A o Ddeddf 1992 fel modd o gyflwyno eithriadau lleol, dewisol mewn achosion cyfyng iawn a cyn cymeradwyo'r polisi, y Cabinet yn unig oedd â'r hawl i wneud y penderfyniadau hyn. Yn dilyn newidiadau mewn Deddfwriaeth a chyflwyno premiwm bu i'r sefyllfa amlygu'r angen am bolisi fyddai'n rhoi hawl i swyddogion ymdrin â cheisiadau am ostyngiadau (sefyllfaoedd eithriadol), heb fynd drwy'r Cabinet. Yn ychwanegol lluniwyd canllawiau gweithredu, ac yn unol â chymeradwyaeth y Cabinet, bod panel yn cael ei sefydlu i ystyried y ceisiadau fel modd o gael cysondeb mewn penderfyniadau. Byddai'r panel yn cynnwys Aelod Cabinet Cyllid, Pennaeth Cyllid (neu Bennaeth Cynorthwyol), a Rheolwr Trethi gyda Chyfarwyddwr Corfforaethol a Swyddog Monitro yn cael gwahoddiad i arsylwi a chynghori. Ategwyd bod pump cyfarfod wedi eu trefnu ar gyfer 2026 gyda'r hyblygrwydd i gyfarfod yn amlach os bydd angen. Adroddwyd bod Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar y polisi, a all arwain at addasu rhai o'r eithriadau statudol. Nodwyd y bydd y Polisi yn cael ei gadw o dan adolygiad parhaus, a'i addasu wrth i unrhyw newidiadau deddfwriaethol neu ddiweddariadau i'r polisi gael eu cyflwyno.

Diolchwyd am yr adroddiad

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Bod y polisi yn gam bras i'r cyfeiriad cywir
- Bod parodrwydd i addasu'r polisi yn ddibynnol ar amgylchiadau i'w groesawu
- Yng nghyd-destun asesiad effaith, bod angen ystyried yr effaith ar yr iaith a theuluoedd Cymreig sydd yn neud bywoliaeth o dwristiaeth - rhaid amlygu twristiaeth gynaliadwy fel blaenoriaeth
- Yn derbyn y bydd adolygiadau parhaus i'r polisi a bod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar y Premiwm Treth Cyngor yn ddiweddar
- Yn derbyn bod y polisi newydd wedi ei ddatblygu gyda mewnbwn yr Uned Trethi

Mewn ymateb i sylw y byddai risg cyfreithiol o gael premiwm heb bolisi, nododd y Pennaeth Cyllid bod risg cyfreithiol boed polisi neu beidio. Ategodd bod pob polisi yn gytbwys ar sail tegwch a diogelu risg. Petai eithriadau yn codi, neu fod angen edrych ar garfanu penodol, megis llety hunan ddarparu yn methu cyrraedd trothwy 182 diwrnod (o dan y rheolau presennol, rhaid i lety gwyliau gael ei osod am 182 diwrnod bob blwyddyn i fod yn gymwys ar gyfer ardrethi busnes. Petai'r annedd yn methu'r targed, bydd yr eiddo yn cael ei ailddosbarthu fel ail gartref a threth cyngor yn cael ei godi arno), a heb amod cynllunio yna, bydd posib i'r panel ystyried yr anghymesur - o geisio dangos gwahaniaeth nad yw'n deg, yn rhesymol, nac yn ddisgwyliedig. Bydd rhaid ystyried hefyd os caniatáu'r eithriad, y byddai'r Cyngor yn agored i her ac felly trafodaethau cyfreithiol a mewnbwn gan y Swyddog Monitro ar y panel yn hanfodol.

Mewn ymateb i gwestiwn ategol ynglŷn ag eithriad parhaol, nodwyd y byddai hyn yn bosib os yn unol â'r polisi. Wrth i'r polisi ddatblygu dros amser, os bydd achosion yn codi, neu batrwm yn amlygu ei hun yna bydd modd diweddarau'r polisi.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â rhoi terfyn ar achosion hanesyddol, megis y cyfnod cyn bod ceisiadau am lety gwyliau yn cynnwys amod cynllunio perthnasol, nodwyd bod y sylw yn un pwysig i'w ystyried ac y bydd y panel yn adolygu'r sefyllfa.

Mewn ymateb i'r angen i ystyried risgiau ynghlwm â'r polisi a beth oedd y sefyllfa cyn i'r Cabinet fabwysiadu'r polisi ym mis Tachwedd 2025, nodwyd bod pob penderfyniad cyn mabwysiadu'r polisi yn cael ei gyfeirio at y Cabinet ac o ganlyniad i gynnwys mewn ceisiadau am ostyngiadau ers cyflwyno premiwm a newidiadau mewn deddfwriaeth, mai priodol fyddai sefydlu polisi gyda chanllawiau i swyddogion ymateb i'r sefyllfa mewn modd deg a diogel; bod y polisi yn lleihau risg i'r Cyngor. Mewn ymateb i gwestiwn ategol ynglŷn â'r Cyngor yn derbyn llai o incwm oherwydd effaith y polisi, nodwyd, yn realistig bod yr achosion tebygol yn rai o wir galedi ac felly nid oedd yn rhagweld y byddai'r polisi yn cael effaith ar yr incwm trethi, ond yn fodd rhagweithiol ac o osgoi costau i'r dyfodol.

PENDERFYNWYD:

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol**
- **Croesawu penderfyniad y Cabinet i gymeradwyo'r Polisi**
- **Croesawu bod y Polisi o dan adolygiad parhaus a bod modd i'w addasu wrth i unrhyw newidiadau deddfwriaethol neu newid mewn amgylchiadau gael eu cyflwyno.**

Nodyn / Awgrym

Ail eirio paragraff 3.3 atodiad 2 - Asesiad Effaith Cydraddoldeb i atgyfnerthu'r datganiad 'yn cynorthwyo teuluoedd lleol i aros yn yr ardal ac adnewyddu tai'

Ychwanegu twristiaeth gynaliadwy fel maes blaenoriaeth i baragraff 4.5, Adroddiad Cabinet

11. ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU – LLETY DROS DRO, ARGYFWNG HIRDYMROR?

Amlygodd Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor nad oedd fersiwn Gymraeg o ymateb y Cyngor i'r archwiliad wedi ei gynnwys ar y rhaglen ac felly yn awgrymu gohirio'r drafodaeth tan y cyfarfod nesaf fel bod gan yr Aelodau wybodaeth gyflawn i'w drafod / ystyried.

PENDERFYNWYD:

Gohirio tan gyfarfod 03/02/2026

12. BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynwyd blaen raglen o eitemau ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor hyd Hydref 2026. Atgoffwyd yr Aelodau pe baent eisiau ychwanegu eitem arall i'r blaen raglen i gynnig hynny drwy anfon e-bost at y Cadeirydd neu'r Pennaeth Cyllid.

PENDERFYNWYD:

- **Derbyn y rhaglen waith hyd Chwefror 2027**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a daeth i ben am 13:10

CADEIRYDD

PWYLLGOR	PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
DYDDIAD	21 Mai 2026
TEITL	GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR
PWRPAS YR ADRODDIAD	CYFLWYNO DIWEDDARIAD AR WEITHREDU PENDERFYNIADAU BLAENOROL Y PWYLLGOR
AWDUR	DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID
GWEITHREDIAD	ER GWYBODAETH

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Pwrrpas yr adroddiad yma yw rhoi amlinelliad o sut mae adrannau'r Cyngor wedi ymateb i benderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraeth ac Archwilio, fel bod modd i'r aelodau gael sicrwydd fod eu penderfyniadau yn cael sylw.
- 1.2 Mae hyn yn cyfrannu at roi sicrwydd i'r aelodau fod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn gweithredu'n effeithiol.
- 1.3 Mae'r eitem hon yn gyfle i holl aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried y penderfyniadau a wnaed. Lle mae'r gweithrediad wedi ei gwblhau, neu le nad oedd gweithrediad pellach yn angenrheidiol, mae'r llinell yn cael ei dynnu o'r tabl ar ôl i'r Pwyllgor ystyried y mater.



TAFLEN WEITHREDU

2. Penderfyniadau ers sefydlu’r Cyngor Newydd (Mai 2022)

Cyfarfod 5 Medi 2024

Eitem:	Penderfyniadau / Arsylwadau:	Gweithrediadau:	Swyddog Cyfrifol:	Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau:	Dileu o’r Daflen Weithredu:
GWEITHREDU PENDERFYNIADAU’R CYNGOR	Derbyn cynnwys yr adroddiad.	Ychwanegu i’r daflen penderfyniad: • Bod angen cynnal sesiwn gwybodaeth ar y maes digartrefedd i aelodau’r Pwyllgor ddeall y maes yn well ac i ddeall y rhesymau pam fod costau yn y maes mor uchel	Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor	Wedi ei ddisodli gan eitem fwy diweddar yn dilyn sylw ym Mhwyllgor Ionawr 2026 – gweler y rhan perthnasol o’r adroddiad isod – <i>Adroddiad Archwilio Cymru – Llety Argyfwng.</i>	DILEU

Cyfarfod 10 Hydref 2024

Eitem:	Penderfyniadau / Arsylwadau:	Gweithrediadau:	Swyddog Cyfrifol:	Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau:	Dileu o'r Daflen Weithredu:
ARCHWILIO CYMRU: GOFAL BRYD AC ARGYFWNG: 'LLIF ALLAN O'R YSBYTY – RHANBARTH GOGLEDD CYMRU'	Derbyn cynnwys yr adroddiad	Cyflwyno diweddariad ar yr argymhellion ymhén 12 mis	Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth Adran Oedolion	Wedi ei ddisodli gan eitem fwy diweddar yn dilyn sylw ym Mhwyllgor 6 Hydref 2025– gweler y rhan perthnasol o'r adroddiad isod – <i>Argymhellion a Chynigion Gwellu Adroddiadau Archwilio Allanol.</i>	DILEU

Cyfarfod 16 Ionawr 2025

Eitem:	Penderfyniadau / Arsylwadau:	Gweithrediadau:	Swyddog Cyfrifol:	Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau:	Dileu o'r Daflen Weithredu:
ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU - 'CYNALIADWYEDD ARIANNOL LLYWODRAETH LEOL' AC 'ADOLYGIAD O GYNALIADWYEDD ARIANNOL – CYNGOR GWYNEDD'	• Derbyn yr adroddiad Cenedlaethol a Lleol • Derbyn ymateb y Cyngor i'r argymhellion	Yn dilyn derbyn cefnogaeth a chanllawiau CIPFA, Rhaglen Waith yr ymateb i'w gyflwyno i'r Pwyllgor erbyn Mawrth 2026 Adroddiadau Perfformiad fydd yn cael eu cyflwyno i Bwyllgorau Craffu i arddangos bod y gofynion statudol yn cael eu cyfarch	Pennaeth Cyllid	Mae'r gwaith ar hwn wedi llithro a bydd yn cael ei flaenoriaethu gyda'r bwriad o gyflwyno diweddariad i gyfarfod Gorffennaf 2026	Na

Cyfarfod 6 Chwefror 2025

Eitem:	Penderfyniadau / Arsylwadau:	Gweithrediadau:	Swyddog Cyfrifol:	Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau:	Dileu o'r Daflen Weithredu:
ADRODDIAD ARCHWILIAD ARBENNIG – GOFAL CARTREF	- Derbyn a nodi'r cynnydd i ganfyddiadau arolwg Archwilio Mewnol a'r trefniadau Gofal Cartref y Cyngor - Croesawu'r Rhaglen Waith trylwyr sydd mewn lle i wella'r ddarpariaeth - Bod angen diweddariad pellach ymhen 12 mis ar gynnydd a llwyddiant y rhaglen waith	Cyflwyno diweddariad pellach i'r Pwyllgor ymhen 12 mis ar gynnydd a llwyddiant y rhaglen waith	Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth Adran Oedolion, Pennaeth Cynorthwyol Busnes	Diweddariad wedi ei ddarparu mewn atodiad - Adroddiad Archwiliad Gofal Cartref - Diweddariad 2026	Na

Cyfarfod 9 Hydref 2025

Eitem:	Penderfyniadau / Arsylwadau:	Gweithrediadau:	Swyddog Cyfrifol:	Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau:	Dileu o'r Daflen Weithredu:
ARGYMHELLION A CHYNIGION GWELLA ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL	Derbyn yr adroddiad	Derbyn adroddiad cynnydd o'r Archwiliad 'Llif allan o'r Ysbyty', Gwanwyn 2026	Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth Adran Oedolion	Nodwyd nad oedd unrhyw weithredoedd nac unrhyw ddiweddariad i'w roi ar yr eitem hon.	DILEU

Cyfarfod 15 Ionawr 2026

Eitem:	Penderfyniadau / Arsylwadau:	Gweithrediadau:	Swyddog Cyfrifol:	Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau:	Dileu o'r Daflen Weithredu:
GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR	Derbyn cynnwys yr adroddiad	Derbyn diweddariad ar eitemau 5/9/24 (cynnal sesiwn gwybodaeth ar y maes digartrefedd) a 10/10/24 (diweddariad ar argymhellion Archwiliad Gofal Brys: Llif Allan o'r Ysbyty) erbyn y cyfarfod nesaf	Archwilio Cymru	Wedi ei ddisodli gan eitem fwy diweddar a dderbyniodd sylw yng nghyfarfod 3 Chwefror 2026, <i>Adroddiadau Archwilio Cymru – Llety Dros Dro, Argyfwng Hirdymor?</i>	DILEU

CYNLLUN YMATEB I'R ADRODDIAD CYFIAWNDER TRWY EIN DEWRDER	• Derbyn manylder y Cynllun Ymateb • Yn diolch i'r Swyddogion am eu gwaith ac yn croesawu bod y Cynllun Ymateb yn cael ei drafod mewn sawl fforwm • Bod angen crynodeb / blaen dudalen syml a phendant o'r prif bwyntiau gweithredu • Bod y Pwyllgor yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar y camau sydd wedi eu gweithredu neu sydd yn cael eu hystyried fel ymateb addas a phriodol â'r sefyllfa • Cais gan y Pwyllgor i Estyn gydnabod gwendidau eu hadroddiad ar drefniadau diogelwch y Cyngor, Mehefin 2023 • Bod Trefniadau Canu'r Gloch a Threfniadau Diogelu angen bod ymysg y gorau - croesawu adolygiadau i'r polisïau hyn	Cais i adolygu paragraff olaf 2.5 o'r Cynllun Ymateb: 'Ymchwiliad i Ddigwyddiadau 2019 sydd wedi bod yn destun sylw gan y wasg' – angen mwy o gyd-destun am yr ymchwiliad annibynnol a gwblhawyd a beth oedd y penderfyniad dros beidio rhannu'r adroddiad / casgliadau. Cais i osod cyd-destun i ganmoliaeth Estyn i drefniadau diogelu'r Cyngor (Mehefin 2023). Y geiriad fel y mae yn amhriodol o ystyried y methiannau a ddaethpwyd i'r amlwg yn ddiweddarach.	Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol	Cafodd yr adroddiad ei ystyried gan y Cyngor llawn ar 5 Chwefror 2026. Cyflwynwyd sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y cyfarfod hwnnw.	DILEU

Eitem:	Penderfyniadau / Arsylwadau:	Gweithrediadau:	Swyddog Cyfrifol:	Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau:	Dileu o'r Daflen Weithredu:
	- angen diweddariad ar y gwaith, yr amserlen a'r modd maent yn cael eu mabwysiadu				
CYLLIDEB REFENIW 2025/26 – ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2025	Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd 2025 o'r Gyllideb Refeniw	Nodi sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth	Pennaeth Cyllid Cynorthwyol – Cyfrifeg a Phensiynau	Dim Gweithrediad Pellach	DILEU
RHAGLEN GYFALAF 2025/26 – ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2025	Derbyn yr adroddiad a chytuno ar yr argymhellion i'r Cabinet eu hystyried		Cyfrifydd Grŵp - Cyfalaf a Rheolaeth, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol – Cyfrifeg a Phensiynau	Dim Gweithrediad Pellach	DILEU
TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION	- Derbyn yr adroddiad - Nodi'r cynnydd, y sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt Trosolwg Arbedion	Cynnig cefnogaeth wedi ei dargedu ar gynlluniau nad yw'r Adrannau yn gallu eu gwireddu	Pennaeth Cyllid Cynorthwyol – Cyfrifeg a Phensiynau	Bydd hyn o dan adolygiad parhaus	DILEU

Eitem:	Penderfyniadau / Arsylwadau:	Gweithrediadau:	Swyddog Cyfrifol:	Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau:	Dileu o'r Daflen Weithredu:
POLISI LLEIHAU TRETH CYNGOR O DAN ADRAN 13A(1)(C) O DDEDDF CYLLID LLYWODRAETH LEOL 1992	• Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol • Croesawu penderfyniad y Cabinet i gymeradwyo'r Polisi • Croesawu bod y Polisi o dan adolygiad parhaus a bod modd i'w addasu wrth i unrhyw newidiadau deddfwriaethol neu newid mewn amgylchiadau gael eu cyflwyno.	Ail eirio paragraff 3.3 atodiad 2 – Asesiad Effaith Cydraddoldeb i atgyfnerthu'r datganiad Ychwanegu twristiaeth gynaliadwy fel maes blaenoriaeth i baragraff 4.5, Adroddiad Cabinet	Pennaeth Cyllid Cynorthwyol – Cynaliadwyedd a Datblygiadau, Rheolwr Trethi	Bydd y pwyntiau hyn yn derbyn ystyriaeth wrth adolygu'r Polisi	Na – angen ei gadw tan fydd y Polisi wedi cael ei adolygu'n ffurfiol

Cyfarfod 3 Chwefror 2026

Eitem:	Penderfyniadau Arsylwadau: /	Gweithrediadau:	Swyddog Cyfrifol:	Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau:	Dileu o'r Daflen Weithredu:
MATERION BRYN	Pryder nad oes capasiti digonol gan yr Uned Archwilio Mewnol i gwrdd â disgwyliadau'r Cyngor	• Derbyn adroddiad gan y Pennaeth Cyllid yn amlygu'r sefyllfa a'r risgiau posib. • Angen sicrwydd bod y gwaith sydd angen ei gyflawni gan Archwilio Mewnol yn parhau i fod o safon uchel	Pennaeth Cyllid	Adroddiad ar flaen raglen y Pwyllgor i'w gyflwyno i gyfarfod Gorffennaf 2026	Na
GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR	Derbyn cynnwys yr adroddiad		Pennaeth Cyllid	Dim gweithrediad pellach	DILEU

Eitem:	Penderfyniadau / Arsylwadau:	Gweithrediadau:	Swyddog Cyfrifol:	Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau:	Dileu o'r Daflen Weithredu:
CYLLIDEB 2026/27	• Derbyn yr adroddiad gan nodi'r cynnwys • Derbyn priodoldeb ariannol y cynigion a'r risgiau perthnasol • Cyflwyno sylwadau o'r drafodaeth i'r Cabinet eu hystyried wrth drafod a chymeradwyo Cyllideb 2026/27 yn eu cyfarfod 10/02/26 • Diolch i'r Adran Cyllid am y gwaith trylwyr o baratoi'r Gyllideb • Sefyllfa gorwariant yn bryderus • Pryder bod y gronfa wrth gefn yn lleihau – croesawu ymarferiad cynhaefu • Cynlluniau datblygu / gwella darpariaethau Cartrefi Preswyl yng Ngwynedd - cais i ganfyddiadau ymchwiliad Housing LIN Cymru gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor	Rhestr bidiau cyfalaf - cynllun i ymestyn maes parcio Ysgol y Faenol. Cais gan yr Aelod Lleol am fanylion pellach ynglŷn â rhesymau dros lithrad amser (dyddiad gwreiddiol 2021) a'r costau ynghlwm â'r llithriad - Awgrym i gyflwyno gwybodaeth am dreth y Cyngor mewn gwerth ariannol (£) yn hytrach na chanran (%) yn unig - Datganiad y Swyddog Cyllid 'anochel bod y gyllideb yn cynnwys elfen o risg o ragdybiaethau' ... a oes cynlluniau mewn lle petai ostyngiad yng nghasgliadau premiwm tai, ond cynnydd yn y galw am adeiladu tai?	Pennaeth Cyllid	Y gyllideb wedi ei chyflwyno i'r Cabinet ar 10 Chwefror, a wedi ei chymeradwyo gan y Cyngor Llawn ar 5 Mawrth. Cynamserol cyflwyno diweddariad adroddiad Housing LIN Cymru	Na

Eitem:	Penderfyniadau / Arsylwadau:	Gweithrediadau:	Swyddog Cyfrifol:	Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau:	Dileu o'r Daflen Weithredu:
STRATEGAETH GYFALAF 2026/27 (YN CYNNWYS STRATEGAETH BUDDSODDI A BENTHYG)	• Derbyn yr adroddiad gan nodi'r wybodaeth a'r risgiau perthnasol • Cefnogi bwriad yr Aelod Cabinet Cyllid i gyflwyno'r Strategaeth i'r Cyngor Llawn am gymeradwyaeth ar y 5ed o Fawrth 2026 • Bod cyflwyniad calonogol gan Arlingclose, Ymgynghorwr Rheolaeth Trysorlys y Cyngor (30-01-2026) wedi bod yn fuddiol iawn, ac wedi rhoi hyder a sicrwydd i'r Aelodau bod y Cyngor ar y trywydd cywir		Pennaeth Cyllid	Y Strategaeth wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn ar 5 Mawrth 2026.	DILEU

Eitem:	Penderfyniadau / Arsylwadau:	Gweithrediadau:	Swyddog Cyfrifol:	Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau:	Dileu o'r Daflen Weithredu:
CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL	- Derbyn yr adroddiad a chefnogi'r gweithrediadau sydd eisoes wedi eu cytuno gyda'r gwasanaethau perthnasol - O ganlyniad i ddiffyg gwelliant yn y maes gofal preswyl mewn trefniadau addas ar gyfer rheoli'r cartrefi yn briodol a diffyg cydymffurfiaeth gyda phrosesau rheolaethol, y Pwyllgor angen sicrwydd bod sylwadau Archwilio Mewnol yn cael eu hystyried. Y sefyllfa angen sylw pellach.		Rheolwr Archwilio	Y sefyllfa o ran y cartrefi preswyl i'w adolygu gan Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn	Na
CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2025/26	Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad		Rheolwr Archwilio	Dim gweithrediad pellach	DILEU
SIARTER ARCHWILIO MEWNOL	Derbyn a chymeradwyo cynnwys y Mandad a'r Siarter Archwilio Mewnol, i'w gymeradwyo, a chefnogi Archwilio Mewnol yn ei weithrediadau.		Rheolwr Archwilio	Dim gweithrediad pellach	DILEU

Eitem:	Penderfyniadau / Arsylwadau:	Gweithrediadau:	Swyddog Cyfrifol:	Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau:	Dileu o'r Daflen Weithredu:
STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL A'R CYNLLUN ARCHWILIO BLYNYDDOL 2026/27	Derbyn a chymeradwyo cynnwys y Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2026/2027, i'w cymeradwyo, a chefnogi Archwilio Mewnol yn ei weithrediadau.		Rheolwr Archwilio	Dim gweithrediad pellach	DILEU

Eitem:	Penderfyniadau / Arsylwadau:	Gweithrediadau:	Swyddog Cyfrifol:	Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau:	Dileu o'r Daflen Weithredu:
ADRODDIAD AROLYGAETHAU ESTYN AC AROLYGAETH GOFAL	• Derbyn yr adroddiad • Derbyn bod pedwar o'r argymhellion yn cyfateb i gynlluniau gwaith sydd eisoes yng nghynllun ymateb adroddiad Cyfiawnder Trwy ein Dewrder • Derbyn nad oedd dau o'r argymhellion yn y cynllun ymateb ond eu bod bellach wedi eu cynnwys ac yn derbyn sylw priodol • Gwerthfawrogi dilyniant / adroddiad cynnydd ar yr ymatebion i'r argymhellion • Siomedig eto nad oedd cydnabyddiaeth gan Estyn ar fethiannau eu harolwg ar drefniadau diogelwch y Cyngor, Mehefin 2023		Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth Addysg	Diweddariad i'w gyflwyno gan y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol yn y Cyfarfod ym mis Mai 2026.	Na

Eitem:	Penderfyniadau / Arsylwadau:	Gweithrediadau:	Swyddog Cyfrifol:	Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau:	Dileu o'r Daflen Weithredu:
TREFNIADAU AR GYFER COMISIYNU GWASANAETHAU - CYNGOR GWYNEDD	Derbyn ymateb sefydliadol y Cyngor i'r argymhellion o fewn yr adroddiad A1. Sefydlu trefniadau comisiynu cyson A2. Ymgorffori trefniadau ar draws y Cyngor		Rheolwr Caffael	Dim gweithrediad pellach	DILEU

Eitem:	Penderfyniadau / Arsylwadau:	Gweithrediadau:	Swyddog Cyfrifol:	Diweddariad neu Ddyddiad Cwblhau:	Dileu o'r Daflen Weithredu:
ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU - LLETY DROS DRO, ARGYFWNG HIRDYMOR?	• Derbyn Adroddiad Cenedlaethol Archwilio Cymru • Derbyn ymateb sefydliadol y Cyngor i'r argymhellion; - A1 Gwerth am arian - - A2 Cynllunio ar gyfer Atal A3 Gweithio mewn Partneriaeth • Croesawu'r gwaith da sydd yn cael ei wneud gan yr Uned Ddigartrefedd • Cais am adroddiad yn rhoi diweddariad ar y gwaith peilot sydd yn cael ei wneud gan y Cyngor i ryddhau tai gwag yn ôl i ddefnydd • Derbyn diweddariad ar gynnydd y cynllun ymateb sefydliadol	• Cais am adroddiad yn rhoi diweddariad ar y gwaith peilot sydd yn cael ei wneud gan y Cyngor i ryddhau tai gwag yn ôl i ddefnydd • Derbyn diweddariad ar gynnydd y cynllun ymateb sefydliadol	Rheolwr Digartrefedd a Chefnogaeth, Pennaeth Cynorthwyol Busnes	Dim diweddariad i'w gynnig ar gyfer cyfarfod Mai, 2026	Na
BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR	Derbyn y rhaglen waith hyd Fawrth 2027		Pennaeth Cyllid	Dim gweithrediad pellach	DILEU

3. ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- Ystyried cynnwys y daflen weithredu uchod a chynnig sylwadau
- Cytuno i dynnu o'r taflenni y materion hynny a nodir fod modd eu dileu.

**ADRODDIAD BLYNYDDOL
PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
CYNGOR GWYNEDD
2025-26**

RHAGAIR GAN Y CADEIRYDD

Pwrrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno crynodeb o waith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod 2025/26, a darparu tystiolaeth bosibl o effaith gwaith y Pwyllgor ar drefniadau llywodraethu, rheoli risg ac atebolrwydd Cyngor Gwynedd.

Mae'n fraint i mi gyflwyno adroddiad blynyddol arall y Pwyllgor. Er bod yr adroddiad yn bodloni gofynion statudol, fy ngobaith yw ei fod yn mynd y tu hwnt i fod yn ymarfer o "dicio blwch", ac yn rhoi darlun clir a gonest i'r darllenydd o rôl y Pwyllgor, a'r gwahaniaeth y gall Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cadarn ei wneud i wella trefniadau'r Cyngor a chryfhau hyder y cyhoedd.

Fel pob awdurdod lleol a chorff cyhoeddus, mae Cyngor Gwynedd yn parhau i wynebu heriau sylweddol. Yn ystod 2025/26, bu pwysau parhaus ar gyllidebau gwasanaethau statudol, yn enwedig ym maes gofal, ynghyd ag ansicrwydd ehangach yn y sefyllfa ariannu genedlaethol. O fewn y cyd-destun heriol hwn, rwy'n credu bod trefniadau llywodraethu'r Cyngor, sydd yn destun craffu parhaus gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, wedi parhau i ddangos gwydnwch. Mae gwaith y Pwyllgor wedi rhoi her briodol pan fo angen, ond hefyd cefnogaeth adeiladol i'r Weithrediaeth a'r uwch-reolwyr wrth iddynt wneud penderfyniadau anodd ar ran pobl Gwynedd.

Mae'r heriau ariannol hyn wedi golygu bod rôl y Pwyllgor o ran craffu ariannol wedi bod yn arbennig o ganolog yn ystod y flwyddyn. Rwy'n falch bod y Pwyllgor wedi parhau i chwarae rhan flaenllaw wrth graffu ar y gyllideb, monitro gorwariant, herio defnyddio cronfeydd wrth gefn, ac asesu risgiau i gynaliadwyedd ariannol y Cyngor yn y tymor canolig a'r tymor hir, gan wneud hynny bob amser gyda budd y trethdalwr mewn golwg.

Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'r holl swyddogion, yr Aelodau Etholedig a'r Aelodau Lleyg am eu hymrwymiad a'u cyfraniad drwy gydol y flwyddyn. Mae'r gwaith yma'n dibynnu ar gydweithio effeithiol ac ar berthnasau gwaith agored ac adeiladol. Roedd 2025/26 yn flwyddyn o gryfhau a sefydlogi aelodaeth y Pwyllgor, ac rwy'n croesawu'r cyfraniad gwerthfawr gan Aelodau presennol a newydd fel ei gilydd.

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r cyfnod rhwng Mai 2025 a Mai 2026. Wrth gloi fy rhagair, hoffwn hefyd gydnabod bod y flwyddyn wedi dilyn cyfnod o golled sylweddol i'r Pwyllgor. Roedd marwolaeth y diweddar Sharon Warnes a'r Cynghorydd Rob Triggs yn ystod y flwyddyn flaenorol yn dal yn amlwg yng nghof y Pwyllgor. Roedd eu cyfraniad i waith y Pwyllgor yn sylweddol, ac mae eu hymroddiad i wasanaeth cyhoeddus yn parhau i'n hysbrydoli wrth i ni barhau â'n gwaith.

Mrs Carys Edwards

Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn chwarae rôl allweddol barhaus wrth sicrhau trefn effeithiol ar gyfer llywodraethu da. Prif bwrpas y pwyllgor yw darparu sicrwydd annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y fframwaith rheoli risg a'r amgylcheddau rheoli cysylltiedig; cynnal craffu annibynnol ar berfformiad ariannol ac anariannol yr awdurdod i'r graddau y mae'n effeithio ar ei amlygiad i risg neu'n gallu tanseilio'r amgylchedd rheoli; a goruchwyllo'r trefniadau ar gyfer y broses adrodd ariannol.
2. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'r Pwyllgor yn ystyried ac yn rhoi sylw dyledus i ganllawiau a safonau a gyhoeddir gan amrywiol gyrff a sefydliadau allanol perthnasol, gan gynnwys CIPFA.
3. Yn ôl Datganiad Sefyllfa CIPFA i Bwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu (2022), diben y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw:

Darparu ffocws annibynnol a lefel uchel ar ddigonolrwydd trefniadau llywodraethu, risg a rheoli. Mae rôl y pwyllgor yn sicrhau bod digon o sicrwydd ynghylch risg a rheolaeth lywodraethu ac felly yn rhoi mwy o hyder i bawb sy'n gyfrifol am lywodraethu bod y trefniadau hynny'n effeithiol.

CYFNOD YR ADRODDIAD

4. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu gwaith y Pwyllgor am y cyfnod rhwng cyfarfod blynyddol y Cyngor ar 22 Mai 2025 a'r cyfarfod blynyddol ar 1 Mai 2026. Cynhaliwyd 6 cyfarfod o'r Pwyllgor yn ystod cyfnod dan sylw:

[22 Mai 2025](#)

[11 Medi 2025](#)

[9 Hydref 2025](#)

[13 Tachwedd 2025](#)

[15 Ionawr 2026](#)

[3 Chwefror 2026](#)

AELODAETH Y PWYLLGOR

5. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys 12 Cynghorydd ar sail cydbwysedd gwleidyddol, ynghyd a chwe 'aelod lleyg', sef person nad yw'n aelod o awdurdod lleol. Serch hynny, roedd nifer o seddi gwag ar y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn.
6. Roedd presenoldeb yr aelodau yn y cyfarfodydd fel a ganlyn:

Cadeirydd (Aelod Lleyg)

	22/05/2025	11/09/2025	09/10/2025	13/11/2025	15/01/2026	03/02/2026
Carys Edwards	x	✓	✓	x	✓	✓

Is-gadeirydd (Aelod Lleyg)

	22/05/2025	11/09/2025	09/10/2025	13/11/2025	15/01/2026	03/02/2026
Rhys Parry	x	✓	✓	✓	✓	✓

Cynghorwyr

	22/05/2025	11/09/2025	09/10/2025	13/11/2025	15/01/2026	03/02/2026
Cyng. Elfed Wyn ap Elwyn	✓	✓	✓	x	✓	✓
Cyng. Menna Baines	x	✓	✓	x	✓	✓
Cyng. Meryl Roberts	✓	x	x	✓	✓	x
Cyng. Huw Rowlands	✓	x	✓	✓	✓	✓
Cyng. Elwyn Jones	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Cyng. Edgar Owen	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Cyng. Arwyn Herald Roberts	✓	✓	x	✓	✓	✓
Cyng. Richard Glyn Roberts	x	x	✓	✓	✓	x
Cyng. Angela Russell	✓	✓	✓	✓	✓	x
Cyng. Rob Triggs ¹	x					
Cyng. Dafydd Meurig	x	✓	x	x		
Cyng. Ioan Thomas	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Cyng. Wendy Cleaver			x	x	x	x
Cyng. Geraint Wyn Parry					✓	✓

¹ Bu farw Cyng. Rob Triggs ym mis Mai, 2025.

Lleyg

	22/05/2025	11/09/2025	09/10/2025	13/11/2025	15/01/2026	03/02/2026
Hywel Eifion Jones	✓	✓	x	✓	✓	✓
Dr Peter Barnes ²		✓	✓	✓	✓	✓
Dewi E Lewis ²		✓	✓	✓	✓	✓
Paul Millar Mills ²		✓	✓	✓	✓	✓

² Wedi eu penodi ar 3 Gorffennaf 2025.

SWYDDOGAETHAU'R PWYLLGOR

- Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 Rhan 6, Pennod 2 rhaid i Gyngor Gwynedd sefydlu pwyllgor llywodraethu ac archwilio gyda rhai swyddogaethau mandadol, ac mae ganddo hefyd yr hawl i gyflawni unrhyw swyddogaethau addas eraill.

8. Mae Cyfansoddiad Cyngor Gwynedd yn pennu'r canlynol fel swyddogaethau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

Swyddogaeth na all fod yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth

Y ddyletswydd i gymeradwyo datganiad awdurdod o'i gyfrifon, ei incwm, a'i wariant a'i fantolen neu ei gofnod o dderbyniadau a thaliadau (yn ôl fel y digwydd) yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

Swyddogaethau mandadol o dan fesur llywodraeth leol (Cymru) 2011

Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau statudol canlynol o dan Adran 81 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (fel y diwygiwyd) :

- (a) arolygu materion ariannol yr awdurdod a chraffu arnynt,
- (b) llunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr awdurdod,
- (c) adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol, asesu perfformiad a llywodraethu corfforaethol,
- (ch) llunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny,
- (d) adolygu ac asesu gallu'r awdurdod i ymdrin â chwynion mewn modd effeithiol
- (e) llunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas â gallu'r awdurdod i ymdrin â chwynion mewn modd effeithiol.
- (f) arolygu trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod, ac
- (g) adolygu'r datganiadau ariannol a lunnir gan yr awdurdod.
- (ng) Gweithredu swyddogaethau Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym Mhennod 1 o Ran 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (perfformiad prif gynghorau a'u llywodraethu).

Swyddogaethau Eraill

Bydd y pwyllgor hefyd yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau canlynol :-

- (i) hybu rheolaeth fewnol, gan sefydlu amserlen i adolygu rheolaeth, datblygu diwylliant sydd yn milwrio yn erbyn twyll ac adolygu gweithdrefnau cyllidol;
- (ii) canolbwyntio adnoddau archwilio'r Cyngor trwy gytuno ar gynlluniau archwilio a monitro darpariaeth archwilio;
- (iii) monitro perfformiad archwilio trwy sicrhau gwaith swyddogion o fewn amserlenni, sicrhau bod adroddiadau archwilio yn cael eu cyhoeddi yn brydlon ac yr ymatebir iddynt yn yr un modd, monitro cwblhau'r cyfrifon a sicrhau y gweithredir argymhellion archwilio;

(iv) ystyried sylwadau a phryderon am wasanaethau unigol ar lefel sirol, ar sail adroddiadau gan y swyddogion o'r Cyngor neu Archwilio Cymru a monitro ymateb a gweithrediad ar argymhellion neu ganfyddiadau'r adroddiadau.

GWAITH Y PWYLLGOR YN YSTOD 2025/26

Adolygu a chymeradwyo'r datganiadau ariannol a lunnir gan yr awdurdod

9. Yn y cyfarfod ar 22 Mai 2025, cymeradwyodd y Pwyllgor gyfrifon terfynol Harbyrau Gwynedd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025, oedd yn cwmpasu Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2024/25 yn ogystal â'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 (yn amodol ar archwiliad gan Archwilio Cymru).
10. Cyflwynwyd Datganiad o Gyfrifon drafft Cyngor Gwynedd yn amodol ar archwiliad 2024/25 i'r Pwyllgor yn y cyfarfod ar 11 Medi 2025. Nid oes gofyn statudol i aelodau etholedig gymeradwyo'r fersiwn drafft o'r Datganiad o Gyfrifon. Er hynny, ystyrir bod cyflwyno'r datganiad drafft i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er gwybodaeth yn arfer da i'w ddilyn, ac yn gyfle i'r Aelodau holi swyddogion ariannol am y cynnwys ac arfogi eu hunain gyda gwybodaeth berthnasol er mwyn ystyried risgiau perthnasol, a materion eraill fydd yn destun archwiliad, yn eu cyd-destun. Yn ystod y drafodaeth bu'r Pwyllgor yn herio'r swyddogion Cyllid ar wahanol agweddau o'r cyfrifon, yn enwedig o ran sefyllfa gorwariant gwasanaethau, cynaliadwyedd cronfeydd wrth gefn, a chadernid y trefniadau ariannol.
11. Cyflwynwyd y Cyfrifon Terfynol am y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025, ynghyd â'r archwiliad perthnasol, i gyfarfod y Pwyllgor ar 13 Tachwedd 2025. Ar ôl ystyried adroddiad Archwilio Cymru ar y cyfrifon (adroddiad "ISA 260"), penderfynodd y Pwyllgor:
- Derbyn a chymeradwyo Adroddiad 'ISA 260' gan Archwilio Cymru ar gyfer Cyngor Gwynedd
 - Derbyn a chymeradwyo Datganiad o'r Cyfrifon 2024/25 (ôl-archwiliad)
 - Awdurdodi Cadeirydd neu Is-gadeirydd y Pwyllgor, ynghyd â Phennaeth y Gwasanaeth Cyllid, i ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth yn electroneg
 - Llongyfarch y swyddogion ar eu gwaith o sicrhau casgliad archwiliad diamod
 - Diolch i Archwilio Cymru am eu cydweithrediad a'u cefnogaeth broffesiynol.

Arolygu materion ariannol yr awdurdod, craffu arnynt, gan lunio adroddiadau a gwneud argymhellion

Cynllun Ariannol Tymor Canolig

12. Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet Cyllid ar y Cynllun Ariannol Tymor Canolig i'r Pwyllgor ar 9 Hydref 2025, mewn ymateb i'r heriau ariannol parhaus sy'n wynebu'r Cyngor. Pwrpas y cynllun yw gosod allan y rhagolygon am sefyllfa ariannol y Cyngor dros y tair blynedd ariannol nesaf, gan gyflwyno rhagdybiaethau allweddol ynghyd â chynigion i fynd i'r afael â'r bwlch ariannol sylweddol sy'n wynebu'r Cyngor. Amlygwyd bod y Cynllun yn ddogfen fyw sy'n cael ei diweddarau'n rheolaidd wrth i wybodaeth newydd ddod i law, a bod unrhyw newidiadau'n cael eu cyflwyno i'r Cabinet i'w hystyried.
13. Adroddwyd fod y Cabinet wedi penderfynu parhau i gomisiynu'r Prif Weithredwr i arwain ar gyfres o fesurau a phecynnau gwaith er mwyn paratoi ar gyfer cyfarch y bwlch ariannol sylweddol dros y blynnyddoedd nesaf. Roedd y gwaith yn cynnwys ystyried opsiynau ar gyfer ariannu gwasanaethau, adnabod cyfleoedd arbedion ac effeithlonrwydd, a rhoi darlun cliriach o gynaliadwyedd ariannol y Cyngor yn y tymor canolig, er mwyn cefnogi penderfyniadau strategol mewn cyfnod ariannol heriol. Ategwyd y byddai'r cynllun yn parhau i gael ei adolygu wrth i ragolygon ariannu cenedlaethol a lleol esblygu.

14. Ar ôl herio'r swyddogion a'r Aelod Cabinet am gynnwys y Cynllun, yn enwedig ynghylch rhagdybiaethau ariannu, lefel y risgiau ariannol, a'r goblygiadau i wasanaethau statudol, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad, nodi'r risgiau perthnasol sy'n deillio o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, a chefnogi'r trefniadau llywodraethu a'r dull gweithredu a fabwysiadwyd gan y Cabinet.

Gwariant Refeniw

15. Mae'r Pwyllgor wedi derbyn adroddiadau rheolaidd ar sefyllfa ariannol yr awdurdod yn ystod 2025/26. Cyflwynwyd adroddiad Alldro Refeniw ar y Cyfrifon Terfynol 2024/25 i gyfarfod y Pwyllgor ar 22 Mai 2025 er mwyn galluogi'r Pwyllgor i dderbyn gwybodaeth, ystyried unrhyw risgiau sy'n deillio o'r gwir wariant ac incwm yn erbyn cyllideb 2024/25, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau. Roedd yr adroddiad yn manylu ar wariant y Cyngor yn 2024/25, sefyllfa alldro tanwariant neu orwariant yr adrannau unigol, a'r rhesymau dros hynny. Diolchwyd am yr adroddiad a chydnabwyd bod y cyfnod yn un heriol iawn i wasanaethau. Cafwyd trafodaeth eang lle mynegwyd pryder penodol am lefel gorwariant parhaus mewn gwasanaethau statudol, yn enwedig ym maes gofal, a'r goblygiadau hirdymor i gynaliadwyedd ariannol y Cyngor. Nododd y Pwyllgor fod derbyn adroddiadau parhaus ar y sefyllfa yn fuddiol, ond mynegwyd pryder bod risg sylweddol i'r gorwariant waethygu yn y tymor canolig a'r tymor hwy, yn enwedig yn sgil pwysau demograffig a galw cynyddol.
16. Yn ogystal ag ystyried y sefyllfa alldro ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, cynhaliwyd adolygiadau ffurfiol o sefyllfa'r gyllideb refeniw yn ystod 2025/26, gan gynnwys adolygiad diwedd Awst 2025 ac adolygiad diwedd Tachwedd 2025. Cyflwynwyd yr adroddiadau hyn i'r Pwyllgor yn y cyfarfodydd priodol er mwyn nodi'r sefyllfa ddiweddaraf, y risgiau ariannol perthnasol, a'r rhagolygon hyd ddiwedd y flwyddyn. Ar yr achlysuron hyn penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiadau, nodi'r sefyllfa a'r risgiau yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, a bu i'r Pwyllgor gyd-dynnu gyda'r argymhellion a gyflwynwyd gan y Cabinet ar gyfer ymdrin â'r gorwariant a ragwelwyd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, gan bwysleisio'r angen am fonitro parhaus a chamau lliniaru realistig.
17. Ymhlith y materion a godwyd yn ystod y trafodaethau hyn roedd yr angen i'r Cabinet barhau i herio amserlen a chynnydd y gwaith a gomisiynwyd gan y Prif Weithredwr er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r gorwariant parhaus ac eithriadol yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Tynnodd y Pwyllgor sylw at bwysigrwydd sicrhau bod y gwaith hwn yn ei le, ac yn ddigon cadarn, er mwyn cefnogi gosod cyllidebau realistig gan y Cabinet. Yn ystod 2025/26, mynychodd Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant gyfarfodydd y Pwyllgor i roi cyd-destun ac eglurhad pellach ar y prif benawdau cyllidebol, gan fanylu ar y pwysau ariannol sylweddol sy'n wynebu'r gwasanaeth a'r camau sydd ar waith i liniaru'r risgiau hynny.
18. Nodwyd hefyd fod y defnydd parhaus o gronfeydd wrth gefn yn parhau i achosi pryder gan y Pwyllgor. Pwysleisiwyd, er bod cronfeydd wrth gefn yn chwarae rhan bwysig wrth reoli pwysau tymor byr ac ymateb i sefyllfaoedd eithriadol, fod angen sicrhau bod unrhyw ddefnydd ohonynt yn briodol, wedi'i dargedu, ac yn canolbwyntio ar ymateb i angen pendant, yn hytrach na chuddio problemau strwythurol hirdymor o fewn cyllidebau gwasanaethau.

Rhaglen Gyfalaf

19. Ar 22 Mai 2025, cyflwynwyd Adolygiad Diwedd Blwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2025) Rhaglen Gyfalaf 2024/25 i'r Pwyllgor. Prif ddiben yr adroddiad oedd cyflwyno'r rhaglen gyfalaf diwygiedig ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ynghyd â chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad, gan nodi'r sefyllfa a'r risgiau yng nghyswllt Rhaglen Gyfalaf y Cyngor, yn enwedig mewn perthynas â llithriadau amserlenni, dibyniaeth ar grantiau allanol, a chynaliadwydd y rhaglen yn y tymor canolig.
20. Cyflwynwyd adroddiadau ar adolygiad diwedd Awst 2025 o'r Rhaglen Gyfalaf i'r Pwyllgor ar 9 Hydref 2025, ac ar adolygiad diwedd Tachwedd 2025 i'r cyfarfod ar 15 Ionawr 2026, er mwyn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf, ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Gyfalaf, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet. Ar yr achlysuron hyn penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiadau, gan nodi'r sefyllfa a chefnogi'r trefniadau llywodraethu ar gyfer rheoli a monitro gwariant cyfalaf y Cyngor.

Rhaglen Arbedion

21. Ynghlwm â'r adolygiad o sefyllfa'r gyllideb refeniw, derbyniodd y Pwyllgor hefyd adroddiadau penodol yn ystod 2025/26 ar allu'r Cyngor i wireddu ei gynlluniau arbedion. Cyflwynwyd adroddiadau cynnydd ar wireddu cynlluniau arbedion i'r Pwyllgor yn y cyfarfodydd ar 9 Hydref 2025 a 15 Ionawr 2026, er mwyn galluogi'r Pwyllgor i ystyried y cynnydd a wnaed, adnabod risgiau cyffredinol sy'n deillio o unrhyw lithriadau, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt Trosolwg yr Arbedion.
22. Awgrymodd y Pwyllgor barhau i ddatblygu ffyrdd cliriach a mwy defnyddiol o gyflwyno gwybodaeth am arbedion, gan bwysleisio gwerth gwahaniaethu'n glir rhwng y sefyllfa hanesyddol a'r sefyllfa ddiweddaraf, er mwyn gallu adnabod risgiau i'r sefyllfa gyfredol yn fwy effeithiol. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod bod y rhan fwyaf o'r arbedion "haws" eisoes wedi'u gwireddu, ac felly bod yr arbedion sydd angen eu cyflawni yn y dyfodol agos yn fwy heriol. O ganlyniad, nodwyd yr angen i sicrhau bod amserlenni realistig ar gyfer gweithredu, a bod adrannau'n cael cyfle i gynllunio'n fwy strategol i'r tymor canolig a'r tymor hir. Er yr heriau hyn, cydnabuwyd bod y wybodaeth a gyflwynwyd yn fanwl ac wedi'i chyflwyno mewn modd dealladwy, gan gynorthwyo'r Pwyllgor yn ei rôl lywodraethu.
23. Oherwydd y bwlch ariannol sylweddol y mae'r Cyngor yn parhau i'w wynebu dros y blynyddoedd nesaf, bu'n angenrheidiol datblygu cynlluniau arbedion pellach ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27 ymlaen. Cyflwynwyd adroddiad gan Arweinydd y Cyngor i gyfarfod y Pwyllgor ar 3 Chwefror 2026, oedd yn cyflwyno cyfres o arbedion arfaethedig i gefnogi gosod cyllideb gytbwys ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried priodoldeb y broses o adnabod yr arbedion, a chyflwyno sylwadau i'r Cabinet eu hystyried cyn dod i benderfyniad yn y cyfarfod ar 10 Chwefror 2026. Roedd y Pwyllgor yn glir nad ei rôl oedd mynegi barn ar faint yr arbedion na rhinweddau'r cynigion unigol, ond yn hytrach sicrhau bod y Cabinet yn glir o'r ffeithiau, y risgiau a'r goblygiadau sy'n gysylltiedig â'r cynigion, fel bod unrhyw benderfyniad yn seiliedig ar wybodaeth gadarn. Penderfynodd y

Pwyllgor:

- Bod camau rhesymol, o dan amgylchiadau ariannol heriol, wedi'u cymryd i lunio'r Cynllun Arbedion
- Bod yr arbedion a gynnigwyd yn rhesymol ac, ar y cyfan, yn gyraeddadwy
- Bod y risgiau a'r goblygiadau sy'n deillio o'r penderfyniadau'n glir
- Bod yr adroddiad yn ddigonol i alluogi'r Cabinet i wneud penderfyniad gwybodus

- Cyflwyno sylwadau'r drafodaeth i'r Cabinet eu hystyried wrth drafod a chymeradwyo'r Cynllun Arbedion yn cyfarfod ar 10 Chwefror 2026
- Croesawu'r cyfle i fynychu gweithdai rhannu gwybodaeth fel rhan o'r broses graffu.

24. Yn ogystal â hynny, gofynnodd y Pwyllgor i'r Cabinet ystyried adolygu trefniadau ymgynghori cyhoeddus yn y dyfodol, er mwyn rhoi cyfle i drigolion fynegi barn ar lefelau treth a'r pwysau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor, yn ogystal ag annog rhagor o ymdrech i resymoli gwasanaethau a nodi cyfleoedd pellach ar gyfer effeithlonrwydd, lle y bo'n briodol.

Rheolaeth Trysorlys

25. Yn unol â threfniadau llywodraethu da â gofynion statudol, mae'r Pwyllgor wedi derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithgareddau Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn ystod 2025/26. Ar ôl derbyn diweddariad chwarterol ar 22 Mai 2025, cyflwynwyd adroddiad i gyfarfod y Pwyllgor ar 11 Medi 2025 ar wir ganlyniadau Rheolaeth Trysorlys y Cyngor 2024/25, yn erbyn y Strategaeth Rheolaeth Trysorlys a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ym Mawrth 2024. Yn dilyn hynny, cyflwynwyd diweddariad chwarterol Rheolaeth Trysorlys i'r Pwyllgor yn y cyfarfod ar 9 Hydref 2025, ynghyd ag adolygiad canol blwyddyn Rheolaeth Trysorlys 2025/26 i gyfarfod 13 Tachwedd 2025. Pwrpas yr adroddiadau hyn oedd diweddarau'r Pwyllgor ar weithgarwch gwirioneddol Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol, a rhoi sicrwydd bod y trefniadau'n parhau i gydymffurfio â Chod Ymarfer CIPFA.

Gosod Cyllideb

26. Wrth agosáu at ddiwedd blwyddyn ariannol 2025/26, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad ar Gyllideb 2026/27 yn y cyfarfod ar 3 Chwefror 2026, er mwyn craffu ar y wybodaeth cyn i'r Cabinet argymhell cyllideb 2026/27 i'r Cyngor Llawn. Rôl y Pwyllgor yn y cyd-destun hwn oedd craffu ar y wybodaeth a gyflwynwyd, gan sicrhau bod y Cabinet a'r Cyngor Llawn yn glir o'r ffeithiau, y rhagdybiaethau ariannol a'r risgiau cysylltiedig, fel bod unrhyw benderfyniad yn seiliedig ar wybodaeth gadarn. I gynorthwyo'r gwaith hwn, cafodd Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg y Pwyllgor gyfle i fynychu sesiwn frifio ar y sefyllfa ariannol gan y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid yn ystod diwedd Ionawr 2026.
27. Ar ôl ystyried yr adroddiad a'i atodiadau, penderfyniad y Pwyllgor oedd derbyn yr adroddiad, nodi'r cynnwys, derbyn priodoldeb ariannol y cynigion a'r risgiau perthnasol, a chyflwyno sylwadau o'r drafodaeth i'r Cabinet eu hystyried wrth drafod a chymeradwyo Cyllideb 2026/27 yn y cyfarfod ar 10 Chwefror 2026.
28. Hefyd yn y cyfarfod ar 3 Chwefror 2026, bu'r Pwyllgor yn ystyried Strategaeth Gyfalaf 2026/27 (yn cynnwys y Strategaethau Buddsoddi a Benthgyl), er mwyn nodi ac ystyried unrhyw risgiau sy'n deillio o'r strategaeth cyn ei chyflwyno i'r Cyngor Llawn. Nodwyd bod y cyflwyniad a dderbyniodd aelodau'r Pwyllgor gan Arlingclose, ymgynghorwyr Rheolaeth Trysorlys y Cyngor, yn hynod ddefnyddiol wrth gefnogi dealltwriaeth yr Aelodau o'r strategaeth. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad, nodi'r wybodaeth a'r risgiau perthnasol, a chefnogi bwriad yr Aelod Cabinet Cyllid i gyflwyno'r Strategaeth Gyfalaf i'r Cyngor Llawn i'w chymeradwyo ym Mawrth 2026.

Hybu rheolaeth fewnol; Adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol, asesu perfformiad a llywodraethu corfforaethol, gan lunio adroddiadau a gwneud argymhellion

Adroddiadau Archwilio Mewnol

29. Pwrpas Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor ydi “Rhoi hyder i’r dinesydd a’r Cyngor ar amgylchedd rheoli a threfniadau llywodraethu'r Cyngor drwy adrodd yn annibynnol ac yn wrthrychol i’r Pennaeth Cyllid a’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae archwilio mewnol yn cryfhau gallu’r sefydliad i greu, diogelu a chynnal gwerth drwy ddarparu sicrwydd, cyngor, mewnwelediad a rhagwelediad annibynnol, gwrthrychol ac ar sail risg i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a’r Rheolwyr”.
30. Mae adroddiadau archwilio mewnol yn arf pwysig felly i alluogi’r Pwyllgor i gyflawni ei swyddogaeth o adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau a rheolaeth fewnol.
31. Mae mwyafrif adroddiad Archwilio Mewnol yn gosod canlyniad y gwaith i un o bedwar categori o lefel sicrwydd, fel dangosir yn y tabl isod:

LEFEL SICRWYDD	UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.
	DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru’r risgiau ymhellach.
	CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â’r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau’r risgiau mae’r gwasanaeth yn agored iddynt.
	DIM SICRWYDD	Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion.

32. Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol 2024/25 i gyfarfod y Pwyllgor ar 22 Mai 2025. Ar sail gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2024/25, roedd y Rheolwr Archwilio o’r farn bod fframwaith rheolaeth fewnol Cyngor Gwynedd yn gweithredu ar lefel sicrwydd rhesymol, o ran digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol trefniadau llywodraethu’r Awdurdod, rheoli risg a rheolaeth fewnol.
33. Mae’r Pwyllgor wedi derbyn diweddariadau rheolaidd ar waith Archwilio Mewnol yn ystod 2025/26. Cyflwynwyd adroddiad i’r Pwyllgor ar 11 Medi 2025, yn rhoi diweddariad ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod cynnar o’r flwyddyn ariannol. Amlygwyd bod nifer sylweddol o archwiliadau wedi’u cwblhau o dan Gynllun Gweithredol 2025/26, gyda’r canlyniadau’n dangos cymysgedd o lefelau sicrwydd.
34. Cyflwynwyd adroddiad pellach i’r Pwyllgor ar 9 Hydref 2025 yn diweddarau’r Aelodau ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod hyd ddiwedd Medi 2025. Nodwyd bod cynnydd da wedi’i wneud o ran cwblhau archwiliadau, gyda rhai yn derbyn lefelau “sicrwydd uchel” a “sicrwydd digonol”, ond hefyd

nifer o achosion ble nodwyd “sicrwydd cyfyngedig”, yn enwedig mewn meysydd gwasanaeth sensitif
megis gofal preswyl a gwasanaethau cefnogol.

35. Cyflwynwyd adroddiad ychwanegol i gyfarfod y Pwyllgor ar 3 Chwefror 2026, yn cwmpasu gwaith Archwilio Mewnol hyd 25 Ionawr 2026. Amlygwyd bod nifer sylweddol o archwiliadau cynllun gweithredol 2025/26 wedi eu cwblhau, gyda’r canlyniadau’n adlewyrchu heriau parhaus mewn cydymffurfiaeth â phrosesau, yn hytrach nag absenoldeb trefniadau rheoli ffurfiol.
36. Rhoddwyd sylw manwl i’r holl adroddiadau hyn gan y Pwyllgor. Lle nodwyd lefel sicrwydd cyfyngedig, gwnaethpwyd cais am wybodaeth ddilydol, eglurhad pellach ac amserlenni gweithredu priodol, er mwyn galluogi’r Pwyllgor i gyflawni ei ddyletswyddau llywodraethu a sicrhau bod camau gwella priodol yn cael eu cymryd gan yr Adrannau perthnasol.
37. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn gynnwys yr adroddiadau Archwilio Mewnol, nodi’r wybodaeth a gyflwynwyd, a phwysleisio’r angen am gynnydd mesuradwy yn y meysydd ble nodwyd gwendidau parhaus. Tynnwyd sylw at werth galw materion penodol gerbron y Gweithgor Gwella Rheolaethau lle bo’n briodol.
38. Yn ystod cyfarfod 3 Chwefror 2026, cafwyd trafodaeth fanwl ar sefyllfa gwasanaethau gofal preswyl, gyda mewnbwn gan swyddogion perthnasol, yn cynnwys y Pennaeth Gwasanaeth a Chyfarwyddwyr Corfforaethol. Ymhlith y materion a godwyd gan Aelodau roedd:
- Yr angen i sicrhau cyllidebau digonol a rheolaeth well dros variant.
 - Pryderon ynghylch gwendidau gweinyddol a chydymffurfiaeth reolaethol o fewn rhai darpariaethau.
 - Yr angen am ddata rheolaethol dibynadwy i fonitro perfformiad a gwariant.
 - Sicrhau bod llwyddiant gwelliant yn cael ei fesur ac yn weladwy dros amser.
 - Y gofyn am adroddiadau dilynol clir ar gynnydd a chanlyniadau.
39. Penderfynwyd derbyn a nodi’r cynnydd hyd yma, cefnogi’r camau gweithredu a gytunwyd gan y gwasanaethau perthnasol, a chadarnhau bod angen diweddariad pellach yn ystod y flwyddyn ganlynol er mwyn rhoi sicrwydd bod gwelliannau’n cael eu gwreiddio a bod y risgiau a nodwyd gan Archwilio Mewnol yn cael eu lliniaru’n effeithiol.

Adroddiadau Archwilwyr Allanol

40. Cyflwynwyd adolygiad o’r Cynllun Dirprwyo i’r Pwyllgor yn ystod ei gyfarfod ar 11 Medi 2025, gyda’r bwriad o ystyried a chefnogi diwygiadau arfaethedig i’r trefniadau dirprwyo i swyddogion mewn perthynas â chaffael a gwaredu eiddo. Trafododd y Pwyllgor y newidiadau arfaethedig, gan ystyried y goblygiadau llywodraethu a’r angen am gydbwysedd priodol rhwng hyblygrwydd gweithredol a threfniadau goruchwyllo. Roedd y Pwyllgor yn fodlon cefnogi’r diwygiadau a chytunodd i’w hargymell i’r Cyngor Llawn i’w cymeradwyo, gan nodi bod y newidiadau’n cryfhau eglurder a chydymffurfiaeth o fewn y Cynllun Dirprwyo.
41. Ar 22 Mai 2025, cyflwynodd Archwilio Cymru adroddiadau i’r Pwyllgor yn rhan o’i waith archwilio allanol. Roedd yr adroddiadau hyn yn cynnwys adroddiadau cenedlaethol yn ymwneud â defnydd effeithiol o adnoddau a threfniadau llywodraethu, ynghyd ag adroddiadau oedd yn berthnasol i Gyngor

Gwynedd. Cyflwynwyd ymatebion rheolwyr oedd yn amlinellu'r camau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd i ymateb i'r argymhellion, ac roedd y Pwyllgor yn fodlon gyda chynnwys yr ymatebion hyn.

42. Cyflwynwyd diweddariad ar Fenter Twyll Cenedlaethol 2024-25 i'r Pwyllgor yng nghyfarfod ar 13 Tachwedd 2025, gan amlinellu cynnwys yr ymarfer a'r trefniadau sydd mewn lle i adnabod ac atal twyll. Ystyriodd y Pwyllgor yr wybodaeth a gyflwynwyd, cynnig sylwadau ar y dull gweithredu a'r canfyddiadau cychwynnol, ac roedd yn fodlon derbyn yr adroddiad. Nodwyd bod y Fenter yn chwarae rôl bwysig wrth gryfhau trefniadau llywodraethu, rheolaeth ariannol a sicrwydd y Cyngor, a chytunodd y Pwyllgor i gadw goruchwyliaeth briodol dros unrhyw gamau dilynol sy'n deillio o'r gwaith.
43. Yn ystod 2025/26, ystyriodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nifer o faterion yn ymwneud â Threth Cyngor fel rhan o'i rôl sicrwydd dros reolaeth ariannol a refeniw'r Cyngor. Yn y cyfarfod ar 13 Tachwedd 2025, cyflwynwyd adroddiad ar Gyfraddau Casglu Treth Cyngor, gan ddarparu trosolwg o berfformiad presennol y trefniadau casglu a'r ffactorau sy'n dylanwadu arnynt. Ystyriodd y Pwyllgor gynnwys yr adroddiad, gan nodi'r heriau a'r risgiau perthnasol, a chyflwynodd sylwadau lle bo angen, gan amlygu ei gefnogaeth i'r trefniadau gweithredol a'r camau sydd mewn lle gan yr adran.
44. Yn ogystal, yn ystod cyfarfod y Pwyllgor ar 15 Ionawr 2026, cyflwynwyd Polisi Lleihau Treth Cyngor o dan Adran 13A(1)(c) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, gan roi trosolwg o'r sefyllfa bresennol a'r risgiau perthnasol sy'n deillio o gynnwys y Polisi. Ystyriodd y Pwyllgor y penderfyniad a wnaed gan y Cabinet, gan drafod y goblygiadau ariannol a llywodraethu, a nododd briodoldeb y trefniadau, gan ddarparu goruchwyliaeth briodol fel rhan o'i rôl sicrwydd mewn perthynas â phenderfyniadau cyllidol y Cyngor.
45. Cyflwynwyd canfyddiadau archwiliad y Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) i drefniadau'r Cyngor mewn perthynas ag ymateb i geisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol i'r Pwyllgor yn ystod ei gyfarfod ar 22 Mai 2025, gan ddarparu trosolwg o'r canfyddiadau a'r meysydd i'w gwella. Ystyriodd y Pwyllgor gynnwys yr adroddiad, gan nodi'r goblygiadau llywodraethu a'r angen am drefniadau cadarn i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion statudol. Roedd y Pwyllgor yn fodlon derbyn yr adroddiad ac yn cydnabod pwysigrwydd gweithredu'r camau priodol i gryfhau trefniadau ymateb, tryloywder a rheoli gwybodaeth y Cyngor.
46. Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd y Pwyllgor hefyd adroddiadau penodol gan Archwilio Cymru mewn perthynas â chyflawni dyletswyddau statudol a threfniadau llywodraethu'r Cyngor, gan gynnwys adroddiadau oedd yn archwilio sut mae'r Cyngor yn cynllunio ac yn asesu cynaliadwyedd ei weithgarwch a'i flaenoriaethau strategol. Ystyriodd y Pwyllgor gynnwys yr adroddiadau, ynghyd â'r ymatebion sefydliadol, a nodwyd bod y camau gweithredu arfaethedig yn briodol ac yn gyson â blaenoriaethau'r Cyngor.
47. Ar 11 Medi 2025, cyflwynwyd i'r Pwyllgor adroddiad Arolygiadau allanol perthnasol, yn cynnwys gwaith arolygu ar wasanaethau penodol. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad ar ganfyddiadau ac argymhellion yr arolygiad, gan nodi'r gwaith cadarnhaol a wnaed gan y gwasanaethau dan sylw. Lle bo'n briodol, awgrymwyd y dylid datblygu'r data a gyflwynir yn y dyfodol er mwyn cryfhau'r dystiolaeth perfformiad, gan gynnwys ystyriaeth o feysydd megis y ddarpariaeth Gymraeg.

48. Cyflwynwyd adroddiadau pellach gan Archwilio Cymru i'r Pwyllgor yn ystod 2025/26 yn ymwneud â gofal, gweithio mewn partneriaeth a gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, gan gynnwys gwaith ar y cyd ar lefel ranbarthol. Nodwyd bod y Cyngor yn chwarae rhan weithredol mewn trefniadau ranbarthol, a bod llawer o'r canfyddiadau'n cyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol Cyngor Gwynedd. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn cynnwys yr adroddiadau a gofyn am ddiweddariadau pellach ar gynnydd yn erbyn argymhellion lle bo hynny'n briodol.
49. Wrth gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 3 Chwefror 2026, ystyriodd y Pwyllgor fater capasiti ac ansawdd Archwilio Mewnol fel rhan o'i rôl darparu sicrwydd annibynnol. Codwyd pryderon ynghylch gallu'r Uned Archwilio Mewnol i gwrdd â disgwyliadau'r Cyngor, ac ystyriwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid a oedd yn amlinellu'r sefyllfa a'r risgiau posibl. Rhoddodd y Pwyllgor bwyslais ar yr angen i sicrhau bod gwaith Archwilio Mewnol yn parhau i fod o safon uchel, a chytunodd i gadw'r sefyllfa dan oruchwyliaeth barhaus er mwyn sicrhau bod trefniadau llywodraethu a rheoli risg y Cyngor yn parhau'n gadarn.
50. Yn y cyfarfod ar 15 Ionawr 2026, ystyriodd y Pwyllgor adroddiadau Archwilio Cymru ar gynaliadwyedd ariannol, gan gynnwys adroddiadau cenedlaethol a lleol oedd yn asesu gallu awdurdodau lleol i ymateb i bwysau ariannol tymor canolig a thymor hir. Cyflwynwyd ymateb y Cyngor i'r argymhellion, gan gynnwys cynllun gweithredu. Yn ystod y drafodaeth, nodwyd ymhlith materion eraill:
- Bod angen datblygu'r cynllun gweithredu ymhellach dros amser, gan gydnabod mai cychwyn y broses oedd y camau cychwynnol.
 - Y posibilrwydd o dreialu dulliau newydd o gyllidebu, megis cyllidebu di-sylfaen, i gefnogi trawsnewid gwasanaethau.
 - Bod yr adroddiadau'n ystyried y darlun strategol ehangach o gynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol.
 - Bod sefyllfa cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn cael ei derbyn, ond eu bod i'w defnyddio at ddibenion penodol, ac nid i gysgodi problemau strwythurol.
51. Cafodd hyfforddiant ei ddarparu i'r Pwyllgor ar y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (Global Internal Audit Standards) ar 29 Ionawr, 2026.
52. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiadau cenedlaethol a lleol a nodi ymateb y Cyngor i'r argymhellion a gyflwynwyd, gan bwysleisio'r angen am fonitro cynnydd a rhoi sicrwydd bod y camau gweithredu'n cael eu gweithredu'n effeithiol.
53. Wrth gyfarfod ar 15 Ionawr 2026, ystyriodd y Pwyllgor y Cynllun Ymateb i Adroddiad "Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder". Bu'r Pwyllgor yn craffu ar y trefniadau a gynnigwyd er mwyn ymateb i ganfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad, gan ystyried y goblygiadau llywodraethu, atebolrwydd a chydaddoldeb. Darparwyd sicrwydd bod camau priodol wedi'u nodi, gyda mecanweithiau monitro mewn lle, a chytunodd y Pwyllgor i gadw goruchwyliaeth barhaus dros weithredu'r cynllun ymateb fel rhan o'i rôl sicrwydd annibynnol.
54. Cyflwynwyd Crynodeb Archwilio Blynyddol i'r Pwyllgor yn ystod 2025/26, oedd yn amlinellu'r gwaith a gwblhawyd gan Archwilio Cymru ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol blaenorol. Nodwyd bod y crynodeb hwn yn rhan o ddyletswyddau statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac roedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr adroddiad yn rhoi trosolwg clir a defnyddiol o'r gwaith archwilio allanol perthnasol i

55. Cyflwynwyd adroddiad Archwilio Cymru “Llety dros dro – argyfwng hirdymor?” i’r Pwyllgor yn ystod cyfarfod 3 Chwefror 2026, gan roi trosolwg o’r canfyddiadau a’r heriau cynyddol sy’n wynebu awdurdodau lleol mewn perthynas â darpariaeth llety dros dro. Nodwyd bod yr adroddiad hwn yn rhan o waith archwilio cenedlaethol Archwilio Cymru, ac roedd y Pwyllgor yn cydnabod ei berthnasedd i drefniadau llywodraethu a rheoli risg y Cyngor. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr adroddiad yn tynnu sylw at oblygiadau ariannol a strategol hirdymor pwysig, a nododd bwysigrwydd cadw goruchwyliaeth briodol dros ymateb y Cyngor i’r materion a nodwyd.
56. Yng nghyfarfod Ionawr 15, 2026 cyflwynwyd Adroddiad Arolygiadau Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru, gan ddarparu trosolwg o ganfyddiadau arolygiadau diweddar a’u goblygiadau i wasanaethau’r Cyngor. Nodwyd bod yr adroddiad yn cefnogi rôl sicrwydd y Pwyllgor drwy dynnu sylw at feysydd o gryfder a meysydd i’w gwella, ac roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y wybodaeth a gyflwynwyd yn berthnasol ac yn ddefnyddiol i lywio trefniadau llywodraethu a goruchwyliaeth. Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad, gan nodi’r canfyddiadau a’r camau priodol a nodwyd mewn ymateb i’r arolygiadau.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

57. Un o orchwylion blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw adolygu a chymeradwyo’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft. Er nad yw’r Datganiad yn rhan o’r cyfrifon ffurfiol, mae’n ddogfen statudol sy’n ofynnol i’w chyhoeddi ochr yn ochr â’r cyfrifon. Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) a Chod Ymarfer CIPFA, rhaid i bob Awdurdod Lleol sicrhau bod datganiad o reolaeth fewnol briodol yn ei le. Y Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor sy’n arwyddo’r Datganiad, ond mae angen cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, sydd â rôl allweddol yn herio a gwirio ei gynnwys.
58. Cyflwynwyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol Cyngor Gwynedd ar gyfer 2024/25 i’r Pwyllgor ar 11 Medi 2025. Bu’r Pwyllgor yn ystyried ac yn herio cynnwys y Datganiad, gan wneud arsylwadau ar lefelau a sgoriau risg penodol, yn enwedig y meysydd oedd yn parhau i gael eu nodi fel risgiau uchel neu risgiau canolig. Yn dilyn y drafodaeth, ac ar ôl ystyried yr eglurhad gan swyddogion, penderfynodd y Pwyllgor gymeradwyo’r Datganiad ac argymhell bod Arweinydd y Cyngor a Phrif Weithredwr y Cyngor yn ei arwyddo.
59. Wrth symud ymlaen, nododd y Pwyllgor yr angen i barhau i ddatblygu’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol fel dogfen sy’n fwy hygyrch ac eglur i drigolion. Er bod y Datganiad yn cydymffurfio â chanllawiau CIPFA, awgrymwyd ystyried adolygu’r cwestiynau a’r strwythur, a hefyd y posibilrwydd o gryfhau’r cysylltiad rhwng y Datganiad a Hunanasesiad Blynyddol Cyngor Gwynedd, er mwyn osgoi dyblygu gwaith a sicrhau naratif mwy cydlynol ynghylch llywodraethu, risg a gwelliant parhaus.

Gweithgor Gwella Rheolaethau

60. Cynhaliwyd cyfarfod o’r Gweithgor Gwella Rheolaethau yn ystod 2025/26, gyda phwyslais ar gryfhau trefniadau rheoli a chydymffurfiaeth mewn meysydd gwasanaeth risg uchel. Roedd Cadeirydd y

Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Carys Edwards, a'r Is-gadeirydd, Rhys Parry, ynghyd ag Aelodau Etholedig perthnasol, swyddogion Archwilio Mewnol a swyddogion o'r Adran Oedolion, lechyd a Llesiant, yn bresennol. Galwyd y materion gerbron y Gweithgor yn dilyn penderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gael sicrwydd pellach ynghylch gweithrediad argymhellion archwilio mewnol, yn enwedig mewn perthynas â darpariaeth ofal preswyl.

61. Adroddwyd yn ôl i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod y trafodaethau wedi bod yn fuddiol, gan roi cyfle i swyddogion a rheolwyr gwasanaethau ymateb yn agored ac yn adeiladol i'r canfyddiadau archwilio. Nodwyd pryder parhaus ynghylch dibyniaeth ar staff asiantaeth a'r goblygiadau costus, a chytunwyd bod angen parhau i archwilio opsiynau i gryfhau trefniadau recriwtio a chadw staff o fewn trefniadau cyflogaeth y Cyngor, er mwyn lleihau costau a gwella sefydlogrwydd. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod rôl y Gweithgor Gwella Rheolaethau yn parhau'n werthfawr, a gwnaed awgrym i barhau i atgyfeirio materion perthnasol at y Pwyllgor Craffu Gofal, yn ogystal â sicrhau bod adroddiadau'r Gweithgor yn cynnwys crynodeb clir o'r materion allweddol a'r camau gweithredu cytunedig, er mwyn hwyluso goruchwyliaeth effeithiol yn y dyfodol.

Cyd Bwyllgor Corfforedig y Gogledd – Sefydlu Is Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

62. Ar 9 Hydref 2025, cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth i'r Pwyllgor, gyda'r argymhelliad fod y Pwyllgor yn enwebu un Cynghorydd i wasanaethu ar Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, ac un Cynghorydd i weithredu fel dirprwy ar gyfer yr aelod hwnnw. Gofynnwyd i'r Pwyllgor hefyd benderfynu a oedd yn dymuno enwebu Aelod Lleyg i wasanaethu ar yr Is-bwyllgor perthnasol.
63. Penderfyniad y Pwyllgor oedd enwebu'r Cynghorydd Ioan Thomas i wasanaethu ar Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, ac enwebu'r Cynghorydd Richard Glyn Roberts i weithredu fel dirprwy. Yn ogystal, penderfynwyd enwebu Carys Edwards, Cadeirydd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Gwynedd, i'w hystyried i wasanaethu ar Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd fel Aelod Lleyg.

I adolygu ac asesu gallu'r awdurdod i ymdrin â chwynion mewn modd effeithiol, gan lunio adroddiadau a gwneud argymhellion

64. Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Cwynion a Gwella Gwasanaeth 2024/25 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod cyfarfod Medi 11 2025, er mwyn diweddarau'r Pwyllgor ar drefniadau'r Cyngor ar gyfer ymdrin â chwynion, ynghyd â chynnwys Llythyr Blynyddol Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
65. Atgoffwyd yr Aelodau fod gan y Pwyllgor ddyletswydd statudol i sicrhau bod gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer ymdrin â chwynion, a bod y trefniadau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Nodwyd nad oedd unrhyw newidiadau sylfaenol wedi'u gwneud i'r Polisi Pryderon a Chwynion yn ystod y flwyddyn, ac felly bod y trefniadau'n parhau i weithredu o fewn y fframwaith a fabwysiadwyd gan y Cyngor.
66. Cyfeiriwyd at y Llythyr Blynyddol gan yr Ombwdsman, a'r sylwadau a'r argymhellion a wnaethpwyd ynddo ynghylch perfformiad y Cyngor o ran ymdrin â chwynion. Nodwyd yn benodol yr anogaeth i'r Cyngor, a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ddefnyddio'r data cwynion yn fwy effeithiol er mwyn

deall tueddiadau, adnabod patrymau, a gwerthuso pa mor dda y mae dulliau ymdrin â chwynion wedi'u gwreiddio ar draws gwasanaethau'r Awdurdod.

67. Ar ôl trafodaeth ar gynnwys yr adroddiad, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr Adroddiad Blynyddol Cwynion a Gwella Gwasanaeth, gan nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd a chydabod pwysigrwydd parhau i fonitro'r trefniadau, er mwyn sicrhau bod dysgu o gwynion yn cael ei ddefnyddio i wella gwasanaethau'r Cyngor a chryfhau ymddiriedaeth y cyhoedd.

Arolygu a monitro trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod

Rhaglen Waith Archwilio Mewnol

68. Cyflwynwyd fersiwn ddiwygiedig o Siarter Archwilio Mewnol i gyfarfod y Pwyllgor ar 22 Mai 2025. Yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (Global Internal Audit Standards), a ddaeth i rym yn y sector gyhoeddus o 1 Ebrill 2025, rhaid llunio Siarter Archwilio Mewnol sy'n adlewyrchu'r safonau newydd a'r Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Llywodraethu Archwilio Mewnol. Cyfrifoldeb y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw adolygu a chymeradwyo'r Siarter yn flynyddol fel rhan o'i rôl oruchwylio.
69. Tynnwyd sylw at y newidiadau sylweddol a wnaed i'r Siarter Archwilio Mewnol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang, gan gynnwys egluro mandad y gwasanaeth, cryfhau trefniadau annibyniaeth ac atebolrwydd, a sicrhau bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn alinio'n gliriach â blaenoriaethau strategol a risgiau corfforaethol y Cyngor. Nodwyd hefyd fod pwrpas y Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi parhau i ehangu, gan gynnwys pwyslais cynyddol ar sicrwydd, cynghori a chefnogi gwelliant.
70. Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r goblygiadau llywodraethu, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol wedi'i diwygio. Derbyniwyd a chymeradwywyd cynnwys y Mandad a'r Siarter Archwilio Mewnol, eu mabwysiadu'n ffurfiol, a mynegi cefnogaeth y Pwyllgor i Archwilio Mewnol wrth gyflawni ei swyddogaethau yng nghyfarfod 3 Chwefror, 2026.
71. Yn yr un cyfarfod, cymeradwyodd y Pwyllgor Strategaeth Archwilio Fewnol a'r Cynllun Archwilio Blynyddol ar gyfer 2026/27, a gafodd eu llunio ar sail asesiad risg corfforaethol y Cyngor, y blaenoriaethau strategol a'r adnoddau archwilio mewnol oedd ar gael, er mwyn sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o'r adnoddau hynny.
72. Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariadau rheolaidd ar gynnydd Cynllun Archwilio Blynyddol 2025/26 yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys mewn cyfarfodydd ar 9 Hydref 2025 a Chwefror 2026. Cyfeiriwyd at statws y gwaith archwilio, lefel cwblhau'r cynllun, a'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad. Cymeradwyodd y Pwyllgor addasiadau priodol i'r Cynllun Archwilio, er mwyn adlewyrchu'r adnoddau oedd ar gael i'r gwasanaeth ac i sicrhau bod y gwaith yn parhau i ganolbwyntio ar y meysydd risg uchaf i'r Cyngor.

Rhaglen Waith Archwilio Cymru

73. Cyflwynwyd Cynllun Archwilio Manwl 2025 gan Archwilio Cymru i gyfarfod y Pwyllgor ar 11 Medi 2025. Roedd y Cynllun yn nodi'r gwaith yr oedd yr archwilwyr yn bwriadu ei wneud er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol fel archwilwyr allanol y Cyngor, yn unol â'u rôl o dan God Ymarfer Archwilio Cymru. Nodwyd y byddai'r archwiliad o'r datganiadau ariannol yn canolbwyntio ar risgiau allweddol y Cyngor a meysydd blaenoriaeth benodol, tra byddai'r gwaith archwilio perfformiad yn ystyried trefniadau sicrwydd, rheoli risg, a meysydd gwaith lleol priodol yn adlewyrchu'r heriau presennol sy'n wynebu'r Cyngor.
74. Cyfeiriodd y Cynllun Archwilio Manwl at risgiau sylweddol i'r datganiadau ariannol sy'n gyffredin i bob Awdurdod Lleol, gan gynnwys y risg o wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, yn ogystal â meysydd penodol lle byddai'r gwaith archwilio yn canolbwyntio, megis prisiad tir ac adeiladau a phrisio rhwymedigaethau net Cronfa Bensiwn y Cyngor. Nodwyd bod y meysydd hyn yn parhau'n feysydd risg uchel sy'n gofyn am sylw penodol gan archwilwyr allanol.
75. Yn ystod 2025/26, cyflwynwyd diweddariadau chwarterol rheolaidd gan Archwilio Cymru i'r Pwyllgor ar gynnydd y gwaith archwilio a statws cyflawni'r Cynllun Archwilio Manwl. Roedd y diweddariadau hyn yn darparu sicrwydd i'r Pwyllgor ynghylch cynnydd y gwaith, unrhyw newidiadau i'r cwmpas neu'r amserlen, a bod y trefniadau archwilio allanol yn cael eu gweithredu yn unol â'r disgwyliadau statudol a phroffesiynol.

Swyddogaethau Deddf 2021 – Perfformiad y Cyngor

76. Mae'n ofyn statudol newydd yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 fod y Cyngor yn cynhyrchu "adroddiad hunanasesu" sy'n nodi ei gasgliadau ynglŷn ag i ba raddau y gwnaeth y Cyngor fodloni'r gofynion perfformiad sydd wedi eu gosod allan yn y Ddeddf yn ystod y flwyddyn ariannol berthnasol. Mae'r un darn o ddeddfwriaeth yn nodi fod rhaid i'r Cyngor sicrhau bod fersiwn ddrafft o'i adroddiad hunanasesu ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio (Adran 91(6)).
77. Cyflwynwyd Adroddiad Hunanasesiad drafft Cyngor Gwynedd ar gyfer 2024/25 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y cyfarfod ar 9 Hydref 2025, a chafwyd trafodaeth fanwl ar gynnwys yr adroddiad. Ar ôl ystyried y ddogfen, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr hunanasesiad drafft, gan nodi ei fod yn bodloni'r gofynion statudol, ond gwnaethpwyd nifer o sylwadau ac awgrymiadau gyda'r bwriad o gryfhau golwg, eglurder a gwerth y ddogfen i'r dyfodol.
78. Ymhlith y sylwadau a nodwyd gan y Pwyllgor roedd yr awydd i gael ei gynnwys yn gynharach yn y broses o lunio'r hunanasesiad, er mwyn sicrhau mewnbwn mwy ystyrlon a chyfle gwell i ddylanwadu ar gynnwys y ddogfen cyn iddi gael ei chwblhau. Awgrymwyd mai cynnal gweithdy gyda'r Aelodau fyddai ffordd briodol o hwyluso trafodaeth ddyfnach a chasglu argymhellion cliriach gan y Pwyllgor.

79. Awgrymodd y Pwyllgor hefyd y dylid ystyried trefniadau ymgynghori priodol yn y dyfodol, er mwyn sicrhau mewnbwn trigolion Gwynedd i'r broses hunanasesu. Yn ogystal, pwysleisiwyd wrth gyflwyno data a mesurau perfformiad fod angen eglurder llawn o ran cyd-destun ac effaith. Yn benodol, o ran y gwaith ar Gynyddu Cyflenwad Tai i Bobl Leol, awgrymodd y Pwyllgor y dylai'r adroddiad amlygu nid yn unig niferoedd, ond hefyd effaith y camau ar gymunedau a chynaliadwyedd tymor hir y Sir.

Monitro ymateb a gweithrediad ar argymhellion archwilwyr allanol a rheoleiddwyr

80. Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar Argymhellion a Chynigion Gwella sy'n deillio o Adroddiadau Archwilio Allanol a Rheoleiddwyr yn y cyfarfod ar 9 Hydref 2025. Yn unol â'i rôl statudol, ystyrir ei bod yn hanfodol bod y Pwyllgor yn fodlon bod trefniadau priodol a chadarn yn eu lle er mwyn sicrhau bod yr holl argymhellion a chynigion gwella perthnasol yn cael eu gweithredu mewn modd amserol ac effeithiol.
81. Ar sail yr adroddiadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor, ynghyd â'r gwaith herio a thrafodaethau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, roedd y Pwyllgor yn fodlon bod trefniadau'r Cyngor ar gyfer ymateb i argymhellion archwilio allanol a rheoleiddwyr yn gadarn, gyda pherchnogaeth glir adrannol, prosesau adrodd sefydledig, a goruchwyliaeth briodol ar lefel gorfforaethol.
82. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn a nodi bod trefniadau a phrosesau priodol ar waith er mwyn sicrhau bod cynigion gwella o adroddiadau archwilio allanol a rheoleiddwyr yn cael eu gweithredu a'u monitro. Croesawyd y trefniadau i adrodd ar gynnydd bob chwe mis i'r Pwyllgor, yn ogystal â'r dull diwygiedig o gyflwyno ymatebion adrannol i gyfarfodydd Herio a Chefnogi Perfformiad, gan gryfhau atebolrwydd ac yn sicrhau bod cynnydd yn erbyn argymhellion yn cael ei fonitro'n fwy systematig a thryloyw.

Effeithiolrwydd y Pwyllgor

83. Yn ystod 2025/26, derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariadau rheolaidd ar y camau a gymerwyd i weithredu penderfyniadau'r Pwyllgor i bob un o'i gyfarfodydd, lle'r oedd hynny'n ymarferol. Credai'r Pwyllgor fod y drefn hon yn parhau i fod yn gam pwysig er mwyn sicrhau atebolrwydd, tryloywder a gweithrediad effeithiol o'i benderfyniadau.
84. Fel rhan o'i ymrwymiad i welliant parhaus, bu'r Pwyllgor yn parhau i adeiladu ar ganfyddiadau hunanasesiad blaenorol, gan ystyried ei effeithiolrwydd, ei gyfansoddiad a'i dulliau gwaith. Parhaodd y Pwyllgor i ddefnyddio canllawiau a safonau CIPFA ar gyfer Pwyllgorau Archwilio fel fframwaith i werthuso ei waith, gan sicrhau bod trefniadau'r Pwyllgor yn alinio â'r arferion gorau a nodir yn Natganiad Safbwynt CIPFA.
85. Yn ystod y flwyddyn, adolygodd y Pwyllgor gynnydd yn erbyn y camau gweithredu a ddeilliodd o'r hunanasesiad, gan gytuno i barhau i gefnogi camau oedd yn cryfhau effeithiolrwydd y Pwyllgor, yn enwedig o ran perthnasoedd gweithio gyda rheoleiddwyr allanol ac Archwilio Mewnol, a rôl y Pwyllgor mewn herio ac ychwanegu gwerth.

86. Fel rhan o'r trefniadau i gefnogi effeithiolrwydd parhaus, cafodd y Pwyllgor flaenraglen dreigl ei chyflwyno i'w gyfarfodydd, gan alluogi cynllunio rhagweithiol, blaenoriaethu eitemau statudol a thematig, a sicrhau bod digon o amser ar gael i graffu materion allweddol. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod y dull hwn yn cyfrannu'n gadarnhaol at effeithiolrwydd cyffredinol ei waith yn ystod 2025/26.

Eitem 9

CYFARFOD:	PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
DYDDIAD:	21 MAI 2026
TEITL:	CYFRIFON TERFYNOL 2025/26 – ALLDRO REFENIW
PWRPAS:	EGLURO A CHRAFFU'R SEFYLLFA ARIANNOL TERFYNOL 2025/26
GWEITHREDIAD:	Derbyn y wybodaeth, ystyried unrhyw risgiau sy'n deillio o'r gwir wariant ac incwm yn erbyn cyllideb 2025/26.
SWYDDOG CYSWLLT:	FFION MADOG EVANS, PENNAETH CYLLID CYNORTHWYOL
AELOD CABINET:	CYNGHORYDD HUW WYN JONES, AELOD CABINET CYLLID

1. Mae'r adroddiad gerbron heddiw, sef yr adolygiad cyllideb "alldro", yn egluro sefyllfa terfynol 2025/26 ac yn dangos y darlun fesul adran. Y ffigyrau yma yw sail i'r datganiadau statudol fydd yn cael eu cyflwyno i gyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
2. Mae'r adroddiad eisoes wedi ei gyflwyno i gyfarfod 19 Mai 2026 o'r Cabinet.
3. Nodaf fod rhan 7 ac Atodiad 3 o'r adroddiad yma'n delio hefyd gyda'r adolygiad o gronfeydd y Cyngor.
4. Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau a sylwebu fel bo angen.

Atodiad:

Adroddiad Cabinet 19 Mai 2026

CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd



Teitl yr Eitem:	Cyfrifon Terfynol 2025/26 – Alldro Refeniw
Aelod Cabinet:	Y Cyngorydd Huw Wyn Jones, Aelod Cabinet Cyllid
Swyddog perthnasol:	Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau
Dyddiad y cyfarfod:	19 Mai 2026

Crynodeb

- Gwariant yn y meysydd lleoliadau all-sirol plant, gwastraff, gofal preswyl a gofal cartref wedi parhau i fod yn uwch na'r gyllideb a ddyrannwyd iddynt.
- Sefyllfa ffafriol ar nifer o gyllidebau corfforaethol yn cynorthwyo i leddfu'r sefyllfa ariannol ar gyfer y Cyngor yn ei gyfanrwydd.
- Bydd angen defnyddio £3.2 miliwn o'r Gronfa Strategaeth Ariannol i fantoli'r sefyllfa o ddifffyg ariannol yr adrannau.
- Fel rhan o'r ymarferiad adolygiad cronfeydd bydd angen neilltuo £1.5 miliwn o'r Gronfa Strategaeth Ariannol i'r Gronfa Diogelu Adeiladau.
- Barn y Swyddog Cyllid Statudol yw bod angen cynyddu Balansau Cyffredinol y Cyngor o £6.6 miliwn, fel ei fod yn cynrychioli 2.5% o wariant refeniw gros yr awdurdod, ac yn argymhell trosglwyddo'r swm yma o'r Gronfa Strategaeth Ariannol, bydd hyn yn gadael £12.7 miliwn yn weddill yn y gronfa honno.

1. Penderfyniad a geisir

1.1 Derbyn yr adroddiad ac ystyried y sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2025/26:

	Colofn A Gor/(Tan) Wariant Gros 2025/26 £ '000	Colofn B Addasiadau a Argymhellir £'000	Colofn C £'000	Colofn CH £'000	Colofn D Gor/(Tan) Wariant Addasedig 2025/26 £'000
Oedolion, Iechyd a Llesiant	1,381	(1,281)			100
Plant a Theuluoedd	3,396	(3,296)			100
Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal	(99)				(99)
Addysg	(24)				(24)
Economi a Chymuned	269		(269)		0
Prifffyrdd, Peirianeg ac YGC	407	(307)			100
Amgylchedd	1,378	(22)		(1,256)	100
Tai ac Eiddo	(20)				(20)
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	(39)				(39)
Gwasanaethau Corfforaethol	(20)				(20)
Cyllid	(38)				(38)

1.2 Gan nodi bod gwariant sylweddol uwchlaw'r gyllideb gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Plant a Theuluoedd a'r Adran Amgylchedd yn 2025/26 (Gweler colofn A yn y tabl uchod). Cymeradwyo'r trosglwyddiadau ariannol canlynol (sydd wedi'u hegluro yn **Atodiad 2**) -

- Yr adrannau sydd yn gorwario i dderbyn cymorth ariannol un tro gan gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k (Gweler colofn B yn y tabl uchod).
- Cadarnhau'r cymorth ariannol o £269k uwchlaw'r taliad cytundebol i Gwmni Byw'n Iach (Gweler colofn C yn y tabl uchod).
- Cyllido'r gorwariant o £1.256 miliwn yn y maes Gwastraff trwy ddefnyddio £786k o'r Gronfa Adennill Enillion Cyfrannol Parc Adfer a £470k o'r Gronfa Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pecynnu (Gweler colofn CH yn y tabl uchod).
- Dyrannu bid ariannol o hyd at £800k i'r Adran Tai ac Eiddo i gyllido'r pwysau ar y gwasanaeth llety argyfwng yn 2026/27.
- Ar gyllidebau Corfforaethol:
 - defnyddio (£2.8 miliwn) o'r tanwariant ar gyllidebau corfforaethol i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2025/26.
 - y gweddill o (£3.174 miliwn) sydd ei angen i gyllido'r holl ofynion i gael ei gyllido o Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol y Cyngor.
 - y tanwariant o (£914k) ar Breimiwm Treth Cyngor yn cael ei drosglwyddo i gronfa Premiwm Treth Cyngor gyda'i ddefnydd i'w benderfynu gan y Cabinet.

1.3 Cymeradwyo'r symiau i'w cario 'mlaen (y golofn "Gor/(Tan) Wariant Addasedig" yng ngholofn D uchod ac yng ngholofn D **Atodiad 1**).

1.4 Cymeradwyo'r trosglwyddiadau ariannol o'r Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol y Cyngor fel yr amlinellir yn **Atodiad 3** yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd:

- £6.6 miliwn yn cael ei symud i falansau cyffredinol y Cyngor
- £1.5 miliwn yn cael ei symud i gronfa Diogelu Adeiladau.

2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad

2.1 Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

2.2 Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo sefyllfa ariannol derfynol 2025/26 sydd yn sail i'r datganiadau ariannol statudol.

3. Cyflwyniad a Rhesymeg

Cefndir / Cyflwyniad

- 3.1 Mae talfyriad o sefyllfa derfynol yr holl adrannau wedi'i amlinellu yn **Atodiad 1**. Yn ystod 2025/26 mae tair adran wedi gwario dros filiwn o bunnoedd yn fwy na'u cyllideb. Mae'r symiau i'w cario ymlaen gan yr adrannau (yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet) yn y golofn 'Gor/(Tan) Wariant Addasedig 2025/26'(Colofn D).
- 3.2 Yn **Atodiad 2**, mae manylion pellach ynglŷn â'r prif faterion a meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol i'r hyn a adroddwyd yn flaenorol, ynghyd â sawl argymhelliad penodol. Mae'r argymhellion hynny wedi'u hamlygu er ystyriaeth yn 1.2 uchod.
- 3.3 Yn yr adolygiad o'r gyllideb refeniw diwethaf a wnaethpwyd ar sefyllfa ddiwedd Tachwedd 2025, rhagwelwyd diffyg cyllidebol o £6.5 miliwn gan yr adrannau, ers hynny, mae gorwariant gan adrannau'r cyngor wedi cynyddu i £6.6 miliwn. Y prif feysydd gorwariant yw'r maes lleoliadau all-sirol plant, gwastraff, gofal preswyl a gofal cartref. Mae sefyllfa ffafriol ar nifer o gyllidebau corfforaethol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol yn cynorthwyo i leddfu rhywfaint ar y sefyllfa ariannol ar gyfer y Cyngor yn ei gyfanrwydd, ond fod hefyd angen gwneud defnydd o gronfeydd i fantoli'r sefyllfa.

4. Sefyllfa Arbedion

- 4.1 Yn adroddiad Cyllideb 2025/26 i'r Cyngor Llawn ar 6 Mawrth 2025, adroddwyd fod arbedion gwerth £3.5 miliwn wedi eu proffilio ar gyfer cyllideb 2025/26. Mae'r cyllidebau wedi eu lleihau o'r swm yma; ac felly adroddir ar y sefyllfa yn dilyn ystyriaeth o'r arbedion.
- 4.2 Dros y blynnyddoedd diwethaf rydym wedi adrodd ar risgiau i gyflawni arbedion. O ran y cynlluniau sydd yn weddill, mae yna risgiau o ran gwireddu rhai o'r cynlluniau.
- 4.3 Y sefyllfa ddiweddaraf o ran yr arbedion yw bod £47 miliwn, sef 93% o'r cynlluniau arbedion diwygiedig ers 2015 bellach wedi eu gwireddu.

5. Adrannau'r Cyngor

- 5.1 Mae'r prif faterion ar ddiwedd y flwyddyn ariannol fel a ganlyn:

5.2 Adran Oedolion Iechyd a Llesiant

Bu i ddifffyg cyllidebol yr adran leihau i £1.4 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Ceir sefyllfa gymysg gyda gwerth dros £3 miliwn o arian parhaol ychwanegol wedi ei ddyrannu i'r adran yn 2025/26 tra bod arbedion a thoriadau gwerth £1.5 miliwn heb eu gwireddu.

Mae'r pwysau ar y gwasanaethau darparu yn parhau ac yn gyfrifol am £1 miliwn o'r pwysau adrannol, sydd yn bennaf ar orwariant staff a defnydd o staff asiantaeth ar ofal preswyl. Mae'r pwysau yn parhau hefyd ar yr ochr breswyl o lechyd Meddwl.

Bu gwelliant i sefyllfa ariannol pobl hŷn, sydd o ganlyniad i lai o ddefnydd o gartrefi preifat, lleihad mewn costau gofal cartref, derbyniad grantiau ychwanegol a gwaith sicrhau effeithlonrwydd taliadau uniongyrchol. Yn y Gwasanaeth Anabledd Dysgu derbyniwyd grantiau ychwanegol a bu llai o bwysau ar lety cefnogol, taliadau uniongyrchol ac ar gartrefi preswyl annibynnol.

5.3 Adran Plant a Theuluoedd

Ers adolygiad Tachwedd bu cynnydd o un ar ddeg o leoliadau all-sirol gan gynnwys achosion eithriadol o leoliadau heb gofrestrriad, sydd fwy costus, sydd wedi arwain at gynnydd yn y diffyg cyllidebol adrannol o £1.9 miliwn i £3.4 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Gwelwyd pwysau cynyddol hefyd ar gyllideb y Gwasanaeth Ôl-16 ac ar gefnogaeth cynlluniau cefnogol a gweithwyr maes, ond er y bu lleihad yn y pwysau ar y Gwasanaeth Derwen mae'n parhau i fod yn gorwario £443k ar ddiwedd y flwyddyn.

5.4 Adran Addysg

Tanwariant o (£24k) gan yr Adran Addysg. Yn dilyn gorwariant sylweddol ar y maes cludiant ysgolion dros y blynyddoedd diwethaf, bu i'r maes dderbyn dyraniad cyllideb ychwanegol ar sail barhaol a £939k pellach am flwyddyn yn unig, i gyfarch y pwysau ar y maes bysus a thacsis ysgolion. Bu modd cwtogi'r cyfraniad un tro i £384k erbyn diwedd y flwyddyn, oherwydd lleihad mewn costau a derbyniad grantiau ychwanegol. Gwelwyd derbyniad incwm grant uwch ar gyfer cinio am ddim ysgolion cynradd erbyn diwedd y flwyddyn ond bu cynnydd mewn costau un tro yn y maes anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiad.

5.5 Byw'n lach

Dros y blynyddoedd diwethaf mae Cwmni Byw'n lach wedi derbyn cefnogaeth ariannol gan y Cyngor uwchlaw'r taliad cytundebol y contract ddarparu, oedd yn £550k yn 2022/23 a £308k yn 2023/24 ac yn £281k yn 2024/25, i'w galluogi i gynnal eu gwasanaethau. Mae'r angen am gefnogaeth ariannol yn parhau yn 2025/26 gyda'r swm gofynnol yn £269k erbyn diwedd y flwyddyn.

5.6 Adran Prifffyrdd, Peirianeg ac YGC

Diffyg cyllidebol o £407k gan yr adran, gwelwyd lleihad yn y gwaith sydd yn cael ei gomisiynu gan asiantaethau allanol sydd wedi cael effaith negyddol ar incwm gwasanaethau Prifffyrdd. Yn y gwasanaeth Bwrdeistrefol, cyfuniad o bwysau ychwanegol ar gyllidebau staff glanhau toiledau cyhoeddus, tra bod colledion incwm yn faterion yn cynnal tiroedd a thoiledau cyhoeddus. Gwelwyd hefyd danwariant pellach ar Orfodaeth Stryd ac ar Dimau Taclus.

5.7 Adran Amgylchedd

Adroddir ar ddiffyg cyllidebol o £1.38 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn, gyda'r tueddiad gorwariant yn y maes gwastraff yn parhau ac yn gyfrifol am £1.26 miliwn o'r sefyllfa adrannol. Mae'r gorwariant yn y maes gwastraff i'w gyllido o'r enillion ail-ariannu Parc Adfer ac incwm o ardoll ar ddeunyddiau pacio i gynhyrchwyr a mân-werthwyr.

Mae yna nifer o gynlluniau arbedion mewn nifer o wasanaethau gwerth £1.27 miliwn yn llithro sydd hefyd yn rhan o'r darlun. Er y bu lleihad mewn diffyg incwm parcio ers y llynedd, mae'r diffyg yn £464k. Mae tanwariant ar Reolaeth Rhwydwaith Trafnidiaeth, Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn lleihau'r gorwariant adrannol a adroddir.

5.8 Adran Tai ac Eiddo

Y tueddiad o bwysau sylweddol ar y gwasanaeth llety argyfwng yn parhau, gyda gwariant ar y maes yn £6.1 miliwn eleni, sydd yn gyson â 2024/25. Mae'r sefyllfa ariannol a adroddir yn dilyn ystyried cyllideb ychwanegol o £4.2 miliwn sydd wedi ei ddyrannu o bremiwm treth cyngor a hefyd cyllideb un-tro ychwanegol o £859k a ddyrannwyd fel rhan o'r drefn bidiau i gynorthwyo â'r pwysau cynyddol.

Yn dilyn adolygiad o'r gwariant ar Ddigartrefedd, awgrymir y dylid dyrannu bid un tro o hyd at £800k i gynorthwyo gyda'r pwysau ar lety argyfwng yn 2026/27.

Bu llithriad o £1.1 miliwn ar y gyllideb cynnal a chadw refeniw corfforaethol yn ystod 2025/26 yn dilyn derbyn grantiau gwerth £2.4 miliwn tuag at gynnal a chadw Addysg yn ystod y flwyddyn. Mae'r llithriad o £1.1 miliwn wedi ei drosglwyddo i gronfa benodol at ddibenion cynnal a chadw i'r dyfodol.

5.9 Corfforaethol

Tanwariant o (£3.7 miliwn) ar nifer o benawdau corfforaethol, gan gynnwys darpariaeth arbedion (£1.1 miliwn), dychwelyd cyllidebau a bidiau (£404k) a (£914k) sydd yn berthnasol i Breimiwm Treth Cyngor. Yn dilyn i'r Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol GwE ddod i ben ar ddiwedd Mai 2025, bu i'r cyngor ynghyd â chwe awdurdod gogledd Cymru dderbyn ad-daliad, sydd werth £908k i Wynedd yn ymwneud â gwarged yn deillio o gyfraniadau pensiwn perthnasol i GwE.

5.10 **Yn Atodiad 1, adroddir ar sefyllfa tanwariant / gorwariant pob adran i'r Cabinet, a cheisir penderfyniad ffurfiol i gymeradwyo'r symiau sydd i'w cario 'mlaen.** Mae Rheoliad Gweithdrefn Ariannol 16.3.1 yn manylu ar y trefniadau ar gyfer symiau i'w "cario 'mlaen" ar ddiwedd y flwyddyn. Mae yna bedwar cais i'r Cabinet i ddileu diffyg adrannol ar gau 2025/26.

5.11 Yn gyffredinol, lle mae'r adrannau wedi tanwario, mae'r sefyllfa hwnnw am un tro yn 2025/26 yn unig.

5.12 Rhoddwyd ystyriaeth briodol i'r cyllidebau sydd dan bwysau yng nghylch cyllidebu 2026/27, ac mae nifer o'r materion parhaol hynny eisoes wedi'u cyfarch yn y strategaeth ariannol ar gyfer 2026/27 (drwy weithrediad rheolaethol i atal tueddiad a/neu drwy addasu'r gyllideb).

6. Ysgolion

6.1 Mae rhan o **Atodiad 2** yn manylu ar sefyllfa cyllidebau'r ysgolion, lle mae statud wedi cyflwyno grym dirprwyedig i gyrff llywodraethu gario balansau ymlaen ar ddiwedd blwyddyn ariannol. Mae cyfanswm sirol balansau ysgolion wedi lleihau o £8.3 miliwn ar ddiwedd 2024/25 i £7.1 miliwn ar ddiwedd 2025/26. Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth fanwl am falansau ysgolion unigol cyn hir mewn 'Datganiad Adran 52'.

6.2 Mae gan yr Adran Addysg drefniadau ar gyfer herio'r ysgolion unigol i gyfiawnhau'r angen am eu balansau, ac maent yn gofyn i'r penaethiaid a chyrff llywodraethu'r ysgolion perthnasol i egluro'u bwriad i ddefnyddio eu balansau (yn arbennig rheiny sydd gyda balansau dros 5% o'i gyllideb).

6.3 Mae saith ysgol gynradd a thair ysgol uwchradd gyda diffyg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2025/26. Cadarnhaf y bydd yr Uned Gyllid a'r Adran Addysg yn gweithio gyda'r ysgolion a chyrff llywodraethol i adfer y diffygion.

7. Cyllidebau a Chronfeydd Corfforaethol

- 7.1 Am nifer o resymau bu tanwariant un tro ar nifer o benawdau'r gyllideb gorfforaethol eleni, fel y nodir yn 5.9 uchod, a rhan olaf **Atodiad 2**. Adroddir ar danwariant o (£3.7 miliwn), gyda gwerth (£914k) o'r swm yn berthnasol i Breimiwm Treth Cyngor. Awgrymir fod tanwariant net o (£2.8 miliwn) yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo'r adrannau sydd yn gorwario yn 2025/26.
- 7.2 Adolygwyd digonolrwydd cronfeydd penodol y Cyngor gan y Pennaeth Cyllid unwaith eto wrth gau'r cyfrifon eleni, yn unol â'r polisi a gymeradwywyd rhai blynyddoedd yn ôl. Fel yr amlinellir yn **Atodiad 3**, mae dau drosgrwyddiad gwerth £8.1 miliwn i'w gweithredu o'r Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol, gyda £6.5 miliwn yn cael ei roi ym malansau cyffredinol y Cyngor a £1.5 miliwn yn cael ei symud i gronfa diogelu adeiladau yn ymwneud â Corbett Arms, sydd wedi bod yn destun adroddiad Cabinet 16 Rhagfyr 2025.
- 7.3 Ymhellach i'r uchod, awgrymir fod y £3.2 miliwn sydd yn ofynnol i gyllido'r sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cael ei ariannu o Gronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol.

8. Casgliad

- 8.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw manylu ar wariant adrannau unigol a'r Cyngor yn ei gyfanrwydd yn 2025/26 o'i gymharu â'r gyllideb a osodwyd ym Mawrth 2025. Adroddir ar sefyllfa o ddiffyg cyllidebol o £6.6 miliwn gan yr adrannau ar ddiwedd y flwyddyn, sydd yn cael ei leihau gan danwariant o £3.7 miliwn ar gyllidebau corfforaethol i roi gorwariant net o £2.9 miliwn ar gyfer y Cyngor (Colofn A, **Atodiad 1**).
- 8.2 Yn dilyn y tanwariant ar benawdau corfforaethol ynghyd â defnydd o'r Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol a chronfeydd penodol eraill i gyllido'r gorwariant yn y maes gwastraff, bydd y sefyllfa ariannol yn cael ei fantoli.
- 8.3 Bydd cyfuniad o gynaeafu cronfeydd gwerth £8.1 miliwn ynghyd â £3.2 miliwn i gyllido'r sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn golygu fod y Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol yn cael ei leihau £11.3 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, gan adael balans o £12.7 miliwn.

9. Camau nesaf ac amserlen

- 9.1 Byddwn yn ystyried y wybodaeth gan adlewyrchu'r sefyllfa yn y cyfrifon terfynol.
- 9.2 Fe adlewyrchir yma sefyllfa a'r wybodaeth ddiweddaraf, ac wrth ddod a'r broses i derfyn, gallai fod rhywfaint o newidiadau pellach. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd newid sylweddol yn y sefyllfa gyffredinol.
- 9.3 Bydd yr Adran Gyllid yn cynhyrchu datganiadau ariannol statudol 2025/26 i'w hardystio gan y Pennaeth Cyllid o fewn yr amserlen statudol. Bydd yr adroddiad alldro yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 21 Mai 2026.

10. Sylwadau Swyddogion Statudol

10.1 Prif Swyddog Cyllid

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

10.2 Swyddog Monitro

Dim sylwadau i'w hychwanegu os safbwynt priodoldeb.

Atodiadau:

Atodiad 1 - Sefyllfa tanwariant / gorwariant terfynol pob adran

Atodiad 2 - Prif faterion cyllidebol a meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol

Atodiad 3 - Adolygiad o Gronfeydd

Cyllideb Refeniw 2025/26 - Crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran

	Adolygiad Terfynol						Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2025/26 £ '000
	Cyllideb 2025/26	Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26	Addasiadau a Argymhellir			Gor/ (Tan) Wariant Addasedig 2025/26	
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	
	Colofn A	Colofn B	Colofn C	Colofn CH	Colofn D		
Oedolion, Iechyd a Llesiant	83,682	1,381	(1,281)			100	3,062
Plant a Theuluoedd	26,617	3,396	(3,296)			100	1,856
Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal	2,826	(99)	0			(99)	(144)
Addysg	120,671	(24)	0			(24)	(15)
Economi a Chymuned	5,205	269	0	(269)		0	2
Priffyrdd, Peirianeg ac YGC	18,064	407	(307)			100	492
Amgylchedd	18,001	1,378	(22)		(1,256)	100	685
Tai ac Eiddo	10,612	(20)	0			(20)	248
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	3,194	(39)	0			(39)	(14)
Gwasanaethau Corfforaethol	8,631	(20)	0			(20)	(6)
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	9,166	(38)	0			(38)	(13)
Cyllidebau Corfforaethol (Gwahaniaethau yn unig)	*	(3,715)	3,715			0	(871)
Cyfansymiau (net)	315,835	2,876	(1,191)	(269)	(1,256)	160	5,282

CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - CYFRIFON TERFYNOL

Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant	Cyllideb 2025/26	Sefyllfa 2025/26	Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26	Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<u>Gwasanaethau Oedolion</u>						
Rheolaeth	597	480	(117)		(117)	(35)
Anabledd Dysgu	31,080	30,666	(414)		(414)	199
Iechyd Meddwl	6,071	6,629	558		558	607
Pobl Hŷn						
Preswyl a Nyrsio - Cartrefi	24,516	24,940	424		424	940
Gofal Cartref	11,700	12,539	839		839	1,274
Anabledd Corff	3,652	2,699	(953)		(953)	(1,070)
Taliadau Uniongyrchol	2,194	1,978	(216)		(216)	(72)
Eraill	3,048	3,278	230		230	209
	45,110	45,434	324	0	324	1,281
<u>Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion</u>	82,858	83,209	351	0	351	2,052
<u>Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)</u>						
Gofal Preswyl	(297)	524	821		821	911
Gofal Cartref	1,126	1,337	211		211	93
Eraill	(5)	(7)	(2)		(2)	6
<u>Cyfanswm Gwasanaethau Darparu</u>	824	1,854	1,030	0	1,030	1,010
Addasiad Cau Cyfrifon 2025/26				(1,281)	(1,281)	0
<u>Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant</u>	83,682	85,063	1,381	(1,281)	100	3,062

Oedolion, Iechyd a Llesiant

Dyrannwyd gwerth dros £3.1 miliwn o arian parhaol ychwanegol i'r Adran ar gyfer cyllideb 2025/26 ymlaen. Gwelwyd gwelliant yn y sefyllfa ariannol o'i gymharu â'r rhagolygon, gyda diffyg cyllidebol o £1.38 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Rheolaeth yr Adran - trosiant staff a thanwariant ar y gyllideb gyfreithiol, ynghyd â derbyniad grant ac incwm ychwanegol erbyn diwedd y flwyddyn.

Anabledd Dysgu - bu i'r gwasanaeth dderbyn dyraniad cyllideb ychwanegol o £400k yn 2025/26. Mae'r pwysau'n parhau ar wasanaethau dydd, cynlluniau cefnogol ac ar y gwasanaeth preswyl yng nghartrefi'r Cyngor. Derbyniad grantiau a llai o bwysau ar lety cefnogol, taliadau uniongyrchol ac ar gartrefi preswyl annibynnol yn ystod y flwyddyn gyda'r gwaith o adolygu pecynnau gofal yn parhau ac yn dwyn ffrwyth.

Iechyd Meddwl - dyrannwyd £177k o arian ychwanegol i'r maes yn 2025/26, gwelwyd diffyg cyllidebol o £650k ar yr elfen breswyl a nyrsio yn dilyn cynnydd annisgwyl ac anarferol yn y nifer gydag un ar ddeg o achosion newydd yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae cynlluniau cefnogol a llety cefnogol yn tanwario ac felly'n lleihau'r gorwariant a adroddir. Mae'r maes iechyd meddwl yn destun bid £1.2 miliwn ar gyfer 2026/27.

Pobl Hŷn - dyrannwyd £1.5 miliwn o arian parhaol ychwanegol i'r maes ar gyfer 2025/26, gyda £1.2 miliwn ohono i Ofal Cartref. Bu lleihad yn y diffyg cyllidebol i £324k erbyn diwedd y flwyddyn, gyda grantiau ychwanegol a gwaith sicrhau effeithlonrwydd taliadau uniongyrchol yn cynorthwyo'r darlun. Ym mhreswyl a nyrsio, cynnydd graddol yn y defnydd o gartrefi mewnol a llai o gartrefi preifat, ynghyd â chynnydd mewn cyfraniadau gan gleientiaid, yn lleihau'r pwysau. Bu gwelliant hefyd yng ngofal cartref, gyda lleihad yn y costau i £839k uwchlaw'r gyllideb ar yr ymdrechion i ddarparu gofal mewn ardaloedd lle nad oes gwasanaeth hawdd i'w gael, serch hyn, y rhestrau aros yn parhau i fod yn uchel am ofal cartref. Yn y maes anabledd corff, llai o alw am ofal cartref yn parhau. Yn 'Eraill', pwysau cynyddol a chynlluniau arbedion sydd eto i'w gwireddu.

Gwasanaethau Darparu - gorwariant staff yng ngofal preswyl gan gynnwys £501k ar ddefnydd o staff asiantaeth. Cyllideb ychwanegol o filiwn wedi ei fuddsoddi yn parhaol yng ngofal cartref yn 2025/26, serch hynny mae costau staff uwchlaw'r gyllideb yn parhau, gyda lefelau salwch a chyfraddau oriau di-gyswllt uchel. Mae bid parhaol o £464k wedi ei ddyrannu i ofal preswyl mewnol ar gyfer 2026/27.

Arbedion - o ran sefyllfa gwireddu arbedion yr adran, er bod cynnydd wedi bod mewn gwireddu arbedion yn ystod y flwyddyn mae gwerth bron i £1.5 miliwn o arbedion yn parhau ar ôl i'w gwireddu ac felly yn cyfrannu at y sefyllfa ariannol.

Argymhellir fod yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn derbyn cymorth ariannol un-tro o £1.281 miliwn i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i symud ymlaen i wynebu her 2026/27.

CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - CYFRIFON TERFYNOL

Adran Plant a Theuluoedd	Cyllideb 2025/26	Sefyllfa 2025/26	Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26	Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	705	705	0		0	89
Gweithredol	3,070	3,548	478		478	351
Lleoliadau						
Lleoliadau All-Sirol	7,050	9,061	2,011		2,011	683
Cartrefi Grwpiau Bychan	76	156	80		80	29
Maethu Drwy Asiant	1,755	1,617	(138)		(138)	(271)
Maethu Mewnol	3,120	3,215	95		95	125
Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill	2,178	2,419	241		241	191
	14,179	16,468	2,289	0	2,289	757
Ôl-16	1,778	2,215	437		437	204
Gwasanaeth Derwen	3,655	4,098	443		443	533
Cyfiawnder Ieuenctid	262	251	(11)		(11)	(5)
Blynnyddoedd Cynnar	147	(39)	(186)		(186)	(174)
Uned Datblygu'r Gweithlu	308	308	0		0	0
Eraill	2,513	2,459	(54)		(54)	101
Addasiad Cau Cyfrifon 2025/26			0	(3,296)	(3,296)	0
Cyfanswm Plant a Theuluoedd	26,617	30,013	3,396	(3,296)	100	1,856

Plant a Theuluoedd

Dyrannwyd gwerth £2.175 miliwn o arian parhaol ychwanegol i'r Adran ar gyfer cyllideb 2025/26. Ar ddiwedd y flwyddyn adroddir ar ddiffyg cyllidebol o £3.4 miliwn gan yr adran.

Rheolaeth - costau staffio ychwanegol un tro ond sydd yn cael ei wrthbwysu gan ddefnydd o grantiau tuag at sefydlu system gwybodaeth.

Gweithredol - er bod adnodd ychwanegol parhaol gwerth £365k wedi ei ddyrannu i'r maes ar gyfer 2025/26 ymlaen, mae'r tueddiad gorwariant yn parhau o ganlyniad i bwysau sylweddol ar gefnogaeth cynlluniau cefnogol ynghyd â staffio uwchlaw'r gyllideb gweithwyr maes. Mae'r maes cynlluniau cefnogol wedi derbyn bid gwerth £200k yn 2026/27 i gyfarch y pwysau.

Lleoliadau - gwelwyd un ar ddeg achos newydd lleoliadau all-sirol ers yr adolygiad diwethaf gan gynnwys achosion eithriadol a lleoliadau heb gofrestrriad, sydd yn rhai llawer mwy costus. O ganlyniad gwelwyd cynnydd pellach yn y nifer cyfartalog lleoliadau all-sirol unwaith eto eleni i 37 (34.3 yn 2024/25, 32.5 yn 2023/24, 25.7 yn 2022/23), gyda chost gyfartalog y lleoliadau bellach yn £253k.

Gwelwyd chwe achos newydd ers yr adolygiad diwethaf yn Maethu drwy Asiant ond bu gostyngiad yn y niferoedd Maethu Mewnol. Gwelwyd lleihad yn yr incwm gan y Swyddfa Gartref ar gyfer y ceiswyr lloches heb rieni neu warcheidwaid sydd yn derbyn gwasanaeth. Yng nghefnogol ac eraill pwysau cynyddol ar y gyllideb gweithwyr cefnogol ac ar y gwasanaeth mabwysiadu gogledd Cymru.

Cartrefi Grwpiau Bychan - mae'r cartrefi wrthi'n cael eu sefydlu yng Ngwynedd gyda dau gartref bellach yn weithredol a'r trydydd tŷ yn dod yn weithredol yn ystod 2026/27. Mae'r ddarpariaeth fewnol yma yn golygu y bydd modd lleoli plant yn fewnol yn hytrach nac efo darparwyr allanol all-sirol. Bu i'r Cyngor dderbyn grantiau i sefydlu'r cartrefi ynghyd â chyfraniad tuag at gostau rhedeg y cartrefi eleni.

Ôl-16 - pwysau ychwanegol ar y gwasanaeth yn dilyn i ddau achos eithriadol gael eu trosglwyddo o'r gwasanaeth all-sirol yn ystod y flwyddyn. Pwysau hefyd ar yr elfen ceiswyr lloches dros 18 oed, gan nad yw'r cyfraniad gan y Swyddfa Gartref yn ddigonol i gyfarch y costau. Staffio uwchlaw'r gyllideb gweithwyr cymdeithasol hefyd yn cyfrannu at y gorwariant.

Derwen - i ymateb i'r tueddiad gorwariant bu i Derwen dderbyn dyraniad adnoddau parhaol ychwanegol o £1 miliwn ar gyfer cyllideb 2025/26. Mae'r pwysau yn parhau gyda gorwariant yn £443k ar ddiwedd y flwyddyn ar weithwyr cynlluniau cefnogol, cefnogaeth arbenigol ac ar yr Uned Egwyl Fer. Mae bid pellach gwerth £175k wedi ei ddyrannu i'r maes ar gyfer 2026/27.

Blynyddoedd Cynnar - trosiant staff a grantiau cynyddol ar gael i gyllido gwariant craidd wedi arwain at danwariant.

Eraill - yn tanwario ar ddiwedd y flwyddyn yn dilyn derbyniad cyllid ychwanegol gan y Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal, ond yn cynnwys gorwariant ar ffioedd gwasanaethau arbenigol ac ar y gwasanaeth tu allan i oriau.

Argymhellir fod yr Adran Plant a Theuluoedd yn derbyn cymorth ariannol un-tro o £3.296 miliwn i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i symud ymlaen i wynebu her 2026/27.

CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - CYFRIFON TERFYNOL						
Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal	Cyllideb 2025/26	Sefyllfa 2025/26	Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26	Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cefnogaeth a Chomisiynu	1,068	1,046	(22)		(22)	(82)
Incwm a Chyllid	1,479	1,422	(57)		(57)	(38)
Gwasanaethau Ataliol	279	259	(20)		(20)	(24)
Cyfanswm Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal	2,826	2,727	(99)	0	(99)	(144)

Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal

Cefnogaeth a Chomisiynu - arbediad o ganlyniad i benderfyniad ar y cyd ar lefel gogledd Cymru i gwtogi lefel cyfraniad i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol. Yn ychwanegol i hyn, defnydd o grantiau yn erbyn costau yn cyfrannu at y tanwariant a adroddir.

Incwm a Chyllid - cyfuniad o danwariant ar gostau staff mewn paratoad ar gyfer ail-strwythuro, ynghyd â derbyniad grant tuag at amser staff ynghlwm â gwaith i weithredu meddalwedd achosion gofal ar hyd gogledd Cymru. Am gyfnod bydd dwy system wybodaeth gofal yn cyd-redeg.

Gwasanaeth Ataliol - derbyniad grant ychwanegol ar gyfer y gwasanaethau ataliol yn golygu bod tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Yn dilyn y sefyllfa ffafriol ar holl benawdau'r Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal, sydd yn bennaf o ganlyniad i dderbyniad grant, mae trosglwyddiad gwerth £67k ynghyd â arall-gyfeirio bid gwerth £90k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i'r Adran Plant a gefnogir gan y gwasanaeth i gynorthwyo efo'i sefyllfa ariannol eleni.

CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - CYFRIFON TERFYNOL						
Adran Addysg	Cyllideb 2025/26	Sefyllfa 2025/26	Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26	Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Arweinyddiaeth a Rheolaeth	2,378	2,431	53		53	54
Ysgolion Datganoledig	104,767	104,767	0		0	0
Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion	(2,696)	(2,751)	(55)		(55)	(46)
Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol						
Cludiant	8,186	8,186	0		0	0
Gwasanaeth Atodol	915	662	(253)		(253)	(73)
Eraill	727	836	109		109	68
	9,828	9,684	(144)	0	(144)	(5)
Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad	5,514	5,636	122		122	(16)
Gwasanaeth Ieuenctid	880	880	0		0	(2)
Cyfanswm Addysg	120,671	120,647	(24)	0	(24)	(15)

Addysg

Arweinyddiaeth a Rheolaeth - gwariant un tro ar weithredu system rheoli gwybodaeth newydd ar gyfer yr ysgolion a hefyd ar ffioedd ymgynghorwyr.

Gwasanaeth Ansawdd Ysgolion - cyfnod trosiannol i'r gwasanaeth newydd gyda swyddi gwag, derbyniad incwm a grantiau ychwanegol, ond fod pwysau sylweddol ar y gyllideb cyfundrefn drochi.

Cludiant - yn dilyn gorwariant sylweddol ar gludiant dros y blynyddoedd diwethaf, dyrannwyd cyllideb o £896k ar sail barhaol a £939k pellach am flwyddyn yn unig i gyfarch y pwysau ar y maes bysus a thacsis ysgolion. Bu modd cwtogi'r cyfraniad un tro i £384k erbyn diwedd y flwyddyn, oherwydd lleihad mewn costau a derbyniad grantiau ychwanegol, felly adroddir ar sefyllfa ariannol gytbwys.

Mae'r maes cludiant yn parhau i fod yn destun adolygiad strategol i geisio rheoli'r cynnydd yn y gwariant, fel bod modd ceisio lleihau'r gorwariant a manteisio ar gyfleoedd effeithlonrwydd.

Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Gwasanaeth Atodol - derbyniad incwm grant uwch erbyn diwedd y flwyddyn ar gyfer cinio ysgol am ddim i ysgolion cynradd. Ond, gorwariant ar gostau staff oherwydd bod salwch yn faterion yn glanhau a gofalu ysgolion. Yr elfen gofal o'r clybiau brecwast hefyd yn gorwario £71k o ganlyniad i gyfuniad o gostau staff uwch a diffyg incwm.

Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Eraill - cynnydd mewn costau un tro sydd yn cael ei leihau gan ddefnydd o arian grant a thanwariant ar gyllidebau eraill.

Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad - cynnydd mewn costau un tro erbyn diwedd y flwyddyn ynghyd ag amgylchiadau yn ymwneud ag un canolfan penodol, sydd bellach wedi dod i ben, ond yn gyfrifol am orwariant o £53k. Trosiant staff a derbyniad grant yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - CYFRIFON TERFYNOL						
Adran Economi a Chymuned	Cyllideb 2025/26	Sefyllfa 2025/26	Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26	Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	403	392	(11)		(11)	(3)
Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau	674	671	(3)		(3)	(2)
Morwrol a Pharciau Gwledig	(389)	(288)	101		101	35
Cytundebau Byw'n Iach a Hamdden Eraill	1,741	2,044	303	(269)	34	91
Rhaglenni Datblygu Economaidd	(307)	(311)	(4)		(4)	0
Marchnata a Digwyddiadau	280	280	0		0	0
Llyfrgelloedd Gwynedd	1,673	1,644	(29)		(29)	(35)
Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd	1,033	1,042	9		9	14
Defnydd o Gronfa Tanwariant yr Adran	49	0	(49)		(49)	(49)
Defnydd o Gronfa Arall yr Adran	48	0	(48)		(48)	(49)
<u>Cyfanswm Economi a Chymuned</u>	5,205	5,474	269	(269)	0	2

Economi a Chymuned

Rheolaeth - derbyniad grant ac incwm uwch wedi arwain at danwariant ar y gyllideb graidd.

Morwrol a Pharciau Gwledig - dirywiad yn y sefyllfa ariannol erbyn diwedd y flwyddyn gyda gwariant uwchlaw'r gyllideb wedi cynyddu i £71k yn Noc Fictoria, Caernarfon, a chynnydd mewn gwariant gan yr Harbyrau a thraethau. Gwelwyd fod diffyg incwm yn faterion yn Traethau o £84k a hefyd yn y Parciau Gwledig o £27k. Yn groes i'r tueddiad yma, yr incwm net yn well yn Hafan, Pwllheli ac yn tanwario (£80k).

Cytundebau Byw'n lach a Hamdden Eraill - trosglwyddwyd y ddarpariaeth hamdden i Gwmni Byw'n lach yn Ebrill 2019, ond fod cyfrifoldeb am gostau rhedeg yr eiddo yn aros efo'r Cyngor. Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r cwmni wedi derbyn cefnogaeth ariannol flynyddol gan y Cyngor oedd yn £550k yn 2022/23, £308k yn 2023/24 ac yn £281k yn 2024/25, oedd uwchlaw'r taliad cytundebol y contract ddarparu, i'w galluogi i gynnal eu gwasanaethau. Mae'r gefnogaeth ariannol yn parhau eleni a'r swm gofynnol yn £269k erbyn diwedd y flwyddyn.

Ymhellach, gorwariant o £34k ar gyllideb rhedeg yr adeiladau hamdden gan yr Adran Economi a Chymuned.

Llyfrgelloedd Gwynedd - yn dilyn cyfnod trosiannol o ailstrwythuro'r gwasanaeth, mae pob swydd bellach wedi eu llenwi. Bu derbyniad incwm yn uwch gan fod banciau yn gwneud defnydd rheolaidd o ofod yn Llyfrgell Caernarfon.

Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd - gorwariant yn bennaf gan fod costau staff uwchlaw'r gyllideb yn faterion yn Storiol £16k ac Amgueddfa Lloyd George £15k tra bod costau eraill yn uwch yn Neuadd Dwyfor £15k. Gwelwyd lleihad mewn gwariant gan y Gwasanaeth Archifau a'r Celfyddydau sydd yn golygu fod y gorwariant a adroddir yn is.

Er mwyn lleihau'r gorwariant a adroddir, mae'r adran yn defnyddio £97k o gronfeydd adrannol.

Argymhellir i'r Cabinet gymeradwyo cymorth ariannol ychwanegol i Gwmni Byw'n lach gwerth £269k.

CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - CYFRIFON TERFYNOL						
Adran Priffyrdd, Peirianeg ac YGC (yn cynnwys Cefnffyrdd)	Cyllideb 2025/26	Sefyllfa 2025/26	Gor / (Tan) Variant Gros 2025/26	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Variant Addasedig 2025/26	Amcan Gor / (Tan) Variant Adolygiad Tachwedd 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau:						
Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd)	11,618	11,936	318		318	220
Peirianeg	487	411	(76)		(76)	(28)
Bwrdeistrefol	5,827	6,007	180		180	381
Ymgynghoriaeth Gwynedd	132	117	(15)		(15)	(81)
Addasiad Cau Cyrifon 2025/26			0	(307)	(307)	0
Cyfanswm Priffyrdd, Peirianeg ac YGC	18,064	18,471	407	(307)	100	492

Priffyrdd, Peirianeg ac YGC (gan gynnwys Cefnffyrdd)

Gwasanaethau Priffyrdd - er y gwelwyd cynnydd mewn gwireddu arbedion yn y maes, arbedion gwerth £120k yn parhau angen eu cyflawni yn Ffyrdd Sirol. Gwariant uwch erbyn diwedd y flwyddyn ar y rhaglen adeiladwaith ac ar staff a chostau eraill yn Ffyrdd Sirol. Ymhellach i hyn, lleihad yn yr incwm gan asiantaethau allanol ar amrywiol gytundebau.

Gwasanaethau Peirianeg - bu i drafodaethau gyda Network Rail yn ymwneud â Phont Abermaw ddod i ben yn ddiweddar gan arwain at wireddu arbediad. Yn ogystal â hyn, tanwariant ar amrywiol benawdau ynghyd â derbyniad incwm uwch.

Gwasanaethau Bwrdeistrefol - darlun cymysg sydd yn gyfuniad o ffactorau gan gynnwys yr angen i wireddu arbedion gwerth £117k. Er bod y pwysau ar gyllidebau staff glanhau toiledau cyhoeddus yn parhau, bu lleihad erbyn diwedd y flwyddyn. Yn dilyn gwaith diweddar yn yr Amlogfa gwelwyd lleihad yn y rhagolygon incwm cysylltiedig ond hefyd yn y costau. Mae colledion incwm yn parhau i fod yn faterion yn cynnal tiroedd a thoiledau cyhoeddus. Tanwariant pellach ar Orfodaeth Stryd ac ar Dimau Taclus sydd yn lleihau'r gorwariant a adroddir. Mae bid barhaol gwerth £180k wedi ei ddyrannu i Diroedd agored ar gyfer 2026/27 ymlaen.

Ymgynghoriaeth Gwynedd - er yn rhagori ar incwm gan sefydliadau allanol megis cynghorau eraill a Llywodraeth Cymru yn y maes ffyrdd a pheirianeg, nid yw cymaint â'r hyn a ragwelwyd yn ystod y flwyddyn. Tanwariant ar swyddi gwag a throsiant staff yn y Gwasanaeth Adeiladu.

Arbedion - mae gwerth yr arbedion adrannol nad ydynt yn gwireddu yn £317k ac felly yn cyfrannu at y sefyllfa gorwariant a adroddir ar ddiwedd y flwyddyn. Er bod llithro ar y gwireddu, bydd yr adran yn gweithredu camau pendant dros y misoedd nesaf i gyflawni cyfran o'r arbedion.

Argymhellir fod yr Adran Priffyrdd, Peirianeg ac YGC yn derbyn cymorth ariannol un-tro o £307k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i symud ymlaen i wynebu her 2026/27.

CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - CYFRIFON TERFYNOL						
Adran Amgylchedd	Cyllideb 2025/26	Sefyllfa 2025/26	Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26	Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	776	948	172		172	158
Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu	743	518	(225)		(225)	(1)
Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth						
Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth)	363	(82)	(445)		(445)	(362)
Parcio a Gorfodaeth Parcio	(3,008)	(2,534)	474		474	213
Cludiant Integredig	2,294	2,544	250		250	88
	(351)	(72)	279	0	279	(61)
Marchnadoedd	8	13	5		5	0
Cefn Gwlad a Mynediad	777	795	18		18	8
Gwarchod y Cyhoedd	2,048	1,921	(127)		(127)	(36)
Gwastraff	14,000	15,256	1,256		1,256	617
Cyfanswm Amgylchedd	18,001	19,379	1,378	0	1,378	685
Defnydd o Gronfa Adennill Enillion Cyfrannol Parc Adfer				(786)	(786)	
Defnydd o Gronfa Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pecynnu				(470)	(470)	
Addasiad Cau Cyfrifon 2025/26				(22)	(22)	
Cyfanswm	0	0	0	(1,278)	100	

Amgylchedd

Rheolaeth yr Adran - oediad mewn gwireddu gwerth £150k o gynlluniau arbedion ynghyd â gorwariant ar gostau cerbydau.

Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu - darlun cymysg gan gynnwys, incwm ar geisiadau mawr ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gan y Grid Cenedlaethol yn golygu fod Cynllunio yn gor-gyflawni ei incwm o £222k tra bod diffyg incwm yn parhau i fod yn faterion yn Pridiannau Tir a Rheolaeth Datblygu. Trosiant staff a swyddi gwag yn cynorthwyo'r sefyllfa ariannol ymhellach.

Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth) - rhagori ar incwm ffioedd gwaith stryd, swyddi gweigion a thanwariant pellach ar nifer o benawdau'r gyllideb.

Parcio a Gorfodaeth Parcio - yn dilyn i ffioedd parcio gael eu codi yn Ebrill 2025, roedd disgwyliad fod incwm parcio am wella eleni o'i gymharu â'r diffyg o £826k a adroddwyd yn 2024/25. Bu gwelliant, gyda diffyg incwm o £464k, ond yn is na'r rhagolygon. Swyddi gwag yn cynorthwyo i wella'r sefyllfa a adroddir.

Cludiant Integredig - gwelwyd cynnydd sylweddol mewn cost contractau ac felly nid yw'r grantiau a dderbynnir yn cyfarch yr holl gostau cysylltiedig. Tanwariant ar gostau staff ac ar gyllidebau eraill yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

Gwarchod y Cyhoedd - swyddi gwag a llai o wariant ar nifer o benawdau'r gyllideb gan gynnwys ar gostau cerbydau. Yn gyffredinol, y sefyllfa incwm yn well na'r rhagolygon, gydag incwm safonau masnach yn rhagori'r targed ond incwm i lawr ar gyfer y maes trwyddedau tacsis.

Gwastraff - bu i gyllideb ychwanegol o £400k ei ddyrannu ar gyfer 2025/26 ymlaen, ond mae nifer o faterion yn gyfrifol am y gorwariant sydd wedi cynnyddu i £1.26 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn. Y gwaith o ailstrwythuro a chyflwyno newidiadau i'r maes yn parhau gyda nifer o gamau ynghlwm â'r broses, gyda chmau yn llithro i 2026/27 ac felly nifer o gynlluniau arbedion yn llithro o ganlyniad i'r heriau ail-strwythuro. Gorwariant cynyddol erbyn diwedd y flwyddyn ar gasglu gwastraff ac ailgylchu, gwastraff masnachol, safleoedd trin a throsglwyddo gwastraff ac ar redeg y canolfannau ailgylchu. Nid yw gwerth £830k o gynlluniau arbedion perthnasol i wastraff yn gwireddu erbyn diwedd y flwyddyn.

Adennill Enillion Cyfrannol Parc Adfer - arbediad un-tro i'r holl gynghorau o enillion ail-ariannu Parc Adfer. Mae'r arian sydd ar gael sef £786k i'w ddefnyddio yn llwyr i gyllido'r gorwariant yn y maes gwastraff.

Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pecynnu - derbyniad incwm newydd i gynghorau sydd yn deillio o ardoll ar ddeunyddiau pacio i gynhyrchwyr a mân-werthwyr, er mwyn hybu ailgylchu. Mae £470k i'w ddefnyddio yn 2025/26 i gyfarch y diffyg gan y gwasanaeth gwastraff gyda'r gweddill yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer y maes gwastraff.

Arbedion - mae gwerth £1.27 miliwn o arbedion nad ydynt yn cael eu gwireddu gan yr adran ac felly yn cyfrannu at y sefyllfa gorwariant.

Argymhellir fod y gorwariant o £1.256 miliwn gan y gwasanaeth gwastraff yn cael ei gyllido drwy ddefnyddio £786k o'r Gronfa Adennill Enillion Cyfrannol Parc Adfer a £470k o'r Gronfa Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pecynnu. Ymhellach i hyn, fod yr Adran Amgylchedd yn derbyn cymorth ariannol un-tro o £22k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i symud ymlaen i wynebu her 2026/27.

CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - CYFRIFON TERFYNOL						
Adran Tai ac Eiddo	Cyllideb 2025/26	Sefyllfa 2025/26	Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26	Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	799	583	(216)		(216)	(192)
Gwasanaethau Tai						
Digartrefedd	6,184	6,464	280		280	531
Tai Sector Breifat	469	486	17		17	(30)
Eraill	423	299	(124)		(124)	(97)
	7,076	7,249	173	0	173	404
Gwasanaethau Eiddo						
Eiddo	2,728	2,750	22		22	11
Gofalu, Arlwyo a Glanhau	9	10	1		1	25
	2,737	2,760	23	0	23	36
Cyfanswm Tai ac Eiddo	10,612	10,592	(20)	0	(20)	248
Addasiad Cau Cyfrifon 2025/26 - dyraniad bid un-tro i Lety Argyfwng 2026/27				(800)		
Cynnal a Chadw Corfforaethol - llithriad			(1,087)			
Trosglwyddo i Gronfa Cynnal a Chadw ar ddiwedd y flwyddyn			1,087			
Cynnal a Chadw Corfforaethol Net			0			

Tai ac Eiddo

Rheolaeth - tanwariant ar gostau staff gan fod ail strwythuro ar y gweill, ynghyd â thanwariant ar wasanaethau a chyflenwadau.

Digartrefedd - y tueddiad o bwysau sylweddol ar y gwasanaeth llety argyfwng yn parhau, gyda gwariant ar y maes yn £6.1 miliwn eleni, sydd yn gyson â gwariant 2024/25. Mae cyllideb ychwanegol o £4.2 miliwn wedi ei ddyrannu o bremiwm treth cyngor i lety argyfwng ynghyd â chyllideb un-tro ychwanegol o £859k a ddyrannwyd fel rhan o'r drefn bidiau 2025/26. Gwelwyd costau uwch i symud a storio eiddo personol aelwydydd sy'n derbyn llety argyfwng. Mae cyfuniad o leihad yn y niferoedd sydd mewn llety argyfwng a hefyd fod pris y noson rhai darparwyr wedi eu negodi yn is, yn golygu fod lleihad yn y pwysau o gymharu â'r rhagolygon. Yn ychwanegol i hyn, gwelwyd cynnydd yn ystod y flwyddyn mewn costau lesu tai preifat.

Digartrefedd 2026/27 - yn dilyn adolygiad o'r gwariant ar ddiwedd y flwyddyn, awgrymir y dylid dyrannu bid un tro o hyd at £800k i gynorthwyo gyda'r pwysau ar lety argyfwng yn 2026/27.

Tai Sector Breifat - yn groes i'r rhagolygon yn ystod y flwyddyn, diffyg ar ffioedd tai â nifer o breswylwyr ac ar incwm grant cyfleusterau i'r anabl. Gwelwyd hefyd gostau uwch ynghlwm ag ymestyn y Cynllun Cartrefi Gwag Cenedlaethol, ond fod trosiant staff yn cynorthwyo'r sefyllfa ariannol.

Gwasanaethau Tai, Eraill - tanwariant ar gostau staff ac ar nifer o benawdau amrywiol ynghyd â defnydd pellach o grant i gyllido gwariant.

Gwasanaethau Eiddo - pwysau cynyddol ar y gyllideb gwasanaethau a chyflenwadau erbyn diwedd y flwyddyn, sydd yn cael ei leihau gan drosiant staff.

Gofalu, Arlwygo a Glanhau - y gorwariant ar gostau nwyddau glanhau bellach yn cael ei wrthbwysu gan gynnydd mewn incwm ar lanhau a gofalu.

Cynnal a Chadw Corfforaethol - bu i'r maes Addysg dderbyn grant cynnal a chadw gan y Llywodraeth gwerth £2.4 miliwn yn ystod y flwyddyn, sydd yn golygu bod llithriad o £1.1 miliwn ar gyllideb graidd cynnal a chadw, sydd wedi ei drosglwyddo i gronfa ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer dibenion cynnal a chadw.

Argymhellir fod yr Adran Tai ac Eiddo yn derbyn dyraniad ariannol un-tro o hyd at £800k i gyllido'r pwysau ar y gwasanaeth llety argyfwng yn 2026/27.

CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - CYFRIFON TERFYNOL						
Adrannau Canolog	Cyllideb 2025/26	Sefyllfa 2025/26	Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26	Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	3,194	3,155	(39)		(39)	(14)
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	9,166	9,128	(38)		(38)	(13)
Gwasanaethau Corfforaethol	8,631	8,611	(20)		(20)	(6)
Cyfanswm Adrannau Canolog	20,991	20,894	(97)	0	(97)	(33)

Adrannau Canolog

Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol - tanwariant ar staff a rhagori ar incwm mewn gwahanol feysydd, bu modd ariannu costau amrywiol un-tro o fewn y sefyllfa ariannol erbyn diwedd y flwyddyn.

Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) - cyfuniad o swyddi gwag a denu incwm a grantiau ychwanegol ar ddiwedd y flwyddyn ond y pwysau yn parhau ar systemau amrywiol ac ar gostau meddalwedd yr adran, gan gynnwys ar system prosesu incwm gan gwsmeriaid a thrigolion Gwynedd.

Gwasanaethau Corfforaethol - trosiant staff, lleihad mewn gwariant ac incwm ychwanegol ym misoedd olaf y flwyddyn. Gwelwyd sefyllfa gytbwys gan yr Argraffdy sydd yn welliant o'r rhagolygon yn ystod y flwyddyn.

CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - CYFRIFON TERFYNOL						
Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)	Cyllideb 2025/26	Sefyllfa 2025/26	Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26	Amcan Gor / (Tan) Wariant Adolygiad Tachwedd 2025/26
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Premiwm Treth Cyngor	*	*	(914)	914	0	(871)
Gostyngiadau Treth Cyngor	*	*	14	(14)	0	0
Derbyniad Llog Net	*	*	125	(125)	0	0
Darpariaeth Arbedion	*	*	(1,153)	1,153	0	0
Dychwelyd Cyllidebau / Bidiau	*	*	(404)	404	0	0
Ad-daliad Cronfa Bensiwn perthnasol i GwE	*	*	(908)	908	0	0
Eraill	*	*	(475)	475	0	0
Cyfanswm Corfforaethol	*	*	(3,715)	3,715	0	(871)

Corfforaethol

Treth Cyngor - yn ystod 2025/26 cafwyd gwerth £1.583 miliwn o gynnyrch treth ychwanegol o ganlyniad i ragdybiaethau darbodus wrth osod y gyllideb. O fewn y darlun yma gwelwyd 618 eiddo yn trosglwyddo o drethi annomestig i dreth cyngor yn ystod y flwyddyn (692 yn 2024/25, 381 yn 2023/24). Ond, yn groes i'r darlun yma, bu i Swyddfa'r Prisiwr ganiatáu 283 eiddo i drosglwyddo o dreth cyngor i drethi annomestig (189 yn 2024/25, 193 yn 2023/24, 452 yn 2022/23). Rhoddwyd yr arian yma yn y gronfa strategaeth ariannol yn Adolygiad Awst, ac felly mae ar gael i'w dynnu o'r gronfa i gynorthwyo efo sefyllfa ariannol yr adrannau yn 2025/26.

Premiwm Treth Cyngor - yn ystod y flwyddyn bu lleihad o 74 yn y nifer o ail gartrefi'r premiwm, sydd yn groes i'r cynnydd o 387 a welwyd y llynedd. Yn 2025/26 mae £7.7 miliwn o bremiwm treth cyngor wedi ei neilltuo ar gyfer y Strategaeth Dai a £4.2 miliwn pellach ar gyfer y maes Digartrefedd ynghyd â £738k o ymrwymadau eraill. Yn dilyn adolygiad o ddyraniad Premiwm Treth Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae gwerth £914k o bremiwm treth uwchlaw'r gyllideb, gyda'i ddefnydd i'w ystyried gan y Cabinet.

Gostyngiadau Treth Cyngor - yn dilyn ymgyrch i dargedu grwpiau gwahanol i gynyddu niferoedd y ceisiadau, gwelwyd cynnydd yn y niferoedd sydd yn hawlio'r gostyngiad yng Ngwynedd dros flwyddyn ddiwethaf o'i gymharu â'r tueddiad mewn blynyddoedd blaenorol, ac felly'r gwariant uwchlaw'r gyllideb.

Derbyniad Llog Net - gostyngiad mewn cyfraddau llog wedi arwain at logau islaw'r targed disgwylidig eleni.

Darpariaeth Arbedion - yn dilyn anallu rhai adrannau i wireddu arbedion mewn rhai meysydd, mae darpariaeth gorfforaethol wedi ei wneud fel ei fod ar gael i ddileu arbedion problemus a phontio gwireddu arbedion.

Dychwelyd Cyllidebau / Bidiau - bu i fidiau gan yr adrannau nad oes defnydd llawn iddynt eleni gael eu dychwelyd.

Ad-daliad Cronfa Bensiwn perthnasol i GwE - yn dilyn i'r Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol GwE ddod i ben ar ddiwedd Mai 2025, bu i chwe awdurdod gogledd Cymru dderbyn ad-daliad yn ymwneud â gwarged yn deillio o gyfraniadau pensiwn perthnasol i GwE.

Eraill - ni fu'r galw ar y ddarpariaeth mor uchel â'r hyn a ragwelwyd wrth osod y gyllideb.

Argymhellir y dylid cynorthwyo'r Adrannau sydd yn gorwario yn 2025/26, darparu cymorth ychwanegol i Gwmni Byw'n Iach ar gyfer 2025/26 a chyllido bid i'r maes llety argyfwng ar gyfer 2026/27, gan eu cyllido o'r ffynonellau canlynol:

- fod y gorwariant o £1,256 miliwn gan y gwasanaeth gwastraff yn cael ei gyllido drwy ddefnyddio £786k o'r Gronfa Adennill Enillion Cyfrannol Parc Adfer a £470k o'r Gronfa Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pecynnu
- defnyddio (£2.8 miliwn) o'r tanwariant ar gyllidebau Corfforaethol
- (£3.174 miliwn) yn cael ei gyllido o Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol y Cyngor

- y tanwariant o (£914k) ar Breimiwm Treth Cyngor yn cael ei drosglwyddo i gronfa Premiwm Treth Cyngor gyda'i ddefnydd i'w benderfynu gan y Cabinet

Yn dilyn ymarferiad adolygiad o gronfeydd a fanylir yn **Atodiad 3**, fod y ddau drosglwyddiad canlynol gwerth £8.1 miliwn yn cael eu gwneud o'r Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol y Cyngor, sef:

- £6.6 miliwn yn cael ei symud i falansau cyffredinol y Cyngor
- £1.5 miliwn yn cael ei symud i gronfa Diogelu Adeiladau.

Adolygiad o Gronfeydd

Yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd, argymhellir rhyddhau'r swm canlynol:

Cronfa	Swm i'w ryddhau £'000
Cronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol y Cyngor	8,100
Cyfanswm	8,100

gan ei symud i:

Balansau / Cronfa	Swm £'000
Balansau cyffredinol y Cyngor	6,600
Cronfa Diogelu Adeiladau	1,500
Cyfanswm	8,100

Balansau cyffredinol y Cyngor

Fel sydd yn cael ei nodi yn flynyddol yn yr adroddiad ar y gyllideb i'r Cyngor llawn, mae awdurdodau lleol angen lefel darbodus o 'gyfalaf gweithredol' i gynnal llif arian digonol ac i gyfarch gwariant annisgwyl. Ar 31 Mawrth 2026 roedd gan y Cyngor falansau cyffredinol o £7.9 miliwn sydd yn cynrychioli 1.3% o wariant refeniw gros y Cyngor.

Rydym wedi nodi, ar fwy nag un achlysur, oherwydd yr amgylchiadau tymhestlog y byddwn yn eu hwynebu dros y blynyddoedd i ddod, ei fod yn briodol cadw symiau wrth gefn er mwyn medru ymdrin â phroblemau a allai godi.

Rydym o'r farn ei bod yn briodol wrth gau cyfrifon 2025/26 ein bod yn adolygu ac yn cynyddu balans y balansau cyffredinol o £6.6 miliwn i £14.5 miliwn, sydd yn golygu fod y gymhareb i wariant refeniw gros y Cyngor yn cynyddu i 2.5% ac felly yn briodol i fedru dygymod gydag

Cronfa Diogelu Adeiladau

Yn dilyn i adroddiad gael ei gyflwyno i'r Cabinet 16 Rhagfyr 2025 ar 'Gyllido gwaith diogelu adeilad Corbett Arms, Tywyn', sef adeilad rhestredig Gradd II, sydd wedi bod yn achos pryder i Gyngor Gwynedd a'r gymuned leol ers blynyddoedd. Mae'r cyn-westy mewn cyflwr strwythurol peryglus ac sydd wedi golygu fod y Cyngor wedi gorfod gweithredu er mwyn amddiffyn a diogelu'r cyhoedd.

Cymeradwywyd swm o £1.5 miliwn o'r Gronfa Strategaeth Ariannol y Cyngor er mwyn cyllido y gwaith i ddiogelu'r adeilad, gan nad oes modd i'r Adran Amgylchedd ymdopi gyda'r fath wariant yn ddi-rybudd o fewn eu cyllideb. Felly mae trosglwyddiad ar ddiwedd y flwyddyn angen ei wneud i'w symud i gronfa benodol ar gyfer y pwrpas.

[Adroddiad Cabinet - Corbett Arms.pdf](#)

CYFARFOD:	PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
DYDDIAD:	21 MAI 2026
TEITL:	RHAGLEN GYFALAF 2025-26 - ADOLYGIAD DIWEDD BLWYDDYN (SEFYLLFA 31 MAWRTH 2026)
PWRPAS:	ADRODDIAD MONITRO AR WARIANT AC ARIANNU'R RHAGLEN GYFALAF
GWEITHREDIAD:	DERBYN Y WYBODAETH, AC YSTYRIED Y RISGIAU YN YMWNEUD Â'R RHAGLEN GYFALAF
SWYDDOG CYSWLLT:	FFION MADOG EVANS, PENNAETH CYLLID CYNORTHWYOL
AELOD CABINET:	CYNGHORYDD HUW WYN JONES, AELOD CABINET CYLLID

1. Mae'r adroddiad gerbron heddiw, sef yr adolygiad diwedd blwyddyn o'r rhaglen gyfalaf, yn manylu ar y rhaglen ddiwygiedig a'i ariannu.
2. Mae'r adroddiad eisoes wedi ei gyflwyno i gyfarfod 19 Mai 2026 o'r Cabinet.
3. Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nodi'r sefyllfa ac unrhyw risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor, a sylwebu fel bo angen.

Atodiad:

Adroddiad Cabinet 19 Mai 2026

CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

Teitl yr eitem:	Rhaglen Gyfalaf 2025/26 – Adolygiad Diwedd Blwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2026)
Aelod Cabinet:	Cynghorydd Huw Wyn Jones, Aelod Cabinet Cyllid
Swyddog perthnasol:	Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol
Dyddiad y cyfarfod:	19 Mai 2026

1. Penderfyniad a Geisir:

- Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd y flwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2026) o'r rhaglen gyfalaf.
- Cymeradwyo'r addasiadau canlynol i'r Gyllideb Gyfalaf a gymeradwywyd ar 6 Mawrth 2025 ac a addaswyd ar 11 Tachwedd 2025 a'r 20 Ionawr 2026 o safbwynt dulliau ariannu'r rhaglen (fel nodir yn rhan 3.2.3 o'r adroddiad), sef:
 - cynnydd o £35,000 mewn defnydd o fenthyca
 - cynnydd o £14,058,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
 - cynnydd o £485,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
 - cynnydd o £1,313,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
 - lleihad o £2,493,000 mewn defnydd o'r gronfa cyfalaf
 - lleihad o £667,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.

2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor. Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf. Y Cabinet sydd wedi'u hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3.2.2) a'i ariannu (rhan 3.2.3).

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2025/26 – 2027/28.

3. Cyflwyniad a Rhesymeg

3.1 Cefndir/ Cyflwyniad

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o'r drefn diwedd blwyddyn 2025/26. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhannau 3.2.2 a 3.2.3 o'r adroddiad (Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad) fel a ganlyn:

- Rhan 3.2.1: Prif Gasgliadau
- Rhan 3.2.2: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £164.866m am y 3 blynedd 2025/26 – 2027/28.
- Rhan 3.2.3: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £12.731m ers yr adolygiad diwethaf.
- Rhan 3.2.4: Manyllder grantiau ychwanegol ers yr adolygiad diwethaf.
- Rhan 3.2.5: Dadansoddiad dangosyddion darbodus cyfalaf.

Mae gan y Cabinet rôl i gymeradwyo'n ffurfiol yr ymgorfforiad o ariannu trwy grant i mewn i'r gyllideb gyfalaf, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynnyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

3.2 Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

3.2.1 Prif Gasgliadau

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw:

- Buddsoddwyd £83.8m yn 2025/26 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £52.7m (63%) ohono wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.
- Mae £21.9m ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2025/26 i 2026/27 a 2027/28, ond ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

3.2.2 Rhaglen Gyfalaf 2025/26 i 2027/28

Gweler isod y rhaglen gyfalaf derfynol am 2025/26 ar ddiwedd Mawrth 2026, gyda'r sefyllfa arfaethedig ddiwygiedig i'r blynyddoedd dilynol:

ADRAN	ADOLYGIAD DIWEDD MAWRTH				Cynnydd/(Lleihad) ers yr Adolygiad Diwethaf £000
	2025/26 £000	2026/27 £000	2027/28 £000	Cyfanswm £000	
Addysg	13,778	15,359	3,451	32,588	4,529
Amgylchedd	7,428	5,222	478	13,128	33
Cefnogaeth Gorfforaethol	-	-	-	-	-
Cyllid	734	696	1,249	2,679	(502)
Economi a Chymuned	20,944	14,359	2,396	37,699	(101)
Tai ac Eiddo	22,836	9,014	4,103	35,953	4,926
Oedolion, Iechyd a Llesiant	3,742	4,725	-	8,467	2,998
Plant a Chefnogi Teuluoedd	2,945	1,013	700	4,658	317
Priffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth	11,365	11,629	5,700	28,694	531
Corfforaethol	-	500	500	1,000	-
CYFANSWM	83,772	62,517	18,577	164,866	12,731

3.2.3 Newidiadau i'r Ffynonellau Ariannu

Mae cynnydd o £12.731m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf dair blynedd ers sefyllfa'r adolygiad diwethaf. Nodir isod y ffynonellau ariannu terfynol am 2025/26 ar ddiwedd Mawrth 2026, gyda'r sefyllfa arfaethedig ddiwygiedig i'r blynnyddoedd dilynol:

ARIANNU	ADOLYGIAD DIWEDD MAWRTH				Addasiad Technegol £000	Cynnydd/(Lleihad) ers yr Adolygiad Diwethaf £000
	2025/26 £000	2026/27 £000	2027/28 £000	Cyfanswm £000		
Benthyca gyda chefnogaeth	4,070	4,070	4,070	12,210	0	-
Benthyca Arall	8,504	6,221	-	14,725	0	35
Grantiau a Chyfraniadau	60,115	22,346	4,871	87,332	3,441	14,058
Derbyniadau Cyfalaf	487	158	-	645	0	485
Refeniw Adrannol a Chorfforaethol	2,581	20	-	2,601	0	1,313
Cronfa Cyfalaf	-	21,439	5,279	26,718	9,189	(2,493)
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill	8,015	8,263	4,357	20,635	(12,630)	(667)
CYFANSWM	83,772	62,517	18,577	164,866	0	12,731

3.2.4 Grantiau Ychwanegol

Ers yr adolygiad diwethaf, ddiwedd Tachwedd, llwyddodd y Cyngor i ddenu grantiau ychwanegol o £14.728m a rhestrir y rhai mwyaf isod. Mae nifer o addasiadau ychwanegol gan gynnwys lleihad ar gynlluniau oedd yn is na'r amcan gwreiddiol yn dod â chyfanswm y symudiad i £14.058m (gweler Atodiad 1 am fwy o fanylion) :

- £3.206m Grant Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol (TACP) gan Lywodraeth Cymru
- £2.434m Grant ychwanegol Cynnal a Chadw Ysgolion 2025/26
- £2.292m Grant Cyffredinol Cyfalaf ychwanegol gan Lywodraeth Cymru
- £1.836m Grant gan Lywodraeth Cymru tuag at Hwb Cymunedol Anableded Dysgu, Canolfan Dolfleurig

- £1.529m Grant Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – addasu ac ychwanegu amrywiol gynlluniau
- £0.763m Grant gan Lywodraeth Cymru tuag at y cynllun i Ddatgarboneiddio Gwres o fewn y Cyngor
- £0.652m Grant gan Lywodraeth Cymru tuag at y system gyfrifiadurol Mosaic (CCSCP - Cysylltu Gofal - Rhaglen Gofal Cymdeithasol)

3.2.5 Dangosyddion Darbodus Cyfalaf

Mae Côt Darbodus CIPFA yn nodi'r angen i adrodd ar y Dangosyddion Darbodus (gweler Atodiad 3 am fwy o fanylion).

3.3 Camau nesaf

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

Fe adlewyrchir yma'r sefyllfa a'r wybodaeth ddiweddaraf, ac wrth ddod â'r broses i derfyn, gallasai fod rhywfaint o newidiadau pellach. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd newid sylweddol yn y sefyllfa gyffredinol.

4. Sylwadau Swyddogion Statudol

4.1 Prif Swyddog Cyllid

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

4.2 Swyddog Monitro

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Rhestr Atodiadau:

Atodiad 1 - Manylion y Prif Newidiadau

Atodiad 2 - Manylion Ailbroffilio'r Gyllideb

Atodiad 3 – Dangosyddion Darbodus Cyfalaf 2025/26

Rhestr Dogfennau Cefndir:

Cyllideb 2025/2026 : [Cyllidebau Blynnyddol](#)

Strategaeth Cyfalaf 2025/26 : Cyngor Llawn 06/03/25: [Eitem 10 - Strategaeth Gyfalaf 2025-26 yn cynnwys Strategaethau Buddsoddi a Benthycu.pdf](#)

Manylion y Prif Newidiadau

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu ers yr adolygiad diwethaf:

	2025/26 £'000	2026/27- 2027/28 £'000
Benthyca Arall		
Cerbydau yn y meysydd priffyrdd, gwastraff ac ailgylchu (<i>Adrannau Priffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth; Amgylchedd</i>).	36	
Grantiau a Chyfraniadau		
Grant ychwanegol Cynnal a Chadw Ysgolion 2025/26 (<i>Adran Addysg</i>).	2,434	
Grant Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – addasu ac ychwanegu amrywiol gynlluniau (<i>Adran Addysg</i>).	809	720
Grantiau a Chyfraniadau gan nifer o asiantaethau tuag at gae hoci a chae 3G yn ysgolion de'r sir (<i>Adran Addysg</i>).	235	
Cyfraniadau rhan 106 deddfwriaeth Cynllunio wedi ei ddefnyddio tuag at ysgolion (<i>Adran Addysg</i>).	121	
Grant Trawsnewid Trefi gan Lywodraeth Cymru (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).	79	
Grant Balchder Bro gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).	50	
Addasiad Grant Cronfa Ffyniant Gyffredin gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig – telir swm i Gyngor Gwynedd i'w ddosrannu ar draws siroedd gogledd Cymru (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).	(52)	
Addasiad i'r grant gan Lywodraeth Cymru i Leihau Ôl Troed Carbon (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).	(51)	
Addasiad grant gan Lywodraeth Cymru i wella mynediad i'r Archifdy (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).	(47)	

• Addasiad Grant Cyfalaf Gofal Plant gan Lywodraeth Cymru (<i>Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd</i>).	(94)
• Grant Cronfa Tai â Gofal (HCF) ar gyfer cartrefi i blant gan Lywodraeth Cymru (<i>Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd</i>).	225
• Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru (<i>Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd</i>).	182
• Grant gan Lywodraeth Cymru tuag at y system gyfrifiadurol Mosaic (CCSCP - Cysylltu Gofal - Rhaglen Gofal Cymdeithasol) (<i>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i>).	652
• Grant Cronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) – grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addasiadau sefydliadau a hwyluso gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill (<i>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i>).	221
• Grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cartref Gofal Penrhos (<i>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i>).	289
• Grant gan Lywodraeth Cymru tuag at Hwb Cymunedol Anabled Dysgu, Canolfan Dolfleurig (<i>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i>).	1,836
• Addasiadau i'r grantiau o'r Gronfa Trafnidiaeth Lleol (LTF); Gronfa Teithio Llesol (ATF); Gronfa Ffyrdd Cydnerth (RRF) a'r Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau (SRiC) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau (<i>Adran Amgylchedd</i>).	(207)
• Addasiad i grantiau a chyfraniadau gan Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC(WCVA)) a Partneriaethau Natur Lleol tuag at gynlluniau gwledig (<i>Adran Amgylchedd</i>)	(105)
• Addasiad i grant Llywodraeth Cymru o'r Gronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEVTF) ar gyfer pwyntiau gwefru cerbydau trydan a phwyntiau solar (<i>Adran Amgylchedd</i>).	(30)
• Grant Trawsnewid Trefi gan Lywodraeth Cymru tuag at gynlluniau Digartrefedd (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>).	506

• Grant Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol (TACP) gan Lywodraeth Cymru (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>).	3,206	
• Cyfraniadau rhan 106 deddfwriaeth Cynllunio wedi ei ddefnyddio tuag at dai penodol (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>).	108	
• Addasu Grant Cynllun Lesu Cymru gan Lywodraeth Cymru (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>).	(58)	
• Grant gan Lywodraeth Cymru tuag at y cynllun i Ddatgarboneiddio Gwres o fewn y Cyngor (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>).	730	33
• Grant Cyffredinol Cyfalaf ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (<i>Corfforaethol</i>).	2,292	
Derbyniadau Cyfalaf		
• Cywiro cyfraniadau tuag at gerbydau trydanol gan ddigolledu cronfeydd adnewyddu adrannol (<i>Adrannau Priffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth; Amgylchedd</i>).	484	
Refeniw Adrannol a Chorfforaethol		
• Cyfraniadau ysgolion unigol tuag at amrywiol gynlluniau penodol (<i>Adran Addysg</i>).	215	
• Cyfraniadau refeniw tuag at amrywiol gynlluniau penodol (<i>Adran Economi a Chymuned</i>).	166	
• Cyfraniadau refeniw tuag at amrywiol gynlluniau (<i>Adrannau Priffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth; Amgylchedd</i>).	193	
• Cyfraniadau refeniw tuag at amrywiol gynlluniau gan gynnwys cynlluniau digartrefedd (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>).	692	
• Addasiadau cyfraniadau adrannau tuag at offer cyfrifiadurol ychwanegol (<i>Adran Cyllid</i>).	50	
Cronfa Cyfalaf		
• Cywiro ariannu 24/25 prosiect ffonau VOIP - cronfa benodol i'w defnyddio (<i>Adran Cyllid</i>).	(201)	
• Addasu'r defnydd o'r Gronfa Cyfalaf oherwydd derbyn Grant Cyffredinol Cyfalaf ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (<i>Corfforaethol</i>).	(2,292)	

Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill

- Addasiad i'r cyfraniadau cyfatebol/ychwanegol tuag at amrywiol gynlluniau (*Adran Economi a Chymuned*). (257)
- Cywiro cyfraniadau o dderbyniadau cyfalaf tuag at gerbydau trydanol gan ddigolledu cronfeydd adnewyddu adrannol (*Adrannau Priffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth; Amgylchedd*). (484)
- Cyfraniad/ addasiad tuag at amrywiol gynlluniau gan gynnwys uwchraddio'r Amlosgydd yn Amlosgfa Bangor (*Adran Priffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth*). 356
- Adnewyddu Cerbydau ac Offer o gronfeydd adrannol (*Adrannau Priffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth; Amgylchedd*). 329
- Addasu'r cyfraniad o'r Gronfa Breimiwm Treth y Cyngor tuag at y cynlluniau Strategaeth Tai (*Adran Tai ac Eiddo*). (570)
- Cyfraniadau tuag at gynlluniau hinsawdd a datgarboneiddio (*Adran Tai ac Eiddo*). 297
- Addasu ariannu y cynllun i gryfhau isadeiledd a chynlluniau eraill TG trwy referniw dros nifer o flynyddoedd tra'n defnyddio'r un cronfeydd a glustnodwyd yn wreiddiol i ariannu'r cyfalaf (*Adran Cyllid*). (552)
- Cywiro ariannu 24/25 prosiect ffonau VOIP - cronfa benodol i'w defnyddio (*Adran Cyllid*). 201

4

Manylion Ail-broffilio'r Gyllideb

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi eu hail-broffilio ers y gyllideb wreiddiol:

	2025/26 £'000	2026/27 - 2027/28 £'000
Cynlluniau Ysgolion (Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ac Eraill) (<i>Adran Addysg</i>)	(10,928)	10,928
Cynlluniau Ysgogi'r Economi ac Unedau Diwydiannol; Adfywio (<i>Adran Economi a Chymuned</i>)	(1,881)	1,881
Cronfa Ffyniant Bro (<i>Adran Economi a Chymuned</i>)	(6,078)	6,078
Cronfa Ffyniant Gyffredin (<i>Adran Economi a Chymuned</i>)	(1,987)	1,987
Cynlluniau Morwrol, Parciau Gwledig, Diwylliant a Hamdden (<i>Adran Economi a Chymuned</i>)	(1,592)	1,592
Sefydliadau Plant (<i>Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd</i>)	(1,013)	1,013
Darpariaeth Cyd-Ariannu Prosiectau Gofal (<i>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i>)	(1,500)	1,500
Cynlluniau Sefydliadau Preswyl, Gofal Dydd ac eraill yn y maes Oedolion (<i>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</i>)	(1,726)	1,726
Cynlluniau Ffyrdd a Bwrdeistrefol (<i>Adran Prifffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth</i>)	(1,197)	1,197
Adnewyddu Cerbydau ac Offer (<i>Adrannau Prifffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth; Amgylchedd; Tai ac Eiddo</i>)	(3,172)	3,172
Cynlluniau Risgiau Arfordirol ac Atal Llifogydd (<i>Adran Prifffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth</i>)	(1,880)	1,880
Cynlluniau Trafnidiaeth, Gwelliannau Trefol a Chynlluniau Gwledig (<i>Adran Amgylchedd</i>)	(291)	291
Meysydd Parcio (<i>Adran Amgylchedd</i>)	(221)	221
Systemau TG arbenigol Adran Amgylchedd (<i>Adran Amgylchedd</i>)	(48)	48

Cynlluniau Gwastraff ac Ailgylchu (<i>Adran Amgylchedd</i>)	(2,156)	2,156
Cynlluniau Strategaeth Tai (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(164)	164
Cynlluniau Grantiau ac Eraill Tai (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(1,151)	1,151
Cynlluniau Addasiadau i'r Anabl; Swyddfeydd; Mân-ddaliadau (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(105)	105
Cynlluniau Rheoli Carbon a Phaneli Solar y Cyngor (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(3,175)	3,175
Cynlluniau Gwaredu Asbestos (<i>Adran Tai ac Eiddo</i>)	(164)	164
Adnewyddu Cyfarpar Technoleg Gwybodaeth (<i>Adran Cyllid</i>)	26	(26)

Noder:

Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.

Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau presennol heb eu gwella.

Dangosyddion Darbodus Cyfalaf 2025/26 - Alldro

Mae'r Cyngor yn mesur a rheoli ei wariant cyfalaf a benthycu gan gyfeirio at y dangosyddion dilynol.

Mae bellach yn ofyniad yn y Côt Darbodus CIPFA i adrodd ar rhain yn rheolaidd.

Fe adlewyrchir yma'r sefyllfa a'r wybodaeth ddiweddaraf, ac wrth ddod â'r broses cau cyfrifon i derfyn, gallasai fod rhywfaint o newidiadau pellach. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd newid sylweddol yn y sefyllfa gyffredinol.

Gwariant Cyfalaf

Mae'r Cyngor yn ymgymryd ac yn cynllunio gwariant cyfalaf fel a grynhoir isod.

	Gwir 2024/25 £m	Gwir 2025/26 £m	Cyllideb 2026/27 £m	Cyllideb 2027/28 £m
Gwasanaethau Cronfa Gyffredinol	85.0	84.6	62.9	18.9
Prydlesu Cronfa Gyffredinol	5.3	0.0	0.0	0.0
CYFANSWM	90.3	84.6	62.9	18.9

Mae prif brosiectau cyfalaf y Gronfa Gyffredinol yn 2025/26 yn cynnwys (gweler yr adroddiadau adolygiad am fanylion ailbroffilio lle bo'n berthnasol) :

- Cynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy - £12.4m
- Cynlluniau Cronfa Ffyniant Bro - £11.0m
- Cynlluniau/Strategaeth Tai - £7.5m
- Cerbydau Adrannol - £6.9m
- Cartrefi/Canolfannau Oedolion - £4.5m
- Cynlluniau Eiddo - £3.9m

Gofyn Cyllido Cyfalaf

Mesurir cyllid sy'n ariannu dyled cronrus y Cyngor yn ôl y gofyn cyllido cyfalaf (GCC). Mae hyn yn cynyddu gyda gwariant cyfalaf newydd a ariennir drwy ddyled, ac mae'n lleihau gyda Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLIR) a derbyniadau cyfalaf a ddefnyddir i ddisodli dyled.

	Gwir 31.3.2025 £m	Gwir 31.3.2026 £m	Amcan 31.3.2027 £m	Amcan 31.3.2028 £m
Gwasanaethau Cronfa Gyffredinol	179.9	186.4	190.3	187.7

Dyled Gros a'r Gofyn Cyllido Cyfalaf

Yn ôl y canllaw statudol, dylai dyled aros islaw'r gofyn cyllido cyfalaf, ac eithrio yn y tymor byr. Mae'r Cyngor yn cydymffurfio ac yn disgwyl y bydd yn parhau i gydymffurfio â'r gofyn hyn yn y tymor canolig fel a ddangosir isod.

	Gwir 31.3.2025 £m	Gwir 31.3.2026 £m	Amcan 31.3.2027 £m	Amcan 31.3.2028 £m
Dyled (gan gynnwys Menter Cyllid Preifat (MCP) a phrydlesau)	100.1	79.0	73.6	71.6
Gofyn Cyllido Cyfalaf	179.9	186.4	190.3	187.7

Dyled a’r Terfyn Awdurdodedig a’r Ffin Gweithredol

Mae'n ofyn cyfreithiol i'r Cyngor bennu terfyn benthg fforddiadwy (fe'i gelwir hefyd y terfyn dyled awdurdodedig ar gyfer dyled allanol) bob blwyddyn. Yn unol â chanllaw statudol, pennir "ffin gweithredol" is. Dyma'r lefel rhybudd os bydd dyled yn agosáu at y terfyn.

	Uchafswm Dyled 2025/26 £m	Dyled ar 31.03.2026 £m	Terfyn Awdurdodedig 2025/26 £m	Ffin Gweithredol 2025/26 £m	Wedi cydymffurfio ?
Benthgca	94.1	73.9			
Menter Cyllid Preifat (MCP) a phrydlesau	6.0	5.1			
Cyfanswm Dyled	100.1	79.0	200	190	Do

Oherwydd mai offeryn rheolaeth at ddiben monitro o fewn y flwyddyn yw’r ffin gweithredol, nid yw’n arwyddocaol os eir yn uwch na’r ffin ar achlysur oherwydd amrywiadau mewn llif arian ac nid yw hyn yn cael ei ystyried yn fethiant i gydymffurfio.

Cyfran Costau Ariannu i’r Llif Refeniw Net

Er nad yw’r gyllideb refeniw yn talu am wariant cyfalaf yn uniongyrchol, mae'r llog sy'n daladwy ar fenthgciadau a Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLIR) yn gost ar refeniw. Gelwir y ffi net flynyddol yn gostau ariannu. Cymharir hyn gyda'r ffrwd refeniw net h.y. y swm a gyllidir drwy Dreth Cyngor, Trethi Annomestig Cenedlaethol a grantiau cyffredinol gan y llywodraeth.

	Gwir 2024/25	Gwir 2025/26	Cyllideb 2026/27	Cyllideb 2027/28
Costau Ariannu (£m)	8.5	10.1	10.0	10.3
Cyfran y Llif Refeniw Net (%)	2.5%	2.8%	2.6%	2.7%

Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys

Mae’r dangosyddion hyn (Meincnod Ymrwymiad, Strwythur Aeddfedrwydd Benthgciadau, Buddsoddiadau Rheolaeth Trysorlys Tymor Hir) yn cael eu hadrodd ar wahân fel rhan o’r Adroddiad Rheolaeth Trysorlys am y cyfnod dan sylw.

CYFARFOD	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
DYDDIAD	21 Mai 2026
TEITL	Cyfrifon Terfynol Harbyrau Gwynedd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026
PWRPAS YR ADRODDIAD	Cyflwyno – • Adroddiad Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2025/26, a • Ffurflen datganiadau cyfrifon, wedi'i ardystio, ond yn amodol ar archwiliad
AWDUR	Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol
GWEITHREDIAD	Derbyn a Chymeradwyo'r Cyfrifon

1. GOFYNION ADRODD HARBYRAU

- 1.1 Yn unol â'r gofynion statudol o dan Ddeddf Harbyrau 1964 mae'n rhaid i Wynedd, fel awdurdod harbyrau, ddarparu datganiad cyfrifon blynyddol sy'n ymwneud â gweithgareddau harbwr.
- 1.2 Ystyrir Harbyrau Gwynedd, oherwydd trosiant is na £2.5m, i fod yn gorff llywodraeth leol llai o faint yn unol â'r diffiniad yn y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018.
- 1.3 Ar gyfer "cyrff llywodraeth leol llai o faint", mae cwblhau ffurflen datganiadau cyfrifon a ddarparwyd gan Archwilio Cymru yn cwrdd â'r gofynion statudol. Bydd yn destun archwiliad ar wahân, ond nid oes rhaid cynhyrchu datganiadau ariannol statudol llawn (sy'n cydymffurfio gyda Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol "IFRS").

2. CYFRIFON 2025/26

- 2.1 **Cyflwynir y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2025/26 yma fel Atodiad A** ar ffurf adroddiad "alldro" syml.
- 2.2 **Yn Atodiad B, cyflwynir y Ffurflen Swyddogol Flynyddol am 2025/26 wedi'i gwblhau a'i ardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol**, sef Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd (Dewi Aeron Morgan) fel y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer Harbyrau Gwynedd
- 2.3 Bydd y cyfrifon a'r ffurflen yn destun archwiliad buan gan Archwilio Cymru, archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd, a apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol

Cymru. Os bydd angen newidiadau yn dilyn archwiliad, yna cyflwynir fersiwn diwygiedig i gyfarfod **29 Medi 2026** o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

- 2.4 Ar ôl archwiliad ac yn dilyn unrhyw addasiadau fydd angen, bydd cynrychiolydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ardystio'r ffurflen erbyn **30 Medi 2026**.
- 2.5 Mae Atodiad A yn dangos y cyfrifon refeniw yn unig tra bod y datganiadau cyfrifyddu yn Atodiad B yn cynnwys refeniw a chyfalaf. Nid oedd gwariant cyfalaf gan Harbyrau Gwynedd yn 2025/26.

3. ARGYMHELLIAD

3.1 **Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio dderbyn a chymeradwyo'r wybodaeth sydd yn yr atodiadau, sef ;–**

- Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2025/26 – Atodiad A
- Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2026, yn Amodol ar Archwiliad – Atodiad B

Prif Wahaniaethau

Gweithwyr

Costau Staffio - gorwario +£3k

Hyfforddiant staff yn bennaf, yn erbyn cyllideb o £278k.

Costau Cynnal Adeiladau

Adeiladau - cynnal a chadw /cynnal tiroedd/ offer/ ynni gorwario +£7k

Sefyllfa gymysg. Mae'r gronfa wedi ariannu gwariant un-tro o £42k ar Swyddfa Harbwr Porthmadog, gan arwain at danwariant cyffredinol o (£35k). Mae'r Adran Eiddo drwy waith cynnal a chadw, yn bennaf gyfrifol am danwariant o £16k. Mae'r gweddill yn gymysg, gan gynnwys tanwariannau amrywiol o £8k yn Harbwr Pwllheli a £14k yn Harbwr Porthmadog. Mae gwaith cynnal a chadw adeiladau yn cael ei wneud yn ôl yr angen ac nid o reidwydd fel rhan o raglen gynlluniedig.

Costau Cerbydau

Costau Cynnal a Rhedeg Cerbydau a Costau Teithio Gweithwyr - niwtral

Sefyllfa niwtral, yn erbyn cyllideb o £3k

Gwasanaethau a Chyflenwadau

Cynnal Cychod/Offer Diogelwch /Arolygiadau/ Trwyddedau a Costau Gweinyddol - gorwario +£19k

Gorwariant yn bennaf ar Offer Diogelwch ac Arwyddion mae'n debyg ar ôl stormydd mawr y Gaeaf

Incwm

Ffioedd - gwarged -£7k

Cofnodwyd incwm terfynol o £221k yn erbyn targed o £214k, gan arwain at berfformiad gwell na'r targed o £7k neu 3.3%.

Cyfraniad o Cronfeydd Penodol a Gwraedu Asedau

Gwarged -£44k

Darparwyd cyfraniad un-tro o £44k o gronfeydd morwrol i ariannu gwariant, yn bennaf mewn perthynas â Swyddfa Newydd Harbwr Porthmadog.

Prif Wahaniaethau**Gweithwyr****Costau Staffio - gorwario +£3k**

Hyfforddiant staff yn bennaf, yn erbyn cyllideb o £278k.

Costau Cynnal Adeiladau**Adeiladau - cynnal a chadw /cynnal tiroedd/ offer/ ynni gorwario +£7k**

Sefyllfa gymysg. Mae'r gronfa wedi ariannu gwariant un-tro o £42k ar Swyddfa Harbwr Porthmadog, gan arwain at danwariant cyffredinol o (£35k). Mae'r Adran Eiddo drwy waith cynnal a chadw, yn bennaf gyfrifol am danwariant o £16k. Mae'r gweddill yn gymysg, gan gynnwys tanwariannau amrywiol o £8k yn Harbwr Pwllheli a £14k yn Harbwr Porthmadog. Mae gwaith cynnal a chadw adeiladau yn cael ei wneud yn ôl yr angen ac nid o reidwydd fel rhan o raglen gynlluniedig.

Costau Cerbydau**Costau Cynnal a Rhedeg Cerbydau a Costau Teithio Gweithwyr - niwtral**

Sefyllfa niwtral, yn erbyn cyllideb o £3k

Gwasanaethau a Chyflenwadau**Cynnal Cychod/Offer Diogelwch /Arolygiadau/ Trwyddedau a Costau Gweinyddol - gorwario +£19k**

Gorwariant yn bennaf ar Offer Diogelwch ac Arwyddion mae'n debyg ar ôl stormydd mawr y Gaeaf

Incwm**Ffioedd - gwarged -£7k**

Cofnodwyd incwm terfynol o £221k yn erbyn targed o £214k, gan arwain at berfformiad gwell na'r targed o £7k neu 3.3%.

Cyfraniad o Cronfeydd Penodol a Gwraedu Asedau**Gwarged -£44k**

Darparwyd cyfraniad un-tro o £44k o gronfeydd morwrol i ariannu gwariant, yn bennaf mewn perthynas â Swyddfa Newydd Harbwr Porthmadog.

Ffurflen Flynyddol Harbyrau Gwynedd ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2026

Datganiadau cyfrifyddu 2025-26 ar gyfer:

Enw'r
Pwyllgor:

Harbyrau Gwynedd

	Diwedd y flwyddyn		Nodiadau ac arweiniad
	31 Mawrth 2025 (£)	31 Mawrth 2026 (£)	Dylech dalgrynnu'r holl ffigyrau i'r £ agosaf. Peidiwch â gadael unrhyw flychau yn wag gan gofnodi balansau o £0 neu ddim. Rhaid i bob ffigwr fod yn gyson â'r cofnodion ariannol sylfaenol ar gyfer y flwyddyn berthnasol.
Datganiad o incwm a gwariant/derbyniadau a thaliadau			
1. 1. Balansau a ddygwyd ymlaen	0	0	Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddechrau'r flwyddyn fel y'u cofnodwyd yn y cofnodion ariannol. Rhaid iddo fod yn gyson â llinell 7 y flwyddyn flaenorol.
2. (+) Incwm o drethiant lleol/ardoll	£249,544	£274,251	Cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd/derbyniadwy yn ystod y flwyddyn o drethiant lleol (praesept) neu ardoll/cyfraniad gan brif gyrff.
3. (+) Cyfanswm derbynebau eraill	£249,998	£264,609	Cyfanswm incwm neu dderbyniadau a gofnodwyd yn y llyfr arian parod namyn y symiau a gynhwysir yn llinell 2. Mae'n cynnwys grantiau cymorth, dewisol a referniw.
4. (-) Costau staff	-£242,924	-£272,979	Cyfanswm gwariant neu daliadau a wnaed i bob gweithiwr cyflogedig ac ar ei ran. Dylech gynnwys cyflogau, lwfansau trethadwy, TWE ac Yswiriant Gwladol (cyflogeion a chyflogwyr), cyfraniadau pensiwn a chostau terfynu. Eithriwch adalu mân dreuliau.
5. (-) Llog ar fenthyciadau/ ad-daliadau cyfalaf	£0	£0	Cyfanswm gwariant neu daliadau cyfalaf a llog a wnaed yn ystod y flwyddyn ar fenthycia allanol (os o gwbl).
6. (-) Cyfanswm taliadau eraill	-£256,618	-£265,881	Cyfanswm gwariant neu daliadau fel y'u cofnodwyd yn y llyfr arian parod namyn costau staff (linell 4) a llog ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf (linell 5).
7. (=) Balansau a gariwyd ymlaen	£0	£0	Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn. Rhaid iddo fod yn hafal i (1+2+3) – (4+5+6).
Datganiad o falansau			
8. (+) Dyledwyr	£40,611	£39,999	Cyfrifon incwm a gwariant yn unig: Rhowch werth dyledion sy'n ddyledus i'r Harbyrau ar ddiwedd y flwyddyn.
9. (+) Cyfanswm arian a buddsoddiadau	-£25,710	-£20,327	Yr holl gyfrifon: Swm yr holl gyfrifon banc cyfredol ac adnau, daliadau arian parod a buddsoddiadau a ddelir ar 31 Mawrth. Rhaid i hyn gytuno â'r balans llyfr arian parod wedi'i gymodi yn unol â'r cysoniad banc.
10. (-) Credydwyr	-£14,901	-£19,672	Cyfrifon incwm a gwariant yn unig: Rhowch werth yr arian sy'n ddyledus gan yr Harbyrau (ac eithrio benthyca) ar ddiwedd y flwyddyn.
11. (=) Balansau a gariwyd ymlaen	£0	£0	Dylai cyfanswm balansau gydradd llinell 7 uchod: Rhowch gyfanswm (8 + 9-10).
12. Cyfanswm asedau sefydlog ac asedau hirdymor	£482,678	£482,678	Gwerth cofrestr asedau a buddsoddiad yr holl asedau sefydlog ac unrhyw asedau hirdymor eraill a ddelir ar 31 Mawrth.
13. Cyfanswm benthyca	£0	£0	Y balans cyfalaf sy'n weddill ar 31 Mawrth o'r holl fenthyciadau gan drydydd partion (gan gynnwys PWLB).

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Rydym yn cydnabod fel aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ein cyfrifoldeb dros sicrhau bod system gadarn o reolaeth fewnol, gan gynnwys paratoi'r datganiadau cyfrifyddu. Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, mewn perthynas â'r datganiadau cyfrifeg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026, ein bod wedi gwneud y canlynol:

	Cytûn?		Mae 'IE' yn golygu bod y Pwyllgor wedi gwneud y canlynol:	Cyf PG
	Ie	Na*		
1. Rhoi trefniadau ar waith ar gyfer: - rheolaeth ariannol effeithiol yn ystod y flwyddyn; a - paratoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu.	✓		Mae'n pennu ei gyllideb yn briodol ac yn rheoli ei harian ac yn paratoi ac yn cymeradwyo ei ddatganiadau cyfrifyddu fel y'u rhagnodir gan y gyfraith.	6, 12
2. Cynnal system ddigonol o reolaeth fewnol, gan gynnwys mesurau a gynlluniwyd i atal a chanfod twyll a llygredd, ac wedi adolygu ei effeithiolrwydd.	✓		Gwneud trefniadau priodol a derbyn cyfrifoldeb am ddiogelu'r arian a'r adnoddau cyhoeddus wrth ei wefreu.	6, 7
3. Cymryd pob cam rhesymol i sicrhau ein hunain nad oes unrhyw faterion o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu bosibl â chyfreithiau, rheoliadau a chodau ymarfer a allai gael effaith ariannol sylweddol ar allu'r Harbyrau gynnal ei fusnes neu ei sefyllfa ariannol..	✓		Dim ond pethau y mae ganddo'r pŵer cyfreithiol i'w gwneud ac mae wedi cydymffurfio â chodau ymarfer a safonau yn y ffordd y mae wedi gwneud hynny.	6
4. Darparu cyfle priodol i etholwyr arfer eu hawliau yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.	✓		Wedi rhoi'r cyfle i bob person sydd â diddordeb archwilio cyfrifon yr Harbyrau fel y nodir yn yr hysbysiad archwilio.	6, 23
5. Cynnal asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r Harbyrau a chymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny, gan gynnwys cyflwyno rheolaethau mewnol a/neu yswiriant allanol lle bo angen.	✓		Ystyried y risgiau ariannol ac eraill y mae'n eu hwynebu wrth weithredu'r Harbyrau ac mae wedi delio â nhw'n iawn.	6, 9
6. Cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol o'r cofnodion cyfrifeg a'r systemau rheoli drwy gydol y flwyddyn ac wedi derbyn adroddiad gan yr archwilydd mewnol.	✓		Wedi'i drefnu i berson cymwys, sy'n annibynnol ar y rheolaethau a'r gweithdrefnau ariannol, roi barn wrthrychol ynghylch a yw'r rhain yn diwallu anghenion yr Harbyrau	6, 8
7. Ystyried a yw unrhyw ymglyfreitha, rhwymedigaethau neu ymrwymadau, digwyddiadau neu drafodion, sy'n digwydd naill ai yn ystod neu ar ôl diwedd y flwyddyn, yn cael effaith ariannol ar yr Harbyrau a, lle bo'n briodol, wedi eu cynnwys yn y datganiadau cyfrifyddu.	✓		Datgelu popeth y dylai ei gael am ei fusnes yn ystod y flwyddyn gan gynnwys digwyddiadau sy'n cael eu cynnal ar ôl diwedd y flwyddyn os yw'n berthnasol.	6
8. Cymryd camau priodol ar yr holl faterion a godwyd mewn adroddiadau blaenorol o archwilio mewnol ac allanol.	✓		Ystyried a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â materion/gwendidau a ddygir i'w sylw gan yr archwilydwr mewnol ac allanol.	6, 8, 23

* Rhowch esboniadau i'r archwilydd allanol ar ddalen ar wahân ar gyfer pob ymateb 'na' a roddir; a disgrifio pa gamau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.

Nodiadau datgelu ychwanegol*

Darperir y wybodaeth ganlynol i gynorthwyo'r darlennydd i ddeall y datganiad cyfrifeg a/neu'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol	
1.	
2.	
3.	

* Cynhwyswch yma unrhyw ddatgeliadau ychwanegol y mae'r Pwyllgor o'r farn eu bod yn angenrheidiol i gynorthwyo dealltwriaeth y darlennydd o'r datganiad cyfrifeg a/neu'r datganiad llywodraethu blynnyddol.

Cymeradwyaeth ac ardystiad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Mae Harbyrau Gwynedd yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau cyfrifeg a'r datganiad llywodraethu blynnyddol yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf) a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

Ardystiad gan y Swyddog Cyllid Cyfrifol Rwy'n ardystio bod y datganiadau cyfrifeg a gynhwysir yn y Ffurflen Flynyddol hon yn cyflwyno sefyllfa ariannol Harbyrau Gwynedd 'i incwm a'i wariant, neu gyflwyno derbynebau a thaliadau yn briodol, yn ôl y digwydd, am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026.	Cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Rwy'n cadarnhau bod y datganiadau cyfrifeg hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o dan funud:
	Cyfeirnod cofnodion:
Llofnod y Swyddog Cyllid Cyfrifol: 	Llofnod Cadeirydd y cyfarfod:
Enw: Dewi Morgan CPFA	Enw:
Dyddiad: 12 Mai 2026	Dyddiad:

Adroddiad archwilio mewnol blynyddol i:

Enw'r
Pwyllgor:

Harbyrau Gwynedd

Mae archwiliad mewnol Harbyrau Gwynedd, gan weithredu'n annibynnol ac ar sail asesiad risg, wedi cynnwys cynnal asesiad dethol o gydymffurfiaid â gweithdrefnau a rheolaethau perthnasol y disgwylir iddynt fod ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026.

Mae'r archwiliad mewnol wedi'i gynnal yn unol ag anghenion Harbyrau Gwynedd a'r gwaith a drefnwyd. Ar sail y canfyddiadau yn y meysydd a archwiliwyd, crynhoir casgliadau'r archwiliad mewnol yn y tabl hwn. Isod mae amcanion rheolaeth fewnol a'r casgliadau archwilio mewnol ynghylch a oedd yr amcanion rheoli canlynol yn cael eu cyflawni trwy gydol y flwyddyn ariannol i safon sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion y Harbyrau Gwynedd.

	Cytûn?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen os cyflwynir adroddiad archwilio mewnol manwl i'r Pwyllgor)
	Ie	Na*	Amh	Heb ei gynnwys* *	
1. Mae llyfrau cyfrif priodol wedi cael eu cadw'n briodol drwy gydol y flwyddyn.	✓				Mewnosodwch destun
2. Mae rheoliadau ariannol wedi'u bodloni, cafodd taliadau eu cefnogi gan anfonebau, cymeradwywyd gwariant a chyfrifwyd TAW yn briodol.	✓				Mewnosodwch destun
3. Asesodd yr Harbyrau y risgiau sylweddol i gyflawni ei amcanion ac adolygu digonolrwydd trefniadau i reoli'r rhain.	✓				Mewnosodwch destun
4. Roedd y gofyniad praesept/ardoll / galw adnoddau blynyddol yn deillio o broses gyllidebol ddigonol, monitro cynnydd yn erbyn y gyllideb yn rheolaidd, ac roedd cronfeydd wrth gefn yn briodol.	✓				Mewnosodwch destun
5. Derbyniwyd incwm disgwyledig yn llawn, yn seiliedig ar brisiau cywir, wedi'i gofnodi'n briodol a'i fancio'n brydlon, a chyfrifwyd TAW yn briodol.	✓				Mewnosodwch destun
6. Cefnogwyd taliadau arian mân yn iawn gan dderbynebau, cymeradwywyd gwariant a chyfrifwyd TAW yn briodol.			✓		Mewnosodwch destun
7. Talwyd cyflogau i gyflogeion a lwfansau i aelodau yn unol â chymeradwyaethau munud, a rhoddwyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol.	✓				Mewnosodwch destun
8. Roedd cofrestrau asedau a buddsoddi yn gyflawn, yn gywir, ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n iawn.	✓				Mewnosodwch destun

	Cytûn?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen os cyflwynir adroddiad archwilio mewnol manwl i'r Pwyllgor)
	Ie	Na*	Amh	Heb ei gynnwys*	
9. Gwnaed cysoniadau cyfrif banc cyfnodol a diwedd blwyddyn yn briodol.	✓				Mewnosodwch destun
10. Cafodd datganiadau cyfrifyddu a baratowyd yn ystod y flwyddyn eu paratoi ar y sail gyfrifyddu gywir (derbynebaw a thaliadau/incwm a gwariant), yn gyson â'r llyfr arian parod, wedi'u hategu gan drywydd archwilio digonol o gofnodion sylfaenol, a lle bo'n briodol, cofnodwyd dyledwyr a chredydwyr yn briodol.	✓				Mewnosodwch destun

Ar gyfer unrhyw ardaloedd risg a nodwyd gan y Pwyllgor (rhestrwch unrhyw ardaloedd risg eraill isod neu ar daflenni ar wahân os oes angen) bod rheolaethau digonol yn bodoli:					
	Cytûn?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen os cyflwynir adroddiad archwilio mewnol manwl i'r Pwyllgor)
	Ie	Na*	Amh	Heb ei gynnwys*	
12.					
13.					
14.					

* Os mai 'na' yw'r ymateb, nodwch y goblygiadau a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw wendid mewn rheolaeth a nodwyd (ychwanegwch daflenni ar wahân os oes angen).

** Os na chynhwysir yr ymateb, nodwch pryd y gwnaed y gwaith archwilio mewnol diweddaraf yn y maes hwn a phryd y bwriedir gwneud y gwaith archwilio mewnol nesaf, neu os nad oes angen sylw, rhaid i archwiliad mewnol egluro pam lai.

Mae fy nghanfyddiadau manwl a'm hargymhellion yr wyf yn tynnu sylw at sylw'r Pwyllgor wedi'u cynnwys yn fy adroddiad manwl i'r Pwyllgor dyddiedig Mai 2026.

Cadarnhad archwilio mewnol

Rwy'n cadarnhau nad ydw i, fel archwilydd mewnol Harbyrau Gwynedd, wedi bod yn rhan o rôl reoli neu weinyddol o fewn yr Harbyrau (gan gynnwys paratoi'r cyfrifon) nac fel aelod o'r Harbyrau yn ystod blynnyddoedd ariannol 2024-25 a 2025-26. Rwyf hefyd yn cadarnhau nad oes gwrthdaro buddiannau yn ymwneud â fy apwyntiad.

Enw'r person a gynhaliodd yr archwiliad mewnol: Bleddyn Rhys, Cyngor Gwynedd
Llofnod y person a gynhaliodd yr archwiliad mewnol: <i>Bleddyn Rhys</i>
Dyddiad: 11/05/2026

CYFARFOD:	PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
DYDDIAD:	21 MAI 2026
TEITL:	DIWEDDARIAD CHWARTEROL RHEOLAETH TRYSORLYS
PWRPAS:	Mae Cod Ymarfer CIPFA yn ei gwneud yn ofynnol i'r dangosyddion darbodus gael eu hadrodd bob chwarter
ARGYMHELLIAD:	DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH
AWDUR:	DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

1. Cyflwyniad

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu *Cod Ymarfer Rheolaeth Trysorlys Gwasanaethau Cyhoeddus* Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (Cod CIPFA) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo adroddiadau rheolaeth trysorlys yn chwarterol a blynyddol.

Mae'r adroddiad chwarterol hwn yn darparu'r diweddariad ychwanegol ac yn cynnwys y gofyniad yng Nghod 2021 o adrodd chwarterol ar ddangosyddion darbodus rheolaeth trysorlys.

Cymeradwywyd Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2025/26 yn y Cyngor Llawn ar 6 Mawrth 2025. Mae'r Cyngor wedi benthyca a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac felly mae'n agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli arian a fuddsoddwyd ac effaith refeniw newid cyfraddau llog. Felly mae adnabod, monitro a rheoli risg yn llwyddiannus yn ganolog i Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyngor.

2. Cyd-destun Allanol

2.1 Cefndir Economaidd

Roedd y chwarter cyntaf wedi ei ddominyddu gan tariffau masnachol yr Unol Daleithiau ac yr effaith negyddol ar y marchnadoedd ecwiti a bondiau. Er bod hyn wedi'i wrthdroi rhywfaint yn yr ail chwarter gyda marchnadoedd ecwiti yn cynhyrchu enillion, gwelodd hefyd wahaniaeth mewn cynnyrch bondiau llywodraeth yr Unol Daleithiau a'r DU. Roedd cynnyrch y DU yn parhau ar lefelau uwch wrth i fuddsoddwyr fynnu enillion uwch ar ffurf term premia oherwydd bod sefyllfa ariannol ac economaidd y DU mwy ansicr.

Roedd rhan olaf y cyfnod yn cynnwys Cyllideb Hydref y llywodraeth ym mis Tachwedd. Er gwaethaf llawer o ddyfalu a cyflwyno polisiau posibl yn araf bach yn yr wythnosau cyn y digwyddiad, ystyrir yr hyn a gyhoeddwyd yn y pen draw yn fwy tawel nag a ddisgwyliwyd, gan helpu i leddfu ofnau buddsoddwyr o fenthyca sylweddol uwch.

Roedd chwyddiant prisiau defnyddwyr y DU (CPI) yn 3.2% ym mis Tachwedd 2025, i lawr o 3.6% yn y mis blaenorol ac yn is na'r 3.5% a ddisgwyliwyd, ond yn dal i fod ymhell yn uwch na tharged Banc Lloegr (BoE). Lleddfodd CPI craidd i 3.2% o 3.4%, yn erbyn rhagolygon ei fod yn aros ar 3.6%.

Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), ehangodd economi'r DU 0.7% yn chwarter cyntaf y flwyddyn galendr, 0.3% yn Ch2 a 0.1% yn Ch3. O'r ffigurau misol dilynol, amcangyfrifodd yr ONS fod CMC wedi gostwng 0.1% ym mis Hydref.

Parhaodd y farchnad lafur i leddfu dros y cyfnod wrth i ddiweithdra gynyddu, swyddi gwag gostwng ac anweithgarwch aros yn wastad. Yn y tri mis hyd at Hydref 2025, cododd y gyfradd ddiweithdra i 5.1%, yn uwch na'r lefel a ddisgwyliwyd yn flaenorol gan y BoE, tra bod y gyfradd gyflogaeth wedi llithro i 74.9%.

Pleidleisiodd Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr (MPC) 5-4 i dorri Cyfradd y Banc i 3.75% ym mis Rhagfyr 2025, fel y disgwyliwyd. Barnodd llunwyr polisi sydd eisiau toriad fod disinflation wedi'i sefydlu tra bod y rhai sy'n well ganddynt gynnal Cyfradd Banc ar 4% yn dadlau bod risgiau chwyddiant yn parhau i fod yn ddigon materol i'w adael heb ei gyffwrdd ar hyn o bryd.

Roedd Adroddiad Polisi Ariannol BoE mis Tachwedd yn rhagweld y byddai CMC yn ehangu 0.2% yn gymedrol yn Ch4 calendr 2025. Roedd amcangyfrifon o chwyddiant yn yr adroddiad wedi dyddio yn gyflym pan syrthiodd CPI yn gyflymach na'r disgwyl ym mis Tachwedd. Adleisiwyd rhagfynegiadau o economi sy'n tyfu'n gymedrol gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn ei Rhagolwg Economaidd a Chyllidol a gyhoeddwyd gyda Datganiad yr Hydref a adolygodd ei amcangyfrif o CMC blynyddol i tua 1.5% rhwng 2025 a 2030.

Roedd gan Arlingclose, ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys y Cyngor, farn ganolog y byddai Cyfradd Banc yn cael ei dorri ymhellach yn 2025/26 gyda'r mwyafrif o wneuthurwyr polisi BoE yn parhau i fod yn fwy pryderus am dwf CMC gwan na chwyddiant uwch. Yn unol â rhagolwg canolog Arlingclose, gostyngwyd Cyfradd Banc i 3.75% ym mis Rhagfyr. Disgwylir toriadau pellach yn 2026, gyda'r rhagolwg canolog yw y bydd Cyfradd Banc yn cael ei llacio i oddeutu 3.25%.

Parhaodd Cronfa Ffederal yr Unol Daleithiau i dorri cyfraddau, gan leihau ystod targed Cyfradd Cronfeydd Fed gan 0.25% yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr i 3.50% - 3.75%. Nododd cofnodion y cyfarfod fod y rhan fwyaf o lunwyr polisi yn barnu y byddai toriadau cyfradd pellach yn debygol yn 2026 os yw chwyddiant yn parhau i leddfu, fodd bynnag, roeddent yn dal i fod wedi'u rhannu yn eu hasesiad o'r risgiau rhwng chwyddiant a diweithdra.

Cynhaliodd Banc Canolog Ewrop (ECB) ei gyfraddau llog allweddol ym mis Rhagfyr am bedwerydd cyfarfod yn olynol, gan gynnal y gyfradd adneuo ar 2.0% a'r brif gyfradd ail-ariannu ar 2.15%. Dywedodd yr ECB y bydd penderfyniadau polisi yn y dyfodol yn parhau i fod yn ddibynnol ar ddata, bod chwyddiant yn agos at ei tharged o 2% a bod economi ardal yr ewro yn parhau i ehangu er gwaethaf amgylchedd byd-eang heriol, gan gynnwys risgiau geopolitical uwch a thensiynau masnach.

2.2 Marchnadoedd Ariannol

Ar ôl dirywio'n sydyn yn gynnar yn y cyfnod, mae'r teimlad mewn marchnadoedd ariannol wedi bod yn fywiog yn bennaf, ond roedd asedau gyda risg yn parhau i fod yn gyfnewidiol. Gostyngodd enillion bondiau i ddechrau yn gynnar yn y cyfnod, ond achosodd ansicrwydd cynyddol ynghylch rhagolygon economaidd a chyllidol y DU gynnydd i gynyddu cynnyrch canolog a hirach. Arhosodd y cynnyrch yn uchel tan y trydydd chwarter pan ystyriwyd bod effaith negyddol bosibl Cyllideb y DU yn llai na'r disgwyl a lleddfu cynnyrch yn gymedrol.

Enillodd marchnadoedd ecwiti y gostyngiadau blaenorol a welwyd yn y gwerthiant ym mis Ebrill ac maent wedi parhau i godi, hyd yn oed yn wyneb ansicrwydd parhaus ynghylch bodolaeth 'swigen' a chrynodiad sy'n gysylltiedig ag AI ym marchnadoedd stoc yr Unol Daleithiau a byd-eang.

Dros y cyfnod, dechreuodd cynnyrch gilt meincnod 10 mlynedd y DU ar 4.65% a gorffennodd ar 4.48%. Fodd bynnag, gwelodd y naw mis hyn anwadalrwydd sylweddol gyda'r cynnyrch 10 mlynedd yn taro isel o 4.39% ac uchel o 4.82%. Roedd yn ddarlun tebyg ar gyfer y gilt 20 mlynedd a dechreuodd ar 5.18% ac a ddaeth i ben ar 5.11% gydag isel ac uchel o 5.05% a 5.55% yn y drefn honno. Roedd y Gyfradd Sterling Dros Nos (SONIA) ar gyfartaledd o 4.10% dros y naw mis hyd at 31 Rhagfyr.

2.3 Adolygiad Credyd

Cynhaliodd Arlingclose ei uchafswm terfyn hyd heb ei warantu a argymhellir ar y rhan fwyaf o'r banciau ar ei restr wrthbartiau ar 6 mis. Mae'r banciau eraill yn aros ar 100 diwrnod.

Yn gynharach yn y cyfnod, uwchraddiodd Fitch Grŵp NatWest ac endidau cysylltiedig i AA- o A + a gosododd sgôr A- hirdymor Clydesdale Bank ar Rating Watch Positive. Yn ddiweddarach, uwchraddiodd Fitch Clydesdale Bank a HSBC, ond israddiodd Lancashire CC a Close Brothers.

Ym mis Mai, israddiodd Moody's sgôr hirdymor sofran yr Unol Daleithiau i Aa1 a chadarnhaodd sgôr OP Corporate yn Aa3. Yn ddiweddarach, uwchraddiodd Moody's Transport for London, Allied Irish Banks, Bank of Ireland, Toronto-Dominion Bank, DZ Bank, Nordea a HSBC ac israddiodd Close Brothers.

Uwchraddiodd S&P Clydesdale Bank, Allied Irish Banks a Bank of Ireland, a neilltuodd sgôr BBB+ i Gyngor Warrington.

Ar ôl cynnydd ym mis Ebrill yn dilyn cyhoeddiadau tariff masnach yr Unol Daleithiau, roedd prisiau cyfnewid diffyg credyd y DU (CDS) yn tueddu i ostwng cyn codi yn gymedrol ym mis Hydref a Thachwedd. Fe wnaethant ostwng eto ym mis Rhagfyr a gorffen y flwyddyn yn unol â'r lefelau a welwyd yn hanner cyntaf y flwyddyn a'r rhan fwyaf o 2024.

Mae prisiau CDS banciau Ewrop yn gyffredinol wedi bod yn fwy gwastad ac yn is o'i gymharu â'r DU, fel y mae benthycwyr Singapore ac Awstralia tra bod rhai prisiau CDS banciau Canada wedi parhau i fod yn uchel ers dechrau'r cyfnod yn rhannol oherwydd tensiynau masnach parhaus gyda'r Unol Daleithiau.

Ar ddiwedd y cyfnod arhosodd prisiau CDS ar gyfer pob banc ar restr gwrthbarti Arlingclose o fewn terfynau a ystyriwyd yn foddhaol ar gyfer cynnal cyngor credyd ar y cyfnod presennol.

Disgwylir i anwadalrwydd y farchnad ariannol barhau, a bydd lefelau CDS yn cael eu monitro ar gyfer arwyddion o straen credyd parhaus. Fel erioed, mae'r sefydliadau a'r cyfnodau ar restr gwrthbartiau'r Awdurdod a argymhellir gan Arlingclose yn parhau i gael eu hadolygu'n gyson.

3. Crynodeb Rheolaeth Trysorlys

Ar 31 Rhagfyr 2025, roedd gan y Cyngor fuddsoddiadau net o £53.1m sy'n deillio o'i incwm a gwariant refeniw a cyfalaf.

Parhaodd y Cyngor ei strategaeth o gadw benthyca a buddsoddiadau islaw eu lefelau sylfaenol, a elwir weithiau'n fenthyca mewnol, er mwyn lleihau'r risg a chadw costau llog yn isel.

	31.3.25 Balans £m	Symudiad £m	31.12.25 Balans £m
Benthyca tymor hir	90.1	(16.3)	73.8
Benthyca tymor byr	4.0	(1.2)	2.8
PFI	1.0	0	1.0
Cyfanswm benthyca	95.1	(17.5)	77.6
Buddsoddiadau tymor byr	(86.9)	(1.6)	(88.5)
Arian a chyfwerthoedd arian	(66.0)	23.8	(42.2)
Cyfanswm buddsoddiadau	(152.9)	22.2	(130.7)
Benthyciadau net/ (buddsoddiadau)	(57.8)	4.7	(53.1)

Strategaeth a Gweithgaredd Benthyca: Ni wnaed unrhyw fenthyciadau tymor hir yn 2025, gyda benthyciadau presennol yn aeddfedu heb eu hadnewyddu a penderfynwyd ad-dalu benthyciad hanesyddol o £16.2m gan y banc oherwydd termau ffafriol. Galluogodd y strategaeth hon i'r Cyngor leihau costau benthyca net (er gwaethaf yr incwm buddsoddi a gollwyd) a lleihau risg trysorlys cyffredinol y Cyngor.

Gweithgaredd Buddsoddi'r Trysorlys: Mae'r Cyngor yn dal cronfeydd sylweddol, sy'n cynrychioli incwm a dderbyniwyd ymlaen llaw i wariant ynghyd â balansau a chronfeydd wrth gefn a gedwir ar gyfer y Gronfa Bensiwn. Yn ystod y flwyddyn, roedd balansau buddsoddi'r Cyngor yn amrywio rhwng £74.3m a £159.8m oherwydd gwahaniaethau amseru rhwng incwm a gwariant.

Sefyllfa Buddsoddiadau

	31.3.25 Balans £m	Symudiad £m	31.12.25 Balans £m
Banciau a chymdeithasau adeiladu (heb eu diogelu)	6.0	(4.8)	1.2
Awdurdodau Lleol	25.0	11.5	36.5
Cronfeydd Marchnad Arian	65.0	(24.0)	41.0
Swyddfa Rheoli Dyledion	45.0	(6.0)	39.0
Cronfeydd wedi'i pwlio	11.9	1.1	13.0
Cyfanswm buddsoddiadau	152.9	(22.2)	130.7

4. Dangosyddion Darbodus Rheolaeth Trysorlys

Fel sy'n ofynnol gan God Rheoli'r Trysorlys CIPFA 2021, mae'r Cyngor yn monitro ac yn mesur y dangosyddion darbodus canlynol ar gyfer rheolaeth trysorlys.

i. Meincnod Ymrwymadau


Mae'r dangosydd hwn yn cymharu gwir fenthyciadau presennol y Cyngor yn erbyn meincnod ymrwymadau sydd wedi'i gyfrifo i ddangos y lefel risg isaf o fenthycia. Mae'r meincnod ymrwymadau yn arf pwysig i helpu i sefydlu a yw'r Cyngor yn debygol o fod yn fenthyciwr hirdymor neu'n fuddsoddwr hirdymor yn y dyfodol, ac felly siapio ei ffocws strategol a'i benderfyniadau. Mae'n cynrychioli amcangyfrif o swm cronnus y benthycia allanol y mae'n rhaid i'r Cyngor ei ddal i ariannu ei gynlluniau cyfalaf a reffeniw cyfredol tra'n cadw buddsoddiadau'r trysorlys ar y lefel isaf o £21.5m sydd ei angen i reoli llif arian o ddydd i ddydd.

	31.3.25 Gwir	31.3.26 Amcan	31.3.27 Amcan	31.3.28 Amcan
CFR Benthyciadau	179.9	187.4	189.8	184.7
Llai: Adnoddau'r Fantolen	(232.8)	(149.8)	(126.9)	(126.9)
Gofynion benthyciadau net	(52.9)	37.6	62.9	57.8
Ychwaneg: Lwfans hylifedd	21.5	21.5	21.5	21.5
Meincnod ymrwymadau	(31.4)	59.1	84.4	79.3
Benthycia presennol	94.2	73.9	69.4	68.0

Mae'r tabl yn dangos bod y Cyngor yn disgwyl parhau i fenthycia uwchlaw ei feincnod ymrwymadau hyd at 2026. Mae hyn oherwydd bod y Cyngor yn dal cronfeydd wrth gefn, ac mae all-lif arian parod hyd yma wedi bod yn is na'r rhagdybiaethau a wnaed pan fenthycwyd y benthyciadau.

Yn dilyn y rhagolwg tymor canolig uchod, mae'r meincnod atebolrwydd hirdymor yn tybio nad oes gwariant cyfalaf newydd wedi'i ariannu gan fenthycia, isafswm darpariaeth reffeniw ar wariant cyfalaf newydd yn seiliedig ar ddull llinell syth 50

mlynedd. Dangosir hyn yn y siart isod ynghyd â phroffil aeddfedrwydd benthycia presennol y Cyngor.



Mae'r siart yn dangos nad oes angen benthycia yn y tymor hir yn seiliedig ar amcanion cyfredol, ond efallai yn y tymor byr yn y dyfodol agos.

ii. Strwythur Aeddfedrwydd Benthycia

Mae'r dangosydd hwn wedi'i osod i reoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg ail-ariannu. Roedd y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd benthyciadau cyfradd sefydlog fel a ganlyn:

	31.12.25 Gwir	Terfyn Uchaf	Terfyn Isaf	Cydymffurfio
O dan 12 mis	3.63%	25%	0%	✓
12 mis ac o fewn 24 mis	7.27%	25%	0%	✓
24 mis ac o fewn 5 mlynedd	2.38%	50%	0%	✓
5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	30.81%	75%	0%	✓
10 mlynedd a throsodd	55.90%	100%	0%	✓

Mae cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Dyddiad aeddfedrwydd benthycia yw'r dyddiad cynharaf y gall y benthyciwr fynnu ad-daliad.

iii. Buddsoddiadau Rheolaeth Trysorlys Hir-dymor

Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i'r risg o achosi colledion trwy geisio ad-daliad cynnar o'i fuddsoddiadau. Y terfynau darbodus ar y terfynau rheolaeth trysorlys hirdymor yw:

	2024/25	2025/26	2026/27	Dim dyddiad penodol
Y prifswm a fuddsoddir y tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn	£13m	£0	£0	£0
Terfyn ar brifswm a fuddsoddir tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn	£40m	£20m	£20m	£20m
Cydymffurfio	✓	✓	✓	✓

Dangosyddion ychwanegol:

Mae'r Cyngor yn mesur ac yn rheoli ei amlygiad i risgiau rheolaeth trysorlys gan ddefnyddio'r dangosyddion canlynol:

Diogelwch: Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol o'i amlygiad i risg credyd drwy fonitro sgôr credyd cyfartalog wedi'i bwysoli gan amser yn ei bortffolio buddsoddi. Caiff hyn ei gyfrifo drwy gymhwyso sgôr i bob buddsoddiad a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, wedi'i bwysoli gan hyd pob buddsoddiad. Rhoddir sgôr i fuddsoddiadau heb sgôr yn seiliedig ar eu risg canfyddedig.

	31.12.25 Gwir	2025/26 Targed	Cydymffurfio
Sgôr credyd cyfartalog portffolio	4.3	Sgôr o 6 neu is	✓

Hylifedd: Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol o'i amlygiad i risg hylifedd drwy fonitro faint o arian sydd ar gael i dalu taliadau annisgwyl o fewn cyfnod treigl o dri mis, heb fenthyca ychwanegol.

	31.12.25 Gwir	2025/26 Targed	Cydymffurfio
Cyfanswm arian ar gael o fewn 3 mis	£117.7m	£10m	✓

Datguddiad Cyfraddau Llog: Mae'r dangosydd hwn wedi'i osod i reoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg cyfradd llog. Y terfynau uchaf ar effaith refeniw blwyddyn o gynnydd neu ostyngiad o 1% mewn cyfraddau llog oedd:

	31.12.25 Gwir	2025/26 Terfyn	Cydymffurfio
Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn o gynnydd o 1% mewn cyfraddau llog	£1,105,920	£1,324,700	✓
Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn o gwymp o 1% mewn cyfraddau llog	£1,105,920	£1,324,700	✓

5. Argymhelliad

Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

PWYLLGOR	PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
DYDDIAD	21 MAI 2026
TEITL	CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL
PWRPAS YR ADRODDIAD	AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 31 MAWRTH 2026
AWDUR	LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO
GWEITHREDIAD	DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R GWEITHREDIADAU SYDD EISOES WEDI'U CYTUNO GYDA'R GWASANAETHAU PERTHNASOL

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang, Safon 11.3, Cyfathrebu Canlyniadau, yn nodi bod *"yn rhaid i'r prif weithredwr archwilio gyfathrebu canlyniadau gwasanaethau archwilio mewnol i'r bwrdd a'r uwch reolwyr o bryd i'w gilydd ac ar gyfer pob archwiliad fel y bo'n briodol."*
- 1.2 Ymhellach, nodir yn Safon 15.1, Cyfathrebu Ymgysylltiad Terfynol *"rhaid i'r prif weithredwr archwilio rannu'r cyfathrebu terfynol i bartïon a all sicrhau bod y canlyniadau'n cael eu hystyried yn briodol."*
- 1.3 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 26 Ionawr 2026 hyd 31 Mawrth 2026.

2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

- 2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod o 26 Ionawr 2026 hyd 31 Mawrth 2026:

Disgrifiad	Nifer
Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol 2025-26	12

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeedig.

2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod o 26 Ionawr 2026 hyd 31 Mawrth 2026, gan ddangos y lefel sicrwydd perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

TEITL	ADRAN	GWASANAETH	LEFEL SICRWYDD	ATODIAD
Dilyniant Cludiant Ysgolion	Addysg	Ysgolion	Digonol	Atodiad 1
Dilyniant Clybiau Brecwast	Addysg	Ysgolion	Cyfyngedig	Atodiad 2
Dilyniant Trafnidiaeth Ysgolion	Amgylchedd	Trafnidiaeth a Chefn Gwlad	Cyfyngedig	Atodiad 3
Rheolaeth Adeiladu	Amgylchedd	Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu	Digonol	Atodiad 4
Rheoli Gwybodaeth a Diogelu Data	Corfforaethol	-	Cyfyngedig	Atodiad 5
Hyfforddiant Mandadol	Gwasanaethau Corfforaethol	Dysgu a Datblygu'r Sefydliad	Digonol	Atodiad 6
Trefniadau Tân	Corfforaethol	-	Digonol	Atodiad 7
Diogeliadau Amddifadu Rhyddid	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Diogelu, Sicrwydd Ansawdd a Iechyd Meddwl	Cyfyngedig	Atodiad 8
Fflyd - Defnydd Tanwydd	Priffyrdd, Peirianeg a YGC	Fflyd	Cyfyngedig	Atodiad 9
Dilyniant Goramser Glanhau Stryd	Priffyrdd, Peirianeg a YGC	Glanhau Strydoedd	Digonol	Atodiad 10
Dilyniant Rheolaeth Categori - Amgylchedd	Priffyrdd, Peirianeg a YGC	Rheolaeth Categori	Cyfyngedig	Atodiad 11
Amlosgfa Bangor	Priffyrdd, Peirianeg a YGC	Asedau Bwrdeistrefol	Digonol	Atodiad 12

2.2.2 Mae lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod.

LEFEL SICRWYDD	UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.
	DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.
	CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.
	DIM SICRWYDD	Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion.

3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 31 Mawrth 2026:

- Addysg Tu Allan i'r Ysgol (*Addysg*)
- Ymwybyddiaeth Gweithwyr Maes o'r Polisi Diogelu (*Corfforaethol*)
- Taliadau All-Sirol (*Plant a Chefnogi Teuluoedd*)
- Costau Llety Argyfwng (*Tai ac Eiddo*)

4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 26 Ionawr 2026 hyd 31 Mawrth 2026, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

DILYNIANT CLUDIANT YSGOLION

1. Cefndir

- 1.1 Cynhaliwyd Archwiliad Mewnol Cludiant Ysgolion fel rhan o gynllun 2024/25, er mwyn sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer gweinyddu a darparu gwasanaeth cludiant ysgolion di-dâl i blant cymwysedig yn unol â Deddf Addysg 1996, yn ogystal â threfniadau casglu incwm ar gyfer plant anghymwys. Rhoddwyd lefel sicrwydd cyfyngedig i'r archwiliad, hynny yw, er bod rheolaethau mewn lle, roedd angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod y gweithrediadau cytunedig yn deillio o'r archwiliad llawn ddiweddaraf wedi eu gweithredu yn amserol i liniaru'r risgiau a adnabuwyd. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio cofnodion a dogfennaeth gefnogol.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	1
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 O'r 5 gweithrediad a gytunwyd o'r archwiliad gwreiddiol, gwelwyd fod 4 wedi eu gweithredu, adroddir y casgliadau isod. O ganlyniad, cyflwynir cynllun gweithredu cytunedig diwygiedig ynghlwm â'r adroddiad hwn.

- 5.2 Cadarnhaodd y Cydlynnydd Cludiant fod y Tîm Cludiant yn parhau i beidio â chael eu hysbysu pan fo newid sylweddol yn amgylchiadau plentyn, h.y. newid y byddai'n effeithio ar eu hawl i dderbyn cludiant am ddim. Er bod yr ysgolion yn adrodd newidiadau tebyg ar system SIMS, a hwnnw wedyn yn cael i fwydo i system Synergy (ble mae gan y Tîm Cludiant fynediad), heb fod y newid wedi ei amlygu, byddai'n rhaid gwirio drwy filoedd o geisiadau i adnabod newidiadau. Eglurodd y Swyddog Cefnogi Systemau fod SIMS yn y broses o gael ei disodli gan system Bromcom, fydd yn caniatáu gwell monitro o'r data. Yn y cyfamser, nododd ei fod yn bosibl rhedeg adroddiadau o Synergy o unrhyw newidiadau sylweddol i'w rhannu gyda'r Tîm Cludiant. Erbyn rhyddhau'r adroddiad drafft, cadarnhawyd fod trefniadau wedi eu sefydlu ble fod y Tîm Cludiant yn derbyn adroddiad misol, wedi ei generadu yn awtomatig o system Synergy, yn amlygu unrhyw blant sydd wedi newid ysgol. Adroddwyd fod yr adroddiad wedi galluogi i'r Tîm Cludiant adnabod dau blentyn yn barod ble fod angen newid eu teithiau.
- 5.3 Am y cyfnod 01/04/25-02/02/26 gwelwyd fod 3,371 o docynnau teithio ôl 16 wedi eu darparu. O'r sampl o 20 wiriwyd yn fanwl, gwelwyd fod yr ymgeiswyr oll yn byw yng Ngwynedd, ac o leiaf 3 milltir i ffwrdd o'r ysgol neu goleg, yn eu gwneud yn gymwys i'r tocyn. Cadarnhaodd Rheolwr Cludiant Addysg fod ystyriaeth wedi ei roi i ail gyflwyno ffi am docynnau teithio ôl 16, ond nad oedd y Cyngor yn ffafrio'r syniad.
- 5.4 Gwelwyd fod y Tîm Cludiant erbyn hyn yn paratoi adroddiadau tymhorol i'r Cyfrifydd Grŵp Ysgolion yn nodi'r nifer o docynnau bws newydd wedi eu cyflwyno, h.y. yn dilyn colli tocyn bws. Am y cyfnod Medi-Rhagfyr 2025 roedd 26 tocyn wedi eu darparu, gydag ond £10 o incwm wedi ei nodi yn y cyfrifyfr. Nodir fod tocynnau yn £5 yr un. Tybir nad ydi'r ysgolion yn casglu'r incwm, neu ei fod yn cael ei gyfeirebu yn anghywir. Ni dderbyniwyd ymateb gan y Cyfrifydd Grŵp erbyn rhyddhau'r adroddiad drafft.

6. Camau Gweithredu

Mae'r swyddogion perthnasol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Unwaith yn weithredol, cynnal gwiriadau a chysoni data i sicrhau fod y wybodaeth ar systemau 'Synergy' a 'Bromcom' yn gywir ac yn gyfredol, gan drefnu i gywiro unrhyw ddiffygion yn brydlon.**

DILYNIANT CLYBIAU BRECWAST

1 Cefndir

- 1.1 Cynhaliwyd Archwiliad Mewnol Clybiau Brecwast fel rhan o gynllun 2024/25, er mwyn sicrhau fod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer cynnal clybiau brecwast, yn ogystal â gweinyddu incwm o'r elfen gofal yn ystod y sesiynau.

2 Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod y gweithrediadau cytunedig yn deillio o'r archwiliad llawn ddiweddaraf wedi eu gweithredu yn amserol i liniaru'r risgiau a adnabwyd. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio cofnodion a dogfennaeth gefnogol, yn ogystal â chynnal ymweliadau safle.

3 Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	2
CANOLIG	4
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 O'r 10 gweithrediad a gytunwyd o'r archwiliad gwreiddiol, gwelwyd fod 6 wedi eu gweithredu, adroddir y casgliadau isod. O ganlyniad, cyflwynir cynllun gweithredu cytunedig diwygiedig ynghlwm â'r adroddiad hwn.
- 5.2 Fel yn yr archwiliad llawn, ymwelwyd â chlybiau brecwast ysgolion Waunfawr, Gwaun Gyfni, a Dolbadarn i gynnal y dilyniant. Ar gyfer y 3 ysgol, roedd cofnodion mewn perthynas â phlant gydag alergeddau yn amrywio o ddogfen i ddogfen, h.y. fod cofnodion y gegin yn anghytuno gyda chofnodion y Tîm Arlwyo, yn ei wneud yn anodd adnabod pob plentyn gydag alergedd. Nid yn unig roedd yr enwau yn anghytuno, ond hefyd y math o fwydydd roedd y plentyn ag alergedd iddo.

Ar un achlysur, gwelwyd fod yr ysgol wedi darparu dogfennaeth mewn perthynas â disgybl gydag alergedd, ond nad oedd y gegin wedi gweithredu gan nad oedd unrhyw dystiolaeth feddygol gefnogol. Yn ogystal, gwelwyd nad oedd 2 o'r 3 ysgol yn arddangos lluniau o blant gydag alergeddau ar wal y gegin, fel nodwyd yn y Polisi Alergeddau. Wrth drafod gyda Rheolwr Gwasanaeth Arlwygo a Glanhau Addysg, darganfuwyd fod y Rheolwr blaenorol wedi derbyn arweiniad gan Dîm Diogelu Data i beidio arddangos lluniau o'r plant, ond nad oedd y polisi wedi ei ddiweddarau i adlewyrchu hynny. Cydnabuwyd fod y polisi yn gymhleth, a pheth o'r cynnwys yn amherthnasol bellach. Cadarnhawyd fod cyfarfodydd wedi eu cynnal gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn ogystal ag ymholiadau i awdurdodau cyfagos er mwyn llunio polisi newydd, symlach, byddai'n rhoi mwy o bwyslais ar dderbyn tystiolaeth feddygol gefnogol.

- 5.3 Er nad oedd yr asesiadau risg Alergedd a welwyd yn y Ffolderi Alergedd yn ystod yr ymweliadau yn gyfredol, derbyniwyd copïau, wedi eu hadolygu yn y flwyddyn ddiwethaf, gan Reolwr Gwasanaethau Arlwygo a Glanhau Addysg, ac eglurwyd bod copi papur o'r holl asesiadau risg cyfredol ar gael yn Llawlyfr y Gegin. Nodwyd y byddai ffolderi alergeddau pob ysgol yn cael eu diweddarau gyda'r asesiadau cyfredol cyn gynted â phosibl.
- 5.4 Mae disgwyl fod offer ar wahân ar gael ar gyfer darparu bwyd i blant gydag alergeddau, h.y. plât, powlen, a chwpan piws. Er amlygwyd yn yr archwiliad llawn nad oedd gan gegin Ysgol Dolbadarn bowlenni piws, gwelwyd fod hynny dal yr achos yn ystod yr ymweliad diweddaraf. Cadarnhawyd fod yr Arweinydd Tîm Arlwygaeth a Glanhau Ysgolion wedi archebu powlenni cyn rhyddhau'r adroddiad drafft. Nodir fod ystyriaeth wedi ei roi i ddarparu tecynnau bwyta ar wahân ar gyfer plant gydag alergeddau, ond fod gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd wedi cadarnhau fod eu sterileiddio yn ddigonol.
- 5.5 O ran cynnwys y brecwast, mae'n rhaid darparu bwydydd wedi eu gosod gan y Llywodraeth. Mae pedwar categori, a rhaid darparu un opsiwn o bob categori. Y categorïau yw: Diodydd sy'n seiliedig ar laeth neu iogwrt, Grawnfwyd, Ffrwyth a Llysiau, a Bara. Ar adeg yr archwiliad llawn, sudd oedd yn cael ei ddarparu fel yr opsiwn ffrwyth. Ers hynny, mae'r sudd wedi ei ddisodli, gan gynnig diod o ddŵr neu lefrith yn ei le. Gwelwyd fod ysgol Waunfawr gyda phowlen o ffrwythau wedi ei arddangos wrth fynedfa'r gegin, gyda sawl plentyn wedi gofyn am ffrwyth yn ystod y sesiwn. Yn ysgolion Gwaun Gyfni a Dolbadarn, er i'r staff nodi fod ffrwyth ar gael i unrhyw blentyn fyddai'n gofyn, gwelwyd fod y powlenni ffrwyth wedi eu cuddio allan o olwg y plant, a bod safon y ffrwyth yn wael hefyd. Nododd Rheolwr Gwasanaeth Arlwygo a Glanhau Addysg eu bod wedi cael trafferthion gyda chyflenwyr yn ddiweddar, ble nad oedd archebion yn cael eu derbyn yn llawn, a safon y bwyd yn wael.
- 5.6 Er wedi eu cynnwys mewn ymarferion tân yn yr ysgolion ers yr archwiliad llawn, gwelwyd fod staff y geginau yn parhau heb fynediad i borth E-ddysgu'r Cyngor i gwblhau modiwlau mandadol.

6. Camau Gweithredu

Mae'r swyddogion perthnasol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Parhau i lunio Polisi Alergeddau newydd, symlach, gan drefnu hyfforddiant i'r holl staff perthnasol ar y cynnwys newydd.**
- **Ystyried defnyddio system Bromcom i gadw cofnodion electronig, i alluogi diweddarau haws.**
- **Trefnu cyfarfod gyda phenaethiaid i ail gyflwyno cynnwys y Polisi Alergedd newydd, gan bwysleisio'r angen i ddarparu gwybodaeth mewn perthynas ag alergeddau yn gywir, ac yn brydlon i'r Tîm Arlwy.**
- **Sicrhau fod ffolderi Alergeddau pob cegin wedi eu diweddarau gydag asesiadau risg cyfredol.**
- **Adnabod unrhyw ysgolion sydd heb yr offer priodol, gan sicrhau fod archeb yn cael ei drefnu yn syth.**
- **Atgoffa staff ceginau fod angen amlygu a chynnig ffrwyth yn ystod pob sesiwn clwb brecwast, gan fonitro er mwyn addasu archebion yn y dyfodol.**
- **Trefnu fod dyfais electronig ar gael ym mhob cegin i alluogi staff i fewngofnodi i'r Porth E-ddysgu.**

DILYNIANT RHEOLI PROSIECT TRAFNIDIAETH YSGOLION**1. Cefndir**

- 1.1 Cynhaliwyd Archwiliad Mewnol Rheoli Prosiect Trafnidiaeth Ysgolion fel rhan o gynllun 2024/25, er mwyn sicrhau bod trefniadau addas mewn lle ar gyfer rheoli a monitro cytundebau gyda chyflenwyr cludiant ysgolion a bod rheolaeth diogelwch cadarn ar gyfer diogelu disgyblion. Fel rhan o'r archwiliad gwreiddiol, gwiriwyd cytundebau ar gyfer sampl o gyflenwyr a sicrhau eu bod yn gyflawn ac yn cwrdd ag anghenion gwasanaeth o dan y Ddeddf Addysg 1996; gwirio'r broses tendro cwmnïau; gwirio trefniadau monitro a rheoli cytundebau a chadarnhau bod gwiriadau DBS yn cael eu cynnal yn brydlon a bod y cyflenwyr yn dilyn polisïau perthnasol y Cyngor, gan gynnwys y Polisi Alcohol a Chyffuriau.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod y gweithrediadau cytunedig yn deillio o'r archwiliad llawn ddiweddaraf wedi eu gweithredu yn amserol i liniaru'r risgiau. Er mwyn cyflawni hyn, bydd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio cofnodion neu ddogfennaeth gefnogol.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	1
CANOLIG	1
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Cytunwyd ar 5 cam gweithredu yn yr archwiliad gwreiddiol ym mis Rhagfyr 2024, tri gyda sgôr risg o 15, un gyda sgôr risg o 12, ac un arall efo sgôr risg o 6. Gwelwyd bod y camau wedi cael eu gweithredu yn rhannol ac adroddir ar y casgliadau isod, ond mae gwaith parhaus mewn lle er mwyn diogelu disgyblion ar drafndiaeth ysgolion.

- 5.2 Gwelwyd o'r archwiliad mewnol gwreiddiol mai un o'r risgiau i'w liniaru oedd methiant i fonitro a rheoli cytundebau trafnidiaeth ysgolion yn briodol gan gynnwys profi yn erbyn polisi cyffuriau ac alcohol y Cyngor. Gwelwyd dystiolaeth bod y tîm Cludiant wedi cysylltu gyda'r gweithredwyr i wirio os yw profion alcohol a chyffuriau yn cael eu cynnal ac o'r enghreifftiau o ymatebion a dderbyniwyd nid oes sicrwydd bod profion yn cymryd lle gan pob cyflenwr. Yn ogystal, fe gadarnhaodd y Rheolwr Cludiant pe byddant yn derbyn honiad am yrrwr o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau, byddant yn cysylltu gyda'r Heddlu ac yn ymweld a phrofi drwy ymgysylltu gyda'r Gwasanaethau Corfforaethol, ond bod digwyddiadau fel hyn yn brin iawn
- 5.3 Pan gynhaliwyd yr archwiliad gwreiddiol, nid oedd gan 5 allan o'r 12 cyflenwyr yn y sampl unrhyw asesiad risg mewnol ar gael, er ei fod yn ofyniad i'r cyflenwyr ddarparu asesiad risg eu hunain wrth dderbyn cytundeb gyda'r Cyngor. Fe wiriwyd yr un sampl am yr ail waith, ac nid oedd 2/12 o'r asesiadau ar gael. Nid oedd y ddau gyflenwr yn gweithredu contractau ysgolion bellach, ac felly ddim angen darparu asesiad risg
- 5.4 Nid oedd yr Adran yn gallu monitro cydymffurfiaeth â'r cytundebau yn rheolaidd ar adeg yr archwiliad gwreiddiol oherwydd diffyg adnoddau, ac felly yn cynnal gwiriadau ar sail cwynion a dderbyniwyd yn unig. Nid oedd tystiolaeth gefnogol glir o'r gwiriadau hyn ar gael yn ystod yr archwiliad. Cadarnhaodd y Rheolwr Cludiant bod trefn newydd wedi ei sefydlu gyda'r gwasanaeth Trwyddedu i fynd allan i'r ysgolion i wneud gwiriadau tymhorol. Derbyniwyd copi o'r daenlen monitro a gwelwyd bod rhywfaint o waith monitro wedi ei gynnal yn ystod misoedd Medi, Hydref a Thachwedd 2025, ond bod bylchau gwag yn y daenlen a ni welwyd unrhyw dystiolaeth drylwyr ar eu cyfer.
- 5.5 Un o'r camau gweithredu o'r archwiliad gwreiddiol oedd symud i system DBS y Cyngor er mwyn cadw manylion DBS cyfredol a chynnal gwiriadau. Erbyn hyn, gwelwyd bod y gwasanaeth wedi symud o ddefnyddio ffurflenni papur i ddefnyddio system DBS y Cyngor. Er hynny, mae'r gwasanaeth yn parhau i orfod cadw taenlen Excel o'r DBS, ond bod y gwasanaeth TG yn ymchwilio i mewn i hwyluso hyn. Mae gyrwyr bws yn derbyn cerdyn adnabod unwaith maent wedi cwblhau'r broses o gael gwiriad DBS. Cadarnhaodd y tîm Cludiant fel rhan o'r cyd-weithio gyda'r adran Addysg, mae'n fwriad codi ymwybyddiaeth gyffredinol rhanddeiliaid (staff ysgolion, rhieni/gwarchodwyr, ayyb) fod angen i'r rhai sydd yn darparu gwasanaethau cludiant addysg ar ran y Cyngor dderbyn a gwisgo cerdyn adnabod, ac os oes unrhyw bryderon yn hyn bydd angen iddynt gysylltu â'r Uned Gludiant Integredig er mwyn iddynt gynnal ymchwiliad.
- 5.6 Nid oedd y Polisi Cludiant Addysg yn gyfredol ar wefan y Cyngor ar adeg yr archwiliad. Cafodd Polisi diwygiedig ei gyflwyno i'r Cabinet mis Ionawr 2026 er mwyn derbyn caniatâd i gynnal ymgynghoriad mis Chwefror neu Mawrth 2026. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn mynd ger bron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi mis Mehefin 2026. Erbyn Hydref 2026, disgwylir i'r Polisi Cludiant Addysg diwygiedig gael ei gyhoeddi ac yn weithredol erbyn Medi 2027.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Cysylltu gyda'r gweithredwyr o bryd i'w gilydd i wirio os yw profion alcohol a chyffuriau yn cael eu cynnal.**
- **Defnyddio'r system pwyntiau gweithredu i gosbi cwmnïoedd sydd ddim yn anfon y dogfennau.**
- **Parhau i fonitro a rheoli cytundebau trafndiaeth ysgolion yn rheolaidd a sicrhau bod cofnodion trylwyr yn cael eu cadw.**
- **Sicrhau bod Polisi Cludiant Addysg yn cael ei roi ar wefan y Cyngor unwaith y caiff ei gymeradwyo, ac adolygu'r linciau sydd ar y wefan Gorfforaethol er mwyn sicrhau bod y fersiwn cyfredol o'r polisi wedi ei gynnwys.**

RHEOLAETH ADEILADU**1. Cefndir**

- 1.1 Prif bwrpas Rheoliadau Adeiladu yw sicrhau safonau rhesymol o iechyd a diogelwch ar gyfer pobl mewn, neu o amgylch adeiladau, cadwraeth ynni a mynediad a chyfleusterau i bobl ag anableddau.
- 1.2 Bydd angen caniatâd Rheolaeth Adeiladu ar gyfer y rhan fwyaf o waith adeiladu, gan gynnwys codi adeilad newydd, ailgodi adeilad presennol, estyniad neu addasiadau i adeilad, gosod ffenestri, addasiadau strwythurol, gosod cyfarpar sy'n cynhyrchu gwres, addasiadau i system ddraeniad adeilad, ategwaith i'r sylfeini, gosod a gwneud addasiadau i'r rhan fwyaf o gylchedau trydanol mewn tai ac addasiadau i fathau penodol o 'elfennau thermol'.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod gan y gwasanaeth drefniadau cadarn ar waith i gydymffurfio â'r gofynion statudol. I gyflawni hyn, roedd yr archwiliad gwreiddiol yn cynnwys adolygu hyfforddiant staff, archwilio sampl o geisiadau i wirio cydymffurfiaeth â'r safonau, asesu'r broses gwneud penderfyniadau, a gwirio cywirdeb y ffioedd a godir.
- 2.2 Fodd bynnag, rhoddwyd dibyniaeth ar ddarganfyddiadau archwiliad mewnol tebyg corff proffesiynol Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol (LABC) gynhaliwyd fis Ebrill 2025 fel rhan o ofyniad ISO 9001 er mwyn arbed ail-adrodd profion archwilio.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	1
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Darganfuwyd bod y gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu wedi derbyn archwiliad mewnol gan gorff proffesiynol LABC fis Ebrill 2025 fel rhan o ofyniad ISO 9001. Derbyniwyd copi o'r adroddiad a oedd yn cwmpasu ystod eang o feysydd, gan gynnwys cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddiol, rheoli risg, gweithrediad y systemau, cadw a rheoli cofnodion, y broses i ddelio â chwynion, cymhwysedd staff, archwiliadau safle, dangosyddion perfformiad allweddol, asesiad o'r broses gwneud penderfyniadau, a gwirio sampl o geisiadau, tystysgrifau cwblhau a hysbysiadau cychwynnol.
- 5.2 Gan fod y profion a gynhaliwyd gan LABC yn gweddu'n agos iawn i gwmpas yr archwiliad mewnol, ac wedi ei gynnal gan arolygwyr proffesiynol, penderfynwyd peidio ag ail gynnal y profion yma ac i ganolbwyntio ar ddarganfyddiadau a chasgliadau'r adroddiad LABC, sy'n cynnwys argymhellion a gwelliannau arfaethedig. Gwelwyd bod yr adroddiad yn gadarnhaol, ond bod tri cyfle i wella wedi ei nodi a tri diffyg cydymffurfiaeth, ynghyd â chatau gweithredu penodol i liniaru'r risgiau hyn i'w gyflawni erbyn mis Gorffennaf 2025.
- 5.3 Roedd y gwelliannau a nodwyd yn cynnwys yr angen i adolygu a mabwysiadu'r Cynllun Trin Risg, yn ogystal â'i rannu gyda'r staff perthnasol i sicrhau ymwybyddiaeth lawn a chydymffurfiaeth ar draws y gwasanaeth. Argymhellwyd hefyd yr angen i'r gwasanaeth gyflwyno hyfforddiant ymsefydlu penodol ar Reoli Adeiladau ar gyfer staff newydd, fel bod trefniadau cyson ar waith ar gyfer datblygu cymhwysedd. Yn ogystal, dylid adolygu'r dull o gynllunio arolygu i benderfynu a oes angen dull mwy penodol sy'n seiliedig ar risg gan nad oes unrhyw broses ffurfiol i gyfathrebu'r cynllun gyda'r cleient.
- 5.4 Nododd yr adroddiad fod tri achos o ddiffyg cydymffurfiad, sef: diffyg proses ffurfiol wedi'i sefydlu ar gyfer cynnal asesiad perfformiad blynyddol, fel sy'n ofynnol gan LABC; diffyg trefn strwythuredig ar gyfer cofnodi a rheoli gwrthdaro buddiannau; ac absenoldeb profforma safonol ar gyfer gwiriadau cynlluniau, sy'n hanfodol er mwyn sicrhau cysondeb a thryloywder yn y broses.
- 5.5 Holwyd y Rheolwr Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu ynghylch statws y camau cywirol neu ataliol, a chadarnhaodd eu bod wedi'u gweithredu yn rhannol hyd yma. Derbyniwyd tystiolaeth briodol ar gyfer cynnydd y tri achos o ddiffyg cydymffurfiad, yn ogystal ag un o'r gwelliannau. Mae pecyn gwybodaeth newydd ar gyfer cleientiaid wedi'i greu ac yn cael ei ddosbarthu pan fydd ceisiadau'n cael eu cofrestru. Mae'n hysbysebu'r cwsmer pryd y dylent gysylltu â'r gwasanaeth ac yn darparu gwybodaeth glir am y broses adeiladu. Crëwyd dogfen gofnodi gwrthdaro ym mis Chwefror 2026; fodd bynnag, nid yw wedi'i gwblhau gan y staff hyd yma, gan fod angen trafodaethau a hyfforddiant ychwanegol yn gyntaf. Mae profforma ar gyfer gwiriadau cynlluniau hefyd wedi ei greu, er mwyn i'r holl staff ei gwblhau a'u cadw ar ffeil wrth gynnal gwiriadau ond mae angen hyfforddiant a thrafodaethau pellach cyn y gellir ei ddefnyddio'n ymarferol. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi dechrau cynnal gwerthusiad staff blynyddol fel rhan o'r asesiadau perfformiad blynyddol.

- 5.6 Mae dau o'r gwelliannau yn parhau i fod angen sylw. Nid oedd y Cynllun Trin Risg wedi cael ei adolygu a'i fabwysiadu a nid oedd y gwasanaeth wedi cyflwyno hyfforddiant i staff newydd. Nododd mai prinder adnoddau gweinyddol yw'r prif reswm dros y diffyg cynnydd, ond eglurodd y bydd y gwasanaeth yn gweithio ar y eitemau hyn gyda'r bwriad o'u cwblhau cyn diwedd y flwyddyn.
- 5.7 Er gwaethaf peidio cwblhau gweithredu ar yr holl newidiadau, roedd y LABC o'r farn gyffredinol bod y Gwasanaeth Rheoli Adeiladu yn gweithredu'n effeithiol, gydag arbenigedd technegol cryf, ymgysylltiad cadarn â chontractwyr, a gwelliannau parhaus i brosesau. O ganlyniad, penderfynwyd ail-ymweld a'r maes Rheolaeth Adeiladu yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27 er mwyn cynnal archwiliad pellach.

6. **Camau Gweithredu**

Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Gweithredu ar y ddau gyfle i wella sydd wedi ei nodi yn yr adroddiad LABC sy'n cynnwys**
 - **Adolygu a mabwysiadu'r Cynllun Trin Risg a'i rannu gyda staff perthnasol.**
 - **Cyflwyno hyfforddiant ymsefydlu penodol ar Reoli Adeiladau ar gyfer staff newydd.**

RHEOLI GWYBODAETH A DIOGELU DATA**1. Cefndir**

Mae Erthygl 4 Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu'r Data'r DU (GDPR) yn manylu beth yw prosesu data sydd yn cynnwys unrhyw weithred neu set o weithrediadau ar ddata personol. Mae'n ofynnol prosesu data personol yn gyfreithlon ac er sicrhau bod data yn cael ei brosesu'n gyfreithiol, mae'r Cyngor angen cadarnhau eu bod yn gallu adnabod a dangos y sylfaen gyfreithiol ar gyfer pob gweithred, sefydlu prosesau a pholisïau a sicrhau cydymffurfiaeth a chadw cofnodion gweithredadwy o brosesau 'gyda manylion llawn'. Ble mae'r Cyngor yn prosesu data drwy drydydd parti yna mae angen cytundeb mewn lle i sicrhau bod y ddau barti fel 'data controller' a 'data prosesor' yn cydymffurfio â dyletswydd gyfreithiol GDPR.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle i reoli gwybodaeth a diogelu data personol sydd yn cael ei gasglu a'i rannu â 3ydd parti er mwyn galluogi prosesu'r data. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio polisïau a gweithdrefnau prosesu a rhannu data personol y Cyngor a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Rheoliadau Diogelu Data y DU.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	1
CANOLIG	3
ISEL	0

5. Darganfyddiadau

- 5.1 Meddiannwyd polisi a gweithdrefn sydd mewn lle a gwelwyd bod polisi a hyfforddiant Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yn fandadol. Yn ogystal cadarnhawyd bod cyrsiau 'refreshers' Diogelu Data wedi'u trefnu ar gyfer 2026 wyneb yn wyneb, yn cynnwys penderfyniadau ar gyfer rhannu data a pryd mae'n addas i wneud hynny.
- 5.2 Derbyniwyd rhestr o berchenogion systemau'r Cyngor gan yr Uwch Swyddog Statudol Diogelu Gwybodaeth. Gwelwyd bod y gofrestr wedi'i sefydlu yn 2023 a'i diweddaru ers hynny. Detholwyd sampl o systemau craidd ar draws y Cyngor i gadarnhau bod y rhestr yn gyflawn a chyfredol. Yn ogystal, meddiannwyd rhestr gan y Gwasanaeth Caffael o gyflenwyr oddi ar y cyfrifylfr a dalwyd mwyaf i gadarnhau os oedd prosesau a chytundeb prosesu data yn bodoli tu hwnt i'r rhestr o berchenogion systemau. Mae gan y Cyngor gytundeb WASPI ('Wales Accord on the Sharing of Personal Information') ac yn rhannu gwybodaeth o dan y 'multi agency data sharing protocol' gydag awdurdodau eraill sydd yn ymwneud ag iechyd, addysg, diogelu, atal trosedd a lles cymdeithasol sydd yn caniatáu rhannu data yn ddiogel mewn cydymffurfiaeth â GDPR DU.
- 5.3 O'r gofrestr o berchenogion systemau'r Cyngor a dderbyniwyd gan yr Uwch Swyddog Statudol Diogelu Gwybodaeth, gwelwyd allan o 30 o systemau a wiriwyd, derbyniwyd ymateb ar gyfer 28 o'r systemau. Darganfuwyd o'r 28 nad yw 4 o'r systemau yn bodoli bellach. Ymddengys bod yn cymysgfa sydd yn prosesu data a'r gweddill gyda chytundebau trwydded yn unig gyda'r trydydd parti, ac adroddwyd bod 2 o'r systemau yn dod i ben o fewn y flwyddyn ariannol nesaf (WCCIS & Cyborg).
- 5.4 O ganlyniad, holiwyd os oedd rhestr ganolog o systemau gan TG i gefnogi'r rhestr a dderbyniwyd gan yr Uwch Swyddog Statudol Diogelu Gwybodaeth ar gyfer adnabod systemau mewnol, cytundebau dyddiad adolygu/adnewyddu ac eithriadau all olygu eu bod yn prosesu data gyda thrydydd parti/tu hwnt i'r Cyngor. Fodd bynnag, darganfuwyd nad oes rhestr yn bodoli, gan gynnwys cynllun ar gyfer adnabod blaenoriaeth adfer systemau craidd y Cyngor mewn sefyllfa argyfwng.
- 5.5 Gwelwyd bod gan y Cyngor dtempled pwrpasol sydd yn gosod telerau'r Cyngor i gontractwyr fel y prosesydd data i'w arwyddo sydd yn nodi sut maent eisiau i'r data cael ei drin. O'r sampl o systemau a ddetholwyd i wirio, ymddengys bod 17 o systemau yn prosesu data, a'r gweddill gyda chytundeb trwydded a/neu system gefnogaeth. Er ymddengys bod 17 yn prosesu data, derbyniwyd cytundeb ffurfiol ar gyfer 8 yn unig gyda'r gweddill (9) wedi darparu datganiad preifatrwydd y cwmnïau. Allan o'r cytundebau prosesu data ond 3 roedd wedi defnyddio templed y Cyngor a'r gweddill wedi defnyddio templed cytundeb y prosesydd. Meddiannwyd y cytundebau i wirio os ydynt yn ddigonol i sicrhau cydymffurfiaeth ag erthygl 28 GDPR y DU.
- 5.6 Ar gyfer 7 o'r systemau oedd â chytundebau trwydded a neu gefnogaeth yn unig, mynegodd yr Uwch Swyddog Statudol Diogelu Gwybodaeth, er hynny, dylai bod yr holl systemau gan gynnwys rhai mewnol ond gyda chefnogaeth allanol gyda chytundeb prosesu data mewn lle.

- 5.7 Yn ychwanegol i hyn, gwiriwyd y cytundebau er mwyn gwirio beth yw cyfrifoldebau ynglŷn â seibr ddiogelwch a sicrwydd o ran 'supply chain attacks'. Yn ôl y rheoliadau, erthygl 32, er bod y data yn cael ei brosesu gan gwmni allanol, mae'r Cyngor yn gyfrifol am y data ac felly gofynnir i'r prosesydd cymryd mesuriadau i ddiogelu data yn erbyn ymosodiadau seibr diogelwch. Gwelwyd nad oedd pob cytundeb yn amodi unrhyw drefniadau gwarchod yn erbyn ymosodiadau diogelu seibr.
- 5.8 Fel rhan o'r archwiliad gwiriwyd cydymffurfiaeth ag erthygl 35 GDPR DU drwy holi am yr asesiad effaith diogelu data (DPIA) ar gyfer y prosiectau/ prosesau newydd a sefydlwyd. Gwelwyd nad oedd pob prosiect a ddetholwyd angen cynnal asesiad effaith, mae hyn yn ddibynnol ar y risg a'r math o ddata sydd yn cael ei brosesu. O'r rhain oedd yn ymddangos yn prosesu data personol, cadarnhawyd bod 5 DPIA ar gael allan o bosib 15.
- 5.9 Gwiriwyd trefniadau caffael cyflenwyr i sicrhau bod trefniadau cynnal gwiriadau 'due diligence' priodol mewn lle fel y 'data controller'. Mae'r trefniadau caffael cyfredol yn sicrhau bod amodau a chwestiynau penodol rhaid i'r cyflenwyr gwrdd wrth gyflwyno tendr ond yn y pendraw mae'r gwiriadau yn gyfrifoldeb y sawl sydd yn caffael. Ni dderbyniwyd unrhyw dystiolaeth bod gwiriadau wedi'u cynnal/cadw.
- 5.10 Yn ogystal, o'r sampl o'r cytundebau a dderbyniwyd, gwiriwyd os oedd cymal hawl archwilio/mesur perfformiad mewn lle ble all y Cyngor medru derbyn/meddiannu sicrwydd bod y prosesydd wedi gweithredu'r mesurau priodol neu'n cydymffurfio â thelerau'r contract, neu'r ddau. Gwelwyd bod rhan fwyaf o'r rhain yn cynnwys amodau ond nid oedd modd cadarnhau eu bod yn weithredol sydd yn golygu nad oes gwarantu bod y gweithgareddau'n cydymffurfio â erthyglau 28, 32, a 5(2) o GDPR y DU

6. Camau Gweithredu

Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth wedi ymrwymo i gydlynu/weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd::

- **Darparu hyfforddiant arbenigol ar gyfer codi ymwybyddiaeth DPIA a chytundebau prosesu data gan gynnwys yr angen i ddefnyddio templed prosesu data'r Cyngor, ble'n berthnasol.**
- **Tîm Rheoli Gwybodaeth a Gwasanaeth TG i gydlynu gyda gwasanaethau eraill i adnabod un gofrestr ganolog o weithgareddau prosesu data.**
- **Adolygu'r cwestiynau amodol prosesau/trefniadau caffael er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol ar gyfer diogelu data'r Cyngor.**
- **Cyflwyno cyfarwyddiadau i adrannau i gymryd perchenogaeth o'u data drwy ddarparu mynediad iddynt i'r wybodaeth er mwyn iddynt allu diweddarau unrhyw newidiadau ar y rhestr ganolog fel bo angen.**
- **Ystyried cynnal sampl o wiriadau i'r rhestr yn rheolaidd i gadarnhau ei berthnasedd.**

HYFFORDDIANT MANDADOL**1. Cefndir**

- 1.1 Mae 8 teitlau hyfforddiant mandadol (Diogelu Data, Diogelu, Cydraddoldeb, Ymwybyddiaeth Iaith, Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, Atal, Iechyd a Diogelwch a Rhyddid Gwybodaeth) gan y Cyngor ar hyn o bryd, ble y disgwylir i bob aelod o staff eu cwblhau.
- 1.2 Mae modd cwblhau hyfforddiant drwy gwblhau e-fodiwl. Yn dibynnu ar ofynion yr hyfforddiant gellir eu cwblhau wyneb yn wyneb mewn eithriadau. Mae'r e-fodiwlau ar gael ar y Porth e-ddysgu ac mae pob swyddog â hawl mynediad i'r modiwlau sydd yn defnyddio rhif cyflog fel manylion adnabod defnyddiwr.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle i sicrhau bod swyddogion yn cwblhau hyfforddiant mandadol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio ystadegau cwblhau hyfforddiant mandadol, argaeledd hyfforddiant mandadol a chynlluniau'r Cyngor ar gyfer sicrhau bod hyfforddiant mandadol yn cael ei gwblhau gan swyddogion y Cyngor yn brydlon

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	7
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Darganfuwyd bod hyfforddiant mandadol ar gael ar ffurf e-fodiwlau, ond mae rhai sesiynau hyfforddiant ar gael drwy MoDS (Hunanwasanaeth), sy'n cynnwys sesiynau wyneb yn wyneb neu e-fodiwlau mwy cynhwysfawr.
- 5.2 Mynegodd y Swyddog E-ddysgu bod y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu yn cefnogi'r adrannau drwy greu adroddiad o ystadegau cwblhau hyfforddiant Diogelu i adrodd i'r Grŵp Gweithredol Diogelu. Mae'r Swyddogion Dynodedig Diogelu o fewn y Grŵp Gweithredol Diogelu yn gyfrifol am raeadru rhestrau o unigolion sydd heb gwblhau'r tri modiwl mandadol o dan ymbarél Diogelu sef Atal, Diogelu, a Thrais yn erbyn Menywod fel eu bod yn cael eu cwblhau.
- 5.3 Yn ogystal â hyn, penodwyd swyddog pwrpasol yn Nhachwedd 2025 ar gyfer cefnogi'r gwasanaethau drwy ymweld â safleoedd rheng flaen er mwyn cynorthwyo staff i gwblhau'r hyfforddiant Diogelu.
- 5.4 Mae'r Swyddog E-ddysgu yn monitro ystadegau cwblhau hyfforddiant drwy ddashfwrdd Power BI. Mae'n dangos data clir ar gyfer pob Teitl Mandadol, gan gynnwys niferoedd a chanrannau ar gyfer y Cyngor yn gyffredinol ac ar gyfer pob Adran unigol. Mae hefyd modd creu rhestr o unigolion sydd heb gwblhau'r hyfforddiant, wedi'i rannu fesul Adran neu Wasanaeth. Mae'r data yma ar gael i Benaethiaid a Rheolwyr ar gais ar sail ad-hoc, neu mae modd creu mynediad iddynt i'r dashfwrdd. Mae ystadegau hyfforddiant mandadol Diogelu a Cham-drin Domestig yn derbyn sylw yn y cyfarfodydd herio perfformiad erbyn hyn a bod bwriad i ymestyn hyn ar gyfer yr holl hyfforddiant mandadol yn y dyfodol.
- 5.5 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod diffyg yn niferoedd swyddogion rheng flaen sydd yn cwblhau'r hyfforddiant mandadol, gyda'r tebygolrwydd bod y niferoedd yn isel oherwydd diffyg mynediad at gyfrifiadur yn ystod oriau gwaith. Er bod mynediad at yr hyfforddiant yn cael ei gynnal drwy ddefnyddio rhif cyflog, adroddwyd bod llawer yn parhau heb gyfeiriad e-bost fel bod modd cofnodi'r hyfforddiant hynny, all olygu bod y cofnodion/ystadegau sydd yn cael eu cadw ddim yn gyflawn/gyfredol. Fel ymateb, mae'r Is-grŵp Digidol o dan Gynllun Digidol Gwynedd yn gweithio ar ymestyn darpariaeth offer digidol, yn enwedig i'r staff rheng flaen.
- 5.6 Gwelwyd bod Hwb Dysgu a Datblygu ar y fewnwyd sydd yn cynnwys gwybodaeth ar hyfforddiant mandadol a gwelwyd bod llawlyfr Dysgu a Datblygu yn nodi 'Mae'r gofyn i gwblhau'r teitlau Mandadol uchod yn rhan o gytundeb gwaith pob un ohonom fel aelodau staff Cyngor Gwynedd. Gallwch wirio os ydych wedi cwblhau Teitl Mandadol trwy fynd i Fy Rhaglen Dysgu yn Fy Nghyflogaeth yn yr Hunan wasanaeth. Bydd y cofnod yn cael ei diweddaru'n wythnosol. Mi fydd adroddiadau cofnod cwblhau yn cael ei gynhyrchu i wahanol wasanaethau yn ôl yr ofyn. Yn ogystal gall Rheolwyr gweld cofnod eu Staff ar yr Hunan wasanaeth'. Er hynny, ni welwyd cyfarwyddiadau clir yn nodi cyfrifoldebau ac atebolrwydd ar gyfer monitro gweithrediad hyfforddiant mandadol mewn lle. Yn ogystal, nid yw pob swyddog â mynediad at gyfrifiadur i allu gwirio yn rhwydd eu Rhaglen Dysgu a Datblygu.

- 5.7 Oherwydd diffyg teclynnau a ffyrdd i gyfathrebu â staff rheng flaen, dibynnir yn llwyr ar reolwyr i weithredu camau a chyfarwyddo staff am hyfforddiant mandadol yn unol â chanllawiau Cefnogaeth i Weithwyr Rheng Flaen, Teitlau Mandadol. O'r sampl o staff a wiriwyd o System Swyddi Gwynedd, ymddengys bod 33% heb gwblhau hyfforddiant mandadol a'r staff hynny mewn swyddi heb gyfrifiaduron /ar y rheng flaen.
- 5.8 Gwiriwyd sampl o 50 hyfforddiant staff a gwelwyd bod 13/50 heb gofnod hyfforddiant yn erbyn eu henwau ac ymddengys mai gweithwyr rheng flaen neu ddim ar ddyletswyddau gyda chyfrifiaduron megis cymhorthyddion cegin, gofalwyr a glanhawyr oedd y rhain. Roedd 22 heb gwblhau hyfforddiant mandadol gyda dros 80% o'r rhain yn weithwyr rheng flaen. Roedd y gweddill, 15 oedd wedi'i gwblhau yn gymysgedd o weithwyr swyddfeydd a rheng flaen ac yn debygol yn rhinwedd eu swydd bod ganddynt fynediad at gyfrifiadur.
- 5.9 Dengys bod cyflwyniad i'r rhaglen dysgu a hyfforddiant mandadol yn ran o gyflwyniad staff newydd ac yn y pecyn cyfnod croeso i staff newydd. Fodd bynnag, adroddodd y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu bod trefniadau cyflwyno staff newydd yn anghyson ar draws y Cyngor ac felly nid ydynt yn sicr os yw pob staff newydd yn derbyn cyflwyniad llawn ac yn ymwybodol am yr angen i gwblhau'r hyfforddiant mandadol fel rhan o'u cyfnod prawf, gyda rhai swyddogion yn bell yn eu gyrfa cyn cwblhau hyfforddiant teitlau mandadol.
- 5.10 Mae tair system weithredol gan Dysgu a Datblygu ar gyfer cofnodi hyfforddiant i staff. Mae Porth E-ddysgu yn cynnwys yr hyfforddiant e-fodiwlau i staff tra bod y Ganolfan Polisi sydd yn system ar wahân gyda chofnod o bolisiau'r Cyngor i gyd. Mynegodd y Swyddog E-ddysgu bod y data o'r systemau yma yn cael eu llwytho i'r system Hunanwasanaeth MoDS yn wythnosol sydd yn creu'r ystadegau monitro. Oherwydd bod hyfforddiant a pholisiau'r Cyngor yn gweithredu ar wahanol systemau, gall achosi cymhlethdod i staff gadw trefn ar e u cynnydd ac adnabod hyfforddiant sydd heb ei gwblhau.
- 5.11 Gofynnwyd a oedd y systemau yn anfon nodiadau atgoffa ar gyfer targedu swyddogion sydd angen cwblhau hyfforddiant, darllen polisi newydd neu adnewyddu hyfforddiant a derbyniwyd ymateb bod y system a gafaelwyd yn un sylfaenol ac felly nid yw'r nodiadau atgoffa yn rhan o'r pecyn cyfredol oni bai bod penderfyniad i uwchraddio'r pecyn ar gost ychwanegol i'r Cyngor. Fodd bynnag, gyda Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau statudol ar hyfforddiant diogelu drwy'r Safonau Hyfforddiant, Dysgu a Datblygu Diogelu a'r Gweithdrefnau Diogelu Cymru, sy'n seiliedig ar y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae gofyniad am adfywio hyfforddiant Diogelu i "Grŵp A" pob 3 mlynedd. Golyga hyn y bydd angen ffyrdd i adnabod dyddiadau adnewyddu'r hyfforddiant ynghyd â modd i atgoffa staff o'r dyddiad daw'r hyfforddiant i ben. Adroddodd Arweinydd Talent a Phrentisiaethau eu bod yn ystyried system a bod bid am fwy o arian i uwchraddio'r system bresennol. Mynegodd y Rheolwr Dysgu a Datblygu'r Sefydliad bydd gwell dealltwriaeth o'r opsiynau pan fydd gwell dealltwriaeth o'r system i-Trent newydd.

- 5.12 Cwestiynwyd os oedd y rhestr o deitlau hyfforddiant mandadol wedi'i ddyddio bellach a bod angen cynnwys hyfforddiant diweddar megis Diogelwch Seibr ac Adnabod Twyll sydd yn cwrdd ag egwyddorion y Cyngor. Adroddwyd bod y Cyngor gyda Panel Dysgu a Datblygu sydd yn cyfarfod 2 waith y flwyddyn. Eglurodd yr Arweinydd Talent a Phrentisiaethau bod haenau ar gyfer penderfynu ar deitlau mandadol. Mae teitlau mandadol fel arfer yn cefnogi yr hyn mae'r cyngor angen ei gwblhau i gwrdd â dyletswyddau cyfreithiol, gan ddilyn hyfforddiant craidd ac yna hyfforddiant ar gyfer datblygu yn y swydd. Cafodd y penderfyniad i gynnwys Rhyddid Gwybodaeth fel hyfforddiant mandadol ei wneud yn y cyfarfod diwethaf yn Mehefin 2025.

6. Camau Gweithredu

Mae Dysgu a Datblygu wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Cyflwyno cyfarwyddiadau ffurfiol a chlir ar gyfer adnabod y sawl sydd yn gyfrifol am fonitro cwblhau hyfforddiant mandadol ac adrodd i'r penaeithiaid fel bod modd rhaeadru'r neges drwy linell rheolaeth.**
- **Ystyried uwchraddio'r system bresennol fel bod modd adnabod hyfforddiant mandadol sydd angen ei adnewyddu ac atgoffa staff i gwblhau hyfforddiant sydd heb eu cwblhau/adnewyddu.**
- **Siarad gyda staff Dysgu a Datblygu o gynghorau sydd yn defnyddio'r system iTrent er mwyn deall beth yw'r posibiladau wrth gyfarch rhai o'r problemau sydd wedi eu hamlygu yn yr adroddiad hwn e.e. gallu atgoffa staff i ddiweddarau yn amserol.**
- **Cynnwys ystadegau cwblhau Hyfforddiant Mandadol fel rhan o fesuriadau cyfarfodydd Herio Perfformiad.**
- **Ystyried monitro ystadegau cwblhau hyfforddiant mandadol yn rheolaidd ac adrodd i Benaethiaid ble mae ystadegau yn isel.**
- **Gweithredu ar y gofyn i swyddogion gwblhau cyrsiau 'refresher' pob 3 mlynedd.**
- **Ystyried y posibilrwydd o ofyn i staff newydd gwblhau'r hyfforddiant mandadol ar ddechrau yn eu swyddi.**
- **Edrych i mewn i drefniadau Croeso gan gael adborth gan y gwahanol adrannau a rhoi trefniadau yn eu lle i geisio cael mwy o gysondeb trefniadau cyflwyno staff newydd ar draws y Cyngor.**

TREFNIADAU TAN**1. Cefndir**

- 1.1 Mae'r Cyngor yn berchen nifer o eiddo, gan gynnwys swyddfeydd, ysgolion, llyfrgelloedd ac amryw o adeiladau eraill, ac mae angen sicrhau bod gweithwyr ac ymwelwyr yn cael eu diogelu o risgiau tân. I'r perwyl yma, mae'n rhaid i'r Cyngor ddilyn Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 (diwygiwyd 2023), sy'n gosod cyfrifoldeb ar y Cyngor i sicrhau bod mesurau diogelwch tân priodol yn yr eiddo, gan gynnwys cynnal asesiadau risg tân a gosod mesurau atal ac amddiffynol priodol, yn ogystal â darparu gwybodaeth, cyfarwyddiadau ac hyfforddiant.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau rheoli tân y Cyngor yn briodol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio trefniadau'r Tîm Diogelwch a Chydymffurfiaeth o ymweld, arolygu ac adrodd ar drefniadau tân ar gyfer sampl o eiddo.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	3
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Gall effaith trefniadau rheoli tân annigonol fod yn ddifrifol, ac i'r perwyl yma mae'n hanfodol bod y Cyngor yn dilyn y Polisi Diogelwch Tân Corfforaethol drwy gydnabod ei gyfrifoldebau fel cyflogwr, ac ymroddi i sicrhau, cyn belled â'i bod yn rhesymol ymarferol, diogelwch ei weithwyr, ynghyd â diogelwch unrhyw berson arall allai gael ei effeithio gan beryglon tân. Mae'r risgiau tân wedi eu cynnwys ar y gofrestr risg corfforaethol.

- 5.2 Mae rheolwyr safle wedi eu penodi ar gyfer pob eiddo, sy'n gyfrifol am greu a chynnal amgylchedd gwaith diogel dydd i ddydd yn y safle. Bydd Tîm Diogelwch a Chydymffurfiaeth yr adran Tai ac Eiddo yn ymweld â'r safle yn flynyddol i gynnal gwiriadau, adnabod diffygion, trefnu gwaith atgyweirio a rhoi cymorth i'r rheolwr safle. Mae'r Tîm Diogelwch a Chydymffurfiaeth yn dilyn Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 (diwygiwyd 2023), golygai hyn bod rhaid cynnal asesiad risg tân trylwyr ar bob eiddo bob tro mae newid mewn defnydd neu reolwr safle, ac yna cynhelir yr archwiliadau blynyddol.
- 5.3 Fel rhan o'r archwiliad, detholwyd sampl o 6 eiddo oddi ar restr yswiriant y Cyngor. Roedd y sampl yn cynnwys swyddfeydd o faint gwahanol, Canolfan Ieuencid, Llyfrgell ac Ysgol Uwchradd. Archwiliwyd cofnodion ymweliadau'r Tîm Diogelwch a Chydymffurfiaeth ar gyfer yr eiddo yma, sy'n cwmpasu amrediad eang o drefniadau rheoli ac atal tân, ynghyd â materion eraill fel legionella ac asbestos.
- 5.4 Hepgorwyd un eiddo o'r sampl gan mai sefydliad allanol sy'n gwneud defnydd ohono ac yn gyfrifol amdano. Ar amser yr archwiliad, nid oedd cofnod archwiliad un eiddo ar gael, oherwydd bod yr ymweliad wedi digwydd fis Ebrill 2025 a bod yr aelod staff bellach wedi gadael cyn cwblhau'r adroddiad. Mae disgwyl bod adroddiadau yn cael eu cyflwyno o fewn 6 wythnos i'r ymweliad. Ar gyfer tri eiddo arall, gwelwyd bod archwiliadau trylwyr wedi eu cynnal a bod canfyddiadau ac argymhellion wedi eu gwneud. Mae rhai o'r argymhellion yn cynnwys derbyn a chofnodi hyfforddiant tân, trefnu Portable Appliance Testing ar gyfer offer trydanol, clirio offer o lwybrau dianc a gosod rhybuddion gweithdrefn tân yn y mannau priodol. Mae rhai o archwiliadau'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar sefydliadau megis cartrefi preswyl a'r amlosgfa yn cynnwys elfennau rheoli tan, gan amlygu gwendidau megis peidio â chynnal a chofnodi profion offer mor aml â'r disgwyl. Mae'r Tîm Iechyd & Diogelwch Corfforaethol hefyd yn ymweld â eiddo er mwyn gwirio cynnwys eu bocsus glas, sef cofnodion profion tân, cynllun tân yr eiddo ayb.
- 5.5 Gwelwyd fod rheolwyr safle wedi eu penodi ar gyfer pob eiddo yn y sampl. Mae cwrs Rheoli Safle ar gael sy'n darparu'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i reolwyr i reoli materion iechyd a diogelwch tân, ymysg eraill. Er bod pob rheolwr safle yn y sampl wedi mynychu'r cwrs (heb law un sydd newydd ei benodi), ymddengys o gofnodion hyfforddiant MoDS gall cryn amser fynd heibio cyn mynychu'r cwrs ar ôl eu penodi i'r rôl. Mae cyrsiau adnewyddu bellach ar gael er mwyn diweddarau ac atgoffa rheolwyr o'r trefniadau, ac os nad yw'r rheolwyr wedi gwneud y cwrs adnewyddu o fewn 3 mlynedd, mae'n rhaid iddynt ail wneud y cwrs gwreiddiol.
- 5.6 Mae e-fodiwl Ymwybyddiaeth Tân ar gael ar y Porth e-Ddysgu, ond gwelwyd bod nifer o'r rheolwyr safle heb ei gwblhau, nac ychwaith wedi darllen y Polisi Diogelwch Tân Corfforaethol. Mae cwblhau'r modiwl a derbyn y polisi yn rhywbeth dylai pob aelod staff ei wneud, ond cydnabyddir bod y cwrs Rheoli Safle yn rhagori'r modiwl e-ddysgu.

- 5.7 Cyfrifoldeb y Rheolwr Safle yw gweithredu ar argymhellion y Tîm Diogelwch a Chydymffurfiaeth, ond nid oes trefniadau sicrhau gweithrediad hyd yr ymweliad nesaf y flwyddyn ganlynol. Fodd bynnag, mae rhai o'r camau gweithredu yn gyfrifoldeb yr adran Tai ac Eiddo, ac mae'r adran yn dweud eu bod yn blaenoriaethu'r gweithrediadau yma ar sail risg.
- 5.8 Gwelwyd fod fforymau lechyd a Diogelwch adrannol yn gyfle da i drafod materion tân, ac mae'r adran Gyllid eisoes wedi trafod, ac yna rhannu e-bost yn annog staff i ddarllen a chwblhau modiwl e-ddysgu Ymwybyddiaeth Tân, ynghyd ac ymrwymo i drafod profion PAT, sydd yn ôl y Weithdrefn Profion Offer Trydanol Cludadwy, yn gyfrifoldeb yr adran, er nid yw'n ymddangos bod hyn yn wybodus i bawb.
- 5.9 Ar gyfer yr eiddo olaf yn y sampl, sef swyddfeydd Pencadlys, derbyniwyd cofnodion yr archwiliad diwethaf, sef Medi 2023. Does dim archwiliad wedi ei chynnal ers hynny oherwydd y gwaith cyson sydd wedi mynd rhagddo, megis symud swyddfeydd, datblygu'r hen dderbynfa ayb. Fel arfer, bydd hyn yn golygu cynnal asesiad risg tân trylwyr ar yr eiddo ar gyfer pob newid, dro ar ôl tro ond mae'r Tîm Diogelwch a Chydymffurfiaeth wedi penderfynu cyd-weithio a'r tîm swyddfeydd tra bod y gwaith yn mynd yn ei flaen a bwriedir cynnal yr asesiad risg tân yn fuan. Fodd bynnag, mae'r Tîm lechyd & Diogelwch Corfforaethol o'r farn dylai asesiadau cyfnodol wedi cymryd lle.
- 5.10 Yn dilyn cyfarfod o'r Fforwm Corfforaethol, amlygwyd diffygion yn nhrefniadau gwagio'r prif swyddfeydd mewn argyfwng tân. Mae'r risg wedi ei gynnwys ar y gofrestr risg corfforaethol, ac yn un o'r gwendidau amlygwyd yn archwiliad 2023. Mae'r risg yn deillio o'r ffaith bod swyddfeydd o'r maint yma angen marsialiaid tân i fod yn gyfrifol am adnabod pwy sy'n bresennol ar y diwrnod, ond mae gweithio'n hybrid yn amharu ar effeithiolrwydd y trefniant cyfredol.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Swyddogion wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- Rheolwyr Safle newydd i fynychu cwrs Rheoli Safle cyn gynted â phosib, ynghyd a sicrhau eu bod yn mynychu cyrsiau adnewyddu o fewn 3 mlynedd.
- Fforymau lechyd a Diogelwch i geisio annog pawb, yn enwedig Rheolwyr Safle i gwblhau e-fodiwl Ymwybyddiaeth Tân a darllen y Polisi Diogelwch Tân Corfforaethol.
- Fforymau lechyd a Diogelwch adrannol i atgoffa adrannau i drefnu profion PAT.
- Cwblhau adroddiadau o fewn 6 wythnos i'r ymweliad.
- Uchelu gwendidau difrifol, neu rhai caiff eu hamlygu yn rheolaidd i Reolwr Llinell y Rheolwr Safle.
- Cynnal asesiad risg tân ar y Pencadlys.

DIOGELIADAU AMDDIFADU RHYDDID**1. Cefndir**

- 1.1 Mae Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) yn darparu fframwaith cyfreithiol o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 i amddiffyn unigolion nad oes ganddynt alluoedd ac sy'n cael eu hamddifadu o ryddid. Cyflwynwyd y trefniadau diogelu hyn yn 2009 a'u hehangu yn sgil dyfarniad Gorllewin Caer ym Mawrth 2014, a'u nod yw sicrhau bod trefniadau o'r fath yn gyfreithlon ac er lles pennaf yr unigolyn.
- 1.2 Cyflwynwyd y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid (LPS) yn Neddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 a bydd yn disodli'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS). Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar Reoliadau drafft i Gymru i gasglu barn rhanddeiliaid ar y dull y bwriedir ei fabwysiadu ar gyfer yr LPS tra ymgynghorodd Llywodraeth y DU ar Reoliadau drafft ar gyfer Lloegr. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi ymgynghori ar Gôd Ymarfer drafft fydd yn berthnasol i Gymru a Lloegr.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau cynllunio a pharatoi addas mewn lle i ymateb i ofynion newydd y Mesurau Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid (LPS) a fydd yn disodli'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS), yn ogystal â gwirio os oes trefniadau priodol mewn lle ar gyfer gweithredu ar gyfeiriadau cyfredol DoLS. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu sicrhau bod trefniadau digonol wedi eu sefydlu ar gyfer y gyfundrefn newydd a gwirio sampl o gyfeiriadau DoLS i roi barn ar sicrwydd gweithrediadau.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	1
CANOLIG	2
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Cynhaliwyd yr archwiliad diwethaf yn 2022 ac adroddwyd 'er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt'. Adnabuwyd y risgiau canlynol yn yr adroddiad archwilio Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid 2022/23:

Risg 1 - Methiant i baratoi ar gyfer y newidiadau diwygiedig gall arwain at y Cyngor i fethu darparu gwasanaeth priodol a diogelu ac amddiffyn unigolion bregus/mewn risg. Cafodd y risg yma ei amlygu ar sail methu i baratoi at newid mewn deddfwriaeth. Nid oedd targed dyddiad Llywodraeth y DU ar gyfer gweithredu'r LPS a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 wedi'i gadarnhau bryd hynny. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yn Ebrill 2023 bod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi eu bwriad i gamu i ffwrdd o gyflwyno'r LPS a gweithredu Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 (Deddf 2019). Fodd bynnag, rhoddodd Llywodraeth Cymru £8m o gyllid yn 2022/23 i gefnogi'r paratodau ar gyfer yr LPS. Gan nad oedd y rheoliadau a'r Cod Ymarfer wedi'u cwblhau eto, mae swm sylweddol o'r cyllid hwnnw wedi'i ddefnyddio i ddarparu hyfforddiant ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol ac i reoli'r system DoLS bresennol. Diweddarodd Llywodraeth y DU ar y mater yn Hydref 2025, gan ddatgan y bydd yn ymgynghori ar gyflwyno'r LPS, ochr yn ochr â chod ymarfer Deddf Galluedd Meddyliol 2005.

Risg 2 - Y Cyngor yn cael ei gosbi oherwydd diffyg cydymffurfiaeth â Deddfau cyfreithiol yn ymwneud â DoLS. Roedd y casgliad ar sail bod nifer fawr o geisiadau DoLS wedi'u ôl-gronni a dim wedi'u cwblhau o fewn yr amserlen gyfreithiol 21 diwrnod. Gwelwyd ers i'r Cydlynnydd DoLS cael ei phenodi yn 2022/2023, bod y broses wedi cael ei hadolygu a chyflwynwyd sawl trefn newydd sydd wedi lleihau y nifer o ôl-gronniad ceisiadau DoLS. Adlewyrchir hyn yn yr ystadegau cwblhau asesiadau DoLS sydd yn ymddangos wedi cynyddu yn y 3 mlynedd diweddaf fel y ganlyn:

Blwyddyn	2023	2024	2025
Cyfanswm Cwblhau ceisiadau/asesiadau	198	203	348

- 5.2 O'r asesiadau a gwiriwyd, ymddengys bod pob un gyda dogfennau wedi'u llwytho yn y ffeiliau electroneg ar WCCIS gydag asesiad gan y Meddyg, yr Aseswyr Budd Gorau ac y gymeradwyaeth.
- 5.3 Er bod cyfartaledd dyddiadau gweithredu yn parhau i fod dros yr amserlen gyfreithlon, gan gynnwys ceisiadau brys, dengys bod canran cwblhau asesiadau wedi cynyddu. Mynegodd y Cydlynnydd ei bod wedi gweithredu ar y ceisiadau ar sail oed ac wedi blaenoriaethu ceisiadau ag ymgeisydd dan 90 oed yn hytrach na defnyddio dyddiad derbyn y cais. Er nad yw'r Gwasanaeth yn cydymffurfio â'r amserlen sydd yn golygu eu bod yn agored i risg o ddirwyon, nid y Cyngor yn unig un sydd yn brwydro gyda'r mater yma, mae'r broblem yn bodoli ar draws y wlad.

Fodd bynnag, mae'r Gwasanaeth yn ymrwymo i reoli'r risg drwy flaenoriaethu'r ymgeiswyr sydd ag oedrannau iau, gan drwy brofiad, credir bod ymgeiswyr oedrannau hŷn (90+ oed) yn debygol o fod yn ymgeisydd dan ofal preswyl am gyfnod estynedig, wedi ail-leoli o'u cartrefi oherwydd rhesymau diogelu neu o bosib heb gartref ac felly ddim yn geisiadau ar frys. Yn ogystal, nodwyd bod ceisiadau gyda pherson perthnasol sy'n cynrychioli (RPRs) drwy asiant/ yn cael ei dalu yn fwy tebygol o gyfeirio'r cais at y llys na rhai sydd ag aelodau o'r teulu/perthynas fel cynrychiolydd.

- 5.4 Oherwydd gohirio dyddiad gweithredu LPS, derbyniwyd nad oedd unrhyw gynlluniau wedi rhoi mewn lle ar gyfer paratoi at weithrediad LPS hyd y bydd dyddiad targed gweithredu wedi ei bennu.
- 5.5 Gwelwyd bod y Cydlynnydd yn atebol i'r Pennaeth Cynorthwyol Diogelu, Sicrwydd Ansawdd, Iechyd Meddwl a Diogelwch Cymunedol ac yn gyfrifol am dderbyn, trefnu, cyfeirio a dosbarthu ceisiadau DoLS a dderbynnir drwy flwch e-bost y Gwasanaeth. Gwelwyd bod y ceisiadau yn cael eu lwytho ar y system WCCIS gan y Cymhorthydd Gweinyddol a'r statws gweithredol yn cael ei ddiweddarau gan y Cydlynnydd. Gwelwyd sawl cam ble mae'r Cydlynnydd gyda rheolaeth gyfan dros y gweithrediad a gwybodaeth. Gyda chyn lleied o staff profiadol ac adnoddau cyfyngedig, mae risg bod gorddibyniaeth ar un swyddog, hyd y bydd yn medru hyfforddi swyddogion newydd i'r rôl. Yn ogystal, ymddengys nad oes llawlyfr staff ar gyfer gweithredu prosesau DoLS mewn lle sydd yn ategu at y risg o orddibyniaeth. Oherwydd yr adnoddau cyfyngedig, mae diffyg yn y rheolaethau megis methiant i weithredu ar wahaniaethau mewn dyletswyddau wrth gymeradwyo anfonebau a gwelwyd enghreifftiau ble mae swyddog wedi paratoi a chymeradwyo taliadau i'w hunain.
- 5.6 Ymddengys o'r sampl a wiriwyd o daliadau a wnaed drwy'r Gwasanaeth Taliadau bod rhai taliadau wedi cael eu talu i staff y Cyngor. Eglurodd y Cydlynnydd mai taliadau am asesiadau budd gorau sydd wedi'u cynnal gan weithwyr cymdeithasol ar ôl eu oriau gwaith yw rhain, yn ogystal â rhai sydd wedi cael eu cynnal gan y Cydlynnydd ei hunan. Nododd y Cydlynnydd bod y drefn wedi cael ei rhoi mewn lle er mwyn iddynt allu clirio'r ôl-groniad DoLS, gyda prinder o aseswyr. Mynegodd y Cydlynnydd ei bod yn gyfrifol am gyfeirio asesiadau i staff a rhagwelir y bydd hynny yn dod i ben ar ôl Mawrth 2026. Yn dilyn penodiadau newydd ar gyfer 2 swyddog Asesydd Budd Gorau a threfniadau hyfforddi mewn lle, rhagwelir na fydd angen talu staff yn ychwanegol i gynnal yr asesiadau tu allan i oriau gwaith. Er hynny, mae rhaid ystyried goblygiadau treth os gwneir taliadau cyffelyb i'r dyfodol.
- 5.8 Cedwir y Cydlynnydd restr o asesiadau sydd wedi cael eu cynnal gan Feddygon ac Aseswyr Budd Gorau, a hefyd os oedd y cais angen caffael gwasanaeth eiriolwr neu gynrychiolydd annibynnol. Felly gwelir bod modd cysoni'r taliadau yn ôl i'r rhestr o asesiadau'r Cydlynnydd. Fodd bynnag, eglurodd y Cydlynnydd nad oes gwiriadau a chysoniadau rheolaidd o'r taliadau yn cael eu cynnal all olygu bod posibilrwydd o daliadau dyblyg cael eu talu heb ymwybyddiaeth staff.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Gwasanaeth DoLS wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Mae'r Gwasanaeth yn parhau gyda'r trefniadau newydd sydd mewn lle a hyfforddi staff er mwyn lleihau'r niferoedd o geisiadau sydd wedi'u ôl-gronni.**
- **Hyfforddi staff i ryddhau rhai o gyfrifoldebau'r Cydlynnydd rhag gor-ddibyniaeth ar un aelod o staff. Yna, mae modd sefydlu rheolaethau gwahaniad mewn dyletswyddau ar gyfer prosesu taliadau a chynnal cysoniadau.**
- **Bod unrhyw daliadau ar asesiadau gan staff yn ddarostyngedig i dreth.**

FFLYD – DEFNYDD TANWYDD**1. Cefndir**

- 1.1 Mae fflyd y Cyngor yn cynorthwyo gwahanol adrannau i ddarparu ystod eang o wasanaethau i bobl Gwynedd, gan gynnwys casglu gwastraff a chynnal priffyrdd, ac fe arweinir hyn drwy'r Gwasanaeth Fflyd. Mae'r fflyd yn cynnwys ceir trydan, tanwydd ffosil, faniau, bysus mini a loriau casglu gwastraff.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod fflyd cerbydau'r Cyngor yn ddiogel a bod y defnydd a wneir ohonynt yn effeithiol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio'r systemau sydd mewn lle, yr adroddiadau monitro a'r allbynnau a gynhyrchir, gwirio polisïau â chydymffurfiad, trefniadau tendro, a bod trefniadau trwyddedu, archwiliadau diogelwch ac yswiriant yn briodol ynghyd â sicrhau bod trefniadau addas dros reoli tanwydd.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	6
CANOLIG	1
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Mae'r gwasanaeth Fflyd yn dibynnu ar ddwy brif system ar gyfer rheoli cerbydau, ynghyd â dwy system ar wahân i fonitro a rheoli'r defnydd o danwydd. Ar adeg yr archwiliad, darganfuwyd bod y system tracio fflyd yn y broses o gael ei datblygu ymhellach er mwyn integreiddio unedau tracio newydd fydd yn cael eu gosod ar y cerbydau yn y dyfodol agos. Mae bwriad i'r system newydd gael ei integreiddio gyda systemau eraill, er mwyn darparu darlun mwy cynhwysfawr o weithrediadau'r fflyd.

- 5.2 Gwelwyd bod y system tracio cerbydau fflyd yn anfon e-byst awtomatig at reolwyr sydd ar y system i'w hysbysu pan fo gweithwyr yn goryrru. Wrth adolygu'r adroddiad o'r system ar gyfer y cyfnod rhwng 19 Hydref 2025 a 19 Ionawr 2026, gwelwyd oddeutu 1,000 o achosion ble roedd gyrwyr wedi teithio 60% neu fwy dros y terfyn cyflymder. Gwelwyd bod rhai unigolion yn ymddangos sawl gwaith, ond darganfuwyd bod y system yn dangos camgymeriadau o bryd i'w gilydd, sy'n cyfyngu ar ei ddibynadwyedd. Holwyd y Rheolwr Fflyd ynghylch defnydd yr adroddiadau hyn, ac eglurodd mai cyfrifoldeb y rheolwyr gwasanaeth yw trafod y materion hyn gyda'u gweithwyr, ac nid oes unrhyw sicrwydd bod camau dilynol yn cael eu cymryd nac unrhyw ddefnydd ymarferol yn cael ei wneud o'r wybodaeth. Eglurodd bod bwriad i gael proffil unigol ar gyfer pob gyrrwr yn y dyfodol, gan gynnwys sgôr risg a chofnod o unrhyw droseddau. Bydd hyn yn galluogi'r gwasanaeth i adnabod gyrwyr sydd angen ymyrraeth, hyfforddiant neu gefnogaeth bellach.
- 5.3 Nid oes unrhyw adroddiadau eraill, heblaw am achosion o oryrru, yn cael eu creu o'r system. O ganlyniad, ac oni bai bod monitro unigol yn cael ei gynnal ar bob gyrrwr, mae'n amhosib cadarnhau os yw gyrrwr wedi bod yn gyrru am oriau rhy hir, neu bod defnydd personol y tu allan i'r gwaith ayb.
- 5.4 Cadarnhaodd y Rheolwr Fflyd nid yw'n bosib diffodd yr unedau tracio yn y cerbydau, ond bod nifer o'r unedau tracio wedi torri. Gwiriwyd y system tracio fflyd ac ymddengys bod o leiaf 88 cerbyd heb eu tracio ers 2023 neu'n gynharach, sy'n awgrymu bod y rhain yn annhebygol o fod yn weithredol.
- 5.5 Mae wedi ei nodi yn un o bolisiâu'r Fflyd; "Mae gweithiwr sy'n gyrru ar fusnes y Cyngor yn gyfrifol am ddefnyddio cerdyn adnabod bob amser wrth ddefnyddio un o gerbydau Cyngor Gwynedd a chyflwyno eu trwydded yrru yn ôl y gofyn." Gwiriwyd y system tracio fflyd ar gyfer wythnos gyntaf Chwefror 2026, a gwelwyd bod dros 150 o achosion ble nad oes cerdyn adnabod wedi ei ddefnyddio.
- 5.6 Mae sawl polisi ar gael yn ymwneud â'r cerbydau fflyd, megis 'Gyrrwr Diogel', 'Cerbyd Diogel', 'Taith Diogel', 'Llenwi Cerbydau', a'r 'Polisi Fflyd a Risg Ffyrdd Galwedigaethol'. Mae cyfrifoldeb ar y Rheolwyr gwasanaethau i sicrhau bod staff yn eu darllen, ond nid oes sicrwydd bod hyn yn digwydd. Eglurodd y Rheolwr Fflyd bod bwriad rhoi'r polisiâu hyn mewn teilsen ar y fewnrwyd er mwyn i staff gael mynediad haws atynt.
- 5.7 Gwiriwyd sampl o 10 cerbyd oddi ar y system asedau fflyd, a gwelwyd bod pob un wedi derbyn archwiliad diogelwch o fewn y flwyddyn, a gyda phrawf MOT cyfredol.
- 5.8 Gwiriwyd y drefn ar gyfer rhoi tanwydd o gyflenwad y Cyngor mewn cerbydau, a darganfuwyd bod pob cerbyd gyda tag tanwydd unigol. Mae angen i'r gyrwyr gyflwyno'r tag i'r synhwyrdd ar y system tanwydd a rhoi darlleniad odomedr cyfredol i mewn. Cadarnhaodd y Rheolwr Fflyd bod y system tanwydd 'Jigsaw' yn gwirio ac yn adnabod bod y darlleniad yn gywir gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd wedi ei storio ers y tro diwethaf i'r cerbyd gael ei lenwi. Mae'r rheolaeth hyn yn atal gyrwyr rhag tanddatgan yn fwriadol, ond gweler rhai achosion ble mae camgymeriadau anfwriadol yn cael eu gwneud ac mae'n rhaid cysylltu gyda'r adran Fflyd i'w datrys.

- 5.9 Mae'r system tanwydd 'AllStar' yn cael ei defnyddio ar gyfer staff sy'n defnyddio cyflenwad tanwydd allanol. Mewn achosion o'r fath, rhaid defnyddio cerdyn banc sy'n gysylltiedig â'r cerbyd i lenwi tanwydd, gan dalu gyda PIN unigryw. Mae modd i'r gyrwyr roi unrhyw faint o danwydd i mewn. Mae adroddiadau yn cael eu hanfon yn syth at yr adran Gyllid, ac mae gwiriadau yn ôl-weithredol ym mhob achos. Cadarnhaodd y Rheolwr Fflyd ei fod yn cymeradwyo'r ceisiadau a wneir drwy'r cardiau banc, ond mae'r gwasanaeth Fflyd yn bwriadu uno'r system yma gyda'r system 'Jigsaw' er mwyn sicrhau proses fwy cyson, a gallu codi unrhyw faterion yn awtomatig.
- 5.10 Gwiriwyd sampl o 5 taith/cerbyd er mwyn gwirio'r milltiroedd cofnodedig a thanwydd a dynnwyd. Nid oedd unrhyw gofnodion ar gael yn y system tanwydd ar gyfer 1/5, ond fe wiriwyd y 4 arall.
- 5.11 Mae'r Cyngor wedi dechrau defnyddio cwmni allanol DAVIS er mwyn cynnal gwiriadau cyfnodol ar drwyddedau gyrwyr. Ymddengys mai dim ond yr adran Priffyrdd, Peirianeg a YGC, ynghyd â rhannau o'r adran Amgylchedd yn unig sydd wedi dechrau gweithredu'r trefniadau newydd hyn, oherwydd elfennau risg uwch yn erbyn defnydd o gerbydau trwm, ond y gobaith yw bydd pob adran yn mabwysiadu'r drefn yma yn y dyfodol agos.
- 5.12 Ymddengys nad oes unrhyw drefn dros reoli a monitro cerbydau trydan. O ganlyniad, mae'r trefniadau presennol yn dioddef o gyfrifoldebau aneglur, diffyg goruchwyliaeth ac atebolrwydd clir. Mae gwybodaeth ar y gwefru ar gael ar y system Swarco, ond nid oes unrhyw swyddog yn monitro'r wybodaeth. Nid oes unrhyw negeseuon ar y system, a nid oes unedau tracio wedi'u gosod ar y cerbydau trydan ar hyn o bryd, ond bod y rhain wrthi'n cael eu datblygu gan y gwasanaeth TG ynghyd â'r unedau tracio newydd. Nid oedd rhestr gyfredol o holl bwyntiau gwefru ar gael ar gyfer y Cyngor cyfan, ac mae'n ymddangos bod nifer o bwyntiau gwefru mewn ysgolion heb gael eu cysylltu ac felly ddim yn cael eu defnyddio.
- 5.13 Nid oes hawl i wneud unrhyw ddefnydd personol o gerbydau fflyd y Cyngor. Fodd bynnag, mae rhai swyddogion yn mynd â'r cerbydau adref, yn ddibynol ar ofynion eu swyddi. Mae cyfrifoldeb ar y rheolwyr i fonitro defnydd o'r cerbydau, ac oherwydd y diffyg monitro presennol, mae risg y gall rhai defnyddwyr wneud defnydd personol o'r cerbydau.
- 5.14 Mae nifer o gerbydau fflyd y Cyngor wedi'u neilltuo yn anffurfiol i adrannau penodol. Fodd bynnag, nid yw pob cerbyd yn cael ei ddefnyddio pob dydd, ac yn aml y gwelir ceir yn sefyll heb eu defnyddio. O ganlyniad i hyn, pan fydd aelod o staff o adran arall yn gwneud cais am gerbyd, mae'n rhaid i'r Rheolwr Fflyd hurio cerbyd ar eu cyfer, er bod cerbydau eraill ar gael ond heb eu defnyddio. Gall hyn arwain at gostau ychwanegol diangen i'r Cyngor. Mae'r Rheolwr Fflyd wedi paratoi dogfen ar fodel newydd i fonitro lefelau defnydd pob cerbyd er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau wir angen y cerbydau, ond nid oes trafodaeth ymhellach wedi bod gydag Uwch Swyddogion hyd yma.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Gwasanaeth Fflyd wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Sefydlu system tracio cerbydau newydd (yn cynnwys platfform ac unedau newydd), a'i gynnwys fel rhan o System Rheolaeth Fflyd y Cyngor. Diweddaru cynlluniau gofal yn rheolaidd i osgoi gwybodaeth yn cael ei golli.**
- **Sicrhau fod trefniadau adnabod gyrwyr yn cael ei gyfarch wrth uwchraddio'r system tracio a gosod cyfarpar newydd.**
- **Sefydlu trefniadau monitro cadarn ar gyfer adroddiadau goryrru, a sefydlu canllawiau i reolwyr.**
- **Cyhoeddi teilsen newydd ar fewnrwyd y Cyngor sydd yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau'r Gwasanaeth Fflyd.**
- **Adnabod pwy sydd yn gyfrifol am y systemau gwefru cerbydau drwy sefydlu perchnogaeth a chyfrifoldebau clir ynghyd â datblygu'r systemau tracio i gynnwys y cerbydau trydan.**
- **Adolygu a thrafod modelau ariannu cerbydau'r Cyngor a gosod lefelau defnydd disgwylidig.**

DILYNIANT GORAMSER GLANHAU STRYD**1. Cefndir**

- 1.1 Cynhaliwyd Archwiliad Mewnol Goramser Glanhau Stryd fel rhan o gynllun 2024/25, er mwyn sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer gweinyddu amserlen gwaith glanhau strydoedd a gwagio biniau stryd yng Ngwynedd, yn ogystal â gwirio trefniadau prosesu a dilysu ceisiadau am oramser. Rhoddwyd lefel sicrwydd cyfyngedig i'r archwiliad, hynny yw, er bod rheolaethau mewn lle, roedd angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod y gweithrediadau cytunedig yn deillio o'r archwiliad llawn ddiweddaraf wedi eu gweithredu yn amserol i liniaru'r risgiau a adnabuwyd. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio cofnodion a dogfennaeth gefnogol.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	4
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 O'r 14 gweithrediad a gytunwyd o'r archwiliad gwreiddiol, gwelwyd fod 9 wedi eu gweithredu, adroddir y casgliadau isod. O ganlyniad, cyflwynwyd cynllun gweithredu cytunedig diwygiedig. Nodir fod Rheolwr Gwasanaethau Stryd wedi ymddeol ers yr archwiliad llawn, gyda Rheolwr TCC ac Edrychiad Stryd wedi cymryd drosodd ei ddyletswyddau.

- 5.2 Adroddwyd fod y gwasanaeth yn siomedig iawn gyda system newydd 'Bartec'. Darganfuwyd rhai misoedd yn ôl, cyn i'r system fod yn weithredol, na fyddai'n cyrraedd eu gofynion o ran optimeiddio gweithrediadau. Cadarnhawyd eu bod yn asesu gwahanol opsiynau i gyd-fynd orau â gofynion y gwasanaeth. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd eu gwaith gyda 'Bartec' yn wastraff llwyr, a bod map rhyngweithiol yn nodi holl asedau'r gwasanaeth nawr yn eu meddiant.
- 5.3 Gwiriwyd amserlenni gwaith gweithwyr o bob ardal am y cyfnod Mehefin 16eg 2025, hyd at 31ain o Orffennaf 2025, sef cyfnod tebyg i'r hyn wiriwyd yn yr archwiliad llawn. Gwelwyd fod gweithwyr yn ardal Meirionnydd yn parhau i gychwyn gweithio cyn 5:00 y.b, sydd yn groes i ofynion lechyd a Diogelwch, gyda rhai yn cychwyn mor gynnar â 3:00 y.b. Cadarnhaodd Rheolwr TCC ac Edrychiad Stryd ei fod wedi atgoffa'r gweithlu i beidio â gwneud hyn ar lafar mis Hydref 2025, ac eto yn ysgrifenedig yn ystod cyfnod y Nadolig.
- 5.3 Yn yr un modd, gwelwyd sawl achlysur ar draws yr ardaloedd o aelodau staff yn peidio â chadarnhau amseroedd cychwyn a gorffen, gyda nifer o geisiadau heb eu cymeradwyo. Gwelwyd hefyd nad oes gwahaniaethu dyletswyddau wrth gymeradwyo ceisiadau Arweinydd Tîm yng Nghaernarfon, ble fod llofnod yr aelod staff a'r cymeradwywr union yr un fath. Wrth wirio slip cyflog yr Arweinydd Tîm dan sylw am fis Gorffennaf 2025, gwelwyd fod goramser wedi ei dalu ar gyfraddau cyflog gwahanol, fel y disgwyl, gydag unrhyw waith glanhau yn cael ei dalu ar raddfa 'Glanhawr' nid 'Arweinydd Tîm'.
- 5.4 Cytunwyd yn yr archwiliad llawn i dreialu newid amllder glanhau rhai ardaloedd fel i leihau'r galw am oramser. Eglurwyd fod hyn wedi digwydd yn Nwyfor, Bangor, a Meirionnydd, ond nad oedd yn llwyddiant, gyda sbwriel wedi casglu, a thrigolion wedi cwyno, felly rhaid roedd dychwelwyd i'r drefn arferol. Serch hynny, cadarnhaodd Rheolwr TCC ac Edrychiad Stryd fod trefniadau amgen ar y gweill.
- 5.5 Er wedi llwyddo i brynu ail lori ar gyfer casglu gwastraff i waredu ar sifftiau 12 awr, eglurwyd nad ydi cyllidebau'r gwasanaeth wedi caniatáu i brynu cerbyd fydd yn gallu gwahanu gwastraff ailgylchu. I osgoi gwaethygu'r broblem, nodwyd nad ydi'r gwasanaeth yn gosod rhagor o finiau ailgylchu ar strydoedd Gwynedd.
- 5.6 Adroddwyd fod gan y gwasanaeth Gyfrifydd Grŵp pellach, a'u bod yn cyfarfod, ac yn derbyn adroddiadau yn fisol. Gwelwyd fod y gwasanaeth wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais i gynyddu'r gyllideb staffio i gynnwys aelodau staff nad oeddent wedi eu hystyried yn y gyllideb ar adeg yr archwiliad llawn.
- 5.7 O'i gymharu â 2024/25, gwelwyd fod gwariant ar oramser yn 2025/26 yn ardal Arfon wedi lleihau £16,305, Meirionnydd £20,067, a Dwyfor £16,461, gyda gorwariant ar staff 2025/26 wedi ei rhagdybio i fod oddeutu £88,558 o'i gymharu â gorwariant o £275,305 yn 2024/25.

- 5.8 Er bod peth gwaith i'w wneud i bwrcasu system effeithiol, ac i dynhau trefniadau monitro ceisiadau am oramser, tybir fod y gwasanaeth wedi bod yn llwyddiannus yn eu hymdrechion i leihau gwariant ar oramser heb amharu ar ansawdd y gwaith.

6. **Camau Gweithredu**

Mae'r swyddogion perthnasol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Sicrhau bod y Gwasanaeth yn gweithredu ar system tracio weithredol, gan greu adroddiadau monitro rheolaidd ar gyfer dadansoddi data a gwirio eu priodoldeb o ran gweithio'n effeithiol ac effeithlon.**
- **Sefydlu trefniadau i fonitro nad ydi staff yn cychwyn gweithio cyn 5:00 y.b.**
- **Fod unrhyw geisiadau goramser yn cael eu gwirio am gywirdeb, a'u cymeradwyo yn briodol.**
- **Ystyried opsiynau amgen i alluogi prynu cerbyd fydd yn caniatáu gwahanu gwastraff ailgylchu.**

DILYNIANT - RHEOLAETH CATEGORI AMGYLCHEDDOL**1. Cefndir**

- 1.1 Cynhaliwyd Archwiliad Mewnol Rheolaeth Categori Amgylcheddol fel rhan o gynllun 2024/25, er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gwario arian cyhoeddus mewn modd strategol a chywir. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu cynnal adolygiad ar sampl o gytundebau er mwyn gwirio datblygiad y Cyngor o gynlluniau categori amgylcheddol a gwirio bod y Tîm Categori yn blaenoriaethu gwerth am arian a chadw'r budd yn lleol.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod y gweithrediadau cytunedig yn deillio o'r archwiliad llawn ddiweddaraf wedi eu gweithredu yn amserol i liniaru'r risgiau. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio cofnodion neu ddogfennaeth gefnogol.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	1
CANOLIG	1
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Cytunwyd ar 4 cam gweithredu yn yr archwiliad gwreiddiol ym mis Ebrill 2025, un gyda sgôr risg o 6, dau gyda sgôr risg o 12, ac un arall gyda sgôr risg o 9. Gwelwyd bod y camau wedi cael eu gweithredu yn rhannol ac adroddir ar y casgliadau isod, ond mae gwaith parhaus mewn lle i ddatblygu systemau er mwyn blaenoriaethu gwerth am arian a chadw'r budd yn lleol. O ganlyniad, cyflwynwyd cynllun gweithredu cytunedig diwygiedig.

- 5.2 Gwelwyd o'r archwiliad mewnol gwreiddiol mai un o'r risgiau i'w lliniaru oedd methiant i gynnal a chadw rhestr o holl contractau yn briodol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn sylw yn brydlon. Roedd y gwasanaeth yn bwriadu trosglwyddo holl gytundebau i'r system K2 fel bod modd monitro statws y cytundebau, gan gynnwys adnabod pryd mae dogfennau perthnasol angen eu hadnewyddu. Fodd bynnag, nid yw'r system K2 wedi cael ei ddatblygu yn llawn ar hyn o bryd, a'r Adran Priffyrdd, Peirianeg a YGC yw'r unig rai sy'n ei ddefnyddio. Nid yw'n edrych yn debygol bod posibil dechrau datblygu'r system K2 i adrannau eraill am rai misoedd eto, oherwydd llwyth gwaith yr adran. O ganlyniad i hyn, penderfynodd y Tîm Rheolaeth Categori Amgylcheddol i ddechrau treialu system PowerApp i fonitro achrediadau cwmnïau sydd mewn cytundeb ac yr is-contractwyr er mwyn sicrhau bod manylion y cwmnïoedd yn gyfredol am y cyfnod. Mae bwriad i gael y system PowerApp yn fyw erbyn mis Ebrill 2026.
- 5.3 Hyd yma, mae'r Tîm Rheolaeth Categori Amgylcheddol wedi trosglwyddo rhestr o isgontractwyr i'r system PowerApp, ynghyd â'r fframwaith Trin Coed fel man cychwyn. Mae gwaith pellach i'w gyflawni i ddatblygu'r system yn llawn a bydd angen amser sylweddol i fewnbynnu'r holl wybodaeth a'r cytundebau perthnasol. Unwaith wedi'i gwblhau, gellir gweld manylion cyswllt cwmnïau, statws cytundebau, achrediadau, dyddiadau cychwyn a gorffen, cofnodion o fuddion cymdeithasol, yswiriant neu unrhyw ddogfennau hanfodol sydd angen eu hadnewyddu. Bydd y system yn fflagio dogfennau sydd wedi terfynu ac yn anfon hysbysiadau e-bost awtomatig i'r cwmnïau. Bwriedir sefydlu teilsen ar gyfer pob contract ar y system PowerApp, a'u rhannu gyda'r adrannau perthnasol unwaith y bydd y system wedi'i gweithredu'n llawn.
- 5.4 Yn ystod yr archwiliad gwreiddiol, bwriad y Tîm Rheolaeth Categori Amgylcheddol oedd trosglwyddo'r holl drefniadau i'r system K2. Fodd bynnag, erbyn hyn, mae'n ymddangos nad yw'r system K2 yn addas ar gyfer pob fframwaith a chytundebau'r holl adrannau. Er bod yr Adran Priffyrdd, Peirianeg a YGC yn defnyddio'r system K2 ar hyn o bryd, mae'r system yn gofyn am drwydded unigol i'w defnyddio, gall greu rhwystrau i reolwyr mewn adrannau eraill, ond mae modd rhannu'r system PowerApp gyda'r holl staff heb yr un cyfyngiad.
- 5.5 Risg arall a godwyd yn yr archwiliad gwreiddiol oedd posibilrwydd o fethu cydymffurfio â'r Ddeddf Caffael 2023 newydd ddaeth i rym ym mis Chwefror 2025. Cyflwynodd y Ddeddf nifer o ofynion i'w hymgorffori yn y prosesau, ynghyd â hyfforddiant mandadol i staff. Gwiriwyd statws hyfforddiant aelodau'r Tîm Rheolaeth Categori Amgylcheddol, a derbyniwyd tystiolaeth bod un aelod o staff wedi cwblhau'r cwrs 'Transforming Public Procurement' gan y Llywodraeth, ac un swyddog yn gweithio trwy'r modiwlau. Nid oedd un aelod o staff wedi cychwyn ar yr hyfforddiant hyd oherwydd absenoldeb, ond mae bwriad iddi gychwyn ar yr hyfforddiant ym Mawrth 2026. Yn ogystal, mae'r Rheolwr Tîm Categori wedi trefnu i'r tîm Categori Amgylcheddol fynychu hyfforddiant pellach (Pass Procurement) unwaith y bydd dyddiad ar gael.

- 5.6 Yn dilyn cais gan yr Adran Priffyrdd, Peirianeg a YGC, cafodd sesiwn hyfforddiant ei gynnal ar 17eg o Orffennaf 2025 i Dîm Rheoli'r Adran. Gwelwyd tystiolaeth bod y sesiwn yn rhoi gwybodaeth am reolau a threfniadau caffael y Cyngor, er mwyn sicrhau bod gan bawb yr un ddealltwriaeth sylfaenol o gaffael. Yn ogystal, amlygodd y sesiwn y newidiadau a gyflwynwyd gan y Ddeddf Caffael, gan sicrhau bod aelodau staff yn ymwybodol o'r trefniadau newydd sydd bellach mewn grym. Cadarnhaodd y Gwasanaeth Caffael eu bod yn barod i ddarparu'r hyfforddiant i unrhyw dîm sydd ei angen, ac mae'r Adran Priffyrdd, Peirianeg a YGC wedi gofyn am sesiynau pellach. Mae'r Gwasanaeth Caffael wrthi'n datblygu cyflwyniad ar gyfer timau Priffyrdd a Pheirianeg, gyda'r bwriad i gynnal y sesiynau yn fuan. Mae YGC hefyd wedi gwneud cais am gyflwyniad pellach, ac mae sesiwn eisoes wedi'i ddarparu dechrau mis Chwefror.
- 5.8 Mae hyfforddiant corfforaethol hefyd ar y gweill, gan gynnwys yr hyfforddiant 'Caffael a Chontractio' sydd ar Fframwaith Dysgu a Datblygu'r Cyngor. Cadarnhaodd y Gwasanaeth Caffael bydd ymgynghoriad gyda'r timau Categori yn cael eu cynnal cyn y sesiwn, fel eu bod yn ymwybodol a chyfarwydd â'r cynnwys ac yn gallu darparu sylwadau a mewnbwn perthnasol ar y cynnwys. Yn ogystal, mae hyfforddiant 'Gwerth Cymdeithasol a Chynaliadwyedd' yn cael ei ddarparu i swyddogion caffael, ac mae'r Tîm Rheolaeth Categori eisoes wedi mynychu un o'r sesiynau. Bwriad y Gwasanaeth Caffael yw datblygu mwy o hyfforddiant yn y dyfodol er mwyn cryfhau dealltwriaeth a sgiliau caffael ar draws y Cyngor.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Tîm Rheolaeth Categori Amgylcheddol a'r Uned Gaffael wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- Dadansoddi gwariant i gael darlun llawn o gontractau i bwrpas y rhaglen waith gyflawn.
- Parhau i ddatblygu'r systemau PowerApp a K2 fel eu bod yn gwbl weithredol, a chytuno pa gytundebau sy'n fwyaf addas ar gyfer pob system cyn trosglwyddo'r holl gytundebau ac ymarferiadau monitro.
- Trefnu bod pob aelod o staff Tîm Rheolaeth Categori yn derbyn a chwblhau hyfforddiant e-modiwlau y Llywodraeth 'Diwygio Caffael' yn brydlon.
- Parhau i ddatblygu mwy o hyfforddiant yn y dyfodol er mwyn gwella dealltwriaeth a sgiliau caffael ar draws y Cyngor.
- Cynnal gwiriadau ar hap o sampl o gontractau i sicrhau bod gweithdrefnau cywir wedi eu dilyn a darparu cywiriadau/gweithrediad ble'n berthnasol.

AMLOSGFA BANGOR**1. Cefndir**

- 1.1 Mae Amlogsgfa Bangor yn gweithio gyda threfnwyr angladdau i ddarparu gwasanaeth proffesiynol ar gyfer teuluoedd yn ystod cyfnod anodd. Fel yr unig amlogsgfa yng Ngwynedd, mae ar agor pob dydd Llun i Gwener, ac ar fore Sadwrn ar gais.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer rheoli a chynnal Amlogsgfa Bangor yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu ymweld â'r amlogsgfa a gwirio fod trefniadau yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, derbyn incwm, ac iechyd a diogelwch.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.

4. Sgôr Risg Cyfredol

- 4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

<u>Lefel Risg</u>	<u>Nifer</u>
UCHEL IAWN	0
UCHEL	0
CANOLIG	3
ISEL	0

5. Prif Ddarganfyddiadau

- 5.1 Ymwelwyd â'r amlogsgfa ar ddydd Iau, 5ed o Chwefror, 2026, ym mhresenoldeb yr Arweinydd Tîm Amlogsgfa. Roedd y sefydliad wedi'i gyflwyno'n dda a'r staff yn gyfeillgar a chymwynasgar. Roedd yr ystafell amlogsi yn cael ei hadnewyddu, gyda 2 amlogsydd newydd wedi eu gosod a swyddfa newydd yn cael ei chreu. Fel y disgwyliwyd roedd yr ardal braidd yn llychlyd, ond ni effeithiodd hyn ar weithrediadau'r amlogsgfa, gyda'r amlogsfeydd, offer a theclynnau, a'r manau paratoi yn lân ac yn drefnus.

- 5.2 Gwelwyd nad oedd Llyfr Ymwelwyr yr amlogsgfa wedi ei leoli wrth y brif fynedfa, ond yn hytrach yn y gegin/'stafell staff, wedi ei leoli yng nghefn yr adeilad. Ar gyfer cael mynediad, rhaid mewnbynnu côd wrth y drws, gyda phob aelod staff yn ymwybodol ohono. Nodir fod y drws hwn yn caniatáu mynediad hefyd i'r ystafell amlosgi. Ar fore'r ymweliad gwelwyd nad oedd y drws wedi ei gloi, a'i fod yn bosibl i unrhyw un gael mynediad. Eglurwyd fod y drws wedi ei gadw ar agor i ganiatáu mynediad i'r contractwyr sydd yn gweithio yn yr ystafell amlosgi. Cadarnhawyd y byddai'r drws yn cael ei gloi cyn gwasanaeth cyntaf y dydd, pan fyddai'r cyhoedd ar y safle. Gwelwyd fod y drws wedi ei gloi erbyn y gwasanaeth cyntaf. O ran y Llyfr Ymwelwyr, er bod sawl ymwelydd wedi ei lofnodi yn y mis diwethaf, ni welwyd fod y contractwyr sy'n gweithio ar y safle yn gwneud. Gwelwyd o leiaf 3 gweithiwr yn ystod yr ymweliad. Awgrymwyd fod yr Arweinydd Tîm Amlogsgfa yn gofyn i'r contractwyr lofnodi'r llyfr o hyn ymlaen, gan ystyried ei symud yn agosach i'r brif fynedfa - cytunwyd i'w leoli yn y swyddfa ger y brif fynedfa.
- 5.3 Gwiriwyd cofnodion hyfforddiant pob aelod o staff yr amlogsgfa ar System Swyddi Gwynedd cyn yr ymweliad. Ymddengys nad oedd unrhyw un wedi cwblhau hyfforddiant tân yn y 5 mlynedd diwethaf, ac mai ond yr Arweinydd Tîm Amlogsgfa sydd gyda hyfforddiant Cymorth Cyntaf cyfredol. Gwelwyd tystysgrifau yn ystod yr ymweliad yn cadarnhau fod pawb wedi cwblhau hyfforddiant tân yn Tachwedd 2025, a bod y Cymhorthydd Gweinyddol wedi cwblhau hyfforddiant Cymorth Cyntaf yn ddiweddar. Eglurodd yr Arweinydd Tîm Amlogsgfa fod aelodau staff wedi cael trafferthion yn y gorffennol ble nad oedd cofnodion hyfforddiant, slipiau cyflog a.y.b. yn diweddarau ar systemau Cyngor Gwynedd.
- 5.4 Ond dwy o aelodau staff yr amlogsgfa sydd wedi cwblhau y rhan fwyaf o fodiwlau E-ddysgu mandadol y Cyngor, gyda neb wedi derbyn y polisi Diogelu. Eglurwyd nad oes gan y Technegwyr na'r Gofalwr gyfrif e-bost i gael mynediad i'r Porth E-ddysgu na'r Ganolfan Bolisi, ond bydd rhaid trefnu hynny yn y dyfodol agos i allu gweithredu'r amlogsfeydd newydd. O ran gweddill y staff, cadarnhaodd yr Arweinydd Tîm Amlogsgfa y byddai'n trefnu iddynt gwblhau'r modiwlau a derbyn polisïau cyn gynted â phosibl. Erbyn rhyddhau'r Adroddiad Terfynol, gwelwyd fod y Technegwyr oll wedi derbyn cyfrif e-bost.
- 5.5 Gwelwyd nad oes gan yr amlogsgfa Gynllun Rheoli Tân, ac nad ydi profion ar y larwm na diffoddwyr tân yn cael eu cynnal yn amserol ar bob achlysur. Roedd yr Arweinydd Tîm Amlogsgfa wedi synnu nad oedd Cynllun Rheoli Tân yn bresennol yn y bocs glas. Fodd bynnag, eglurwyd y byddai'n rhaid adolygu'r cynllun yn fuan yn dilyn cwblhau'r gwaith adeiladol. Yn dilyn rhyddhau'r Adroddiad Drafft gwelwyd tystiolaeth fod Rheolwr Asedau Bwrdeistrefol wedi rhannu'r cynllun cyfredol gyda'r gwasanaeth Eiddo ar gyfer ei adolygu ers Gorffennaf 2025, ond na dderbyniwyd ymateb. Tybir ar y pryd fod y gwasanaeth Eiddo wedi adolygu'r cynllun, gan roi copi yn y bocs glas, hyd y darganfu'r Archwiliwr nad oedd yn bresennol.

Cadarnhawyd fod Rheolwr Asedau Bwrdeistrefol wedi cysylltu gyda'r gwasanaeth Eiddo eto yn dilyn yr archwiliad i ofyn am ddiweddariad, ac yn y cyfamser, wedi trefnu i argraffu copi o'r cynllun ar gyfer y bocs glas.

- 5.6 Cyn yr ymweliad, detholwyd sampl o 10 o drafodion incwm yr amlogsgfa rhwng y cyfnod Ebrill-Rhagfyr 2025. Diystyriwyd 1 gan mai taliad yn ymwneud â'r fynwent ydoedd, ac nid yn gysylltiedig ag amloggiad penodol. Gwiriwyd cywirdeb yr holl waith papur perthnasol, yn fewnol ac yn statudol, o ddechrau'r broses i'r diwedd, h.y. o dderbyn archeb gan y trefnwyr angladdau, i dderbyn taliad a chasglu llwch (lle bo'n berthnasol). Fel y disgwylir, mae nifer o ffurflenni i'w llenwi, tystiolaeth sydd ei angen, datganiadau i'w llofnodi, awdurdodiadau angenrheidiol, a chadw cofnodion manwl yn gysylltiedig. Ar wahân i fethiant i gadarnhau ffioedd amlosgi ar un ffurflen (tybir sy'n dderbyniol o ystyried fod y wybodaeth wedi ei ailadrodd ar sawl dogfen arall), gwelwyd bod staff yr amlogsgfa yn ddiwyd, yn drylwyr, ac yn cymryd balchder sylweddol yn eu gwaith. Roedd pob amloggiad mewn perthynas â'r sampl wedi'i ddogfennu'n dda, gyda'r holl waith papur perthnasol wedi'i gadw gyda'i gilydd. Roedd yr holl ddogfennaeth wedi dod i law o fewn dau ddiwrnod i'r amloggiad, fel y disgwyl, gyda'r amloggiad ei hun wedi digwydd ar bob achlysur ar ddiwrnod y gwasanaeth, a thaliad wedi'i wneud, a'r llwch wedi'i gasglu o fewn amserlen resymol. Ar sawl achlysur yn ystod yr ymweliad byddai staff yn sgwrsio â'r trefnwyr angladdau dros y ffôn ac wyneb yn wyneb. Ar bob achlysur roedd y sgwrs yn barchus, ond hefyd yn gyfeillgar, yn dyst i'r berthynas waith agos a ddatblygwyd dros y blynnyddoedd.

6. Camau Gweithredu

Mae'r Arweinydd Tîm Amlogsgfa wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- Sicrhau fod unrhyw ddrysau sy'n arwain at leoliadau cyfyngedig, e.e. yr ystafell amlosgi, wedi eu cloi yn dynn ar bob achlysur.
- Adleoli'r Llyfr Ymwelwyr yn agosach i'r brif fynedfa, gan sicrhau fod pob ymwelydd, gan gynnwys contractwyr, yn arwyddo mewn ac allan.
- Atgoffa staff i gwblhau modiwlau E-ddysgu mandadol y Cyngor ac i dderbyn polisïau, gan drefnu cyfeiriadau e-byst ar gyfer unrhyw staff sydd eu hangen.
- Gwneud ymholiadau ynglŷn â pham nad ydi hyfforddiant staff yr amlogsgfa yn cael ei gofnodi ar System Swyddi Gwynedd ar bob achlysur.
- Sicrhau, yn dilyn cwblhau'r adnewyddiadau, fod Cynllun Rheoli Tân newydd yn cael ei lunio, a'i gadw yn y bocs glas.
- Trefnu fod profion tân yn cael eu cynnal yn amserol ar achlysuron pan fo'r person cyfrifol yn absennol o'r gwaith.

PWYLLGOR	PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
DYDDIAD	21 MAI 2026
TEITL	ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 2025/2026
PWRPAS YR ADRODDIAD	CASGLIAD Y PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL AR YR AMGYLCHEDD REOLAETHOL GYFFREDINOL O FEWN YR AWDURDOD
AWDUR	LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO
GWEITHREDIAD	DERBYN YR ADRODDIAD

1. BWRIAD ARCHWILIO MEWNOL

1.1 Pwrpas y gwasanaeth Archwilio Mewnol yw:

Rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae Archwilio Mewnol yn cryfhau gallu'r sefydliad i greu, amddiffyn, gwarchod a chynnal gwerth drwy ddarparu sicrwydd gwrthrychol, annibynnol yn seiliedig ar risg, cyngor, mewnwelediad a rhagwelediad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

2. SAFONAU ARCHWILIO MEWNOL BYD-EANG A'R NODYN GWEITHREDU: SAFONAU ARCHWILIO MEWNOL BYD-EANG YN SECTOR GYHOEDDUS Y DU

2.1 Mae Nodyn Gweithredu, adran 10B, Casgliadau cyffredinol ac adrodd blynyddol yn nodi *"Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS¹) 11.3 (Cyfathrebu Canlyniadau) yn cyfeirio at y posibilrwydd y gallai fod yn ofynnol i'r prif weithredwr archwilio ddod i gasgliad ar lefel y sefydliad ynghylch effeithiolrwydd llywodraethu, rheoli risg a neu/reolaeth. Yn y sector gyhoedd yn y DU, rhaid i brif weithredwr archwilio baratoi casgliad cyffredinol o'r fath o leiaf yn flynyddol i gefnogi adroddiadau llywodraethu ehangach, gan ystyried unrhyw rwymedigaethau neu brosesu o fewn y sector benodol. Rhaid i'r casgliad cyffredinol hwn gynnwys materion llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol."*

¹ Global Internal Audit Standards

- 2.2 Pwrpas yr adroddiad yma yw darparu casgliad archwilio mewnol blynyddol i'r Cyngor ac i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Wrth roi fy marn, dylid nodi na all sicrwydd fyth fod yn llwyr. Y mwyaf y gall gwasanaeth archwilio mewnol ei ddarparu i'r Cyngor ydi sicrwydd rhesymol nad oes gwendidau mawr yn y system gyfan o reolaeth fewnol.
- 2.3 Wrth asesu'r lefel cyngor i'w roi, rwyf wedi ystyried pob archwiliad sy'n berthnasol i 2025/2026 ac unrhyw weithrediad dilynol parthed archwiliadau o'r cyfnod yma a chyfnodau blaenorol.
- 2.4 Cyflwynwyd rhaglen waith Archwilio Mewnol am y flwyddyn ariannol 2025/2026 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 22 Mai 2025. Roedd y cynllun archwilio blynyddol yn gynllun hyblyg i sicrhau y rhydd sylw i unrhyw faterion a ddaw i'r amlwg a newidiadau i risgiau a blaenoriaethau'r Cyngor.

3. SICRWYDD CYFFREDINOL

- 3.1 Mae casgliad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn seiliedig ar dair agwedd o drefniadau'r Cyngor:

- Llywodraethu
- Rheoli Risg
- Rheolaeth Fewnol

- 3.2 Mae canlyniadau'r gwaith a gwblhawyd gan Archwilio Mewnol, ynghyd â ffynonellau sicrwydd eraill, yn cefnogi'r casgliad blynyddol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yr Awdurdod.

3.3 Ystyriaethau

Mae fy nghasgliad blynyddol yn seiliedig ar dystiolaeth yn deillio o ystod archwiliadau a gynhaliwyd ar draws y Cyngor. Mae'r gwerth a ddarperir gan Archwilio Mewnol yn y gwaith manwl a wneir a'r wybodaeth a'r cyngor a ddarperir i reolwyr gwasanaethau ar reolaethau mewnol, prosesau a gweithdrefnau, ac yn eu hasesiad o'r camau gweithredu i liniaru risgiau cynhenid i lefel dderbyniol. Wrth lunio fy marn, rhoddwyd ystyriaeth i'r nifer o archwiliadau a gynhaliwyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystod 2025/2026 ynghyd ag adlewyrchiad o fy mhrofiad o fewn fy rôl yn Archwilio Mewnol dros y blynyddoedd blaenorol a fy marn am safon a gweithrediad y Tîm Rheoli Corfforaethol, y Grŵp Rheoli ac Uwch Reolwyr. Rwyf wedi defnyddio tystiolaeth a ddarparwyd gan reoleiddwyr allanol i gefnogi fy nghasgliad am y flwyddyn.

Er mwyn darparu fy nghasgliad blynyddol, rwyf wedi ystyried y canlynol:

- Yn gyffredinol, canfuwyd rheolaeth fewnol dda o fewn pob un o wasanaethau'r Cyngor a archwiliwyd.
- Mae holl adrannau'r Cyngor wedi adeiladu ar waith blaenorol, gan barhau i ddatblygu eu cyfundrefnau rheoli risg. Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 11 Medi 2025 i ddiweddar am ddatblygiadau yn y maes rheoli risg, y camau gweithredu nesaf i gryfhau ymhellach y trefniadau rheoli risg.
- Mae'r 24 risg llywodraethu (gyda 6 risg uchel a 9 risg canolig) sydd wedi cael eu hadnabod yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (fel a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 11 Medi 2025) yn cael eu hasesu'n barhaus gan y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu.
- Ble darganfuwyd gwendidau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol, cafodd y materion hyn eu cywiro gan swyddogion y Cyngor neu fe dderbyniasant sylw gan y Gweithgor Gwella Rheolaethau neu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- Mae'r Awdurdod wedi derbyn nifer o adroddiadau gan reoleiddwyr yn ystod 2025/2026:
 - Crynodeb Archwilio Blynyddol 2025 – Archwilydd Cyffredinol. Mynegir yn yr adroddiad ***“Deuthum i’r casgliad bod cyfrifon y Cyngor wedi’u paratoi’n briodol ac yn gywir a rhoddais farn archwilio ddiamod arnynt...Cyhoeddais y dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o gyfrifon 2024-25 wedi’i gwblhau ar 19 Tachwedd 2025”***.
 - Crynodeb Archwilio Blynyddol 2025 – Mynegir y ***“Paratowyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif y Cyngor yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn gyson â’r datganiadau ariannol ac â’r gwybodaeth i am y Cyngor”***.

O ddadansoddi'r gwaith archwilio a gwblhawyd yn ystod 2025/2026, mae nifer o themâu rheolaethol cyffredinol wedi dod i'r amlwg ar draws gwasanaethau'r Cyngor. Yn bennaf, mae'r rhain yn cynnwys cydymffurfiaeth anghyson â rheolaethau sefydledig, diffyg monitro a goruchwyliaeth reolaethol mewn rhai meysydd, a gwendidau mewn cofnodi a dogfennu prosesau a phenderfyniadau. Nodwyd hefyd fod rhai gwasanaethau yn wynebu heriau o ran capasiti ac adnoddau, sy'n gallu effeithio ar weithredu rheolaethau'n gyson. Mae'r themâu hyn wedi cyfrannu at y gyfran gymharol uchel o archwiliadau sydd wedi derbyn lefel sicrwydd "Cyfyngedig" yn ystod y flwyddyn, ac maent yn tynnu sylw at yr angen am ffocws corfforaethol parhaus a chydlynol ar gryfhau trefniadau rheolaeth fewnol.

3.4 Casgliad Blynyddol

Ar sail gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2025/2026, yn fy marn i, mae fframwaith rheolaeth fewnol Cyngor Gwynedd yn ystod y flwyddyn ariannol 2025/2026 yn gweithredu ar lefel sy'n darparu sicrwydd rhesymol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu'r Cyngor, rheoli risg a rheolaeth fewnol. Mae'r casgliad hwn yn seiliedig ar y gwaith archwilio a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, ynghyd â'r dystiolaeth ddigonol a pherthnasol a gasglwyd drwy'r adolygiadau hynny, ac mae wedi'i fwriadu i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Fodd bynnag, wrth lunio'r farn hon, nodwyd nifer o feysydd lle mae gwendidau rheolaethol yn parhau, yn enwedig mewn perthynas â chysondeb wrth weithredu rheolaethau, goruchwyliaeth reolaethol, a safonau cofnodi a dogfennu. Adlewyrchir y materion hyn yn y gyfran gymharol uchel o archwiliadau a dderbyniodd lefel sicrwydd "Cyfyngedig" yn ystod y flwyddyn.

Er nad yw'r gwendidau hyn yn tanseilio'r casgliad cyffredinol o sicrwydd rhesymol, maent yn tynnu sylw at yr angen am ffocws corfforaethol parhaus ar gryfhau trefniadau rheolaeth fewnol ac ar sicrhau bod rheolaethau'n cael eu gweithredu'n gyson ar draws gwasanaethau'r Cyngor. Os na roddir sylw priodol i'r materion hyn, gallent gynyddu'r risg na fydd amcanion gwasanaethau'n cael eu cyflawni'n effeithiol.

4. **GWAITH ARCHWILIO**

Cynllun Archwilio

- 4.1 Roedd 49 darn o waith wedi eu cynnwys yng nghynllun archwilio addasedig terfynol 2025/2026. Cafodd 43 o'r aseiniadau hyn eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2026, sy'n cynrychioli **88%** o'r cynllun. At bwrpasau'r mesur yma caiff aseiniad ei gyfrif wedi ei gwblhau os oes adroddiad drafft neu derfynol neu femorandwm terfynol wedi ei ryddhau neu os yw'r aseiniad wedi ei gau a ni ddisgwylir treulio mwy o amser arno. Yr uchelgais perfformiad oedd 95%.
- 4.2 Mae rhestr o'r archwiliadau o gynllun 2025/2026 sydd wedi cyfrannu at y casgliad a fynegir yn yr adroddiad blynyddol wedi eu rhestru yn Atodiad 1.
- 4.3 Ble'n berthnasol, caiff lefel sicrwydd ei ddarparu ar gyfer yr adroddiadau archwiliad mewnol sydd yn seiliedig ar werthusiad o'r amgylchedd reolaeth fewnol ac ar y nifer o risgiau a adnabuwyd ynghyd â'u sgôr risg cyfatebol. Mae'r sgôr risgiau cyfredol yn syrthio i un o bedwar categori risg sef:

LEFEL RISG	SGÔR
UCHEL IAWN	20 - 25
UCHEL	12 - 16
CANOLIG	6 - 10
ISEL	1 - 5

- 4.4 Mae lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod:

LEFEL SICRWYDD	DIFFINIAD
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.
DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.
CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.
DIM SICRWYDD	Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion.

- 4.5 Nod pob un o'r gweithrediadau cytunedig o fewn yr adroddiadau oedd cryfhau'r rheolaethau mewnol sydd yn lliniaru risgiau gweithredol ac i sefydlu ymarfer da.
- 4.6 O'r 43 aseiniad yng nghynllun archwilio 2025/2026 a gafodd eu cwblhau, dyfarnwyd y lefelau sicrwydd canlynol:

Lefel Sicrwydd	Nifer Archwiliadau
Uchel	5
Digonol	15
Cyfyngedig	19
Dim Sicrwydd	0
Dim Categori	4
Cyfanswm	43

- 4.7 O'r adroddiadau perthnasol o gynllun archwilio 2025/2026 a dderbyniodd lefel sicrwydd, derbyniodd 51.28% (sef 20 allan o 39) ohonynt lefel sicrwydd "Digonol" neu "Uchel".
- 4.8 Derbyniodd 19 archwiliad (48.71%), lefel "Cyfyngedig" ac ni dderbyniodd unrhyw archwiliad lefel "Dim Sicrwydd".
- 4.9 Caiff yr adroddiadau llawn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar ôl i'r adroddiad terfynol gael ei gytuno gyda'r cleiant a'i ryddhau. Lle caiff memorandwm ei anfon yn hytrach nag adroddiad llawn, a lle nad oes categori sicrwydd, mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn crynodeb byr o ddarganfyddiadau'r archwiliadau perthnasol ble'n briodol.

- 4.10 Dengys y tabl isod pa gyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a dderbyniodd fanylion yr archwiliadau o gynllun 2025/2026. Mae dyddiadau cyfarfodydd perthnasol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hefyd wedi eu rhestru yn Atodiad 1.

Dyddiad Rhyddhau'r Adroddiad/ Memorandwm Terfynol	Dyddiad Adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
1 Ebrill 2025 - 28 Medi 2025	9 Hydref 2025
29 Medi 2025 – 25 Ionawr 2026	3 Chwefror 2026
26 Ionawr 2026 - 31 Mawrth 2026	21 Mai 2026

Addasiadau i'r Cynllun

- 4.11 Adroddwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod y flwyddyn ar addasiadau i'r cynllun archwilio.

Gwaith Dilyniant

- 4.12 Yn 2024/25, derbyniodd 15 archwiliad lefel sicrwydd "Cyfyngedig" ac ni dderbyniodd unrhyw archwiliad lefel "Dim Sicrwydd". Oherwydd diffyg adnoddau, penderfynwyd cynnal archwiliadau dilyniant ar adroddiadau a dderbyniodd lefel sicrwydd "Cyfyngedig" yn unig. Cyflwynwyd adroddiadau ar ganlyniadau'r gwaith dilyniant gerbron y Pwyllgor yn unol â'r cais i wneud hynny. Gweler isod:

Archwiliad 2024/25	Lefel Sicrwydd Dilyniant	Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor
Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth	Digonol	3 Chwefror 2026
Canu'r Gloch ²		
Cludiant Ysgolion	Digonol	21 Mai 2026
Clybiau Brecwast	Cyfyngedig	21 Mai 2025
Trafnidiaeth Ysgolion	Cyfyngedig	21 Mai 2025
Trefniadau Dosbarthu Biniau	Digonol	3 Chwefror 2026
Rheolaeth Categori Corfforaethol – Dilyniant		
Plas Hafan	Digonol	3 Chwefror 2026
Llys Cadfan	Digonol	3 Chwefror 2026
Plas Pengwaith	Cyfyngedig	3 Chwefror 2026
Glanhau Stryd – Goramser	Digonol	21 Mai 2026
Rheolaeth Categori Amgylchedd	Cyfyngedig	21 Mai 2026
Grant Cymorth Tai	Digonol	3 Chwefror 2026
Grant Atal Digartrefedd	Cyfyngedig	3 Chwefror 2026
Maddaliadau - Dilyniant ³		

² Archwiliad yn gynwysedig yng Nghynllun 2026/27 yn sgil mabwysiadu Polisi newydd.

³ Yng Nghynllun Archwilio 2026/27 – maes problemus ers sawl blwyddyn.

Gweithgor Gwella Rheolaethau

- 4.13 Mae'r Gweithgor, sef Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor a tri aelod arall (sydd wedi eu cylchdroi) wedi ei sefydlu i gwrdd rhwng cyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i drafod materion o wendidau rheolaeth sydd wedi codi yng nghyfarfod y Pwyllgor, er mwyn rhoi sylw i'r rhain mewn mwy o ddyfnder. Caiff swyddogion eu gwahodd i'r Gweithgor i egluro'r gwendid rheolaeth, ac yn anad dim y camau sydd yn cael eu dilyn i wella'r sefyllfa. Ni chyfeiriwyd unrhyw archwiliad i sylw'r Gweithgor yn ystod 2025/26.

5. ADNODDAU ARCHWILIO MEWNOL

Staffio a Chymwysterau

- 5.1 Y Rheolwr Archwilio sydd yn ymgymryd â swyddogaeth "Pennaeth Archwilio Mewnol". Mae'r Rheolwr Archwilio yn atebol yn uniongyrchol i'r Pennaeth Cyllid. Mae gan y Rheolwr Archwilio, un Arweinydd Archwilio ac un Uwch Archwiliwr gymhwyster CIPFA⁴ llawn ac mae gan yr Arweinydd arall gymhwyster llawn ACCA⁵. Mae un Uwch Archwiliwr yn astudio am gymhwyster CIPFA ar hyn o bryd.
- 5.2 Ers 1 Ebrill 2025, 5 aelod llawn amser ac un aelod rhan amser (0.8) sydd i'r Tîm Archwilio Mewnol.

Y ddefnydd a wneir o adnoddau staff

- 5.3 Mae Atodiad 2 yn cynnwys dadansoddiad o ddefnydd amser swyddogion Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026. Tynnir sylw'r Pwyllgor i'r canlynol:
- Mae'r tabl yn arddangos nifer y dyddiau cynhyrchiol oedd ar gael i'w darparu ar gyfer archwiliadau Cyngor Gwynedd, **464** diwrnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 ac **498** diwrnod am yr un cyfnod yn 2025/2026 – cynnydd o 34 diwrnod.
 - Ni ddefnyddiwyd unrhyw ddyddiau ar gyfer cynnal archwiliadau arbennig neu ymatebol yn 2024/2025, o gymharu â 35 o ddiwrnodau yn 2024/2025.

⁴ Chartered Institute of Public Finance and Accountancy

⁵ Association of Certified Chartered Accountants

6. PERFFORMIAD ARCHWILIO

6.1 Roedd canlyniadau mesurau cyflawni'r gwasanaeth archwilio mewnol yn ystod 2025/2026 fel a ganlyn:

Disgrifiad Mesurydd	Perfformiad 2024/25	Uchelgais 2025/26	Canlyniadau 2025/26
Canran archwiliadau'r cynllun archwilio sydd yn barod i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am eu bod un ai gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau, neu wedi eu gau.	91%	95%	88%
Cyfran o'r archwiliadau mewnol yn derbyn lefel sicrwydd "Digonol" neu well (mesur corfforaethol).	48.27%	80%	51.28%
Cyfran o'r gweithrediadau cytunedig lefel risg uchel neu uchel iawn sydd wedi eu gweithredu yn unol â'r amserlen. (mesur corfforaethol).	⁶	100%	53.57%

6.2 Er bod perfformiad yn parhau'n rhesymol gadarn mewn rhai meysydd, ni chyflawnwyd yr uchelgais o 95% ar gyfer cwblhau'r cynllun archwilio. Yn ogystal, er bod gwelliant bach yn y gyfran o archwiliadau yn derbyn sicrwydd "Digonol" neu well, mae'r canlyniad yn parhau'n sylweddol is na'r targed corfforaethol o 80%, gan adlewyrchu'r materion rheolaethol a nodwyd uchod.

7. CYNLLUNIAU GWAITH A THARGEDAU 2025/2026

7.1 Cyflwynwyd cynllun archwilio mewnol 2025/2026 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ar 22 Mai 2025.

7.2 Mae mesurau cyflawni Archwilio Mewnol yn dangos pa mor dda yr ydym yn cyflawni ein pwrpas. Mesurau cyflawni Archwilio Mewnol ar gyfer 2026/2027 yw:

Mesur	Uchelgais 2026/2027	Cyfeiriad Uchelgais
Canran archwiliadau'r cynllun archwilio sydd yn barod i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am eu bod un ai gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau, neu wedi eu gau.	95%	

⁶ Oherwydd diffyg adnoddau, penderfynwyd i gynnal archwiliadau dilyniant ar adroddiadau a dderbyniodd lefel sicrwydd "Cyfyngedig" yn unig.

Mesur	Uchelgais 2026/2027	Cyfeiriad Uchelgais
Cyfran o'r archwiliadau mewnol yn derbyn lefel sicrwydd "Digonol" neu well (mesur corfforaethol).	80%	
Cyfran o'r gweithrediadau cytunedig lefel risg uchel neu uchel iawn sydd wedi eu gweithredu yn unol â'r amserlen. (mesur corfforaethol).	100%	
Oriau cynhyrchiol fel canran sydd ar gael.	75%	Mesur Newydd
Cwmpas risgiau strategol/corfforaethol yn y Cynllun Blyneddol Terfynol.	70%	Mesur Newydd

8. RHAGLEN SICRWYDD ANSAWDD A GWELLIANT ARCHWILIO MEWNOL

- 8.1 Yn unol â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang, Safon 12.1, mae Asesiad Ansawdd Mewnol yn nodi bod *"rhaid i'r prif weithredwr archwilio ddatblygu a chynnal asesiadau mewnol o gydymffurfiaeth y swyddogaeth archwilio mewnol â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang a symud ymlaen tuag at amcanion perfformiad"*.
- 8.2 Bydd canlyniad cydymffurfiaeth hunanasesu â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio maes o law yn dilyn derbyn arweiniad pellach a Phecyn Cymorth Asesu Cydymffurfiaeth gan CIPFA ddiwedd mis Ionawr 2026.
- 8.3 Mae Safon 8.4, Asesiad Ansawdd Allanol, yn nodi *"rhaid i'r prif weithredwr archwilio ddatblygu cynllun ar gyfer asesiad ansawdd allanol... Rhaid i'r asesiad allanol gael ei gynnal o leiaf unwaith bob pum mlynedd gan aseswr neu dîm asesu cymwysedig, annibynnol"*.
- 8.4 Bydd yr asesiad allanol yn cael ei gynnal yn 2026/27 gan Gyngor Sir Ddinbych ar sail adolygiad gan gymheiriaid a drefnir gan Grŵp Prif Archwilwyr Cymru. Unwaith y bydd yr asesiad allanol wedi'i gwblhau, bydd y canlyniadau'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghyd â'r rhaglen sicrwydd ansawdd a gwelliant.

9. ARGYMHELLIAD

- 9.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad yma fel adroddiad blyneddol ffurfiol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang am y flwyddyn ariannol 2025/2026.

CYNLLUN ARCHWILIO 2025/2026

Adran	Archwiliad	Statws yr Archwiliad	Lefel Sicrwydd	Dyddiad Pwyllgor
Addysg	Addysg Tu Allan i'r Ysgol	Rhaglen a Nodyn Briffio wedi eu cytuno		
	Anghenion Dysgu Ychwanegol	Wedi canslo		
	Dilyniant Cludiant Ysgolion	Adroddiad Terfynol	Digonol	21 Mai 2026
	Dilyniant Clybiau Brecwast	Adroddiad Terfynol	Cyfyngedig	21 Mai 2026
	Darpariaeth Addysg Ôl-16	Adroddiad Terfynol	Uchel	9 Hydref 2025
	Ysgolion Cyffredinol	Wedi cau	Dim Categori	
Amgylchedd	Casglu Gwastraff Masnachol	Adroddiad Terfynol	Cyfyngedig	3 Chwefror 2026
	Dilyniant Trafnidiaeth Ysgolion	Adroddiad Terfynol	Cyfyngedig	21 Mai 2026
	Dilyniant Trefniadau Dosbarthu Biniau	Adroddiad Terfynol	Cyfyngedig	3 Chwefror 2026
	Iechyd Anifeiliaid	Adroddiad Terfynol	Digonol	3 Chwefror 2026
	Rheolaeth Adeiladu	Adroddiad Terfynol	Digonol	21 Mai 2026
Gwasanaethau Corfforaethol	Hyfforddiant Mandadol	Adroddiad Terfynol	Digonol	21 Mai 2026
	Trefniadau Tân	Adroddiad Terfynol	Digonol	21 Mai 2026
Corfforaethol	Cynghori ac Ymgynghoriaeth, Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd	Wedi cau	Dim Categori	
	Dilyniant Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth	Adroddiad Terfynol	Digonol	3 Chwefror 2026
	Dilyniant Cyffredinol	Wedi cau	Dim Categori	
	Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol a'r Fenter Twyll Genedlaethol	Wedi cau	Dim Categori	

Adran	Archwiliad	Statws yr Archwiliad	Lefel Sicrwydd	Dyddiad Pwyllgor
	Swyddi Heb Gyllideb	Wedi canslo		
	Rheoli Gwybodaeth a Diogelu Data	Adroddiad Terfynol	Cyfyngedig	21 Mai 2026
	Ymwybyddiaeth Gweithwyr Maes o'r Polisi Diogelu	Gwaith ar y gweill		
Cyllid	Archwiliadau TG	Wedi ei gynllunio		
	Datganiad Cyfrifyddu Harbyrau 2024-25	Adroddiad Terfynol	Uchel	9 Hydref 2025
	Incwm - Trefniadau Adennill	Adroddiad Terfynol	Cyfyngedig	3 Chwefror 2026
	Praeseptau	Adroddiad Terfynol	Uchel	3 Chwefror 2026
	Rheolaeth Trysorlys	Wedi ei gynllunio		
Economi a Chymuned	Amgueddfa Lloyd George	Adroddiad Terfynol	Uchel	3 Chwefror 2026
	Cronfa'r Degwm	Adroddiad Terfynol	Uchel	9 Hydref 2025
	Cynllun Traethau	Wedi canslo		
	Hafan	Wedi canslo		
Oedolion, Iechyd a Llesiant	Cartref Plas Hedd	Adroddiad Terfynol	Cyfyngedig	9 Hydref 2025
	Cartref Plas Y Don	Adroddiad Terfynol	Cyfyngedig	9 Hydref 2025
	Cartref Tan Y Marian	Adroddiad Terfynol	Cyfyngedig	3 Chwefror 2026
	Cartref y Frondeg	Adroddiad Terfynol	Digonol	3 Chwefror 2026
	Dilyniant Cartrefi Preswyl	Wedi canslo		
	Dilyniant Cartref Plas Pengwaith	Adroddiad Terfynol	Cyfyngedig	3 Chwefror 2026
	Dilyniant Cartref Llys Cadfan	Adroddiad Terfynol	Digonol	3 Chwefror 2026
	Dilyniant Cartref Plas Hafan	Adroddiad Terfynol	Digonol	3 Chwefror 2026
	DOLS/LPS	Adroddiad Terfynol	Cyfyngedig	21 Mai 2026
	Taliadau Uniongyrchol	Adroddiad Terfynol	Digonol	3 Chwefror 2026
	Canolfannau Dydd	Wedi canslo		
	Canolfannau Anabledd Dysgu	Wedi canslo		

Adran	Archwiliad	Statws yr Archwiliad	Lefel Sicrwydd	Dyddiad Pwyllgor
	Cegin Arfon	Adroddiad Terfynol	Cyfyngedig	3 Chwefror 2026
	Siop Galwch Acw	Adroddiad Terfynol	Cyfyngedig	3 Chwefror 2026
	Canolfan Y Gwystl	Adroddiad Terfynol	Cyfyngedig	3 Chwefror 2026
Plant a Chefnogi Teuluoedd	Taliadau All-Sirol	Rhaglen a Nodyn Briffio wedi eu cytuno		
Priffyrdd, Peirianeg ac YGC	Coed yn Syrthio	Adroddiad Terfynol	Cyfyngedig	3 Chwefror 2026
	Cynllun Olyniaeth YGC	Adroddiad Terfynol	Digonol	3 Chwefror 2026
	Cynllun Parhad Gwasanaeth/Cynllun Argyfwng	Adroddiad Terfynol	Digonol	3 Chwefror 2026
	Amlogfa Bangor	Adroddiad Terfynol	Digonol	21 Mai 2026
	Fflyd - Defnydd Tanwydd	Adroddiad Terfynol	Cyfyngedig	21 Mai 2026
	Trefniadau Clefyd Coed Ynn	Adroddiad Terfynol	Cyfyngedig	9 Hydref 2025
	Dilyniant Rheolaeth Categori - Amgylchedd	Adroddiad Terfynol	Cyfyngedig	21 Mai 2026
	Dilyniant Goramser Glanhau Stryd	Adroddiad Terfynol	Digonol	21 Mai 2026
Tai ac Eiddo	Costau Llety Argyfwng	Rhaglen a Nodyn Briffio wedi eu cytuno		
	Grant Atal Digartrefedd 2024-25	Adroddiad Terfynol	Cyfyngedig	3 Chwefror 2026
	Grant Cymorth Tai	Adroddiad Terfynol	Digonol	3 Chwefror 2026

Dadansoddiad Amser Archwilio Mewnol 1 Ebrill - 31 Mawrth:

2024/25		2025/2026
1,518	Cyfanswm Dyddiau	1,513
209	Amser Di-gynnyrch: Gwyliau Blyneddol	202
41	Amser Di-gynnyrch: Gwyliau Statudol	35
250	<i>Llai Gwyliau (Statudol ac Anstatudol)</i>	237
1,268	Cyfanswm y Dyddiau Ar Gael	1,275
	<i>Llai:</i>	
9	Gwyliau Arbennig	6
66	Salwch a Dychwelyd yn Raddol	16
0	Mamolaeth a Cadw Mewn Cysylltiad	252
34	Hyfforddiant Swydd a Phroffesiynol	59
1,159	Dyddiau ar gael	942
	Llai Amser Di-gynnyrch:	
	Apwyntiadau Meddygol	
	Cofnodi a Rheoli Amser	
	Cyfarfodydd a Phwyllgorau	
	Cyflwyno Hyfforddiant	
	Gwaith Cefndirol	
	Gweinyddiaeth ayb.	
	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio	
	Rheolaeth Archwilio Mewnol	
	Rheoli Absenoldebau	
	Trafferthion TG	
	Cyfarfodydd/Gwaith ar y cyd ag Archwilwyr Allanol	
283	<i>Cyfanswm sydd ddim yn cyfrannu i'r Cynllun</i>	253
875	Cyfanswm Dyddiau Cynhyrchiol	690
16	Gwaith APCE	34
115	Cynghorau Tref a Chymuned	110
35	Byw'n Iach Cyf.	41
3	BUEGC	6
25	Secondiadau Allanol	0
1	GwE	0
216	Cronfa Ffyniant Gyffredin	0
464	Cyfanswm dyddiau cynhyrchiol, Cyngor Gwynedd	498

Dadansoddiad o ddefnydd dyddiau cynhyrchiol Cyngor Gwynedd:

2024/25		2025/26
429	Gwaith Cynllun blwyddyn gyfredol	459
0	Gwaith ar Gynllun 2024/25 yn ystod 2025/26	27
0	Gwaith ar Gynllun 2026/27 yn ystod 2025/26	12
35	Gwaith Ymatebol/Archwiliadau Arbennig	0
464		498

Adroddiad i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Dyddiad y cyfarfod: 21ain o Fai 2026

Swyddog Cyswllt: Arwel Evans, Rheolwr Caffael

E-bost a Ffon Cyswllt: arwelapifanevans@gwynedd.llyw.cymru
01286 679200

Teitl yr Eitem: **Trothwyon Caffael ac Addasiadau i'r Rheoliadau Gweithdrefn Contractau**

Cefndir

Mae'n amserol i adolygu ein trothwyon tendro a dyfynbrisiau yn sgil newid i ddeddfwriaeth cytundebu a chaffael cenedlaethol a chynnydd sylweddol yng nghostau nwyddau a gwasanaethau oherwydd chwyddiant.

Rydym yn argymhell cynyddu'r trothwyon newydd i'r canlynol:

- Pryniant hyd at £10,000 un dyfynbris (£5,000 yn flaenorol)
- Pryniant rhwng £10,000 a £100,000 cais am dri dyfynbris (£5,000 i £50,000 yn flaenorol)
- Pryniant dros £100,000 cais agored am ddyfynbrisiau neu dendrau (£50,000 yn flaenorol)

Buasai'r trothwy £100,000 hefyd yn cyd fynd gyda'r trothwy trefniadau seilio cytundebau'r Cyngor. Mae yna hefyd angen i wneud man newidiadau pellach i'r Rheolau Gweithdrefn Contractau, yn benodol:

- Gosod hicyn o £100,000 ble mae angen ymgynghori gyda'r Swyddog Monitro a Phennaeth Cyllid ar gyfer awdurdodi penodiadau uniongyrchol.
- Amlygu bydd angen cyhoeddi 'hysbyseb manylion contract' yn unol â'r rheoliadau cenedlaethol gan nodi'r gwerth o £25,000+TAW.

Trothwyon caffael yw'r terfyn sy'n pennu pryd mae angen cynnal cystadleuaeth ffurfiol i benodi contractwyr neu ddarparwyr gwasanaeth, a phryd mae gofyn am ddyfynbrisiau yn unig yn ddigonol.

Mae'r trothwyon caffael presennol wedi bod yn ei lle ers 1996. Ers hynny, mae prisiau a chwyddiant wedi cynyddu ar gyfartaledd tua 3% y flwyddyn. O ganlyniad, mae prisiau heddiw oddeutu 2.4 gwaith yn uwch nag oedden nhw bryd hynny.

Rheoliadau Caffael Cenedlaethol

Mae'r dull o gaffael nwyddau a gwasanaethau yn cael ei rheoli gan y Ddeddf Caffael 2023 ddoeth i rym yn Chwefror 2025. Mae'r Cyngor wedi sefydlu Rheolau Gweithdrefn Contractau sydd yn gosod trefniadau ar gyfer gweithred leol o'r rheoliadau hyn. O Ebrill

2026, bydd y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) hefyd mewn grym yn llawn.

Gwerth ariannol y cytundeb yn bennaf sydd yn penderfynu ba raddfa mae'r rheoliadau cenedlaethol yn berthnasol. Mae'r trothwyon rheoliadau cenedlaethol yn cael ei adolygu bob dwy flynedd, gyda'r cyfnod adolygiad nesaf yn Ionawr 2028. [PPN 11/23: New Thresholds - GOV.UK <https://www.gov.uk/government/publications/ppn-1123-new-thresholds>](https://www.gov.uk/government/publications/ppn-1123-new-thresholds)

Er bod modd i ddylanwadu a gosod trefniadau lleol ar gyfer cytundebau sydd â gwerth o dan y trothwyon cenedlaethol, mae dal angen cydymffurfio gyda'r egwyddorion caffael cenedlaethol. Mae'r egwyddorion caffael yn ceisio sicrhau bod holl bryniant y sector cyhoeddus yn cael ei wneud mewn ffordd gyfartal, deg, tryloyw a heb wahaniaethu.

Mae ein trefniadau caffael a chytundebu hefyd yn ceisio sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau am arian gan ddarparwyr sydd yn cyflawni i safon, yn ddiogel ac yn gyfreithlon.

Trothwyon cyfredol

Mae ein trothwyon caffael cyfredol yn cynnwys y trefniadau canlynol:

- Pryniant hyd at £5,000 un dyfynbris.
- Pryniant rhwng £5,000 a £50,000 cais am dri dyfynbris.
- Pryniant dros £50,000 cais agored am ddyfynbrisiau neu dendrau.

Mae'r dull o gyfrifo'r gwerth y cytundeb hefyd wedi newid yn ddiweddar ble mae TAW yn gynyddedig. Mae hyn wedi golygu gostyngiad yn y trothwyon mewn gwirionedd.

Tirwedd Genedlaethol

Er bod sefydliad cyhoeddus yn cael ei lywodraethu gan yr un Ddeddf Caffael, mae trefniadau caffael a chytundebu amrywio. Yn 2022, mi ddaru'r CLILC/WLGA ymchwilio i gymharu trefniadau a throthwyon caffael Awdurdodau Lleol yng Nghymru.

Mae'n ymddangos bod rhai awdurdodau wedi gosod trothwyon i gyd fynd gyda'r Nodyn Polisi Llywodraeth Cymru [WPPN 013 <https://www.llyw.cymru/wppn-013-caffael-syn-gyfeillgar-i-fusnesau-bach-a-chanolig>](https://www.llyw.cymru/wppn-013-caffael-syn-gyfeillgar-i-fusnesau-bach-a-chanolig) ac eraill gyda throthwy uwch. Mae'r trothwyon uwch ar gyfartaledd o gwmpas £75,000 gyda rhai yn gwahaniaethu rhwng nwyddau a gwasanaethau a'r trothwy ar gyfer gwaith (adeiladwaith).

Mae'r Nodyn Polisi Llywodraeth Cymru yn annog i gyfleoedd dendro gael ei hysbysebu'n agored dros £25,000 + TAW. Mae hyn i annog cystadleuaeth agored ac i geisio sicrhau bod busnesau yn fwy ymwybodol o'r cyfleoedd ac yn ymgeisio am waith.

Nid oes bwriad gan Lywodraeth Cymru na'r CLILC/WLGA cysoni'r trothwyon ar draws Awdurdodau Lleol Cymru.

Er gwybodaeth dyma'r trothwyon rhai o gynghorau'r Gogledd:

Awdurdod Lleol	Trothwyon Tendre Cyfredol	
	Nwyddau a Gwasanaethau	Gwaith (Adeiladwaith)
Cyngor Conwy	£50,000	£50,000
Cyngor Dinbych	£25,000	£250,000
Cyngor Fflint	£25,000	£250,000
Cyngor Gwynedd	£50,000	£50,000
Cyngor Ynys Môn	£214,904	£5,372,609
Cyngor Wrecsam	£25,000	£75,000

Ystyriaethau

Mae yna nifer ffactorau i'w ystyried wrth addas y trothwyon, byddwn yn rhagdybio buasai newidiadau yn golygu;

Trothwyon is:

- Cystadleuaeth agored a sicrwydd gwerth
- Trefniadau gwobrwyo a phenodi tryloyw wrth ddatgan meini prawf
- Proses cynhwysfawr sydd yn rhoi cyfle i asesu agweddau cyflawn y pryniant

Trothwyon uwch:

- Mwy o benodiadau uniongyrchol
- Trefniadau penodi cynt gyda'r angen am lai o adnoddau gweinyddu
- Cystadleuaeth gyfyngedig i gyflawni sicrwydd gwerth

Mae trothwyon uwch yn gyfle i gefnogi busnesau lleol wrth roi hyblygrwydd yn ein gweithdrefnau i wahodd cwmnïau lleol i gyflwyno dyfynbrisiau. Buasai hefyd cyfle i gynnwys yn y gweithdrefnau trefniadau i annog cystadleuaeth agored ble mae nifer o fusnesau lleol yn bodoli hefyd. Buasai hefyd angen bod yn wylidwrs bod cwmnïau newydd lleol yn cael cyfle i ymgeisio am waith a bod trothwyon uwch ddim golygu bod dim angen adolygu trefniadau cyn adnewyddu cytundebau.

Mae angen tynnu sylw bod rhan helaeth o gytundebau'r Cyngor yn uwch na'r trothwyon cenedlaethol.

Meysydd Adeiladwaith a Gwaith Adeiladwaith

Mae yna drothwyon cenedlaethol gwahanol i nwyddau a gwasanaethau yn y meysydd Gofal ac Adeiladwaith (gwaith). Mae'r trothwyon ble mae'r rheoliadau cenedlaethol yn berthnasol yn £663k ar gyfer meysydd gofal a £5.3m ar gyfer gwaith adeiladwaith.

Ar gyfer cysondeb ac i symleiddio trefniadau ein rheolau gweithdrefn contractau, byddwn yn argymhell bydd y holl feysydd rydym yn caffael yn dilyn yr un trothwyon dyfynbrisiau a thendro.

Newidiadau i'r Rheoliadau Gweithdrefn Contractau

Mae'r man newidiadau i'r rheoliadau i bwrpas codi ymwybyddiaeth o'r gwerth y cytundeb ble mae angen cyhoeddi hysbyseb manylion contract.

Mae cynnwys hicyn ar ymgynghori gyda'r Swyddog Monitro a Phennaeth Cyllid ar gyfer awdurdodi penodiadau uniongyrchol i sicrhau cydymffurfiaeth a defnydd priodol a'r trefniadau hyn.

Atodiadau

Atodiad 1 - Rheolau Gweithdrefn Contractau 29-1-26 DRAFFT NEWYDD

Atodiad 2 - Contract Procedure Rules 29-1-26 DRAFFT NEWYDD

Adolygu Trothwyon Tendro a Dyfynbrisiau / Review of Tendering and Quotation Thresholds

Trothwyon Cyfredol

£5,000 = 1 Dyfynbris

£5,000 - £50,000 = 3 Dyfynbris

£50,000+ = Hysbysebu'n agored (tendr)

Trothwyon Newydd

£10,000 = 1 Dyfynbris

£10,000 - £100,000 = 3 Dyfynbris

£100,000+ = Hysbysebu'n agored (tendr)

Trothwyon cenedlaethol uwch ar gyfer gwasanaethau, gwaith a gofal (£207k, £5.1m a £663k).

Current Thresholds

£5,000 = 1 Quote

£5,000 - £50,000 = 3 Quotes

£50,000+ = Openly published advert (tender)

New Thresholds

£10,000 = 1 Quote

£10,000 - £100,000 = 3 Quotes

£100,000+ = Openly published advert (tender)

National thresholds are higher for services, works and care (£207k, £5.1m a £663k).



Ystyriaethau / Consideration

- Prisiau a chwyddiant wedi dyblu ers sefydlu'r trothwyon
- Polisi cenedlaethol i agor cyfleon dros £25,000+TAW a cymhariaeth ag Awdurdodau eraill
- Treth ar werth (TAW) yn gynwysedig wedi lleihau'r trothwyon
- Gallu i gynnal cystadleuaeth lleol gyda trothwy dyfynbrisiau uwch
- Un trothwy ar gyfer prynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith
- Rhan helaeth o gytundebau'r Cyngor yn uwch na'r trothwyon cenedlaethol.
- Prices and inflation have doubled since the thresholds were introduced
- National policy to open opportunities over £25,000+VAT and comparison with other Authorities
- Inclusive Value Added Tax (VAT) has decreased the thresholds
- Ability to run local competition with a higher quotation threshold
- One threshold for the purchase of goods, services and works
- A large proportion of Council agreements exceed national thresholds.



Rheolau Gweithdrefn Contractau / Contract Procedure Rules

Mae yna hefyd addasiadau pellach:

- Mae angen ymgynghori gyda'r Swyddog Monitro a Pennaeth Cyllid ar gyfer **penodiadau uniongyrchol dros £100,000**.
- Amlygu bydd angen cyhoeddi '**hysbyseb manylion contract**' yn unol a'r rheoliadau cenedlaethol gan nodi'r gwerth o **£25,000+TAW**.

There are also further amendments:

- A need to consult with the Monitoring Officer and Head of Finance when **appointing directly over £100,000**.
- Highlight the need to publish a '**contract details notice**' for contracts or purchases over **£25,000+VAT** in accordance with the National procurement rules.



ADRAN 17

17. Rheolau Gweithdrefn Contractau

17.1 Cyflwyniad

- 17.1.1** Caffael yw'r broses sy'n galluogi'r Cyngor i reoli cael ei holl Nwyddau, Gwasanaethau a Gwaith. Ar ôl adnabod angen, mae'n cynnwys ystyried opsiynau, y broses gaffael ei hun a'r dasg ddilynol o reoli ac adolygu'r contractau.
- 17.1.2** Mae'r Rheolau Gweithdrefn Contract hyn ("CPRs") yn ymdrin â gweithgareddau caffael y Cyngor nad ydynt yn cael eu llywodraethu gan Ddeddf Caffael 2023 ("Deddf") a Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024/782 ("Rheoliadau"). Mae cydymffurfio â'r Ddeddf a'r Rheoliadau yn ofyniad cyfreithiol llym ar y Cyngor, ac nid yw'n agored i'r Cyngor hepgor cydymffurfiaeth â'r rhain ar gyfer caffael.
- 17.1.3** Mae'r CPRs hyn yn berthnasol i weithgareddau caffael sydd yn cychwyn ar neu ar ôl 24 Chwefror 2025. Bydd unrhyw gontractau a roddwyd o dan o dan ddeddfwriaeth flaenorol yn parhau i gael eu rheoli o dan y ddeddfwriaeth honno hyd nes y bydd y contract yn peidio â bodoli.
- 17.1.4** Mae caffael gan y Cyngor yn cael ei lywodraethu gan y Ddeddf a'r Rheoliadau. Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynno i holl gaffael a chontractio'r cyngor gael eu cynnal yn dryloyw, yn deg ac mewn modd dim gwahaniaethu. Os bydd gofynion statudol neu gyfreithiol eraill yn uwch na'r gofynion a gynhwysir yn y CPRs hyn, yna bydd statud yn cael blaenoriaeth dros unrhyw ddarpariaeth o fewn y CPRs hyn.
- 17.1.5** Mae'r Ddeddf yn nodi'r amcanion canlynol ar gyfer caffael contractau: sicrhau gwerth am arian, sicrhau'r budd mwyaf i'r cyhoedd, rhannu gwybodaeth at ddiben caniatáu i gyflenwyr ac eraill ddeall polisiâu a phenderfyniadau caffael yr awdurdod, a gweithredu a chael eu gweld i weithredu, yn onest, yr ("amcanion Caffael").
- 17.1.6** Yn ogystal, bydd y Cyngor yn ystyried rhwystrau cyfranogiad penodol a allai wynebu mentrau maint bach a chanolig ac yn ystyried a ellir dileu neu leihau rhwystrau o'r fath.
- 17.1.7** Yn ei holl weithgareddau caffael, rhaid i'r Cyngor gydymffurfio ag egwyddorion sylfaenol o ddim gwahaniaeth, triniaeth gyfartal, tryloywder, cyd-gydnabyddiaeth a chyfranoldeb, ac mae'r rheolau hyn wedi'u cynllunio i sicrhau cydymffurfiaeth â hynny.

17.2 Diffiniadau A Dehongliadau

17.2.1 Mae'r diffiniadau a ganlyn yn berthnasol yn y Rheolau hyn :-

- Mae **Adroddiad Cyfiawnhau Dyfarniad Uniongyrchol** yn golygu templed Cyngor Gwynedd o adroddiad cyfiawnhau dyfarniad uniongyrchol cenedlaethol ar gyfer cymeradwyaeth mewnol ac er cofnodion.
- Mae **Amrywiad ac Amrywiadau** yn golygu unrhyw newidiadau i gontract, gan gynnwys ychwanegiadau, hepgoriadau, amnewidion, amrywiadau neu newidiadau o unrhyw natur arall.

- Mae **Caffael** yn golygu'r broses y mae'r Cyngor yn ei defnyddio i reoli'r gwaith o gaffael ei holl nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Mae'n cynnwys adnabod yr angen, ystyried yr opsiynau, y broses gaffael ei hun a'r dasg ddilynol o reoli ac adolygu'r contractau.
- Mae **Cofrestr Contract Corfforaethol** yn golygu rhestr o gontractau a roddir gan y Cyngor.
- Mae **Contract Cyffyrddiad Ysgafn** yn golygu contract arfaethedig ar gyfer darparu gwasanaethau cymdeithasol neu wasanaethau penodol eraill a restrir yn Atodlen 1 y Rheoliadau.
- Mae **Contract** yn golygu unrhyw ffurf o gytundeb (gan gynnwys, yn ddi-gyfngiad, archebion prynu swyddogol) ar gyfer cyflenwi Nwyddau, darparu Gwasanaethau neu wneud Gwaith.
- Mae **Contractwr** yn golygu unrhyw gontractwr, cyflenwr neu ddarparwr y mae'r Cyngor yn rhwymo i Gontract ag ef er dibenion gwneud gwaith, darparu gwasanaethau neu gyflenwi nwyddau.
- Mae **Fframweithiau** yn golygu cytundeb ag un neu fwy o Gontractwyr, er diben sefydlu'r telerau (yn enwedig o ran pris a swm), sy'n llywodraethu contract neu gontractau i'w gwobrwyo yn ystod y cyfnod y mae'r cytundeb fframwaith yn berthnasol iddo.
- **Grant a Grantiau** swm o arian a delir neu sydd i'w dalu gan y Cyngor i drydydd parti, a lle nad yw'r Cyngor angen i'r sawl sy'n darparu'r grant i ddarparu unrhyw wasanaethau, nwyddau neu wneud unrhyw waith i'r Cyngor er budd uniongyrchol y Cyngor. Gall y Grant fod yn amodol (h.y. rheidrwydd i wario'r Grant mewn dull penodol, i gyfrif am y gwariant ac i ad-dalu'r Grant os yw amodau'r Grant yn cael eu torri).
- Mae **Gwaith** yn cynnwys gwaith adeiladu a thrwsio newydd mewn perthynas ag asedau ffisegol (adeiladau, ffyrdd, ac ati), gan gynnwys yr holl weithgareddau hynny sy'n cynnwys gwaith er dibenion y Rheoliadau.
- Mae **Gwasanaethau** yn cynnwys yr holl wasanaethau y mae'r Cyngor yn eu prynu neu yn eu cael fel arall, gan gynnwys cyngor, gwaith ymgynghorol arbenigol, asiantaeth, staff, ac ati.
- Mae **ITT** yn golygu gwahoddiad i gyflwyno tendr.
- Mae **Nwyddau** yn golygu'r holl nwyddau, cyflenwadau, sylweddau a deunyddiau y mae'r Cyngor yn eu prynu, eu llogi neu yn eu cael mewn unrhyw ffordd arall.
- Mae **Proses Caffael** yn golygu'r broses gaffael sy'n rhedeg dros y cyfnod cyfan, o adnabod yr anghenion, arfarnu'r opsiynau, dewis cyflenwyr, dyfarnu a rheoli contractau drwodd i ddiwedd y contract neu ddiwedd oes ddefnyddiol yr ased, neu warediad yr ased.
- **Prif Swyddog** yn golygu unrhyw swyddog yn y categorïau canlynol o swyddog, Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol a Phennaeth Adran.
- Mae **Rheolau** hyn yn golygu'r Rheolau Gweithdrefn Contract hyn.
- Mae **Rheoliadau** yn golygu Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024 ac unrhyw ddiwygiad neu ailddeddfiad ohono.

- Mae **Rheolwr Caffael** yn golygu Rheolwr Caffael y Cyngor neu unrhyw swyddogion o dan ei oruchwyliaeth neu reolaeth sy'n cael pwerau dirprwyedig i gwblhau unrhyw rwymedigaethau, dyletswyddau neu weithgareddau sydd angen iddynt eu perfformio dan y Rheolau hyn neu i weithredu yn eu habsenoldeb.
- Mae **Swyddogion Awdurdodedig** yn golygu deiliad unrhyw swydd a enwir yn y Cynllun Dirprwyo fel rhywun sydd â phwerau a dyletswyddau dirprwyedig o ran yr ymarferiad caffael dan sylw.
- **Tendrwr / Tendrwyr** - Unigolyn, unigolion, partneriaethau, cwmnïau neu gyrff eraill a wahoddwyd i gyflwyno dyfynbrisiau/tendrau, prisiau am ddarparu gwasanaethau i'r Cyngor, cyflenwi nwyddau neu wneud gwaith.
- Mae **Ysgrifenedig** yn golygu mewn ysgrifen neu ar ffurf electronig "ysgrifenedig".

17.2.2 Mae'r holl werthodd y cyfeirir atynt yn y Rheolau yn cynnwys TAW.

17.2.3 Bydd unrhyw anghydfod ynghylch dehongliad y Rheolau hyn yn cael eu cyfeirio at y Swyddog Monitro am ddatrysiaid.

17.2.4 Bydd y Rheolau hyn yn cael eu darllen ar y cyd â Chyfansoddiad y Cyngor yn ei gyfanrwydd ac yn benodol Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor, y mae'n rhaid cydymffurfio â nhw.

17.2.5 Bydd y Rheolwr Caffael yn cynnal adolygiad ffurfiol o'r Rheolau hyn o leiaf bob dwy flynedd a rhoi gwybod i'r Swyddog Monitro am unrhyw newidiadau sydd eu hangen.

17.2.6 Bydd diwygiadau i Drothwyon Statudol yn cael eu hymgorffori yn y Rheolau hyn fel mater o achos.

17.3 Cydymffurfio â'r Rheolau Hyn

17.3.1 Rhaid dilyn y Rheolau hyn wrth ymdrin ag unrhyw Gaffael yn y Cyngor ac eithrio am y Caffaeliadau hyn ac unrhyw faterion eraill y cyfeirir atynt yn Rheol 17.4.

17.3.2 Rhaid i bob Caffael a wneir gan y Cyngor neu unrhyw barti arall ar ei ran gydymffurfio â:

- yr holl ddarpariaethau statudol perthnasol;
- Ile'n berthnasol, y Rheoliadau;
- Cyfansoddiad y Cyngor;
- amcanion a pholisïau strategol y Cyngor, gan gynnwys y Strategaeth Caffael Corfforaethol.
- Polisi Caffael Cynaliadwy'r Cyngor; ac
- y canllawiau ar Safle Mewnwyd yr Uned Gaffael.

17.3.3 Gall y Rheolwr Caffael o bryd i'w gilydd gyflwyno canllawiau caffael. Rhaid i Brif Swyddogion sicrhau bod gweithwyr yn eu Gwasanaeth yn ymwybodol o ganllawiau o'r fath ac fe ddylent sicrhau cydymffurfiaeth.

17.3.4 Gall unrhyw fethiant gan swyddog i gydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth o'r Rheolau hyn arwain at gamau disgyblu.

17.4 Contractau Eithredig

17.4.1 Eithriadau yw lle mae'r CPRs yn cael eu hatal yn llwyr. Mae'r contractau canlynol wedi'u heithrio o ofynion y CPRs hyn:

- i. Prynu mewnol neu ddarpariaeth gwasanaeth;
- ii. Trefniadau fertigol, h.y. contract cyhoeddus a ddyfernir gan Gyngor i berson cyfreithiol a reolir gan y Cyngor ac sy'n cyflawni o leiaf 80% o'i weithgareddau ar gyfer y Cyngor;
- iii. Trefniadau llorweddol, lle mae dau neu fwy o awdurdodau contractio wir yn cydweithredu â'i gilydd i fodloni rhwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus y mae pob un yn ymddiriedwyd i'w cyflawni;
- iv. Contractau cyfleustodau rhwng cyfleustodau a menter ar y cyd perthnasol y mae'r cyfleustodau hwnnw'n barti iddi, lle ffurfiwyd y fenter ar y cyd er mwyn cyflawni'r gweithgaredd cyfleustodau hwnnw am o leiaf dair blynedd ac mae'r partion i'r fenter ar y cyd wedi'u hymrwymo, trwy gytundeb ysgrifenedig i barhau i fod yn bartion i'r fenter ar y cyd am gyfnod o dair blynedd ar ôl dyddiad y cytundeb hwnnw;
- v. Contractau sy'n ymwneud yn unig â chaffael tir, adeiladau neu unrhyw waith cyflawn arall yn unig (h.y. strwythur gweithredol sy'n deillio o gyflawni gwaith), neu o ddiddordeb mewn neu dros unrhyw un ohonynt (ac eithrio cytundebau datblygu);
- vi. Contractau ar gyfer caffael, datblygu, cynhyrchu neu gydgyhyrchu deunydd a fwriedir i'w ddarlledu (mewn unrhyw fodd) gan awdurdod contractio i'r cyhoedd;
- vii. Contractau i hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaeth cyfathrebu electronig i'r cyhoedd (o fewn ystyr a.32 o Ddeddf Cyfathrebu 2003);
- viii. Contractau ar gyfer darparu i awdurdod contractio cyflafareddu, cyfryngu neu gymodi neu wasanaethau tebyg eraill;
- ix. Contractau ar gyfer darparu Gwasanaethau Cyfreithiol Eithriedig;
- x. Gwasanaethau ariannol – contractau ar gyfer benthyca arian mewn unrhyw arian i awdurdod contractio;
- xi. Contractau cyflogaeth neu gontractau'r gweithiwr;
- xii. Contractau ar gyfer darparu gwasanaethau ymchwil a datblygu;
- xiii. Cytundebau a sefydliadau rhyngwladol;
- xiv. Ni ddylai unrhyw gontractau y mae awdurdod contractio yn eu dyfarnu, er budd diogelwch cenedlaethol, fod yn ddarostyngedig i'r Ddeddf hon;
- xv. Dyfarnu Grantiau (Nid yw grantiau'n cael eu rheoleiddio gan gyfraith caffael cyhoeddus gan nad ydynt yn gontractau cyhoeddus. Fodd bynnag, maent yn cael eu rheoleiddio gan y rheolau ar gymorth gwladwriaethol a rheolaethau cyfraith gyhoeddus gyffredinol sy'n ymwneud â dyletswydd ymddiriedol a gwario arian cyhoeddus yn briodol yn ogystal ag amodau penodol a allai gynnwys gofynion caffael);
- xvi. Gorchmynion unigol a roddir dan gontractau sy'n darparu bod gorchmynion yn cael eu gosod yn erbyn amserlenni cyfraddau'n cytuno, neu o dan gontract

- cyfnod mesuredig neu o dan Fframwaith, ar yr amod bod y Cyngor wedi gosod contractau neu Fframwaith o'r fath yn unol â'r Rheolau hyn;
- xvii. Gorchmynion unigol a roddir dan Wasanaeth Masnachol y Goron a Llywodraeth Cymru yn gosod Fframwaith neu Fframwaith sector cyhoeddus arall lle caniateir i'r Cyngor osod gorchmynion o dan gytundebau o'r fath;
 - xviii. Contractau ar gyfer gwasanaethau yr ymrwymir iddynt yn unol â phwerau o dan Ddeddf Gwasanaethau Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 a Deddf Plant 1989 er budd unigolyn;
 - xix. Cyfarwyddiadau a sesiynau briffio a gyhoeddwyd gan neu ar ran y Swyddog Monitro i Gwnsela. Bydd y Swyddfeydd Monitro yn gwneud trefniadau i sicrhau bod cofnod yn cael ei gadw o'r holl gyfarwyddiadau neu friffiau o'r fath ynghyd â chofnod o ffi'r Cwnsler
 - xx. Nwyddau, Gwasanaethau a Gwaith a gaffaelwyd gan gorff cyhoeddus arall ar ran neu er budd y Cyngor a phartïon eraill (h.y. cytundeb caffael cydweithredol megis contractau a ddyfarnwyd drwy'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol etc.) ac ar yr amod bod rheolau/contract y corff cyhoeddus arall mewn achos o'r fath, holl ofynion cyfraith caffael y DU, a chydymffurfiwyd â'r Amcanion Caffael. Rhaid ceisio cyngor y Rheolwr Caffael cyn dibynnu ar unrhyw drefniant o'r fath;
 - xxi. Contractau unigol "De-minimus" o fewn cyllideb cymorth trafnidiaeth gyhoeddus y Cyngor hyd at uchafswm o 40% o'r gyllideb honno.

17.4.2 Pan fo'r Cyngor yn caffael gwasanaethau gofal iechyd fel y disgrifir ac y darperir ar eu cyfer yn atodlen 1 Rheoliadau Gwasanaethau Iechyd (Trefn Dewis Darparwyr) (Cymru) 2024 ("PSR"), bydd y cyfryw gaffaeliadau yn cael eu gwneud yn unol â'r PSR ac nid y Ddeddf neu'r Rheoliadau.

17.5 Trefniadau Fframwaith a Marchnadoedd Dynamid Ledled y Cyngor

17.5.1 Lle bo modd, rhaid defnyddio trefniadau Fframwaith neu marchnad dynamig a phrynu corfforaethol presennol y Cyngor a osodir yn unol â'r Rheolau hyn, heblaw bod y Rheolwr Caffael wedi cytuno fel arall mewn amgylchiadau eithriadol. Mae'r Uned Caffael Corfforaethol yn cadw cofrestr o gytundebau o'r fath ac fe all roi cyngor ar eu defnydd.

17.6 Amcangyfrif Gwerth Y Contract

17.6.1 Mae'r rheol gyffredinol ar gyfer amcangyfrif gwerth contract yn cynnwys cyfrifiad sy'n ystyried:

- Gwerth unrhyw nwyddau, gwasanaethau neu waith a ddarperir gan yr awdurdod contractio o dan y contract ac eithrio ar gyfer talu;
- symiau sy'n daladwy os arferwyd opsiwn i ymestyn neu adnewyddu telerau'r contract;
- symiau sy'n cynrychioli premiymau, ffioedd, comisiynau neu log a allai fod yn daladwy; a

- symiau sy'n cynrychioli gwobrau neu daliadau a allai fod yn daladwy i gyfranogwyr mewn caffael; a
- yn cynnwys TAW.

17.6.2 Ni ellir rhannu unrhyw waith na gofynion ar gyfer nwyddau neu wasanaethau yn artiffisial er mwyn osgoi cydymffurfio â chyfraith gaffael y DU neu'r Rheolau hyn.

17.6.3 Wrth bennu gwerth cyfanswm yr ystyriaeth lawn, y mae'r Cyngor yn disgwyl ei dalu, bydd y Cyngor, lle bo'n berthnasol, yn ystyried:

- (a) unrhyw fath o opsiwn
- (b) tymor/cyfnod y Contract arfaethedig
- (c) unrhyw hawliau i adnewyddu'r Contract/ymestyn cyfnod y Contract
- (ch) unrhyw bris, taliad, premiwm, ffioedd, comisiwn, budd neu unrhyw fath o gydnabyddiaeth arall sy'n daladwy dan y Contract arfaethedig neu mewn perthynas a'r ymarferiad caffael arfaethedig.

17.6.4 Wrth bennu gwerth unrhyw Contract am logi Nwyddau, os yw tymor y Contract yn amhenodol neu'n ansicr ar yr adeg pan ymrwymir i'r Contract, yna ystyrir bod y gwerth gyfystyr â gwerth yr ystyriaeth fisol wedi'i luosi â 48.

17.6.5 Wrth bennu gwerth unrhyw Contract am ddarparu Gwasanaethau neu wneud Gwaith, os yw tymor y Contract yn amhenodol neu'n ansicr ar yr adeg pan ymrwymir i'r Contract, yna ystyrir bod y gwerth gyfystyr â gwerth yr ystyriaeth fisol wedi'i luosi â 48.

17.6.6 Lle bo gan y Cyngor ofynion dros gyfnod o amser am Nwyddau a Gwasanaethau lle mae gan y contractau nodweddion tebyg ac mae'r Nwyddau a'r Gwasanaethau o'r un math, ac yn ymrwymo i gyfres o gontractau neu gontract sy'n adnewyddadwy, yna bydd yr amcan werth yn cael ei gyfrifo drwy gyfanswm y gwariant ar faterion o'r fath dros y 12 mis diwethaf neu'r amcan wariant a ragwelir ar gyfer y 12 mis nesaf, p'un bynnag yw'r mwyaf. Wrth amcangyfrif y gwerth hwn, rhaid cael cyngor gan y Rheolwr Caffael.

17.6.7 Ar gyfer Fframweithiau, neu debyg, heb wariant blynyddol hysbys, ond â hyd sy'n fwy na blwyddyn, bydd hyd nifer y blynyddoedd yn cael ei luosi â'r gwariant blynyddol tebygol ac mae'n rhaid ei bennu mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Caffael. Yr uchafswm cyfnod a ganiateir bellach o dan Reolau Caffael y DU ar gyfer Fframweithiau yw 4 blynedd, oni bai bod cyfiawnhad clir dros hyn, y mae'n rhaid ei nodi yn yr Hysbysiad Tendro neu'r Hysbysiad Tryloywder sy'n ymwneud â'r Fframwaith.

17.6.8 Rhaid rhoi gwerth i Fframweithiau Agored drwy gynnwys gwerth yr holl Fframweithiau y gellid eu dyfarnu o dan y Fframwaith Agored ac felly, gwerth yr holl gontractau y gellid eu dyfarnu o dan bob un o'r Fframweithiau yn y cynllun.

17.6.9 Mae contractau consesiwn i gael gwerth yn wahanol. Dylid gwerthfawrogi contractau consesiwn trwy amcangyfrif yr uchafswm y gallai'r cyflenwr ddisgwyl ei dderbyn, gan ystyried rhestr debyg nad yw'n gynhwysfawr o newidynnau yn y rheol gyffredinol, gyda rhai addasiadau yn fwy perthnasol i gontractau consesiwn, megis symiau a dderbynnir wrth werthu asedau a ddelir gan y cyflenwr o dan y contract consesiwn.

17.6.10 Os nad oes modd amcangyfrif gwerth contract, yna ystyrir bod y contract yn cael ei brisio fel y uwchben y trothwy.

17.7 Contractau Dan £100,000 (Dyfyniadau)

17.7.1 Lle bo modd, rhaid cael nwyddau, gwasanaethau a gwaith drwy Gytundebau Fframwaith, rhestrau sefydlog neu drefniadau consortia corfforaethol presennol.

17.7.2 Lle nad oes trefniadau cymeradwy presennol, rhaid ceisio'r nifer ganlynol o ddyfynbrisiau a rhoi tystiolaeth o hynny yn unol â Rheolau 17.7.3 neu 17.7.4.

(a) Dim ond un dyfynbris sydd ei angen ar hyd at £10,000;

(b) Mae angen tri dyfynbris rhwng £10,000 a £100,000.

17.7.3 Am ymarferiadau Caffael o hyd at £10,000, rhaid i'r dyfynbris a geir fod yn ysgrifenedig er mwyn arddangos gwerth gorau a chyfanrwydd y broses. Rhaid i'r Gwasanaeth gadw'r wybodaeth hon.

17.7.4 O ran ymarferiadau Caffael o £10,000 i £100,000, fe gedwir cofnodion yn nodi pa Gontractwyr a ddewiswyd i roi dyfynbris, i bwy y dyfarnwyd y Contract a'r rhesymau am wneud hynny (pris isaf neu'r cynnig sy'n arddangos gwerth gorau i'r Cyngor a pham), fel bod modd arddangos gwerth gorau a chyfanrwydd y broses. Bydd dyfynbrisiau'n cael eu cadw'n gyfrinachol hyd nes y dyfernir y contract. Rhaid i'r Gwasanaeth gadw'r wybodaeth hon. Mae'n bwysig gwerthfawrogi bod yn rhaid rhoi gwybod i Gontractwyr sut bydd eu dyfynbrisiau yn cael eu gwerthuso a dylid nodi'r wybodaeth hon yn glir pan ofynnir i Gontractwyr roi dyfynbris.

17.7.5 Lle mae angen rheolaidd am nwyddau, gwasanaethau a gwaith tebyg, ac nad yw'r trefniadau a ddisgrifir yn Rheol 17.5 ar gael, rhaid ystyried dyfarnu trefniant fframwaith a rhaid cael cyngor gan y Rheolwr Caffael.

17.7.6 Lle bo nwyddau, gwasanaethau neu waith yn cael eu caffael yn rheolaidd o un cyflenwr penodol dan y Rheol hon a bod gwerth cyfanredol y contractau hynny'n fwy na £100,000 mewn unrhyw flwyddyn ariannol, rhaid i'r Pennaeth Adran adrodd ar y mater i'r Rheolwr Caffael fydd yn cynnal adolygiad o'r trefniadau hyn o ran sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheolau hyn a Pholisïau a Strategaethau'r Cyngor.

17.8 Contractau Sydd Werth Mwy Na £100,000 (Tendrau)

17.8.1 O ran ymarferiadau caffael sydd ag amcan werth o fwy na £100,000, rhaid gwahodd trwy gystadleuaeth agored o leiaf dri thendr ysgrifenedig.

17.8.2 I weld y rheolau ynghylch: Cyn-gymhwyso, Gwahoddiad i Dendro, Derbyn, Cystodaeth ac Agor Tendrau, Gwerthuso Tendir, Tîm Gwerthuso, Risg a Dyfarnu Contractau, gweler rheolau 17.12-17.13, 17.18, 17.20-17.24.

17.8.3 Bydd yr Uned Caffael Corfforaethol yn cynnal Cofrestr Contract Corfforaethol fydd yn cadw cofnod o bwy y dyfernir contractau iddynt a'r llwybr caffael ymhob achos. Rhaid i'r Swyddog Awdurdodedig ddarparu'r holl wybodaeth ofynnol i hwyluso hyn i'r Rheolwr Caffael Corfforaethol.

17.8.4 Rhaid i bob tendr ddefnyddio rhif cyfeirio tendr a rhoi gwybod i'r Uned Caffael Corfforaethol am y rhif hwn.

17.9 Contractau y mae'r Rheoliadau yn Berthnasol Iddynt

17.9.1 O ran ymarferion caffael sy'n cael eu trin dan y Rheoliadau:

- (a) gwahoddir tendrau yn unol â gofynion y Ddeddf a'r Rheoliadau sydd mewn grym ar hyn o bryd; a
- (b) bydd y Ddeddf a Rheoliadau yn cael blaenoriaeth dros y Rheolau hyn;
- (c) bydd y Ddeddf a Rheoliadau o'r fath yn cynnwys gofynion sy'n fwy na'r gofynion a nodir yn y Rheolau hyn.

17.9.2 Gellir cael cyngor ac arweiniad ar p'un a yw ymarferiad caffael penodol yn destun y Rheoliadau gan y Rheolwr Caffael a'r Swyddog Monitro.

17.9.3 Y trothwyon cyfredol, fel ar y 1af o Ionawr 2026 yw:

• Cyflenwadau a Gwasanaethau	£207,720
• Contractau Gwasanaeth Cymorthdaledig	£207,720
• Gwaith	£5,193,000
• Contract Cyffyrddiad Ysgafn am Wasanaethau	£663,540

Rhaid cyfrifo gwerth yr ymarferiad caffael yn cynnwys TAW yn unol a Nodyn Polisi Caffael 10/21 a 11/23.

Mae'r trothwyon yn newid bob dwy flynedd ac mae disgwyl iddynt newid eto ar y 1af o Ionawr 2028.

17.9.4 Bydd angen cyhoeddi Hysbysiad Manylion Contract ar gyfer Contractau a osodir o dan Ddeddf Caffael 2023 sydd a gwerth o £30,000 neu mwy.

17.10 Ymgynghorwyr

17.10.1 Penodir unrhyw ymgynghorwyr a ddefnyddir gan y Cyngor yn unol â'r Rheolau hyn. Pan fo'r Cyngor yn defnyddio Ymgynghorwyr i weithredu ar ei ran mewn perthynas ag unrhyw ymarferiad caffael, yna bydd y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol yn sicrhau bod yr ymgynghorwyr yn cynnal yr ymarferiad caffael yn unol â'r gorchmynion sefydlog contract hyn. Ni fydd unrhyw ymgynghorydd yn gwneud penderfyniad ar p'un ai i ddyfarnu contract neu o ran pwy ddylid dyfarnu contract iddo. Bydd y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol yn sicrhau bod perfformiad yr ymgynghorydd yn cael ei fonitro.

17.11 Is-Contractwyr wedi'u Henwebu a'u Henwi

17.11.1 Os bydd is-contractwr, cyflenwr neu is-ymgyngorydd yn cael ei enwebu neu'n cael ei enwi i brif contractwr, rhaid gwahodd dyfynbrisiau neu dendrau yn unol â'r Gorchmynion Sefydlog hyn a bydd telerau'r gwahoddiad yn cyd-fynd â'r prif contract.

17.12 Cyn-Gymhwyso (yn berthnasol i bawb)

17.12.1 Ni fydd y Cyngor yn ymrwmo i Gontract â Chontractwr oni bai ei fod yn fodlon o ran cymwyseddau'r Contractwr. Gallai'r meini prawf ar gyfer dewis Tendrwyr gynnwys, ond nid oes yn rhaid iddynt fod yn gyfyngedig i:

- (a) Cymhwysedd technegol neu broffesiynol a phrofiad, gan gynnwys cymwysterau;
- (b) Iechyd a Diogelwch;
- (c) Ansawdd, yn cynnwys awdurdodiad gan sefydliadau rheoli ansawdd swyddogol neu asiantaethau cydnabod cymhwysedd ac/neu sy'n profi cydymffurfiaeth â safonau rheoli ansawdd ac/neu mesurau neu gyrff neu safonau cyfwerth;
- (ch) Statws ariannol ac economaidd, gan gynnwys darpariaethau yswiriant priodol;
- (d) Cynaliadwyedd, gan gynnwys mesurau rheoli amgylcheddol,
- (dd) Tystiolaeth ynghylch a ydynt yn anaddas ar sail e.e. methdaliad, euogfarn droseddol neu fethiant i dalu trethi;
- (e) Mesurau'r Iaith Gymraeg;
- (f) Diogelu Data; a
- (ff) Cyflogaeth Moesol a Diogelu.

17.12.2 Bydd unrhyw ymarferion caffael sy'n destun y Rheoliadau, yn cydymffurfio â'r Rheoliadau priodol.

17.12.3 Bydd yr holl brosesau Cyn-gymhwyso yn cydymffurfio â'r egwyddorion y cyfeirir atynt yn 17.1.7 uchod a rhaid llunio unrhyw ofynion yn unol â'r Cyn-gymhwyso er mwyn osgoi torri'r egwyddorion hyn.

17.12.4 Bydd yr holl gyfyngiadau amser ar gyfer y Prosesau Cyn-gymhwyso yn rhesymol ac yn ystyried pwnc y contract, gwerth y contract ac Amcanion Caffael.

17.13 Y Gwahoddiad i Dendro (ITT)

17.13.1 Mae'r gofynion hyn yn gymwys i bob Gwahoddiad i Dendro, waeth beth fo'u gwerth.

17.13.2 Rhaid i'r ITT gynnwys manylion gofynion y Cyngor ar gyfer y contract penodol gan gynnwys:

- (a) manyleb o'r Gwasanaethau, y Nwyddau neu'r Gwaith sy'n cael eu caffael a chyfarwyddiadau ynghylch a ganiateir unrhyw amrywiadau;
- (b) yr amserlen caffael gan gynnwys y dyddiad a'r amser dychwelyd tendr, a bydd hwn yn rhoi cyfnod rhesymol o amser i'r ymgeiswyr baratoi eu tendrau;
- (c) telerau ac amodau contract y Cyngor;
- (ch) y meini prawf gwerthuso gan gynnwys y pwysoli;
- (d) Ffurf y Tendr;
- (dd) mecanwaith prisio a chyfarwyddiadau ar gyfer cwblhau;
- (e) p'un a yw'r Cyngor o'r farn y bydd TUPE yn berthnasol;
- (f) ffurf a chynnwys y datganiadau dull i'w darparu;

- (ff) rheolau ar gyfer cyflwyno tendrau;
- (g) cyfeirnod tendr
- (ng) unrhyw wybodaeth bellach a fydd yn hysbysu neu'n cynorthwyo Tendrwr i baratoi tendrau.

17.13.3 Bydd gofyn i bob Tendrwr sy'n cyflwyno tendr lofnodi datganiad sy'n nodi:

- (a) nad ydynt ac na fyddant yn rhoi gwybod i unrhyw berson arall beth yw swm eu tendr;
- (b) nad ydynt wedi pennu swm unrhyw dendr yn unol â threfniant pennu pris;
- (c) eu bod yn derbyn bod gan y Cyngor hawl i ganslo'r contract ac adfer ganddynt swm unrhyw golled a ddaw yn sgil unrhyw ganslo o'r fath os canfyddir bod unrhyw weithred lwgr neu dwyllodrus neu hepgoriad ganddynt hwy sydd wedi gwneud i'r Cyngor ymrwymo i'r contract
- (ch) cydnabod nad yw'r Cyngor wedi'i rwymo i dderbyn y tendr isaf nac unrhyw dendr a gyflwynwyd, y gellir atal yr ymarferiad tendro ar unrhyw gam yn ystod y broses dendro a'u bod yn gyfrifol am unrhyw gostau a threuliau a ddaw yn sgil llunio tendr.

17.13.4 Bydd yr holl gyfyngiadau amser ar gyfer y Prosesau Tendro yn ddigon rhesymol ac yn ystyried pwnc y contract, gwerth y contract ac Amcanion Caffael.

17.14 Gweithdrefn Dendro Gystadleuol

17.14.1 Gall y Cyngor ddewis dyfarnu contract cyhoeddus i gyflenwr sy'n cyflwyno'r tendr mwyaf manteisiol ("MAT") mewn gweithdrefn dendro gystadleuol, y mae'n rhaid iddi fod ar un o ddwy ffurf.

17.14.2 Yn achos gweithgareddau caffael nad ydynt yn cael eu llywodraethu gan y Rheoliadau, bydd y Cyngor yn cyhoeddi hysbysiad ar wefan Sell2Wales y Cyngor. Bydd maint a natur y cyhoeddiad yn gymesur â gwerth a phwnc y Caffaeliad a rhoddir ystyriaeth i'r Amcanion Caffael.

17.14.3 Bydd yr hysbyseb yn cynnwys manylion y contract arfaethedig ac yn nodi cyfyngiad amser lle y gallai partïon â diddordeb fynegi diddordeb mewn tendro am y contract. Ar ôl i'r terfyn amser ar gyfer mynegi diddordeb ddod i ben, bydd y Cyngor yn anfon ITT i unrhyw barti sy'n mynegi diddordeb. Bydd yr ITT yn nodi'r dyddiad dychwelyd ar gyfer tendrau.

17.14.4 Gwahoddir yr holl Dendrwyr sy'n mynegi diddordeb i gyflwyno tendr. O ran ymarferion caffael sydd ag amcan werth sy'n uwch na £100,000 lle mae llai na thri Thendrwr wedi mynegi diddordeb, rhaid i'r Swyddog Awdurdodedig, mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Caffael, bennu p'un a oes digon o ddiddordeb i arddangos gwir gystadleuaeth cyn penderfynu parhau â'r ymarferiad Caffael.

17.15 Gweithdrefn Agored

17.15.1 Gweithdrefn un cam lle gall unrhyw barti â diddordeb gyflwyno tendr. Rhaid i'r penderfyniad i roi'r contract fod yn seiliedig ar y tendr sengl yn unig, yn amodol ar

unrhyw dendrau diystyr. Mae hon yn broses lle gall pob darparwr sydd â diddordeb yn y contract ac sydd wedi ymateb i hysbyseb gyflwyno tendrau. Rhaid ystyried pob tendr o'r fath heb unrhyw broses ddethol ymlaen llaw. Mae'r amodau cyfranogiad a chatau gwerthuso yn cael eu cynnal ar ôl cyflwyno'r tendrau.

17.16 Gweithdrefn Hyblyg Gystadleuol

17.16.1 Nid yw'r weithdrefn hon yn rhagnodol ac mae'n caniatáu hyblygrwydd i'r Cyngor ddylunio ei broses gaffael ei hun, i weddu i'w anghenion a'i ofynion penodol. Rhaid i'r Cyngor roi sylw i'r Amcanion Caffael a bodloni'r gofynion gweithdrefnol sy'n berthnasol i'r weithdrefn dendro gystadleuol, megis mewn perthynas ag amser a thryloywder. Rhaid i'r Cyngor benderfynu at bwy i roi'r contract ar sail pwy y mae'r Cyngor yn ystyried eu bod yn briodol at ddiben dyfarnu'r contract cyhoeddus.

17.16.2 Mae'n rhaid i'r Cyngor ddefnyddio'r weithdrefn hyblyg gystadleuol lle:

- mae'n dymuno cyfyngu ar nifer y cyflenwyr cyn gwahodd tendrau;
- wrth gaffael o dan farchnad ddeinamig; ac
- wrth gadw contract cyhoeddus i Ddarparwyr Cyflogaeth â Chymorth neu Gydfuddiannol Gwasanaethau Cyhoeddus.

17.16.3 Nid oes angen i'r Cyngor ddefnyddio gweithdrefn dendro gystadleuol lle mae dyfarniad uniongyrchol yn cael ei gyfiawnhau yn unol â'r Ddeddf neu wrth ddyfarnu contract cyhoeddus o dan Fframwaith.

17.17 Dyfarniad Uniongyrchol

17.17.1 Mae hyn yn darparu ar gyfer dyfarnu contract cyhoeddus heb ddefnyddio gweithdrefn dendro gystadleuol a gellir gosod y contract cyhoeddus gyda'r cyflenwr yn uniongyrchol heb gystadleuaeth.

17.17.2 Mae amgylchiadau cyfyngedig lle caniateir i'r Cyngor roi contract cyhoeddus heb gynnal gweithdrefn dendro gystadleuol yn gyntaf. Dylai swyddogion gyfeirio at yr amgylchiadau fel y nodir yn adran 41 ac Atodlen 5 o'r Ddeddf. Mae'r amgylchiadau hyn hefyd yn berthnasol i ddyfarniadau uniongyrchol o dan y trothwy.

17.17.3 Cyn dyfarnu contract yn y ffordd hyn, rhaid i'r Cyngor ystyried a yw'r cyflenwr yn Gyflenwr Gwaharddedig, os felly, bydd angen i'r Cyngor benderfynu a yw'n briodol i'r cyflenwr dderbyn y contract. Hefyd, bydd angen i'r Cyngor lenwi Adroddiad Cyfiawnhau Dyfarniad Uniongyrchol.

17.17.4 Mae paragraff 15 o Atodlen 5 (Dyfarniad Uniongyrchol: Contractau Dewis Defnyddiwr) o'r Ddeddf yn caniatáu dyfarnu contract dewis defnyddiwr yn uniongyrchol ar yr amod bod amodau penodol yn cael eu bodloni. Nid yw Contractau Dewis Defnyddiwr yn addas ar gyfer gweithdrefn dendro gystadleuol oherwydd anghenion neu ddewis unigolyn. Rhaid i'r Cyngor hefyd fod o'r farn ei bod er budd gorau'r unigolyn nad yw'r contract yn cael ei ddyfarnu o dan weithdrefn dendro gystadleuol. Dylid darparu gwasanaethau dewis defnyddwyr o dan Gontractau Cyffwrdd Ysgafn er mwyn bod o fudd i unigolyn penodol a lle mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried barn yr unigolyn neu ei ofalwr ynghylch pwy ddylai ddarparu'r gwasanaethau dewis defnyddwyr.

17.17.5 O ran ymarferion Caffael nad ydynt yn cael eu llywodraethu gan y Rheoliadau, gall y Cyngor ddefnyddio Dyfarniad Uniongyrchol yn yr amgylchiadau a ganlyn ac amddilyn yr amodau yn adran 41 ac atodlen 5 y Ddeddf (Lle bo un cyflenwr yn meddu ar hawliau unigryw, lle nad oes dewisiadau amgen rhesymol nac opsiynau amgen ar gael, lle bo contractau dewis defnyddwyr yn berthnasol, neu lle bo materion o frys eithafol ac anochel). Mae'r amodau yn berthnasol i unrhyw estyniad contract hefyd.

17.17.5.1 Pan fo gwerth y contract cychwynnol neu amcan werth cyfanredol y contract ac unrhyw estyniad yn fwy na £50,000 rhaid gwneud penderfyniad mewn ymgynghoriad â Rheolwr Caffael y Cyngor.

17.17.5.2 Pan fo gwerth y contract cychwynnol neu amcan werth cyfanredol y contract ac unrhyw estyniad yn fwy na £100,000 rhaid gwneud penderfyniad mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Caffael yn ogystal â'r Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Monitro.

17.17.6 Caiff y Swyddog Monitro ddirprwyo'r cyfrifoldeb i ddirprwy awdurdodedig.

17.18 Derbyn, Cystodaeth ac Agor Tendrau

17.18.1 Rhaid i wahoddiadau i dendro nodi'n glir beth yw'r dyddiad a'r amser dychwelyd diweddaraf.

17.18.2 Rhaid dychwelyd yr holl dendrau gan ddefnyddio'r amlen swyddogol neu'r label dychwelyd swyddogol ac ni ddylid marcio'r amlen mewn unrhyw ffordd fel bod modd gwybod pwy yw'r tendrwr.

17.18.3 Bydd tendrau sydd ag amcan werth sy'n llai na £100,000 (os y'i derbynnir drwy'r post yn yr amlen swyddogol neu gan ddefnyddio'r label dychwelyd tendr swyddogol) yn cael eu dychwelyd i'r Pennaeth Gwasanaeth. Bydd tendrau'n cael eu hagor ym mhresenoldeb dau weithiwr sydd wedi'u dynodi gan y Pennaeth Gwasanaeth neu'r maes gwasanaeth perthnasol, fel y bo'r achos. Rhaid i'r gweithwyr fod yn annibynnol o'r dasg o osod y Contract. Pan agorir y tendrau, bydd pob tendr yn cael ei gofnodi ar gofrestr tendrau a bydd y tendrau a'r gofrestr yn cael eu llofnodi â phriflythrennau'r swyddogion dynodedig sy'n bresennol ar y pryd, ac fe nodir y dyddiad arnynt. Anfonir copi o gofnod o'r fath i'r Rheolwr Caffael.

17.18.4 Rhaid cyfeirio tendrau sydd ag amcan werth sy'n fwy na £100,000 at y Swyddog Monitro os yn ei dderbyn trwy'r post gan ddefnyddio'r amlen swyddogol neu'r label dychwelyd tendrau swyddogol a ddarparwyd gan y Cyngor. Bydd y Swyddog Monitro yn gyfrifol am dderbyn, am gystodaeth ac am agor tendrau o'r fath. Bydd tendrau ar gyfer yr un ymarferiad caffael yn cael eu hagor un ar ôl y llall yn ystod yr un sesiwn, a hynny ym mhresenoldeb dau weithiwr a ddynodwyd ar gyfer y diben hwnnw. Caiff un gweithiwr ei enwebu gan y Swyddog Monitro a bydd y gweithiwr arall yn cael ei enwebu gan y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol. Rhaid i'r gweithwyr fod yn annibynnol o'r dasg o osod y Contract. Ar ôl eu hagor, bydd y tendrau'n cael eu cofnodi mewn cofrestr tendrau a bydd y tendrau a'r gofrestr yn cael eu llofnodi â phriflythrennau'r swyddogion dynodedig sy'n bresennol ar y pryd, ac fe nodir y dyddiad arnynt. Yna, anfonir y tendrau sydd wedi'u hagor at y swyddog gwerthuso.

17.18.5 Ni fydd unrhyw Dendr sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad a'r amser derbyn tendrau hwn yn cael ei dderbyn.

17.19 Tendo Electronig

17.19.1 Gyda chytundeb y Rheolwr Caffael, efallai y bydd y broses dendro, gan gynnwys gwahodd a derbyn tendrau, yn cael ei chynnal yn electronig gan ddefnyddio teclynau eGaffael y Cyngor ac fe ellir addasu darpariaethau Rheolau 17.14 i 17.18 i hwyluso hyn, cyhyd ag y bo'r system electronig a ddefnyddir wedi'i chymeradwyo gan yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg.

17.19.2 Wrth wneud cais am sawl dyfynbris neu dendr, dylid osgoi defnyddio cyfeiriad e-bost personol neu generig i sicrhau bod bidiau'n cael eu derbyn yn unol â'r gweithdrefnau agor a bod y bidiau'n cael eu cofnodi'n gywir wrth gael eu derbyn.

17.20 Gwerthuso'r Tendir

17.20.1 Bydd tendrau'n cael eu gwerthuso yn unol â'r meini prawf gwerthuso a'r pwysoliadau a nodir yn y gwahoddiad i dendro. Bydd pob contract, ac eithrio contractau pan bennwyd ymlaen llaw fod y pris isaf yn faen prawf priodol, yn cael ei ddyfarnu ar sail y cynnig sy'n cynrychioli'r gwerth am arian gorau i'r Cyngor (y tendr sydd fwyaf manteisiol yn economaidd) gan ystyried y meini prawf gwerthuso a'r pwysoli a osodir. Rhaid pennu'r meini prawf gwerthuso a'r pwysoli ymlaen llaw, a'u rhestru yn y dogfennau gwahoddiad i dendro. Yn ogystal, bydd y meini prawf a'r pwysoli yn cael eu dilyn yn gaeth (ac yn parhau heb eu newid) bob amser drwy gydol y weithdrefn dyfarnu contract. Gellir cael arweiniad a chymorth ar y meini prawf gwerthuso perthnasol o'r Uned Caffael Corfforaethol a'r Uned Gyfreithiol.

17.20.2 Bydd y meini prawf asesu a ddefnyddir yn cael pwysoliad sy'n cynrychioli canran o gyfanswm pwysigrwydd. Bydd ystyriaeth o werth cymdeithasol yn cael ei chynnwys yn y meini prawf asesu neu fel arall a bennir yng ngofynion y contract.

17.20.3 Ar ôl agor ac archwilio'r tendrau, os canfyddir camgymeriad yng nghyfrifiant y tendr, rhoddir manylion y camgymeriad i'r Tendirwr, ynghyd â chyfle i gadarnhau bod y tendr a gyflwynir wedi'i gywiro, neu i dynnu eu tendr yn ei ôl.

17.20.4 Bob amser yn ystod unrhyw broses o'r fath neu broses egluro, bydd y Cyngor yn ystyried ac yn cydymffurfio â'r egwyddorion o beidio â gwahaniaethu, triniaeth gyfartal, tryloywder, cyd-gydnabyddiaeth a chyfranoled; egwyddorion sy'n berthnasol i holl ymarferion Caffael y Cyngor.

17.21 Y Tîm Gwerthuso

17.21.1 Ar gyfer pob Contract gydag amcan werth sy'n fwy na £100,000, bydd y Swyddog Awdurdodedig yn ffurfio tîm gwerthuso ('Tîm Gwerthuso') sydd â chyfrifoldeb am werthuso tendrau. Bydd y Tîm Gwerthuso yn cynnwys o leiaf dau swyddog sydd ag arbenigedd perthnasol i gwblhau'r gwerthusiad yn llwyddiannus. Rhaid cadw cofnodion ysgrifenedig o'r gwerthusiad.

17.22 Risg

17.22.1 O ran ymarferion Caffael sydd ag amcan werth sy'n fwy na £100,000, bydd y Swyddogion Awdurdodedig yn cynnal asesiad risg ar y cychwyn cyntaf ac yna fe'i diweddarir drwy gydol y Broses Gaffael. Rhaid rhoi gwybod i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau am unrhyw risgiau a nodwyd.

17.22.2 O ran ymarferiadau Caffael sydd ag amcan werth o fwy na £100,000, bydd y Tîm Gwerthuso yn ystyried p'un a fydd angen bond perfformiad ac/neu warant rhiant gwmni (os yn berthnasol) gan y Cyflenwr a ffafir a lle bo gofyniad o'r fath yn codi, sicrhau ei fod yn cael ei gynnwys fel gofyniad yn y broses gaffael.

17.22.3 Ar gyfer yr holl ymarferion Caffael, bydd y Swyddog Awdurdodedig yn ystyried y math priodol (atebolrwydd gweithwyr, atebolrwydd cyhoeddus, indemniad proffesiynol, ac ati) a lefel yr yswiriant sydd ei angen ar gyfer pob contract a sicrhau bod hwn wedi'i gynnwys fel gofyniad yn y broses gaffael.

17.23 Y Rhestr a Gymeradwywyd

17.23.1 Ni ellir ond defnyddio Rhestrau a Gymeradwywyd pan fo contractau ailadroddus neu debyg yn debygol ond lle mae angen prisio contractau o'r fath yn unigol ac nad oes modd eu hagregu a'u prisio yn rhwydd mewn ymarferiad tendro sengl. Ni ellir defnyddio Rhestrau a Gymeradwywyd ar gyfer contractau lle mae'r amcan werth yn fwy na £100,000.

17.23.2 Ni ellir rhoi unrhyw gyflenwr ar Restr a Gymeradwywyd hyd nes bod ymchwiliad digonol, gan ystyried Rheol 17.12 o ran eu gallu ariannol a thechnegol i weithredu'r contract, oni bai y bydd materion o'r fath yn cael eu harchwilio bob tro y gwahoddir bidiau o'r rhestr honno.

17.23.3 Rhaid llunio Rhestrau a Gymeradwywyd ar ôl hysbysebu yn gwahodd ceisiadau i gael eu cynnwys ar y rhestr. Rhaid arddangos yr hysbyseb er mwyn sicrhau'r cyhoeddusrwydd mwyaf eang ymysg cyflenwyr perthnasol. Gellir cynnwys personau ar y rhestr rhwng yr hysbyseb gychwynnol a'r ail-hysbyseb cyhyd ag y cydymffurfir â gofynion Rheol 17.23.2.

17.23.4 Rhaid cadw rhestr a gymeradwywyd o gyflenwyr Gwasanaethau mewn dull agored, teg a thryloyw a rhaid iddi fod ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor. Gellir caniatáu unrhyw gais gan weithredwr economaidd i gael ei gynnwys ar y rhestr, cyhyd a'u bod yn bodloni gofynion Rheol 17.23.2.

17.23.5 Rhaid adolygu'r rhestr bob blwyddyn fan leiaf a rhaid ei hail-hysbysebu bob tair blynedd, fan leiaf. Wrth ail-hysbysebu, rhaid anfon copi o'r hysbyseb i bob person ar y rhestr, yn eu gwahodd i ail-ymgeisio. Mae Adolygu yn golygu:

- i. ail-asesu gallu ariannol a thechnegol a pherfformiad y personau hynny sydd ar y rhestr, oni bai bod materion o'r fath yn cael eu harchwilio bob amser y gwahoddir bidiau o'r rhestr honno
- ii. dileu, gyda rhybudd, y personau hynny sydd ddim yn gymwys mwyach, a chofnod ysgrifenedig yn cael ei gadw yn cyfiawnhau'r dilead hwnnw.

17.24 Dyfarnu Contractau

17.24.1 Dim ond Swyddog Awdurdodedig a all ddyfarnu contract. Rhaid i'r Swyddog Awdurdodedig sicrhau, cyn ceisio penderfyniad o'r fath, bod digon o gyllideb yn ei lle i fodloni holl daliadau'r contract ac os oes unrhyw gyllid yn dod gan drydydd parti, y cydymffurfir ag unrhyw amodau sydd ynghlwm â chyllid o'r fath.

17.24.2 Lle mae gan y Contract i'w ddyfarnu amcan werth o £250,000 neu fwy, ymhen 5 diwrnod gwaith o ddyddiad dyfarnu'r contract, rhaid hysbysu'r Aelod Cabinet perthnasol yn ysgrifenedig bod y contract wedi'i ddyfarnu a dylai hysbysiad o'r fath gynnwys manylion ynghylch y pwnc dan sylw, y partïon a gwerth y contract.

17.24.3 Ni fydd y Cyngor yn dyfarnu Contract oni bai ei fod yn cynrychioli'r gwerth am arian gorau. Ni fydd Contract yn cael ei ddyfarnu heb ddefnyddio'r meini prawf gwerthuso tendr a bennwyd ymlaen llaw a'r pwysoli. Pan fo tendr yn cael ei werthuso yn seiliedig ar bris yn unig, rhaid i'r Contract, yn ddarostyngedig i Reol 17.24.4 isod, gael ei ddyfarnu i'r Tendrwr sy'n cyflwyno'r pris isaf.

17.24.4 Os yw'r Swyddog Awdurdodedig o'r farn bod Tendr yn cael ei ystyried yn annormal o isel, gellir diystyru'r Tendr, ond dim ond os:

- a) yw'r Swyddog Awdurdodedig wedi gwneud cais ysgrifenedig am eglurhad o'r Tendr neu'r Rhannau hynny ohono y mae'n eu hystyried sy'n cyfrannu at bris annormal o isel y cynnig;
- b) ystyriwyd y dystiolaeth a ddarparwyd mewn ymateb i'r cais ysgrifenedig; ac
- c) a ddilyswyd y Tendr wedi hynny.

17.24.5 Ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, ni ddylid gofyn i unrhyw Gontractwr ddarparu unrhyw Wasanaethau, cyflenwi unrhyw Nwyddau neu wneud unrhyw Waith (gan gynnwys Gwaith paratoadol) hyd nes i'r Contract gael ei gwblhau neu bod y Gwasanaethau, y Nwyddau neu'r Gwaith dan sylw wedi'u cynnwys mewn llythyr o fwriad. Rhaid i'r Pennaeth Gwasanaeth sy'n gyfrifol am y maes gwasanaeth dan sylw wneud unrhyw benderfyniad sy'n groes i hyn a bydd unrhyw benderfyniad o'r fath yn cynnwys asesiad risg llawn o ran y goblygiadau posib i'r Cyngor os bydd y Contractwr yn cael dechrau arni cyn i delerau ac amodau'r contract gael eu cwblhau'n derfynol neu bod llythyr o fwriad yn cael ei gyflwyno.

17.24.6 Dim ond o dan yr amgylchiadau eithriadol y defnyddir llythyrau o fwriad, fel a ganlyn:

- a) Lle mae gofyn i Gyflenwr ddarparu gwasanaethau, cyflenwadau neu waith cyn derbyn derbyniad ysgrifenedig gan y Cyngor; neu
- b) Pan nad yw ffurflen tendr y Cyngor yn cynnwys datganiad hyd nes y bydd contract ffurfiol wedi'i gwblhau, bydd derbyniad ysgrifenedig y Cyngor o dendr yn rhwymo'r partïon mewn perthynas gytundebol.

17.24.5 Rhaid adolygu'r rhestr yn flynyddol a'i ail-hysbysebu o leiaf bob tair blynedd. Adeg ail-hysbysebu, rhaid anfon copi o'r hysbyseb at bawb ar y rhestr, yn eu gwahodd i ailymgeisio. Golyga adolygu:

- (i) ail-asesu gallu a pherfformiad ariannol a thechnegol y sawl ar y rhestr, onid ymchwilir i faterion o'r fath bob tro y gwahoddir bidiau oddi ar y rhestr honno;
- (ii) dileu, gyda rhybudd, y sawl nad ydynt bellach yn gymwys, gan gadw cofnod ysgrifenedig yn cyfiawnhau'r dileu.

17.25 Hysbysu am Ganlyniadau a Chrynodebau Asesu

17.25.1 Unwaith y bydd y penderfyniad i ddyfarnu'r contract wedi'i wneud, ac eithrio'r Tendirwr llwyddiannus, bydd pawb sy'n mynegi diddordeb ac yn tendro, yn derbyn crynodeb asesu yn cynnwys manylion am yr hyn a ganlyn:

- i. Y meini prawf dyfarnu a'r pwysoli
- ii. Sgôr y Tendirwr yn erbyn y meini prawf dyfarnu a'r pwysoli (lle bo hynny'n berthnasol)
- iii. Sgôr gyffredinol y Tendirwr llwyddiannus; ac
- iv. Enw'r Tendirwr llwyddiannus.

17.25.2 Os bydd unrhyw wybodaeth ychwanegol yn cael ei datgelu i'r Tendirwyr, rhaid dod i gytundeb ar hyn ymlaen llaw â'r Rheolwr Caffael, gan ystyried gofynion unrhyw ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â datgelu gwybodaeth.

17.25.3 Mae'r rhestr o bwyntiau lle gall dad-briffio fod yn briodol yn cynnwys:

- i. amodau cyfranogi: lle nad yw'r ymgeisydd wedi'i ddewis (rhestr fer) i gymryd rhan yn y broses dendro;
- ii. dyfarniad: pan na ddyfarnwyd y Contract i'r Tendirwr ar ôl gwerthuso'r cynigion/tendr. Ni ddylid cynnal di-briffio o'r fath cyn y gwneir y penderfyniad am ddyfarnu'r contract a bod yr holl Tendirwyr aflwyddiannus wedi cael gwybod na fuont yn llwyddiannus. Dylid bod yn glir na ellir defnyddio'r broses ddi-briffio i newid y dewis o Gontractwr neu i ail-agor y broses ddethol.
- iii. os gofynnir i unrhyw ddarpar gyflenwr dynnu'n ôl neu ei fod yn tynnu yn ôl yn ystod yr ymarferiad Caffael. Dim ond ar gais y Contractwr y bydd di-briffio yn cael ei wneud.

17.25.4 Gall y Cyngor ymrwymo'n wirfoddol i gyfnod segur, a ddylai fod am ddim llai nag 8 diwrnod gwaith o'r diwrnod y cyhoeddir yr Hysbysiad Dyfarnu Contract.

17.25.5 Nid yw cyfnod gwahardd yn orfodol pan fo'r Cyngor yn dyfarnu contract cyhoeddus yn unol â Dyfarniad Uniongyrchol o dan adran 41 ac adran 43 o'r Ddeddf; contractau a ddyfarnwyd o dan Fframweithiau neu Farchnadoedd Dynamig; a Chontractau Cyffyrddiad Ysgafn

17.25.6 Mae Hysbysiad Manylion Contract yn hysbysiad gorfodol y mae'n rhaid i'r Cyngor ei gyhoeddi bob tro y bydd contract cyhoeddus sydd a gwerth £30,000 yn cael ei ymrwymo. Os yw'r contract yn gontract Cyffyrddiad Ysgafn, rhaid cyhoeddi hwn cyn diwedd y cyfnod o 120 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod yr ymrwymir i'r contract. Fel arall, rhaid cyhoeddi'r hysbysiad cyn diwedd y cyfnod o 30 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod yr ymrwymir i'r contract. Rhaid i'r Hysbysiad Manylion Contract nodi bod y Cyngor wedi ymrwymo i gontract, a chynnwys yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn Rheoliad 32 (Hysbysiadau Manylion Contract: Gweithdrefn Hyblyg Agored neu Chystadleuol), Rheoliad 33 (Hysbysiadau Manylion Contract: Fframweithiau), Rheoliad 35 (Hysbysiadau Manylion Contract: Penodiad Uniongyrchol) neu Rheoliad 36 (Hysbysiadau Manylion Contract: Contractau o dan y Drothwy) o'r Rheoliadau (fel sy'n berthnasol yn dibynnu ar y llwybr y mae'r Cyngor wedi'i gymryd) fel y'u diwygiwyd o bryd i'w gilydd.

17.26 Cwblhau Contractau

17.26.1 Ac eithrio unrhyw Contract sy'n cael ei lunio gan ddefnyddio deiliant archeb brynu ar system brynu electronig y Cyngor, rhaid i unrhyw Contract sydd ag amcan werth o fwy na £100,000 fod:-

- (i) Yn ysgrifenedig;
- (ii) wedi'i wneud dan sêl y Cyngor.

17.26.2 Rhaid i contractau gyda gwerth o £100,000 neu lai gael eu gwneud gan ddefnyddio:

- i. archeb brynu a grëwyd gan system brynu electronig y Cyngor, neu
- ii. ffurflen archeb swyddogol a gynhyrchwyd gan y Cyngor, neu
- iii. Contract ysgrifenedig

17.27 Rheoli Contractau

17.27.1 Unwaith y bydd y contract wedi cael ei ddyfarnu, rhaid i'r Swyddog Awdurdodedig adnabod ac enwebu unigolyn fydd yn rheoli agweddau dydd-i-ddydd y Contract dros ei gyfnod ac os bydd angen, cynllunio beth fydd yn digwydd unwaith i'r Contract ddod i ben (cynllunio ar gyfer unrhyw ymarferiad caffael angenrheidiol).

17.27.2 Bydd y gwaith o reoli'r Contract o ddydd-i-ddydd yn cynnwys monitro o ran:-

- i. Perfformiad;
- ii. Cydymffurfio a'r fanyleb a thelerau'r contract
- iii. Cost
- iv. Unrhyw werth am arian/gofynion gwerth gorau
- v. Boddhad defnyddwyr, a
- vi. Rheoli risg.

17.27.3 Lle mae cyfanswm gwerth y Contract yn fwy na £250,000, rhaid i'r Swyddog Awdurdodedig lunio adroddiad ysgrifenedig i'r Pennaeth Gwasanaeth yn gwerthuso i ba raddau y mae'r Contract yn cwrdd â'r amcanion a osodwyd. Dylid gwneud hyn fel arfer pan mae'r Contract yn cael ei gwblhau ond o ran contractau tymor, dylid paratoi adroddiad o'r fath bob blwyddyn.

17.28 Contractau Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Drefn Cyffyrddiad Ysgafn

17.28.1 Adran 9 o'r Ddeddf ac Atodlen 1 o'r Rheoliadau

Mae fframwaith rheoleiddio penodol ar gyfer caffael contractau gwasanaethau cymdeithasol ac mae'r rhain yn cael sylw ar gyfer y ddau contract sy'n dod o dan y Rheolau hyn a'r Rheoliadau. Mae contractau o'r fath mewn sawl ffordd yn wahanol i contractau ar gyfer gwaith adeiladu, cyflenwadau swyddfa ac offer TG.

17.28.2 Mae'r drefn Cyffyrddiad Ysgafn (LTR) yn set benodol o reolau ar gyfer contractau penodol sy'n cynnwys rhai gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, addysg a

gwasanaethau cyhoeddus eraill, a ddiffinnir gan godau Geirfa Caffael Cyffredin (CPV), ac maent yn destun rheolau caffael llawer mwy hyblyg.

17.28.3 Ar lefel y trothwy ac yn uwch na hynny, yn achos gweithgareddau caffael lle mae'r

Rheoliadau yn berthnasol, y prif ofynion gorfodol yw:

- a) Hysbysebu Tendir: Cyhoeddi Hysbysiad Tendro Caffael Cynlluniedig (oni bai bod cyfiawnhad Dyfarniad Uniongyrchol yn berthnasol);
- b) cyhoeddi hysbysiad dyfarnu contract yn dilyn pob caffaeliad unigol;
- c) Cydymffurfio ag Amcanion Caffael y CPRs hyn;
- d) Cynnal yr ymarferiad caffael yn unol â'r wybodaeth a ddarperir yn yr hysbysiad contract neu'r hysbysiad gwybodaeth ymlaen llaw ynghylch: unrhyw amodau er mwyn cymryd rhan; cyfyngiadau amser o ran cysylltu neu ymateb i'r Cyngor; a'r drefn ddyfarnu i'w defnyddio.
- e) Rhaid i gyfyngiadau amser a orfodir gan y Cyngor ar gyflenwyr, megis ar gyfer ymateb i hysbysebion a thendrau, fod yn rhesymol ac yn gymesur. Nid oes cyfnodau amser lleiaf wedi'u nodi yn rheolau'r drefn cyffyrddiad ysgafn, felly dylai'r Cyngor ddefnyddio ei ddisgresiwn a'i farn fesul achos.

17.28.4 O Dan y Trothwy:

Yn achos ymarferion caffael lle mae'r Rheolau hyn yn berthnasol, sef bod yr ymarferiad caffael yn is na throthwy'r drefn cyffyrddiad ysgafn, y prif ofynion mandadol yw:

- a) Dylai trefniadau caffael sy'n is na'r trothwy ddyblygu rhannau eraill o'r Rheolau hyn i sicrhau gwerth am arian, y lefel ofynnol o ansawdd a pherfformiad.
- b) Lle nad oes trefniadau cymeradwy presennol, rhaid ceisio'r nifer a ganlyn o ddyfynbrisiau a rhoi tystiolaeth o hynny:
 - i. Dim ond un dyfynbris sydd ei angen ar gyfer hyd at £10,000
 - ii. Mae angen tri dyfynbris ar gyfer rhwng £10,000 a £100,000 yn ddelfrydol trwy S2W
 - iii. Dylid cynnal trefn gaffael sydd wedi'i hysbysebu'n agored ac sydd ar gael, tra'n ceisio gwahodd o leiaf dri thendr ysgrifenedig
- c) Defnyddir hyblygrwydd y drefn cyffyrddiad ysgafn gan hefyd gynnal gweithgarwch craffu sy'n cael ei gynnal yn agored, yn gywir a chydag atebolrwydd.

17.28.5 Ystyriaethau pellach i gontractau gwasanaethau cymdeithasol a'r trefniadau Contract Cyffyrddiad Ysgafn.

17.28.5.1

Contractau wedi'u Cadw - Mae Adran 33 o'r Ddeddf yn darparu ar gyfer ymarferion caffael am gontractau gwasanaethau penodol i gael eu "cadw" ar gyfer sefydliadau sy'n bodloni meini prawf penodol. Gall y contractau hyn redeg am gyfnod uchafswm o 3 blynedd. Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu bod modd cynnal cystadleuaeth yn unol â'r drefn contractau cyffyrddiad ysgafn newydd yn rheolau caffael y DU lle mae cyfranogiad wedi'i gyfyngu i sefydliadau cymwys megis cyd-fentrau a mentrau cymdeithasol.

17.28.5.2

Bydd yr un trefniant ar gyfer dyfarnu contractau wedi'u cadw yn gymwys i wasanaethau islaw'r trothwy sy'n cael ei gynnwys dan y drefn cyffyrddiad ysgafn.

- 17.28.5.3** Cyfnod Segur - Byddwn yn anfon hysbysiad segur ac yn gweithredu'r cyfnod segur am ymarferion caffael cyffyrddiad ysgafn sydd wedi'u cynnwys dan y Rheoliadau yn unol â'r 'Canllawiau ar y Cyfnod Segur'.
- 17.28.5.4** Nid yw'r contractau o dan drothwy'r drefn cyffyrddiad ysgafn angen gweithredu cyfnod segur. Fodd bynnag, dylid dyfarnu contractau yn unol ag adran 17.24 ac adrannau perthnasol 17.25 y Rheolau hyn.

17.29 Hebgor Rheolau Gweithdrefn Contract

17.29.1 Gall yr Aelod Cabinet perthnasol gytuno i ildio hawl os yw'n fodlon, wedi ystyried adroddiad ysgrifenedig gan y Prif Swyddog, bod modd cyfiawnhau'r ildio hawl oherwydd:-

- i. mae natur y farchnad ar gyfer y gwaith i'w wneud neu'r nwyddau neu'r gwasanaethau i'w darparu wedi'i hymchwilio ac y gwelir bod modd cyfiawnhau gwyro oddi wrth ofynion Gorchmynion Sefydlog y Contract, neu
- ii. mae amgylchiadau'r contract arfaethedig yn destun eithriadau deddfwriaethol; neu
- iii. mae hyn er budd cyffredinol y Cyngor; neu
- iv. mae amgylchiadau eraill sy'n wirioneddol eithriadol.

17.29.2 Mae'n rhaid cadw cofnod o'r penderfyniad sy'n cymeradwyo ildio hawl a rhaid cadw'r rheswm am hynny a gwneud cofnod ar y gofrestr briodol.

17.29.3 Nid oes grym i ddarparu ildiad hawl mewn perthynas â gofynion y Rheoliadau.

ENW'R PWYLLGOR	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
DYDDIAD Y CYFARFOD	21ain Mai 2026
TEITL YR EITEM	Archwilio Cymru - Crynodeb Archwilio Blynnyddol 2025 a Chynllun Archwilio Manwl 2026 Cyngor Gwynedd
AMCAN	Cyflwyno Crynodeb Archwilio Blynnyddol 2025 a Chynllun Archwilio Manwl Archwilio Cymru ar gyfer y Cyngor yn 2026
ARGYMHELLIAD	Gofynnir i'r Aelodau gynnig sylwadau ar y dogfennau a'u derbyn.
AWDUR	Lora Williams, Archwilydd Arweiniol, Archwilio Cymru Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor

1. CEFNDIR

- 1.1. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio swyddogaeth i adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol y Cyngor. Fel rhan o'r swyddogaeth hon mae disgwyliad i ystyried adroddiadau cyrff adolygu allanol megis Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yng nghyd-destun gwaith y Cyngor.

2. CYNLLUN ARCHWILIO MANWL 2026

- 2.1. Er mwyn cyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol mae Archwilio Cymru yn cwblhau gwaith bob blwyddyn sydd ynghlwm a'r dyletswyddau canlynol - Archwilio Cyfrifon, sicrhau Gwerth am Arian, gwneud Gwelliannau Parhaus a chydymffurfio a'r Egwyddor Datblygu Gynaliadwy.
- 2.2. Fe gwblheir prosiectau penodol hefyd gan ddefnyddio gwybodaeth sydd wedi ei gasglu gan reoleiddwyr eraill megis Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn. Ceir crynodeb o ganfyddiadau a'r casgliadau ar gyfer y gwaith a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn y Crynodeb Archwilio Blynnyddol 2025 (**Atodiad 1**).
- 2.3. Atodir y Cynllun Archwilio Manwl ar gyfer 2026 fel **Atodiad 2**. Mae'n disgrifio'r rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn yn unol â'r dyletswyddau a nodir yn 2.1 uchod.
- 2.4. Bydd swyddogion Archwilio Cymru yn cyflwyno'r eitem i'r Aelodau a bydd cyfle i ofyn cwestiynau ar sail y cynnwys.

Cyngor Gwynedd – Crynodeb Archwilio Blynyddol 2025

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2026



Cynnwys

Cynnwys	2
Cyflwyniad	4
Cipolwg ar eich archwiliad	5
Canfyddiadau archwilio'r cyfrifon	6
Canfyddiadau archwilio perfformiad	9
Ansawdd archwilio	11
Gwybodaeth bellach	12

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw ddibyniaeth ar y ddogfen hon neu ddefnydd arall ohoni gan unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na gweithiwr arall yn rhinwedd eu swydd unigol, neu unrhyw ddefnydd gan unrhyw drydydd parti.

I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni dros y ffôn ar 029 2032 0500, neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cyflwyniad



Adrian Crompton

Archwilydd
Cyffredinol Cymru

Mae'n bleser gennyf rannu fy Nghrynodeb Archwilio Blynyddol ar gyfer Cyngor Gwynedd (y Cyngor). Mae'n crynhoi'r prif ganfyddiadau o'm gwaith archwilio yn 2025 a gynhaliwyd i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rhoddais farn ynghylch a oedd y cyfrifon wedi'u paratoi'n briodol, ac a oeddent yn rhoi darlun gwir a theg, ym mhob agwedd berthnasol.

Mae fy nhîm archwilio hefyd wedi asesu a yw'r Cyngor wedi gwneud trefniadau priodol i

sicrhau y defnyddir adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol, ac wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Wrth wneud hynny, mae fy nhîm archwilio wedi adolygu trefniadau comisiynu a rheoli cronfeydd wrth gefn. Fel y nodir yn fy nghynllun archwilio, mae'r adolygiadau hyn wedi'u cynnal yn unol â [Safonau Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio \(INTOSAI\)](#).

Mae canfyddiadau manwl yr archwiliad ar gyfer pob un o fy adolygiadau wedi'u nodi yn yr adroddiadau priodol y mae fy nhîm archwilio wedi'u cyflwyno drwy gydol y flwyddyn. Mae'r adroddiadau archwilio perfformiad ar gael ar [wefan Archwilio Cymru](#) a cheir rhagor o ddolenni yn y crynodeb.

Dylid rhannu'r Crynodeb Archwilio Blynyddol gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Yna byddaf yn sicrhau bod y crynodeb ar gael i'r cyhoedd ar [wefan Archwilio Cymru](#).

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i swyddogion y Cyngor am eu cymorth a'u cydweithrediad drwy gydol fy archwiliad.

Cipolwg ar eich archwiliad



Cefais y cyfrifon drafft yn unol â'r dyddiad cau statudol ar 30 Mehefin 2025. Roedd ansawdd y cyfrifon drafft a'r papurau gwaith yn foddhaol. Fodd bynnag, nodais gyfleoedd i'r Cyngor wella ansawdd rhai papurau gwaith ymhellach ac i gryfhau ei brosesau sicrhau ansawdd.



Rhoddais **farn ddiamod** ar y cyfrifon ar 19 Tachwedd 2025, yn dilyn cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 13 Tachwedd 2025. Disgynnodd hyn ar ôl y dyddiad cau statudol o 31 Hydref, nad oedd modd ei gyflawni oherwydd amseriad cyfarfod y Pwyllgor. Roedd sawl camddatganiad heb eu cywiro o hyd, er nad oedd dim ohonynt yn berthnasol. Nid oedd unrhyw faterion arwyddocaol eraill i'w nodi.



Canfu fy ngwaith archwilio perfformiad ar reoli cronfeydd wrth gefn fod gan y Cyngor drefniadau llywodraethu strwythuredig ond nid oes ganddo strategaeth ffurfiol i lywio ei benderfyniadau ar lefelau y cronfeydd hynny. Canfu fy ngwaith ar gomisiynu fod lle i'r Cyngor wella ei drefniadau i sicrhau cysondeb.



Gwnaeth fy nhîm argymhellion i'r Cyngor sefydlu trefniadau comisiynu ac i fabwysiadu strategaeth i lywio ei benderfyniadau ynghylch cronfeydd wrth gefn o ganlyniad i'r archwiliadau yn y meysydd hyn.



Mae fy nhîm archwilio wedi cwblhau'r gwaith archwilio fel y'i nodir yn fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2025.

Canfyddiadau archwilio'r cyfrifon

Mae paratoi cyfrifon blynyddol yn rhan hanfodol o ddangos stiwardiaeth arian cyhoeddus. Mae'r cyfrifon yn dangos perfformiad ariannol y sefydliad ac yn nodi ei asedau net/cronfeydd wrth gefn, cyfanswm yr incwm a'r gwariant cynhwysfawr, a'i lif arian parod. Mae fy archwiliad blynyddol o'r cyfrifon hynny yn rhoi barn ynghylch a gafodd y cyfrifon eu paratoi'n briodol ac a oeddent yn rhoi golwg wir a theg, ym mhob agwedd berthnasol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau wrth archwilio'r cyfrifon yn fy nghyhoeddiadau [Datganiad o Gyfrifoldebau](#) sydd ar gael ar [wefan Archwilio Cymru](#).

Cyflwynwyd y cyfrifon drafft i'w harchwilio ar 30 Mehefin 2025. Roedd hyn yn unol â'r dyddiad cau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd ansawdd y cyfrifon drafft a gyflwynwyd ar gyfer archwilio yn foddhaol ar y cyfan.

Fy marn archwilio

Rhaid i mi roi gwybod am faterion sy'n codi o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu i'w hystyried cyn i mi gyhoeddi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Nodais y materion hyn yn fy Adroddiad Archwiliad o Gyfrifon i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 13 Tachwedd 2025.

Cywirdeb y paratoi

Gwnaed nifer o newidiadau i'r cyfrifon drafft yn deillio o'm gwaith archwilio.

Roedd sawl camddatganiad heb eu cywiro yn deillio'n bennaf o wallau dosbarthu a phrisio o fewn Eiddo, Offer a Pheiriannau, yn ogystal â gwendidau wrth gymhwyso'r safon gyfrifyddu lesioedd IFRS 16 newydd a ddaeth i rym yn 2024-25.

Nid oedd unrhyw faterion arwyddocaol eraill i'w nodi.

Adroddais hefyd ar faterion eraill sy'n ymwneud â gweithredu Lesioedd IFRS16 ac ansawdd rhai papurau gwaith. Roedd angen ailddrafftio'r datgeliad lesioedd, gan nad oedd yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y

safon. Yn ogystal â hyn, adroddais bod cyfleoedd o hyd i wella safon rhai papurau gwaith, a gallai cyflwyno proses sicrhau ansawdd gryfach gefnogi hyn, yn enwedig o ystyried yr uchelgais i ddod a dyddiad cau ardystio archwiliad ymlaen i fis Medi 2026 ar gyfer archwiliad cyfrifon 2025-26. Dylai'r gwelliannau hyn helpu i leihau nifer yr addasiadau wedi'u cywiro a heb eu cywiro sy'n codi yn ystod yr archwiliad.

Ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol mewn rheolaethau mewnol (yn berthnasol i'm harchwiliad), ac ni wneuthum unrhyw argymhellion.

Paratowyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif y Cyngor yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn gyson â'r datganiadau ariannol ac â'm gwybodaeth i am y Cyngor.

Deuthum i'r casgliad bod cyfrifon y Cyngor wedi'u paratoi'n briodol ac yn gywir yn eu hanfod a rhoddais **farn archwilio ddiamod** arnynt.

Cwblhau'r archwiliad

Cyhoeddais y dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o gyfrifon 2024-25 wedi'i gwblhau ar 19 Tachwedd 2025.

Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan

Cynhaliais hefyd adolygiad o ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan a chyflwyno'r ffurflen yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

Gwaith cyfrifon arall

Yn ogystal â'm cyfrifoldebau dros archwilio cyfrifon y Cyngor mae gennyf gyfrifoldeb hefyd am ardystio nifer o hawliadau a ffurflenni grant. Mae hawliadau am Bensiynau Athrawon, Cymhorthdal Budd-dal Tai ac Ardrethi Annomestig wedi eu hardystio.

Mae ein gwaith hyd yma wedi nodi mater yn ymwneud ag ardystio gwaith Sicrhau Ardrethi Annomestig y Cyngor. Nid oeddem yn gallu cwblhau'r gwaith ardystio yn llawn yn unol â'r gofynion a nodir yn ein Cyfarwyddyd Ardystio. Y dyddiad cau gwreiddiol ar gyfer ardystio oedd 17 Tachwedd 2025; fodd bynnag, oherwydd oedi sylweddol wrth dderbyn yr ymatebion angenrheidiol gan y Cyngor, nid oeddem yn gallu cwblhau'r gwaith erbyn y dyddiad hwnnw. O ganlyniad, gwnaethom gwblhau ac adrodd ar y gwaith

a wnaed erbyn y dyddiad cau estynedig o 30 Ionawr 2026, fel y cytunwyd gyda Llywodraeth Cymru.

Ar adeg yr adroddiad, roedd fy nhîm archwilio yn dal i wneud y gwaith o ardystio'r hawliad Cymhorthdal Budd-dal Tai yn y Cyngor. Mae'r gwaith hwn i fod i gael ei gwblhau erbyn Chwefror 2026.

Canfyddiadau archwilio perfformiad

Trefniadau comisiynu

Ystyriodd fy nhîm sut mae trefniadau comisiynu'r Cyngor yn cymhwyso ystyriaethau gwerth am arian a'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Roedd hwn yn archwiliad thematig a gynhaliwyd ym mhob un o'r 22 o awdurdodau lleol.

Roedd y meini prawf archwilio yn pwysleisio y gall cymhwyso trefniadau comisiynu yn gyson ar lefel gorfforaethol gryfhau sicrwydd bod y Cyngor yn sicrhau gwerth am arian. Roedd y Cyngor yn gallu dangos lle roedd rhai gwasanaethau wedi cymhwyso'r meini prawf hyn, er enghraifft, gan gynnal arfarniad opsiynau trylwyr ar gyfer comisiwn hirdymor mawr. Canfuom fod y Cyngor yn defnyddio ystod eang o wybodaeth o ffynonellau mewnol ac allanol i ddatblygu ei ddealltwriaeth o'r ffactorau cyfredol a hirdymor sy'n debygol o effeithio ar wasanaethau comisiynu. Mae hefyd wedi nodi ffynonellau gwybodaeth a fydd yn ddefnyddiol wrth wneud penderfyniadau comisiynu yn y dyfodol a sut y gallai wella ei ddefnydd o ddata.

Fodd bynnag, canfûm nad oedd hwn yn ddull corfforaethol cyson, gan ein bod wedi nodi amrywiad ar draws yr enghreifftiau a archwiliwyd gennym.

Gwneuthum ddau argymhelliad sy'n canolbwyntio ar sefydlu ac ymgorffori trefniadau comisiynu corfforaethol cyson y gellir eu cymhwyso yn gymesur â graddfa ac arwyddocâd y gwasanaeth a gomisiynwyd.

Defnydd Strategol o Gronfeydd wrth Gefn

Adolygodd fy nhîm sut mae'r Cyngor yn rheoli ei gronfeydd wrth gefn. Canolbwyntiodd ar lywodraethu, rheoli risg, adrodd ariannol, a sut mae cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio'n strategol i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda i gefnogi sefydlogrwydd hirdymor. Canfûm fod gan Gyngor Gwynedd drefniadau llywodraethu clir a strwythuredig ar gyfer rheoli ei gronfeydd wrth gefn. Mae Prif Swyddog

Cyllid y Cyngor yn cynghori aelodau a swyddogion yn rheolaidd ar lefelau cronfeydd wrth gefn a defnydd. Cryfder allweddol yw proses "cynaeafu" barhaus y Cyngor, sy'n adolygu cronfeydd wrth gefn ar sawl adeg trwy gydol y flwyddyn. Fodd bynnag, nid oes unrhyw strategaeth neu fframwaith ffurfiol i lywio penderfyniadau ar lefelau cronfeydd wrth gefn, a allai helpu i sicrhau bod cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio'n effeithiol a darparu sicrwydd eu bod yn cyd-fynd yn gyson ag amcanion y Cyngor.

Gwneuthum argymhelliad i'r Cyngor fabwysiadu strategaeth i gefnogi gwneud penderfyniadau ar pryd a sut i sefydlu cronfeydd wrth gefn a monitro symiau'r balansau a ddelir.

Ansawdd archwilio

Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru yn absoliwt. Credwn fod ansawdd archwilio yn ymwneud â gwneud pethau'n iawn y tro cyntaf.

Rydym yn defnyddio tair llinell o sicrwydd i ddangos sut rydym yn cyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydlyn a goruchwyllo'r trefniadau hynny. Rydym yn craffu'n annibynnol ar ein gwaith gan Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr, ac mae Cadeirydd y Bwrdd yn gweithredu fel cyswllt â'n Bwrdd ar ansawdd archwilio. I gael rhagor o wybodaeth gweler [Adroddiad Ansawdd Archwilio 2024](#).



Ein Pobl

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- Goruchwyliaeth ac adolygu



Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio Dewis y tîm cywir

- Plattform archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technelogol



Sicrwydd annibynnol

- Adolygiadau Ansawdd Allanol
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddiad o wraidd y problem
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

Gwybodaeth bellach

Mae gan Archwilio Cymru amrywiaeth o wybodaeth arall i gefnogi gwaith craffu ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru, ac i barhau i wella'r gwasanaethau mae'n eu darparu i bobl yng Nghymru.

Ewch i'n gwefan i weld:



Ein cyhoeddiadau sy'n ymdrin â'n gwaith archwilio mewn cyrff cyhoeddus.



Gwybodaeth am ein gwaith sydd ar ddod a'n rhaglen waith ar gyfer archwilio perfformiad.



Offer data i'ch helpu i ddeall tueddiadau gwariant cyhoeddus yn well.



Manylion ein gwaith a digwyddiadau Arfer Da gan gynnwys rhannu arferion sy'n dod i'r amlwg a mewnwleidiadau o'n gwaith archwilio.



Ein cylchlythyr sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi'n rheolaidd am ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arfer da, a digwyddiadau.



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a
galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and
telephone calls in Welsh and English.



Cyngor Gwynedd – Cynllun Archwilio 2026

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2026



Cynnwys

Cyflwyniad	4
Ein nodau a'n huchelgeisiau	5
Gwaith archwilio ariannol	6
Gwaith archwilio perfformiad	15
Swyddogaethau archwilio statudol eraill	18
Ffi archwilio	19
Tîm archwilio	21
Ansawdd archwilio	23
Rhagor o wybodaeth	24

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru na staff Swyddfa Archwilio Cymru'n derbyn unrhyw atebolrwydd mewn perthynas ag unrhyw ddibyniaeth ar y ddogfen hon neu ddefnydd arall ohoni gan unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, neu unrhyw ddefnydd gan unrhyw drydydd parti.

I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni dros y ffôn ar 029 2032 0500, neu drwy anfon neges e-bost i post@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

[Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.]

Cyflwyniad



Adrian Crompton

Archwilydd
Cyffredinol Cymru

Mae'n dda gennyf rannu fy Nghynllun Archwilio 2026. Mae'r Cynllun yn nodi sut y byddaf yn cyflawni eich archwiliad.

Mae fy nhîm archwilio wedi datblygu'r Cynllun gan ddilyn proses gynllunio strwythuredig a seiliedig-ar-risg, a fydd yn parhau trwy gydol yr archwiliad. Mae fy Nghod Ymarfer Archwilio yn darparu rhagor o fanylion ynglŷn â sut y dylai fy swyddogaeth archwilio a rhai swyddogaethau penodol eraill gael eu cyflawni gan fy archwilyr.

Wrth graidd ein holl waith mae ein hymrwymiad i gynnal y safonau uchaf o ran uniondeb proffesiynol, gwrthrychedd, annibyniaeth ac ansawdd archwilio. Mae ein model tair llinell sicrwydd (tudalen 23) yn nodi sut y byddwn yn sicrhau bod y safonau ansawdd hynny'n cael eu cyrraedd. Mae ein hadroddiad ansawdd blynyddol diweddaraf yn darparu rhagor o wybodaeth am ein trefniadau ansawdd archwilio.

Bydd fy nhîm archwilio'n gweithio'n adeiladol gyda'ch staff i ddeall y materion yr ydych yn eu hwynebu, sicrhau bod y broses archwilio'n gweithredu mor esmwyth â phosibl, a darparu mewnwelediadau gwerthfawr ynglŷn ag unrhyw feysydd ar gyfer gwella.

Mae fy rhaglen o waith archwilio perfformiad lleol, fel a amlinellir yn y Cynllun hwn, yn eistedd ochr yn ochr â gwaith archwilio cenedlaethol arall a all gynnwys gwaith sy'n ymwneud â'ch sefydliad chi. Gall gwaith archwilio perfformiad lleol oleuo adroddiadau cenedlaethol ehangach hefyd.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'ch archwiliad bydd fy nhîm archwilio'n hapus i'w trafod gyda chi. Byddant hefyd yn rhoi diweddariadau rheolaidd ichi wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

Ein nodau a'n huchelgeisiau

Ein diben



Rhoi sicrwydd i bobl bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda



Esbonio sut mae'r arian hwnnw'n cael ei wario



Ysbrydoli'r sector cyhoeddus i wella

Ein gweledigaeth



Manteisio'n llawn ar ein safbwynt, ein harbenigedd a'n dyfnder unigryw ar fewnwelediad



Cryfhau ein safle fel llais awdurdodol, dibynadwy ac annibynnol



Cynyddu ein hamlygrwydd, dylanwad a pherthnasedd



Bod yn sefydliad sy'n esiampl ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt

Ein meysydd ffocws



Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel



Dull wedi'i dargedu ac sy'n cael effaith ar gyfathrebu a dylanwadu



Diwylliant a model gweithredu sy'n ein galluogi i ffynnu

Gallwch gael gwybod mwy am Archwilio Cymru yn ein [Cynllun Blynnyddol 2025-26](#) a hefyd Ein [Strategaeth 2022-27](#).

Gwaith archwilio ariannol

Archwilio'r datganiadau ariannol

Mae'n ofynnol i mi gyhoeddi adroddiad ar eich datganiadau ariannol chi sy'n cynnwys barn ynglŷn â'u 'cywirdeb a thegwch' a'u paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu a gofynion cyfreithiol.

Byddaf hefyd yn cyflwyno adroddiad drwy eithriad ar nifer o faterion a nodir mewn mwy o fanylder yn ein Datganiad o Gyfrifoldebau.

Yn ychwanegol at fy nghyfrifoldebau am archwilio datganiadau ariannol Cyngor Gwynedd (y Cyngor), mae gennyf hefyd gyfrifoldeb am:

- ardystio ffurflen i Lywodraeth Cymru sy'n darparu gwybodaeth am y Cyngor i roi cymorth i baratoi Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan;
- ymateb i gwestiynau am y cyfrifon a gwrthwynebiadau iddynt gan etholwyr lleol (bydd ffioedd ychwanegol yn cael eu codi am y gwaith hwn, os yw'n angenrheidiol);
- archwilio Awdurdod Harbyrau Cyngor Gwynedd ble na llunnir cynllun ar wahân;
- archwilio cydbwyllgorau GwE (cyfrifon hyd at 31 Fai 2025) ble llunnir cynllun ar wahân; ac
- ardystio nifer o hawliadau am grantiau a ffurflenni grantiau fel a gytunwyd gyda'r cyrff cyllido.

Ni osodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf wrth gynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.

Ardystio hawliadau am grantiau a ffurflenni grantiau

Gofynnwyd i mi wneud gwaith ardystio ar hawliadau am grantiau y Cyngor hefyd, yr wyf yn rhagweld y bydd yn cynnwys ffurflenni budd-daliadau tai, pensiynau athrawon, ac ardrethi annomestig.

Perthnasedd y datganiadau ariannol

Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ynghylch cywirdeb a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig ond rwy'n mabwysiadu cysyniad perthnasedd. Fy nod yw adnabod a chywiro camddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rhai a allai beri i'r sawl sy'n darllen y cyfrifon gael ei gamarwain. Mae perthnasedd yn gymwys nid dim ond i gamddatganiadau ariannol, ond hefyd i ofynion datgelu ac ymlyniad wrth y fframwaith cyfrifyddu perthnasol a'r gyfraith.

Rwy'n pennu perthnasedd cynllunio a pherfformiad er mwyn:

- pennu'r lefel o gamddatganiad a allai beri i ddefnyddiwr y cyfrifon gael ei gamarwain;
- rhoi cymorth i bennu cwmpas ein dull archwilio a phrofion archwilio canlyniadol;
- pennu meintiau samplau;
- asesu effaith camddatganiadau hysbys a thebygol yn y datganiadau ariannol; a
- hysbysu'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch unrhyw gamddatganiadau heb eu haddasu uwchlaw lefel ddibwys, ein trothwy hysbysu.

Caiff y lefelau sy'n peri i mi farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol eu nodi isod.

Perthnasedd cynllunio

1% o wariant gros yw hyn yn seiliedig ar ddatganiadau ariannol archwiliedig 2024/25.

£6.386 miliwn

Trothwy hysbysu (dibwys)

lefel perthnasedd o 5% yw hyn.

£319,000

Ceir rhai meysydd o fewn y cyfrifon a allai fod yn bwysicach i ddefnyddiwr y cyfrifon, ac rydym wedi pennu lefel perthnasedd is ar gyfer y rhain:

**Cydnabyddiaeth ariannol
uwch swyddogion**

£1,000

**Datgeliadau partïon
cysylltiedig (unigolion)**

£10,000

Bydd fy nhîm archwilio'n asesu lefelau perthnasedd trwy gydol yr archwiliad.

Risgiau arwyddocaol mewn perthynas â'r datganiadau ariannol

Mae risgiau arwyddocaol yn golygu risgiau o gamddatganiad perthnasol a adnabuwyd y mae'r asesiad o risg gynhenid ar eu cyfer yn agos at ben uchaf y sbectrwm risg gynhenid neu'r rhai sydd i'w trin fel risg arwyddocaol yn unol â gofynion Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (ISAs) eraill. Mae'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio'n ei gwneud yn ofynnol i ni roi mwy o sylw i'r risgiau arwyddocaol hyn.

Risg o wrthwneud gan reolwyr

Mae'r risg y gallai rheolwyr wrthwneud rheolaethau'n bresennol ym mhob endid. O ystyried y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrthwneud o'r fath ddigwydd, tybir bod hon yn risg arwyddocaol [ISA 240.32-33].

Ein hymateb arfaethedig

Bydd fy nhîm archwilio yn:

- profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;
- adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer gwyrdueddiadau; a
- gwerthuso'r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i gwrs arferol busnes.

Meysydd eraill y bydd ffocws arnynt

Rwy'n nodi isod risgiau eraill o gamddatganiad perthnasol a adnabuwyd sydd, er na phenderfynwyd eu bod yn risgiau arwyddocaol fel uchod, yn rhai yr hoffwn eu dwyn i'ch sylw.

Prisio rhwymedigaeth/gwarged net y gronfa bensiwn

Mae rhwymedigaeth cronfa y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) fel y'i hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol yn amcangyfrif perthnasol.

Mae natur yr amcangyfrif hwn yn golygu bod llawer iawn o ansicrwydd amcangyfrif yn perthyn iddo, gan ei fod yn sensitif i addasiadau bychain yn y tybiaethau a ddefnyddiwyd wrth ei gyfrifo.

Mae effaith amodau economaidd, yn enwedig lefelau cyfraddau llog, hefyd yn cael effaith sylweddol ar y rhwymedigaeth. Ar 31 Mawrth 2025, er enghraifft, gwarged oedd y rhwymedigaeth mewn gwirionedd, yn bennaf oherwydd cyfraddau llog uwch.

Cynhaliwyd prisiad teirblynyddol o'r cynllun ar 31 Mawrth 2025, a fydd yn effeithio ar ddatgeliadau yn natganiadau ariannol y Cyngor am y tro cyntaf ym mlwyddyn ariannol 2025-26.

Ceir nifer o achosion cyfreithiol hefyd a allai effeithio ar brisio'r rhwymedigaeth net.

Ceir risg felly bod y rhwymedigaeth/gwarged wedi ei ch/gamddatgan yn berthnasol.

Ein hymateb arfaethedig

Bydd fy nhîm archwilio:

- yn gwerthuso'r cyfarwyddiadau a roddwyd gan y rheolwyr i'w harbenigwyr rheoli (actiwari) ar gyfer yr amcangyfrif hwn a chwmpas gwaith yr actiwari;
- yn asesu cymhwysedd, galluoedd a gwrthrychedd yr actiwari a wnaeth y prisiadau;
- yn asesu cywirdeb a chyflawnder yr wybodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod ar gyfer yr actiwari i amcangyfrif y rhwymedigaeth;

- yn profi cywirdeb rhwymedigaeth net a datgeliadau'r gronfa bensiwn yn y datganiadau ariannol gyda'r adroddiad actiwaraidd gan yr actiwari;
- yn asesu rhesymoldeb y tybiaethau a wnaed gan yr actiwari trwy adolygu adroddiad yr actiwari ymgynghorol (arbenigwr yr archwilydd) a chyflawni unrhyw weithdrefnau ychwanegol sy'n ofynnol;
- yn cynnal rhaglen o waith i ddarparu sicrwydd ynghylch y data a ddefnyddiwyd gan yr actiwari i gynnal y prisiad teirblynyddol; ac
- yn asesu a allai unrhyw achosion cyfreithiol gael effaith berthnasol ar y rhwymedigaeth net ac, os felly, yn cadarnhau bod hyn wedi cael ei gydnabod a'i ddatgelu'n briodol yn y datganiadau ariannol.

Prisio tir ac adeiladau

Mae gwerth tir ac adeiladau a adlewyrchir yn y fantolen a'r nodiadau ar y cyfrifon yn amcangyfrif perthnasol.

Mae'n ofynnol bod tir ac adeiladau'n cael eu dal ar sail prisiad sy'n ddibynnol ar natur a defnydd yr asedau. Mae llawer iawn o oddrychedd yn perthyn i'r amcangyfrif hwn, gan ddibynnu ar y tybiaethau gan arbenigwyr a rheolwyr, a gall newidiadau yn y rhain arwain at newidiadau perthnasol i brisiadau.

Mae'n ofynnol i asedau gael eu hailbrisio bob pum mlynedd, ac ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 mae CIPFA wedi cyflwyno gofynion newydd ar gyfer mesur asedau yn ddiweddarach, gan gynnwys mynegeio. Bydd hyn yn cyflwyno dyfarniadau a chyfrifiadau ychwanegol i dimau cyllid eu cyflawni.

Ein hymateb arfaethedig

Bydd fy nhîm archwilio:

- yn adolygu'r wybodaeth a ddarparwyd ar gyfer y prisiwr i asesu ei chyflawnder;
- yn gwerthuso cymhwysedd, galluoedd a gwrthrychedd y prisiwr proffesiynol;
- yn profi sampl o asedau a ailbrisiwyd yn y flwyddyn i sicrhau bod y sail brisio, data allweddol a thybiaethau a ddefnyddiwyd yn y broses

brisio'n rhesymol, a bod yr ailbrisiadau wedi cael eu hadlewyrchu'n gywir yn y datganiadau ariannol;

- yn adolygu'r dull a ddefnyddiwyd ar gyfer mynegeo i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r safonau perthnasol ac yn esgor ar amcangyfrif rhesymol; ac
- yn profi'r cysoniad rhwng y cyfrifyfr ariannol a'r gofrestr asedau.

Cydnabyddiaeth ariannol uwch swyddogion

Bu benodiadau parhaol ac interim newydd i uwch swyddi yn ystod 2025-26.

Ceir risg nad yw'r rhain yn cael eu datgelu'n briodol yn y datganiadau ariannol, gan bod cydnabyddiaeth ariannol a delir i uwch swyddogion yn dal i fod o ddiddordeb mawr ac yn berthnasol o ran ei natur.

Felly, ceir risg y gallai gwallau gwerth isel hyd yn oed yn y datgeliad arwain at gamddatganiad perthnasol.

Ein hymateb arfaethedig

Bydd fy nhîm archwilio:

- yn deall y symudiadau yn yr uwch dîm rheoli yn ystod 2025-26;
- yn sicrhau bod y gydnabyddiaeth ariannol a ddatgelwyd yn gyson â thystiolaeth ategol;
- yn sicrhau bod symiau a dalwyd yn gyson â'r rhai a gymeradwywyd gan y Cyngor; ac
- yn sicrhau bod datgeliadau'n gyflawn yn seiliedig ar wybodaeth y tîm ac wedi eu paratoi yn unol â'r gofynion.

Datgeliadau partïon cysylltiedig

Rhaid i'r datganiadau ariannol ddatgelu unrhyw berthnasocedd partïon cysylltiedig ynghyd â'r trafodiadau a'r balansau rhwng y Cyngor a'r corff/parti arall.

Mae gan y Cyngor nifer o berthnasocedd y gellid ystyried eu bod yn barti cysylltiedig. Mae llawer yn dra hysbys, er enghraifft Llywodraeth Cymru fel cyllidwr.

Fodd bynnag, lle cyfyd perthnasoedd partïon cysylltiedig trwy berthnasoedd swyddogion neu aelodau unigol, mae'n debygol y bydd llai o dryloywder ynglŷn â'r perthnasoedd hyn. Mae'r trafodiadau hyn yn rhai o ddiddordeb mawr ac ystyrir eu bod yn berthnasol o ran eu natur.

Ceir risg o gamddatganiad perthnasol oherwydd datgeliadau anghyflawn neu anghywir, hyd yn oed lle mae gwerth y rhain yn gymharol fach.

Ein hymateb arfaethedig

Bydd fy nhîm archwilio:

- yn adolygu proses y Cyngor ar gyfer adnabod perthnasoedd partïon cysylltiedig a thrafodiadau a balansau cysylltiedig;
- yn cyflawni gweithdrefnau i gadarnhau cyflawnder perthnasoedd partïon cysylltiedig; ac
- yn sicrhau bod datgeliadau'n gyflawn, yn gywir, yn gyson â thystiolaeth ac yn unol â'r Cod Llywodraeth Leol.

Hawliadau cyfreithiol

Mae'r Cyngor wedi derbyn hawliadau posibl am iawndal a allai fod yn berthnasol i'r cyfrifon. Mae risg felly bod y datganiadau ariannol wedi'u camddatgan yn sylweddol mewn perthynas â'r mater hwn.

Ein hymateb arfaethedig

Bydd fy nhîm archwilio yn:

- ymgysylltu â'r rheolwyr a'r swyddog monitro i ddeall natur, tebygolrwydd ac effaith ariannol bosibl unrhyw hawliadau ar ddiwedd y flwyddyn;
- sicrhau bod yr holl ddatgeliadau angenrheidiol ynghylch unrhyw hawliadau yn gyflawn, yn gywir ac yn unol â'r Cod Llywodraeth Leol; a
- sicrhau eu bod wedi'u cyfrif yn gywir yn y datganiadau ariannol.

Penderfynu ar Gyfrifon Grŵp ac amseroldeb

Y Cyngor yw unig berchennog Byw'n lach, is-gwmni a sefydlwyd i ddarparu gwasanaethau hamdden i drigolion Gwynedd. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi cwblhau ei asesiad eto ynghylch a oes angen cyfrifon grŵp o dan Gôd Ymarfer CIPFA ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31

Mawrth 2026. Mae'r rheolwyr wedi nodi na fydd yr asesiad hwn yn cael ei gwblhau nes bod elfennau cyfrifyddu cyfalaf datganiadau ariannol y Cyngor ei hun wedi'u cwblhau. Felly mae risg y gallai'r Cyngor benderfynu wedyn bod angen cyfrifon grŵp yn ddiweddarach yn y broses o baratoi cyfrifon.

Os oes angen cyfrifon grŵp ond eu bod yn cael eu nodi'n hwyr, gall hyn:

- arwain at oedi wrth baratoi ac archwilio datganiadau ariannol y grŵp;
- gofyn am weithdrefnau cydgrynhoi heb eu cynllunio a gwaith archwilio ychwanegol;
- cynyddu'r risg o lithro'r amserlen archwilio ac oedi wrth gyhoeddi'r farn archwilio erbyn y dyddiad cau y cytunwyd arno sef 30 Medi 2026;
- cynyddu'r risg o wallau neu hepgoriadau mewn addasiadau cydgrynhoi oherwydd pwysau amser; a
- arwain at heriau adnoddau i'r Cyngor ac Archwilio Cymru.

Ein hymateb arfaethedig

Bydd fy nhîm archwilio yn

- ymgysylltu'n gynnar â'r rheolwyr i gadarnhau eu hasesiad ynghylch a oes angen cyfrifon grŵp, gan sicrhau nad yw'r gwerthusiad hwn yn ddibynnol ar gwblhau cofnodion cyfrifyddu cyfalaf;
- cynnal asesiad rhagarweiniol o reolaeth a pherthnasedd posibl yr is-gwmni; a
- monitro cynnydd ar yr asesiad grŵp a, lle pennir bod angen cyfrifon grŵp, diwygio'r amserlen archwilio a'r dull archwilio ar unwaith, gan gynnwys cymhwyso ISA (DU) 600: 'Ystyriaethau arbennig - Archwiliadau o ddatganiadau ariannol grŵp (Gan gynnwys gwaith archwilwyr cydran)'.

Amserlen archwilio'r datganiadau ariannol

Isod ceir amserlen sy'n dangos camau allweddol yr archwiliad a'n canlyniadau archwilio allweddol y byddwn yn eu darparu ar eich cyfer.

Arddangosyn 1: Amserlen archwilio'r datganiadau ariannol

Cynllunio	Cyfarfod cynllunio Gweithdrefnau asesu risg lefel uchel Asesu'r risg o dwyll Cynllunio amcangyfrifon cyfrifyddu Llifoedd gwybodaeth Asesu risg yn yr amgylchedd TG Ffi archwilio ddangosol Cynllun Archwilio Drafft
Chwefror – Ebrill 2026	
Interim	Gweithdrefnau asesu risg manwl Adolygu rheolaethau TG Datblygu strategaeth brofi Profi samplau'n gynnar
Ebrill - Mehefin 2026	
Gwaith maes	Diweddarau'r asesiad risg Archwiliad o'r datganiadau ariannol gan gynnwys yr adroddiad naratif a'r datganiad llywodraethu blynyddol Cwblhau profion archwilio Gwerthuso'r canfyddiadau archwilio Cyfarfod cau'r archwiliad
Gorffennaf - Medi 2026	
Adrodd	Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon Argymhellion ar gyfer gwella Cyflwyno'r canfyddiadau i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu Ardystio gan yr Archwilydd Cyffredinol
Medi 2026	
Ôl ardystio	Crynodeb Archwilio Blynyddol Dysgu ar ôl y prosiect

Gwaith archwilio perfformiad

Trefniadau priodol

Fel a nodir yn y Cod Ymarfer Archwilio, rhaid i mi fy argyhoeddi fy hun bod y Cyngor wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'n defnyddio adnoddau ('gwerth am arian'), a llunio casgliadau yn unol â hynny.

Rwy'n gwneud hyn trwy gynnal rhaglen briodol o waith archwilio perfformiad bob blwyddyn. Rwy'n seilio fy rhaglen waith ar asesiad o risgiau nad oes gan y Cyngor a'r sector Llywodraeth Leol ehangach yng Nghymru y trefniadau priodol, gyda'r gwaith yn canolbwyntio fel arfer ar y meysydd lle ceir y risg fwyaf.

Wrth ddylunio'r rhaglen, rhaid i'm harchwilwyr fod wedi ystyried trefniadau ar lefel gorfforaethol ac ar lefel gwasanaethau, gan gynnwys:



Cynllunio strategol



Rheoli asedau



Cynllunio ariannol



Gweithio ar y cyd



Rheoli perfformiad a risg



Llywodraethu cyffredinol



Cynllunio'r gweithlu

Bydd fy archwilwyr hefyd wedi ystyried gwaith perthnasol sy'n cael ei wneud neu ei gynllunio gan gyrff archwilio, rheoleiddio ac arolygu eraill yn y Cyngor.

Rwy'n gwneud fy ngwaith archwilio perfformiad gan ddefnyddio'r safon ISSAI 3000 a ddatblygwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI). Sefydliad ymbarél byd-eang ar gyfer y gymuned archwilio perfformiad yw INTOSAI. Corff anllywodraethol ydyw a

chanddo statws ymgynghorol arbennig gyda Chyngor Economaidd a Chymdeithasol (ECOSOC) y Cenhedloedd Unedig.

Llesiant cenedlaethau'r dyfodol

Mae Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i mi gynnal archwiliadau o gyrff cyhoeddus at ddibenion asesu i ba raddau y mae corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu amcanion llesiant a chymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny.

Diffinnir yr **egwyddor datblygu cynaliadwy** fel ymddwyn mewn modd...

...sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

I wneud hyn, mae'n rhaid iddynt ystyried y **'pum dull o weithio'**.



Hirdymor



Atal



Integreiddio



Cydweithio



Cynnwys

Rhaid i mi gynnal yr archwiliadau hyn ym mhob corff cyhoeddus a gwmpesir gan y Ddeddf o leiaf unwaith yn ystod cyfnod penodedig.

Gallai'r rhain fod yn archwiliadau unigol fel rhan o'm rhaglen archwilio perfformiad. Fodd bynnag, lle y bo'n berthnasol ac yn briodol gwneud hynny, bydd fy archwilwyr yn integreiddio'r gwaith sy'n ofynnol fel rhan o waith archwilio perfformiad arall sydd yn yr arfaeth ar gyfer y Cyngor. Bydd fy archwilwyr yn parhau i ymgysylltu'n agos â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i helpu i gydlynu ein priod weithgareddau.

Gwaith archwilio perfformiad arfaethedig

Rwy'n nodi isod fanylion fy ngwaith archwilio perfformiad i gyflawni fy nyletswyddau ar gyfer 2026-27.

Trefniadau rheoli risg

Bydd y prosiect hwn yn adolygu trefniadau rheoli risg y Cyngor. Yn gyffredinol, mae adolygiadau rheolaidd o'r gofrestr risg mewn pwyllgorau cyhoeddus yn hanfodol ar gyfer rheoli risg effeithiol, tryloywder, a chynnal ymddiriedaeth rhanddeiliaid. Noder: Roedd yr archwiliad hwn wedi'i gynnwys yn flaenorol yng Nghynllun Archwilio 2025, ond cafodd ei ddisodli ddiwedd y flwyddyn oherwydd newidiadau yn amgylchiadau'r Cyngor.

Effeithiolrwydd canlyniadau prosiect

Ein hamcan ar gyfer yr archwiliad hwn yw sefydlu i ba raddau y mae'r Cyngor wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth gynllunio, gweithredu ac adolygu ei brosiect ar gyfer prynu eiddo gwag i'w gosod.

Casglu treth y Cyngor

Cyngor Gwynedd oedd â'r gyfradd casglu treth cyngor isaf o gynghorau Cymru yn 2024-25. Mae risg sylweddol a chynyddol y bydd ôl-ddyledion yn cynyddu a chyfraddau casglu yn gostwng. Bydd yr archwiliad hwn yn helpu i sefydlu achosion y broblem ac i ba raddau y gall y Cyngor liniaru'r risg.

Amseriad Gwaith Archwilio Perfformiad

Bydd fy nhîm yn gweithio gyda swyddogion y Cyngor i drefnu'r union ddyddiadau ar gyfer y prosiectau unigol a bydd gwybodaeth yn cael ei chyfleu'n rheolaidd trwy ein rhaglen waith ac amserlen a diweddariadau canol blwyddyn diweddarach. Mae fy archwilwyr yn anelu at gwblhau'r gwaith archwilio a nodir yn y cynllun hwn yn sylweddol erbyn diwedd mis Mehefin 2027.

Swyddogaethau archwilio statudol eraill

Yn ogystal â'r archwiliad o'r cyfrifon, mae gennyf gyfrifoldebau statudol i gael cwestiynau ynghylch y cyfrifon a gwrthwynebiadau iddynt gan etholwyr lleol. Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi'r cyfrifoldebau hyn:

- Adran 30 Edrych ar ddogfennau a chwestiynau mewn archwiliad; ac
- Adran 31 Hawl i gyflwyno gwrthwynebiadau mewn archwiliad.

Gan bod y gwaith hwn yn adweithiol, nid wyf wedi gwneud unrhyw lwfans yn y ffi isod. Os byddaf yn cael cwestiynau a gwrthwynebiadau, bydd fy archwilwyr yn trafod yr effaith bosibl ar ffioedd archwilio gyda'r Pennaeth Cyllid.

Ffi archwilio

Ym mis Ionawr 2026, fe gyhoeddodd ni ein Cynllun Ffioedd 2026-27 yn dilyn cymeradwyaeth gan Bwyllgor Cyllid y Senedd sy'n nodi'r cynnydd cyfartalog i gyfraddau'r ffioedd o 5.3%.

Mae'r ffi wirioneddol y bydd unrhyw gorff unigol a archwilir yn ei thalu'n dibynnu nid dim ond ar gyfraddau ein ffioedd ond ar swm y gwaith a'r cymysgedd o sgiliau sy'n ofynnol.

Mae'r ffi wirioneddol ar gyfer archwiliad 2025 o'r datganiadau ariannol yn cynnwys ffi ychwanegol o £34,745 sy'n adlewyrchu'r lefel uwch o waith archwilio oedd ei angen i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn ystod archwiliad datganiadau ariannol 2024-25.

Bydd cynllunio'n digwydd yn barhaus, ac efallai y bydd newidiadau i'm rhaglen o waith archwilio, ac felly fy ffi, yn ofynnol os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn dod i'r amlwg. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb i'm harchwilwyr fod wedi eu trafod gyda'r Pennaeth Cyllid yn gyntaf. Mae **Arddangosyn 2** yn nodi dadansoddiad pellach o'r ffi archwilio a amcangyfrifir ar eich cyfer.

Rwy'n seilio fy ffi archwilio ar y tybiaethau canlynol:

- Bod y canlyniadau archwilio y cytunwyd arnynt yn nodi'r gofynion disgwylidig o ran papurau gwaith i ategu'r datganiadau ariannol ac yn cynnwys graddfeydd amser a chyfrifoldebau.
- Bod gofynion archwilio fy mhrosiectau archwilio perfformiad unigol yn cael eu hateb gan y corff a archwilir, neu fod trefniadau eraill addas yn cael eu rhoi ar waith sy'n bodloni anghenion fy nhîm archwilio.
- Nad oes unrhyw faterion arwyddocaol, heblaw fel a grynhoir yn y cynllun hwn, yn cael eu hadnabod yn ystod yr archwiliad.

Arddangosyn 2: Dadansoddiad o'm ffi archwilio amcangyfrifedig ar gyfer 2026 (ac ar gyfer 2025 er mwyn cymharu)

Ffi amcangyfrifedig ar gyfer 2026 (£)¹

Archwilio'r datganiadau ariannol ²	Gwaith archwilio perfformiad ³	Gwaith ardystio grantiau ⁴	Gwaith archwilio ariannol arall ⁵
£251,286	£122,312	£55,000	£748
Cyfanswm y ffi: £429,346			

Ffi amcangyfrifedig ar gyfer 2025 (£)

Archwilio'r datganiadau ariannol	Gwaith archwilio perfformiad ⁶	Gwaith ardystio grantiau	Gwaith archwilio ariannol arall
£267,495	£116,157	£52,000	£681
Cyfanswm y ffi: £436,333			

¹ Nid yw'r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW.

² Yn daladwy rhwng mis Tachwedd 2025 a mis Hydref 2026.

³ Yn daladwy rhwng mis Ebrill 2026 a mis Mawrth 2027.

⁴ Yn daladwy wrth i waith gael ei wneud.

⁵ Yn daladwy o fis Tachwedd 2025 i fis Hydref 2026 am waith a wnaed ar Awdurdod Harbwr Gwynedd

⁶ Mae'r gwaith yn parhau ac felly dyma'r amcangyfrif diweddaraf sydd ar gael, y ffi wreiddiol oedd £116,157.

Tîm archwilio

Bydd fy nhîm archwilio'n parhau i weithio ac ymgysylltu o bell gan ddefnyddio technoleg, ond bydd peth gwaith ar safleoedd yn parhau lle y bo'n briodol gwneud hynny.

Yn wir, canfu fy nhîm archwilio a oedd ar safleoedd yn ystod gwaith archwilio cyfrifon y llynedd fod agosrwydd at swyddogion yn ffordd fwy effeithlon o weithio, ac mae swyddogion wedi rhoi adborth cadarnhaol ar eu profiadau.

Mae gan gyrff a archwilir gyfrifoldeb i sicrhau diogelwch a llesiant staff Archwilio Cymru pan ydynt yn eich mangreoedd.

Caiff prif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, eu crynhoi yn **Arddangosyn 3**.

Arddangosyn 3: Fy nhîm archwilio lleol

Cyfarwyddwr Ymgysylltu

Matthew Edwards
matthhew.edwards@archwilio.cymru

Archwilio Ariannol

Arweinydd Ymgysylltu

Matthew Edwards
matthew.edwards@archwilio.cymru

Archwilio Perfformiad

Gary Emery
gary.emery@archwilio.cymru

Rheolwr Archwilio

Yvonne Thomas
yvonne.thomas@archwilio.cymru

Carwyn Rees
carwyn.rees@archwilio.cymru

Arweinydd Archwilio

Sioned Owen
sioned.owen@archwilio.cymru

Lora Gwawr Williams
lora.williams@archwilio.cymru

Mae rhai bygythiadau i annibyniaeth y mae angen i mi eu dwyn i'ch sylw mewn perthynas â'r Rheolwr Archwilio (Archwilio Ariannol) a'r Arweinwyr Archwilio (Archwilio Ariannol ac Archwilio Perfformiad). Mae gan y tri gydnabod a/neu deulu sy'n cael eu cyflogi gan y Cyngor. O ganlyniad, ni fyddant naill ai'n ymwneud ag unrhyw waith mewn perthynas â'r gwasanaethau perthnasol, neu bydd camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod unrhyw wrthdaro posibl yn cael ei reoli.

Ansawdd archwilio


Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru'n un llwyr. Rydym ni'n credu bod a wnelo ansawdd archwilio â chael pethau'n iawn y tro cyntaf.

Rydym yn defnyddio model tair llinell sicrwydd i ddangos sut yr ydym yn cyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydlyn a goruchwyllo'r trefniadau hynny. Creffir yn annibynnol ar ein gwaith gan Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr ac mae Cadeirydd ein Bwrdd yn gweithredu fel dolen gyswllt i'n Bwrdd ar ansawdd archwilio. I gael rhagor o wybodaeth gweler ein [Hadroddiad Ansawdd Archwilio](#).



Ein Pobl

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- - Goruchwyliaeth ac adolygu



Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio Dewis y tîm cywir

- Plattform archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technegol



Sicrwydd annibynnol

- Adolygiadau Ansawdd Allanol
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddiad o wraidd y problem
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

Rhagor o wybodaeth

Mae gan Archwilio Cymru ystod o adnoddau i roi cymorth i graffu ar gyrff cyhoeddus Cymru, ac i'w cynorthwyo i barhau i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i bobl Cymru.

Ewch at ein gwefan i ganfod:



Ein cyhoeddiadau sy'n cwmpasu ein gwaith archwilio mewn cyrff cyhoeddus.



Gwybodaeth am ein gwaith sydd ar ddod a'n blaenraglen waith ar gyfer archwilio perfformiad.



Offer data i'ch helpu i gael dealltwriaeth well am dueddiadau mewn gwariant cyhoeddus.



Manylion ein gwaith a'n digwyddiadau Arfer Da gan gynnwys rhannu arfer a mewnwelediadau sy'n dod i'r amlwg o'n gwaith archwilio.



Ein cylchlythyr sy'n darparu diweddariadau rheolaidd i chi ar ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arfer da, a digwyddiadau.



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.



Cyd-bwyllgor GwE – Cynllun Archwilio 2026

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2026



Cynnwys

Cyflwyniad	4
Ein nodau a'n huchelgeisiau	5
Gwaith archwilio ariannol	6
Swyddogaethau archwilio statudol eraill	12
Ffi archwilio	13
Tîm archwilio	14
Ansawdd archwilio	15
Rhagor o wybodaeth	16

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru na staff Swyddfa Archwilio Cymru'n derbyn unrhyw atebolrwydd mewn perthynas ag unrhyw ddibyniaeth ar y ddogfen hon neu ddefnydd arall ohoni gan unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, neu unrhyw ddefnydd gan unrhyw drydydd parti.

I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni dros y ffôn ar 029 2032 0500, neu drwy anfon neges e-bost i post@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cyflwyniad



Adrian Crompton

Archwilydd
Cyffredinol Cymru

Mae'n dda gennyf rannu fy Nghynllun Archwilio 2026 sy'n cwmpasu dau fis olaf gweithrediadau Cyd-bwyllgor GwE (y Cyd-bwyllgor) hyd at 31 Mai 2025, cyn trosglwyddo ei wasanaethau yn ôl i'r awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru. Mae'r Cynllun yn nodi sut y byddaf yn cyflawni eich archwiliad.

Mae fy nhîm archwilio wedi datblygu'r Cynllun gan ddilyn proses gynllunio strwythuredig a seiliedig-ar-risg, a fydd yn parhau trwy gydol yr archwiliad. Mae fy Nghod Ymarfer Archwilio yn darparu rhagor o fanylion ynglŷn â sut y dylai fy swyddogaeth archwilio a rhai swyddogaethau

penodol eraill gael eu cyflawni gan fy archwilwyr.

Wrth graidd ein holl waith mae ein hymrwymiad i gynnal y safonau uchaf o ran uniondeb proffesiynol, gwrthrychedd, annibyniaeth ac ansawdd archwilio. Mae ein model tair llinell sicrwydd (tudalen 15) yn nodi sut y byddwn yn sicrhau bod y safonau ansawdd hynny'n cael eu cyrraedd. Mae ein hadroddiad ansawdd blynyddol diweddaraf yn darparu rhagor o wybodaeth am ein trefniadau ansawdd archwilio.

Bydd fy nhîm archwilio'n gweithio'n adeiladol gyda'ch staff i ddeall y materion yr ydych yn eu hwynebu, sicrhau bod y broses archwilio'n gweithredu mor esmwyth â phosibl, a darparu mewnwelediadau gwerthfawr ynglŷn ag unrhyw feysydd ar gyfer gwella.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'ch archwiliad bydd fy nhîm archwilio'n hapus i'w trafod gyda chi. Byddant hefyd yn rhoi diweddariadau rheolaidd ichi wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

Ein nodau a'n huchelgeisiau

Ein diben



Rhoi sicrwydd i bobl bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda



Esbonio sut mae'r arian hwnnw'n cael ei wario



Ysbrydoli'r sector cyhoeddus i wella

Ein gweledigaeth



Manteisio'n llawn ar ein safbwynt, ein harbenigedd a'n dyfnder unigryw ar fewnwelediad



Cryfhau ein safle fel llais awdurdodol, dibynadwy ac annibynnol



Cynyddu ein hamlygrwydd, dylanwad a pherthnasedd



Bod yn sefydliad sy'n esiampl ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt

Ein meysydd ffocws



Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel



Dull wedi'i dargedu ac sy'n cael effaith ar gyfathrebu a dylanwadu



Diwylliant a model gweithredu sy'n ein galluogi i ffynnu

Gallwch gael gwybod mwy am Archwilio Cymru yn ein [Cynllun Blynnyddol 2025-26](#) a hefyd Ein [Strategaeth 2022-27](#).

Gwaith archwilio ariannol

Archwilio'r datganiadau ariannol

Mae'n ofynnol i mi gyhoeddi adroddiad ar eich datganiadau ariannol chi sy'n cynnwys barn ynglŷn â'u 'cywirdeb a thegwch' a'u paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu a gofynion cyfreithiol.

Byddaf hefyd yn cyflwyno adroddiad drwy eithriad ar nifer o faterion a nodir mewn mwy o fanylder yn ein [Datganiad o Gyfrifoldebau](#).

Ni osodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf wrth gynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.

Perthnasedd y datganiadau ariannol

Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ynghylch cywirdeb a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig ond rwy'n mabwysiadu cysyniad perthnasedd. Fy nod yw adnabod a chywiro camddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rhai a allai beri i'r sawl sy'n darllen y cyfrifon gael ei gamarwain. Mae perthnasedd yn gymwys nid dim ond i gamddatganiadau ariannol, ond hefyd i ofynion datgelu ac ymlyniad wrth y fframwaith cyfrifyddu perthnasol a'r gyfraith.

Rwy'n pennu perthnasedd cynllunio a pherfformiad er mwyn:

- pennu'r lefel o gamddatganiad a allai beri i ddefnyddiwr y cyfrifon gael ei gamarwain;
- rhoi cymorth i bennu cwmpas ein dull archwilio a phrofion archwilio canlyniadol;
- pennu meintiau samplau;
- asesu effaith camddatganiadau hysbys a thebygol yn y datganiadau ariannol; a
- hysbysu'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch unrhyw gamddatganiadau heb eu haddasu uwchlaw lefel ddibwys, ein trothwy hysbysu.

Caiff y lefelau sy'n peri i mi farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol eu nodi isod.

Perthnasedd cynllunio

2% o wariant gros (ag eithrio effaith setliad pensiynau) yn seiliedig ar ddatganiadau ariannol drafft 2025-26.

£33,000

Trothwy hysbysu (dibwys)

lefel perthnasedd o 5% yw hyn.

£1,650

Ceir rhai meysydd o fewn y cyfrifon a allai fod yn bwysicach i ddefnyddiwr y cyfrifon, ac rydym wedi pennu lefel perthnasedd is ar gyfer y rhain:

Cydnabyddiaeth ariannol uwch swyddogion

£1,000

Datgeliadau partïon cysylltiedig

£10,000

Bydd fy nhîm archwilio'n asesu lefelau perthnasedd trwy gydol yr archwiliad.

Risgiau arwyddocaol mewn perthynas â'r datganiadau ariannol

Mae risgiau arwyddocaol yn golygu risgiau o gamddatganiad perthnasol a adnabuwyd y mae'r asesiad o risg gynhenid ar eu cyfer yn agos at ben uchaf y sbectrwm risg gynhenid neu'r rhai sydd i'w trin fel risg arwyddocaol yn unol â gofynion Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (ISAs) eraill. Mae'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio'n ei gwneud yn ofynnol i ni roi mwy o sylw i'r risgiau arwyddocaol hyn.

Risg o wrthwneud gan reolwyr

Mae'r risg y gallai rheolwyr wrthwneud rheolaethau'n bresennol ym mhob endid. O ystyried y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrthwneud o'r fath ddigwydd, tybir bod hon yn risg arwyddocaol [ISA 240.32-33].

Ein hymateb arfaethedig

Bydd fy nhîm archwilio yn:

- profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;
- adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer gwyr dueddiadau; a
- gwerthuso'r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i gwrs arferol busnes.

Dod â'r Cyd-bwyllgor i Ben

Daeth y Cyd-bwyllgor i ben yn ei ffurf bresennol ar 31 Mai 2025, gyda gwasanaethau'n cael eu trosglwyddo'n ôl i'r awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru. Mae risg nad yw'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar sail briodol, nad ydynt yn gywir ac yn gyflawn, ac nad ydynt yn egluro'n ddigonol ddiwedd y Cyd-bwyllgor a throsglwyddo'r gwasanaethau.

Ein hymateb arfaethedig

Bydd fy nhîm archwilio yn:

- adolygu'r adroddiad naratif, y nodiadau i'r cyfrifon, a'r polisïau cyfrifyddu er mwyn sicrhau eglurder, cywirdeb a chyflawnrwydd; a
- sicrhau bod y dyddiad dod i ben, y trefniadau trosglwyddo, a'r canlyniadau ariannol yn cael eu datgelu'n dryloyw.

Meysydd eraill y bydd ffocws arnynt

Rwy'n nodi isod risgiau eraill o gamddatganiad perthnasol a adnabuwyd sydd, er na phenderfynwyd eu bod yn risgiau arwyddocaol fel uchod, yn rhai yr hoffwn eu dwyn i'ch sylw.

Prisiad y cronfa bensiwn a swm y setliad

Mae prisiad y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) fel y'i hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol yn amcangyfrif perthnasol.

Mae natur yr amcangyfrif hwn yn golygu bod llawer iawn o ansicrwydd amcangyfrif yn perthyn iddo, gan ei fod yn sensitif i addasiadau bychain yn y tybiaethau a ddefnyddiwyd wrth ei gyfrifo, gan gynnwys amodau economaidd fel lefelau cyfraddau llog.

Ar ôl gorffen gweithredu ar 31 Mai 2025, setlwyd sefyllfa pensiwn y CPLI gan arwain at falans cau o £dim. Oherwydd y farn a'r amcangyfrif dan sylw, mae risg nad yw swm y prisiad a'r setliad pensiwn wedi'i gyfrifo, ei gydnabod na'i ddatgelu'n briodol, gan arwain at gamddatganiad perthnasol posibl.

Ein hymateb arfaethedig

Bydd fy nhîm archwilio:

- yn gwerthuso'r cyfarwyddiadau a roddwyd gan y rheolwyr i'w harbenigwyr rheoli (actiwari) ar gyfer yr amcangyfrif hwn a chwmpas gwaith yr actiwari;
- yn asesu cymhwysedd, galluedd a gwrthrychedd yr actiwari a wnaeth y prisiadau;
- yn asesu cywirdeb a chyflawnder yr wybodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod ar gyfer yr actiwari i amcangyfrif y rhwymedigaeth;
- yn profi cywirdeb prisiad a datgeliadau'r gronfa bensiwn yn y datganiadau ariannol gyda'r adroddiad actiwaraid gan yr actiwari;
- yn asesu rhesymoldeb y tybiaethau a wnaed gan yr actiwari trwy adolygu adroddiad yr actiwari ymgynghorol (arbenigwr yr archwilydd) a chyflawni unrhyw weithdrefnau ychwanegol sy'n ofynnol; ac
- asesu a yw'r trafodion pensiwn sy'n ymwneud â rhoi'r gorau i'r Cyd-bwyllgor wedi cael eu trin yn gywir.

Cydnabyddiaeth ariannol uwch swyddogion

Mae cydnabyddiaeth ariannol a dalwyd i uwch swyddogion yn dal i fod o ddiddordeb mawr ac yn berthnasol o ran ei natur. Felly, ceir risg y gallai gwallau gwerth isel hyd yn oed yn y datgeliad arwain at gamddatganiad perthnasol.

Ein hymateb arfaethedig

Bydd fy nhîm archwilio:

- yn sicrhau bod y gydnabyddiaeth ariannol a ddatgelwyd yn gyson â thystiolaeth ategol;
- yn sicrhau bod symiau a dalwyd yn gyson â'r rhai a gymeradwywyd gan y Cyd-bwyllgor; ac
- yn sicrhau bod datgeliadau'n gyflawn yn seiliedig ar wybodaeth y tîm ac wedi eu paratoi yn unol â'r gofynion.

Datgeliadau partïon cysylltiedig

Rhaid i'r datganiadau ariannol ddatgelu unrhyw berthnasoedd partïon cysylltiedig ynghyd â'r trafodiadau a'r balansau rhwng y Cyd-bwyllgor a'r corff/parti arall.

Mae gan y Cyd-bwyllgor nifer o berthnasoedd y gellid ystyried eu bod yn barti cysylltiedig, er enghraifft, Cyngor Gwynedd fel awdurdod lletya.

Fodd bynnag, lle cyfyd perthnasoedd partïon cysylltiedig trwy berthnasoedd swyddogion neu aelodau unigol, mae'n debygol y bydd llai o dryloywder ynglŷn â'r perthnasoedd hyn. Mae'r trafodiadau hyn yn rhai o ddiddordeb mawr ac ystyrir eu bod yn berthnasol o ran eu natur.

Mae dod â'r Cyd-bwyllgor i ben yn golygu y gallai fod anhawster cael datganiadau gan aelodau a swyddogion sydd wedi gadael y Cyd-bwyllgor. Mae risg o gamddatganiadau perthnasol oherwydd datgeliadau anghyflawn neu anghywir, hyd yn oed lle mae gwerth y rhain yn gymharol fach.

Ein hymateb arfaethedig

Bydd fy nhîm archwilio:

- yn adolygu proses y Cyd-bwyllgor ar gyfer adnabod perthnasoedd partïon cysylltiedig a thrafodion a balansau cysylltiedig;
- yn cyflawni gweithdrefnau i gadarnhau cyflawnder perthnasoedd partïon cysylltiedig; ac
- yn sicrhau bod datgeliadau'n gyflawn, yn gywir, yn gyson â thystiolaeth ac yn unol â'r Cod Llywodraeth Leol.

Amserlen archwilio'r datganiadau ariannol

Isod ceir amserlen sy'n dangos camau allweddol yr archwiliad a'n canlyniadau archwilio allweddol y byddwn yn eu darparu ar eich cyfer.

Arddangosyn 1: Amserlen archwilio'r datganiadau ariannol

Cynllunio	Cyfarfod cynllunio Gweithdrefnau asesu risg lefel uchel Asesu'r risg o dwyll Cynllunio amcangyfrifon cyfrifyddu Asesu risg yn yr amgylchedd TG Ffi archwilio ddangosol
Chwefror– Mawrth 2026	
Interim	Llifoedd gwybodaeth Gweithdrefnau asesu risg manwl Adolygu rheolaethau TG Datblygu strategaeth brofi Profi samplau'n gynnar
Mawrth 2026	
Gwaith maes	Cynllun Archwilio Drafft Diweddarau'r asesiad risg Archwiliad o'r datganiadau ariannol gan gynnwys yr adroddiad naratif a'r datganiad llywodraethu blynyddol Cwblhau profion archwilio Gwerthuso'r canfyddiadau archwilio Cyfarfod cau'r archwiliad
Ebrill - Mehefin 2026	
Adrodd	Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon Cyflwyno'r canfyddiadau i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu Ardystio gan yr Archwilydd Cyffredinol
Gorffennaf 2026	

Swyddogaethau archwilio statudol eraill

Yn ogystal â'r archwiliad o'r cyfrifon, mae gennyf gyfrifoldebau statudol i gael cwestiynau ynghylch y cyfrifon a gwrthwynebiadau iddynt gan etholwyr lleol. Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi'r cyfrifoldebau hyn:

- Adran 30 Edrych ar ddogfennau a chwestiynau mewn archwiliad; ac
- Adran 31 Hawl i gyflwyno gwrthwynebiadau mewn archwiliad.

Gan bod y gwaith hwn yn adweithiol, nid wyf wedi gwneud unrhyw lwfans yn y ffi isod. Os byddaf yn cael cwestiynau a gwrthwynebiadau, bydd fy archwilwyr yn trafod yr effaith bosibl ar ffioedd archwilio gyda'r Pennaeth Cyllid.

Ffi archwilio

Ym mis Ionawr 2026, fe gyhoeddom ni ein Cynllun Ffioedd 2026-27 yn dilyn cymeradwyaeth gan Bwyllgor Cyllid y Senedd sy'n nodi'r cynnydd cyfartalog i gyfraddau'r ffioedd o 5.3%.

Mae'r ffi wirioneddol y bydd unrhyw gorff unigol a archwilir yn ei thalu'n dibynnu nid dim ond ar gyfraddau ein ffioedd ond ar swm y gwaith a'r cymysgedd o sgiliau sy'n ofynnol. Amlinellir y ffi ar gyfer y Cyd-bwyllgor isod. Ysgogwyd y ffi uwch yn 2024-25 gan sawl risg ychwanegol yn deillio o ddiddymu'r corff.

Bydd cynllunio'n digwydd yn barhaus, ac efallai y bydd newidiadau i'm rhaglen o waith archwilio, ac felly fy ffi, yn ofynnol os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn dod i'r amlwg. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb i'm harchwilwyr fod wedi eu trafod gyda'r Pennaeth Cyllid.

Ffi amcangyfrifedig ar gyfer 2025-26:
£19,620

Ffi wirioneddol ar gyfer 2024-25:
£22,623

Rwy'n seilio fy ffi archwilio ar y tybiaethau canlynol:

- Bod y canlyniadau archwilio y cytunwyd arnynt yn nodi'r gofynion disgwyledig o ran papurau gwaith i ategu'r datganiadau ariannol ac yn cynnwys graddfeydd amser a chyfrifoldebau.
- Nad oes unrhyw faterion arwyddocaol, heblaw fel a grynhoir yn y cynllun hwn, yn cael eu hadnabod yn ystod yr archwiliad.

Tîm archwilio

Bydd fy nhîm archwilio'n parhau i weithio ac ymgysylltu o bell gan ddefnyddio technoleg, ond bydd peth gwaith ar safleoedd yn parhau lle y bo'n briodol gwneud hynny.

Caiff prif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, eu crynhoi yn **Arddangosyn 2**.

Arddangosyn 2: Fy nhîm archwilio lleol

Cyfarwyddwr Ymgysylltu

Matthew Edwards

matthew.edwards@audit.wales

Archwilio Ariannol

Arweinydd Ymgysylltu

Matthew Edwards

matthew.edwards@audit.wales

Rheolwr Archwilio

Yvonne Thomas

yvonne.thomas@audit.wales

Arweinydd Archwilio

Siwan Glyn

siwan.glyn@audit.wales

Gallaf gadarnhau bod aelodau fy nhîm i gyd yn annibynnol ar Cyd-bwyllgor a'ch swyddogion

Ansawdd archwilio


Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru'n un llwyr. Rydym ni'n credu bod a wnelo ansawdd archwilio â chael pethau'n iawn y tro cyntaf.

Rydym yn defnyddio model tair llinell sicrwydd i ddangos sut yr ydym yn cyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydlyn a goruchwyllo'r trefniadau hynny. Creffir yn annibynnol ar ein gwaith gan Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr ac mae Cadeirydd ein Bwrdd yn gweithredu fel dolen gyswllt i'n Bwrdd ar ansawdd archwilio. I gael rhagor o wybodaeth gweler ein [Hadroddiad Ansawdd Archwilio](#).



Ein Pobl

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- - Goruchwyliaeth ac adolygu



Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio Dewis y tîm cywir

- Plattform archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technegol



Sicrwydd annibynnol

- Adolygiadau Ansawdd Allanol
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddiad o wraidd y problem
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

Rhagor o wybodaeth

Mae gan Archwilio Cymru ystod o adnoddau i roi cymorth i graffu ar gyrff cyhoeddus Cymru, ac i'w cynorthwyo i barhau i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i bobl Cymru.

Ewch at ein gwefan i ganfod:



Ein cyhoeddiadau sy'n cwmpasu ein gwaith archwilio mewn cyrff cyhoeddus.



Gwybodaeth am ein gwaith sydd ar ddod a'n blaenraglen waith ar gyfer archwilio perfformiad.



Offer data i'ch helpu i gael dealltwriaeth well am dueddiadau mewn gwariant cyhoeddus.



Manylion ein gwaith a'n digwyddiadau Arfer Da gan gynnwys rhannu arfer a mewnwelediadau sy'n dod i'r amlwg o'n gwaith archwilio.



Ein cylchlythyr sy'n darparu diweddariadau rheolaidd i chi ar ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arfer da, a digwyddiadau.



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.



ENW'R PWYLLGOR	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
DYDDIAD Y CYFARFOD	21 Mai 2026
TEITL YR EITEM	Adroddiadau Archwilio Cymru
AMCAN	Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar adroddiad(au) sydd wedi eu cyhoeddi yn ddiweddar gan Archwilio Cymru – • Y Blociau Adeiladu? Cynllunio Cyfalaf mewn Cynghorau yng Nghymru • Anghenion Dysgu Ychwanegol – Ydy cyrff cyhoeddus yn gwybod a yw'r system yn gweithio?
ARGYMHELLIAD	Gofynnir i Aelodau dderbyn yr adroddiad.
AWDUR	Lora Williams , Archwilydd Arweiniol, Archwilio Cymru Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor


1. CEFNDIR

- 1.1. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio swyddogaeth i adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol y Cyngor ac fel rhan o'r swyddogaeth hon mae disgwyliad i ystyried adroddiadau cyrff adolygu allanol megis Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).
- 1.2. Yn ogystal ag ystyried adroddiadau yn ymarferol, mae disgwyl i bwyllgorau sicrhau eu hunain bod trefniadau ar waith i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn unrhyw argymhellion a geir ynddynt.
- 1.3. Mae copi o adroddiad cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru ar **'Y Blociau Adeiladu? Cynllunio Cyfalaf mewn Cynghorau yng Nghymru'** wedi ei gynnwys fel **Atodiad 1**. Ceir dogfen ymateb sefydliadol yn **Atodiad 2** sy'n amlinellu'r hyn yr ydym fel Cyngor yn bwriadu ei wneud i ymateb i'r argymhellion perthnasol o fewn yr adroddiad. Bydd **Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid** yn mynychu'r cyfarfod i ymhelaethu ar yr ymateb, gosod cyd-destun ac ymateb i unrhyw gwestiynau os oes angen.
- 1.4. Yn ogystal, mae copi o adroddiad cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru ar **'Anghenion Dysgu Ychwanegol – Ydy cyrff cyhoeddus yn gwybod a yw'r system yn gweithio?'** wedi ei gynnwys er gwybodaeth fel **Atodiad 3**. Er nad oes argymhellion penodol i'r Cyngor yn yr adroddiad mae nifer o'r argymhellion i Lywodraeth Cymru yn nodi'n glir y bydd angen i awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill gymryd rhan weithredol i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus.

Y Blociau Adeiladu?

Cynllunio Cyfalaf mewn Cyngorau yng
Nghymru

Ionawr 2026



Rydym wedi paratoi'r adroddiad hwn yn unol ag adran 41(1)(a) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 145A(1) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, ac yn ei gyflwyno i'r Senedd yn unol ag adran 145A(6) Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Cewch aildddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os ydych yn ei aildddefnyddio, rhaid i'ch aildddefnydd fod yn gywir ac ni ddylai fod mewn cyd-destun sy'n gamarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae'n rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildddefnyddio.

Os oes angen cymorth arnoch gyda'r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- e-bostiwch ni: post@archwilio.cymru

Cewch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb yn yr iaith yr ydych yn ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio (INTOSAI).

Cynnwys

Rhagair	4
Ciplun archwilio	6
Ffeithiau a ffigurau allweddol	9
Ein canfyddiadau	10
Argymhellion	37

Atodiadau

1 Ynglŷn â'n gwaith	40
2 Esbonio beth yw gwariant cyfalaf	42
3 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn	50
4 Rhestr wirio ar gyfer cynllunio cyfalaf	52



Rhagair

Mae'n hanfodol bod cynghorau yn gwario cyfalaf fel y gallant ddarparu gwasanaethau o ddydd i ddydd. Mae hyn yn cwmpasu amrywiaeth eang o brosiectau. Er enghraifft, gallai gynnwys gwario ar adeiladu ysgolion, gwella llyfrgelloedd, a phrynu offer a ddefnyddir i ddarparu gofal cymdeithasol. Gwariodd cynghorau bron i £2 biliwn yn 2023-24 ar draws yr amrywiaeth o wasanaethau. Mae cael yr ased iawn, ar yr adeg iawn, am y pris iawn yn ganolog i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ogystal â chyflawni gwerth am arian trethdalwyr.

Mae cynghorau wedi cyflawni prosiectau cyfalaf sylweddol yn y gorffennol. Mae enghreifftiau yn cynnwys llawer o ysgolion newydd diweddar neu welliannau i ysgolion. Hefyd, mae'n rhaid i gynghorau reoli'r proffil llai uchel, ond mae cynnal weithiau yr asedau sy'n heneiddio yr un mor bwysig, ar adeg sy'n heriol o ran cyllid cyhoeddus. Mae'r heriau hyn yn sylweddol ac nid ydynt yn gwneud cyflawni asedau newydd neu well yn rhwydd.

Rwyf wedi edrych ar ba mor dda y mae cynghorau yn cynllunio i wneud hyn. Rhaid i gynghorau gydbwyso gwariant ar asedau newydd i fodloni pwysau y galw, o'i gymharu â'r heriau ariannol sylweddol y maent yn eu hwynebu. Rwyf yn cydnabod bod hwn yn gydbwysedd y mae'n ofnadwy o anodd ei gael yn iawn. Fodd bynnag, mae'n tanlinellu pwysigrwydd rhoi gwerth am arian wrth wraidd penderfyniadau gwariant cyfalaf.

Grantiau sy'n ariannu cyfran fawr o'r gwariant cyfalaf. Mae hyn yn golygu ei bod yn bwysig bod prosesau ar gyfer dyrannu a monitro cyllid grant yn eu helpu i gael y gwerth gorau am arian. Clywais gan rai cynghorau eu bod yn teimlo eu bod yn gorfod gwneud eu gorau i gael gafael ar gyllid, hyd yn oed pan oedd yn dod gydag amodau nad oedd yn cyd-fynd â'u cynlluniau lleol na'u blaenoriaethau. Clywais bryderon ynghylch cymhlethdod prosesau grantiau hefyd.

Rwyf yn cydnabod mai lle cyllidwyr, megis Llywodraeth Cymru, yw penderfynu pa grantiau i'w cynnig a'u hamodau. Gall grantiau helpu cyllidwyr i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol. Fodd bynnag, gall hyn olygu weithiau efallai na fydd gwariant cyfalaf yn helpu i ddiwallu'r anghenion y nodwyd eu bod yn flaenoriaethau lleol. Weithiau, gallai anghenion a blaenoriaethau lleol a nodir fod yn wahanol i flaenoriaethau polisi cenedlaethol. Mae hyn yn atgyfnerthu'r angen am ddeialog rhwng cynghorau a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod prosesau cyllido grantiau mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

Mae fy adroddiad yn nodi sawl awgrym i helpu cynghorau i wella eu dull cynllunio cyfalaf. Fel gydag unrhyw faes gwariant, mae bod yn glir ar y nodau a'r canlyniadau arfaethedig yn allweddol wrth asesu a ydych yn cyflawni gwerth am arian. Canfûm nad yw bob amser yn glir sut mae cynlluniau cyfalaf yn helpu cynghorau i gyflawni eu blaenoriaethau. O ganlyniad, mae'n anodd iawn i gynghorau wybod a ydynt yn cyflawni gwerth am arian.

Mae cysylltu'n glir y canlyniadau a'r bwriadau buddsoddi cyfalaf yn thema a godais hefyd yn fy adolygiad diweddar o'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.

Rwyf hefyd wedi pwysleisio'r angen i gynghorau wella eu dealltwriaeth o gyflwr eu hasedau cyfredol. Heb y ddealltwriaeth hon, mae risg nad yw cynghorau yn deall faint y bydd angen iddynt ei fuddsoddi yn y dyfodol ac yn nodi graddfa'r bylchau ariannu. Mae'n hanfodol sicrhau hefyd fod cynllunio cyfalaf yn cael ei lywodraethu yn dda. Mae'n anochel oherwydd y sefyllfa ariannol y bydd angen parhau i wneud penderfyniadau anodd. Felly, mae'n bwysig bod cynghorwyr yn gymwys i wneud penderfyniadau ar gynlluniau cyfalaf ac yn craffu ar eu cynnydd a'u heffaith wrth iddynt gael eu cyflawni.

Ar y cyfan, mae cyfleoedd i wneud gwerth am arian yn bwyslais cliriach y cynlluniau a'r gwariant cyfalaf. Rwyf hefyd yn ailbwysleisio fy marn y dylai cyrff cyhoeddus gyflymu'r modd y maent yn meddwl am yr egwyddor datblygu cynaliadwy ac yn ei chymhwyso'n gyson yn eu cynlluniau a'u gweithredoedd.¹ Gobeithiaf y bydd fy adroddiad yn helpu cynghorau a Llywodraeth Cymru i fyfyrio ar y cyfleoedd hyn.



Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol
Cymru



Ciplun archwilio

Yr hyn yr oeddem yn edrych arno

- 1 Gwnaethom edrych ar sut mae cynghorau yn cynllunio eu gwariant cyfalaf. Gwnaethom ganolbwyntio ar raglen cyfalaf blynyddol a strategaethau cyfalaf cynghorau. Gwnaethom ystyried pa mor hyddysg yw'r cynlluniau hyn ac a ydynt yn nodi'n glir eu canlyniadau arfaethedig. Gwnaethom edrych hefyd i weld a ydynt yn ystyried pethau megis cyflwr cyfredol yr asedau a'r adnoddau sydd ar gael i'w cyflawni. Gwnaethom edrych hefyd ar ba mor dda y mae cynghorau yn hysbysu cynghorwyr am eu gwariant cyfalaf er mwyn helpu i sicrhau bod goruchwyliaeth effeithiol.
- 2 Gwnaethom gynllunio ein gwaith i ddarparu golwg cyffredinol o'r modd y mae cynghorau yn cynllunio eu gwariant cyfalaf. Gwnaethom edrych hefyd am unrhyw faterion cyffredin y gall cynghorau a Llywodraeth Cymru eu hystyried. Gwnaethom ddefnyddio ein canfyddiadau i lywio ein hargymhellion i wella'r gwerth am arian y mae cynghorau yn ei gyflawni o'u gwaith cynllunio cyfalaf.
- 3 Nid ydym yn edrych ar gymeradwyo na chynnydd prosiectau cyfalaf unigol, gan mai penderfyniadau polisi i gynghorau eu gwneud yw'r rhain. Am yr un rheswm, ni wnaethom asesu cynnwys rhaglenni cyfalaf cynghorau, na rhinweddau eu nodau a'u huchelgeisiau.

Pam mae hyn yn bwysig

- 4 Mae cynghorau yn darparu nifer sylweddol o asedau newydd bob blwyddyn ar gyfer eu hardaloedd. Mae gwariant cyfalaf yn galluogi cynghorau i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau i breswylwyr. Mae'n talu am yr adeiladau a'r tir a ddefnyddir i gynnal gwasanaethau, a'r offer a ddefnyddir i ddarparu'r gwasanaethau hynny. Felly, gwariant sy'n darparu'r lleoedd, y mannau a'r offer i gynghorau ddarparu gwasanaethau i breswylwyr ydyw.

- 5 Cyfeiriwn at ganlyniadau gwariant cyfalaf fel asedau. Gan fod cynghorau yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau, gall y math o asedau a brynir neu a adeiledir amrywio'n sylweddol. Gall cynghorau fod yn berchen ar asedau i ddarparu gwasanaethau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, megis ysgolion, tai, neu lyfrgelloedd. Gallant fod yn berchen hefyd ar asedau i ddarparu gwasanaethau dewisol, megis canolfannau siopa, canolfannau hamdden, neu theatrau. Felly, mae gwariant cyfalaf yn dylanwadu ar y costau a'r incwm sydd ar gael i gynghorau. Mae'n allweddol gwneud hyn yn iawn fel bod cynghorau yn sicrhau gwerth am arian.
- 6 Ar hyn o bryd, mae cynghorau yn wynebu heriau ariannol sylweddol sy'n gwneud cyflawni prosiectau cyfalaf yn anodd. Mae'n golygu hefyd fod cyflawni gwerth am arian yn enwedig o bwysig.² Rydym yn cydnabod bod costau gwariant cyfalaf yn anodd eu cydbwysu â gwariant o ddydd i ddydd (a elwir yn wariant refeniw). Gall costau gynnwys costau llog benthyca arian neu gyfrannu at brosiectau o gyllidebau refeniw. Yn aml, gall gwariant refeniw helpu cynghorau i gyflawni rhai heriau'n gyflymach, gan gynnwys helpu i reoli'r galw am wasanaethau.³ Yn nodweddiadol, gall prosiectau cyfalaf gymryd mwy o amser i'w cwblhau, a all eu gwneud yn anoddach eu cyfiawnhau wrth wynebu galw cynyddol am wasanaethau o ddydd i ddydd.
- 7 Fodd bynnag, gallai peidio â gwario arian ar gynlluniau cyfalaf arwain at gostau uwch dros amser. Er enghraifft, oherwydd costau cynnal a chadw uchel ar asedau hyn yn hytrach nag adeiladu rhai newydd. Hefyd, gall chwyddiant mewn costau adeiladu olygu yr oedir costau gwariant yn fwy yn yr hirdymor. Gall olygu canlyniadau gwaeth hefyd os nad yw asedau cyfredol yn addas mwyach ar gyfer darparu gwasanaethau modern. Hefyd, gall hyn i gyd olygu costau uwch yn y dyfodol a rhoi pwysau ychwanegol ar sefyllfaoedd cyllidebol sydd eisoes yn heriol i gynghorau.
- 8 Mae cyflawni'r cydbwysedd hwn yn iawn yn anodd, ond mae'n bwysig er mwyn sicrhau gwerth am arian yn awr ac yn y tymor hwy. Rydym yn cydnabod ei bod yn anodd i gynghorau daro'r cydbwysedd hwn.

2 Disgrifiwn yr hyn y mae gwerth am arian yn ei olygu ym maes cynllunio cyfalaf yn **Arddangosyn 2**.

3 Rydym wedi adrodd ar y pwysau a'r gofynion refeniw yn ein hadroddiadau cynaliadwyedd ariannol yn ddiweddar. Roedd hyn yn cynnwys ar lefel leol ym mhob cyngor a'n [crynodeb cenedlaethol](#) a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2024.

Yr hyn a ganfuwyd gennym

- 9 Mae gan gynghorau hanes hir o gyflawni prosiectau cyfalaf arwyddocaol ac maent wedi gweithio'n galed i gynnal asedau yn wyneb pwysau ariannol cynyddol. Rydym yn cydnabod yr amgylchedd anodd y mae cynghorau yn gweithredu ynddo. Yn y cyd-destun hwn, gobeithiwn y bydd yr adroddiad hwn yn helpu cynghorau i fyfyr ar eu trefniadau eu hunain ac i nodi cyfleoedd am welliannau pan fo hynny'n berthnasol.
- 10 Ar y cyfan, rydym wedi nodi rhai meysydd lle y credwn y gallai cynghorau fyfyr ar y modd y gallent wella'r ffordd y maent yn cynllunio eu gwariant cyfalaf. Mae rhai o'r materion a nodwyd gennym yn ymwneud â'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyllid cyfalaf. Canfuom yr hyn a ganlyn:
 - nid yw prosesau cyllido grant yn helpu'r cynghorau i gynllunio ar gyfer y tymor hwy neu i ddarparu gwerth am arian bob amser;
 - yn gyffredinol, nid yw'r cynghorau wedi nodi canlyniadau arfaethedig cynlluniau cyfalaf yn glir;
 - nid yw'r cynghorau yn nodi'n glir bob amser y rhesymau dros yr angen am wariant cyfalaf; ac
 - nid yw adroddiadau ar wariant cyfalaf yn arfer yn canolbwyntio ar y gwerth am arian a gyflawnwyd o'r gwariant hwnnw.

Yr hyn a argymhellir gennym

- 11 Rydym yn argymhell bod cynghorau yn adolygu eu gwaith cynllunio cyfalaf o'i gymharu â'n rhestr wirio. Mae'r rhestr wirio yn nodi agweddau allweddol ar gynllunio cyfalaf cadarn, ac mae'n cael ei llywio gan ein meini prawf archwilio. Yn rhan o hyn, rydym wedi argymhell bod cynghorau yn canolbwyntio ar hyfforddiant i gynghorwyr wrth ymgymryd â gwaith cynllunio cyfalaf, gan sicrhau bod gwybodaeth am gyflwr asedau yn gyfredol, ac asesu effeithiolrwydd prosiectau cyfalaf yn rheolaidd.
- 12 Rydym hefyd yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei phrosesau ynghylch dyfarnu cyllid grant cyfyngedig.



Ffeithiau a ffigurau allweddol



£1.92 biliwn – cyfanswm gwariant cyfalaf cynghorau Cymru yn 2023-24.



83% – y gyfran o gyfanswm gwariant cyfalaf cynghorau Cymru yn 2023-24 ar adeiladau newydd, addasiadau ac adnewyddiadau.



£1.04 biliwn neu **54%** – cyfanswm y gwariant cyfalaf gan gynghorau a ariannwyd gan grantiau yn 2023-24 (prisiau Mehefin 2025).



Ers 2000-01, grantiau a fu'r **ffynhonnell fwyaf o gyllid** ar gyfer gwariant cyfalaf gan gynghorau.



£0.57 biliwn neu **30%** – cyfanswm y gwariant cyfalaf gan gynghorau a ariannwyd drwy fenthycu yn 2023-24 (prisiau Mehefin 2025).




73% – y cynnydd termau real mewn benthyca ar gyfer gwariant cyfalaf gan gynghorau, ers y diwygiadau yn 2004-05.

Ein canfyddiadau

Prosesau ariannu grantiau

- 13 Grantiau yw'r prif fath o gyllid ar gyfer gwariant cyfalaf gan gynghorau. Rhwng 2000-01 a 2023-24, cynyddodd cyfran y gwariant cyfalaf gan gynghorau a ariannwyd gan grantiau o 45% i 54%. Fel y dengys **Arddangosyn 1**, grantiau cyfalaf oedd y mwyaf ymhlith y pedwar math o gyllid cyfalaf.⁴ Mae hyn yn gwneud y prosesau gwneud cais am grantiau, a dyfarnu a monitro grantiau yn bwysig, er mwyn sicrhau y ceir gwerth am arian o wariant cyfalaf.

Arddangosyn 1: cyfanswm y gwariant cyfalaf gan gynghorau Cymru fesul y math o gyllid, 2023-24 (mewn miliynau o bunnoedd a phrisiau Mehefin 2025)



Ffynhonnell: [Data Llywodraeth Cymru](#) a ddadansoddwyd gan Archwilio Cymru

Nodiadau: Mae Archwilio Cymru wedi addasu'r data gwariant er mwyn ystyried effaith chwyddiant. Rhoddir y ffigurau ym mhrisiau mis Mehefin 2025, gan ddefnyddio data [a ddarparwyd gan Drysorlys Ei Fawrhdy](#).

Mae cyfanswm y grantiau yn cynnwys grantiau gan Lywodraethau y DU a Chymru, cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru, grantiau Ewropeaidd, grantiau gan y Loteri Genedlaethol, a grantiau gan ddatblygwyr. Gellir gweld y rhaniad rhwng y ffynonellau hyn wrth y ffynhonnell. Roedd grantiau y llywodraeth yn 91% o gyfanswm y grantiau yn 2023-24.

4 Esboniwn y gwahanol ffynonellau cyllido mewn mwy o gyd-destun yn **Atodiad 2**.

Gall amseru cyllid grant ei gwneud yn anodd i gynghorau gynllunio i sicrhau gwerth am arian dros yr hirdymor

- 14 Mae'r amser sydd gan gynghorau i gynllunio sut i ddefnyddio grantiau cyfalaf wedi lleihau ers y pandemig. Dywedir gwerth eu grantiau cyfalaf anghyfyngedig wrth gynghorau bob blwyddyn yn rhan o setliad y llywodraeth leol. Mae hon yn gyfran gymharol fach o gyfanswm y grantiau cyfalaf. Cyfanswm gwerth grant cyfalaf anghyfyngedig 2023-24 oedd £95 miliwn ym mhrisiau mis Mehefin 2025 – 9% o gyfanswm y cyllid grant. Mae'r setliad hefyd yn cynnwys cyllid refeniw.
- 15 Cyn y pandemig, roedd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r setliad dros dro ym mis Hydref yn nodweddiadol ac yn ei gwblhau ym mis Rhagfyr. Ers 2019, mae'r amserlenni hyn wedi symud i fis Rhagfyr a mis Chwefror neu fis Mawrth, yn y drefn honno.⁵ Mae hyn yn lleihau'r amser sydd gan gynghorau i gynllunio eu gwariant, oherwydd bod yn rhaid iddynt gymeradwyo cyllideb refeniw cytbwys erbyn mis Mawrth bob blwyddyn, i bennu lefelau'r Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. Gall leihau hefyd faint o amser sydd gan gynghorwyr i graffu ar gynlluniau gwariant cyfalaf arfaethedig.
- 16 Gall amseru a chymhlethdod cyllid grant cyfyngedig ar gyfer prosiectau cyfalaf hefyd ei gwneud yn anodd i gynghorau sicrhau gwerth am arian. Yn aml, mae Llywodraeth Cymru yn darparu grantiau ychwanegol neu gynnydd yn swm y grantiau yn agos at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Yn aml, mae angen i gynghorau wario'r grantiau yn ystod y flwyddyn ariannol honno. Yn aml, mae hyn oherwydd bod cronfeydd ar gael oherwydd tanwariant mewn meysydd eraill yn Llywodraeth Cymru.
- 17 Clywsom bryderon tebyg gan gynghorau bod Llywodraeth y DU hefyd yn darparu cyllid ar rybudd cymharol fyr weithiau. Gall hyn olygu cynnydd sylweddol a heb ei gynllunio mewn cyllid i gynghorau, a all arwain at ddull tymor byr neu oportiwnistaidd. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i gynghorau gynllunio i gyflawni buddion hirdymor a chynllunio i integreiddio eu gwariant ar draws adrannau a chyda chyrff cyhoeddus eraill.
- 18 Mae hyn yn golygu bod cynghorau yn llai tebygol o ddefnyddio'r cyllid hwn mewn ffordd sy'n cynyddu'r gwerth am arian gymaint â phosibl dros y tymor hwy, ac mae'n bosibl nad hynny yw'r defnydd gorau o arian cyhoeddus. Nodwn yr hyn y mae gwerth am arian yn ei olygu ym maes cynllunio cyfalaf yn **Arddangosyn 2** isod.

5 Nodwn ragor o fanylion am y broses setlo yn ein hadroddiad cynaliadwyedd ariannol cenedlaethol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2024.

Arddangosyn 2: Gwerth am arian mewn cynllunio cyfalaf

Yr hyn y mae gwerth am arian yn ei olygu mewn cynllunio cyfalaf

Mae gwerth am arian yn ymwneud â p'un a yw arian yn cael ei ddefnyddio i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig am y pris gorau. Fe'i cysylltir yn gyffredin ag egwyddorion darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Rydym wedi crynhoi'r rhain fel:

- darbodaeth – Cael y fargen iawn drwy sicrhau'r mewnbynnau angenrheidiol, er mwyn helpu i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig, am y gost isaf posibl
- effeithlonrwydd – Gwneud pethau'n iawn drwy fanteisio gymaint â phosibl ar y mewnbynnau, er mwyn cynhyrchu allbynnau sydd wedi eu cynllunio i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig
- effeithiolrwydd – Cael y canlyniadau iawn drwy gyflawni'r canlyniadau arfaethedig ar gyfer y tymor byr a'r tymor hwy

Felly, yn ogystal ag ymwneud â chostau yn unig, mae gwerth am arian yn ymwneud ag ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaeth a ddarperir am yr arian a warir. Ar gyfer cynllunio cyfalaf, mae hyn yn golygu bod cynghorau yn sicrhau bod ganddynt yr asedau iawn, yn y lle iawn, yn y cyflwr iawn, ac am y gost iawn.

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

- 19 Ar brosiectau sydd eisoes wedi eu cynllunio y mae effaith allweddol cyllid grant cyfyngedig sydd ar gael ar fyr rybudd. Gall cyllid newydd amharu ar brosiectau cyfredol, oherwydd bod rhaid i swyddogion gydbwyso'r broses o reoli cyflawniad prosiectau presennol â gwneud cais am gyllid newydd a'i wario. Oherwydd bod cyllid yn dod ar gael yng nghanol y flwyddyn yn aml, gall annog pwyslais ar gynllunio tymor byr yn hytrach na chynllunio tymor hwy.

- 20 Hefyd, nid yw dyfarniadau cyllid blynyddol gan Lywodraeth Cymru yn helpu cynghorau i ganolbwyntio ar gynllunio tymor hwy. Dim ond lefel y cyllid cyfalaf anghyfyngedig y bydd ganddynt ar gyfer y flwyddyn ganlynol ym mhob setliad blynyddol y mae cynghorau yn ei gwybod. Mae hyn yn golygu mai dim ond yn y tymor byr y gallant gynllunio gyda sicrwydd. Mae cynghorau yn credu bod hyn yn gwneud cynllunio tymor canolig i hirdymor yn anodd ac yn eu hannog i ganolbwyntio ar y tymor byr. Dywedodd swyddogion wrthym eu bod yn teimlo bod hyn yn cyfyngu ar y gwerth am arian y gall cynghorau ei gael o gynllunio cyfalaf. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym ei bod yn gallu dyfarnu cyllid dros sawl blwyddyn, a'i bod yn gwneud hynny. Ond gwnaethant esbonio bod angen cydbwysu hyn rhwng ymrwymadau ariannu, blaenoriaethau gweinidogol, a lleihau'r baich gweinyddol.
- 21 Fodd bynnag, mae rhai cynghorau wedi gwneud rhagdybiaethau am lefel y cyllid yn y dyfodol i lywio eu cynlluniau cyfalaf. Gall hyn helpu cynghorau i gynllunio sut i wneud y defnydd gorau o wariant cyfalaf dros gyfnod hwy.
- 22 Trwy ddyfarnu cyllid yn hwyr yn y flwyddyn ariannol, mae Llywodraeth Cymru yn peri risg o beidio â chynyddu swm cyffredinol y gwariant cyfalaf yn ystod yr un flwyddyn. Yn nodweddiadol, mae amodau grant yn ei gwneud yn ofynnol i gyngor wario cronfeydd cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae hyn yn golygu bod pwysau sylweddol i gynllunio a gwario'r cronfeydd hynny neu fod perygl o golli'r cyllid. Gall hyn annog cynghorau i ddefnyddio cyllid grant ar brosiectau yr oeddent i fod i'w hariannu mewn ffordd arall. Er enghraifft, drwy fenthycu yn lleol neu gyfraniadau refeniw. Yn yr un modd, gallai cynghorau benderfynu benthyca neu ddefnyddio cyfraniadau cyllideb refeniw yn ystod blwyddyn yn y dyfodol yn lle hynny.
- 23 Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i atal rhywfaint o gyllid lleol rhag cael ei ddisodli gan grantiau cyfalaf cyfyngedig. Ond mae hyn wedi cynyddu'r gwaith y mae angen i gynghorau ei wneud i wneud cais amdano. Mae rhai cynlluniau, megis Menter Benthyca Llywodraeth Leol, yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau ddangos nad ydynt wedi disodli cyllid lleol a sut y bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau ychwanegol. Er bod hyn yn helpu i sicrhau bod y gwariant cyfalaf cyffredinol yn cynyddu, disgrifiodd rhai swyddogion y broses ymgeisio fel un sy'n cymryd llawer o amser.

- 24 Mae rhai o'r materion a nodir uchod yn awgrymu y byddai gweithio'n agosach a dealltwriaeth rhwng llywodraeth leol a llywodraeth genedlaethol yn fuddiol i'r ddwy. Mae ein gwaith maes yn awgrymu bod posibilrwydd o wella dealltwriaeth y naill o safbwyntiau y llall. Er enghraifft, ystyrir bod y dyddiadau cau ar gyfer rhai ceisiadau grant yn afrealistig, yn enwedig mewn rhai cynghorau llai.
- 25 Hefyd, mae dryswch weithiau ynghylch y gwahaniaethau rhwng rheolau cyllido a rheolau cyfrifyddu rhwng llywodraeth leol a llywodraeth genedlaethol. Ni ddeallir y gwahaniaethau hyn yn eang y tu allan i'r timau cyllid priodol. Mae'n bwysig deall safbwyntiau pob sector yn dda er mwyn helpu i sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio i gael y gwerth gorau am arian. Mae hyn yn cynnwys effaith bosibl prosesau cyllido ar waith cynllunio ariannol a'r broses o ddarparu gwasanaethau.

Nid yw cyllid grant cyfyngedig i gynghorau yn cael ei gydlynu ar draws Llywodraeth Cymru

- 26 Mae grantiau yn ffordd y gall Llywodraeth Cymru helpu i weithredu ei hagenda bolisi a chyflawni ei hamcanion llesiant. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn cysylltu ei chyllid â'i blaenoriaethau yn aml. Mater i Lywodraeth Cymru yw gosod ei pholisïau ei hun wrth benderfynu sut mae'n dyrannu cyllid grant. Yna mae'r Senedd yn gyfrifol am gymeradwyo'r modd y dyrennir cyllid ac am ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.
- 27 Mae Llywodraeth Cymru yn dyfarnu grantiau cyfyngedig o wahanol bortffolios gweinidogol. Nid yw'n cydlynu ei datblygiad nac yn dyfarnu grantiau i gynghorau yn ganolog. Rhan noddi Llywodraeth Cymru sy'n dyfarnu pob grant. Gall hyn olygu gwahanol ofynion ymgeisio, o ran achos busnes, a monitro. Nod hyn yw galluogi cynlluniau i gael eu cynllunio'n hyblyg i gyflawni'r nodau polisi perthnasol.
- 28 Hefyd, mae hyn yn golygu weithiau y gellir cyfuno grantiau i gyflawni prosiect sydd â nodau polisi lluosog. Yn aml, mae gan brosiectau cyfalaf gyllidebau sy'n fwy na maint y grantiau unigol, ac felly mae angen i gynghorau gyfuno grantiau i'w cyflawni nhw. Fodd bynnag, gall hyn ei gwneud yn anodd ac yn gymhleth i gynghorau ddefnyddio grantiau. Yn enwedig ar gyfer prosiectau efallai fod angen sawl grant i'w cyflawni, a allai fod â gwahanol amserlenni a phrosesau ymgeisio.

- 29 Mae Llywodraeth y DU wedi gosod dull achos busnes y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ei ddilyn. Gelwir hyn y llyfr gwyrdd. Mae'r llyfr gwyrdd yn nodi sut y dylid gwerthuso prosiectau, gan nodi costau, buddion a chyfaddawdau er mwyn cyflawni amcanion. Mae'n mabwysiadu model 'pum achos' ar gyfer achosion busnes. Esboniodd swyddogion Llywodraeth Cymru mai dyma'r model y dylid ei gymhwyso i bob grant, ac eithrio mewn rhai amgylchiadau, megis atgyweirio yn sgil llifogydd. Er gwaethaf hyn, dywedodd cynghorau wrthym fod prosesau yn amrywio ar gyfer gwahanol grantiau, ac weithiau fod graddfa'r gofynion yn amrywio'n sylweddol ac nad ydynt o reidrwydd yn gymesur â'r cyllid sydd ar gael.
- 30 Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod cyllid grant yn cael ei wario yn unol â nodau polisi a bod gwariant yn cael ei fonitro, gan roi cyfrif amdano yn briodol. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y prosesau hyn yn gymesur er mwyn sicrhau bod y defnydd o gyllid grant cyfalaf yn sicrhau gwerth am arian. Clywsom bryderon gan rai swyddogion cyngor fod cymhlethdod y broses ymgeisio yn gwneud iddynt gwestiynu gwerth ymgeisio am rai grantiau.
- 31 Clywsom bryderon hefyd nad yw'r rhesymeg dros wahanol reolau ymgeisio am grantiau cyfyngedig bob amser yn glir. Er enghraifft, defnyddio cynigion cystadleuol ar gyfer grantiau atal llifogydd yn hytrach na dull ar sail risg. Mae dull presennol Llywodraeth Cymru yn caniatáu hyblygrwydd i gyflawni amcanion polisi. Ond mae perygl o hyd nad yw prosesau ymgeisio yn helpu cynghorau, ac felly Llywodraeth Cymru, i gael y gwerth gorau am arian.
- 32 Nid oes gan gynghorau ddull achos busnes cyson ychwaith. Rhannodd rhai cynghorau eu dulliau â ni, sy'n amrywio o ran dyfnder a chwmpas. Yn gyffredinol, nid yw achosion busnes cynghorau yn dilyn y model 'pum achos' yn glir. Yn aml, mae hyn yn golygu bod prosiectau yn debygol o fod angen achosion busnes lluosog ar gyfer defnydd mewnol ac allanol. Mae'r angen i lunio achosion busnes lluosog yn annhebygol o fod yn ddull effeithlon ac mae'n debygol o leihau'r gwerth am arian a enillir o wario cyfalaf.

- 33 Er bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i safoni rhannau o'i phrosesau grant cyfyngedig, mae ei gofynion achos busnes ar gyfer grantiau yn amrywio. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu dogfennau a phrosesau safonol ar gyfer rhai o'r grantiau y mae'n eu cynnig. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r gwaith hwn wedi canolbwyntio ar grantiau refeniw. Mae hyn yn golygu bod posibilrwydd o ddryswch os yw gwahanol rannau o Lywodraeth Cymru yn defnyddio termau gwahanol i fodloni gofynion y llyfr gwyrdd. Gallai mwy o gysondeb yn y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn dyfarnu grantiau leihau'r risg o ddyblygu a helpu cynghorau i ddatblygu dealltwriaeth glir o'r gofynion ar gyfer cael gafael ar grantiau. Mae'n bosibl y gall hyn wella effeithlonrwydd, ac felly, gwerth am arian.

Weithiau mae cynghorau yn gwneud cais am gyllid grant cyfyngedig i gyflawni prosiectau nad ydynt yn adlewyrchu eu blaenoriaethau lleol

- 34 Yn gyfan gwbl neu'n rhannol, grantiau sy'n ariannu'r rhan fwyaf o'r gwariant cyfalaf a wneir gan gynghorau. Gall hyn olygu bod cynghorau yn cael gafael ar grantiau, hyd yn oed os nad yw'n helpu i gyflawni blaenoriaethau lleol. Dywedodd rhai swyddogion eu bod yn teimlo eu bod yn 'gorfod' gwneud cynnig am grantiau, fel bod eu cyngor yn derbyn cyfran, hyd yn oed pan nad yw o fudd sylweddol i'w hardal. Clywsom enghreifftiau o fuddsoddiad mewn ardaloedd lle'r oedd swyddogion yn canfod nad oedd llawer o fudd lleol.
- 35 Mater polisi i'w benderfynu gan Lywodraeth Cymru yw'r modd y mae cyllid grant cyfalaf yn cael ei ddosbarthu. Fodd bynnag, gall y system bresennol ysgogi dull oportiwnistaidd yn hytrach na strategol o gynnig am grantiau. Mae hyn yn peri risg y bydd cynghorau yn defnyddio cyllid cyfalaf mewn ffyrdd nad yw wedi ei haddasu i'w hardaloedd lleol ac sydd felly yn llai tebygol o ddiwallu anghenion lleol a nodir.
- 36 Rydym wedi cynnwys y canfyddiadau hyn i dynnu sylw at risgiau y bydd cynghorau a Llywodraeth Cymru yn gallu sicrhau gwerth am arian. Nid ydym yn beirniadu cynghorau am gael gafael ar y cyllid sydd ar gael i wneud gwelliannau i'w hardal leol na Llywodraeth Cymru am ddefnyddio grantiau i helpu i gyflawni ei hagenda bolisi. Fodd bynnag, mae hyn yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod goblygiadau posibl gwerth am arian prosesau cyllido grant yn cael eu hystyried.

Cynlluniau cyfalaf cynghorau

- 37 Mae cynghorau ledled Cymru yn cyflawni cannoedd o brosiectau cyfalaf bob blwyddyn. Yn 2023-24, £1.92 biliwn oedd cyfanswm y gwariant gan gynghorau (ar sail prisiau mis Mehefin 2025). Mae hyn yn dangos swm y prosiectau y mae cynghorau wedi eu cyflawni'n llwyddiannus. Mae hefyd yn tynnu sylw at faint o arian cyhoeddus y mae cynghorau yn ei wario a'r angen i gael y gwerth gorau am arian ohono. Mae cynlluniau a strategaethau cyfalaf yn ffordd y gall cynghorau nodi sut maent yn bwriadu cyflawni gwerth am arian o'u gwariant cyfalaf.

Mae cynlluniau cyfalaf cynghorau yn canolbwyntio ar sicrhau eu bod yn dilyn rheolau benthyca yn hytrach na gosod gweledigaeth strategol ar gyfer eu gwariant cyfalaf

- 38 Gall prosiectau cyfalaf gymryd sawl blwyddyn, bod yn gymhleth, ac o faint sylweddol. Mae hyn yn golygu bod cynllunio i wario ar yr adeg iawn, am y rhesymau iawn, ac am y gost iawn yn hanfodol i gyflawni gwerth am arian. Ar hyn o bryd, nid yw cynghorau bob amser yn dangos sut maent yn meddwl am hyn yn eu cynlluniau cyfalaf.
- 39 Nid yw cynlluniau cyfalaf cynghorau yn cynnwys dealltwriaeth fanwl o'u sefyllfa strategol. Yn hytrach, mae cynlluniau'n canolbwyntio'n bennaf ar alluogi cynghorau i fenthyg arian i gyllido gweithgareddau. Mae cynghorau yn defnyddio eu cynlluniau cyfalaf neu eu strategaethau i ddangos sut maent yn cydymffurfio â'r Cod Materion Ariannol (y Cod). Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau gydymffurfio â'r cod i allu benthyca arian.⁶ Er enghraifft, mae'n gofyn i gynghorau feddwl yn yr hirdymor wrth wneud penderfyniadau a chanolbwyntio ar gyflawni amcanion y mae'r cyngor wedi eu gosod iddo ei hun.
- 40 Tymor byr eu natur yw cynlluniau cyfalaf fel arfer. Yn nodweddiadol, mae cynghorau yn cyhoeddi eu cynlluniau cyfalaf yn flynyddol yn rhan o'r broses o osod cyllideb. Fel arfer, maent hefyd yn cyhoeddi eu rhestr o brosiectau ar gyfer y flwyddyn ganlynol ar yr un pryd. Mae hyn yn golygu bod gan gynlluniau bwyslais cymharol byrdymor ac yna maent yn cael eu hadolygu bob blwyddyn. Gall cynllunio ar gyfer y tymor hwy ddangos sut mae'r Cod wedi ei gymhwyso yn ogystal â helpu cynghorau i sicrhau eu bod yn cydbwyso ffactorau tymor byr a hirdymor i gyflawni gwerth am arian.

- 41 Mae gan bob cyngor strategaeth gyfalaf. Fodd bynnag, er bod rhai yn cynnwys gweledigaeth strategol, roedd y mwyafrif yn canolbwyntio ar y cynnwys lleiaf sy'n ofynnol gan y Cod. Mae hyn yn golygu y gallai'r mwyafrif o'r cynghorau fod yn colli cyfle i osod cyfeiriad strategol clir ar gyfer eu buddsoddiadau cyfalaf. Gall cyfeiriad strategol helpu'r cyngor i ddatblygu prosiectau sy'n cyfrannu at amcanion a nodau a rennir.

Nid yw cynghorau yn dangos yn glir sut mae eu cynlluniau cyfalaf yn cefnogi'r broses o gyflawni eu hamcanion llesiant

- 42 Nid yw'n glir sut mae cynghorau yn sicrhau bod eu cynlluniau cyfalaf yn eu helpu i gyflawni eu hamcanion llesiant. Rhaid i bob cyngor osod amcanion llesiant yn ôl y gyfraith. Mae amcanion llesiant yn darparu cyfeiriad strategol ar gyfer blaenoriaethau lleol, yn ogystal â dangos sut mae cynghorau yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol. Nid yw cynghorau yn nodi sut y bydd eu cynlluniau cyfalaf yn eu helpu i gyflawni'r amcanion hyn. Mae'r mwyafrif o'r cynlluniau yn sôn am amcanion llesiant a bod y cynlluniau yn cefnogi'r broses o'u cyflawni, ond mae diffyg manylion i ddangos sut y byddant yn gwneud hyn. Gallai hyn gynyddu'r risg y bydd cynghorau yn cymeradwyo prosiectau nad ydynt yn eu helpu i gyflawni eu hamcanion, neu, ar y gwaethaf, yn rhwystro eu cynnydd.
- 43 Cwestiynodd rhai cynghorau a oedd angen cysylltu cynlluniau cyfalaf yn fanwl ag amcanion llesiant. Yn eu barn nhw, roedd eu cynllun corfforaethol yn darparu cyfeiriad strategol ac felly nid oedd angen cynnwys y manylion hyn mewn cynlluniau cyfalaf. Fodd bynnag, heb ddangos sut maent yn bwriadu i wariant cyfalaf gefnogi eu hamcanion corfforaethol ehangach, mae'n anodd iddynt wybod a ydynt yn cyflawni gwerth am arian.
- 44 Nid yw cynghorau yn dangos yn glir bob amser sut mae prosiectau cyfalaf unigol yn cefnogi'r broses o gyflawni eu hamcanion llesiant. Mae rhai cynghorau yn nodi sut mae prosiectau cyfalaf yn cefnogi amcanion strategol, ond yn gyffredinol, nid ydynt yn esbonio'n fanwl sut y byddant yn gwneud hyn. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i gynghorau wybod a yw/sut mae prosiectau cyfalaf unigol yn eu cefnogi i gyflawni eu hamcanion llesiant, a chan hynny, yn sicrhau gwerth am arian. Mae hyn hefyd yn lleihau'r cyfle i gynghorwyr graffu ar y rhesymeg dros brosiectau.

- 45 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn dangos yn glir sut mae prosiectau cyfalaf unigol yn cysylltu â'i amcanion strategol. Mae'r Cyngor yn cyhoeddi achos busnes ar gyfer pob prosiect arfaethedig yn ei gynllun cyfalaf blynyddol (**Arddangosyn 3**). Mae'r achosion busnes yn cael eu cyhoeddi a'u hadrodd i gynghorwyr hefyd fel y gallant graffu arnynt. Mae hyn yn helpu cynghorwyr i graffu ar effaith arfaethedig gwariant cyfalaf.

Arddangosyn 3: enghraifft o ymarfer diddorol

Achosion busnes cyfalaf Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Ar gyfer pob prosiect arfaethedig, mae Cyngor Conwy yn cwblhau profforma achos busnes sy'n cynnwys:

- disgrifiad o'r prosiect a sut mae'n cefnogi gwasanaethau;
- y pum prif ganlyniad a fwriedir o'r cynnig;
- sut mae'r cynnig yn cysylltu â chanlyniadau ei gynllun corfforaethol;
- dewisiadau eraill a ystyriwyd yn lle'r cynnig;
- effaith y cynnig ar risgiau corfforaethol a newid hinsawdd;
- sut mae'r cynnig yn dangos y pum ffordd o weithio a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
- goblygiadau cyflawni'r cynnig; a
- gwybodaeth ariannol allweddol megis costau cyfalaf ymlaen llaw a chostau refeniw parhaus.

Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Nid yw cynghorau yn esbonio'n glir eu nodau cynllunio cyfalaf

- 46 Nid yw cynlluniau cyfalaf cynghorau yn nodi'n glir y nodau a'r amcanion y mae cynghorau yn ceisio eu cyflawni o'u gwariant cyfalaf. Er bod swyddogion a chynghorwyr yn gallu disgrifio'n gliriach yr hyn a welsant fel uchelgais cynllunio cyfalaf eu cyngor yn ystod cyfweiliadau. Mae cynlluniau cynghorau ar gyfer cynllunio cyfalaf yn amrywio'n sylweddol. Mae rhai cynghorau yn canolbwyntio'n bennaf ar gynnal a chadw yn unig, oherwydd diffyg cronfeydd, ac mae eraill yn disgrifio pwyslais yn bennaf ar ddatblygu asedau newydd yn unig. Disgrifiodd ychydig eraill eu huchelgais o wneud y ddau ar raddfa sylweddol.
- 47 Mae amrywiaeth o fanteision sydd hefyd yn deillio o osod nodau ac amcanion clir. Maent yn cynnwys:
- cysoni cynlluniau cyfalaf â chynlluniau a strategaethau eraill sydd gan gynghorau a'u partneriaid ar waith. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, strategaethau digidol neu gynllunio'r gweithlu.
 - cysoni cynlluniau cyfalaf ag unrhyw dargedau ariannol ar gyfer cynhyrchu derbyniadau cyfalaf neu ddangosyddion ariannol eraill.
 - gosod cyfeiriad clir i swyddogion a chynghorwyr ynghylch yr hyn y mae'r cyngor yn ceisio ei gyflawni. Mae hyn yn helpu i ddarparu fframwaith i swyddogion ddatblygu cynigion ac i gynghorwyr graffu ar gynigion a gwneud penderfyniadau.
 - helpu i fod yn glir ynghylch pam mae prosiectau unigol wedi eu cynnwys yn y cynllun cyfalaf a sut maent yn cefnogi'r nodau a'r amcanion cyffredinol.
- 48 Mae tensiwn posibl i gynghorwyr sy'n gwneud penderfyniadau ar gynlluniau cyfalaf wrth gydbwyso anghenion eu hardal leol ac ardal y cyngor. Rydym yn cydnabod y bydd tensiynau a blaenoriaethau sy'n cystadlu mewn cysylltiad â chyllid cyfalaf bob amser, yn enwedig yn ystod cyfnod o gyfyngiadau ariannol sylweddol. Rydym hefyd yn cydnabod mai mater i gynghorwyr yw penderfyniadau ar sut i ddyrannu cyllidebau mewn cynghorau. Fodd bynnag, mae blaenoriaethau sy'n cystadlu yn atgyfnerthu'r angen i gynghorau osod canlyniadau arfaethedig clir ar gyfer eu cynlluniau cyfalaf, er mwyn helpu i sicrhau bod gwariant yn canolbwyntio ar sicrhau'r gwerth gorau am arian dros ardal y cyngor yn ei chyfanrwydd.

Nid yw cynghorau yn nodi'n glir sut y byddant yn cyflawni gwerth am arian yn eu cynlluniau

- 49 Mae'r Cod Materion Ariannol yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau ystyried gwerth am arian wrth gynllunio yr hyn y byddant yn ei fenthycu. Er bod rhai cynlluniau yn cyfeirio at yr angen i sicrhau gwerth am arian, mae pob cynllun bron yn methu â nodi sut mae cynghorau yn bwriadu ei gyflawni. Mae hyn yn cynyddu'r risg y bydd cynghorau naill ai'n methu â sicrhau gwerth am arian, neu'n gwybod a ydynt yn sicrhau gwerth am arian, wrth i'r cynlluniau gael eu cyflawni.
- 50 Mae Cyngor Bro Morgannwg yn cynnwys adran yn ei strategaeth gyfalaf sy'n nodi sut y bydd yn cyflawni gwerth am arian. Mae'n nodi'r trefniadau y bydd yn eu defnyddio i wneud hyn, megis ei strategaeth gaffael a'i fethodoleg rheoli prosiectau. Gallai bod yn glir ynghylch y trefniadau sydd eu hangen helpu i leihau'r risg na fydd y cyngor yn sicrhau gwerth am arian.

Y sylfaen dystiolaeth ar gyfer cynlluniau cyfalaf

- 51 Mae penderfyniadau gwybodus ar wariant cyfalaf yn allweddol i helpu cynghorau i gyflawni gwerth am arian. Gall hyn gynnwys ystyried amrywiaeth o ffactorau, megis cyflwr asedau cyfredol, cyfrifoldebau statudol, technoleg newydd neu dueddiadau demograffig a disgwyliadau'r cyhoedd. Mae'n anodd cydbwyso'r holl ffactorau hyn, ac mae llawer o dueddiadau yn y dyfodol nad ydynt yn rhwydd eu rhagweld. Fodd bynnag, gall ystyried y ffactorau hyn helpu cynghorau i gynllunio ar gyfer y tymor hwy a sicrhau bod gwariant cyfalaf yn canolbwyntio ar angen.

Yn gyffredinol, nid oes gan gynghorau ddealltwriaeth gynhwysfawr o gyflwr eu holl asedau

- 52 Mae deall cyflwr asedau yn ffynhonnell allweddol o dystiolaeth ar gyfer llywio cynlluniau cyfalaf. Dylai ddylanwadu ar benderfyniadau ar ba asedau i'w cynnal, eu hatgyweirio, eu disodli a'u gwaredu. Mae Archwilio Cymru a'i ragflaenwyr wedi tynnu sylw at hyn yn y gorffennol.⁷ Ym 1988, argymhellodd y Comisiwn Archwilio fod cynghorau yn mesur cyflwr eu hasedau er mwyn cynllunio i'w cynnal a'u cadw. Ailadroddodd y canfyddiadau hyn yn 2000.⁸ Dadleuodd hefyd dros yr angen i gynghorau wybod y gwerth am arian yr oedd eiddo y cyngor yn ei gyflawni. Yn yr un modd, rydym hefyd wedi adrodd yn ddiweddar fod angen i gynghorau wybod beth yw cyflwr eu hasedau fel y gallant gynllunio i gael y gwerth mwyaf am arian ohonynt dros yr hirdymor.⁹
- 53 Mae lefel y pryder am gyflwr asedau yn amrywio fesul cyngor. Clywsom rai pryderon ynghylch asedau allweddol yn heneiddio yn gyffredinol. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n eiddo i gynghorau yn ogystal â'r rhai y maent yn dibynnu arnynt sy'n eiddo i drydydd partïon. Roedd y pryderon yn canolbwyntio ar y risg nad yw graddfa'r mater wedi ei hasesu'n llawn, er mwyn galluogi asedau i gael eu cynnal neu eu disodli. Mae Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol y DU (UKNIC) yn nodi bod asedau allweddol yn fwyfwy agored i risgiau o ganlyniad i oedran a newid hinsawdd.¹⁰ Galwodd am gynnal asedau yn well ac adnewyddu asedau, yn ogystal â gwneud penderfyniadau tymor hwy.
- 54 Er gwaethaf y pryderon hyn, nid yw cynghorau wedi cwblhau arolygon o gyflwr yr asedau ar gyfer y mwyafrif o'u hasedau. Er bod llawer o gynghorau wedi dweud y byddant yn cwblhau arolygon, nid ydynt wedi gwneud hynny eto, neu byddant yn gwneud hynny yn rhan o gynllun amlflwyddyn. Yn hytrach, mae cynghorau yn dibynnu'n gyffredinol ar farn eu swyddogion ystadau i gael gwybod am gyflwr eu hasedau er mwyn llywio cynlluniau cynnal a chadw. Mae hyn yn peri risgiau, gan gynnwys y ddibyniaeth sylweddol ar wybodaeth a phrofiad unigolion allweddol. Mae hefyd yn golygu efallai na fydd gwybodaeth am gyflwr asedau yn gynhwysfawr neu'n gyson. Mae'r diffyg gwybodaeth gynhwysfawr am gyflyrau asedau yn golygu nad yw cynlluniau cyfalaf yn cael eu llywio'n dda yn gyffredinol.

7 Gwnaeth y Comisiwn Archwilio archwilio cynghorau a rhai cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru cyn datganoli.

8 Y Comisiwn Archwilio, Hot Property, Ebrill 2000

9 Archwilio Cymru, Llamu Ymlaen, Medi 2023

10 UKNIC, Second National Infrastructure Assessment, Hydref 2023

- 55 Yn gyffredinol, mae gan gynghorau well dealltwriaeth o gyflwr eu hysgolion a'u ffyrdd nag asedau eraill. Oherwydd cefnogaeth Llywodraeth Cymru y mae hyn. Ariannodd Llywodraeth Cymru arolygon i roi darlun cyson o gyflwr adeiladau ysgol. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl i gymharu cyflyrau ac amcangyfrifon o gostau. Dilynwyd dull tebyg gyda rhai ffyrdd hefyd. Ar y cyfan, mae hyn yn golygu bod cynlluniau cynnal a chadw ar gyfer ffyrdd ac ysgolion wedi eu llywio'n well na meysydd gwasanaeth eraill.
- 56 Mae llawer o gynghorau yn bwriadu cynnal arolygon o gyflwr asedau. Mae arolygon yn weithred gyffredin wrth reoli asedau a chynlluniau cyfalaf. Mae rhai cynghorau eisoes wedi dechrau'r broses hon ac yn ei defnyddio i arwain prosiectau yn y dyfodol (**Arddangosyn 4**). Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos y gall gwybodaeth am gyflwr asedau helpu hefyd i lywio newid mewn gwasanaethau neu brosiectau trawsnewid.

Arddangosyn 4: enghraifft o ymarfer diddorol

Cyngor Sir Powys

Mae'r Cyngor wedi dechrau rhaglen arolwg treigl o'i asedau. Bydd yr arolygon yn rhannu canfyddiadau â'u prosiect trawsnewid. Mae hyn yn golygu y bydd gwybodaeth am gyfalaf yn cael ei defnyddio gyda ffactorau cyflawni a gwybodaeth ariannol i wneud penderfyniadau.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Mae'r Cyngor wedi arolygu ei gartrefi gofal mewnol. Mae wedi defnyddio hyn i adolygu eu cyflwr a'u potensial i newid. Mae hyn wedi llywio ei benderfyniadau am ddyfodol ei ddarpariaeth gofal cymdeithasol.

Ffynhonnell: Cyngor Sir Powys a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

- 57 Mae gwybodaeth am gyflwr asedau hefyd yn helpu cynghorau i sicrhau bod eu cyfrifon ariannol yn gywir. Mae'n ofynnol i gynghorau sicrhau bod gwerth yr asedau a gofnodir yn eu cyfrifon yn berthnasol gywir. Mae hyn yn golygu gwybod pa effaith y gall unrhyw ddifrod neu newid defnydd ei gael ar eu gwerth. Er enghraifft, pan fo angen ailosod to ysgol, gallai hyn olygu bod angen amharu ar werth adeilad yr ysgol. Mae cynnal dealltwriaeth dda o gyflwr asedau yn helpu cynghorau i sicrhau bod gwerth teg asedau yn cael ei gofnodi.

Nid yw cynlluniau cyfalaf yn nodi'n glir effeithiau polisïau cenedlaethol a sut mae hyn wedi eu siapio

- 58 Gall amcanion a pholisïau cenedlaethol gael dylanwadau amrywiol ar gynlluniau cyfalaf lleol. Mae'n amlwg o'n cyfweiliadau bod swyddogion yn gwybod am y dylanwad y gall polisïau cenedlaethol ei gael ar gynlluniau cyfalaf. Mae hyn yn cynnwys:
- newidiadau i Safonau Ansawdd Tai Cymru ar gyfer cynghorau sydd â thai cyngor;
 - y gofyniad i ddarparwyr gofal cymdeithasol plant fod yn rhai nid-er-elw a allai ofyn am newidiadau yn y ddarpariaeth fewnol;
 - y targed o gyflawni sector cyhoeddus sero net mewn allyriadau carbon erbyn 2030 a allai ofyn am newidiadau i'r fflyd neu'r adeiladau; a
 - newidiadau i dargedau ailgylchu a allai ofyn am newidiadau i offer a chyfleusterau.
- 59 Er eu bod yn amlwg yn ymwybodol o'r dylanwadau hyn, ychydig o gynghorau sy'n gallu dangos sut maent wedi eu hystyried yn eu cynlluniau cyfalaf. Mae hyn yn golygu nad yw'n glir sut mae cynghorau wedi ffactorio'r materion hyn wrth gynllunio nac unrhyw densiynau a allai fodoli gyda blaenoriaethau lleol.
- 60 Fodd bynnag, tynnodd rhai cynghorau sylw at rai dylanwadau allweddol ar eu strategaeth. Er enghraifft, mae Cyngor Sir Penfro wedi cynnwys adran cyd-destun strategol sy'n cynnwys nodau cynllun corfforaethol lleol, newid hinsawdd, a digartrefedd.

Mae cyfle i gynghorau weithio'n agosach gyda phartneriaid wrth iddynt gynllunio eu gwariant cyfalaf

- 61 Nid yw cynghorau yn nodi yn eu cynlluniau cyfalaf sut maent yn gydnaws ag amcanion sefydliadau eraill, nag â'r saith nod llesiant cenedlaethol. Mae hyn yn peri risg y bydd cynghorau yn dyblygu neu'n colli cyfleoedd i sicrhau buddion lluosog, a chan hynny, yn methu â sicrhau gwerth am arian.
- 62 Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i gynghorau gymryd rhan mewn partneriaethau megis Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Byrddau Cynllunio Rhanbarthol, a Chyd-bwyllgorau Corfforedig. Weithiau, mae partneriaid cynghorau yn cwmpasu ardaloedd daearyddol sy'n ehangach na'u hardaloedd eu hunain, megis y gwasanaethau brys neu awdurdodau parciau cenedlaethol.
- 63 Gwelsom ychydig o enghreifftiau o gynghorau yn cynllunio gwariant cyfalaf gyda phartneriaid y tu allan i Fyrddau Cynllunio Rhanbarthol. Mewn rhai ardaloedd, clywsom fod Byrddau Cynllunio Rhanbarthol yn cael eu gweld yn sbarduno buddsoddiad cydweithredol mewn gofal cymdeithasol rhwng cynghorau a byrddau iechyd. Rhaid i Fyrddau Cynllunio Rhanbarthol anfon cynlluniau cyfalaf 10 mlynedd i Lywodraeth Cymru, sydd wedyn yn darparu cyllid iddynt yn uniongyrchol. Roedd swyddogion yn gadarnhaol am fanteision y dull hwn mewn rhai ardaloedd, er mai ar gamau cychwynnol y prosiectau yr ydoedd. Mewn meysydd eraill, nid ystyriwyd bod Byrddau Cynllunio Rhanbarthol yn cael yr un effaith oherwydd bod partneriaid yn canolbwyntio ar gyflawni eu cynlluniau eu hunain.
- 64 Gallai cydweithredu â phartneriaid i gynllunio gwariant cyfalaf ddarparu cyfleoedd i wella gwerth am arian, drwy, er enghraifft, rannu arbenigedd, buddsoddiadau ar y cyd, rhannu adeiladau, neu brynu offer gyda'i gilydd.
- 65 Yn ystod cyfweiliadau, nododd swyddogion a chynghorwyr nifer o rwystrau i gydweithredu â phartneriaid. Roedd y rhain yn cynnwys:
- partneriaid sydd â nodau ac amcanion gwahanol;
 - heriau rhannu costau a'r defnydd o asedau rhwng partneriaid;
 - penderfynu pwy sy'n berchen ar ased;
 - gwahanol reolau ac amseroedd ar gyfer cyllid rhwng sectorau;
 - yr amser y mae'n ei gymryd i gyfranogi o amrywiaeth gymhleth o bartneriaethau y mae cynghorau yn rhan ohonynt; a
 - chyrff cyhoeddus sy'n cwmpasu gwahanol ardaloedd daearyddol.

- 66 Rydym yn cydnabod bod ffactorau yn aml sy'n gwneud cynllunio gwariant cyfalaf gyda phartneriaid yn anodd. Fodd bynnag, drwy archwilio a gwerthuso cyfleoedd i gydweithredu, gallai cynghorau nodi cyfleoedd i wella gwerth am arian. Mae gweithio mewn partneriaeth hefyd yn thema yr ydym wedi ei hamlygu mewn gwaith arall yn ddiweddar, fel maes y gallai cyrff cyhoeddus ei gryfhau i wella gwasanaethau a gwerth am arian.¹¹
- 67 Roedd yr holl gynghorau y gwnaethom gyfarfod â nhw yn gallu rhoi enghreifftiau o brosiectau cyfalaf unigol y maent yn eu cyflawni mewn partneriaeth. Roedd hyn yn cynnwys cydbrynu offer TGCh ar gyfer ysgolion a cheir trydan, er mwyn cyflawni arbedion o ran maint. Disgrifiodd rhai cynghorau hefyd sut maent yn cydleoli gwasanaethau mewn un adeilad gyda phartneriaid. Gallai hyn helpu cynghorau i gyflawni amcanion lluosog, megis buddsoddi mewn canol trefi, rhyddhau asedau dros ben i'w gwerthu, a/neu wneud gwasanaethau yn fwy hygyrch i drigolion.

Nid yw cynlluniau cyfalaf yn glir ynghylch sut y byddant yn helpu i leihau risgiau cyfalaf cynghorau

- 68 Mae'r mwyafrif o'r cynghorau yn cynnwys rhai risgiau cyfalaf ar eu cofrestrau risg corfforaethol, ond yn aml nid yw'n glir sut maent yn llywio cynlluniau cyfalaf. O'r 20 o gofrestrau y gwnaethom edrych arnynt, roedd bron pob un ohonynt yn cynnwys risg a oedd yn gysylltiedig â gwariant cyfalaf.¹² Canfuom gyfanswm o 81 o risgiau sy'n gysylltiedig â chyfalaf. Roedd math a natur y risgiau yn amrywio fesul cyngor. Roedd rhai risgiau yn fwy penodol, megis effaith newid hinsawdd ar asedau neu'r capasiti adeiladu. Roedd hanner y cofrestrau yn cynnwys risg a oedd yn canolbwyntio ar gyflawni prosiectau cyfalaf neu'r risg o beidio â chyflawni'r canlyniadau arfaethedig.
- 69 Canfuom ychydig o enghreifftiau o gynghorau yn dangos yn glir sut oedd eu hasesiadau risg yn llywio gwariant ar adeiladau neu offer. Er enghraifft, canfuom fod 9% o'r risgiau cyfalaf yn gysylltiedig â chyflwr. Fodd bynnag, nid yw cynghorau yn dangos yn glir sut maent yn cynnwys cyflwr asedau yn eu cynlluniau cyfalaf (**paragraff 52**). Mae hyn yn golygu nad yw'r cysylltiad rhwng risg a gwariant bob amser yn glir.

11 Er enghraifft, mae'n thema yn ein crynodeb diweddar o ganfyddiadau ein gwaith ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) – Archwilio Cymru, Dim amser i'w golli, ym mis Ebrill 2025.

12 Roedd dwy gofrestr nad oedd ar gael i'r cyhoedd ac felly nid oeddent yn rhan o'n dadansoddiad.

- 70 Roedd hyn hefyd yn wir am risgiau ariannol. Roedd 15% o'r risgiau cyfalaf yn canolbwyntio ar y risg na fyddai cynghorau yn gallu ariannu eu cynlluniau cyfalaf. Mae hyn yn cysylltu â barn bron pob swyddog a chynghorydd mai arian oedd y prif derfyn ar gynlluniau cyfalaf. Mae hyn yn golygu nad yw cynghorau yn deall graddfa eu heriau cyllido eto na goblygiadau peidio â mynd i'r afael â nhw.

Nid yw cynghorau yn asesu'n glir gydraddoldeb ac effaith economaidd-gymdeithasol eu cynlluniau cyfalaf

- 71 Dim ond dau gyngor sydd wedi asesu cydraddoldeb ac effeithiau economaidd-gymdeithasol eu cynlluniau cyfalaf. Mae rhai cynghorau yn asesu effaith prosiectau unigol, er bod hyn yn amrywio yn ôl maint ac arwyddocâd y prosiectau hynny. Roedd rhai cynghorau hefyd yn teimlo nad oedd hyn yn angenrheidiol os oedd y prosiectau yn cefnogi'r broses o gyflawni eu hamcanion llesiant. O ganlyniad, nid yw bob amser yn glir sut mae cynghorau yn sicrhau eu hunain bod eu cynlluniau yn eu helpu i gyflawni eu dyletswyddau statudol ac i ddiwallu anghenion cymunedau lleol.

Mae diffyg capasiti swyddogion yn cyfyngu ar allu rhai cynghorau i ddatblygu eu cynlluniau cyfalaf

- 72 Er bod hyn yn amrywio ar draws cynghorau, clywsom rai pryderon cyffredin ynghylch diffyg capasiti swyddogion, gan gynnwys:
- diffyg amser a chapasiti i swyddogion gynllunio oherwydd gofynion darparu gwasanaethau o ddydd i ddydd;
 - diffyg sgiliau arbenigol mewn cynghorau;
 - heriau wrth recriwtio a chadw swyddogion;
 - gostyngiad mewn rhai swyddogion dylunio neu dechnegol mewn cynghorau; a
 - chontractwyr nad ydynt ar gael i gwblhau gwaith pan fo angen ei wneud ar gynghorau.
- 73 Mae'r mwyafrif o'r cynghorau y buom yn siarad â nhw wedi cydnabod bod ganddynt fylchau sgiliau mewn rhai meysydd arbenigol. Mae rhai cynghorau wedi defnyddio ymgynghorwyr i fynd i'r afael â hyn, ond gall comisiynu ymgynghorwyr arwain at gostau uwch weithiau. Gall yr amser a gymerir i gomisiynu ymgynghorwyr arwain at oediadau wrth gyflawni prosiectau hefyd.
- 74 Mae oedi ac anawsterau wrth gyflenwi contractwyr hefyd yn cyfyngu ar ba mor gyflym y gall cynghorau gyflawni eu cynlluniau cyfalaf. Cododd pob cyngor y buom yn siarad â nhw bryder am hyn. Mae hyn yn adlewyrchu canfyddiadau UKNIC. Adroddodd fod diffyg buddsoddiad hirdymor mewn adeiladu gan y sector cyhoeddus wedi cyfrannu at ddiffyg capasiti. Canfu UKNIC hefyd fod y modd y mae'r sector adeiladu yn cael ei rannu, megis drwy waith isgontractio, wedi gwneud y mater capasiti yn waeth ac arwain at gostau uwch. Felly, mae'n bwysig bod cynghorau yn ystyried sut i oresgyn yr heriau hyn wrth ddatblygu eu cynlluniau cyfalaf.
- 75 Nid yw cynlluniau cyfalaf cynghorau wedi nodi'n glir yn eu cynlluniau cyfalaf sut y byddant yn ymateb i'r holl gyfyngiadau posibl hyn ar gapasiti. Mae llawer o gynlluniau cyfalaf yn cynnwys adran sgiliau a phobl. Fodd bynnag, mae'r adrannau hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar y sgiliau ariannol sydd eu hangen i fenthyg arian. Yn gyffredinol, nid ydynt yn canolbwyntio ar gapasiti swyddogion, a'r sgiliau technegol sydd eu hangen i gyflawni cynlluniau a phrosiectau cyfalaf. Trwy ystyried cyfyngiadau capasiti posibl a sut y gellid eu goresgyn wrth ddatblygu cynlluniau, gallai cynghorau leihau'r risg na fydd cynlluniau yn cael eu cyflawni.

- 76 Mae rhannu arbenigedd arbenigol ar draws cynghorau yn un dewis posibl ar gyfer gwella capasiti. Ychydig o dystiolaeth a ganfuom o gynghorau yn ystyried hyn yn rhan o'u dull cynllunio cyfalaf. Mae hyn yn awgrymu efallai fod cyfle i gynghorau archwilio hyn ymhellach er mwyn cael gwell gwerth am arian a mynd i'r afael â'u diffyg capasiti arbenigol.


Ariannu gwariant cyfalaf

Mae lefel y gwariant cyfalaf a wneir gan gynghorau wedi aros yr un fath yn fras dros y degawdau diwethaf, er gwaethaf cynnydd mewn gwariant refeniw

- 77 Mae cyflwr bron pob ased yn dirywio dros amser. Mae pob cyngor wedi etifeddu cymysgedd o asedau a adeiladwyd neu a brynwyd gan eu rhagflaenwyr cyn 1996.¹³ Mae cynghorau hefyd wedi wynebu lefelau uwch o alw am wasanaethau mewn rhai gwasanaethau allweddol, gan gynnwys, er enghraifft, gofal cymdeithasol a thai. Gall yr angen i ddisodli asedau presennol a galw cynyddol am wasanaethau arwain at fwy o alw am wariant cyfalaf.
- 78 Fodd bynnag, ers 2001-02 mae'r lefelau gwariant cyfalaf wedi bod yn sefydlog i raddau helaeth, yn enwedig o'u cymharu â gwariant refeniw gan gynghorau (**Arddangosyn 5**).

13 Crëwyd y cynghorau unedol presennol ym 1996 a ddisodlodd yr hen gynghorau sir a dosbarth.

Arddangosyn 5: refeniw net a gwariant all dro cyfalaf gan gynghorau, 2001-02 i 2023-24 (mewn biliynau o bunnoedd ym mhrisiau mis Mehefin 2025)




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth Cymru ([cyllid](#) a [chryfalaf](#))

Nodiadau: Mae data cyfalaf 2015-16 wedi eu chwyddo oherwydd y broses lle talodd 11 cyngor a oedd yn berchen ar dai cyngor Lywodraeth y DU i adael y system cymhorthdal tai. Roedd Llywodraeth y DU wedi defnyddio'r system gymhorthdal i sicrhau bod rhenti yn cwmpasu costau heb wneud unrhyw ddiffyg na gwarged. Benthycodd yr 11 cyngor arian i dalu cyfandaliad Lywodraeth y DU i gwmpasu'r gost o golli gwargedau yn y dyfodol. Ar brisiau mis Mehefin 2025, £1.2 biliwn yw gwerth hyn mewn termau real.

Mae Archwilio Cymru wedi addasu'r data gwariant er mwyn ystyried effaith chwyddiant. Rhoddir y ffigurau ym mhrisiau mis Mehefin 2025, gan ddefnyddio data [a ddarparwyd gan Drysorlys Ei Fawrhdy](#).

- 79 Trwy osgoi neu oedi gwariant cyfalaf, gall cynghorau wynebu costau sylweddol uwch (neu is o bosibl) yn y dyfodol. Fel y dengys **Arddangosyn 6**, mae costau cynnal a chadw ac adeiladu adeiladau newydd wedi cynyddu'n sylweddol dros amser – yn enwedig ers pandemig COVID-19. Mae hyn yn golygu y gallai oedi prosiect yn y tymor byr leihau gwerth am arian yn yr hirdymor. Rydym yn cydnabod bod yn anodd rhagweld tueddiadau y dyfodol, a bod y pandemig a'i effaith yn ddigynsail yn yr oes fodern. Fodd bynnag, mae hyn yn dangos pwysigrwydd edrych yn yr hirdymor i gyflawni gwerth am arian drwy gynllunio cyfalaf.

Arddangosyn 6: mynegai costau cynnal a chadw ac adeiladu adeiladau newydd, chwarter pedwar 1996 i chwarter pedwar 2024




Ffynhonnell: [Llywodraeth y DU](#) (hyd at 2014) a'r [Swyddfa Ystadegau Gwladol](#) (2014 ymlaen)

Nodiadau: Mae'r costau yn cael eu mynegeoio ac mae chwarter un 2005 yn cyfateb i 100 yn ôl ffynhonnell y data. Dim ond data chwarter pedwar y mae'r siart hwn yn eu cynnwys i ddangos y duedd.

- 80 Gall buddsoddi mewn prosiectau cyfalaf, er bod hynny' n golygu costau cychwynnol ymlaen llaw yn aml, helpu i leihau costau dros y tymor hwy. Er enghraifft, mae adeilad newydd yn debygol o fod angen llai o waith cynnal a chadw, bod yn rhatach i'w wresogi a bod ag ôl troed carbon llai. Gall cynghorau fenthycu arian i gynyddu eu cyllid, ond wrth wneud hynny, mae'n rhaid iddynt gydbwyso cost prosiect (yn awr ac yn yr hirdymor) o'i chymharu â'r angen am y gwariant a'r costau dros amser sy'n deillio o beidio â gwneud cynnydd â phrosiect. Mae'n allweddol cael y cydbwysedd anodd hwn yn iawn i gyflawni gwerth am arian.
- 81 Nid yw cynghorau wedi cynyddu eu lefel fenthycu yn sylweddol dros amser er mwyn cefnogi eu rhaglenni cyfalaf. Dengys **Arddangosyn 7** fod gwerth termau real benthyca wedi bod yn gyson yn gyffredinol ac nad yw wedi goddiweddyd yr un lefel a fenthycwyd ym 1996-97. Mae hyn yn golygu yn ymarferol bod y swm y mae cynghorau yn ei wario ar brosiectau cyfalaf yn cael ei siapio gan swm y grantiau sydd ar gael yn hytrach na'r swm sy'n cael ei fenthycu.
- 82 Mae hyn yn awgrymu, ar y cyfan, fod cynghorau wedi penderfynu peidio â chynyddu'r swm sy'n cael ei fenthycu i ariannu prosiectau cyfalaf. Mae hyn yn ddealladwy, yn enwedig mewn cyfnod lle bu pwysau parhaus ar gyllid cyhoeddus. Fodd bynnag, gall hyn olygu hefyd y gallai costau cynnal a chadw a chostau eraill gynyddu dros y tymor hwy. Yn ei dro, gallai hyn roi pwysau ychwanegol ar gyllidebau refeniw sydd eisoes dan bwysau.

Arddangosyn 7: newidiadau mewn termau real yn y ffynonellau cyllid cyfalaf a ddefnyddir gan gynghorau, 1996-97 i 2023-24 (mewn miliynau o bunnoedd ym mhrisiau mis Mehefin 2025)



Ffynhonnell: [Data Llywodraeth Cymru](#) a ddadansoddwyd gan Archwilio Cymru

Nodiadau: Mae data 2015-16 wedi eu chwyddo oherwydd y broses lle talodd 11 cyngor a oedd yn berchen ar dai cyngor Lywodraeth y DU i adael y system cymhorthdal tai. Roedd Llywodraeth y DU wedi defnyddio'r system gymhorthdal i sicrhau bod rhenti yn cwmpasu costau heb wneud unrhyw ddiffyg na gwarged. Benthycodd yr 11 cyngor arian i dalu cyfandaliad Lywodraeth y DU i gwmpasu'r gost o golli gwargedau yn y dyfodol. Ar brisiau mis Mehefin 2025, £1.2 biliwn yw gwerth hyn mewn termau real.

Mae Archwilio Cymru wedi addasu'r data gwariant er mwyn ystyried effaith chwyddiant. Rhoddir y ffigurau ym mhrisiau mis Mehefin 2025, gan ddefnyddio data [a ddarparwyd gan Drysorlys Ei Fawrhydi](#).

Mae llai o arian o ganlyniad i werthu asedau wedi arwain at gynghorau yn gwario mwy o'u cyllidebau refeniw ar brosiectau cyfalaf

- 83 Weithiau, mae cynghorau yn defnyddio'r enillion o werthu asedau i ariannu eu gwariant cyfalaf. Gelwir y rhain yn dderbyniadau cyfalaf. Mae gwerth y derbyniadau cyfalaf y mae cynghorau yn eu defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf wedi gostwng yn sydyn dros amser (**Arddangosyn 7**). Gallai hyn fod oherwydd bod ganddynt lai o asedau dros ben, neu, er enghraifft, gostyngiadau mewn gwerth eiddo. Mae hyn wedi arwain at gynghorau yn cynyddu cyfraniadau o'u cyllidebau refeniw i ariannu prosiectau. Mae cynghorau eisoes yn wynebu pwysau ariannol sylweddol, sy'n golygu y gallai defnyddio cyllid refeniw yn lle derbyniadau cyfalaf gynyddu risgiau i gynaliadwyedd ariannol cynghorau.
- 84 Fodd bynnag, mae cynghorau yn wynebu tasg anodd. Fel y nodir uchod, trwy beidio â buddsoddi mewn cynlluniau cyfalaf, gall cynghorau beri risg o gostau refeniw uwch hefyd, megis rhedeg neu gynnal adeiladau aneffeithlon. Hefyd, mae'n bosibl na fydd asedau hŷn yn helpu cynghorau i gyflawni amcanion ehangach megis lleihau allyriadau carbon neu ddigido gwasanaethau. Er mwyn lleihau'r risgiau hyn, bydd angen i gynghorau gydbwyso effeithiau hirdymor a thymor byr cyfraniadau refeniw i gael y gwerth gorau am arian dros y tymor hwy.

Adrodd ar berfformiad a chraffu

- 85 Rydym yn cydnabod y gall nodi a mesur canlyniadau arfaethedig prosiectau cyfalaf fod yn anodd. Ni fydd y canlyniadau yn hysbys am flynyddoedd lawer ar gyfer rhai prosiectau.
- 86 Fodd bynnag, gall adrodd cyhoeddus ar gyflawni prosiectau a'r cynnydd tuag at ganlyniadau helpu i roi sicrwydd bod prosiectau'n gwneud cynnydd fel y cynlluniwyd ac yn bodloni eu hamcanion. Gall hyn helpu cynghorwyr, swyddogion a rhanddeiliaid eraill hefyd i asesu a monitro a yw cynghorau'n cyflawni gwerth am arian.

Mae'r mwyafrif o'r cynghorau yn adrodd yn rheolaidd ar gynnydd prosiectau cyfalaf, ond ar fonitro'r gyllideb y mae'r adroddiadau hyn yn canolbwyntio'n bennaf

- 87 Mae'r mwyafrif o gabinetau cyngor yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd ar eu prosiectau cyfalaf. Yn nodweddiadol, mae'r adroddiadau cynnydd hyn yn canolbwyntio ar yr hyn maent wedi ei wario. Yn nodweddiadol, mae adroddiadau yn nodi'r gwariant ar brosiect a sut mae'n amrywio o'i gymharu â'r gyllideb a ragwelwyd. Yn gyffredinol, mae adroddiadau yn cynnwys gwybodaeth gyfyngedig, er enghraifft, am y rhesymau dros oediadau mewn prosiectau, ac effaith hyn ar amcanion llesiant y cyngor. Mae hyn yn cyfyngu'r posibilrwydd y bydd aelodau y cabinet a rhanddeiliaid eraill yn deall pa mor dda mae'r cyngor yn gwneud cynnydd ar ei gynlluniau cyfalaf.
- 88 Canfuom hefyd nad yw pwyllgorau craffu yn cael nac yn gofyn yn rheolaidd am adroddiadau ar gynlluniau a phrosiectau cyfalaf. Er mai cyfrifoldeb pwyllgorau craffu unigol yw gosod eu rhaglenni gwaith eu hunain, mae prosiectau cyfalaf yn faes gwariant a gweithgarwch sylweddol i gynghorau. Clywsom gan aelodau a swyddogion fod cynghorau, yn nodweddiadol, yn canolbwyntio'n fwy ar eu cynlluniau cyllideb refeniw na'n cynlluniau cyfalaf. Teimlwyd bod hyn yn rhannol oherwydd bod gwariant refeniw yn darparu canlyniad mwy uniongyrchol yn aml. Fodd bynnag, gallai mwy o bwyslais ar gynlluniau cyfalaf gan bwyllgorau craffu helpu i sicrhau bod risgiau i gyflawni cynlluniau a phrosiectau cyfalaf yn cael eu nodi ac yr eir i'r afael â nhw.
- 89 Hefyd, nid yw cynghorau yn gwerthuso eu prosiectau yn rheolaidd er mwyn gwybod a ydynt wedi cyflawni'r buddion arfaethedig, ar ôl eu cwblhau. Mae hyn yn golygu nad yw cynghorau'n gwybod bob amser a yw eu prosiectau a'u cynlluniau cyfalaf wedi cyflawni gwerth am arian.

Yn aml, nid yw cynghorwyr yn cael hyfforddiant i'w helpu i oruchwylio cynllunio cyfalaf

- 90 Nid yw pob cyngor yn cynnig hyfforddiant cynllunio cyfalaf i gynghorwyr. Roedd rhai cynghorwyr yn credu eu bod wedi cael hyfforddiant a fyddai'n eu helpu i ymgysylltu ag adroddiadau ar gynllunio a gwariant cyfalaf, ond nid oedd y mwyafrif ohonynt o'r un farn. Mae amrywiaeth o bynciau posibl y gallai cynghorwyr eu hystyried yn fuddiol, gan gynnwys, er enghraifft, y rheolau ariannol sy'n llywodraethu cynllunio cyfalaf. Mae'n bwysig sicrhau bod gan gynghorwyr yr wybodaeth a'r sgiliau i allu gwneud penderfyniadau, i graffu ar gynigion, ac i fonitro'r broses o'u cyflawni er mwyn sicrhau bod cynllunio cyfalaf yn cael ei oruchwylio'n briodol.
- 91 Esboniodd swyddogion cyngor mai hyfforddiant rheoli trysorlys yw'r brif ffordd o wella gwybodaeth cynghorwyr am gynllunio cyfalaf. Rheoli trysorlys yw'r modd y mae sefydliad yn rheoli ei arian a'i fuddsoddiadau er mwyn cefnogi ei nodau a chynyddu ei werth gymaint â phosibl. Mae hyn yn bwysig, oherwydd y gall cynghorau fenthylg arian i ariannu prosiectau cyfalaf, ond mae angen iddynt fod yn ddarbodus hefyd wrth benderfynu faint i'w fenthylca. Fodd bynnag, mae agweddau allweddol eraill ar brosiectau cyfalaf y mae angen eu hystyried hefyd o'u cymharu â chostau benthyca, gan gynnwys, er enghraifft, buddion prosiect i ddefnyddwyr gwasanaethau.
- 92 Clywsom hefyd, pan fo sesiynau hyfforddi yn cael eu cynnig, fod ymgysylltiad a phresenoldeb cynghorwyr yn wael yn aml. Mae hyn yn golygu y gallai cynghorwyr fod yn gwneud penderfyniadau ar gynlluniau cyfalaf, neu'n craffu arnynt, heb yr wybodaeth briodol.

Argymhellion

Argymhellion ar gyfer cynghorau

- A1** Dylai cynghorau adolygu eu trefniadau cynllunio cyfalaf gan ystyried y materion a nodir yn ein hadroddiad, er mwyn nodi a gweithredu cyfleoedd i wella. Rydym wedi datblygu rhestr wirio (**Atodiad 4**) y gallai cynghorau ei hystyried yn ddefnyddiol i gefnogi hyn.

Yn rhan o hyn, rydym yn argymell bod cynghorau yn canolbwyntio'n benodol ar:

- 1.1** sicrhau bod cynlluniau cyfalaf a datganiadau ariannol yn cael eu llywio gan wybodaeth diweddar, cywir a chynhwysfawr am gyflwr eu hasedau (**paragraffau 52 i 57**)
- 1.2** gwerthuso eu prosiectau cyfalaf yn rheolaidd er mwyn asesu a ydynt wedi cyflawni eu canlyniadau arfaethedig (**paragraffau 87 i 89**)
- 1.3** sicrhau bod hyfforddiant priodol yn cael ei ddarparu i gynghorwyr i'w galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus ar gynlluniau a phrosiectau cyfalaf a darparu goruchwyliaeth a chraffu arnynt yn effeithiol (**paragraffau 89 i 91**).

Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru

- A2** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei phrosesau grantiau cyfalaf cyfyngedig i sicrhau eu bod yn gymesur ac yn gyson pan fo hynny'n ymarferol, er mwyn gwella effeithlonrwydd prosesau cyllido grantiau. Dylai hyn gynnwys:
- 2.1** gwella'r cydgysylltiad rhwng gwahanol rannau o Lywodraeth Cymru o ran amseru grantiau, gofynion ymgeisio, a threfniadau monitro parhaus (**paragraffau 26 i 33**)
- 2.2** datblygu dull achos busnes mwy cyson ar gyfer grantiau, sy'n gymesur â graddfa'r grantiau neu lefel y risg sy'n gysylltiedig â nhw (**paragraffau 28 i 29, ac 32**).

- A3** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau, pan fo hynny'n ymarferol, fod cynlluniau cyllido grantiau cyfalaf newydd yn helpu cynghorau i gynllunio dros y tymor hwy. I wneud hyn dylai adolygu:
- 3.1** a ellir cyflwyno amserlenni hirach ar gyfer grantiau, gan gynnwys cyllid dangosol dros y tymor canolig
- 3.2** a ellir rhoi mwy o rybudd i gynghorau y bydd cyllid grant ar gael
- 3.3** pan nad yw hynny'n bosibl, dylai Llywodraeth Cymru gyfathrebu â swyddogion cyngor i gefnogi eu dealltwriaeth o'r rhesymau dros hyn (**paragraffau 14 i 25**).



Atodiadau

- 1 Ynglŷn â'n gwaith
- 2 Esbonio beth yw gwariant cyfalaf
- 3 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn
- 4 Rhestr wirio ar gyfer cynllunio cyfalaf

1 Ynglŷn â'n gwaith

Cwmpas yr archwiliad

Gwnaethom edrych ar sut mae pob un o'r 22 o brif gynghorau yng Nghymru yn cynllunio eu gwariant cyfalaf. I wneud hyn, gwnaethom ganolbwyntio ar eu dogfennau cynllunio allweddol, megis eu strategaeth gyfalaf a'u cyllideb cyfalaf blynyddol. Gwnaethom edrych ar yr wybodaeth ynddynt a'u papurau ategol. Gwnaethom gyfyngu ein hunain i'r dystiolaeth a rennir â ni gan bob cyngor a'r hyn sydd ar gael yn gyhoeddus ar eu gwefannau.

Ni wnaethom edrych ar y prosiectau a gynhwysir yng nghynlluniau y cyngor. Ni wnaethom ffurfio barn ar rinweddau eu cynhwysiad nac ar y nodau a'r uchelgeisiau y mae pob cyngor wedi eu gosod.

Ni wnaethom edrych ychwaith ar y cynllunio cyfalaf a wnaed gan gyrff cyhoeddus eraill. Dim ond ar y prif gynghorau yr oedd ein gwaith yn canolbwyntio ac nid cyrff llywodraeth lleol eraill, megis Tân ac Achub neu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

Cwestiynau a meini prawf archwilio

Cwestiynau archwilio

Nod ein cwestiynau oedd ein helpu i ffurfio barn genedlaethol am gynllunio cyfalaf gan gynghorau. Er mwyn ein galluogi i wneud argymhellion i helpu cynghorau i wella'r gwerth am arian y maent yn ei gyflawni yr oedd hyn. I wneud hyn, gwnaethom ganolbwyntio ar:

- a yw cynghorau yn dilyn dull strategol o gynllunio cyfalaf;
- a yw cynghorau yn deall eu hasedau cyfredol a'r hyn sydd ei angen ar gyfer y dyfodol ac os ydynt yn defnyddio hyn i lywio eu cynlluniau cyfalaf;
- a yw cynghorau yn defnyddio eu dealltwriaeth o'u sefyllfa ariannol i'w helpu i gynllunio; ac
- a yw cynghorwyr yn darparu ac yn cael eu cefnogi i ddarparu goruchwyliaeth ac i graffu ar gynllunio cyfalaf yn effeithiol.

Yn ein cwestiynau, gwnaethom ystyried hefyd a oedd cynghorau wedi meddwl am yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'i chymhwyso yn eu cynllunio cyfalaf.

Meini prawf

Gwnaethom lunio ein meini prawf drwy edrych ar ganllawiau a chanllawiau arfer da ar gyfer cynllunio cyfalaf. Roedd hyn yn cynnwys Prudential Code a chanllawiau strategaeth cyfalaf a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn 2021. Hefyd, gwnaethom gynnwys Canllawiau ar y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw Llywodraeth Cymru o 2018 ymlaen. Roedd ein meini prawf hefyd yn defnyddio ein gwybodaeth am y sector a'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Rydym yn datblygu ein gwybodaeth am gynghorau drwy gwblhau archwiliadau perfformiad ac ariannol.

Dulliau

- adolygu dogfennau – gwnaethom adolygu cynlluniau cyfalaf a dogfennau ategol yr holl brif gynghorau. Gwnaethom adolygu adroddiadau cenedlaethol a chanllawiau a gyhoeddwyd gan gyrff cenedlaethol hefyd.
- cyfweiliadau lleol – gwnaethom gwrdd ag uwch-staff a chynghorwyr i drafod cynllunio cyfalaf mewn chwe chyngor. Wrth ddewis y chwe chyngor hyn, gwnaethom ystyried agweddau megis lleoliad, maint, pa mor wledig ydynt, a graddfa eu cynlluniau cyfalaf. Y chwe chyngor oedd:
 - Cyngor Sir Ynys Môn
 - Cyngor Castell-nedd Port Talbot
 - Cyngor Sir Powys
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
 - Cyngor Abertawe
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- cyfweiliadau cenedlaethol – gwnaethom gynnal cyfweiliadau â phobl o nifer o sefydliadau cenedlaethol. Roedd y rhain yn cynnwys:
 - swyddogion o Lywodraeth Cymru;
 - swyddogion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC); ac
 - aelodau o Gymdeithas Trysoryddion Cymru.
- dadansoddi data – gwnaethom ddadansoddi data a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gyhoeddwyd gan StatsCymru. Roedd hyn yn cynnwys data refeniw a gwariant cyfalaf y mae Llywodraeth Cymru yn eu casglu gan gynghorau bob blwyddyn, yn ogystal â data ariannol a ddarperir gan gynghorau. Gwnaethom ychwanegu at hyn gyda dadansoddiad o wybodaeth ariannol arall, megis y datganiad o gyfrifon a gyhoeddir gan gynghorau.
- gwybodaeth a phrofiad archwilio cronrus – gwnaethom ddefnyddio ein gwybodaeth a'n profiad o'r sector a gafwyd trwy ein gwaith arall i'n helpu i lywio'r gwaith hwn.

2 Esbonio beth yw gwariant cyfalaf

Beth yw gwariant cyfalaf?

Arian y mae sefydliad yn ei wario i gaffael, creu, uwchraddio, neu gynnal asedau y mae'n berchen arnynt neu y mae ganddo hawl i'w rheoli yw gwariant cyfalaf. Ar gyfer cynghorau, mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn ei ddiffinio fel gwariant 'capitalised in accordance with proper practices' (Saesneg yn unig). Mae hyn yn golygu gwariant a gydnabyddir fel gwariant cyfalaf o dan Code of Practice on Local Authority Accounting, a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth. Mae cynghorau ac eraill yn cyfeirio at hyn yn gyffredin fel Cod y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth. Mae'r Cod yn rheoleiddio sut y dylai cyrff llywodraeth lleol gyfrif am yr holl wariant, incwm, asedau, a rhwymedigaethau.

Dim ond pan fydd Llywodraeth Cymru yn caniatáu iddynt wneud hynny y caiff cynghorau ddefnyddio cyllid cyfalaf at ddibenion refeniw. Gelwir hyn yn gyfarwydddeb cyfalafu ac fe'i cyhoeddir gan Lywodraeth Cymru o dan Ddeddf 2003. Mae hyn yn caniatáu i gynghorau beidio â chyfrif am eu gwariant mewn senario penodol yn unol â Chod y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth.

Ai gwariant cyfalaf yw cynnal a chadw?

Gall fod yn anodd penderfynu a yw cynnal a chadw yn wariant cyfalaf neu refeniw. Mae'r Cod yn glir nad gwariant cyfalaf yw costau gwasanaethu ased o ddydd i ddydd. Gallai hyn fod yn gost llafur i redeg adeilad neu'n ddarnau amnewid bach newydd. Mae hyn oherwydd nad yw'r costau hyn yn ychwanegu at y budd na'r gwasanaeth y gallai ased eu darparu yn y dyfodol.

Os yw gwariant cynnal a chadw yn gwella ased, yna gellir ei ddosbarthu fel gwariant cyfalaf. Gallai hyn fod drwy estyn oes ddefnyddiol ased. Gallai fod drwy gynyddu'r lefel perfformiad y gallai ased ei darparu hefyd. Mae angen i'r cyngor asesu hyn fesul achos. Mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth wedi darparu enghreifftiau darluniadol i helpu cynghorau yn eu penderfyniadau (**Arddangosyn 8**).


Arddangosyn 8: enghreifftiau o wariant cynnal a chadw a allai fod yn refeniw neu'n gyfalaf

Enghraifft	Cyfalaf neu refeniw?	Esboniad
Paentio	Refeniw	Disgwylir y byddai gan adeilad gwmpas paent effeithiol yn ystod ei oes ddefnyddiol. Ni fyddai paentio yn cynyddu'r oes hon nac yn darparu mwy o berfformiad.
Amnewid ffenestri (ar sail tebyg am ei debyg)	Refeniw	Os yw'r un math o ffenestri yn cael eu hamnewid, ee, gwydr dwbl yn disodli gwydr dwbl, yna nid yw'r ased wedi gwella.
Amnewid ffenestri (nid ar sail tebyg am ei debyg)	Cyfalaf	Byddai uwchraddio ffenestri, megis o wydr sengl i wydr dwbl, yn gwella'r ased.
Ailwampio adeiladau	Cyfalaf	Os yw ailwampio adeilad yn arwain at estyn ei oes ddefnyddiol neu at gynyddu potensial ei berfformiad, byddai hyn yn gwella'r ased.

Ffynhonnell: Y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, [Practitioners' Guide to Capital Finance](#), Mawrth 2019

Mae cynghorau yn gwario'r rhan fwyaf o'u cyllid cyfalaf ar adeiladu neu adnewyddu asedau newydd. Ers 1997-98, mae'r swm termau real a warir ar adeiladu, addasu neu adnewyddu adeiladau newydd wedi tyfu'n llawer cyflymach na mathau eraill o wariant cyfalaf (**Arddangosyn 9**). Gwariwyd 83% o'r gwariant cyfalaf yn 2023-24 ar adeiladu adeiladau newydd, eu haddasu neu eu hadnewyddu, o'i chymharu â 58% yn 1997-98.

Arddangosyn 9: gwariant cyfalaf yn ôl y math o wariant mewn termau real, 1997-98 i 2023-24



Ffynhonnell: [Data Llywodraeth Cymru](#) a ddadansoddwyd gan Archwilio Cymru

Nodiadau: Mae data 2015-16 wedi eu chwyddo oherwydd y broses lle talodd 11 cyngor a oedd yn berchen ar dai cyngor Lywodraeth y DU i adael y system cymhorthdal tai. Roedd Llywodraeth y DU wedi defnyddio'r system gymhorthdal i sicrhau bod rhenti yn cwmpasu costau heb wneud unrhyw ddiffyg na gwarged. Benthycodd yr 11 cyngor arian i dalu cyfandaliad Lywodraeth y DU i gwmpasu'r gost o golli gwargedau yn y dyfodol. Ar brisiau mis Mehefin 2025, £1.2 biliwn yw gwerth hyn mewn termau real.

Mae Archwilio Cymru wedi addasu'r data gwariant er mwyn ystyried effaith chwyddiant. Rhoddir y ffigurau ym mhrisiau mis Mehefin 2025, gan ddefnyddio data [a ddarparwyd gan Drysorlys Ei Fawrhydi](#).

Mae gwariant cyfalaf arall yn cynnwys dyfarnu grantiau cyfalaf, trefniadau credyd, a phrynu asedau anniriaethol.

Beth yw'r ffynonellau gwariant cyfalaf?

Fel gwariant refeniw, gall gwariant cyfalaf fod â sawl ffynhonnell ariannu. Gallai'r ffynonellau ariannu prosiect yn gyfan gwbl neu gael eu cyfuno i wneud hynny. Y prif ffynonellau cyllid yw:

- grantiau a chyfraniadau trydydd parti – cronfeydd yw'r rhain a ddarperir gan gorff arall i'r cyngor er mwyn ariannu prosiect cyfalaf. Mae dau brif fath – anghyfyngedig a chyfyngedig. Gellir defnyddio grantiau anghyfyngedig ar gyfer unrhyw brosiect cyfalaf. Byddai hyn yn cynnwys cyllid a ddarperir gan Llywodraeth Cymru bob blwyddyn. Rhaid defnyddio grantiau cyfyngedig at ddiben penodol y mae'r ariannwr yn ei osod. Er enghraifft, cyllid loteri, neu gymunedau cynaliadwy ar gyfer grantiau dysgu.
- cyfraniadau refeniw – cronfeydd o'r gyllideb refeniw ar gyfer gwariant cyfalaf yw'r rhain. Gallai hyn fod er mwyn ariannu prosiect penodol yn ystod y flwyddyn, neu ddefnyddio cronfa wrth gefn sydd wedi ei chlustnodi at ddiben tymor hwy, megis buddsoddiad mewn seilwaith.
- derbyniadau cyfalaf – cyllid o enillion gwaredu asedau yw'r rhain. Dim ond ar gyfer gwariant cyfalaf y ceir defnyddio derbyniadau, ac eithrio pan fo Llywodraeth Cymru yn caniatáu iddynt gael eu defnyddio mewn gwariant refeniw drwy gyfarwydddeb cyfalafu.¹⁴
- cronfeydd cyfalaf wrth gefn – cyllid o ddefnyddio cronfa wrth gefn a ganiateir ar gyfer gwariant cyfalaf yn unig yw hyn. Yn gyffredinol, mae'r rhain yn cael eu hadeiladu o gyfraniadau refeniw dros amser. Er enghraifft, pan fo cyngor yn cyfrannu cyllid dros amser ar gyfer disodli cerbyd y mae cyngor yn disgwyl y bydd yn ddefnyddiol am nifer benodol o flynyddoedd.
- benthycia – cyllid gan y cyngor gan gymryd dyled dros gyfnod penodol. Gall hyn fod o ffynonellau'r farchnad, megis banc, ond yn nodweddiadol mae'n dod o Drysorlys EF drwy'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus.


Nodir y newidiadau mewn termau real yng ngwerth y ffynonellau cyllido yn **Arddangosyn 7**.

¹⁴ Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau o dan adran 15(1) (a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 ar gyfer defnyddio derbyniadau cyfalaf yn hyblyg. Maent yn caniatáu i dderbyniadau gael eu gwario 'ar unrhyw brosiect a gynlluniwyd i gynhyrchu arbedion refeniw parhaus wrth gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus a/neu drawsnewid y ffordd o gyflenwi gwasanaethau mewn modd sy'n lleihau costau neu'r galw am wasanaethau yn y blynyddoedd i ddod'.

Sut mae gwariant cyfalaf yn amrywio fesul gwasanaeth?

Mae rhai gwasanaethau a gynigir gan gynghorau sy'n gwario llawer mwy o gyllid cyfalaf nag eraill. Mae hyn yn ymwneud â natur y gwasanaeth y maent yn ei gynnis. Ers 1997-98, tai ac addysg a fu'r ddau faes gwasanaeth gwariant mwyaf ar gyfer gwariant cyfalaf. Mae hyn yn ymwneud â'r buddsoddiad mewn cartrefi ac ysgolion sy'n gysylltiedig yn sylfaenol â'r gwasanaethau y maent yn eu darparu. Fodd bynnag, mae ganddynt dueddiadau gwahanol dros amser. Fel y dengys **Arddangosyn 10**, mae gwariant ar addysg wedi cynyddu'n sylweddol mewn termau real ers 1997-98. Mae hyn yn bennaf oherwydd y ddwy raglen fuddsoddi mewn ysgolion gan Lywodraeth Cymru – Ysgolion yr 21ain ganrif a Chymunedau Dysgu Cynaliadwy. Dros yr un cyfnod, gostyngodd gwariant ar dai mewn termau real tan 2013-14, cyn cynyddu i lefelau sy'n debyg i 1997-98. Mae gwasanaethau eraill, megis gwasanaethau cymdeithasol, wedi bod yn fwy cyson yn eu gwariant.

Arddangosyn 10: gwariant cyfalaf mewn termau real fesul maes gwasanaeth, 1997-98 i 2023-24



Ffynhonnell: [Data Llywodraeth Cymru](#) a ddadansoddwyd gan Archwilio Cymru

Nodiadau: Mae data 2015-16 ar gyfer gwasanaethau eraill wedi eu haddasu i gael gwared ar effaith pryniant cymhorthdal tai sy'n effeithio ar rai cynghorau. Proses oedd hon lle'r oedd 11 cyngor a oedd yn berchen ar dai cyngor Lywodraeth y DU i adael y system cymhorthdal tai. Roedd Llywodraeth y DU wedi defnyddio'r system gymhorthdal i sicrhau bod rhenti yn cwmpasu costau heb wneud unrhyw ddiffyg na gwarged. Benthycodd yr 11 cyngor arian i dalu cyfandaliad Lywodraeth y DU i gwmpasu'r gost o golli gwargedau yn y dyfodol. Ar brisiau mis Mehefin 2025, roedd gan hyn werth termau real o £1.2 biliwn. Mae wedi ei dynnu o'r siart hon er mwyn galluogi tuedd cyffredinol gwasanaethau i gael ei gweld yn gliriach.

Mae Archwilio Cymru wedi addasu'r data gwariant er mwyn ystyried effaith chwyddiant. Rhoddir y ffigurau ym mhrisiau mis Mehefin 2025, gan ddefnyddio data [a ddarparwyd gan Drysorlys Ei Fawrhydi](#).

Mae gwasanaethau a gweinyddiaeth arall yn cynnwys meysydd gwasanaeth megis gwasanaethau amgylcheddol, cynllunio a datblygu, a gwasanaethau diogelu. Maent hefyd yn cynnwys costau cyfalaf gweinyddiaeth gyffredinol.

Beth yw'r rheolau ar gyfer benthyca gan gynghorau?

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn gosod y rheolau cyfreithiol sy'n cyfyngu ar sut y gall cynghorau fenthyca arian, ac yn rheoleiddio sut y gallant wneud hynny. Dim ond ar gyfer gwariant cyfalaf y caiff cynghorau fenthyca a phan nad ydynt yn torri eu terfynau materion ariannol. Rhaid iddynt osod eu terfynau ac yna parhau i'w hadolygu. I wneud hyn, mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn llunio'r Cod Materion Ariannol sy'n helpu cynghorau i osod eu terfynau a dilyn y gyfraith. Daeth y rheolau hyn i rym yn 2004-05 a ddisodlodd derfynau ar fenthyca a osodwyd gan y llywodraeth.

Mae'r Cod Materion Ariannol yn nodi sut y dylid eu defnyddio i gefnogi cynghorau yn eu cynllunio cyfalaf. Maent yn nodi hefyd y dylent gefnogi cynllunio rheoli asedau ac arfarniadau dewisiadau. Maent yn cynnwys y materion allweddol y dylai cyngor eu hystyried wrth osod neu adolygu ei ddangosyddion benthyca. Sef:

- amcanion y gwasanaeth;
- rheoli asedau;
- gwerth am arian;
- pwyll a chynladwyedd;
- fforddiadwyedd; ac
- ymarferoldeb a chyflawnadwyedd.

Mae'r Cod Materion Ariannol hefyd yn gosod gofynion clir ar gynghorau i sicrhau bod eu cynlluniau benthyca yn bwyllog ac yn ystyried effaith ad-daliad. Rhaid gwneud hyn dros gyfnod treigl o dair blynedd, ond mae cyfnod hirach mewn golwg.

Y dangosyddion benthyca sy'n ofynnol gan gynghorau yw:

- y gwariant cyfalaf amcangyfrifedig ar gyfer y flwyddyn ariannol cyfredol;
- amcangyfrifon o'r gwariant cyfalaf yn y dyfodol dros dair blynedd;
- y gwariant cyfalaf gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn ariannol ar ddiwedd y flwyddyn;
- y terfyn awdurdodedig – yr uchafswm benthyca y mae'r cyngor yn asesu y gall fforddio i'w fenthyca;
- y ffin weithredol – y lefel benthyca uchaf yr amcangyfrifir y bydd ei hangen ar y cyngor dros dair blynedd;
- y ddyled allanol wirioneddol;
- y ddyled gros a'r gofyniad cyllido cyfalaf – cymharu'r hyn a fenthycir â'r angen i sicrhau nad yw'r ddyled yn fwy na'r angen;
- y costau cyllido amcangyfrifedig ar gyfer y gyllideb refeniw;
- y costau cyllido gwirioneddol ar gyfer y gyllideb refeniw ar ddiwedd y flwyddyn;
- amcangyfrif o'r incwm net sy'n deillio o fuddsoddiadau masnachol a gwasanaeth; ac
- amcangyfrifon gwirioneddol o'r incwm net sy'n deillio o fuddsoddiadau masnachol a gwasanaeth.

Mae cynghorau yn cyfrif am effeithiau benthyca yn eu cyfrifon drwy eu Hisafswm Darpariaeth Refeniw. Trafodiad cyfrifyddu y mae cynghorau yn ei wneud i godi tâl ar eu cyllideb refeniw am y gost o fenthyca arian yw'r Isafswm Darpariaeth Refeniw. Mae Llywodraeth Cymru yn pennu'r dulliau y caiff cynghorau eu defnyddio i gyfrifo eu Hisafswm Darpariaeth Refeniw mewn canllawiau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf 2003. Prif nod Isafswm Darpariaeth Refeniw yw lledaenu cost gyfrifyddu y benthyca ar draws oes ddefnyddiol yr ased y mae'n ymwneud ag ef.

Mae benthyca hefyd yn effeithio ar y modd y mae cynghorau yn rheoli eu harian a'u buddsoddiadau – a elwir yn rheoli trysorlys. Yn aml, mae cynghorau yn cyfuno eu strategaethau rheoli cyfalaf a thrysorlys oherwydd y berthynas agos rhwng benthyca, buddsoddi, a defnyddio arian parod. Mae hyn yn ychwanegu cymhlethdod at fenthyca, oherwydd bod angen i gynghorau amseru eu benthyciadau yn gywir, er mwyn sicrhau bod ganddynt ddigon o arian parod ar gael ond eu bod yn lleihau costau ac yn cynyddu eu henillion gymaint â phosibl.

3 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn

Term	Disgrifiad
Gwariant cyfalaf	Gwariant gan gynghorau ar brynu, adeiladu, neu ddatblygu asedau i ddarparu gwasanaethau. Nid yw'n cynnwys y costau parhaus o redeg yr asedau.
Cyfrifyddu cyfalaf	Y ffordd y mae cynghorau yn cofnodi sut maent wedi gwario eu cronfeydd ac yn sicrhau bod ganddynt werth teg yr asedau maent yn eu rheoli.
Cydweithredu	Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.
Pum ffordd o weithio	Mae pum ffordd o weithio Llywodraeth Cymru yn amlinellu bod angen i gyrff cyhoeddus feddwl am ddangos eu bod wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
Integreiddio	Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.
Menter Benthycu Llywodraeth Leol	Cynllun Llywodraeth Cymru i ariannu costau parhaus cynghorau sy'n benthycu ar gyfer prosiect cyfalaf. Yn 2025, roedd Menter Benthycu Llywodraeth Leol wedi ei chyfyngu i brosiectau priffyrdd.

Term	Disgrifiad
Grantiau cyfyngedig	Grantiau yw'r rhain y mae'n rhaid eu defnyddio at y diben a nodir mewn llythyr cynnig gan Lywodraeth Cymru. Fel arfer, mae'n rhaid i gynghorau fodloni amodau i dderbyn y cyllid hwn. Cyfeirir atynt hefyd fel grantiau wedi eu neilltuo.
Egwyddor datblygu cynaliadwy	Diffinnir yr egwyddor datblygu cynaliadwy fel gweithredu mewn modd 'sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'.
Rheoli trysorlys	Y ffordd y mae sefydliad yn rheoli ei arian a'i fuddsoddiadau er mwyn ymateb i risgiau ac ariannu ei ymrwymadau a'i gynlluniau ei hun.
Grantiau anghyfyngedig	Grantiau yw'r rhain y mae gan gynghorau fwy o hyblygrwydd i'w defnyddio fel y dymunant, gan barhau i fod yn gyfyngedig i wariant refeniw neu gyfalaf. Cyfeirir atynt hefyd fel grantiau nad ydynt wedi eu neilltuo.

4 Rhestr wirio ar gyfer cynllunio cyfalaf

Rydym wedi llunio'r rhestr wirio hon fel offeryn y gallai cynghorau ei chael yn ddefnyddiol i asesu eu trefniadau cynllunio cyfalaf a nodi unrhyw feysydd i'w gwella. Mae hyn yn cael ei lywio gan ein canfyddiadau, canllawiau ymarfer, a'n gwybodaeth am y sector.

Arddangosyn 11: rhestr wirio hunanasesu ar gyfer cynllunio cyfalaf

Thema	Cyfeirnod y paragraff	Cwestiynau i'w hystyried	Hunanasesiad y cyngor
Cyd-destun strategol	58 i 60	A yw'r cynllun cyfalaf yn nodi'r cyd-destun strategol ar gyfer cynllunio cyfalaf? Er enghraifft: - heriau hysbys sy'n wynebu'r cyngor; - bylchau yng ngwybodaeth y cyngor a'r camau sydd eu hangen i'w cau nhw; a - pholisïau lleol, rhanbarthol, a chenedlaethol sy'n effeithio ar gynlluniau cyfalaf.	
Nodau ac Amcanion	38 i 45	A yw'r cynllun cyfalaf yn cwmpasu'r tymor byr a'r hirdymor? A yw'r cynllun cyfalaf yn cynnwys nodau ac amcanion clir? Er enghraifft: - uchelgais hirdymor at ddibenion buddsoddi cyfalaf yn ardal y cyngor; - set o amcanion clir sy'n cefnogi cyflawni uchelgais y cyngor; a - manylion am sut y bydd yn cefnogi amcanion ehangach y cyngor.	

Thema	Cyfeirnod y paragraff	Cwestiynau i'w hystyried	Hunanasesiad y cyngor
Canolbwyntio ar ganlyniadau	46 i 48	A yw'r cyngor wedi nodi: - sut mae llwyddiant yn edrych ar gyfer y cynllun cyfan; - sut mae llwyddiant yn edrych ar gyfer prosiectau unigol; a - sut y bydd yn mesur ac yn monitro hyn.	
Gwybod am gyflwr asedau	52 i 57	A yw cynllun cyfalaf y cyngor yn cael ei lywio gan wybodaeth diweddar, cywir a chynhwysfawr am gyflwr asedau? A yw cynllun cyfalaf y cyngor yn cynnwys cynllun cynnal a chadw sy'n seiliedig ar gostau realistig? A yw'r cyngor wedi asesu pa asedau sydd eu hangen arno i gyflawni ei amcanion llesiant yn llwyddiannus, a faint y byddant yn eu costio? A yw'r cyngor wedi ystyried amrywiaeth o ddewisiadau mewn ymateb i arolygon cyflwr – er enghraifft cydleoli neu ailgynllunio gwasanaethau?	
Gweithio gydag eraill	61 i 67, a 76	A yw'r cyngor wedi gweithio gyda phartneriaid i: - nodi cyfleoedd i gynllunio a chyflawni prosiectau cyfalaf ar y cyd; - sicrhau bod cynlluniau cyfalaf yn cael eu cysoni, gan gynnwys nodi blaenoriaethau cydfuddiannol y gall cynlluniau cyfalaf helpu i'w cyflawni; ac - archwilio cyfuno gwybodaeth, sgiliau ac adnoddau i wella cynllunio cyfalaf.	

Thema	Cyfeirnod y paragraff	Cwestiynau i'w hystyried	Hunanasesiad y cyngor
Cynllunio ar gyfer risg ac asesu effaith	68 i 71	A yw'r Cyngor: • yn cwblhau asesiadau effaith ar gyfer pob prosiect; • yn asesu effaith cynlluniau cyfalaf ar y cyfan; • yn nodi'r canlyniadau economaidd-gymdeithasol arfaethedig ar gyfer preswylwyr mewn cynlluniau cyfalaf; • yn sicrhau bod risgiau cyfalaf yn cael eu hasesu a'u cofnodi; ac • yn nodi sut y bydd risgiau cyfalaf yn cael eu lliniaru mewn cynlluniau cyfalaf.	
Deall gofynion adnoddau	42, 54 i 56, 70, ac 72 i 76	A yw'r cyngor: • yn nodi costau realistig ar gyfer yr asedau newydd a'r gwaith cynnal a chadw sydd eu hangen arno i gyflawni ei amcanion; • yn nodi'r lefel darbodus a fforddiadwy o gyllid sydd ar gael (yn fewnol ac yn allanol) dros y tymor canolog; • yn cyfrifo ac yn cyfathrebu bwlch cyllido cyfalaf yn seiliedig ar yr anghenion a nodir a'r cyllid sydd ar gael; • yn nodi sut y bydd y bwlch yn cael ei reoli a'i lliniaru; ac • yn cynnwys ystyried adnoddau anariannol mewn cynlluniau, megis y capasiti contractwyr a'r contractwyr sydd ar gael.	

Thema	Cyfeirnod y paragraff	Cwestiynau i'w hystyried	Hunanasesiad y cyngor
Monitro cynnydd ac effaith	87 i 89	A yw'r cyngor: • yn adrodd yn gyhoeddus yn rheolaidd ar y cynnydd wrth gyflawni ei gynllun cyfalaf; • yn adrodd yn rheolaidd ar yr effeithiau a'r canlyniadau a gyflawnir o brosiectau cyfalaf; ac • yn cynnwys gwybodaeth ariannol allweddol, megis cymharu costau prosiectau gwirioneddol â chostau arfaethedig.	
Cefnogi goruchwyliaeth a gwaith craffu	90 i 92	A yw'r cyngor yn sicrhau bod cynghorwyr yn gallu cael hyfforddiant a datblygiad i'w galluogi i: • wneud penderfyniadau gwybodus ar gynlluniau a phrosiectau cyfalaf; a • chraffu'n effeithiol ar gynnydd a gwerth am arian cynlluniau a phrosiectau cyfalaf.	

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd ar gyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cyngorau a chyrff llywodraeth leol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar y modd y mae'r sefydliadau hyn yn defnyddio adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir am Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.



Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Ffurflen ymateb rheolwyr



At ddefnydd Archwilio Cymru yn unig	
Corff a archwilir	
Enw'r archwiliad	Cynllunio Cyfalaf
Dyddiad cyhoeddi	29 Ionawr 2026


Cyf	Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd	Swyddog cyfrifol (teitl)	Archwilio Cymru yn unig
A1	Dylai cynghorau adolygu eu trefniadau cynllunio cyfalaf gan ystyried y materion a nodir yn ein hadroddiad, er mwyn nodi a gweithredu cyfleoedd i wella. Rydym wedi datblygu rhestr wirio (Atodiad 4) y gallai cynghorau ei hystyried yn ddefnyddiol i gefnogi hyn. Yn rhan o hyn, rydym yn argymhell bod cynghorau yn canolbwyntio'n benodol ar:	Nid oes gan Adran Gyllid Cyngor Gwynedd unrhyw wrthwynebiad i arwain ar y gwaith o adolygu trefniadau cynllunio cyfalaf o fewn yr awdurdod. Rydym yn hyderus fod trefniadau cadarn o fewn y Cyngor i asesu ein anghenion cyfalaf ac i fonitro'r cynlluniau hyn. Fodd bynnag, rydym yn croesawu'r cyfle hwn i gymharu ein gweithdrefnau gyda'r ymarferion a argymhellir yn adroddiad, ond gofynnwn i Archwilio Cymru fod yn	31 Rhagfyr 2026	Pennaeth Cyllid	

Cyf	Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd	Swyddog cyfrifol (teitl)	Archwilio Cymru yn unig
	- sicrhau bod cynlluniau cyfalaf a datganiadau ariannol yn cael eu llywio gan wybodaeth diweddar, cywir a chynhwysfawr am gyflwr eu hasedau (paragraffau 52 i 57) - gwerthuso eu prosiectau cyfalaf yn rheolaidd er mwyn asesu a ydynt wedi cyflawni eu canlyniadau arfaethedig (paragraffau 87 i 89) - sicrhau bod hyfforddiant priodol yn cael ei ddarparu i gynghorwyr i'w galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus ar gynlluniau a phrosiectau cyfalaf a darparu goruchwyliaeth a chraffu arnynt yn effeithiol (paragraffau 89 i 91).	gydymdeimladwy a bod yn realistig gyda'r hyn gellir ei gyflawni gydag adnoddau cyfyngedig. Os am gyflawni adolygiad ystyrlon a chynhwysfawr gofynnwn am amserlen cyflawni hyd at 31 Rhagfyr 2026 o ystyried yr holl bwysau arall sydd ar y gwasanaethau perthnasol.			

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Ydy cyrff cyhoeddus yn gwybod a yw'r system yn gweithio?

Ebrill 2026



Rydym wedi paratoi'r adroddiad hwn o dan adran 145A(1) Deddf Llywodraeth Cymru 1998 ac adran 41(3) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, ac yn ei gyflwyno i'r Senedd o dan adran 145A(6) Deddf 1998.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Cewch aildddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os ydych yn ei aildddefnyddio, rhaid i'ch aildddefnydd fod yn gywir ac ni ddylai fod mewn cyd-destun sy'n gamarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae'n rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildddefnyddio.

Os oes angen cymorth arnoch gyda'r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- e-bostiwch ni: post@archwilio.cymru

Cewch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb yn yr iaith yr ydych yn ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhwngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio (INTOSAI).

Cynnwys

Rhagair	4
Ciplun archwiliad	6
Ffeithiau a ffigyrau allweddol	8
Ein canfyddiadau	9
Argymhellion	50

Atodiadau

1 Ynglŷn â'n gwaith	54
2 Data ar fathau o angen	56
3 Lleoliadau ar gyfer dysgwyr ag ADY	57
4 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn	58

Rhagair

Mae plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn cynnwys rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Mae'r system sy'n eu cefnogi'n hanfodol i'w helpu i wireddu eu potensial. Mae'r system honno'n cynnwys gwahanol haenau o lywodraeth ac amryw wasanaethau rheng-flaen.

Nid yw'r adroddiad hwn yn ymdrin â manylder y cymorth rheng-flaen hwnnw, er ei fod yn tynnu ar ymchwil ehangach ac adolygu allanol. Mae ein ffocws wedi bod ar ystyried a yw cyrff cyhoeddus yn gwybod digon am ddysgwyr ag ADY, gan gynnwys y galw yn awr ac yn y dyfodol. Hefyd, a oes darlun eglur o'r gweithlu sy'n cefnogi dysgwyr ag ADY, gwariant perthnasol, y ffordd y mae'r system yn gweithio'n gyffredinol, a deilliannau ar gyfer dysgwyr.

Mae'r stori sydd wedi dod i'r amlwg yn un o ansicrwydd oherwydd bylchau mewn data allweddol. Heb ddealltwriaeth well am y materion hynny, mae'n anodd dweud a yw'r system yn gweithio cystal ag y gallai i'r dysgwyr y mae'n eu cefnogi.

Mae hyn yn bwysicach byth gan ein bod ni'n gwybod bod y gwariant i gefnogi dysgwyr ag ADY wedi bod yn cynyddu, gan roi pwysau ar gyllidebau ehangach. Er na allwn gyfrifo ffigwr pendant, mae'r symiau sy'n haws i ni eu hadnabod yn awgrymu bod y gwariant blynyddol cyfredol bron yn £1 biliwn. Bydd y gwir ffigwr yn uwch.

Nid yw'r darlun hwn yn unigryw i Gymru – mae ein cydweithwyr archwilio mewn rhannau eraill o'r DU wedi amlygu materion tebyg dros y blynyddoedd diwethaf. Rwyf hefyd yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag eraill mewn amryw ffyrdd i wella'r system a'r data sy'n ei hategu. Mae fy argymhellion yn canolbwyntio ar rôl arwain Llywodraeth Cymru, ond dim ond un rhan o beiriant mwy ydyw ac ni all newid popeth ei hun.

Fe wnaed peth wmbredd o waith fel rhan o ymdrechion i ddiwygio'r system er gwell dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'r system yn dal i fod dan straen ac mae llawer mwy y gellir ei wneud o hyd i sicrhau ei bod yn gwneud cystal ag y gall i'n plant a'n pobl ifanc, yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol
Cymru



Ciplun archwiliad

Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

- 1 Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r system sy'n cefnogi pobl ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yng Nghymru.
- 2 Fe wnaeth Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 gyflwyno system newydd i helpu dysgwyr ag ADY. Y nod oedd creu system sy'n fwy integredig, yn fwy cydweithredol ac yn canolbwyntio'n fwy ar yr unigolyn.
- 3 Fe wnaethom ystyried a yw cyrff cyhoeddus yn deall y galw, capasiti a sgiliau'r gweithlu, costau a deilliannau lle mae ADY yn y cwestiwn. Fe wnaethom ganolbwyntio'n bennaf ar Lywodraeth Cymru a chynghorau, a'u cylch gwaith mewn perthynas ag ADY mewn ysgolion.

Pam fod hyn yn bwysig

- 4 Gall plant a phobl ifanc ag ADY fod ag ystod eang o anghenion amrywiol. Beth bynnag fo'u hanghenion, dylai'r system ADY helpu i oresgyn rhwystrau fel bod dysgwyr yn gallu gwireddu eu llawn potensial.
- 5 Cyn y system newydd, nid oedd gwarchodaeth statudol mewn perthynas â'r cymorth i ddysgwyr nad ydynt eto mewn addysg. Fe wnaeth y Ddeddf estyn darpariaeth i ddysgwyr 0-25 oed. Ac fe ddisodlodd ddwy system ar wahân, y naill yn helpu dysgwyr hyd at 16 oed ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) a'r llall ar gyfer dysgwyr ôl-16 ag anawsterau dysgu neu anableddau. Bu'r hen system a'r system newydd yn rhedeg ochr yn ochr â'i gilydd trwy gyfnod pontio graddol rhwng mis Medi 2021 a mis Awst 2025.
- 6 Un o'r newidiadau allweddol fu'r Cynllun Datblygu Unigol (CDU) statudol newydd. Fe wnaeth y CDU ddisodli cymorth AAA anstatudol – gweithredu gan yr ysgol, gweithredu gan yr ysgol a mwy – a datganiadau statudol o AAA. Yn flaenorol, roedd datganiadau'n cael eu cadw ar gyfer grŵp cymharol fach â'r anghenion mwyaf. Ond mae'r system newydd yn rhoi CDU i bob dysgwr ag ADY.

- 7 Wrth gyflwyno'r Ddeddf, dywedodd Llywodraeth cymru fod y system flaenorol 'yn gymhleth, yn ddryslyd ac yn wrthwynebol'. Fodd bynnag, mae nifer o adolygiadau wedi canfod bod heriau'n dal i fodoli yn y system newydd. Rydym yn cyfeirio at dystiolaeth o amryw ffynonellau eraill yn yr adroddiad hwn.

Yr hyn yr ydym wedi'i ganfod

- 8 Canfuom fod y system dan straen ac yn wynebu heriau sy'n bygwth ei chynaliadwyedd. Nid oes gan gyrff cyhoeddus ddarlun cyflawn o'r galw, costau a deilliannau felly nid oes ganddynt ddigon o wybodaeth i gynllunio a chyllidebu'n effeithiol, ac i'w defnyddio i asesu gwerth am arian. Yn y pen draw, mae gennym ni bryderon ynghylch perfformiad y system ar hyn o bryd i gynorthwyo dysgwyr i wireddu eu llawn botensial.
- 9 Fe ffurfiom ni'r farn hon am y rhesymau canlynol:
- nid oes gan y system ddata digon da i ddeall maint y galw a'r cymhlethdod cynyddol;
 - mae data tameidiog ar y gweithlu'n cyfyngu ar ddealltwriaeth y system am ystod o heriau o ran capasiti a sgiliau;
 - nid oes gan gyrff cyhoeddus ddealltwriaeth ddigon da am gostau ADY, ac mae gennym ni bryderon ynghylch cynaliadwyedd ariannol y system; ac
 - mae nodau'r system ADY yn eglur ond dim ond darlun cyfyngedig sydd i ddangos a yw'n dwyn deilliannau da i ddysgwyr ac mae'r system yn dal i fod yn wrthwynebol er gwaethaf tystiolaeth o beth gwelliant.

Yr hyn yr ydym yn ei argymhell

- 10 Mae ein hargymhellion yn canolbwyntio ar wella data am ddysgwyr ag ADY a'r gweithlu, gwneud cost cymorth i ddysgwyr yn fwy tryloyw, a chasglu data ar ddeilliannau. Ein nod yw cefnogi cynllunio hirdymor gwell a sicrhau bod cymorth i ddysgwyr ag ADY yn cael yr effaith a ddymunir.
- 11 Mae ein hargymhellion yn canolbwyntio ar Lywodraeth Cymru a'i rôl fel galluogwr newid ar lefel genedlaethol. Serch hynny, bydd angen cynnwys ystod eang o gyrff cyhoeddus er mwyn i'n hargymhellion gael eu rhoi ar waith yn llwyddiannus. Mae iddynt berthnasedd ehangach, felly. Bydd cynigion y mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori arnynt yn ddiweddar yn effeithio ar gyrff eraill hefyd.



Ffeithiau a ffigyrau allweddol



48,257 o ddysgwyr

Nifer y dysgwyr 0-25 oed a gofnodwyd fel rhai ag ADY neu AAA yn 2024/25. Mae ein hadroddiad yn egluro sut y mae hwn yn ddarlun anghyflawn.



Gostyngiad o 58%

Yn nifer y dysgwyr mewn ysgolion a gofnodwyd fel rhai ag ADY neu AAA rhwng 2018/19 a 2024/25.



Cynnydd o 164%

Yn nifer y dysgwyr mewn ysgolion ag ADY a gafodd gymorth statudol trwy ddatganiad o AAA neu, erbyn hyn, CDU, rhwng 2018/19 a 2024/25.



Bron i £1 biliwn y flwyddyn

Bras amcan o gost flynyddol gyfredol darparu a chefnogi gwasanaethau ADY yn seiliedig ar ffigyrau a adnabuwyd yn yr adroddiad hwn. Ond nid dyma'r darlun llawn, a bydd y wir gost yn uwch.



Cynnydd o 34%

Yn y gwariant a gyllidebwyd gan gynghorau ar ADY neu AAA rhwng 2018-19 a 2025-26 mewn termau real.

Nodyn: Mae ein hofferyn data yn darparu rhagor o wybodaeth am rai costau ADY penodol.



Ein canfyddiadau

Deall y galw

Mae nifer lawn y dysgwyr ag ADY yn anhysbys ar hyn o bryd, er bod gwaith yn mynd rhagddo i lenwi rhai o'r bylchau o ran data

12 Nid yw Llywodraeth Cymru'n casglu data cynhwysfawr ar nifer y dysgwyr ag ADY. Mae data rhesymol yn bodoli ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir, ysgolion arbennig, ysgolion annibynnol, a'r rhai mewn Addysg Heblaw Yn Yr Ysgol (EOTAS). Ond ceir bylchau eraill yn y data sydd ar gael neu a gyhoeddwyd:

- **Dysgwyr o dan oedran ysgol gorfodol:** Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod bwlch yn y data ar gyfer y rhai y tu allan i ysgolion meithrin a gynhelir nad oes proses statudol i gasglu data ar eu cyfer. Fodd bynnag, mae peth gwybodaeth yn cael ei darparu ar gyfer Arolygiaeth Gofal Cymru gan leoliadau gofal plant neu chwarae sy'n dangos bod 4,188 o blant ag ADY yn hysbys i gynghorau yn 2025. Mae'r data yma'n cynnwys y rhan fwyaf o leoliadau, ond nid pob un.¹
- **Dysgwyr dros oedran ysgol gorfodol:** Mae data ar gyfer ysgolion ac Addysg Heblaw Yn Yr Ysgol yn cynnwys peth gwybodaeth.² Fodd bynnag, er bod data a gyhoeddir ar gyfer sefydliadau addysg bellach yn casglu gwybodaeth am statws anawsterau dysgu neu amhariadau, yn seiliedig ar ddatganiadau dysgwyr, nid yw'r data yma'n ddirprwy uniongyrchol ar gyfer nifer y dysgwyr ag ADY yn y lleoliadau hynny. Ceir data arall sydd heb ei gyhoeddi eto ar ddysgwyr ag ADY mewn addysg bellach (gweler **paragraffau 29 i 32**).

¹ Arolygiaeth Gofal Cymru, [Offeryn Data Hunangofnodedig Gofal Plant a Chwarae](#), 2025

² Dan yr hen system a'r system newydd, yr ysgol a chynghorau sy'n dal i fod yn gyfrifol am berson ifanc ag ADY neu AAA sy'n dal i fod yn yr ysgol ar ôl 16 hyd at 19 oed.

- **Dysgwyr sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref:** Gall y dysgwyr hyn, neu eu rhieni neu ofalwyr, ofyn i'w cyngor benderfynu a oes ganddynt ADY.³ Mae'r cyfrifiad Addysg Heblaw Yn Yr Ysgol blyneddol yn cofnodi data am nifer y dysgwyr y gwyddys eu bod wedi dewis addysg yn y cartref.⁴ Fodd bynnag, efallai nad yw'n gyflawn gan nad oes gofyniad cyfreithiol ar hyn o bryd i rieni hysbysu cynghorau os yw plentyn yn cael addysg ddewisol yn y cartref. Mae cynghorau'n casglu peth data'n lleol am y dysgwyr hyn, gan gynnwys am ADY, ond ni fydd yn cynnwys yr holl ddysgwyr ac nid yw'n cael ei gynhoi'n genedlaethol.

- 13 Hefyd, dengys y ffigyrau dros dro diweddaraf fod 13.7% o bobl 16-24 oed yn rhai Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) yn 2024.⁵ Nid yw'r bobl ifanc hyn, trwy ddiffiniad, yn ddysgwyr; ond efallai y byddai arnynt angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) pe baent yn dychwelyd i addysg neu hyfforddiant. Nid oes data sy'n nodi a yw pobl ifanc Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant yn rhai ag ADY, beth yw eu hanghenion, na pha DDdY fyddai ei hangen pe baent yn dychwelyd i addysg neu hyfforddiant.
- 14 Mae Llywodraeth Cymru yng ngham cyntaf sefydlu set ddata ADY. Mae wedi nodi cynigion i wella data ADY ar gyfer ysgolion a gynhelir a fyddai'n arwain at gasglu rhagor o ddata am anghenion dysgwyr a'r DDdY y mae ei hangen arnynt.⁶ Fodd bynnag, nid yw'r cynigion yn ymdrin yn llawn â'r materion data a amlygir gennym uchod. Er enghraifft, nid ydynt yn cynnwys dysgwyr sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref na'r rhai yn y blyneddoddd cynnar heblaw am feithrinfeydd a gynhelir. Nid ydynt yn cynnwys pobl ifanc Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant ychwaith.
- 15 Mae'r data sydd ar gael ar gyfer ysgolion a lleoliadau Addysg Heblaw Yn Yr Ysgol yn awgrymu bod 48,257 o ddysgwyr wedi'u cofnodi fel rhai a oedd ag ADY neu AAA yn 2024/25 (gweler **Arddangosyn 1**). Mae hyn yn 10% o ddysgwyr yn y lleoliadau hyn.


3 Mae'r Cod ADY yn datgan, os caiff ei ddwyn i'w sylw, bod rhaid i gyngor benderfynu a oes gan ddysgwr ADY. Os yw'n penderfynu bod ganddynt, rhaid i'r cyngor baratoi a chynnal CDU a sicrhau'r ddarpariaeth a ddisgrifir yn y cynllun hwnnw.

4 Llywodraeth Cymru, Disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol: Medi 2024 i Awst 2025, Awst 2025. Yn 2024/25, roedd yn hysbys bod 7,176 o blant a phobl ifanc yn cael addysg ddewisol yn y cartref. Cyfrifir y rhain ar wahân i'r rhai mewn Addysg Heblaw Yn Yr Ysgol.

5 Llywodraeth Cymru, Cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg ac yn y farchnad lafur: 2023 a 2024 (dros dro), Tachwedd 2025

6 Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Y cam cyntaf i gryfhau trefniadau casglu data i fonitro'r system anghenion dysgu ychwanegol (ADY): Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, Chwefror 2026. Ers hynny mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno rheoliadau diwygiedig i gasglu rhagor o ddata am ddysgwyr sy'n cael Addysg Heblaw Yn Yr Ysgol: Llywodraeth Cymru, SL(6)780 - Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol a Phlant sy'n cael eu Haddysg drwy Ddarpariaeth Amgen) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026, Chwefror 2026.

Arddangosyn 1: nifer y dysgwyr ag ADY neu AAA mewn ysgolion a gynhelir, ysgolion annibynnol ac Addysg Heblaw Yn Yr Ysgol, 2024/25




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata gan Lywodraeth Cymru, Disgyblion mewn ysgolion a gynhelir sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig yn ôl sector a blwyddyn, Disgyblion mewn ysgolion annibynnol ag anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig yn ôl blwyddyn, a Disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol

Nodyn: Nid yw niferoedd Addysg Heblaw Yn Yr Ysgol yn cynnwys y rhai sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref. Hefyd, mae'r data Addysg Heblaw Yn Yr Ysgol wedi'i fwriadu i gynnwys y rhai nad ydynt wedi'u cynnwys yn y data ar gyfer ysgolion, ond ceir rhywfaint o ddyblygu posibl.

Mae nifer y dysgwyr ag ADY neu AAA mewn ysgolion a gynhelir wedi mwy na haneru dros y blynyddoedd diwethaf

- 16 Dengys **Arddangosyn 2** fod nifer y dysgwyr ag ADY neu AAA mewn ysgolion a gynhelir wedi gostwng 58% rhwng 2018/19 a 2024/25. Dros yr un cyfnod, fe wnaeth cyfanswm nifer y dysgwyr mewn ysgolion a gynhelir ostwng 1.5% yn unig.

Arddangosyn 2: nifer y dysgwyr ag ADY neu AAA mewn ysgolion a gynhelir, rhwng 2018/19 a 2024/25^{1,2}



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, [Disgyblion mewn ysgolion a gynhelir sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig yn ôl sector a blwyddyn](#)

Nodiadau:

¹ Mae ffigyrau ysgolion yn cynnwys lleoliadau ysgolion a gynhelir ar gyfer dysgwyr hyd at 16 oed, neu 18 oed ar gyfer ysgolion â chweched dosbarth.

² Cyn 2021/22, mae'r data'n ymwneud â'r system AAA yn unig. O 2021/22, mae'r data'n ymwneud â'r systemau ADY ac AAA.

- 17 O fewn y gostyngiad cyffredinol yn nifer y dysgwyr mewn ysgolion a gynhelir ag ADY neu AAA, fe gynyddodd y nifer mewn ysgolion arbennig 27%, o 4,980 yn 2018/19 i 6,310 yn 2024/25. Mae'r niferoedd yn gymharol fach, felly rydym wedi dewis peidio â'u dangos ar wahân yn **Arddangosyn 2**. Fodd bynnag, mae ysgolion arbennig yn bwysig am eu bod yn darparu ar gyfer ystod o anghenion sydd fel arfer yn fwy cymhleth ac na ellir eu diwallu mewn ysgolion prif ffrwd.
- 18 Yn ogystal ag ysgolion arbennig, ceir amryw leoliadau arbenigol mewn ysgolion prif ffrwd i roi cymorth na ellir ei roi mewn ystafell ddosbarth brif ffrwd (gweler **Atodiad 3**). Mae'r ardaloedd, dosbarthiadau neu ystafelloedd arbenigol hyn yn darparu ar gyfer mathau eang o anghenion, gan gynnwys anghenion ac ymddygiad synhwyrdd a/neu gorfforol, ac anghenion datblygu emosiynol a chymdeithasol.
- 19 Nid oes unrhyw ddata cenedlaethol ar faint o ddysgwyr sy'n mynychu'r lleoliadau neu ardaloedd arbenigol hyn oherwydd eu ADY. Nid oes unrhyw ddata ychwaith ar faint o amser y mae dysgwyr yn ei dreulio mewn dosbarthiadau arbenigol, nifer y lleoedd sydd ar gael, na chost y lleoedd hyn yn genedlaethol.
- 20 Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig newidiadau i gasglu data mwy cyflawn a chyson ar ddysgwyr sy'n mynychu dosbarthiadau arbenigol (gweler **troednodyn 6**). Dylai'r wybodaeth hon helpu ysgolion a chynghorau i gynllunio gwasanaethau. Dylai hefyd ddarparu gwybodaeth i helpu i farnu a yw'r system yn cyrraedd nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg gynhwysol.⁷

7 Llywodraeth Cymru, Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r asesiad effaith rheoleiddiol a'r nodiadau esboniadol, Ionawr 2018

Mae'r rhesymau dros y gostyngiad yn nifer y dysgwyr ag ADY mewn ysgolion a gynhelir yn gynhennus, ond mae'r Ddeddf yn golygu bod y nifer sy'n cael cymorth statudol wedi mwy na dyblu

- 21 Fe wnaeth y Ddeddf gyflwyno'r CDU. Fe wnaeth y CDU ddisodli tri chategori graddedig; sef datganiadau statudol yn ogystal â chategoriâu cymorth anstatudol, 'gweithredu gan yr ysgol' a 'gweithredu gan yr ysgol a mwy'. Dylai dysgwyr â chymorth anstatudol fod wedi symud i CDU statudol sy'n nodi eu hanghenion a chymau gweithredu i'w cefnogi erbyn mis Medi 2025, os aseswyd fod ganddynt ADY.
- 22 Cafodd y newid hwn ei groesawu fel budd sylweddol i ddysgwyr. O fis Medi 2025, dylai'r holl ddysgwyr ag ADY fod wedi cael adolygiad blynyddol a llwybr i apelio, rhywbeth nad oedd ond yn berthnasol i ddysgwyr â'r anghenion mwyaf cymhleth a chanddynt ddatganiadau yn flaenorol (gweler **paragraffau 27 a 133**).
- 23 Dywedodd Llywodraeth Cymru y dylai dysgwyr a oedd ag AAA dan yr hen system gael CDU wrth iddynt symud i'r system newydd.⁸ Felly, nid oedd Llywodraeth Cymru'n disgwyl y gostyngiad mewn dysgwyr ag ADY neu AAA a welir yn **Arddangosyn 2**. Bu anghytuno ynghylch y rhesymau dros y gostyngiad. Gallai materion a ddisgrifir gennym yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn fod yn ffactor hefyd (gweler **paragraffau 33 i 41**).
- 24 Awgrymodd Llywodraeth Cymru i ddechrau fod y gostyngiad wedi digwydd oherwydd bod ysgolion yn adolygu eu cofrestrau AAA cyn diwygio'r system ADY, i dynnu enwau dysgwyr oddi arnynt lle nad oeddent yn ystyried bod ganddynt AAA mwyach.⁹ Awgrymodd Llywodraeth Cymru hefyd fod pwyslais y Cwricwlwm newydd i Gymru ar addysg gynhwysol ac addysgu o safon uchel yn golygu y gallai anghenion rhai dysgwyr yr oedd arnynt angen DDdY yn flaenorol gael eu diwallu mewn dosbarthiadau prif ffrwd.
- 25 Rhoddodd adroddiad gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd ystyriaeth i'r pwyntiau hyn.¹⁰ Daeth y Pwyllgor i'r casgliad yr ymddengys fod y gostyngiad yn nifer y dysgwyr ag ADY neu AAA mewn ysgolion 'yn bennaf oherwydd bod llai o blant ag anawsterau neu anableddau dysgu isel i gymedrol yn cael eu dosbarthu fel rhai sydd ag AAA neu ADY'.

8 Llywodraeth Cymru, Rhaglen trawsnewid y system anghenion dysgu ychwanegol: cwestiynau cyffredin, Hydref 2020

9 Llywodraeth Cymru, Llythyr oddi wrth Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd, Medi 2022

10 Senedd Cymru, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Gweithredu diwygiadau addysg: Adroddiad Interim, Gorffennaf 2024

- 26 Cyfeiriodd y Pwyllgor at y duedd yn nifer y dysgwyr ar y cyfan sy'n cael cymorth gweithredu gan yr ysgol neu weithredu gan yr ysgol a mwy, neu â CDU a gynhelir gan ysgolion dan y system newydd.¹¹ Mae'r data diweddaraf hyd at 2024/25 yn dangos y gostyngiad mwyaf mewn niferoedd sy'n dal o dan y system AAA wedi dod o blith y rhai sy'n cael cymorth gweithredu gan yr ysgol neu weithredu gan yr ysgol a mwy. Nid yw CDU a gynhelir gan ysgol yn golygu bod gan ddysgwr lefel benodol o angen.
- 27 Dan y system flaenorol, dim ond dysgwyr â datganiad o AAA oedd â hawl statudol i gymorth a hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau. Fe wnaeth y Ddeddf estyn yr hawliau hyn i'r holl ddysgwyr ag ADY. O ganlyniad, bu cynnydd sydyn yn nifer y dysgwyr â chymorth statudol, naill ai trwy ddatganiad neu CDU.
- 28 Yn 2024/25, roedd gan 34,735 o ddysgwyr mewn ysgolion gymorth statudol, o'i gymharu ag 13,160 yn 2018/19. Roedd hyn yn gynydd o 164%. Yn ystod 2024/25, dylai ysgolion fod wedi gwneud penderfyniadau ADY ynglŷn â'r 9,125 o ddysgwyr a oedd yn cael cymorth trwy weithredu gan yr ysgol neu weithredu gan yr ysgol a mwy, yn ogystal ag unrhyw ddysgwyr a adnabuwyd o'r newydd, i sicrhau, erbyn 1 Medi 2025, bod yr holl ddysgwyr ag ADY yn meddu ar CDU.

Mae nifer y dysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach ag anhawster dysgu neu amhariad a nodwyd ganddynt hwy eu hunain wedi cynyddu ond nid yw hyn yn ddirprwy uniongyrchol ar gyfer ADY

- 29 Erbyn 1 Medi 2025, dylai dysgwyr ag ADY ddechrau coleg â CDU i'w cynorthwyo i bontio, ac eithrio dan amgylchiadau penodedig, megis os ydynt yn aros am benderfyniad ADY neu os nad ydynt yn cydsynio â pharatoi CDU.
- 30 Canfu gwaith gan Estyn yn 2024/25 fod y rhan fwyaf o golegau wedi dweud bod cynnydd wedi bod yn nifer y dysgwyr a oedd yn dechrau coleg ac arnynt angen cymorth ond a oedd naill ai heb gael eu hadnabod yn flaenorol fel dysgwyr ag ADY eu AAA neu a oedd wedi dewis peidio â chael CDU. Dywedodd colegau wrth Estyn fod dysgwyr a oedd yn dod atynt hwy o ddarpariaeth amgen neu Addysg Heblaw Yn Yr Ysgol yn tueddu i beidio â bod â CDU.¹²

11 Llywodraeth Cymru, [Disgyblion mewn ysgolion a gynhelir sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig yn ôl awdurdod lleol, math o ddarpariaeth a blwyddyn](#)

12 Estyn, [Gweithredu agweddau ôl-16 ar Anghenion Dysgu Ychwanegol](#), Tachwedd 2025

- 31 Mae Medr (y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil) yn gweithio i wella ansawdd data a gesglir ar ddysgwyr ag ADY.¹³ Ar hyn o bryd mae data'n cael ei gyhoeddi am nifer y dysgwyr dan 25 ag anhawster dysgu neu amhariad a nodwyd gan y dysgwyr eu hunain. Fodd bynnag, nid yw hyn yn ddirprwy uniongyrchol ar gyfer ADY. Mae gwybodaeth arall am ddysgwyr ag ADY yn cael ei chasglu'n genedlaethol, ond nid yw'r niferoedd wedi cael eu cyhoeddi eto oherwydd pryderon ynghylch ansawdd y data.
- 32 Mae'r data wedi'i gyhoeddi sydd ar gael yn dangos gostyngiad rhwng 2018/19 a 2020/21, ond mae'r nifer wedi cynyddu ers hynny.¹⁴ Yn 2024/25, roedd oddeutu 12,760 o ddysgwyr dan 25 mewn addysg bellach a ddywedodd fod ganddynt anhawster dysgu neu amhariad. Roedd hyn 19% yn uwch nag yn 2018/19, pan oedd oddeutu 10,765 o ddysgwyr o'r fath. Dros yr un cyfnod, fe wnaeth cyfanswm nifer y dysgwyr dan 25 mewn addysg bellach gynyddu 4%.

Mae gan gynghorau ddehongliadau gwahanol o'r diffiniad o ADY, a allai fod yn arwain at ddealltwriaeth anghyson am yr angen


Mae gan gynghorau drothwyon gwahanol ar gyfer penderfynu a oes gan ddysgwyr ADY

- 33 Mae cyfran y dysgwyr ag ADY neu AAA mewn ysgolion a gynhelir yn amrywio'n sylweddol rhwng cynghorau (gweler **Arddangosyn 3**). Ynys Môn oedd â'r gyfran uchaf yn 2024/25 (17.3%). Sir Ddinbych (6.0%) oedd yr isaf yng Nghymru a 9.5% oedd cyfartaledd Cymru.

¹³ Medr yw corff hyd braich newydd Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gyllido a rheoleiddio'r sector addysg drydyddol ac ymchwil.

¹⁴ Llywodraeth Cymru, Dysgwyr mewn addysg bellach, prentisiaethau neu ddysgu cymunedol yn ôl rhanbarth cartref, math o ddarpariaeth a gwybodaeth ddemograffig

Arddangosyn 3: canran y dysgwyr mewn ysgolion a gynhelir ag ADY neu AAA fesul cyngor, 2024/25



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, [Disgyblion mewn ysgolion a gynhelir sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig yn ôl awdurdod lleol, math o ddarpariaeth a blwyddyn](#)

- 34 Mae gwahaniaethau yng nghyfran y dysgwyr ag ADY rhwng cynghorau i'w priodoli, o leiaf yn rhannol, i sut y maent yn dehongli ADY a DDdY. Mae penderfynu a oes gan ddysgwr ADY yn gynhenid oddrychol.

- 35 Yn yr un modd, nid oes diffiniad o ddarpariaeth y trefnir ei bod ar gael yn gyffredinol yn yr ysgol felly nid oes dealltwriaeth gyffredinol am yr hyn sy'n ychwanegol. Mae adroddiad ar ymchwil gan Brifysgol Bryste, mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru, wedi nodi bod DDdY 'yn amrywio'n fawr iawn rhwng ysgolion'. Roedd amrywiadau i'w priodoli'n fwy i'r lle, staffio, ac adnoddau eraill a oedd ar gael yn hytrach nag anghenion dysgwyr.¹⁵
- 36 Fe argymhellodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd y dylai Llywodraeth Cymru adolygu gwahaniaethau rhwng ysgolion wrth farnu pryd y mae cymorth yn DDdY yn hytrach nag addysgu a chymorth rheolaidd yn yr ystafell ddosbarth (gweler **troednodyn 10**). Ym mis Hydref 2024, fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru adolygiad o'r Ddeddf a'r Cod ADY a fyddai, ymhlith materion eraill, yn bwrw golwg ar eglurder a chysondeb y fframwaith deddfwriaethol.
- 37 Ym mis Hydref 2025, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wrth Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd y byddai canllawiau ymarferol ar adnabod a dangos tystiolaeth o ADY ar gael i gynghorau, ysgolion a cholegau erbyn diwedd mis Mawrth 2026. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd y canllawiau i fod i gael eu cyhoeddi ar 27 Mawrth 2026.¹⁶
- 38 Mae gwaith i ddatblygu canllawiau ynghylch yr hyn sy'n gyfystyr â 'darpariaeth sydd ar gael yn gyffredinol' ar y gweill hefyd yn ogystal ag adolygiad o'r Cod ADY. Ni fydd y rhain yn cael eu cwblhau tan yn hwyrach. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu bwrdd cyflawni a gwella ADY i ddarparu goruchwyliaeth gryfach ar welliannau o fis Medi 2025.

15 Prifysgol Bryste, [What should constitute 'Generally Available' Provision in schools in Wales?](#), Ionawr 2025 (Mae PDF ar gael yn ddwyieithog, ond mae'r wefan yn allanol ac yn Saesneg yn unig). Fe arweiniodd yr ymchwil hon at bapur gwaith pellach i helpu i ddeall pa ddarpariaeth ddylai fod ar gael yn gyffredinol: Prifysgol Bryste, [A Model for Inclusive Education in Wales](#), Ebrill 2025.

16 Senedd Cymru, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, [Gweithredu Diwygiadau Addysg](#), Chwefror 2026

Yn groes i fwriadau'r Ddeddf, mae Estyn ac eraill wedi canfod bod rhai dysgwyr yn cael DDdY ond nad oedd ganddynt CDU

- 39 Dylai'r CDU ddisgrifio pob DDdY. Fel o dan yr hen system, dylai ysgolion weithredu ymateb graddedig, fel bod dysgwyr yn cael y lefel isaf o DDdY i ddiwallu eu hanghenion.
- 40 Mae adolygiadau Estyn o weithredu agweddau ar ADY wedi canfod arferion amrywiol, gyda rhai ysgolion yn gweithredu system anffurfiol lle'r oedd rhai dysgwyr yn cael DDdY ond a hwythau heb CDU.¹⁷ Canfu ymchwil gan Brifysgol Bryste fod rhai ysgolion yn gweithredu ymateb graddedig, gyda CDU yn cael eu cadw ar gyfer dysgwyr â'r ADY mwyaf difrifol (gweler **troednodyn 15**). Roedd termau megis 'darpariaeth wedi'i thargedu' a 'darpariaeth arbenigol' wedi cael eu defnyddio yn yr achosion hyn. Nid yw'r Ddeddf a'r Cod ADY yn diffinio'r termau hyn.
- 41 Mae'r categorïau o ddysgwyr sy'n cael DDdY heb CDU yn groes i fwriadau'r Ddeddf ac, os bydd yn parhau, mae'n codi pryderon ynghylch goblygiadau o ran goruchwyliaeth ac adnoddau. Gallai gwaith y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud mewn perthynas ag eglurder a chysondeb y fframwaith deddfwriaethol helpu i ymdrin â'r mater hwn.

Dywedodd rhanddeiliaid wrthym fod anghenion dysgwyr yn dod yn fwy cymhleth, ond nid yw'r dystiolaeth ehangach yn bendant

- 42 Yn ystod ein gwaith maes, dywedodd llawer o bobl wrthym fod y system yn wynebu rhagor o ddysgwyr ag ADY mwyfwy cymhleth. Gall hyn ymddangos fel pe bai'n groes i'r ffaith bod nifer cyffredinol y dysgwyr ag ADY neu AAA mewn ysgolion a gynhelir wedi gostwng yn sydyn (gweler **Arddangosyn 2**).
- 43 Clywsom mai un o effeithiau pandemig COVID-19 fu bod mwy o ddysgwyr ifainc yn profi oedi o ran iaith a lleferydd. Mae nifer y dysgwyr mewn ysgolion a gynhelir ag anawsterau iaith a lleferydd wedi gostwng ers 2018/19 fel rhan o'r gostyngiad cyffredinol mewn dysgwyr ag ADY neu AAA. Fodd bynnag, roedd y rhai â phroblemau iaith a lleferydd yn 36% o ddysgwyr ag ADY neu AAA yn 2024/25 o'i gymharu â 24% yn 2018/19.¹⁸

17 Estyn, [Y system anghenion dysgu ychwanegol newydd: Cynnydd ysgolion ac awdurdodau lleol wrth gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol](#), Medi 2023. Estyn, [Y system anghenion dysgu ychwanegol - Cynnydd ysgolion, lleoliadau ac awdurdodau lleol o ran cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol](#), Rhagfyr 2024.

18 Llywodraeth Cymru, [Adroddiadau o anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion a gynhelir yn ôl math o angen, math o ddarpariaeth a blwyddyn](#)

- 44 Dywedodd llawer o bobl y siaradom ni gyda hwy hefyd fod mwy o ddysgwyr yn wynebu materion iechyd meddwl. Nid yw'r data sydd ar gael yn ein galluogi i farnu a yw hyn yn cynyddu'r galw am DDdY. Mae hyn i'w briodoli'n rhannol i'r ffaith nad oes un categori i gasglu gwybodaeth am ADY y gellir eu priodoli i faterion iechyd meddwl. Dengys y data ostyngiad mawr yn nifer y dysgwyr ag 'anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol', i lawr o 24,995 yn 2018/19 i 14,845 yn 2024/25. Fe ostyngodd nifer y dysgwyr ag 'anawsterau corfforol a meddygol', a allai gynnwys afiechyd meddwl, o 7,290 yn 2018/19 i 3,780 yn 2024/25.
- 45 Nid yw'r dystiolaeth ehangach o gymhlethdod cynyddol yn bendant. Fodd bynnag, ysgolion arbennig sy'n derbyn dysgwyr â'r anghenion mwyaf cymhleth ac mae'r niferoedd wedi bod yn cynyddu (gweler **paragraff 17**). Canfu Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd fod goralw mewn nifer o ysgolion arbennig, a bod rhai cynghorau'n adeiladu mwy o gapasiti (gweler **troednodyn 10**).
- 46 Hefyd, fe wnaeth nifer y dysgwyr yn yr ysgol ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awstistiaeth yn 2024/25 gyrraedd bron i 11,000. Mae hyn 30% yn uwch nag yn 2018/19 ac yn chwarter y dysgwyr ag ADY neu AAA. Mae **Atodiad 2** yn darparu rhagor o fanylion am nifer y dysgwyr â gwahanol anghenion.

Nid oes data cenedlaethol ar amseroedd aros ar gyfer penderfyniadau ADY, ac mae'r cymorth wrth aros yn amrywio

- 47 Mae rhai penderfyniadau ADY yn syml tra bo eraill yn gymhleth, gan gynnwys nifer o sefydliadau. Mae'r Cod ADY yn nodi amryw raddfeydd amser statudol. Er enghraifft, ceir graddfa amser ar gyfer paratoi CDU a gofyniad ar gyfer adolygiad blynyddol.¹⁹
- 48 Roedd gan rai cynghorau y siaradom ni gyda hwy yn ystod ein gwaith maes wybodaeth i nodi pa un a ydynt hwy, neu eu hysgolion, yn cwrdd â graddfeydd amser statudol. Nid yw'r data yma'n cael ei gasglu'n genedlaethol felly nid yw'n bosibl cael darlun llawn o berfformiad ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ynghylch casglu data ar amseroldeb penderfyniadau ac adolygiadau ADY neu beidio. Mae bellach yn cyflwyno newidiadau a fydd yn helpu i fonitro cydymffurfiaeth (gweler **troednodyn 6**).

¹⁹ I ysgolion a chynghorau, y graddfeydd amser ar gyfer paratoi CDU wedi iddo gael ei ddwyn i'w sylw y gall fod gan ddysgwyr ADY yw 35 diwrnod ysgol a 12 wythnos yn y drefn honno. I sefydliadau addysg bellach, y raddfa amser yw 35 diwrnod tymor o'r dyddiad y rhoddodd y dysgwr gydsyniad i wneud penderfyniad am eu ADY posibl.

- 49 Mae'r Cod ADY yn glir y gellir rhoi cymorth cyn penderfyniad ADY ond clywsom nad yw hyn yn digwydd bob amser. Roedd gan gynghorau y siaradom ni gyda hwy wahanol ddulliau; roedd rhai'n ei gwneud yn ofynnol bod penderfyniad ADY wedi cael ei wneud cyn rhoi cymorth tra nad oedd eraill. Dywedodd cyrff sy'n cynrychioli dysgwyr ag ADY wrthym, yn ymarferol, ei bod yn aml yn ofynnol cael penderfyniad ADY cyn y gall dysgwr gael cymorth priodol. Fe awgrymodd arolwg diweddar hefyd fod gan rieni a gofalwyr farn debyg.²⁰
- 50 Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi codi pryderon sy'n deillio o'u gwaith achosion ynghylch diffyg cymorth i rai dysgwyr tra ydynt yn aros am benderfyniad ADY. Mae hyn yn bryder arbennig os yw dysgwyr yn aros am fewnbwn gan y gwasanaeth iechyd gan bod amseroedd aros ar gyfer asesiad neu driniaeth yn gallu bod yn hir.
- 51 Ar gyfer tua dwy ran o dair o'r achosion, mae ar ysgolion angen mewnbwn o rywle arall i benderfynu a oes gan ddysgwr ADY.²¹ Yn ystod ein gwaith maes, fe gododd pobl o ystod o wahanol sefydliadau bryderon ynghylch amseroedd aros lle mae angen mewnbwn ehangach. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, asesiadau lleferydd a chyfathrebu, yn ogystal ag apwyntiadau gyda seicolegydd addysg.
- 52 Amlygodd adolygiad ar y cyd gan arolygwyr yn 2024, er bod amseroedd aros wedi gwella ar gyfer asesiadau Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), fod plant a phobl ifanc yn gallu aros am amser hir i gael triniaeth neu ofal dilynol. Roedd llawer o ymarferwyr yn teimlo bod y trothwy ar gyfer cael mynediad at Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed wedi cynyddu ers dechrau pandemig COVID-19.²²

20 Llywodraeth Cymru, Gwerthusiad o'r System Anghenion Dysgu Ychwanegol: arolwg o rieni a gofalwyr, Hydref 2025

21 Llywodraeth Cymru, Disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig yn ôl sector, darpariaeth a'r lefel o gymorth a ddarparwyd

22 Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Estyn, ac Arolygiaeth Gofal Cymru, Sut mae gwasanaethau gofal iechyd, gwasanaethau addysg a gwasanaethau plant yn cefnogi anghenion iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru?, Tachwedd 2024. Ar gyfer data amseroedd aros, gweler er enghraifft Llywodraeth Cymru, Mesur Iechyd Meddwl Rhan 1: Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol.

- 53 Amlygodd Ymchwil y Senedd y bu problem arbennig gydag amseroedd aros asesiadau'r GIG ar gyfer Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistiaeth neu Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD) hefyd.²³ Nid oedd yr ymchwil honno'n cyfeirio at benderfyniadau ADY nac amseroedd aros ar gyfer adnabod ADY. Fodd bynnag, fe amlygodd fod y diwygiadau ADY i fod i olygu y byddai cymorth yn seiliedig ar anghenion, yn hytrach na bod yn seiliedig ar ddiagnosis, ond nad oedd hyn wastad yn digwydd yn ymarferol.
- 54 Gall amseroedd aros hir annog rhieni a gofalwyr i geisio diagnosisu ac asesiadau preifat. Mae cynghorau ac ysgolion yn amrywio o ran eu hymagwedd at dderbyn adroddiadau preifat, gyda rhai'n mynegi pryderon ynghylch anghydraddoldeb o ran mynediad. Mae GIG Cymru wedi darparu canllawiau ynghylch derbyn diagnosisu preifat, er enghraifft ar gyfer awtistiaeth.²⁴ Nid oes canllawiau tebyg ar gyfer gwasanaethau addysg.

23 Canfu Ymchwil y Senedd fod 16,812 o blant a phobl ifanc yn aros am asesiad Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistiaeth/Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd ym mis Rhagfyr 2023, a oedd yn gynnydd o 87% o'i gymharu â mis Chwefror 2022. Roedd hyn yn seiliedig ar ddata o ymatebion wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Ymchwil y Senedd, Y galw cynyddol am asesiadau ADHD ac awtistiaeth yng Nghymru, Tachwedd 2024.

24 Llywodraeth Cymru, Cod ymarfer ar gyflenwi gwasanaethau awtistiaeth 2021, Tachwedd 2021

Deall capasiti a sgiliau'r gweithlu

Mae data ar y gweithlu ADY yn dameidiog

- 55 I ryw raddau, mae'r holl athrawon mewn ysgolion ac addysg bellach yn addysgu dysgwyr ag ADY. Mae'n anodd amcangyfrif pa gyfran o'u hamser sy'n cael ei threulio ar ddysgwyr ag ADY. Mae'r un peth yn wir am gynorthwywyr addysgu sy'n gallu darparu ymyriadau strwythuredig ar gyfer dysgwyr ag ADY. Ar gyfer ein harchwiliad ni, fe wnaethom ystyried bod y gweithlu ADY yn cynnwys staff sy'n treulio'r rhan fwyaf o'u hamser yn gweithio gyda dysgwyr ag ADY ac yn eu cefnogi, gan gynnwys Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY).
- 56 Mae data ar gael ar y gweithlu mewn lleoliadau gofal a chwarae, ysgolion ac addysg bellach. Mae hyn yn cynnwys peth gwybodaeth am staff ADY ond ceir rhai rhannau o'r gweithlu ADY nad oes gennym unrhyw wybodaeth amdanynt ar lefel genedlaethol.
- 57 Mae gan Arolygiaeth Gofal Cymru beth gwybodaeth am leoliadau gofal plant a chwarae (gweler **troednodyn 1**). Ond mae hon yn seiliedig ar ffurflenni gwirfoddol ac efallai nad yw'n cynrychioli'r sector cyfan.
- 58 Nid oes unrhyw ddata cenedlaethol ar nifer y staff ADY a gyflogir yn uniongyrchol gan gynghorau ychwaith. Mae staff o'r fath yn cynnwys athrawon arbenigol, seicolegwyr addysg a swyddi statudol megis Swyddogion Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar (SAADYBC).
- 59 Y data gorau ar y gweithlu sydd gennym yw cyfrifiad blynyddol y gweithlu ysgolion sy'n disgrifio nifer y staff mewn ysgolion a gyflogir yn bennaf neu'n gyfan gwbl i gefnogi dysgwyr ag anghenion corfforol, cymdeithasol neu emosiynol. Roedd 2,810 o staff cymorth ADY cyfwerth ag amser llawn yn cael eu cyflogi fel cynorthwywyr addysgu neu mewn swyddi tebyg yng Nghymru yn 2024/25.²⁵
- 60 Nid yw cyfrifiad blynyddol y gweithlu ysgolion yn gwahaniaethu rhwng athrawon sy'n bennaf neu ddim ond yn addysgu dysgwyr ag ADY. Fodd bynnag, yn 2024/25, cafodd 1,905 o athrawon amser llawn neu ran-amser (6.6%) lwfans ADY a oedd yn £3,038 ar gyfartaledd.²⁶

25 Llywodraeth Cymru, [Staff cymorth yn ôl mesur \(cyfwerth â pherson llawn \(FPE\) a chyfwerth ag amser llawn \(FTE\)\) a chategori staff](#)

26 Llywodraeth Cymru, [Nifer o athrawon wedi derbyn lwfans yn ôl awdurdod lleol a math o lwfans; a Lwfans cyfartalog \(cymedr a chanolrif\) wedi'u derbyn yn ôl awdurdod lleol a math o lwfans](#). Mae lwfansau ADY yn amrywio ac fe'u telir yn ôl disgresiwn llywodraethwyr i'r rhai ar y brif raddfa gyflogau athrawon dan amgylchiadau penodedig, gan gynnwys swyddi lle mae cymhwyster ADY yn ofynnol neu swyddi addysgu mewn lleoliadau penodol.

Ceir heriau o ran recriwtio a chadw staff cymorth

- 61 Yn ystod ein gwaith maes, dywedodd llawer o bobl wrthym am anawsterau recriwtio a chadw cynorthwywyr addysgu. Mae nifer y cynorthwywyr addysgu a gyflogir wedi gostwng dros y blynnyddoedd diwethaf a gall staff cymorth ADY wynebu ansicrwydd swydd os yw eu swydd ynghlwm wrth ddysgwr penodedig.
- 62 Cynghorau sy'n pennu telerau ac amodau ar gyfer staff cymorth, ac mae'r rhain yn amrywio ledled Cymru. Mae pryderon megis cyflog isel ar gyfer staff cymorth addysg yn berthnasol yn fwy eang. Clywsom fod rhai cynorthwywyr addysgu'n gadael ar gyfer swyddi sydd i'w gweld yn rhai â llai o straen ond sydd â'r un cyflog neu gyflog gwell. Gallai trosiant staff fod yn cael effaith fwy ar ddysgwyr ag ADY sydd ag anghenion cymorth penodol ac sy'n meithrin perthnasoedd agos â'u staff cymorth. Mae Medr wedi nodi bod pryderon hefyd ynghylch y cyflenwad o staff mewn addysg bellach, yn anad dim o ran cymorth i fyw'n annibynnol.

Ceir ansicrwydd ynghylch argaeledd athrawon arbenigol i ddysgwyr sy'n fyddar, ag amhariad ar y golwg neu ag amhariad amlsynnwyr

- 63 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n fyddar, ag amhariad ar y golwg neu ag amhariad amlsynnwyr yn mynychu ysgolion prif ffrwd. Nid oes data cenedlaethol a gesglir yn rheolaidd i ddangos faint o athrawon y dysgwyr hyn a gyflogir gan ysgolion a chynghorau.
- 64 Canfu ymchwil yn 2024/25 fod 62.1 o athrawon cyfwerth ag amser llawn i ddysgwyr byddar yng Nghymru a 26.7 o staff cymorth arbenigol cyfwerth ag amser llawn. Roedd y rhan fwyaf o athrawon yn gweithio'n beripatetig neu yn un o'r 19 o unedau dynodedig ar gyfer dysgwyr byddar. Mae llwyth achosion gwasanaethau ar gyfer dysgwyr byddar yn amrywio'n sylweddol.²⁷
- 65 Canfu adroddiad a oedd yn tynnu ar geisiadau Rhyddid Gwybodaeth I bob cyngor fod 36.5 o athrawon cymwysedig cyfwerth ag amser llawn i ddysgwyr sydd ag amhariad ar y golwg ac amhariad amlsynnwyr ar draws y 22 o gynghorau. Roedd gan y rhan fwyaf gymhwyster arbenigol neu roeddent wrthi'n hyfforddi. Roedd 38.2 o gynorthwywyr addysgu neu staff cymorth arbenigol cyfwerth ag amser llawn hefyd. Eto, roedd y llwyth achosion cyfartalog fesul athro/athrawes yn amrywio²⁸

27 Consortium for Research in Deaf Education, [Adroddiad 2025 i Gymru – Darpariaeth addysg i blant byddar yng Nghymru yn 2024/25](#), Rhagfyr 2025

28 Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall (RNIB) Cymru, [Darpariaeth Addysg i Blant a Phobl Ifanc â Nam ar y Golwg yng Nghymru \(2025\)](#), Awst 2025

- 66 Yn ystod ein gwaith maes, mynegodd nifer o bobl bryderon ynghylch hyfforddiant ar gyfer athrawon arbenigol i ddysgwyr sy'n fyddar, ag amhariad ar y clyw ac amhariad amlsynnwyr. Yn wahanol i Loegr, nid oes ar yr athrawon hyn yng Nghymru angen cymhwyster arbenigol yn ychwanegol at eu statws athro cymwysedig. Hefyd, nid oes cyrsiau hyfforddi athrawon arbenigol yng Nghymru. Canfu'r ddau adroddiad a ddisgrifir uchod niiferoedd isel o swyddi gwag, ond clywsom bryderon ynghylch y gallu i ddod o hyd i staff yn lle'r rhai sy'n nesáu at oed ymddeol neu i recriwtio athrawon sy'n gallu gweithio yn Gymraeg neu laith Arwyddion Prydain.
- 67 Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â hyfforddiant ac argaeledd athrawon i ddysgwyr sy'n fyddar, ag amhariad ar y golwg ag amhariad amlsynnwyr, yn ogystal ag aelodau eraill o staff arbenigol yn ei Chynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg mewn Ysgolion. Nid oedd y cynllun hwnnw wedi cael ei gyhoeddi ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Mae Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid i'r holl Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol ddod yn rhan o uwch dimau rheoli ysgolion

- 68 Fe gyflwynodd y Ddeddf rôl newydd ac estynedig mewn ysgolion, sef y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY). Fe wnaeth hyn ddisodli rôl y Cydlynnydd Anghenion Addysgol Arbennig (CAAA) o fis Ionawr 2021.
- 69 Mae gan y CADY gyfrifoldeb strategol i sicrhau bod anghenion yr holl ddysgwyr ag ADY yn cael eu diwallu. Mae Estyn wedi canfod, er bod y rhan fwyaf o CADY yn ymrwymedig i'w rôl, bod gan lawer rolau addysgu neu arwain eraill a'u bod wedi dweud nad oedd ganddynt ddigon o amser ar gyfer eu dyletswyddau (gweler **troednodyn 17**).
- 70 Fe ffurfiodd Llywodraeth Cymru grŵp gorchwyl a gorffen i fwrw golwg ar delerau ac amodau CADY.²⁹ Fe awgrymodd y grŵp y dylai CADY fod yn rhan o uwch dîm rheoli ysgol a chael cydnabyddiaeth ariannol sy'n cyfateb i hynny. Fe gefnogodd Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru'r farn honno yn ddiweddarach ac fe argymhellodd fod Llywodraeth Cymru'n gwneud ymchwil i bennu amser digyswllt priodol ar gyfer CADY.³⁰

29 Llywodraeth Cymru, Grŵp gorchwyl a gorffen CADY: adroddiad i Weinidog y Gymraeg ac Addysg, Chwefror 2024

30 Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru, Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru: Pumed Adroddiad - 2024, Mehefin 2024

- 71 Yn 2024/25, roedd 67% o'r CADY mewn ysgolion yn cael eu cyflogi ar raddau islaw'r pennaeth cynorthwyol, y dirprwy bennaeth neu'r pennaeth.³¹ Dywedodd swyddogion cynghorau y siaradom ni gyda hwy, er eu bod yn croesawu'r teimlad y dylai CADY fod yn rhan o'r uwch dîm arwain, eu bod yn pryderu ynghylch y gost ychwanegol.
- 72 Ym mis Chwefror 2026, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai'n newid telerau ac amodau CADY i gydnabod eu rôl arwain strategol fel rhan o uwch dimau arwain ysgolion.³² Roedd wedi dyrannu £5 miliwn i gynghorau yn 2024-25 a £2.3 miliwn yn 2025-26 i baratoi a rhoi cymorth i symud CADY i'r raddfa gyflog arweinyddiaeth. O 2026-27, bydd £4 miliwn yn cael ei gynnwys yng nghyllid craidd cynghorau – y grant cynnal referniw – i gydnabod y gost ychwanegol hon.

Ceir problemau gyda staffio ac adnoddau dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg

- 73 Roedd y Ddeddf wedi'i bwriadu i greu system ddwyieithog. Rhaid i wasanaethau ystyried a oes ar ddysgwr angen DDdY yn y Gymraeg a rhaid cymryd 'pob cam rhesymol' i sicrhau'r ddarpariaeth honno.
- 74 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg bob pum mlynedd. Rhaid cyhoeddi'r adolygiad cyntaf erbyn 1 Medi 2026, bum mlynedd ar ôl dechrau gweithredu'r diwygiadau ADY. Mae'r adolygiad yn mynd rhagddo, ond nid oes darlun cenedlaethol llawn o'r ddarpariaeth ADY sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd.
- 75 Daeth adroddiad yn 2023 gan Gomisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Plant Cymru i'r casgliad bod cryn dipyn o ffordd i fynd i wireddu system ADY ddwyieithog.³³ Dywedodd yr adroddiad fod 'tystiolaeth ddiamwys fod nifer sylweddol o ddisgyblion cyfrwng Cymraeg naill ai yn derbyn cefnogaeth drwy gyfrwng y Saesneg, neu ddim yn derbyn y gefnogaeth y mae arnynt ei hangen yn llawn'. Yn ystod ein gwaith maes, clywsom am achosion lle nad oedd dysgwyr ag ADY mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cael cymorth yn Gymraeg.

31 Llywodraeth Cymru, [Cyddlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol \(ADY\) yn ôl categori staff a sector](#)

32 Llywodraeth Cymru, [Datganiad Ysgrifenedig: Gorchymyn Cyflog yn ymwneud â rhoi cyflog ac amodau arweinwyr i Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol](#), Chwefror 2026

33 Comisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Plant Cymru, [Y Gymraeg yn y Gyfundrefn Anghenion Dysgu Ychwanegol](#), Mehefin 2023

- 76 Fe wnaeth Llywodraeth Cymru benodi Arweinydd Gweithredu Cenedlaethol (Iaith Gymraeg) fel un o nifer o swyddi i gefnogi'r broses o ddiwygio'r system ADY. Yn ystod gwaith maes, clywsom fod y penodiad hwn wedi cael ei groesawu'n fawr.³⁴ Fe wnaeth adroddiad heb ei gyhoeddi yn 2025 ar gymorth ADY mewn ysgolion Cymraeg a baratowyd gan ddeiliad y swydd honno amlygu meysydd a oedd yn achosi pryder gan gynnwys argaeledd hyfforddiant yn y Gymraeg ar gyfer staff ADY ac aelodau eraill o staff.³⁵
- 77 Mae data gan Lywodraeth Cymru'n awgrymu bod 80% o staff cymorth sy'n gweithio mewn ysgolion Cymraeg wedi asesu bod ganddynt sgiliau iaith uwch neu hyfedr.³⁶ Fodd bynnag, gall cynghorau mewn rhai ardaloedd yng Nghymru ei chael hi'n anodd cyflogi seicolegwyr ac athrawon arbenigol sy'n siarad Cymraeg hyd yn oed lle maent yn gallu darparu DDdY yn Gymraeg.
- 78 Ceir ystod o leoliadau mewn ysgolion prif ffrwd, ysgolion arbennig a darpariaeth amgen lle gall dysgwyr ag ADY gael cymorth (gweler **Atodiad 3**). Nid yw lefel y ddarpariaeth Gymraeg ar y cyfan a nifer y dysgwyr sy'n cael cymorth yn Gymraeg yn y lleoliadau hyn yn hysbys ar hyn o bryd, er bod Llywodraeth Cymru'n casglu peth data perthnasol.
- 79 Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bwlch mewn adnoddau dysgu yn y Gymraeg yn gyffredinol. Sefydlodd Adnodd yn 2023 fel cwmni a berchnogir yn llawn i gomisiynu adnoddau dwyieithog sy'n cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru.
- 80 Dangosodd ymchwil gychwynnol Adnodd ddiffyg adnoddau cynhwysol, addas ar gyfer dysgwyr ag ADY a grwpiau eraill.³⁷ Mae Adnodd yn gweithio gyda Chyngor Llyfrau Cymru i ddatblygu cynllun darllen Cymraeg i ddysgwyr ag ADY sy'n 7-12 oed.³⁸ Mae'r cynllun i fod i gael ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2027.

34 Yn yr un modd, ac er nad yn benodol i'r Gymraeg, clywsom hefyd fod penodi Arweinydd Trawsnewid ADY ar gyfer Addysg Bellach wedi cael ei groesawu'n fawr hefyd.

35 Adroddiad heb ei gyhoeddi gan yr Arweinydd Gweithredu ADY (Iaith Gymraeg), Y gweithlu a dysgu proffesiynol ADY cyfrwng Gymraeg, Mai 2025

36 Llywodraeth Cymru, Gallu yn y Gymraeg staff cymorth yn ôl awdurdod lleol

37 Adnodd, Ymchwil: Sut mae pobl yn dod o hyd i adnoddau addysgol yng Nghymru ac yn eu defnyddio, Mai 2025

38 Elusen a ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru yw Cyngor Llyfrau Cymru.

- 81 Bu problemau hirdymor gydag argaeledd asesiadau a phrofion diagnostig yn y Gymraeg. Yn 2024, fe gyllidodd Llywodraeth Cymru ymchwil i ddatblygu profion Cymraeg newydd sy'n mesur sgiliau darllen ac ysgrifennu dysgwyr.³⁹ Mae disgwyl bellach i'r rhain fod ar gael yn gynnar yn haf 2026 ar gyfer y rhai 11-17 oed. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu profion ar gyfer dysgwyr iau.
- 82 Clywsom am ddysgwyr cyfrwng Cymraeg yn cael asesiadau yn Saesneg. Mae Llywodraeth Cymru'n cyllido 10 lle bob blwyddyn i hyfforddi fel seicolegydd addysg. Bellach rhaid bod o leiaf dri o'r lleoedd hyn ar gyfer siaradwyr Cymraeg rhugl neu fyfyrwyr a fyddai'n gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg erbyn yr amser y byddant yn graddio. Amser a ddengys a fydd y cymorth hwn yn helpu i leihau amseroedd aros.

³⁹ Mae hyn yn cyfeirio at gasgliad o naw prawf sy'n mesur perfformiad dysgwyr yn erbyn sampl gynrychiolaidd neu grŵp cymheiriaid.

Deall costau

Mae gennym bryderon ynghylch cynaliadwyedd gwariant cyngorau ar ADY, a cheir diffyg tryloywder ynghylch cyfanswm gwariant

Mae cyllidebau refeniw cyngorau ar gyfer ADY yn cynyddu'n fwy sydyn na'u cyllidebau addysg ehangach


- 83 Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru'n darparu grant cynnal refeniw ac ardrethi busnes wedi'u hailddosbarthu i bob cyngor i roi cymorth i ddarparu gwasanaethau. Cyfrifir y grant cynnal refeniw gan ddefnyddio fformiwla gymhleth sydd wedi'i bwriadu i sicrhau ei fod yn cael ei ddosbarthu'n deg, gan adlewyrchu anghenion gwario perthynol cyngorau. Mae'r fformiwla hefyd yn cynnwys tybiaethau ynglŷn â faint o refeniw ychwanegol y mae cyngorau'n ei gael o'r dreth gyngor. Gall cyngorau gael incwm o ffynonellau eraill hefyd.
- 84 Mae'r fformiwla'n cynnwys swm tybiannol ar gyfer addysg arbennig, ond nid targed gwariant yw hwn ac nid yw'n cynnwys pob cymorth ar gyfer ADY.⁴⁰ Gall cyngorau ddyrannu mwy neu lai na'r swm tybiannol fel rhan o'u gwariant ehangach ar ADY. Ar gyfer 2025-26, roedd y dyraniad tybiannol ar y cyfan gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addysg arbennig yn £398 miliwn. Fe gyllidebodd cyngorau £668 miliwn ar gyfer gwasanaethau ADY ar y cyfan.
- 85 Mae cyngorau'n defnyddio gwahanol fformiwlâu i bennu eu cyllidebau refeniw ar gyfer ADY.⁴¹ Mae hyn, ynghyd â ffactorau eraill gan gynnwys galw sy'n amrywio, yn arwain at amrywiad sylweddol mewn cyllidebau ADY fesul disgybl. Ar gyfer 2025-26, Merthyr Tudful oedd â'r gyllideb ADY fwyaf fesul disgybl, sef £2,258, a Rhondda Cynon Taf oedd â'r lleiaf, sef £1,086. Mae ein hofferyn data'n rhoi rhagor o fanylion yr amrywiannau dros amser.

40 Rydym yn archwilio trefniadau cyllido llywodraeth leol ar hyn o bryd, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â'r fformiwla ar gyfer y grant cynnal refeniw, fel rhan o adolygiad ar wahân.

41 Llywodraeth Cymru, Adolygiad o'r fformiwla cyllido ysgolion, Chwefror 2025

- 86 Mae **Arddangosyn 4** yn dangos, rhwng 2018-19 a 2025-26, bod cyllidebau refeniw cyngorau ar gyfer gwasanaethau ADY neu AAA wedi cynyddu o £381 miliwn i £668 miliwn. Mae hyn yn gynydd o 75% yn nhermau arian parod ac yn gynydd o 34% mewn termau real.⁴² Digwyddodd hyn er gwaethaf y gostyngiad sydyn yn nifer y dysgwyr mewn ysgolion a gynhelir a adnabuwyd fel rhai ag ADY neu AAA (gweler **Arddangosyn 2**). Fodd bynnag, mae angen ystyried y cynnydd hwn mewn cyllidebau yng nghyd-destun y cynnydd yn nifer y dysgwyr â chymorth statudol (gweler **paragraff 28**) a'r niferoedd cynyddol mewn ysgolion arbennig (gweler **paragraff 17**) hefyd.

Arddangosyn 4: cyllidebau refeniw cyngorau ar gyfer gwasanaethau ADY neu AAA, rhwng 2018-19 a 2025-26



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth Cymru, [Gwariant sydd wedi'i gyllidebu ar gyfer darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig](#)

- 87 Mae cyllidebau ADY cyngorau wedi bod yn cynyddu'n gyflymach na'u cyllidebau addysg ehangach, gan olygu bod ADY yn gyfrifol am gyfran fwy. Fe wnaeth cyllidebau gwariant refeniw net cyngorau ar gyfer addysg ar y cyfan gynyddu o £2.3 biliwn i £3.3 biliwn rhwng 2018-19 a 2025-26. Mae hyn yn gynydd o 45% yn nhermau arian parod ac yn gynydd o 11% mewn termau real.⁴³

42 Mae ffigyrau mewn termau real wedi'u haddasu i ystyried chwyddiant gan ddefnyddio gwybodaeth gan Drysorlys EF, [datchwyddyddion cynnyrch domestig gros ar brisiau'r farchnad, a datchwyddyddion cynnyrch domestig gros ar sail arian](#), Mawrth 2026.

43 Llywodraeth Cymru, [Gwariant a gyllidebwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion](#), Gorffennaf 2025. Nid yw cyllidebau addysg refeniw net yn cynnwys gwariant a gyllidir â grantiau penodol gan y Llywodraeth. Mae'r data'n cynnwys gwariant sy'n ymwneud ag ysgolion a gwariant arall.

Ceir diffyg tryloywder ynghylch faint o'r cyllidebau ADY a ddyrennir iddynt y mae ysgolion prif ffrwd yn ei wario ar DDdY a'r hyn y caiff yr arian hwnnw ei wario arno

88 Mae cyllidebau refeniw ADY cynghorau mewn dwy ran:

- **Cyllideb ddirprwyedig** – y mae cynghorau'n ei dosbarthu i ysgolion prif ffrwd ac arbennig. Yn 2025-26, roedd 40% o gyllideb refeniw ADY cynghorau'n cael ei ddyrannu i ysgolion prif ffrwd a 29% i ysgolion arbennig.
- **Cyllideb annirprwyedig** – a gedwir gan gynghorau ar gyfer gwasanaethau canolog, gan gynnwys staff a gyflogir yn ganolog, fel a ddisgrifir ym **mharagraff 58**. Roedd hyn yn rhoi cyfrif am y 31% sy'n weddill o gyllidebau refeniw ADY cynghorau yn 2025-26.

89 Mae cynghorau'n amrywio o ran lefel y cyllid y maent yn ei ddirprwyo a'r gwasanaethau canolog y maent yn eu darparu, er enghraifft a ydynt yn cyllido unedau cyfeirio disgyblion neu unedau arbenigol ADY yn ganolog. Yn 2025-26, Cyngor Sir Ddinbych wnaeth ddirprwyo'r gyfran fwyaf o'i gyllideb ADY ar y cyfan i ysgolion, sef 84%. Merthyr Tudful wnaeth ddirprwyo'r gyfran leiaf, sef 49%.⁴⁴

90 Mae Llywodraeth Cymru'n ei gwneud hi'n ofynnol i gynghorau adrodd ar eu gwariant gwirioneddol mewn perthynas â chyllidebau refeniw annirprwyedig a chyllidebau refeniw dirprwyedig mewn ysgolion arbennig. Nid oes angen i gynghorau adrodd ar eu gwariant mewn perthynas â chyllidebau ADY refeniw ysgolion mewn ysgolion prif ffrwd.

91 Y tu hwnt i hyn, ceir bylchau mewn dealltwriaeth am lefel y staffio a gwasanaethau ychwanegol y mae cyllidebau ADY yn darparu ar eu cyfer mewn ysgolion prif ffrwd. Gall y cyllidebau hyn gyllido ystod eang o bethau, megis staff arbenigol, hyfforddiant, asesiadau dysgwyr, a chefnogi anghydfodau ac achosion yn y tribiwnlys. Yn rhannol, fe achosir y bylchau hyn gan anghysondeb o ran yr hyn a ddosberthir fel gwariant ADY, y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gydnabod.

92 Nid oes ar Lywodraeth Cymru eisiau gorchymyn sut y mae cynghorau'n gwario eu cyllid. Mae hefyd yn pryderu y byddai adroddiadau blynyddol ar wariant refeniw ADY mewn ysgolion prif ffrwd yn golygu bod angen newidiadau sylfaenol i systemau ariannol ysgolion a diffiniadau eglur. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa gyfredol yn golygu ei bod hi'n aneglur faint y mae ysgolion prif ffrwd yn ei wario ar ADY ar y cyfan ac ar wahanol bethau, a ydynt yn tanwario neu'n gorwario, neu faint y mae gwariant yn amrywio rhwng ysgolion.

44 Llywodraeth Cymru, Gwariant sydd Wedi'i Gyllidebu ar gyfer darpariaeth Anghenion Addysgu Arbennig (AAA) ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY): Ebrill 2025 i Fawrth 2026, Mehefin 2025

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod cyllid ADY cynghorau'n gymhleth ac yn bwriadu ei wneud yn fwy tryloyw

- 93 Yn 2019, fe wnaeth Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd argymhellion i wella'r ffordd y mae cyllid i ysgolion yn cael ei ddosbarthu.⁴⁵ Yn gynnar yn 2025, fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganfyddiadau o'i hadolygiad ei hun o'r fformiwla cyllido ysgolion (gweler **troednodyn 41**).
- 94 Fe argymhellodd adolygiad Llywodraeth Cymru y dylai cyllid ADY fod yn ffrwd gyllido ar ei phen ei hun o fewn y gyllideb ddirprwyedig ar y cyfan ar gyfer ysgolion prif ffrwd. Dywedodd yr adolygiad y byddai hyn yn ei gwneud hi'n gliriach bod cyllid ADY yn rhan o'r gyllideb brif ffrwd ar y cyfan ac yn goleuo'r drafodaeth ynglŷn â'r lefelau priodol a defnydd priodol o gyllid ADY.
- 95 Yn 2025, fe ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ynghylch argymhellion yr adolygiad. Mae crynodeb Llywodraeth Cymru o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn dynodi cydnabyddiaeth ehangach y byddai'r newidiadau a ddisgrifiwyd yn darparu gwybodaeth fwy cyson, cymaradwy a thryloyw, gan alluogi unrhyw anghydraddoldebau i gael eu hadnabod a'u herio'n haws.⁴⁶ Fodd bynnag, amser a ddengys a fydd y newidiadau arfaethedig yn ymdrin â'r materion a godir gennym ni ym **mharagraffau 91 i 92**.

Mae'r data sydd ar gael yn dangos bod gwarant cynghorau ar wasanaethau ADY wedi cynyddu ymhell y tu hwnt i chwyddiant ers 2018-19


- 96 Rydym wedi gwneud sylwadau'n flaenorol bod gwasanaethau ADY yn bwysau allweddol o ran costau i ysgolion.⁴⁷ Mae **Arddangosyn 5** yn dangos ein dadansoddiad ni o'r data sydd ar gael ar wariant cynghorau ar wasanaethau ADY neu AAA. Rhwng 2018-19 a 2024-25, fe wnaeth gwarant annirprwyedig ar wasanaethau ADY neu AAA a gwarant mewn ysgolion arbennig gynyddu ar y cyfan o £226.8 miliwn i £376.5 miliwn. Mae hyn yn gynydd o 66% yn nhermau arian parod ac yn gynydd o 31% mewn termau real. Mae ein hofferyn data ni'n darparu rhagor o fanylion ar gyfer cynghorau unigol.

45 Senedd Cymru, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cyllido Ysgolion yng Nghymru, Gorffennaf 2019

46 Llywodraeth Cymru, Rheoliadau Cyllido Ysgolion, Datganiadau Cyllideb a Datganiadau Alldro (Cymru) 2026 – crynodeb o'r ymatebion, Tachwedd 2025

47 Archwilio Cymru, Cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol, Rhagfyr 2024

Arddangosyn 5: gwariant annirprwyedig cyngorau ar wasanaethau ADY neu AAA a'u gwariant mewn ysgolion arbennig rhwng 2018-19 a 2024-25



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth Cymru, [Gwariant referniw alldro addysg, yn ôl awdurdod a gwasanaeth](#)

Nodyn: Nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys gwariant alldro dirprwyedig mewn ysgolion prif ffrwd, nad adroddir arno ar wahân.

- 97 Fel gyda'r duedd mewn cyllidebau (gweler **paragraff 87**), mae gwariant ar ADY wedi cynyddu'n fwy sydyn na gwariant net ar y cyfan ar addysg. Mae angen i'r cynnydd mewn gwariant mewn ysgolion arbennig gael ei ystyried yng nghyd-destun y cynnydd yn y dysgwyr mewn ysgolion arbennig dros yr un cyfnod (gweler **paragraff 17**).
- 98 Er mwyn rhoi cyd-destun, fe wnaeth gwariant ar wasanaethau addysg ar y cyfan gynyddu o £2.7 biliwn yn 2018-19 i £3.9 biliwn yn 2024-25. Roedd hyn yn gynydd o 45% yn nhermau arian parod ac yn gynydd o 14% mewn termau real.
- 99 Clywsom bryderon yn ystod ein gwaith maes ynghylch y duedd gynyddol mewn gwariant ar ADY. Roedd tystiolaeth ddiweddar a gyflwynwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i Bwyllgor Cyllid y Senedd yn adleisio hyn.⁴⁸ Roedd yn dweud bod costau ADY wedi bod yn codi o un flwyddyn i'r llall a'u bod yn anghynaliadwy heb fwy o gyllid canolog.

48 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, [Ymateb i ymgynghoriad Pwyllgor Cyllid y Senedd ynghylch cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27](#), Medi 2025

Mae costau cludiant rhwng y cartref a'r ysgol neu'r coleg yn sylweddol ond tybir eu bod y tu allan i ffigyrau swyddogol gwariant ar ADY

- 100 Mae'r Cod ADY yn datgan y dylid cofnodi gofynion teithio ar y CDU os yw lleoliad yn dibynnu ar gludiant. Gallai hyn fod, er enghraifft, i ysgol benodol, a all fod yn wahanol i'r ysgol leol, neu am nad yw dysgwr yn gallu teithio'n annibynnol.
- 101 Yn ystod ein gwaith maes, clywsom fod cynghorau'n wynebu costau cludiant cynyddol ar gyfer dysgwyr ag ADY neu AAA. Roedd hyn yn cael ei briodoli'n bennaf i'r ffaith bod mwy o ddysgwyr ag anghenion cymhleth a bod mwy yn mynychu ysgolion arbennig, yn ogystal â phwysau cyffredinol megis costau tanwydd a staff cynyddol.
- 102 Tybir bod y cyllidebau refeniw ADY yr adroddwyd arnynt ar gyfer cynghorau, a ddisgrifir ym **mharagraffau 83 i 87**, yn rhai heb gynnwys costau cludiant rhwng y cartref a'r ysgol, er bod adborth yr ydym ni wedi'i gael wedi awgrymu efallai nad yw hyn yn fater syml. Ar y cyfan, fe gynyddodd cyllidebau cludiant rhwng y cartref a'r ysgol cynghorau o £112.7 miliwn yn 2018-19 i £206.2 miliwn yn 2025-26.⁴⁹ Mae hyn yn gynnydd o 83% yn nhermau arian parod ac yn gynnydd o 40% mewn termau real.
- 103 Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi canfod bod oddeutu dwy ran o dair o'r gwariant ar gludiant yn Lloegr yn wariant ar gyfer cludo plant ag AAAA.⁵⁰ Byddai cymhwyso'r gyfran honno i Gymru'n awgrymu y gall y gost wedi'i chyllidebu ar gyfer cludo dysgwyr ag ADY neu AAA fod oddeutu £137 miliwn yn 2025-26. Ni allwn fod yn siŵr pa mor agos yw hyn at y gost wirioneddol.
- 104 Mae cynghorau hefyd yn cyllido cludiant rhwng y cartref a'r ysgol ar gyfer rhai dysgwyr mewn addysg ôl-orfodol. Mae cryn dipyn o'r gwariant hwn yn debygol o ymwneud â dysgwyr ag ADY am bod yr amgylchiadau sy'n peri i gynghorau ddarparu cludiant am ddim mewn addysg ôl-orfodol yn gyfyngedig.⁵¹ Roedd gwariant a gyllidebwyd ar gludiant rhwng y cartref a'r coleg yn 2025-26 yn £11.1 miliwn.⁵² Mae Medr wedi nodi y gall costau cludiant fod yn rheswm pam fod dysgwyr yn ymgeisio am gymorth ariannol arall sydd ar gael hefyd.

49 Daw data ar gyfer 2024-25 a 2025-26 o set ddata Llywodraeth Cymru Gwariant refeniw addysg a gyllidebwyd yn ôl awdurdod a gwasanaeth. Darparodd Llywodraeth Cymru ddata ar ein cyfer ar gyfer blynyddoedd blaenorol.

50 National Audit Office, Home to School Transport, Hydref 2025

51 Mae'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a chanllawiau dilynol yn darparu'r fframwaith ar gyfer penderfyniadau am gludiant rhwng y cartref a'r ysgol/coleg a gyllidir gan gynghorau.

52 Llywodraeth Cymru, Gwariant refeniw addysg a gyllidebwyd yn ôl awdurdod a gwasanaeth

- 105 Yn ogystal â chostau cludiant, mae Llywodraeth Cymru wedi amlygu bod cynnydd yng nghymhlethdod ac amrywiaeth ADY neu AAA wedi gwasgaru gwariant ar draws mwy o wasanaethau a chyllidebau. Mae hyn yn golygu y bydd gwariant arall gan gynghorau ar ADY nad yw'n cael ei feintoli ar hyn o bryd.


Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynlluniau yn ddiweddar i gynyddu buddsoddiad cyfalaf mewn darpariaeth ADY yn sylweddol

- 106 Ers 2022-23, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn darparu grant buddsoddi cyfalaf wedi'i neilltuo i ADY ar gyfer cynghorau. Rhwng 2022-23 a 2024-25, fe wariodd Llywodraeth Cymru £58.6 miliwn trwy'r grant hwn. Yn 2025-26, fe estynnodd Llywodraeth Cymru'r grant i addysg bellach, gyda dyraniad o £5 miliwn ar ben ei dyraniad o £20 miliwn i gynghorau.⁵³ Mae eto wedi dyrannu £20 miliwn i gynghorau a £5 miliwn i addysg bellach ar gyfer 2026-27. Mae Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid o 100% ar gyfer prosiectau trwy'r grant hwn.
- 107 Mae Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru wedi bod o fudd i ddysgwyr ag ADY hefyd.⁵⁴ Rhwng 2018-19 a 2024-25, fe wariodd Llywodraeth Cymru £137 miliwn ar gynlluniau penodol ar gyfer ADY. Dyrannodd £63.5 miliwn arall ar gyfer 2025-26. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud wrthym ni bod cyfanswm cyfraniadau cynghorau at y cynlluniau hyn yn £75 miliwn.
- 108 Mae **Arddangosyn 6** yn manylu ar wariant ar gyfer y ddwy raglen gyfalaf hyn rhwng 2018-19 a 2024-25. Mae hefyd yn cynnwys y dyraniad cyllidebol ar gyfer 2025-26.

⁵³ Mae'r grant buddsoddi cyfalaf ADY yn cefnogi gwaith cyfalaf, addasiadau i adeiladau, ac offer yn benodol ar gyfer dysgwyr ag ADY. Mae Llywodraeth Cymru'n asesu'r prosiectau hyn i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â blaenoriaethau ADY cenedlaethol ac yn cynnig gwerth am arian.

⁵⁴ Rydym wrthi ar hyn o bryd yn cwblhau archwiliad ehangach o'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy gan ystyried a all Llywodraeth Cymru ddangos ei bod yn cyflawni gwerth am arian.

Arddangosyn 6: Gwariant cyfalaf neu ddyraniad cyllideb gyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau penodol ar gyfer ADY, rhwng 2018-19 a 2025-26,^{2,3}



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Nodiadau:

¹ Gwariant yw'r ffigyrau ar gyfer y cyfnod rhwng 2018-19 a 2024-25, a'r dyraniad cyllidebol yw'r ffigyrau ar gyfer 2025-26.

² Mae Llywodraeth Cymru'n cyllido cyfran o gost prosiectau yn y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Mae'r gyfran hon yn amrywio gan ddibynnu ar y lleoliad a'r math o gyllid dan sylw. Nid yw'r ffigyrau'n cynnwys cyfraniadau cyngorau.

³ Er bod y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy'n gallu cefnogi cynlluniau addysg bellach, hyd yma mae'r gwariant penodol ar gyfer ADY wedi bod mewn lleoliadau ysgolion. Mae Llywodraeth Cymru'n adrodd ei bod wedi gwario neu ddyrannu £2.2 biliwn yn ychwanegol trwy'r rhaglen sy'n dwyn budd i'r holl ddysgwyr rhwng 2018-19 a 2025-26.

109 Mae Llywodraeth Cymru wedi dynodi cynlluniau ar gyfer buddsoddi £750 miliwn arall trwy'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy dros y naw mlynedd nesaf i ehangu a chreu darpariaeth ADY arbenigol. Byddai hyn yn gynydd sylweddol ar wariant ar raglenni penodol ar gyfer ADY dros yr wyth mlynedd ddiwethaf er y byddai'n parhau'n fras â'r patrwm o fwy o wariant yn 2024-25 a 2025-26.

Mae'n aneglur a fydd Llywodraeth Cymru'n parhau i ddarparu grantiau eraill i gynghorau sydd wedi cefnogi'r rhaglen i ddiwygio'r system ADY y tu hwnt i 2026-27

- 110 Y tu hwnt i'w dyraniad grant cynnal refeniw tybiannol, ers 2020-21 mae Llywodraeth Cymru wedi darparu grantiau wedi'u neilltuo i gynghorau i helpu i weithredu'r system ADY newydd. Mae **Arddangosyn 7** yn dangos, rhwng 2020-21 a 2025-26, bod Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £161.3 miliwn ar ffurf y grantiau hyn. Mae ein hofferyn data'n nodi'r dyraniadau i bob cyngor.

Arddangosyn 7: Grantiau wedi'u neilltuo gan Lywodraeth Cymru a ddyrannwyd i gynghorau i roi cymorth i weithredu'r system ADY newydd, rhwng 2020-21 a 2025-26

Blwyddyn	£ miliwn
2020-21	16.0
2021-22	29.1
2022-23	17.7
2023-24	22.7
2024-25	37.7
2025-26	38.1
Cyfanswm	161.3

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

- 111 Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau £37 miliwn arall ar gyfer y grantiau hyn wedi'u neilltuo yn 2026-27. Nid yw wedi cadarnhau eto a fydd y cyllid hwn yn parhau y tu hwnt i 2026-27 nawr bod y cyfnod pontio i'r system ADY newydd wedi dod i ben.
- 112 Yn ein gwaith maes, fe bwysleisiodd swyddogion cynghorau bwysigrwydd y grantiau hyn. Fe ddywedon nhw fod y grantiau, a ddefnyddir i gyllido swyddi ADY allweddol a pheth darpariaeth ehangach, yn cael eu hystyried yn hanfodol i sicrhau gwasanaethau ADY yn y dyfodol.

Nid yw'n glir faint, ar y cyfan, y mae byrddau iechyd yn ei wario ar wasanaethau ar gyfer dysgwyr ag ADY

- 113 Mae byrddau iechyd wedi cael cyllid grant yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r rhaglen i ddiwygio'r system ADY. Roedd lefel y cyllid yn amrywio yn ôl bwrdd iechyd ac fe'i defnyddiwyd i helpu gweithwyr iechyd proffesiynol i ddeall a chyflawni eu cyfrifoldebau dan y Ddeddf a'r Cod ADY. Daeth y grantiau hyn i ben yn 2021-22 ac rydym yn deall nad yw Llywodraeth Cymru wedi darparu unrhyw gyllid ADY arall wedi'i dargedu ar gyfer byrddau iechyd.
- 114 Fodd bynnag, mae'r darlun ar y cyfan o wariant y GIG sy'n cefnogi dysgwyr ag ADY, gan gynnwys unrhyw wariant ehangach gan y GIG o gyllidebau craidd, yn aneglur. Yn ystod ein gwaith maes, dywedwyd wrthym fod galw sy'n gysylltiedig ag ADY mewn byrddau iechyd yn cynyddu a bod angen rhagor o gyllid i'w ateb a chydymffurfio â chyfrifoldebau a graddfeydd amser statudol.
- 115 Ni ofynnwyd i fyrddau iechyd gofnodi a yw gwariant yn gysylltiedig ag ADY. Dywedodd staff byrddau iechyd y siaradom ni gyda hwy wrthym y byddai rhagor o gyllid gan Lywodraeth Cymru'n cael ei groesawu. Ond roeddent hwy o'r farn ei bod hi'n annhebygol y byddai gwariant ychwanegol yn cael ei gefnogi gan y GIG o gyllidebau presennol ymhlith pwysau ehangach ar gyllid a blaenoriaethau eraill y GIG.

Mae sefydliadau addysg bellach yn profi pwysau o ran costau oherwydd ADY hefyd

- 116 Er gwaethaf rhywfaint o fuddsoddiad ychwanegol, fe adnabu adroddiad diweddar gan Colegau Cymru ddiffyg amcangyfrifedig mewn cyllid a oedd rhwng £2 filiwn a £6 miliwn i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY.⁵⁵ Yn ein gwaith maes, clywsom hefyd am bryderon nad oedd cyllidebau Llywodraeth Cymru ar gyfer ADY mewn addysg bellach yn cynyddu yn unol â'r galw cynyddol.
- 117 Mae ffigyrau a ddarparwyd ar ein cyfer gan Lywodraeth Cymru a Medr am gyllid addysg bellach ar gyfer ADY yn cwmpasu gwahanol raglenni a chyfnodau. Er enghraifft, maent yn dangos bod colegau wedi cael cyfanswm o £2.8 miliwn rhwng 2022-23 a 2025-26 i'w helpu i baratoi ar gyfer gweithredu'r Ddeddf. Cawsant hefyd gyfanswm o £3.3 miliwn rhwng 2020/21 a 2023/24 i ddatblygu a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion cymhleth.

55 Colegau Cymru, Costau a ysgwyddwyd gan SABau wrth gyflawni'r dyletswyddau ychwanegol sy'n ofynnol dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, Diweddariad – Gorffennaf 2025, adroddiad heb ei gyhoeddi Gorffennaf 2025. Colegau Cymru yw'r corff cynrychiolaidd ar gyfer addysg bellach.

118 Fodd bynnag, ceir dwy brif ffrwd o gyllid addysg bellach sy'n berthnasol i ddysgwyr ag ADY. Mae Medr wedi ysgwyddo cyfrifoldeb am ddosbarthu'r cyllid hwn yn ddiweddar:

- **Cyllid craidd ar gyfer cymorth dysgu ychwanegol** – a gynyddodd o £13.6 miliwn yn 2019/20 i £16.7 miliwn yn 2024/25. Pennwyd dyraniad cychwynnol o £16.7 miliwn ar gyfer 2025/26 hefyd, ond gyda £3.2 miliwn ychwanegol wedi'i ddyrannu yn ystod y flwyddyn, gan gynyddu hyn i £19.9 miliwn.
- **Cyllid ar gyfer rhaglenni sgiliau byw'n annibynnol** – a gynyddodd o £12.1 miliwn yn 2020/21 i £24.4 miliwn yn 2024/25.⁵⁶

Mae Llywodraeth Cymru wedi ysgwyddo costau canolog sylweddol i gefnogi'r rhaglen i ddiwygio'r system ADY hefyd

119 Rhwng 2018-19 a 2025-26 mae Llywodraeth Cymru wedi gwario a dyrannu £20.1 miliwn tuag at ddarparu adnoddau ar gyfer trefniadau cymorth a goruchwyllo cenedlaethol ar gyfer y system ADY a phontio o'r hen system i'r system newydd (gweler **Arddangosyn 8**). Mae'r gwariant hwn yn cwmpasu ystod o bethau, megis staffio, cymorth ar gyfer dysgu proffesiynol, digwyddiadau rhanddeiliaid, a gwerthuso.

⁵⁶ Mae'r rhaglen sgiliau byw'n annibynnol yn cwmpasu dysgwyr ag ystod o anghenion. Gweler hefyd Estyn, Y Cwricwlwm Medrau Byw yn Annibynnol (MBA) mewn Addysg Bellach: Creu cwricwlwm yn seiliedig ar fedrau sy'n canolbwyntio ar unigolyn, Medi 2025.

Arddangosyn 8: Costau canolog Llywodraeth Cymru i gefnogi'r system ADY, rhwng 2018-19 a 2025-26

Blwyddyn	£ miliwn
2018-19	2.8
2019-20	2.8
2020-21	2.0
2021-22	1.6
2022-23	2.7
2023-24	2.2
2024-25	2.2
2025-26 (wedi'i gyllidebu)	3.8
Cyfanswm	20.1

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Nid yw Llywodraeth Cymru'n gwybod a yw diwygio'r system ADY wedi cyrraedd ei nod o ran bod yn niwtral o ran cost

- 120 Roedd Llywodraeth Cymru'n credu y byddai pontio i'r system ADY newydd yn niwtral o ran cost. Roedd yn disgwyl y byddai'r system newydd yn symlach ac yn llai gwrthwynebol. Roedd yn disgwyl y byddai costau ychwanegol yn cael eu gwrthbwysu gan lai o anghytundebau ac anghydfodau.⁵⁷
- 121 Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau a yw'n bwriadu adolygu'n ffurfiol i ba raddau y mae diwygio'r system ADY wedi bod yn niwtral o ran cost. Gallai hyn brofi'n anodd i'w wneud yn llawn o ystyried y diffyg eglurder ynghylch costau penodol dros amser.

57 Llywodraeth Cymru, Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r asesiad effaith rheoleiddiol a'r nodiadau esboniadol, Ionawr 2018; a Llywodraeth Cymru, Y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r rheoliadau: memorandwm esboniadol, Mawrth 2021.

Ar y cyfan, mae'r ffigyrau yr ydym wedi'u hadnabod yn yr adroddiad hwn yn awgrymu bod gwariant blynyddol cyfredol ar ADY bron yn £1 biliwn, ond bydd y wir gost yn uwch

- 122 Gyda'i gilydd, mae'r ffigyrau a nodir ym **mharagraffau 83 i 119** yn awgrymu bod gwariant i gefnogi dysgwyr ag ADY neu AAA bron yn £1 biliwn y flwyddyn ar hyn o bryd.
- 123 Fodd bynnag, rydym wedi dangos nad dyma'r darlun llawn o ran gwariant ar draws gwasanaethau cyhoeddus a hynny am nifer o resymau. Er enghraifft, nid yw rhai costau'n hysbys, ac nid yw'r ffigwr hwn yn rhoi cyfrif am gyfraniadau cynghorau i brosiectau cyfalaf. Mae hefyd yn anodd bod yn fanwl gywir gan bod rhai ffigyrau'n ymwneud â gwariant a gyllidebwyd yn hytrach na gwariant alldro neu gan eu bod ar gyfer cyfnodau gwahanol.
- 124 Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod y darlun anghyflawn hwn yn achosi anhawster wrth geisio amcangyfrif beth fydd costau gwasanaethau ADY yn y dyfodol. Ochr yn ochr â bylchau mewn gwybodaeth am ddeilliannau (gweler **paragraffau 145 i 158**), mae hefyd yn rhwystr i'r asesiad o werth am arian.

Deall perfformiad a deilliannau

Mae gan Llywodraeth Cymru nodau eglur ar gyfer y system ADY ond nid yw wedi integreiddio ADY yn llawn â newidiadau polisi eraill

- 125 Fe nododd Llywodraeth Cymru dri amcan trosfwaol ac 11 nod craidd y system ADY newydd (gweler **troednodyn 7**). Yr amcanion trosfwaol oedd creu:
- fframwaith deddfwriaethol unedig i gefnogi'r holl ddysgwyr ag ADY ar draws yr ystod oedran 0-25;
 - proses asesu, cynllunio a monitro integredig, gydweithredol sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol; a
 - system deg a thryloyw i roi gwybodaeth a chynghor, ac i ddatrys pryderon ac apeliadau.
- 126 Roedd y nodau craidd yn cynnwys mwy o gyfranogiad gan blant a phobl ifanc, dyheadau uchel a deilliannau gwell, a system symlach a llai gwrthwynebol gyda hawl eglur a chyson i apelio.
- 127 Yn ystod ein gwaith maes fe wnaethom nodi consensws ymhlith rhanddeiliaid ynghylch y nodau ar gyfer y system newydd. Roedd cytundeb cyffredinol mai system sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yw'r dull cywir.
- 128 Ceir peth tystiolaeth bod Llywodraeth Cymru'n integreiddio ADY â meysydd polisi eraill. Er enghraifft, mae cenhadaeth ein cenedl gan Lywodraeth Cymru'n nodi'n glir beth yw'r berthynas rhwng polisïau ac ymrwymïadau addysg.⁵⁸
- 129 Mae'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy'n enghraifft o sut y mae Llywodraeth Cymru wedi integreiddio ei pholisi ADY. Mae canllawiau'r rhaglen yn cydnabod yr ystod eang o anghenion a all fod gan ddysgwyr ac yn cyfeirio'n uniongyrchol at y meysydd angen eang, y ceir pedwar ohonynt, yn y Cod ADY (gweler **Atodiad 2**). Mae hefyd yn nodi goblygiadau o ran adeiladau, gan adnabod y gall fod ar rai dysgwyr ag anghenion synhwyrdd neu gorfforol angen mwy o le a 'chliwiau' ychwanegol i'w helpu i lywio drwy eu hamgylchedd.

58 Llywodraeth Cymru, Cenhadaeth ein cenedl: safonau a dyheadau uchel i bawb, Mawrth 2023

130 Fodd bynnag, mae adolygiadau eraill wedi amlygu y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi mynd yn bellach gydag integreiddio. Er enghraifft:

- Roedd adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2025 yn adlewyrchu adborth cadarnhaol gan rai ymarferwyr ynglŷn â sut y mae'r diwygiadau ADY yn ategu'r Cwricwlwm i Gymru. Ond fe amlygodd y gallai fod wedi bod o gymorth i ymarferwyr pe bai canllawiau ynghylch dulliau o ymdrin â'r cwricwlwm a gofynion y Ddeddf wedi cael eu hintegreiddio'n fwy, yn enwedig yn ystod gwaith cynharach i weithredu'r naill raglen ddiwygio a'r llall.⁵⁹
- Fe wnaeth adolygiad Estyn yn 2023 fwrw golwg ar y cynnydd yr oedd ysgolion a chynghorau'n ei wneud o ran cefnogi dysgwyr ag ADY (gweler **troednodyn 17**). Dywedodd na fu digon o feddwl cydgysylltiedig ar lefel polisi nac ar lefel ymarfer i bwysleisio'r cysylltiad rhwng y Cwricwlwm i Gymru a diwygio'r system ADY.

Mae'r system yn dal i fod yn wrthwynebol er gwaethaf tystiolaeth o beth gwelliant, gan gynnwys llai o apeliadau gerbron y Tribiwnlys

131 Un o nodau'r Ddeddf oedd creu system sy'n llai gwrthwynebol. Mae Estyn wedi gwneud sylwadau'n flaenorol ynglŷn ag agweddau ar wella dan y system ADY fwy newydd oherwydd perthnasoedd gweithio cryfach â rhieni (gweler **troednodyn 17**).


132 Fodd bynnag, mae ein gwaith maes yn awgrymu bod y system yn dal i fod yn wrthwynebol, er ein bod yn cydnabod ei bod hi'n anodd osgoi hyn yn gyfan gwbl. Dywedodd amryw sefydliadau wrthym am natur ingol cwynion, anghydfodau ac apeliadau. Dywedodd rhanddeiliaid fod y bwlch rhwng disgwyliadau ar gyfer y system ADY a'r hyn y mae'n ei gyflawni'n gallu rhoi straen ar berthnasoedd rhwng ymarferwyr, ysgolion, cynghorau, dysgwyr a theuluoedd.

133 O dan y system flaenorol, dim ond dysgwyr â datganiad oedd â hawl statudol i wasanaethau a hawl i apelio gerbron Tribiwnlys Addysg Cymru (y Tribiwnlys). Mae'r system newydd yn rhoi hawl statudol i'r rhai ag ADY gael gwasanaethau a hawl iddynt apelio. Fe wnaeth y Ddeddf hefyd estyn ystod oedran y rhai a chanddynt hawl i apelio i ddysgwyr 0-25 oed. Roedd gan y newidiadau hyn y potensial i gynyddu nifer y dysgwyr a oedd yn defnyddio llwybr y Tribiwnlys.

59 Llywodraeth Cymru, Tegwch a chynwysoldeb yn y Cwricwlwm i Gymru: astudiaeth ansoddol, Gorffennaf 2025

134 Mae **Arddangosyn 9** yn dangos bod nifer flynyddol y ceisiadau am apêl a gyflwynir i'r Tribiwnlys wedi gostwng ers cyflwyno'r system newydd. Fodd bynnag, nid yw'r set ddata ddiweddaraf ar gyfer 2024-25 ond yn cwmpasu saith mis o'r cyfnod hwnnw yn dilyn newid i'r drefn adrodd. Nid nifer y ceisiadau am apêl yw'r unig fesur pa un a yw'r system yn dod yn llai gwrthwynebol. Mae **paragraff 138** yn trafod agweddau eraill.

Arddangosyn 9: ceisiadau am apêl gerbron Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru a Thribiwnlys Addysg Cymru, rhwng 2018/19 a 2024/25



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o Adroddiadau blynyddol i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, ar gyfer y cyfnod rhwng 2018/19 a 2020/21, ac Adroddiadau blynyddol i Dribiwnlys Addysg Cymru, ar gyfer y cyfnod rhwng 2021/22 a 2024/25

Nodyn: Mae'r Tribiwnlys wedi newid ei gyfnod adrodd o flwyddyn academiaidd i flwyddyn ariannol. Bydd hyn yn sicrhau bod ei drefniadau adrodd yn cyd-fynd â threfniadau adrodd tribiwnlysoedd eraill Cymru. Nid yw'r data ar gyfer 2024/25 ond yn cwmpasu saith mis rhwng mis Medi 2024 a mis Medi 2025 i ddarparu ar gyfer y newid hwn.

135 Mae'r Tribiwnlys wedi dweud y gallai diffyg ymwybyddiaeth am hawliau apelio gyfrannu at niferoedd is gerbron y Tribiwnlys.⁶⁰ Fe adleisiwyd y pwynt yma mewn arolwg diweddar gan Lywodraeth Cymru a ganfu nad oedd 54% o rieni a gofawyr yn ymwybodol o'u hawliau i herio penderfyniadau dan y system ADY (gweler **troednodyn 20**).

60 Tribiwnlys Addysg Cymru, Adolygiad o'r Fframwaith Deddfwriaethol Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghymru – Cyfraniad gan Dribiwnlys Addysg Cymru, Medi 2025

- 136 Mae pecyn cymorth ADY newydd Llywodraeth Cymru wedi'i fwriadu i wella gwybodaeth ac ymwybyddiaeth ar gyfer rhieni a theuluoedd.⁶¹ Mae'n darparu gwybodaeth eglur, hygyrch am y broses cwynion a thribiwnlys, gwasanaethau eirioli, a gwybodaeth ehangach am y system ADY.
- 137 Mae adroddiadau blynyddol y Tribiwnlys yn amlygu themâu allweddol sy'n eistedd y tu ôl i'r data ar nifer y ceisiadau. Mae'r adroddiad diweddaraf ar flwyddyn lawn, sef yr un ar gyfer 2023/24, yn dangos bod y categorïau mwyaf y ceir apeliadau mewn perthynas â hwy'n ymwneud ag un neu fwy o blith angen, darpariaeth, neu ysgol.⁶² Byddai'r mathau hyn o apeliadau'n berthnasol i gynnwys CDU. Mae'r adroddiadau blynyddol hefyd yn amlygu nifer gymharol uchel o apeliadau oherwydd 'gwrthodiad i gymryd cyfrifoldeb am CDU' a'r cwestiwn 'a oes gan y plentyn ADY'.
- 138 Mae agweddau eraill ar anghydfodau'n anodd i'w meintoli. Ni chesglir data'n rheolaidd ar benderfyniadau ADY sy'n cael eu herio nad ydynt yn cyrraedd y Tribiwnlys. Canfu'r arolwg diweddar gan Lywodraeth Cymru o rieni a gofalwyr a grybwyllir uchod nad oedd 31% yn cytuno â phenderfyniadau a wnaed ynglŷn â'u plentyn. Roedd y gŵyn fynychaf yn ymwneud â'r penderfyniad i beidio â bod â CDU.
- 139 Roedd tystiolaeth ddiweddar a gyflwynwyd gan y Tribiwnlys i adolygiad o'r fframwaith deddfwriaethol ADY yn disgrifio'r fframwaith deddfwriaethol ADY fel un sy'n 'heriol yn ddeallusol' (gweler **troednodyn 60**). Fe wnaeth y cyfweiliadau yn ystod ein gwaith maes amlygu anawsterau yr oedd cyrff yn eu profi wrth roi'r fframwaith ar waith yng nghyd-destun anghysonderau rhwng y Ddeddf a'r Cod ADY.
- 140 Fel a amlinellwyd ym **mharagraffau 33 i 41**, ceir dulliau gwahanol o ymdrin â DDdY. Mae'r Ddeddf yn darparu diffiniad, ond nid yw'r Cod ADY yn darparu eglurder ynghylch sut y gellid ei ddehongli a'i gymhwyso. Yn dilyn ei hadolygiad o'r Ddeddf a'r Cod ADY, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi blaenoriaethau ar gyfer cam nesaf diwygio'r system ADY.⁶³ Mae'r rhain yn cynnwys eglurhau diffiniadau sy'n ganolog i'r system, o ran pwy sydd ag ADY a pha gymorth all dysgwyr ei ddisgwyl.

61 Llywodraeth Cymru, Anghenion dysgu ychwanegol (ADY): pecyn cymorth rhieni a gofalwyr, a gyhoeddwyd gyntaf ym mis Tachwedd 2025. Mae'r pecyn cymorth ar gael fel fersiwn hawdd i'w darllen hefyd.

62 Tribiwnlys Addysg Cymru, Tribiwnlys Addysg Cymru. Adroddiad Blynyddol 2023-24, Ionawr 2025

63 Llywodraeth Cymru, Adolygiad o fframwaith deddfwriaethol Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), Hydref 2025

Clywsom hanesion am brofiadau cadarnhaol a negyddol o'r system ADY

- 141 Gall barn dysgwyr a'u teuluoedd ddarparu mewnwelediadau defnyddiol wrth asesu perfformiad y system ADY ar y cyfan. Fel a grybwyllir ym **mharagraffau 135 ac 138**, fe gomisiynodd Llywodraeth Cymru arolwg o rieni a gofalwyr fel rhan o'i gwerthusiad o'r diwygiadau ADY. Roedd yr arolwg yn cynnwys, er enghraifft, gwestiynau am adnabod ADY, CDU, a boddhad gyda'r system ADY. Nid yw'n glir a fydd unrhyw ddulliau cenedlaethol pellach i gael mewnwelediadau gan ddysgwyr a theuluoedd.
- 142 Dywedodd cyrff sy'n cynrychioli dysgwyr ag ADY wrthym am eu pryderon ynghylch perfformiad y system ADY ar y cyfan. Fodd bynnag, clywsom hanesion am brofiadau cadarnhaol a negyddol gan randdeiliaid, cynrychiolwyr a chan deuluoedd.
- 143 Yn 2023, fe wnaeth allbwn ar y cyd gan Gomisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Plant Cymru amlygu heriau i ddysgwyr a theuluoedd (gweler **troednodyn 33**). A dywedodd y Comisiynydd Plant wrthym fod cyfran gynyddol o'u llwyth achosion hwy'n ymwneud ag ADY. Rhwng mis Medi 2024 a mis Awst 2025, roedd 20% (112 o achosion) o'r llwyth achosion yn ymwneud ag ADY neu AAA. Roedd themâu'n cynnwys materion gyda lleoliad, darpariaeth, CDU a chludiant.
- 144 Fe wnaeth y cyfweiliadau fel rhan o'n gwaith maes amlygu peth adborth cadarnhaol am gymhwyso'r dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Plant Yng Nghymru hefyd i gasglu tystiolaeth gan ddysgwyr mewn pedwar lleoliad ysgol.⁶⁴ Siaradodd dysgwyr am eu profiadau o'r system ADY pan oeddent yn teimlo bod eu barn wedi cael ei chymryd o ddifrif. Fodd bynnag, fe wnaeth y prosiect hefyd amlygu rhai meysydd yr oedd her yn bodoli ynddynt. Er enghraifft, roedd dysgwyr yn teimlo nad oedd ysgolion wastad yn gallu diwallu eu hanghenion wrth iddynt wynebu pwysau o ran capasiti ac adnoddau, er eu bod yn teimlo bod athrawon yn gwneud eu gorau.

64 Llywodraeth Cymru, Rhaglen Gyfranogi Plant Yng Nghymru 2024/25: Rhaglen Llysgenhadon Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), Tachwedd 2025. Sefydliad ymbarél cenedlaethol ar gyfer sefydliadau gwirfoddol, statudol a phroffesiynol ac unigolion sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd yw Plant Yng Nghymru.

Nid yw'r data sydd ar gael ond yn darparu darlun cyfyngedig pa un a yw'r system yn dwyn deilliannau da i ddysgwyr ag ADY

- 145 Fe wnaethom ystyried a yw perfformiad y system ADY yn cael ei fesur yn effeithiol. Ceir amryw drefniadau ehangach i oruchwyllo perfformiad y system addysg yng Nghymru. Fodd bynnag, nid oes dangosyddion priodol, na fframwaith cenedlaethol, ar hyn o bryd mewn perthynas â gwireddu dyheadau dysgwyr ag ADY, deilliannau gwell iddynt, nac effeithiolrwydd ymyriadau ADY. Mae'r materion hyn yn hirsefydlog ac nid ydynt yn unigryw i Gymru.⁶⁵
- 146 Yn ystod gwaith maes fe wnaethom nodi enghreifftiau o gynghorau a oedd yn amcanu at fesur deilliannau hirdymor DDdY. Fodd bynnag, fe ddisgrifion nhw anawsterau mesur deilliannau ochr yn ochr â ffactorau eraill megis tlodi a chanlyniadau pandemig COVID-19 ar gyfer addysg ac ymddygiad.
- 147 Ar lefel leol, mae gan rai o'r cynghorau yr ymgysyllton ni â hwy drefniadau i fonitro effeithiolrwydd cymorth ADY. Fodd bynnag, nid oedd consensws ynghylch y ffordd orau o adolygu cymorth ar gyfer dysgwyr a dwyn ynghyd asesiad o effeithiolrwydd i sicrhau bod deilliannau ar gyfer dysgwyr ag ADY yn cael eu cyflawni.
- 148 Pan fo CDU dysgwr annibynnol yn cael ei adolygu, mae hyn yn gyfle i gasglu gwybodaeth ddefnyddiol am y cwestiwn pa un a yw cymorth yn effeithiol. Fodd bynnag, dywedodd cynghorau wrthym am amrywioldeb yn ansawdd adolygiadau o CDU a'r modd y cydymffurfir â hwy. Cymerodd Llywodraeth Cymru gamau yn ddiweddar i wella'r sylfaen dystiolaeth mewn perthynas â phenderfyniadau ynglŷn ag ADY a CDU (gweler **troednodyn 6**).
- 149 Canfuom nad oes gan bob cyngor y cyfarfuom â hwy systemau canolog i weld cynnwys CDU a ddelir gan ysgolion. Gall systemau o'r fath alluogi swyddogion cynghorau i fod â mewnwelediadau mwy i ansawdd cychwynnol CDU ac unrhyw waith parhaus i fonitro adolygiadau neu asesiadau o effeithiolrwydd DDdY.

⁶⁵ Audit Scotland, Additional support for learning, Chwefror 2025; National Audit Office, Support for children and young people with special educational needs, Hydref 2024; Northern Ireland Audit Office, Impact Review of Special Educational Needs, Medi 2020.

- 150 Mae Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi amrywiaeth o ddata sy'n cynnwys manylder ar gyfer dysgwyr ag ADY neu AAA.⁶⁶ Fodd bynnag, mae data sydd ar gael ar ddeilliannau ar gyfer y dysgwyr hyn mewn ysgolion wedi canolbwyntio'n hanesyddol ar ganlyniadau arholiadau a chyflawniad academiaidd. Mae data arholiadau'n darparu peth gwybodaeth am gyrhaeddiad dysgwyr ag ADY, ond nid yw'n darparu darlun llawn ar ddeilliannau.⁶⁷
- 151 Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod nad yw ei data'n darparu tystiolaeth o gynnydd cyffredinol dysgwyr unigol o'u man cychwyn. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod bod pontio o'r system AAA i'r system ADY wedi effeithio ar gyfansoddiad y categori o ddysgwyr ag ADY neu AAA o un flwyddyn i'r llall. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd dod i gasgliadau o'r data cyfredol wrth edrych ar dueddiadau.
- 152 Mae gan Lywodraeth Cymru a Medr wybodaeth ar wahân hefyd am ddeilliannau dysgwyr ag ADY mewn addysg bellach. Maent yn goruchwyllo Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) sy'n casglu gwybodaeth o'r sector addysg bellach, prentisiaethau, a dysgu oedolion.⁶⁸ Mae peth o'r data hwn yn ymwneud â chymorth ADY.
- 153 Mae Medr hefyd yn cyhoeddi data ar 'gyrchfannau' dysgwyr sy'n cynnwys, er enghraifft, pa un a yw dysgwyr yn mynd ymlaen i gyflogaeth neu'n parhau i ddysgu.⁶⁹ Er bod y data hwn a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru'n helpu i ddarparu darlun o ddeilliannau ar gyfer dysgwyr ôl-16 ag ADY, nid ydynt yn darparu mewnwelediadau eglur i'r cwestiwn a yw dysgwyr ag ADY yn profi deilliannau gwell oherwydd y cymorth y maent yn ei gael.
- 154 Enghraifft arall o gasglu gwybodaeth am ddeilliannau yw trwy Cydnabod a Chofnodi Cynnydd a Chyflawniad (RARPA). Proses yw hon y gall darparwyr ei defnyddio i fesur cynnydd dysgwyr tuag at eu dewis gyrchfannau. Mae RARPA yn helpu i sicrhau ansawdd rhaglenni a dysgu nas achredir mewn lleoliadau addysg bellach arbenigol ac ar gyfer cyrsiau sgiliau byw'n annibynnol mewn addysg bellach brif ffrwd.

66 Er enghraifft, Llywodraeth Cymru, [Disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol: Medi 2024 i Awst 2025](#), Awst 2025. Llywodraeth Cymru, [Presenoldeb ac absenoldeb o ysgolion cynradd: Medi 2024 i Awst 2025](#), Tachwedd 2025. Llywodraeth Cymru, [Presenoldeb ac absenoldeb o ysgolion uwchradd: Medi 2024 i Awst 2025](#), Medi 2025.

67 Llywodraeth Cymru, [Canlyniadau arholiadau](#)

68 Llywodraeth Cymru, [Casgliadau data addysg bellach ac uwch](#)

69 Medr, [Sta/Medr/18/2025: Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16: Cyrchfannau dysgwyr, Awst 2021 i Orffennaf 2023](#), Rhagfyr 2025

- 155 Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig ffyrdd newydd o wella agweddau ar gasglu data fel rhan o'i diwygiadau addysgol.⁷⁰ Er enghraifft, mae'n cynllunio ar gyfer 'Fframwaith Dangosyddion yr Hawl i Ddysgu 14 i 16' newydd o 2027.⁷¹ Bydd y fframwaith yn nodi pa wybodaeth fydd yn cael ei chyhoeddi am bob ysgol.
- 156 Nid yw'n glir eto pa wybodaeth gyd-destunol fydd ysgolion yn ei chyhoeddi i ddarparu golwg lawnach ar brofiadau a deilliannau dysgwyr ac a fydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am y rhai ag ADY. Nid yw'r opsiynau sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd ond yn berthnasol i ddysgwyr 14-16 oed. Ymddengys fod y cwestiwn ynglŷn â mesurau deilliannau addas ar gyfer yr holl ystod oedran ADY o 0-25 y tu hwnt i gwmpas y fframwaith data newydd hwn.
- 157 Mae Llywodraeth Cymru wedi disgrifio sut y bydd newidiadau y mae'n eu gwneud mewn perthynas â data ADY 'yn helpu i gynorthwyo dysgwyr ag ADY i wireddu eu llawn botensial, yn ogystal â monitro, gwerthuso a gwella'r system ADY' (gweler **troednodyn 6**). Mae'r newidiadau'n gam cadarnhaol ymlaen. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynnwys dull manwl o wella sut y mesurir deilliannau ar gyfer dysgwyr ag ADY.
- 158 Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwerthusiad i fwrw golwg ar weithredu'r system ADY. Mae'r gwaith wedi amlygu sut y gall y system ADY newydd gyfrannu at ddeilliannau cadarnhaol ar gyfer dysgwyr, teuluoedd, a'r system addysg ehangach. Mae hefyd wedi cyflwyno ffyrdd y gallai gwybodaeth am ddeilliannau gael ei chasglu.⁷² Amser a ddengys sut y gallai Llywodraeth Cymru fesur y deilliannau hyn yn y dyfodol.

70 Llywodraeth Cymru, Datblygu ecosystem data a gwybodaeth newydd sy'n cefnogi'r system ysgolion ddiwygiedig yng Nghymru, Mai 2023

71 Llywodraeth Cymru, Adroddiad ar benderfyniadau - canlyniadau'r ymgynghoriad ar ddefnyddio data a gwybodaeth i gefnogi dysgu a gwelliant, Gorffennaf 2025

72 Llywodraeth Cymru, Gwerthusiad o'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol: adroddiad cwmpasu, Rhagfyr 2023

Argymhellion

- 159 Rydym yn ymwybodol o argymhellion eraill a wnaed mewn adroddiadau diweddar am y system ADY yng Nghymru. Rydym wedi ceisio osgoi dyblygu argymhellion sy'n bodoli eisoes. Rydym hefyd yn gwneud ein hargymhellion ni yng nghyd-destun ymgynghoriadau a/neu gamau gweithredu diweddar gan Lywodraeth Cymru ar gasglu data am ADY, rôl y CADY, ac ynglŷn â sut y mae ysgolion yn cael eu cyllido gan gynghorau i wneud pethau'n decach ac yn fwy tryloyw.

Deall y galw

- A1** Er mwyn sicrhau bod darlun cenedlaethol cliriach ynglŷn â nifer y dysgwyr ag ADY, dylai Llywodraeth Cymru gasglu a chyhoeddi data mwy cyson ar draws ystodau oedran a lleoliadau. I gyflawni hyn, bydd angen i Lywodraeth Cymru lenwi bylchau mewn perthynas â phlant ag ADY o dan oedran ysgol gorfodol yn ogystal â dysgwyr sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref. A dylai weithio gyda Medr i wella ansawdd y data ar gyfer dysgwyr ag ADY dros oedran ysgol gorfodol.

(Gweler **paragraffau 12 i 15 a 29 i 32**)

Deall capasiti a sgiliau'r gweithlu

A2 Er mwyn cael dealltwriaeth well am y gweithlu sy'n cefnogi dysgwyr ag ADY ac i roi cymorth i gynllunio ar gyfer anghenion yn awr ac yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru gytuno â rhanddeiliaid allweddol ar ddull cymesur o gasglu a monitro data ar staff sy'n cefnogi'r dysgwyr hyn. Er enghraifft, dylai hyn gynnwys data ar nifer:

- y staff yn sefydliadau'r blynyddoedd cynnar ac mewn sefydliadau addysg bellach;
- y staff a gyflogir yn uniongyrchol gan gynghorau; er enghraifft athrawon arbenigol, seicolegwyr addysg, a SAADYBC; a hefyd
- y staff arbenigol a gyflogir gan ysgolion, ysgolion arbennig, neu leoliadau eraill; er enghraifft, athrawon arbenigol dysgwyr sy'n fyddar, ag amhariad ar y golwg, neu ag amhariad amlsynnwyr a staff cymorth / cynorthwywyr addysgu ADY.

(Gweler **paragraffau 56 i 60 a 63 i 67**)

Deall costau

A3 Er mwyn sicrhau bod darlun cenedlaethol cliriach o gostau ADY, dylai Llywodraeth Cymru:

- 3.1** Arwain gwaith i gymharu a dysgu o'r ffordd y mae cynghorau'n pennu cyllidebau refeniw ADY, i roi anogaeth ar gyfer dysgu ar y cyd a dull mwy cyson.
- 3.2** Gweithio gyda chynghorau i ddatblygu fframwaith clir ar gyfer adrodd ar yr holl wariant ar ADY yn erbyn cyllidebau mewn ysgolion prif ffrwd.
- 3.3** Coladu a chyhoeddi darlun blynyddol o wariant sy'n gysylltiedig ag ADY yng Nghymru. Fel lleiafswm dylai hyn gynnwys gwariant refeniw ADY mewn ysgolion ac yn adrannau ehangach cynghorau megis cludiant, gwariant mewn byrddau iechyd ac addysg bellach, a gwariant cyfalaf ehangach ar ADY a gwariant canolog Llywodraeth Cymru.

(Gweler **paragraffau 85 i 92, 100 i 109, 113 i 119 a 122 i 124**)

- A4** Er mwyn gwella'r modd y cynllunnir gwasanaethau a sicrhau cynaliadwyedd y system ADY yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:
- 4.1** Gweithio gyda chyrff cyfrifol i adolygu gwariant i asesu a fydd cynlluniau gwariant refeniw a chyfalaf cyfredol ar gyfer ADY yn ateb y galw am wasanaethau ADY yn y dyfodol.
 - 4.2** Cyn gynted â phosibl, cyfleu penderfyniad i gyrff cyhoeddus ynglŷn â pha un a fydd grantiau a neilltuwyd i ADY sy'n rhoi cymorth ariannol ychwanegol i ddarparu gwasanaethau ADY yn parhau y tu hwnt i 2026-27.

(Gweler **paragraffau 110 i 112 a 122 i 124**)

- A5** Er mwyn sicrhau tryloywder ynglŷn â chost diwygio'r system ADY, dylai Llywodraeth Cymru, erbyn diwedd 2026-27, asesu a yw'r rhaglen ddiwygio ar y trywydd iawn i gyrraedd ei nod i fod yn niwtral o ran cost.

(Gweler **paragraffau 120 i 121**)

Deall perfformiad a deilliannau

- A6** Er mwyn casglu gwybodaeth am ddyheadau, monitro deilliannau, a chefnogi gwelliant, dylai Llywodraeth Cymru gytuno â rhanddeiliaid allweddol ar ddull cymesur o gasglu a monitro data ar ddeilliannau ar gyfer dysgwyr ag ADY. Dylai hyn gynnwys dulliau cenedlaethol rheolaidd o gasglu barn y dysgwyr hyn a'u rhieni neu ofalwyr.

(Gweler **paragraffau 141 i 158**)



Atodiadau

- 1 Ynglŷn â'n gwaith
- 2 Data ar fathau o angen
- 3 Lleoliadau ar gyfer dysgwyr ag ADY
- 4 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn

1 Ynglŷn â'n gwaith

Cwmpas yr archwiliad

Roedd ein ffocws yn bennaf ar Lywodraeth Cymru, cynghorau, a'u cylch gwaith mewn perthynas ag ADY mewn ysgolion. Fe wnaethom ystyried eu dealltwriaeth am y galw, capasiti a sgiliau'r gweithlu, costau a deilliannau.⁷³

Fe wnaethom hefyd ffurfio barn ynglŷn â rôl strategol ehangach Llywodraeth Cymru ochr yn ochr â rolau cyrff cyhoeddus eraill yn y system ADY. Felly, i raddau llai helaeth, fe wnaethom ystyried rolau darpariaeth y blynyddoedd cynnar, byrddau iechyd, a sefydliadau addysg bellach. Ni wnaeth ein cwmpas ymestyn i adolygiad manwl o bob corff â chyfrifoldebau statudol dan y Ddeddf.

Mae diwygio'r system ADY yn rhan o'r hyn sy'n tanategu amcan llesiant Llywodraeth Cymru i 'Barhau â'n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a bod safonau'n codi'.⁷⁴ Gan hynny, fe ddefnyddiom ni'r archwiliad hwn i ystyried i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni'r amcan hwnnw.

Cwestiynau a meini prawf archwilio

Cwestiynau

Fe ganolbwyntiom ni ein gwaith ar dri chwestiwn penodol:

- A oes gan gyrff cyhoeddus ddealltwriaeth dda am y galw am ddarpariaeth ADY a'r adnoddau y mae eu hangen i'w ateb?
- A oes gan gyrff cyhoeddus ddealltwriaeth dda am gostau a chynaliadwyedd darparu gwasanaethau ADY?
- A oes gan gyrff cyhoeddus ddealltwriaeth dda am berfformiad y system ADY ac a yw'n perfformio'n dda?

⁷³ Gall 'galw' fod â chysylltiadau negyddol i ddysgwyr a theuluoedd. Rydym yn defnyddio'r gair i gyfeirio at y model economaidd o gyflenwad a galw.

⁷⁴ Llywodraeth Cymru, [Rhaglen lywodraethu 2021 i 2026: Datganiad llesiant](#), Mehefin 2021

Meini prawf

Fe ddefnyddiom ni ystod o ffynonellau i ddatblygu ein meini prawf archwilio, fel a nodir isod:

- Dadansoddiad o ddogfennau strategol cenedlaethol a'n hymchwil i adolygiadau eraill sy'n berthnasol i Gymru.
- Gwaith gan gyrff archwilio eraill y DU.
- Canllawiau mewnol Archwilio Cymru, gan gynnwys ein 'dangosyddion cadarnhaol' sy'n set enghreifftiol o nodweddion sy'n disgrifio sut y gallai'r egwyddor datblygu cynaliadwy gael ei chymhwyso'n effeithiol. Fe'u datblygwyd trwy ymgysylltu â chyrff cyhoeddus ac fe'u goleuwyd gan gyngor a chanllawiau gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

Dulliau

Fe wnaethom ni'r rhan fwyaf o'n gwaith maes rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2025, gan ddefnyddio'r dulliau canlynol:

- Adolygiad o ddogfennau deddfwriaethol, polisi a chanllaw allweddol. Fe wnaethom hefyd ystyried adroddiadau a gyhoeddwyd gan gyrff eraill gan gynnwys y Senedd, Estyn ac arolygiaethau a chomisiynwyr eraill Cymru, ac ymchwil academiaidd ac ymchwil arall.
- Dadansoddi data ariannol a data arall, fel a ddisgrifir ym mhrif gorff yr adroddiad hwn ac a gymerwyd o ffynonellau eraill. Mae ein hofferyn data'n cynnwys gwybodaeth fwy manwl a dadansoddiadau. Nid ydym wedi archwilio'r data a ddefnyddiwyd gennym.
- Cyfweiliadau gyda chynrychiolwyr y canlynol:
 - Llywodraeth Cymru;
 - cyngorau Ceredigion, Rhondda Cynon Taf, Casnewydd, Abertawe, a Wrecsam, ynghyd â Grŵp ADY Rhanbarthol Gogledd Cymru sy'n cynnwys Conwy, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn;
 - y pedwar Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA) sydd, rhyngddynt, yn gwasanaethu ardaloedd pob un o'r saith bwrdd iechyd yng Nghymru;
 - mudiadau'r trydydd sector gan gynnwys aelodau o Gynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector (TSANA), cynghrair o fudiadau'r trydydd sector sy'n cynrychioli ystod eang o blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol; a
 - rhanddeiliaid eraill o fyd addysg gan gynnwys Tribiwnlys Addysg Cymru, Estyn, Medr (y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil), a Colegau Cymru.

Ym mis Chwefror 2026, fe rannom ni'r canfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg yng nghyfarfod gweithgor a sefydlwyd gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru sy'n bwrw golwg ar gostau'r system ADY.

2 Data ar fathau o angen

Fel cefndir i'r mathau o anghenion sydd gan unigolion, mae'r Cod ADY yn cydnabod bod ystod eang o anawsterau dysgu neu anableddau. Fodd bynnag, mae'n dosbarthu anghenion yn fras i bedwar maes:

- Cyfathrebu a rhyngweithio.
- Gwybyddiaeth a dysgu.
- Ymddygiad, a datblygiad emosiynol a chymdeithasol.
- Synhwyrdd a/neu gorfforol.

Arddangosyn 10: adroddiadau ar ADY neu AAA yn ôl y math o angen mewn ysgolion a gynhelir, 2024/25

Math o angen	Nifer y dysgwyr ag ADY neu AAA	% o'r holl ddysgwyr ag ADY neu AAA
Anawsterau iaith, lleferydd a chyfathrebu	15,875	36.2
Anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol	14,845	33.8
Anhwylder ar y Sbectrwm Awstistiaeth (ASD)	10,975	25.0
Anawsterau dysgu cymedrol	9,305	21.2
Anawsterau corfforol a meddygol	3,785	8.6
Anawsterau dysgu difrifol	3,280	7.5
Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywigrwydd (ADHD)	2,400	5.5
Dyslecsia	2,305	5.3
Amhariad ar y clyw	1,135	2.6
Anawsterau dysgu dwys a lluosog	975	2.2
Amhariad ar y golwg	750	1.7
Amhariad amlsynhwyrdd	335	0.8
Dyspracsia	330	0.7
Dyscalcwlia	165	0.4

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth Cymru, [Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion: Ionawr 2025](#)

Nodyn: Gall dysgwyr fod â mwy nag un angen wedi'i gofnodi felly mae'r niferoedd yn fwy na chyfanswm nifer y dysgwyr ag ADY.

3 Lleoliadau ar gyfer dysgwyr ag ADY

Arddangosyn 11: enghreifftiau o leoliadau ar gyfer dysgwyr ag ADY

Lleoliad	Disgrifiad
Ardaloedd atodol	Ardaloedd mewn ysgolion prif ffrwd sydd wedi'u bwriadu at ddibenion ychwanegol, er enghraifft cymorth ADY.
Canolfan adnoddau arbennig	Man pwrpasol mewn ysgolion prif ffrwd sydd wedi'i fwriadu i gefnogi dysgwyr ag anghenion penodol. Gallai anghenion dysgwyr gynnwys anghenion iechyd.
Darpariaeth ag adnoddau arbennig	Cyfleusterau mewn ysgolion prif ffrwd i ddysgwyr ag anghenion dysgu neu gorfforol penodol. Mae'r cyfleusterau hyn yn wahanol i unedau dynodedig am eu bod yn caniatáu i ddysgwyr dreulio'r rhan fwyaf o'u hamser mewn ystafelloedd dosbarth prif ffrwd.
Darpariaeth amgen	Lleoliadau sy'n gallu gwneud lle i addysg ar gyfer dysgwyr sydd, am amryw resymau, yn methu â mynychu ysgol brif ffrwd.
Mannau pontio	Ardaloedd yn adeilad ysgol i helpu dysgwyr i symud rhwng gweithgareddau, tasgau neu lwybrau gwahanol.
Unedau dynodedig	Lleoliadau mewn ysgolion prif ffrwd sydd wedi'u bwriadu ar gyfer dysgwyr ag anghenion penodol. Er enghraifft, dysgwyr ag amhariad ar y lleferydd, iaith neu amhariad ar y synhwyrau.
Ysgolion arbennig	Ysgolion sy'n amcanu at ddarparu'n fwy penodol ar gyfer dysgwyr sy'n debygol o fod ag anghenion mwy cymhleth. Gall ysgolion arbennig gael eu cydleoli ag ysgol brif ffrwd, bod wedi'u gwasgaru ar draws nifer o safleoedd, neu gynnwys cyfleusterau helaeth sy'n cynnig dysgu arbenigol neu alwedigaethol. Mae gan yr holl ddysgwyr yn y lleoliadau hyn CDU neu ddogfen gyfatebol. Ceir amrywiad eang rhwng y lleoliadau hyn mewn perthynas ag ystod oedran, nifer y dysgwyr a'r ddarpariaeth/anghenion a ddiwellir.

Ffynhonnell: Crynodeb Archwilio Cymru yn seiliedig ar ddogfen Llywodraeth Cymru, [Canllawiau arwynebedd ar gyfer ysgolion yng Nghymru: canllawiau adeiladau](#), Mawrth 2025

4 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn

Term	Disgrifiad
Addysg Heblaw Yn Yr Ysgol (EOTAS)	Darpariaeth ar gyfer dysgwyr o oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn gallu cael addysg addas oherwydd afiechyd, gwaharddiad neu am reswm arall. Gall hyn gynnwys uned cyfeirio disgyblion, ysgol annibynnol, neu diwtora gartref a gyllidir gan y cyngor. Nid yw'n cynnwys y rhai sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref.
Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)	System flaenorol yng Nghymru a'r polisi blaenorol ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol. Fe wnaeth y Ddeddf ddisodli'r termau 'AAA' ac 'AAD' ag ADY.
Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau (AAAA)	Yn Lloegr, mae AAAA yn cyfeirio at blentyn neu berson ifanc (0-25 oed) a all fod angen mwy o gymorth na phlant o'r un oedran i wneud y cynnydd disgwylidig. Gallant fod â Chynllun Addysg, Iechyd a Gofal. Deddf Plant a Theuluoedd 2014, Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r Cod ymarfer AAAA: 0 i 25 oed yw'r fframwaith statudol.
Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn nodi'r diffiniad o ADY. Mae'n nodi: - bod gan blentyn neu berson ifanc ADY os yw'n cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran, neu os oes ganddo anabledd sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant o fath a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu golegau; ac - o dan oedran ysgol gorfodol, bod gan blentyn ADY pe bai'r plentyn yn debygol o berthyn i'r naill neu'r llall neu'r ddau o'r disgrifiadau uchod pe na bai darpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei gwneud pan fydd yn cyrraedd oedran ysgol orfodol.
Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 (y Cod ADY)	Ynghyd â'r Ddeddf, mae'n sefydlu'r system statudol ar gyfer diwallu ADY plant a phobl ifanc.

Term	Disgrifiad
Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY)	Mae'r Cod ADY yn nodi gwybodaeth am y rôl. Rhaid i bob ysgol brif ffrwd a gynhelir a sefydliad addysg bellach ddynodi person, neu fwy nag un person, sy'n gyfrifol am gydlynu darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY.
Cynllun Datblygu Unigol (CDU)	Cynllun statudol a gyflwynwyd gan y Ddeddf ar gyfer dysgwyr ag ADY. Dylai CDU gynnwys: • manylion personol dysgwr; • disgrifiad o'u ADY; • y DDdY sy'n ofynnol; • cyfrifoldebau am ddarparu DDdY; a hefyd • trefniadau adolygu. Ysgolion neu golegau sy'n dal CDU fel arfer. Cynghorau fydd yn gyfrifol am y CDU tra bo'r DDdY yn gymhleth neu dan amgylchiadau penodol, er enghraifft plant sy'n derbyn gofal, plant dan bum mlwydd oed, a'r rhai sy'n mynychu coleg arbenigol.
Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY)	Y cymorth sy'n ychwanegol at, neu'n wahanol i, yr hyn sydd ar gael yn gyffredinol i eraill o'r un oedran mewn meithrinfeydd, ysgolion prif ffrwd neu golegau. Caiff unrhyw gymorth addysg i blentyn dan dair oed ei ddiffinio fel DDdY.
Datganiad o AAA	O dan y ddeddfwriaeth flaenorol, gallai ysgolion ofyn am asesiad statudol gan y cyngor os oedd pryderon yn parhau ynghylch cynnydd dysgwr a hwythau wedi bod trwy'r camau gweithredu gan yr ysgol a gweithredu gan yr ysgol a mwy. Y cyngor fyddai'n penderfynu a ddylid cyhoeddi datganiad o AAA a'r cyngor oedd yn gyfrifol am sicrhau bod adnoddau ar gael ar gyfer y ddarpariaeth yn y datganiad. Roedd y datganiadau i gyd yn cael eu dal gan gynghorau. Ystyrid bod y datganiadau'n cael eu cyhoeddi ar gyfer dysgwyr â'r anghenion mwyaf cymhleth.
<u>Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (y Ddeddf)</u>	Fe wnaeth hon sefydlu fframwaith statudol newydd ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag ADY. Fe ddisodlodd ddeddfwriaeth mewn perthynas ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ac asesu plant a phobl ifanc ag anawsterau dysgu a/neu anabledau mewn addysg a hyfforddiant ôl-16.

Term	Disgrifiad
'Gweithredu gan yr ysgol' anstatudol a 'gweithredu gan yr ysgol a mwy' anstatudol	Roedd deddfwriaeth flaenorol yn darparu ar gyfer ymateb graddedig i AAA yng Nghymru, gan gynnwys: • gweithredu gan yr ysgol – byddai'r athro/athrawes yn darparu gweithgareddau y tu hwnt i'r rhai a ddarperid fel rhan o arlwy gwricwlaidd wahaniaethol arferol yr ysgol; a • gweithredu gan yr ysgol a mwy – byddai'r ysgol yn gofyn am help a chynghor ychwanegol gan wasanaethau cymorth allanol a ddarperid gan y cyngor a/neu asiantaethau eraill.
Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynnyddoedd Cynnar (SAADYBC)	O dan y Ddeddf, rhaid i gynghorau ddynodi swyddog â chyfrifoldeb am gydlyn swyddogaethau ar gyfer plant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgolion a gynhelir. Mae'r Cod ADY yn darparu rhagor o wybodaeth am rôl y SAADYBC.
Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA)	Y SACDA sy'n gyfrifol am gydlyn swyddogaethau bwrdd iechyd mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag ADY. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd fod â SACDA.
Tribiwnlys Addysg Cymru (y Tribiwnlys)	Mae'r Tribiwnlys yn disgrifio ei hun fel un sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch apeliadau am ADY neu AAA a hawliadau am wahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion. Y Tribiwnlys yw'r enw newydd ar Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru gynt ers 1 Medi 2021.

Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd ar gyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cyngorau a chyrff llywodraeth leol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar y modd y mae'r sefydliadau hyn yn defnyddio adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir am Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.



Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Adroddiad Archwiliad Gofal Cartref

Diweddariad i'r Pwyllgor Archwilio (Ebrill 2026)

Yn y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 28/11/2024, cyflwynwyd adroddiad *Archwiliad Arbennig Gofal Cartref* gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Nodwyd yn yr adroddiad fod y model comisiynu gofal cartref yn uchelgeisiol, a bod heriau sylweddol o ran ei weithredu.

Canfuwyd nad oedd rhai prosesau'n effeithiol, gan gynnwys y defnydd a'r rheolaeth o ddata, yn ogystal â monitro a rheoli cyllidebau. Nodwyd hefyd fod angen mynd i'r afael â'r materion hyn yn gyflym. Gofynnwyd i'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ddarparu diweddariad pellach ar y camau oedd ar y gweill.

Cyflwynwyd diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 06/02/2025. Derbyniwyd yr adroddiad, a chroesawodd y Pwyllgor y rhaglen waith. Fodd bynnag, gofynnwyd am ddiweddariad pellach ymhen blwyddyn. Mae'r adroddiad hwn yn darparu'r diweddariad cryno hwnnw.

Llwyddiannau a Datblygiadau

- i. Yn 2025, roedd sawl is-ardal yng Ngwynedd yn peri pryder, gan nad oedd darparwyr yn gallu ymateb i'r galw am ofal. Mewn dau is-ardal, mae'r cytundebau wedi'u terfynu, a rhoddwyd trefniadau newydd ar waith gyda darparwyr amgen. Er bod y broses hon wedi galw am gryn dipyn o amser ac adnoddau, mae wedi bod yn llwyddiannus. Mae darpariaeth gofal yn yr ardaloedd hyn bellach yn fwy sefydlog, gyda llai o bobl ar restrau aros.
- ii. Pryder sylweddol arall oedd nifer yr oriau gofal oedd yn cael eu talu ond heb gael eu darparu'n uniongyrchol. O dan y trefniant bloc, roedd disgwyl i ddarparwr, er enghraifft, ddarparu 500 awr o ofal yr wythnos, ac roedd taliad yn cael ei wneud ar gyfer yr holl oriau hynny. Pan nad oedd darparwr yn gallu darparu y nifer hwnnw o oriau, roedd y broses o addasu'r blociau'n gymhleth ac yn anhyblyg, ac felly am gyfnodau estynedig roedd yn ymddangos fod oriau 'gwastraff' yn cael eu talu.

O ganlyniad i'r rhaglen waith, mae nifer yr oriau nad ydynt yn mynd tuag at ofal uniongyrchol wedi lleihau'n sylweddol – o dros 1,000 o oriau y mis ar ddechrau 2025–26 i lai na 500 awr y mis erbyn Mawrth 2026. Mae hyn yn cyfateb i arbediad o tua £20,000 y mis, naill ai oherwydd nad yw'r oriau hyn bellach yn cael eu talu yn sgil monitro a lleihau'r oriau bloc, neu oherwydd eu bod yn cael eu hailgyfeirio at ddarparwyr sy'n gallu darparu gofal uniongyrchol. Er bod cynnydd clir wedi'i

wneud, mae un ardal yn parhau i achosi heriau, ac mae trafodaethau'n parhau yno. Mae'r cytundebau yn cyfyngu ar ein gallu i gael gwared ar yr oriau yma yn gyfan gwbl.

- iii. Mae sefyllfa debyg i'w gweld yn y timau darparu mewnol. Ceir adegau yn ystod y dydd pan fo'r galw am ofal yn gymharol isel (er enghraifft, rhwng 2 a 4 o'r gloch y prynhawn). Yn hanesyddol, roedd patrymau shift y gweithlu'n golygu bod gormod o staff yn gweithio yn ystod yr oriau hyn, a ddim digon ar gael pan fo galw uwch. Mae newidiadau i batrymau gwaith bellach ar y gweill yn ardaloedd Ffestiniog a Thywyn, a disgwylir i'r rhain arwain at well cydweddiad rhwng yr oriau staffio a'r anghenion gofal.
- iv. Roedd yr adroddiad gwreiddiol hefyd yn nodi pryderon ynghylch taliadau hwyr a rheolaeth gyllidebol annigonol. Mae'r trefniadau bellach wedi'u diwygio, gyda thimau gwaith cymdeithasol yr is-ardaloedd yn cymryd mwy o gyfrifoldeb dros adolygu'r taenlenni a gyflwynir gan ddarparwyr. Mae hyn yn galluogi'r timau i adnabod ac ymateb yn gynt i unrhyw fylchau neu wallau yn y data. Mae'r Tîm Comisiynu a Chontractau'n cefnogi ac yn hwyluso'r broses hon. O ganlyniad, mae gwybodaeth am ddarpariaeth gofal yn fwy cywir, ac mae taliadau'n cael eu gwneud yn fwy prydlon ac yn fwy cyson.
- v. Yn dilyn o'r adroddiad llechen lan oedolion, mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i gryfhau ein gallu i ddiwallu anghenion mewn ffyrdd amgen, lle nad oes angen gofal cartref traddodiadol. Mae cynnydd wedi bod yn y nifer o becynnau sy'n cael eu darparu drwy daliadau uniongyrchol, cynnydd yn y niferoedd sydd yn gwneud defnydd o dechnoleg yn y cartref, ac mae'r tim hybu annibyniaeth wedi ei sefydlu gyda arweinydd wedi ei benodi i arwain y tîm. Bydd y tîm yn canolbwyntio ar feysydd fel taliadau uniongyrchol, technoleg, roboteg ayyb gan hybu ein gallu i wneud y mwyaf o'r opsiynau yma.

Heriau

Er bod y rhestrau aros am ofal cartref wedi'u diddymu neu'u lleihau'n sylweddol mewn rhai ardaloedd (megis Ardudwy, Pwllheli a Thywyn), maent yn parhau'n uchel mewn is-ardaloedd eraill, gan gynnwys Ffestiniog a Nantlle. Serch hynny, mae llai o bobl bellach yn disgwyl am gyfnodau estynedig, er enghraifft dros 90 diwrnod. Mae gwaith penodol ar y gweill i flaenoriaethu'r unigolion hyn, ac mae trafodaethau'n parhau i ddenu darparwyr ychwanegol o ardaloedd cyfagos i helpu i leddfu'r pwysau. Mae ymdrechion a thrafodaethau lleol yn y timau ardal i ganfod cyfleoedd i ryddhau oriau ar gyfer unigolion sy'n aros.

Mae recriwtio a chadw staff yn parhau'n her sylweddol ar draws y sector. Yn fewnol, mae lefelau salwch yn her, ond yn gyffredinol ar draws y sector mae recriwtio o dramor wedi bod yn helpu i gynnal y sector dros y blynyddoedd diwethaf. Ers 22/07/2025, nid yw'n bosibl i ddarparwyr recriwtio gweithwyr o dramor. Mae unigolion sydd eisoes wedi symud i Wynedd o dramor i weithio yn y sector yn sicr o'u cyflogaeth hyd at 2028 yn unig, ac o ganlyniad mae rhai'n ystyried eu dyfodol yma yng Ngwynedd. Er gwaethaf ymdrechion lleol, gan gynnwys datblygu'r Academi Gofal, mae'r lefel bresennol o ddibyniaeth ar weithwyr o dramor yn awgrymu nad yw hon yn broblem y gellir ei datrys ar lefel leol yn unig. Mae hyn yn cynrychioli risg sylweddol i'r sector yn gyffredinol, ac i ofal cartref yn arbennig.

Camau Nesaf

Mae'r cytundebau gofal cartref presennol yn dod i ben ym mis Hydref 2027. Mae gwaith wedi cychwyn yn gwerthuso'r model presennol a'r ffordd y darperir gofal cartref yng Ngwynedd.

Dros y misoedd nesaf, bydd y Tîm Comisiynu yn parhau i ymgysylltu â defnyddwyr gofal cartref a'u teuluoedd, unigolion sy'n aros am ofal, y gweithlu proffesiynol, gweithwyr gofal, darparwyr a rhanddeiliaid eraill er mwyn casglu adborth a thrafod opsiynau.

Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo gyda chynghorau eraill sydd wedi treialu modelau tebyg, er mwyn rhannu profiadau a dysgu o arfer da. Disgwylir cyflwyno rhestr fer o opsiynau i'w gwerthuso erbyn diwedd yr Hydref, gan roi digon o amser i baratoi ar gyfer unrhyw newidiadau posibl i'r model a'r cytundebau. Nod hyn oll yw sicrhau bod y Cyngor yn y sefyllfa orau bosibl i ddarparu gofal cartref cynaliadwy ac effeithiol i drigolion Gwynedd.

Blaenraglen y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hyd Ebrill 2027

21 Mai 2026

Ethol Cadeirydd

Ethol Is-Gadeirydd

Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2025/26

Cyfrifon Drafft Harbyrau Gwynedd am y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026

Cyfrifon Terfynol 2025/26 – Alldro Refeniw

Rhaglen Gyfalaf 2025/26 – Adolygiad Diwedd Blwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2026)

Adroddiad Chwarterol Rheolaeth Trysorlys

Cynnyrch Archwilio Mewnol

Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol 2025/26

Trothwyon Caffael ac Addasiadau i'r Rheoliadau Gweithdrefn Contractau

Cynllun Gwaith Archwilio Cymru (Cyfrifon Gwynedd a GwE)

Adroddiadau Archwilio Cymru a'r Ymateb Sefydliadol

Diweddariad Archwiliad Arbennig – Gofal Cartref

Blaenraglen y Pwyllgor

9 Gorffennaf 2026

Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor

Rhaglen Ddatblygu'r Pwyllgor

Datganiad o Gyfrifon Cyngor Gwynedd am y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2026
(Amodol ar Archwiliad)

Datganiad Llywodraethu Blynyddol Cyngor Gwynedd ar Gyfer 2025/26

Rheolaeth Trysorlys 2025/26

Cyfrifon Terfynol GwE am y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2026 a'r Archwiliad
Perthnasol

Trefniadau Rheoli Risg Cyngor Gwynedd

Trefniadau'r Cyngor i Ymdrin â Chwynion

Adolygiad o gapasiti y Gwasanaeth Archwilio Mewnol

Adroddiadau Archwilio Cymru a'r Ymateb Sefydliadol

Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2025/26

Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol

Blaenraglen y Pwyllgor

29 Medi 2026

Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor

Cyfrifon Terfynol Harbyrau Gwynedd am y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026 (*os oes angen*)

Adroddiad Perfformiad Blynyddol ac Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2025/26

Cynllun Ariannol Tymor Canolig

Adroddiad Risg Hanner Blwyddyn

Diweddariad Chwarterol Rheolaeth Trysorlys

Adroddiadau Archwilio Cymru a'r Ymateb Sefydliadol

Argymhellion Adroddiad Perfformiad gan Banel ac ymateb y Cyngor (*neu 22 Hydref*)

Blaenraglen y Pwyllgor

22 Hydref 2026

Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor

Cyllideb Refeniw 2026/27 – Adolygiad Diwedd Awst 2026

Rhaglen Gyfalaf 2026/27 – Adolygiad Diwedd Awst 2026

Trosolwg Arbedion: Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion

Rheolaeth Trysorlys 2026-27 Adolygiad Canol Blwyddyn

Cynnyrch Archwilio Mewnol

Cynllun Archwilio Mewnol 2026/27

Adroddiadau Archwilio Cymru a'r Ymateb Sefydliadol

Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol

Blaenraglen y Pwyllgor

4 Chwefror 2027

Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor

Cyllideb Refeniw 2026/27 – Adolygiad Diwedd Tachwedd 2026

Rhaglen Gyfalaf 2026/27 – Adolygiad Diwedd Tachwedd 2026

Trosolwg Arbedion: Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion

Diweddariad Chwarterol Rheolaeth Trysorlys

Arbedion 2027/28

Strategaeth Gyfalaf 2027/28 (yn cynnwys Strategaethau Buddsoddi a Benthg)

Cyllideb 2027/28

Adroddiadau Archwilio Cymru a'r Ymateb Sefydliadol

Blaenraglen y Pwyllgor

Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol

15 Ebrill 2027

Gweithredu Penderfyniadau'r Pwyllgor

Adolygu Rhaglen Waith Hunanasesiad y Pwyllgor

Adroddiad Risg Hanner Blwyddyn

Cynnyrch Archwilio Mewnol

Adroddiad Blynnyddol Pennaeth Archwilio Mewnol 2026/27

Siarter Archwilio Mewnol

Cynllun Archwilio Mewnol 2027/28

Adroddiadau Archwilio Cymru a'r Ymateb Sefydliadol

Blaenraglen y Pwyllgor